Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

22913 f. 5

101

# DRYCH

Y

# PRIF OESOEDD;

YN DDWY RAN:

RHAN I. sy'n traethu am hen Ach y Cymry, o ba le y daethant allan; y Rhyfeloedd fu rhyngddynt a'r Rhufeiniaid, y Brithwyr, a'r Saeson; a'u Moesau cyn troi yn Gristionogion.

RHAN II. sy'n traethu am Bregethiad a Chynydd yr Efengyl yn Mrydain, Athrawiaeth y Brif Eglwys, a Moesau y Prif Gristionogion.

GAN Y PARCH.

THEOPHILUS EVANS,

GYNT FICER LLANGAMARCH, YN NGWLAD FUELLT, A DEWI, YN MRYCHEINIOG.

YN NGHYD A RHAGARAITH

GAN YR HYBARCH JOHN WILLIAMS, A. C.,

ARCHDDIACON CEREDIGION.

"Ystyriais y dyddiau gynt, blynyddoedd yr hen oesoedd."
SALM lxxvii. 5.

CAERFYRDDIN:

W. SPURRELL. LLUNDAIN: HUGHES, ST. MARTIN'S-LE-GRAND.

MDCCCLI.

BODLEIAN
P
17 OCT 1936
LIBRARY

# RHAGARAITH.

Un o'r cymwynasau mwyaf gwasanaethgar, a ellir ei gyflawni, tuagat ddwyn ymlaen yr ysbryd athrylithgar sydd yn awr yn cynhyrfu hiliogaeth y Cymry, ydyw adgyhoeddi argraffiadau rhâd o'r cyfansoddiadau a fuont yn offerynau yn yr oesoedd blaenorol i drosglwyddo hyfrydwch ynghyd a gwybodaeth i feddyliau ein hynafiaid.

Ymhlith y traethodau a ysgrifenwyd oddeutu can mlynedd yn ol, "Drych y Prif Oesoedd" gyda phriodoldeb a gymeradwyir yn fawr: Yr ysbryd, purdeb yr iaith, a'r tarawiadau gwir farddonol a geir ynddo ydynt yr un mor effeithiol i dynu sylw yr ieuanc fel yr hen, y dysgedig fel yr annysgedig. Ni ddylai y darllenydd ddysgwyl gwybodaeth o amgylchiadau y cyn oesoedd ynghyd ag hanesyddiaeth ein cenedl mewn un modd mor berffaith ag yr ydym yn ei gael drwy oleuni y dydd presenol. Ni ddylai hefyd dderbyn fel ffeithiau diamheuol lawer o'r chwedlau digrif a adroddir gyda'r fath fedrusrwydd gan y Parch. Theophilus Evans.

Ond er hyny, fe geir y gwaith yn fuddiol ac yn ddiddorawl dros ben, a thuedd ynddo i arwain y darllenydd ieuanc i chwilio am gyfryngau ereill mwy cyson a chywir tuagat goethi ei feddwl ac ehangu ei wybodaeth; am hyny gobeithiaf y bydd i lafur Mr. Spurrell gael ei goroni a llwyddiant yn yr argraffiad newydd a ddygir o flaen y cyhoedd: y mae y llyfr yn rhad, ei argraffiad yn rhagorol, a theilynga ledaeniad ehelaeth.

JOHN WILLIAMS,

*Archddiagon Ceredigion.*

## GAIR AM YR AWDWR A'I WAITH.

---

"Ystyriais y dyddiau gynt, blynyddoedd yr hen oesoedd," ebe'r Salmydd; felly hefyd y meddyliodd ac yr ysgrifenodd Theophilus Evans, gyda golwg ar y llyfr hwn o hanes yr hen amser. Erbyn heddyw y mae hi wedi myned yn "ddyddiau gynt" gyda golwg ar yr awdwr ei hun a'i helyntion. Ydyw, ydyw, y mae, ddarllenydd anwyl. Llawer tro ar fyd sydd wedi dygwydd er pan syrthiodd ein hawdwr i'r llwch; tô ar ol tô sydd wedi ymddangos ac wedi myned heibio er pan yr oedd efe yn ei flodau; yn wir y mae gwyntoedd ac ystormydd pedwar ugain gauaf a rhagor wedi chwythu dros ei fedd, o'r cribog fryniau cyfagos, yn eu holl nerth a'u trychineb.

Hoffem yn fawr iawn wybod mwy o hanes ysgrifenwr "Drych y Prif Oesoedd" nag y sydd ar gael yn awr. Y mae'r fath arabedd naturiol a swyn yn ei frawddegau, fel yr ydym braidd yn meddwl weithiau wrth ddarllen ei lyfr, mae gwrando'r ym ar ryw wron wedi dianc o'r cynoesoedd yn adrodd yn gyffrous ei anffodau, ei ryfeloedd, a'i helyntion o bob math. Nis gallwn fel hyn lai na charu a pharchu un yn medru hwylio ei ysgrifell mor fedrus. Fe fuasai'n rhyw bleser mawr i ni gael haner diwarnod o gymdeithas y fath gydymaith. Fe roisem lawer am gael cip-olwg arno yn ei wisgoedd offeiriadol ar fore Sul, a chlywed ei lais yn seinio "Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Sabaoth," yn hen gan Sant Ambros.

Ond nid gwiw i ni freuddwydio am bethau fel hyn; nid oes genym chwaithach hyn, na darlun, na delw *(bust)* o Ficer Llangamarch, er ein bod wedi cael ein bendithio a chofiantau, a bucheddau, a darluniau bron yn ddiddiwedd o bersonau na chlyw-wyd son am danynt allan o'r llefydd yn mha rai yr oeddynt yn blaguro tra buont byw, ac am ba rai ni theimla neb awydd yn awr wybod dim yn neillduol.

Eto, er gwaetha'r cwbl, y mae genym ryw faint o hanes yr ysgolhaig a'r hynafiaethydd enwog hwn; a dywenydd mawr yw i ni allu ei osod i lawr yma, fel y bo ar gof a chadw o dan yr un cloriau a'r *Drych*.

Un o Sir Aberteifi o enedigaeth oedd y Parchedig Theophilus Evans; yn wir y mae ffraethineb a llithrigrwydd tafodiaith pobl Glan Teifi yn eithaf amlwg yn ei ysgrifeniadau. "Yn mhob gwlad y megir glew," medd yr hen ddihareb; ïe, yn wir, felly y mae'n bod; ond tybiwn fod Ceredigion wedi rhoddi genedigaeth i fwy o ddynion o argraff a chymeriad Mr. Evans nag un swydd arall yn y Dywysogaeth yma.

Yr oedd Mr. Evans yn hanu o deulu cymeradwy, yn byw yn Pen-y-wenallt, yn agos i Gastell Newydd-yn-Emlyn. Ei dadcu, Evan Griffith Evans, a lysenwid yn ei amser "*Captain Tory, who for his king fought and bled,*" oddiwrth, mae'n ddigon tebyg, ryw frwydrau neu gilydd y bu ynddynt. Gan nad beth am frwydrau Evan Griffith Evans, yr ydym yn

sicr fod ysbryd milwraidd yn y teulu, canys yr ydym yn cael fod un o'i ŵyrion, brawd awdwr "Drych y Prif Oesoedd," yn dala'r swydd o Gapten —y Capten John Evans, o Ben-y-wenallt; heblaw fod awdwr y *Drych* ei hun yn rhoddi digon o le i ni gasglu fod gwaed coch y Brython yn rhedeg yn ei wythenau.

Pummed mab Charles Evans, mab Evan Griffith Evans, Pen-y-wenallt, oedd Theophilus Evans. Ganwyd Theophilus yn y flwyddyn 1694, y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Gwilym y Trydydd. Bydd yn dda i'r darllenydd ieuanc gofio fod hyn yn nghylch naw mlynedd ar ol genedigaeth y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, ac felly fod Person Llanddowror yn gydoeswr a'n hawdwr. Yr oeddynt, y mae'n ddigon tebyg, yn adnabyddus a'u gilydd, er nas gallwn ar hyn o dro roddi sicrwydd ar y pen hwn. Fe gofia'r cyfarwydd mewn hanesyddiaeth, mai dyma'r amser y pallodd amryw o esgobion eglwys Loegr gymeryd llw o ffyddlondeb i'r brenin, ac o herwydd hyny, collasant hwy, yn nghyd a llawer o offeiriadon eu swyddi yn y Sefydliad. Yn y flwyddyn 1698, hefyd, y sefydlwyd y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol, yr hon a dalodd lawer o sylw i'r Dywysogaeth, ac yn mhlith aelodau cyntaf pa un, yr ydym yn canfod amryw yn gysylltiedig a Chymru. Dyma'r amser, ynte, yr anadlodd Theophilus Evans gyntaf.

Wedi myned trwy y parotoad gofynol, urddwyd ef yn Ddiacon yn 1718, ac yn Offeiriad mewn llawn urddau yn 1719, gan esgob Tyddewi ar yr amser hwnw. Ei guradiaeth gyntaf oedd Tir yr Abad, yn Nghantref Buallt, Brycheiniog, plwyf bach eithaf pellenig ac anadbyddus. O Dir yr Abad, neu Llanddulas, fel hefyd y gelwir y lle, fe symudodd i Lanlleonfel, plwyf yn agos i Langamarch. Yn 1728, rhoddodd esgob Tyddewi iddo rectoriaeth fechan Llanynys, yr hon fu yn ei ddwylaw am ddeng mlynedd—hyd nes y cafodd Langamarch. Yn 1739, cafodd eglwys Sant Dewi, Llanfaes, Aberhonddu. Rhoddodd Langamarch i fynu yn 1763, i'w fab-yn-nghyfraith, y Parch. Hugh Jones; ond daliodd Sant Dewi tra y bu byw. Bu Mr. Evans yn briod. Ei gymhares oedd Alice, merch i Morgan Evan neu Bevan, o Gelligaled, yn Sir Forganwg. Cafodd bump o blant—tri mab, a dwy ferch. Un o'r merched a briododd a'r Parch. Hugh Jones, i ba un, fel y dywedasom yn barod, y rhoddodd ei dad-yn-nghyfraith Langamarch i fynu; a'r hwn wedi hyny a'i newidiodd am ficeriaeth Llywel. Mab i'r Parch. Hugh Jones, ac ŵyr i'r Ficer, oedd Theophilus Jones, Yswain, yr hynafiaethydd, awdwr "Hanes Sir Frycheiniog," yr hwn a dreuliodd lawer o'i faboed gyda ei dadcu.

Yn y flwyddyn 1767, yr ymadawodd y Parch. Theophilus Evans a'r byd hwn; ei ŵyr Theophilus Jones a fu fyw hyd y flwyddyn 1812. Claddwyd hwynt ill dau yn mynwent Llangamarch.

Yn ngwlad Brychan, fel y gwelwn, y dechreuodd Theophilus Evans ei weinidogaeth, ac yn yr un ardal y bywioliaethodd wedi hyny hyd ei fedd. Dywedir wrthym mai'r peth a'i tynodd yno gyntaf oedd y cyfeillgarwch oedd yn hanfodi rhwng Gwyniaid y Garth, pobl fawr yn Sir Frycheiniog, a'r Llwydiaid, hen fonedd, y penaf, coeliwn, yr amser hwnw, yn Sir Aberteifi, llys pa rai oedd Plas Maes-y-felin, ger Llanbedr-pont-Stephan. Eu dylanwad hwy a berodd i fab Pen-y-wenallt, yr hwn oedd wedi cyhoeddi yr argraffiad cyntaf o'r *Drych* oddeutu dwy flynedd cyn iddo gael ei urddo, i ymsefydlu yn Sir Frycheiniog. Bu Theophilus yn gyfaill gwresog i deulu y Garth tra bu byw. Dyma'r lle goreu, efallai, i roi gair

bach i mewn yn nghylch Theophilus Jones. Yr ydym wedi gweled iddo dreulio llawer o'i faboed gyda'i dadcu; ond lled ieuanc oedd pan y bu'r Ficer farw. Fe ymddengys i Mr. Jones gymeryd sylw neillduol o'r diweddar enwog hynafiaethydd ac ysgrifenydd, y Parch. Thomas Price (Carnhuanawc), awdwr "Hanes Cymru," pan oedd yn fachgenyn. Rhoes Carnhuanawc, pan yn yr Ysgol Rammadegol yn Aberhonddu, gynorthwy i Mr. Jones tuag at ei "Hanes Sir Frycheiniog" gyda golwg ar hanesion amryw leoedd a theuluoedd.* Felly y mae Theophilus Jones fel rhyw dorch gysylltiadol rhwng yr hen haneswr a anwyd yn y ddwyfed-ganrif-ar-bymtheg a'r enwog Carnhuanawc, yr hwn mewn cydmhariaeth sydd ond wedi newydd lithro i'r ceufedd! Yr oedd yn ddiau gan Theophilus Jones lawer i ddywedyd am ei dadcu wrth Carnhuanawc, ac yr oedd yn ddiamhau gan Carnhuanawc lawer i adrodd am y ddau. Dywedir mai wrth wrando ar Herodotus yn adrodd ei Histori yn gyhoeddus y cyffrowyd ysbryd ac awyddfryd Thucydides i ysgrifenu hanes o'r un fath. Yn yr un modd efallai mai darllen "Drych y Prif Oesoedd" a gynhyrfodd yn mab Ficer Llanwrthwl yr ysbryd hynafiaethol ac ymchwiliadol a'i gwnaeth yn Garnhuanawc. Ond rhaid ymattal ar y pen hwn a myned yn mlaen.

"Drych y † Prif Oesoedd" a ymddangosodd gyntaf yn 1716; ail argraffiad o hono, gyda llawer o ychwanegiadau, a gyhoeddwyd yn 1740. Yn nghylch yr un amser, fe gyhoeddodd lyfr arall, o dan yr enw "Pwyll y Pader," sef esboniad neu gomment ar Weddi'r Arglwydd, mewn amryw o bregethau. Oddeutu pymtheg mlynedd cyn ei farwolaeth, cyhoeddodd yn Saesonaeg "Hanes Penboethni Diweddar" (History of Modern Enthusiasm); ail argraffiad o ba un a ymddangosodd mewn ychydig o flynyddau. Dygwydd mawr yn awr yw cwrdd a "Phwyll a Pader" a "Hanes Penboethni Diweddar," gan fod llawer o amser wedi myned heibio er pan argraffwyd hwynt. Y mae'r offeiriad, yn yr *Hanes*, yn trin sectariaid o bob math yn dra llym, ond y mae yn dwyn yn mlaen eu hawdwyr hwy eu hunain i ddangos eu hegwyddorion. Cymaint a hyna am "Bwyll y Pader" a "Hanes Penboethni Diweddar."

Cyhoeddwyd, fel yr ydys wedi crybwyll yn barod, yr argraffiad cyntaf o "Drych y Prif Oesoedd" yn y flwyddyn 1716, pan nad oedd yr awdwr ond ieuanc mewn cydmhariaeth. Mae yn syndod mor lleied sydd wedi ei wneyd yn y rhan hon o lëenyddiaeth yn Nghymru oddiar hyny hyd yn awr, tra y mae y Saeson wedi eu cyfoethogi ag hanesion Gibbon a Hume, a llawer ereill, pa rai a ymddangosasant ar ol ail argraffiad y *Drych*.

Yr oedd awdwr y *Drych* yn ddios yn ysgolhaig medrus; yr oedd yn ddarllenwr diwyd; medrai ysgrifenu Lladin yn rhugl ddigon, yr hyn sydd yn gryn gamp i Gymro; yr oedd yn gyfarwydd a hen lyfrau o wahanol ieithioedd, fel yr ymddengys oddiwrth y nodau yn y *Drych*. Nid dywedyd rhywbeth er antur y mae, ond gesyd ar lawr ei awdurdod, er efallai fod ei farn yn nghylch amryw bethau yn gamsyniol. Y mae ei ddulwedd yn fath ag y cynghorem i efrydwyr ac ysgrifenwyr ieuainc i astudio ac i efelychu; nid rhywbeth mursenaidd diflas yw, ond y mae yn rhedeg yn rhwydd ac yn naturiol, yn gymhwys i foddhau a difyru'r darllenydd yn gystal a'i addysgu. Mor fywiog ac argraffol yw ei ddesgrifiad o ddyfodiad y Rhufeiniaid. Y mae'r darllenydd yn barod i feddwl ei fod wrth ddarllen

* Gwel yr Haul am Ionawr, 1849, tudal 18.

† *Prif*, hyny yw, cyntaf, boreuol, *primitive*.—Y Brif Eglwys, *the Primitive Church*.

yn gweled yr hen Cæsar a'i Rufeiniaid yn ymgynddeiriogi wrth ganfod mor bybyr a dewr yr oedd y Brythoniaid yn ymladd dros eu gwlad. Y mae pin yr ysgrifenydd fel yn anadlu'r digter a'r blinder a deimlai wrth feddwl am dwyll y Sacsoniaid a ffolineb y Cymry yn amser Hengist. Y mae ei hanes am athrawiaeth y Brif Eglwys, a moesau y prif Gristionogion, yn dangos ei fod yn gwerthfawrogi ac yn coleddu ysbryd yr hen dduwiolion. Yr arferion a'r defodau a osodir i lawr yn y rhan hon o'r gwaith, ydynt yn siamplau godidog i Gristionogion y dyddiau presenol.

Dyma ni ar hyn o achlysur wedi dibenu a "Drych y Prif Oesoedd" *Meddiant byth-barhaus*,* ys dywedodd yr hen haneswr Groegaidd, yn ddiau yw i'r Cymry. Yr ydym yn ymadael ag ef ar hyn dro fel a chydymaith hoff, ac yn ei gymeradwyo i ti, y darllenydd, fel dyddanwch teuluaidd, i dy ddifyru, dy addysgu, a'th lesoli. Ar ol ei ddarllen, y Cymro mwyn, os dygwydd i ti byth ar dy hynt fyned trwy bentref Llangamarch, tro i mewn i'r fynwent i weled claddle Theophilus Evans. Ni chai weled yno, yn wir, golofn ardderchog o bres, neu faen o farmor gwyn cerfiedig, fel ag i ddenu sylw'r teithiwr; ond ti a ganfyddi, mewn cornel cul o'r fynwent, ddwy lech lwyd lyfn, wedi eu cloddio, digon tebygol, o un o'r mynyddau cyfagos, un wedi ei gosod ar y fan lle y gorwedd yr hen offeiriad, yr ysgolhaig, yr hynafiaethwr—awdwr "Drych y Prif Oesoedd," a'r llall ar fedd ei ŵyr o'r un aidd, doniau, ac ysbryd ag ef ei hun, Theophilus Jones, o Aberhonddu, awdwr "Hanes Sir Frycheiniog." Heddwch i ysbrydoedd yr hen bererinion! Iechyd a llwyddiant i tithau, ddarllenydd.

*Caerfyrddin, Calan Hydref*, 1851.

* Κτῆμα ἐς ἀεὶ.
THUCYDIDES.

## NAMES OF SUBSCRIBERS TO THE PRESENT EDITION. L. L. 1851.

The Right Reverend The Lord Bishop of St. David's. 2 copies
Lady Hall, Llanover. 2 copies
Bowcott, Rev. Richard, Perpetual Curate of Bettws, Carmarthenshire
Bowen, J. W., Esq., Carmarthen
Bowen, Mr. William, junr., Cwmynys, Llanegwad
Bowen, Mr. Richard, Wernmackwith
Brigstocke, Thomas, Esq., 22, James-st., Buckingam Gate, London
Davies, Rev. John, Llanhowel, Solfa, Pembrokeshire
Davies, Rev. Thomas, Vicar of Llangadock
Davies, Rev. Thomas, M.A., Dihewyd
Davies, Mr. David, Henllan Amgoed
Davies, Mr. David, Presbyterian College, Carmarthen
Davies, Mr. Evan, Carmarthen
Davies, Mr. John, King-street, Carmarthen
Davies, Mr. John, Abergwilly
Davies, Mr. Rees, Maesyffynnon
Davies, Mr. Rhys S., Brynhafod, Carmarthenshire
Davies, Mr. Robert, Llansannan, Denbigh. 3 copies
Davies, Mr. T. D., Briton Ferry Ironworks
Davies, Mr. Thomas, Penyrhiw, Llanon
Davies, Mr. Thomas, Llwyncalenig
Davies, Mr. Thomas, Auctioneer, Pantyfedwen
Davies, Mr. W., Draper, Nott-Square, Carmarthen
Dowton, G., Esq., Audit Office, Somerset House, London
Edmunds, William, Esq., Vice-President of the Carmarthen Training College. 2 copies
Evans, Rev. Daniel Silvan, Bottwnog, Pwllheli
Evans, Rev. David, Rector of Llanllwchaiarn, Cardiganshire
Evans, Rev. David, Vicar of Aberafon
Evans, Rev. Evan, Blaenpennal
Evans, Rev. John, St. John's, Pontyberem
Evans, Rev. John, St. John's, Llanelly
Evans, Rev. Rees, Curate of Llandilo

Evans, Rev. Simon, Penygroes
Evans, Rev. Titus, Unitarian Minister, Carmarthen
Evans, Rev. William, B.C.L., Vicar of Rhayader
Evans, Mr. David, Caregwyddon, Lampeter
Evans, Mr. John M., Presbyterian College, Carmarthen
Evans, Mr. T. L., National School, Bettws, Llandilo
Evans, Mr. William M., Seren Cymru Office, Carmarthen
Gardnor, Richard, Esq., Carmarthen
Griffiths, Rev. George, Conwil
Griffiths, Rev. James, Vicar of Llangunnor, Welsh Chaplain to the Bishop of Saint David's. 2 copies
Griffiths, Rev. J., Cwmaman, Carmarthenshire
Griffiths, Rev. John, Vicar of Llangeler, Carmarthenshire
Griffiths, Mr. D., Cwmafon. One dozen copies
Griffiths, Mr. William, Bwlchtrap
Harries, Rev. W., Cilrhedin
Harries, Henry, Esq., Rhiwlwyd, Llanfihangel-ar-arth
Harries, John, Esq., Llandilo
Harries, Richard, Esq., Carmarthen
Harries, Mr. Griffith, jun., Carmarthen
Harris, Mr. Henry, Cabinet-maker, Carmarthen
Herbert, Rev. William, Llansantffraid, Aberayron
Howell, Rev. Geo., Rector of Llangattock, Breconshire
Howell, Mr. David, Druggist, Carmarthen
Hughes, Messrs. R. and Son, Wrexham. One dozen copies
Hughes, Mr. William, Brynberllan
Hughes, John, Esq., Alltlwyd
Jacob, Mr. W., Bethlehem, Llandilo. 2 copies
James, Capt. John, St. Clears
James, Mr. Lewis, Nantwyrglodd, Pembrokeshire
Jenkins, Mr. Evan, Llangeler National School
Johnes, Mrs., Peterwell
Jones, Rev. Daniel, Abergwilly
Jones, Rev. John (Tegid), Nevern
Jones, Rev. Michael D., Bwlchnewydd
Jones, Rev. Samuel, Perpetual Curate of Eglwysfair Glantâf
Jones, Rev. T., Wesleyan Minister, Cardiff

Jones, Rev. W. Basil, M.A., Queen's College, Oxford
Jones, John Rhys, Esq., Llandovery. 2 copies
Jones, Mr. David, Bethlehem
Jones, Mr. James, Carmarthen
Jones, Mr. John, King-street, Carmarthen
Jones, Mr. John, Merchant, Rhydlewis, Cardiganshire
Jones, Mr. Rees, National School, Llandeloy, Solva
Jones, Mr. Thomas, Carmarthen Tinworks
Jones, Mr. Thomas, College, Abergwilly
Jones, Mr. Thomas, Ffynnoniago, Llanllawddog
Joseph, Mr. William, Presbyterian College, Carmarthen
Lawford, T. W., Esq., Tirydail
Lewis, Rev. John, Vicar of Llanrhystid, Cardiganshire
Lewis, Rev. Lewis T., Llansantffraid-Glynceiriog, Llangollen
Lewis, J. L. G. P., Esq., Henllan, Pembrokeshire
Lewis, Mr. Henry, Amman School
Lewis, Mr. Thomas, Carmarthen Gas Works
Lloyd, Rev. David, L.L.D., Carmarthen
Lloyd, Mr. James, Cross, Carmarthen
Morgan, Rev. E., Llandyssil, Cardiganshire
Morgan, Rev. L., Llandebie
Morgan, Mr. David, Merchant, Machynlleth
Morris, Mr. J. (Iago Glan Tâf), Brecon College
Nicholls, Rev. W. T., Llanfihangel Cilfargen, Llandilo-fawr
Oliver, Rev. Henry, B A., Pontypridd
Owen, Mr. W., Cardiff. 12 copies
Palmer, Mr. Sior, Presbyterian College, Carmarthen
Phillips, Rev. Charles, M.A., Incumbent of St. Matthew's, Camden Town, and Lecturer of St. Swithin's, London
Powell, Rev. William Henry, Pantycelyn
Powell, Rev. Thomas John, A.M., Cantreff, Brecon
Price, Rev. Howel, Aberpergwm
Price, Mr. William, Glantwrch
Pring and Price, Messrs., Mold. 4 copies
Rees, Rev. John, Llangan, Carmarthenshire
Rees, Rev. W. J., M A., Cascob Rectory, Radnorshire
Rees, Mr. David, Grocer, Carmarthen

Rees, Mr. Evan, Llanafon, Llanllwny
Rees, Mr. John, Newcastle-Emlyn
Rees, Mr. Levi, Rhydygaeau
Rees, Mr. Robert Oliver, Dolgelly. 3 copies
Rees, Mr. William, Llandovery. Two dozen copies
Rees, Mr. William, Buffalo, Carmarthen
Richards, Mr. R. W., Draper, Carmarthen
Roberts, Rev. Henry, B.A., Llangyndeyrn
Roberts, Mr. Thomas, Builder, Llanstephan
Rowlands, James, Esq., Carmarthen
Rowlands, Thomas, Esq., Llandovery
Rowlands, Mr. John, Schoolmaster, Llandebie
Samuel, Mr. David, Weaver, Carmarthen
Samuel, Mr. John, Pensarn
Sinnett, Rev. John, Rector of Bangor, Cardiganshire
Sinnett, Mr. James, Ystradteilo
Spurrell, George, Esq., Carmarthen
Thomas, Rev. Griffith, Vicar of St. Mary's, Cardigan
Thomas, Rev. R. J. H., M.A., St. Peter's, Hammersmith, London
Thomas, Rev. Thomas, B.A., St. David's, Carmarthen
Thomas, Rev. William, Capel Isaac, Llandilo
Thomas, Thomas, Esq., Parcau, Henllan, Carmarthenshire
Thomas, William, Esq., Pantygof, Llanllawddog, Carmarthenshire
Thomas, W. Gwynne Stedman, Esq., Carmarthen
Thomas, Mr. Benjamin, Watchmaker, Carmarthen
Thomas, Mr. David, Training College, Carmarthen
Thomas, Mr. John, Currier, Carmarthen
Thomas, Mr. Thomas, Confectioner, Carmarthen
Wayne, Matthew, Esq., jun., Carmarthen
Watkins, Rev. Thomas, M.A., Rector of Llansantffraid, Brecon. 3 copies
Williams, Rev. David Archard, Incumbent of St. David's, Carmarthen
Williams, Rev. David, Vicar of Llanwnen and Siliau
Williams, Rev. Rees, Rector of Vaynor
Williams, Rev. Walter Jones, Ystradgunlais Rectory
Weatherhead, Mr. J. S., Lampeter. 3 copies
Williams, Mr. David, Builder, Carmarthen
Williams, Mr. Lewis J., Presbyterian College, Carmarthen

# CYFLWYNIAD, &c., I'R ARGRAFFIAD CYNTAF.

---

## REVERENDO ADMODUM IN CHRISTO PATRI, ADAMO,* DIVINA PERMISSIONE EPISCOPO MENEVENSI.

Reverende admodum præsul,

NON sum nescius, quod majora mihi propono quam æquum est, dum nomen tuum, antistes dignissime, huic opusculo inscribere ausus sum. Sed cum in hoc ævo sagaci invaluit consuetudo, ut nihil pene a calamo doctissimo scriptum, nedum a meo, sine Mœcenatis alicujus asylo in medium proferatur, hoc exile cœptum, patrono aliquo destitutum, non solum a more alienum foret, sed male etiam processurum videretur. Sed ea est vitæ tuæ spectata integritas, is animi candor, et ut verbo dicam, ea videtur esse tuorum apud omnes orthodoxos meritorum estimatio, ut si cujusquam alius nomen præfixum, tuum, reverendissime præsul, hoc tenue opusculum a malevolorum injuria incolume salvumque satis præstare potest. Hæ igitur lucubratiunculæ, quales quales sunt, tuum solius patrocinium ambiunt, pro certo sperantes, liberum facilemque aditum in mundo esse adepturas, sub clientela tuâ in lucem emissas.

Hic libellus, illustrissime præsul, res Britannicas complectitur. Prima pars de Cambro-Britannorum origine narrat, et bellorum cum Romanis, Pictis, et Saxonibus gestorum, specimen exhibet, nec non et morum, et idololatriæ majorum antequam lumen evangelii eis illuxisset. Secunda pars de prædicatione et cursu evangelii in hâc regione nostra Britannicâ usque ad nonum a Christo incarnato sæculum disserit, cum majores nostri (heu flebile dictu) a priscâ fide decesserunt, et labe Romanæ hæresios contaminati fuerint. Et ut cœptum opus quam multum prodesset, quantum in me est, addidi de episcopis, præsbyteris, et diaconis, de modo administrandi baptismum et cœnam Domini, de modo adorandi Deum publice et privatim, nec non et mores sanctissimos Christianorum in purâ illâ ecclesiâ primævâ. Et hoc spero Cambricis nostris non inutile fore, dum videant ecclesiam nostram Anglicanam, ut non a SS. Scriptura, ita ne minimum quidem a prisca illa ecclesia catholica recessisse; adeo, ut Anglicana (ut cum Cl. Beverigio dicam) merito primitiva nuncupetur ecclesia, ultimis hisce temporibus rediviva.

Bene scio nullum meorum laborum, etiam si summâ vi enixe contendi, talem Mæcenatem dignissimum, qualem te, præsul illustrissime mereri. Sed ut scio, te non quicquam spreturum esse, quod ad ecclesiæ Dei ornamentum conducat, huic tam exili cœpto te non omnino dedignari spero. Merito S. Davidi, succedis; quia sicut ille (teste historiâ Britannica) fuit

* Adam Ottley, D.D., Esgob Tyddewi.

pastor ecclesiæ fidissimus, religionis orthodoxæ propugnator acerrimus, pius, sanctus, et in omni cœpto serenus admodum et placidus: Ita tu omnino, adeo ut si quis vitam tuam integerrimam, et egregias animi dotes perpendat, in te virtutes omnes de palma decertare, jure proclamaret. Modestiam tuam lædere metuo, si diutius in laudum justarum præconio immorarer, et quid de te ab omnibus fertur, longiore sermone prædicarem. Faxit Deus, ut Menevia nostra nunquam tali episcopo careat, cum tu tandem e militanti, in qua tantâ laude præsides, ad triumphantem, cui tantopere anhelas, ecclesiam evehuris. Quod revera, et ex animo optat

Reverentiæ tuæ Cultor,

Servusque Humillimus

THEOPHILUS EVANS.

## AT Y DARLLENYDD.

Pa fodd bynag y bernir yn nghylch hyn o waith, e fu'n orchwyl llafurus i mi ei gyfansoddi. Canys nid cyfieithiad ydyw hwn, lle nid yw raid i fyfyrio dim, ond peri'r awdwr siared iaith arall, ond pigion a gasglwyd o'r awdwyr gorau hên a diweddar a ysgrifenasant ar y testun y mae'r llyfryn hwn yn traethu. Ac yr wyf yn tybied nad yw y fath waith a hwn yn anfuddiol; canys wrth ddarllen yn y rhan gyntaf, chwi a gewch weled modd y bu hi, gyda'n hynafiaid o amser bwygilydd, a'r rhyfeloedd y fu rhyngddynt ag amryw genedloedd. ·Yma y cewch weled bortreiad amlwg o ffrwythau pechod, a'r gwahanrhedol effaith rhwng buchedd dda, a dyhirwch buchedd, "rhwng yr hwn a wasanaetho'r Arglwydd, a'r hwn nis gwasanaetho ef." Yma y cewch weled, tra fu ein hynafiaid yn gwneuthur yn ol ewyllys yr Arglwydd, na thyciai ymgyrch un gelyn yn eu herbyn: ond pan aethant i rodio yn ol cynghorion, a childynrwydd eu calon ddrygionus, "Y dieithr ag oedd yn eu mysg a ddringodd arnynt yn uchel uchel, a hwythau a ddiscynasant yn isel isel." (Deut. xxviii. 43.)

Yn yr ail ran chwi a gewch nid yn unig hanes am bregethiad yr efengyl ym Mrydain, a pha ddamwain bynag a ddygwyddodd mewn perthynas i grefydd, ond dysgyblaeth ac athrawiaeth y brif eglwys hefyd, fel y gwypid pa fodd yr oeddid yn trin pethau santaidd yn yr amser gwynfydedig hwnw, pan oedd crefydd yn ei phurdeb, yn ddigymysg a dim traddodiadau ofergoelus. Ac y mae'n ddiogel genyf fod y fath orchwyl a hwn yn waith buddiol i bwy bynag a'i hystyrio'n bwyllog, yn ol cynghor yr Ysbryd Glân, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, sefwch ar y ffyrdd, ac edrychwch, a gofynwch am yr hen lwybrau, lle mae ffordd dda, a rhodiwch ynddi; a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau." (Jer. vi. 16.) Ond os dywed rhai (megys y sawl y mae'r Arglwydd yn achwyn arnynt yno) "Ni rodiwn ni ynddi," bydded y perygl arnynt eu hunain.

O bydd dim peth a fynegir yma yn anfoddloni rhai, ac yn annghymodol a gogwyddiad eu barn, gosodent y bai arnynt eu hunain, nid arnaf fi. Canys ni amcenais i y traethawd hwn i foddloni archwaeth pob math o ddynion, trwy wyrdröi gwaith y tadau i faentumio opiniynau neillduol, neu berarogli heresi trwy ddywedyd tangnefedd lle nad oedd dim, ond fy ngwir amcan i oedd dywedyd y gwirionedd yn ddiragrithiol, deued a ddelai o hyny. Ac yr wyf yn dystio (fel y mae i mi roddi cyfrif o hyny) na wyrdroais i un dystiolaeth a grybwyllir yma, trwy beri'r awdwr siared yn amgen nag oedd efe yn feddwl. Myfi a wyddwn mae un o'r chwech peth sydd gâs gan yr Arglwydd, oedd "Tyst celwyddog yn dywedyd celwydd." (Diar. vi. 19.) Ac na fyddai gwaith twyllodrus, ond sommedigaeth aflesiol a darfodedig; ond y byddai'r gwirionedd wneuthur daioni, i adeiladu, ac i barhau byth; canys "Gwefus gwirionedd a saif byth; ond tafod celwyddog ni saif fynyd awr." (Diar. xii. 19.)

Ond er hyny, e fydd rhai ar antur yn petruso roddi coel i'r cwbl a adroddir yma, rhag na welais i yr holl awdwyr a grybwyllir yn y llyfr hwn, ond eu cymeryd a'r onestrwydd hwn ac arall sydd yn crybwyll dim o honynt. Yr wyf yn ateb, pan ymosodais gyntaf yn nghylch y gwaith hwn, dyna'r ffordd yn wir a gymerais: pan welwn enw un o dadau'r eglwys,

tybiais fod hyny yn ddigonol, ac nad oedd ond gwaith afreidiol i mi ymofyn am ychwaneg o eglurder. Ond wedi i mi gael golwg ar waith y tadau eu hun—O brawf gresynol o anonestrwydd athrawon annghall! O fel yr oeddid yn dirdynu ac yn dadgymalu meddwl ac ystyr y tadau! O lofruddiaeth gwaeth nag eiddo'r paganiaid eu hun, canys ni ddarfu iddynt hwy ond lladd eu cyrff, ond yr ydys yr awr hon yn darnio llafur eu heneidiau, sef y llyfrau godidog a adawsant a'r eu hôl! Ac yno mi a fwriedais a gwrolfryd diysgog na fyddai i mi fyned dim ym mhellach y ffordd hono. "Yr Arglwydd sydd noddfa i'r gorthrymedig; noddfa yn amser trallod. Llawenychaf a gorfoleddaf ynot, canaf i'th enw di y Goruchaf. Oblegid ti a oleuaist fy nghanwyll. Yr Arglwydd fy Nuw a lewyrchodd fy nhywyllwch." (Ps. ix. 9, 2., xviii. 28.)

Ac am hyny yr wyf yn tystio i mi weled gan mwyaf yr holl awdwyr a grybwyllir yma, er nad wyf i berchenog arnynt. Cefais rydd-did i fyned pân y mynwn i'r llyfrgell fawr odidog sy'n perthyn i ysgol rydd tref y Mwythig, lle mae'r holl gôflyfrau argraffedig ag sy'n crybwyll am helynt o Brutaniaid, yn ynghyd a gwaith y tadau yn gyfan-gwbl. Ac od oes yma ar antur ambell awdwr nid ellais ei weled, myfi a'i cymerais megys ac y mae gwŷr onest dysgedig yn dwyn ei dystiolaeth. Bellach, O ddarllenydd, dos rhagot yn ofn Duw, gweithia allan dy iechydwriaeth drwy ofn a dychryn, ymdrecha hardd-deg ymdrech y ffydd, eto gwybydd "na choronir neb ond y sawl a ymdrech yn gyfreithlawn." (2 Tim. ii. 5.) Dos yn y blaen gan hyny, fel Christion union-gred. "Na thwyller di ag eiriau ofer." (Eph. v. 6.) Na fydd gyfranog "a'r annysgedig a'r anwastad sydd yn gwyrdröi yr Ysgrythyrau." (2 Pet. iii. 16.) Ond megys "gwr deallus a rodia'n uniawn," (Diar. xv. 21.) na wna "ddim yn erbyn y gwirionedd, ond tros y gwirionedd." (2 Cor. xiii. 8.) Yr hyn ar i ti ei wneuthur, yw gwir ddymuniad

Dy wasanaethwr gostyngeiddiaf,

THEOPHILUS EVANS.

Medi 12fed, 1716.

## BARN MR. WILLIAM LEWES, O LWYNDERW, O FEWN SIR GAERFYRDDIN, YN NGHYLCH Y LLYFR HWN.

NID oes un genedl oddifewn i gred, nac un oddifewn i barthau ereill y byd, ag sydd a moesau dinasol iddynt, onid oes ganddynt ryw gynenid ewyllysgarwch i wybod o ba gyff y daethant allan, a'r amrafael ddamweiniau a ddygwyddodd i'w hynafiaid o amser bwygilydd. A'r neb a fyddai ag addysg llythyrol ganddynt a osodent y pethau hyny mewn cofysgrifen yn eu hiaith eu hun, er tragywyddol goffâu gweithredoedd eu hynafiaid, ac er cyfarwyddid i'r tô a ddeuai.

Nid allaf esgusodi (yn anad neb ryw genedl) ddiofalwch a syrthni'r Cymry yn hyn o beth; o herwydd nad oedd un o honynt a ysgrifenodd ddim o hanesion y Brutaniaid, er ys pump neu chwech cant o flynyddoedd (hyd y gwn i) yn yr iaith Gymraeg, ond Mr. Charles Edwards yn unig, yn y llyfr a elwir Hanes y Ffydd, yr hwn sy'n crybwyll ryw ychydig yn fyr ac yn lled dywyll yma ac acw, yn nghylch helynt ein hynafiaid, a phregethiad yr efengyl gyntaf yn Mrydain.

I gyflawni y diofalwch a'r esgeulusdra hwn, y cymerodd y gwr ieuanc dysgedig o Geredigion, yn Neheubarth Cymru, awdwr y traethawd sy'n canlyn, y boen a'r llafur i chwilio llyfrau hen a diweddar mewn amryw ieithoedd, er gosod allan hanes gyflawn o weithredoedd yr hen Frutaniaid. A hyny a wnaeth efe mor effeithiol fel y bu hi'n achlysur llawenydd i mi weled traethawd mor ddysgedig yn dyfod allan yn ein hiaith ein hun, yr hwn sydd yn cynwys ynddo pa beth bynag sydd fuddiol a chyflëus i wybod o ran llys a llan a ddygwyddodd i'n hynafiaid. Y mae ei drefn yn llwybraidd ac yn daclus; y mae ei iaith yn gywrain ac yn ddiledryw; y mae ei hanes yn gywir, ac yn cytuno yn berffaith a'r awdwyr a grybwyllir ynddo. Ar fyr eiriau, efe a gyfansoddwyd gyda'r fath gywreinrwydd ac uniawnder barn, fel na wn i a oes un llyfr a ysgrifenwyd mewn un iaith pa un bynag yn nghylch helynt y Brutaniaid, sydd yn ei ragori.

Mi allwn ychwanegu yn nghylch yr annghenrhaid, a'r mawr lesâd sydd oddiwrth y fath waith godidog, ag ydyw'r llyfr hwn; ond pwy bynag a'i darlleno'n ystyriol, a gydnebydd trwy brofiad boddlon-gar, fod y cyfryw orchwyl yn cyfranu nid ychydig i ddyrchafu gwybodaeth, ac i hyfforddi dynion yn nghylch y wir ffydd, a'r grefydd Gristionogol: ac yno chwi a welwch i'r awdwr dysgedig wneuthur daioni nid bychan i bawb o'i gydwladwyr. Os caniatêwch, fy anwyl gydwladwyr, i dderbyn hyn o flaenffrwyth ei lafur ef yn roesawgar, chwi a'i hannogwch ef (os ceneda Rhagluniaeth iechyd ac einioes iddo) i dreulio ei amser yn ewyllysgar, i'ch gwasanaethu a rhyw draethawd arall, ar a fyddo yn fuddiol i helaethu eich gwybodaeth; yn y cyfamser, byddaf

Eich gwasanaethydd caredig,

WILLIAM LEWES.

## *In Laudem Auctoris.*

Hoc opus ornatum, quod scripsit candidus auctor
Accipiat lector, mente volente, pius.
Nil ago si laudem coner cantare laboris,
Ingeniique tui; sed liber ipse facit;
Quippe liquet nobis, nullus monstrare volumen
Quod linguâ nostrâ, nobile tale potest.
Hic liber a primâ deducit origine Cambros,
Bellorumque rubens nunc specimen specitur.
Hic quoque tractantur fidei vestigia Christi,
Gentibus his postquam notificata semel.
Sæculaperque novem quodcunque bonique, malique,
Accidit, auctor habet, pandit ubique liber.
Denique tu studiis altis (dignissime) perge,
Progressum Dominus, prosperet atque tuum.

JOHANNES BOWEN, MEDICINÆ PROFESSOR.

---

## *Y Pennillion uchod yn Gymraeg.*

DERBYN fel dyfyn difar—wych hwylus
A chalon 'wyllysgar;
Heddyw oes ged addysg wâr
Bwnc ammod heb un cymhar.

Ond gosod da glod (deg lydan—rwydeb),
Yr awdwr nai thraian;
Loew a'i synwyr lwys anian:
Dull ry gaeth nid all yr gân.

Y llyfr sydd ddeunydd enwawg—ei hunan
Am hyny'n ardderchawg,
Llesol yw a lliosawg;
Addysg i'r hyddysg y rhawg.

Amlwg i'n golwg ni a'i gwelwn—fyth
Heb ei fath addefwn;
Gorchestol gwir a chwestiwn,
Rhagorol haeddol yw hwn.

Traethawd clau eurwawd clir—sy i goffâu
Holl gyffion llin gywir,
Y Brutaniaid brwd henwir,
Eu haraith talaith a'i tir.

Dangosir profir y pryd—arbenig
Derbyniai'n gwlad hefyd
Ffydd Crist ddi-drist dda edryd,
A'i ffyniant, clau lwyddiant clyd.

Holl ddamwain Brydain waith brau—iawn acen,
Er naw cant o flwyddau,
A dangos gloew achos glau,
Hwyl antur eu helyntiau.

Dos rhagod, cei glod y gwledydd—a'i mawl
Am elwog waith beunydd;
Ffyddlon d'amcanion cynydd,
Gair mwy na pharch grym ein ffydd.

J. R.

---

*Englynion o waith Bardd arall.*

LLYMA Ddrych haelwych hylwydd—cainfoddau
Cof eiriau cyfarwydd;
Drych i'r wlad yn ddi-waradwydd;
Drych enwog iawn rhywiog rhwydd.

Dengys trwy'n hynys ar hynt—hanesion
Hen oesoedd a helynt
Y gwŷr dewrion gwychion gynt,
Amyl oedd y mawl iddynt.

Edrychwn gwelwn yn gu—wir achau
Goruchel y Cymry:
A'u mwyth oll, a'u maith allu;
Cysurus lwyddiannus lu.

Edrych y dyn a Drych dwys—iawn erfai,
Hen arfer yr eglwys;
Ei gwŷr llen cymhen cymhwys,
A'i llygion wŷr glewion glwys.

Crefydd dda ufudd ddi-ofer—hylaw
Hiliogaeth hen Gomer:
A'u cerddoriaith berffaith bêr,
A'u hymsawd yn eu hamser.

Brysia Ddrych hoew-wych ei hawl—iawn gamrau,
I Gymru'n egniawl
Dy ber areith odieithol
Haeddai fyth hoew dda fawl.

JENKIN THOMAS A'I CANT.

# CYFLWYNIAD, &c., I'R AIL ARGRAFFIAD.

---

REVERENDO ADMODUM IN CHRISTO PATRI AC DOMINO,
DOMINO NICOLAO CLAGET, D. D.,
EPISCOPO MENEVENSI. S.

Quum pro meâ virili, præsul admodum venerande, nec minimo quidem labore conatus essem, quo facilius rudimenta fidei Christianæ imbiberent nostri monticolæ Britanni; vix me existimem a re propositâ longe esse digressurum, si Magnæ Britanniæ notitia eis innotesceret linguâ vernaculâ. Satis mihi exploratum habeo, quam spissum opus ac difficile sit a retro sæculis res gestas in lucem proferre, quum veterum scripta, tantam stragem passa sint, quantum nostra (ut Gildas olim conquestus, notavit) adeo ut veritas involucro quodam obtegi videatur: Veruntamen cum talis notitia fructus adfert uberrimos, lubentiore animi consilio me in hanc provinciam contuli; et quale quale sit ex plerisque (quot supersint) auctoribus, excusis etiam et MSS. hoc opusculum excerpsi; quo plebs nostra rudis, ad res a suis majoribus gestas, non omnino foret barbara; sed ut avitos mores, et primævi sæculi religionem puram et adhuc incontaminatam, in hoc commentariolo veluti in speculo quodam, animadvertat, videatque.

Hic igitur libellus, antistes dignissime (nunc castigatior et jam tandem trutinam severiorem apud me passus), qui sub clientelâ vestrâ lucem denuo ambit, res Britannicas complectitur. Pars prior de Britannorum origine narrat; et belli vario exitu gesti cum Romanis, Pictis, et Saxonibus, specimen exhibet; nec non et morum et idololatriæ majorum, antequam evangelii lumen iis illuxisset: posterior, de prædicatione et evangelii cursu usque ad nonum a Christo incarnato sæculum; quo tempore majores nostri a priscâ fide decedentes, labe Romanâ conspurcati sint.

Si fas sit mihi augurari, spero equidem hosce annales Cambris nostris nec ingratos fore nec prorsus inutiles; dum videant ecclesiam nostram lege sancitam, ut non a SS. scriptura, ita ne minimum quidem a priscâ illâ ecclesiâ catholicâ, recessisse; adeo ut Anglicana (ut cum Cl. Bevrigio dicam) merito primitiva nuncupetur ecclesia, ultimis hisce temporibus, rediviva.

Dum tu, doctissime præsul, in gravissimis et religionis et reipublicæ negotiis summâ non sine laude versaris; dum omnigenâ eruditione, et apostolicâ morum sanctitate ornatus, ecclesiæ Menevensis, decus es et præsidium; liceat mihi monticolis Cambriæ capita religionis explicare; liceat hanc historiolam texere, et non omnino oscitanter otio torpescere. Deus O. M. te servet diu incolumen; et e militanti in qua tanta dignitate et animi candore præsides, ad triumphantem, cui tantopere anhelas, serius aveharis. Quod revera precatur.

Vestræ D. Observantissimus

THEO. EVANS.

## AT Y DARLLENYDD.

Y MAE yn awr o gylch pedair blynedd ar hugain er pan argraffwyd y llyfr hwn y waith gyntaf, pryd nad oeddwn ond cryn ieuanc; ac er darllen o honof, ïe y pryd hwnw y rhan fwyaf o'r hanesion argraffedig yn nghylch hen faterion Brydain mewn llys a llan, eto wedi hyny, ar ol cael odfa a chyfle i chwilio o amgylch, y cefais y rhan fwyaf o hysbysrwydd mewn hen groniclau Cymraeg o waeth llaw. Ac felly y drefn a gymerais yr ail dro hwn i adgyweirio a llyfnhau y gwaith, oedd, 1. Darllen yr holl hen hanesion Lladin a ysgrifenodd y gwŷr tu draw i'r môr yn nghylch Brydain yn yr hen amseroedd. 2. Darllen hefyd groniclau yr hen Saeson. 3. Darllen gwaith rhagorol y Saeson dysgedig diweddar. Ac yna, 4. Eu cymharu a'u cystadlu oll un ac arall a hen hanesion y Brutaniaid.

Am yr hen hanesion Lladin, neu hanesion gwŷr Rhufain, er mai dynion dysgedig, medrus, a deallgar oeddent, prin y gellir eu coelio ar bob achosion, a hyny am y ddau reswm a ganlyn:—1. Am mai gwŷr o Rufain, na fuont erioed yn y deyrnas hon, ar chwedl eu pencadpeniaid, yw y rhan fwyaf o wŷr tu draw i'r môr, sy'n ysgrifenu yr hanesion. 2. Am eu bod yn rhy dueddol i seinio allan eu clod eu hunain, megys y tystia hanes Iwl Caisar, yr hwn a orfu arno droi ei gefn a dianc, er dywedyd o hono bethau mawr yn ei lyfr. Dyma yn wir yw anian ac hefyd anffawd pob cenedl, sef dywedyd yn wych am eu gwroldeb a'u medr eu hunain, a dywedyd yn gras, yn chwerw, ac yn ddiystyr am eu gwrthwynebwyr. Am hen groniclau y Saeson, nid oes yn ddilys ond ychydig o goel i'w roddi iddynt, a hyny am y rheswm eglur yma, am eu bod yn anllythyrenog yn yr amser y bu'r ymladdau creulonaf rhwng yr hen Frutaniaid a hwy; ac am hyny os dygwydd i neb feio nad yw yr hanes a roddir yma am y rhyfel rhwng y ddwy genedl ddim yn gwbl gytûn â'r croniclau Seisnig, gwybydded y cyfryw un, nad oedd bosibl i'r hen Saeson ysgrifenu hanes yr ymladdau cyntaf dros gant a haner o flynyddoedd; am na fedrent air ar lyfr, na darllen nac ysgrifenu; ac felly ni all fod yr hanes a roddant hwy, ond o ben i ben, a chwedl gwlad. Am waith rhagorol y Saeson dysgedig diweddar, y maent hwy yn wir yn chwilio pethau allan yn ddiduedd, ac yn deg dros ben, megys Mr. Leland, archesgob Usher, Syr Henry Spelman, esgob Stillingfleet, &c. Ond nid allent hwy farnu am ysgrifeniadau Cymraeg. Yn awr am y Brutaniaid, yr oeddent hwy yn ddilys ddigon yn medru darllen ac ysgrifenu (ni a wyddom) yn hir cyn amser cred, os nid er amser Brutus y Groegwr o Gaerdroia: a phe byddai eu hysgrifeniadau heb fyned ar goll, diammheu y gallai Cymro hyddysg gael amryw ac amryw o hen hanesion nad yw yn bosibl i'w cael nac yn y Lladin nac yn y Saesonaeg; ond y mae bagad eto i'w gweled o ysgrifeniadau yr hen Frutaniaid, a fy ngwaith i oedd eu cymharu a'u cystadlu hwy a hen hanesion y Rhufeiniaid a'r Saeson; ac hyd byth oedd yn fy ngallu, i bigo allan y gwirionedd dilwgr. Y mae yma lawer o bethau a adroddir yn y llyfr hwn, na buont erioed yn argraffedig o'r blaen mewn un iaith pa bynag. Y pigion hyn (megys trysorau cuddiedig) a ddichlynwyd gyda chryn lafur a phoen allan o hen ysgrifeniadau wedi llwydo gan oedran. Ac os dim, hwy ydynt harddwch y gwaith.

Lle mae yr hanes yn y bennod gyntaf, i Fadoc ap Owen Gwynedd a'i wŷr ymgyfathrachu a myned yn un bobl o'r diwedd ag hen drigolion America yn awr er ys chwaneg na phum cant o flynyddoedd a aethant heibio; ond y mae yn debygol eu bod yn ymgadw yn bobl wahan, ac yn cadw eu hiaith hyd y dydd heddyw. Canys y mae'r parchedig Morgan Jones (gwr eglwysig a aned gerllaw Tredegar, yn sir Fynwy), yn dywedyd iddo, yn y flwyddyn 1660, dramwy trwy yr anialwch, nes dyfod o'r diwedd i wlad gyfanneddol; yno efe a ddaliwyd yn garcharor, am fod y trigolion yn drwgdybied mai bradwr ac yspiwr oedd efe a ddaethai i edrych noethder y wlad. Yna ar eu gwaith yn myned i'w ddienyddu, dygwyddodd iddo (ac achos da paham) drwm ocheneidio, a dywedyd yn Gymraeg, "O Dduw, a ddiengais i allan o gymaint a chymaint o beryglon ar fôr ac ar dir, ac yn awr gael fy nharo yn fy nhalcen megys ci?" Ar hyny fe ddaeth y cadpen ato, ac a'i cofleidiodd, ac a ddywedodd wrtho yn Gymraeg, na chai efe farw; ac efe a fu yn wir yn gystal a'i air; canys efe a'i derbyniodd ef yn garedig, ac a'i dug ef ganddo i'r rhan hono o'r wlad a elwir Dyffryn Pant-teg, lle yr oedd ei gydwladwyr yn byw. Yno y bu Mr. Jones dros bedwar mis cyfan yn fawr ei barch a'i roesaw yn eu mysg, yn siared Cymraeg a hwy beunydd, ac yn pregethu yr efengyl dair gwaith yn yr wythnos yn yr iaith Gymraeg, megys y mae'r hanes (wedi ei argraffu yn Saesonaeg) yn dangos, yn nghyd ag ychydig o eglurhad a ychwanegais i ato.*

Lle y dywedir yn y llyfr hwn i'r Rhufeiniaid fenthycio amryw eiriau Cymraeg oddiar y Gwylliaid, megys y geiriau Lladin *terra, aer, mare, amnis, mel, mutus, &c.*, oddiwrth y geiriau a ganlyn yn ein hiaith ni, *tir, awyr, mor, afon, mel, mud;* fe ddichon fod rhai yn min-gamu, ac yn dywedyd nad yw hyn ond chwedl heb awdurdod: ond gwybydded y cyfryw un, fod y geiriau hyny erioed ac hyd heddyw yn iaith y Gwyddelod, lle ni chyrhaeddodd arfau y Rhufeiniaid; ac am hyny yn anmhosibl iddynt hwy eu benthycio ganddynt; a phrin y troseddai un oddiwrth y gwirionedd pe dywedai, fod y geiriau yma yn yr iaith Gymraeg cyn gosod sylfeini dinas Rhufain erioed.†

Nid oes neb yn gwadu, na fenthyciodd yr hen Frutaniaid amryw eiriau Lladin tra bu y Rhufeiniaid yn rheoli yma, ac eto heb golli yn llwyr yr hen eiriau priodol i'r iaith. Ac yn wir yr oeddid yn cymysgu y ddwy iaith yn nghyd yn rhy arw yn yr hen amser hwnw, megys y tystia yr ysgrifen-fedd a gafwyd yn ddiweddar yn eglwys Brynbiga, yn ngwlad Fynwy, yr hon a osodwyd yno yn mhell cyn dyfodiad y Saeson i'r deyrnas hon. Yr ysgrifen yw hon, cymysg o Gymraeg a Lladin:—"Noli cloddi yr ellrhod Caerlleon, advocad llawnhaedd Llundain, a barnwr bedd breint apud Ty'n ei Aro, Ty Avale; Selif synwybr sumæ sedum Usk, val kylche deg kymmyde; doctor kymmen, lleua loer in i llawn oleuni." A hyn yw yr ystyr, yn ol barn y dysgedig, yn Lladin llawn:—"Noli effodere professorem Caerlegionensem, advocatum dignissimum Londinensem, et judicem sacri privilegii apud Fanum Aaronis et Fanum Avaloniæ; Solomonem astrologum summæ civitatis Usk, tenentis circiter decem comotos; doctorem eloquentum, lunam lucidam ni plenilunio lucentum."

Nid oes genyf ddim i ddywedyd yn ychwaneg na bod yma amryw ac

* Gentleman's Magazine, for March, 1704. † Camb. in Ordovic. p. 659, Llwyd Annot.

amryw o bethau newydd nad oedd yn yr argraffiad cyntaf; yr wyf yn tybied fod yr iaith yn awr yn rhwydd ac yn ddeallgar trwy Wynedd a Deheudir; a chwedi ei thrwsio (os barddwch yw hyny) ag amryw gyffelyb-iaethau cynefin, ac hawdd eu hystyried. Yr wyf yn gobeithio fod yr hanes oll mor gywir ac mor llawn hefyd ar a ellir ei ddysgwyl dros yr amser yr wyf yn myned drosto; canys er nad yw maintioli y llyfr ond bychan, eto pe buasai wedi ei argraffu a llythyrenau breision, buasai (o leiaf) ddau cymaint ei faintioli ag yw yn awr. Y fath ag ydyw, derbyn-iwch ef, atolwg, megys yr anrheg oreu a chywiraf o hanes yr hen Frutan-iaid a feidr yr awdwr annheilwng.

THEOPHILUS EVANS.

*Dydd Calan Mai*, 1740.

---

## *Englynion o Fawl i'r Brytwn dysgedig, yr Awdwr.*

GWELWCH deallwch da 'wyllys—Cymro
Mewn camrau gwir ddilys,
Anwyl o'r 'splenydd ynys,
Geirwir llawn agorwr llys.

Sy'n danfon yn llon er gwellâd—atom
Cawn eto'i wir gariad,
Y Prif Oesoedd prawf wysiad,
Hanesion gloewon ein gwlad.

A'i buro dan go' i gyd—gan awdwr
Diadwyth ei fywyd;
Gwir ieithydd frau awyddfryd
Rhyfedd o werthfawr hefyd.

Gosododd yn rhodd heb rin—ei lyfrau
Goleufryd i'n meithrin;
Coffâir ef yn mhob cyffin,
Gan bob tafod mawrglod min.

Lamp hyfryd i'r byd o wybodaeth—yw
Ac awen bur hyfaeth;
Rhyglyddus hwylus helaeth
Gwawl awydd a phrydydd ffraeth.

Diolchwn i hwn am hau—diddanwch
Da i ddynion o'i lyfrau;
Gwiwlon yw'r pelydr golau
O hyd i ni ei fwynhau.

Bendithied Duw byw diball—ei fywyd
O f'awen am ddeall;
I foli'r gwar uwch arall,
Hedd air cu a haeddai'r call.

IEUAN BRADFORD O BLWYF Y BETTWS YN MORGANWG A'I CANT.

*Gosteg o ddeuddeg Englyn unodl union yn unodli drwyddi.*

Dos, lythyr difyr, a dyfodd—mewn brys
Myn brysur ymadrodd,
Dwg anerch draserch drosodd,
I'r Cymry, a'i rhanu'n rhodd.

I'n gwlad o gariad y gyrodd—yr awdwr
O rwydd-deb ymadrodd,
Ddrych gweddus trefnus y trodd
Rhywiawg a rhagorodd.

Edrych yn y drych a drodd—ar gamrau
'Rhen Gymry a'u hansodd;
Diwall mae'u dull a'u modd,
Edrych wedi ei lawn adrodd.

Achau'r hen dadau hyn dododd—ar led
I'r wlad fe'u cyhoeddodd,
Y gwir heb os a ddangosodd,
A'r gau ei law draw a drodd.

Hanesion ddigon a ddygodd—i'r byd,
Er bod hyny yn anodd;
Goleuad i'r wlad a ledodd,
A'r tywyll gau i'r ffau a ffodd.

Odiaeth wych helaeth y chwiliodd—y gwr
I gyrau'r hen oesoedd;
Myrdd yn ein mysg a ddysgodd,
Llwyn yw yn wir yn llawn nodd.

Rhoes addysg i'n mysg mewn modd—arbenig
Mawr boen a gymerodd;
A phob call a'i deallodd,
A'r un drych i'r iawn a drodd.

Atgas waith diflas a daflodd—ymaith
O'i ymyl pan welodd,
A'i lân orchwyl a hwyliodd,
Mewn iaith lefn ei drefn a drodd.

Y mer yn dyner a dynodd—yn llwyr
O'r llyfrau ddarllenodd,
Historiau llwyr ystyriodd
Mewn pum iaith yn faith o'i fodd.

Canant ei foliant yn filoedd—beunydd
Am y boen a gymerodd;
Ei orchwyl pan lewyrchodd,
Llawer o'u trymder a drodd.

Gwelaf nas medraf ymadrodd—cymhwys
  I ganmol ei ansodd,
  Drwy fedru anrhegu'n rhodd,
  Fawl heddyw fel yr haeddodd.

Boed holliach bellach, fe ballodd—gosteg,
  Ac estyn ni allodd,
  Aeth i ben a gorphenodd,
  Terfyniad clymiad a'i clodd. JENKIN THOMAS.

---

*Englynion o Fawl i'r Gwaith a'r Awdwr.*

DY waith a'th araith euraid,—wr anwyl,
  O ryw hen Frutaniaid,
  Sydd fendith a blith o blaid
  Bywyd dôf bwyd y defaid.

Mae yma borfa burfras—gwir luniaeth
  I'r gorlan, gair addas,
  Llwyn i orwedd llawn o râs,
  Cwm, le clyd, ar hyd gamlas.

Mae 'stor o ogor i'r gorlan—yma
  Mae lluest mewn gwinllan;
  Y geifr mall a ant allan
  At ysgall y fall i'r fan.

---

*Englynion i anerch y parchedig Ddysgawdwr, Mr. Theophilus Evans, Pencymreigydd Brydain Fawr.*

DYMA Ddrych gwych dan go'—dilys,
  Dylai fawr roeso;
  Rhoed hil Frutus drefnus dro
  Bur awch addas barch iddo.

Theophilus glws ei glod—er gwirio
  I'r gorau sy'n gwybod,
  Uwch na hwy achau a nod
  Y Brutaniaid brwd hynod.

'Sgrifenydd hylwydd hy—llusern
  Dra llesol i Gymru;
  Oreu'i dasg er ein dysgu;
  Mawr ei boen, myfyrio bu.

Cymreigydd ufudd anian—cyfieithydd
  Cu ethol ei amcan;
  Periglor pur rywioglan,
  Da lywydd mewn dwy lan.

Addysgu teulu pob talaith—trwy lafur
Trodd lyfrau perffaith;
Nid oes yn trin y Frutaniaith
O Gymro yn wir gymhar i'w waith.

JOHN JONES LLEWELYN O LANFAIR YN NGHAEREINION A'I CANT.

---

## *Mawl i'r Llyfr a'r Awdwr, Mr. Theophilus Evans.*

ARDDERCHOG enwog union—clyw d'anerch
Clau ddawnus amcanion
O Wynedd yn ddi-unon,
I'r Deheudir da hoew don.

O Arfon dirion dyrog—y tardda
At urdd wawr flodeuog,
Fawl min gân fel y mwyn gôg,
Fraich anwyl i Frycheiniog.

Theophilus iaith hofflawn
Oleu ras ail i Aaron
Fel Dafies† wiw flodeuyn
Goreu glwys gu eurog lin. } *

Peryglor Ifor Ifan—ail ydych,
Hael odiaeth berffeithlan,
Ac ieithydd yn gwau weithian,
Cymraeg lwys i'r Cymry glân.

Dosparthu, rhanu yn rhwydd—hanesion
Hen oesoedd yn ebrwydd;
Gwr hylaw, gywir, hylwydd,
Rhywioglan ar we aeg lwydd.

Drych gwiwlan, diddan i'n dydd—un ydyw,
Iawn adail waith crefydd;
Goludog iach i'n gwledydd,
Gwiw dw' ffel i gyd a'i ffydd.

Drych y Prif (a rhif ar hyd—yr) Oesoedd,
Aur eisioes o'r cynfyd;
Drych gwiw-lwys edrych golud,
Hynaws bwnc o hanes byd.

Llanddewi, heini, hynod—Llangammarch,
Llawn gymhwys fyfyrdod;
Dwy chwaer glir, da wych ar glod,
Hir einioes i'w Ior hynod.

DAFYDD JONES O DREFRIW A'I CANT.

* Proest gyfnewidiog. † Dr. Davies, a ysgrifenodd y Geirlyfr Cymraeg.

## NAMES OF THE SUBSCRIBERS TO THE SECOND EDITION, PUBLISHED 1740.

The Right Rev. the Lord Bishop of St. Asaph
Rev. John Andrew, Vicar of Carew
The Right Rev. the Lord Bishop of Bangor
Hon. John Barber, Esq., late Lord Mayor of London
Rev. James Brook, A. M., Vicar of of Llannarth
Rev. William Bradshaw, B. D., Fellow of Jesus College, Oxon.
Mr. John Bradford
John Bowen, of Gyrrai, Esq.
Mr. John Bowen, of Tredroir, Gent.
Mr. David Bevan, of Tregunter, Gent.
John Bullock, of Brecon, Esq.
Madam Boucher, of Cwmdu
Capt. Baldwin
Hon. Mr. Justice Carter
Rev. Ed. Cuthbert, A. M., Canon of St. David's
Mr. William Cann, Gent.
Mr. Bartholomew Coke, of Brecon
The Right Rev. the Lord Bishop of St. David's
Rev. Richard Davies, B. D., Canon and Archdeacon of St. David's
Rev. William Davies, L. L. B., Vicar of Lampeter Ystradyw
Rev. Thomas Davies, of Ystrad-y-Fodog
Rev. Pryce Davies, A. B., Vicar of Talgarth
Mr. Edward Davies, of Brecon, N. P.
Mr. Thomas Davies, of Llandovery, Mercer
Mr. George Devereaux, Attorney-at-Law
Thomas Evans, of Glantowy, Esq.
Rev. James Evans, A. M.
Rev. Lewis Evans, A. M., Vicar of Caio
Owen Evans, of Pennant, Esq.
Rev. Evan Eustace, A. M., Vicar of Abergavenny
Rev. John Edwards, Clerk
Rev. William Games, A. B., Rector of Llanddetty
Madam Elizabeth Greenly
Marmaduke Gwyn, of Garth, Esq.
Howell Gwynn, of the same, Esq.
Mr. Marmaduke Gwynn, junior
Howell Gwynn, of Brecon, Esq.
Roderick Gwynn, of Glanbran, Esq.
Richard Gwynn, of Taliaris, Esq.
Rev. Luke Gwynn, M.A., Vicar of Llandovery
Rev. Humphrey Griffith, B. A., Vicar of Lingen, Herefordshire
Rev. Mr. Gwilym, M.A., Vicar of the Hay
Right Hon. Lord Hensol
The Hon. Thomas Harley, Esq., Member of Parliament for the County of Herēford
Hon. Sir Humphrey Howarth, Kt., Member of Parliament for the County of Radnor
Rev. David Havard, M.A., Vicar of Abergwilly
Rev. Joseph Hoar, M.A., Fellow of Jesus College, Oxon.
Madam Herbert, of Kil-y-Bebyll
Samuel Hughes, of Llwyn-y-brain, Esq.
Rev. Mr. Huges, M.A., Vicar of Caermarthen
Rev. Mr. Hill, M.A., Chanter of St. David's
John Hughes, of Brecon, Esq.
Rowland Hughes, of Brecon, Esq.
Mr. Herbert, of Court Henry
Mr. Walter Hugil
Mr. Long, Head-apparitor of the Diocese of St. David's
Hon. John Jeffreys, Esq., Member of Parliament for County of Brecon

Nicholas Jeffreys, Esq.
Roger Jones, of Buckland, Esq.
The Worshipful Edward Jones, L.L.D., Chancellor of St. David's
Walter Jeffreys, of Brecon, Esq.
Walter Jeffreys, Esq., F.R.S.
Goodyear St. John, Esq.
Rev. Edward Jones, B.D., Fellow of Jesus College, Oxon.
Thomas Jones, of Tredustan, Esq.
Rev. Thomas James, M.A., Rector of Llanvillo
Mr. Lewis Jones, of Trebinsion, Gent.
Mr. Thomas James, of Brecon, Attorney-at-Law
Rev. William James, M.A., Vicar of Clirow
Rev. William James, M.A., Rector of Llanhamwlch
Rev. Anthony Jones, M.A., of Castle Piggin, Rector of Llanegwad
Rev. Thomas James, Rector of Cathedin
Rev. Thomas Johnson, M.A., Rector of Merthyr Tydvil
Mr. Leoline Jones, of Cilvach yr Heddwch, Gent.
Mr. Edward Jones, of Neuadd, Gent.
Mr. John Jones, of Bwlch-y-chwyrn, Gent.
Mr. David Jones, of Nant-y-carr, Gent.
Rev. David Jones, Curate of Llanllawddog
Mr. Rees Jenkins, Agent to the Right Hon. Lord Hensol
Rev. Jenkin Jenkins, Rector of Kiliau Airon
Mr. William Jones, of Penpont, Gent.
Mr. Richard Jones, Officer of the Excise
The Right Rev. the Lord Bishop of Landaf
Right Hon. Lord Lisburn
Hon. Walter Lloyd, Esq., Member of Parliament for the County of Cardigan
Hon. Richard Lloyd, Esq., Member of Parliament for the Town of Cardigan
Rev. John Laugharn, B.D., Rector of Remenham
Thomas Lloyd, of Brecon, Esq.
David Lloyd, of Llwyd-jack, Esq.
Morgan Lloyd, of Llansefin, Esq.
Rev. David Lloyd, M.A., Vicar of Llandyvalle
Richard Lloyd, of Penybont, Esq.
James Lewis, of Gellidywyll, Esq.
Mr. Charles Lewis, of Brecon, Gent.
Richard Lewis, of Court-y-Gollen, Esq.
Rev. Robert Lewis, M.A., Vicar of St. Harmon
Rev. Phillip Lewis, of Jesus College, Oxon., Rector of Disserth
Rev. Erasmus Lewis, A.M., Vicar of Lanpetr-pont-Stephan
Mr. Lewis Lewis, of Winfe
Mr. Lindfield, of the George, in Brecon
John Lloyd, of Peterwell, Esq.
Hon. Sir Lucius Lloyd, Bart.
Hon. Thomas Morgan, Esq., Member of Parliament for the County of Monmouth
Hon. Sir Edward Mansell, Bart.
Edward Morgan, of Brecon, Esq.
David Morgan, Esq.
Rev. David Morgan, A.M., Fellow of Jesus College, Oxon.
Mr. James Le Merchant, A.M., Fellow of Jesus College, Oxon.
Dr. Morgan, of Crughowel
Mr. Thomas Mitchel, of the Battel, Gent.
Rev. Leyson Morgan, Clerk
Hon. Adam Ottley, Esq., Registrar of the Diocese of St. David's
Rev. Humphrey Owen, B.D., Fellow of Jesus College, Oxon.
Mr. William Ously, of Brecon, Gent.
Morgan Owen, of Glasallt, Esq.
Rev. Thomas Pardo, D.D., Principal of Jesus College, Oxon.
Rev. Thomas Phillips, M.A., Vicar of Laugharne
Rev. James Phillips, M.A., Rector of Llangoedmor
Rev. Thomas Powell, M. A., Rector of Llanarthney

Thomas Price, of Penlle'rgaer, Esq.
Thomas Prosser, of Llwyn-y-Fon-went, Esq.
The Hon. Mr. Justice Proctor
Rev. Gregory Parry, M.A., Rector of Llanvrenach
James Parry, Esq.
Rev. Thomas Prytheroe, M.A., Vicar of Llangadock
Rev. David Price, B.D., Fellow of Jesus College, Oxon.
James Phillips, N.P.
Madam Phillips, of Brecon
Thomas Phillips, of Trawstre, Esq.
Hugh Penry, of Llwyncyntefin, Esq.
The Hon. Sir Erasmus Philipps, Bart., Member of Parliament for Haverfordwest
Hon. Sir John Price, Bart.
Mr. Rice Price, of Glantowy, Gent.
Mr. James Price, of Kilgwyn, Attorney-at-Law
Mr. John Price, of Talgarth, Gent.
Mr. Samuel Price, of the Hay, Attorney-at-Law
Christopher Portrieve, of Ynysgedwyn, Esq.
Charles Price, of Nantgwared, Esq.
Mr. John Phillips, of Brecon, Gent.
Hugh Powel, of Castlemadoc, Esq.
Hugh Powel, of Cwmelan, Esq.
Charles Powel, of Brecon, Esq.
Mr. Rees Powel, Clunhir, Gent.
Rev. William Powel, M.A., Rector of Llaneliw
Mr. Humphrey Parry, Commoner of Jesus College, Oxon.
Mr. Samuel Price, of Dol-y-menyn, Gent.
Rev. Edward Phillips, B.A., Rector of Maesmynys
Rev. David Prytherch, B.A., Vicar of Myddfai
Mr. Rees Powell, of Aberdulas, Gent.
Rev. John Powel, M.A., Rector of Cantref
Mr. Roger Price, of Maesyron, Gent.
Lewis Price, of Glanyrannell, Esq.
Madam Popkins
Thomas Popkins, Esq.
Thomas Phillips, of Pentre, Esq.
Mr. Thomas Price, of Pendre, in Talgarth, Gent.
Mr. Thomas Price, of Cefnffordd, in Talgarth
John Phillips, Esq., Bailiff of Brecon
Mr. Thomas Price, of Rhosforlo, Gent.
Rev. Hugh Rice, sen., Minister of Lledrod
Rev. Hugh Rice, jun., Rector of Llandoc and Pendine
Rev. Mr. Rowlands, Curate of Llangeitho
Rev. Thomas Rowland, Rector of Lyswen
Madam Rod, of Brecon
Rev. Mr. Rogers, A.B., Curate of Llandilo-fawr
William Scourfield, of Mote, Esq.
Rev. William Skinner, A.M., Rector of Llangatog, Crughowel
Miles Stedman, of Dolygaer, Esq.
Richard Stedman, of Strata Florida, Esq.
Rev. Edward Samuel, Rector of Llangar
Mr. Stringer, of Llanvrenach, Gent.
Hon. Mr. Justice Talbot, Member of Parliament for the Town of Brecon
Rev. Timothy Thomas, D.D., Rector of Presteign
William Thomas, Esq., of Henrietta-street, London
Rev. H. Thomas, A.B., Rector of Llandyfeilog
Rev. Elias Thomas, Rector of Llanfihangel Torrfynydd
Rev. Joshua Thomas, of Llangammarch
Mr. John Thomas, A.B., of Jesus College, Oxon.
Rev. Mr. Thomas, A. M., Vicar of Llandilo-fawr
Mr. Thomas, of Llether Cadnaw, Gent.
Mr. William Thomas, of Cefnllan, Gent.
Rev. Mr. Thomas, Vicar of Llanelen, Monmouthshire

Mr. Edward Thomas, Attorney-at-Law
Dr. Alban Thomas, of Newcastle-Emlyn
William Gwyn Vaughan, of Trebarriet, Esq.
Gwyn Vaughan, of the same, Esq.
Charles Vaughan, of Skethroc, Esq.
Rev. Hugh Vaughan, of Llangatog, Crughowel
Rev. Thomas Vaughan, Rector of Llangaste, Tal-llyn
William Vaughan, of Tregaer, Esq., High Sheriff of the County of Brecon
Hon. Sir Nicholas Williams, Bart., Member of Parliament for the County of Caermarthen
Lloyd Williams, of Tal-llychan, Esq.
Rev. Thomas Williams, M.A., Rector of Aberedw
Penry Williams, of Penpont, Esq.
Rev. Christopher Wells, B.D., Fellow of Jesus College, Oxon.
Rev. James Williams, M.A., Fellow of Jesus College, Oxon.
Rev. Richard Williams, B.A., Rector of Llanllough-haiarn
Rev. Thomas Williams, M.A., Rector of Winforton
Mr. Edward Williams, of Brecon, Prothonotary
Evan Williams, of Rhôs, in the Parish of Talgarth, Esq.
Rev. John Williams, of Glasbury, M.A.
Mr. William Williams, of Talgarth
Rev. William Williams, A.M., Rector of Talachddu
Mr. William Williams, of Aberannell, in the Parish Llangammarch, Gent.
Rev. Athelstone Williams, A.M., Vicar of Glascwm
William Winter, of Brecon, Esq.
William Winter, of the Inner Temple, Esq.
Mr. John Wilkins, of Brecon, Attorney-at-Law
Mr. Henry Williams, Officer of the Excise
Rev. W. Williams
Mr. Williams Williams, of Cefncoed
Rev. David Williams, of Brecon, M.A.
Rev. John Williams, A.B., Rector of Cheriton
Rev. John Williams, Rector of Willey, in Shropshire
The Rev. William Wynn, M.A., Vicar of——
Rev. John Williams, B.A., Rector of Llanfihangel Feibion Avan, Monmouthshire

## CYNWYSIAD.

---

### RHAN I.

TU DAL.

PENNOD I.—Cyff-genedl y Cymry, a'u Dyfodiad cyntaf i'r Ynys hon . . . . . . . 1

PENNOD II.—Y Rhyfel a'r Rhufeiniaid. Hwynt-hwy, yn annghyfiawn, yn treisio y Brutaniaid o'u gwir eiddo. . . 15

PENNOD III.—Y Rhyfel fu rhwng y Brutaniaid a'r bobl a elwid y Ffichtiaid, neu y Brithwyr. . . . . 44

PENNOD IV.—Y Rhyfel fu rhwng y Brutaniaid a'r Saeson. Brad y Cyllyll Hirion. Hanes Uthr Bendragon, Arthur, &c. Tywysogion Cymru. Ychydig o Gyfraith Howel Dda. . 57

PENNOD V.—Eilunod amryw genedloedd. Eilun-addoliaeth yr hen Frutaniaid cyn amser Crist. Eu Hoffeiriaid, a elwid y "Derwyddon." Eu Moesau. Yn nghylch yr Iaith Gymraeg 89

### RHAN II.

PENNOD I.—Yn nghylch Pregethiad yr Efengyl trwy yr holl fyd, ond yn enwedigol yn Mrydain; gan bwy, ac yn mha amser . 104

PENNOD II.—Lles ap Coel y Brenin cyntaf o'r byd mawr a dderbyniodd y ffydd Gristionogol. Erledigaeth fawr o achos y ffydd yn Mrydain. Merthyrdod Alban. Heresi Arius. Heresi Morgan. Dyfodiad Garmon a Lupus yma o Ffrainc. Y Ffurf o Weddi ag oedd yn y Brif Eglwys yn Mrydain. . 116

TU DAL.

PENNOD III.—Heresi Morgan yn attyfu eto. Y Gymanfa yn Llanddewi-brefi. Am Ddewi a Gildas. Pla y Fall Felen. Awstin Fonach yn pregethu i'r Saeson. Llygredigaeth Eglwys Rhufain i pryd hwnw. Esgobion Brydain yn siared ag Awstin Fonach. Merthyrdod y Monachod o Fangor-is-y-Coed. . 150

PENNOD IV.—Pabyddiaeth yn ymdaenu trwy Gymru. Pregeth St. Antwn i'r Pysgod. Amryw hen Hanesion ofergoelus, allan o Giraldus, Archddiacon Tyddewi, yr hwn a ysgrifenodd ei hanes yn y flwyddyn 1188. . . . . 169

PENNOD V.—Gwenidogion y Brif Eglwys. Swydd Esgob, Offeiriad, a Diacon. Eu mawr barch yn yr amser gynt . . 179

PENNOD VI.—Gweinidogaeth y ddau Sacrament, Bedydd a Swper yr Arglwydd, yn y Brif Eglwys. . . . 186

PENNOD VII.—Addoliad Duw ar gyhoedd yn yr Eglwysi, a'r Drefn o Addoliad Duw yn eu Teulu Gartref yn y Brif Eglwys. . 197

PENNOD VIII.—Pa gyfryw Lanoedd, neu Eglwysi, oedd gan y Prif Gristionogion. Y Goruwch-ystafelloedd. Amryw ystyr y gair "Eglwys" yn y Testament Newydd. Y Tri Dosparth yn yr Eglwysi gynt. Scism i bregethu allan o'r Eglwysi. Yn nghylch Clych. . . . . . 203

PENNOD IX.—Rhinweddau y Prif Gristionogion yn gyffredinol, sef yw hyny, eu Gostyngeiddrwydd, eu Diweirdeb, a'u Hamynedd yn dyoddef. Yr amryw fodd yr oeddid yn eu rhoddi i Farwolaeth. Eu Hufudd-dod i'r Awdurdodau Goruchel. . 209

PENNOD X.—Gonestrwydd y Prif Gristionogion yn eu Masgnach. Eu casineb at Annghyfiawndera Chelwydd. Barnedigaeth Duw ar Gelwyddwyr. Eu Gofal dros y Tlodion. Eu Parodrwydd i ymweled a'r Cleifion. Eu Haelioni at y Brodyr. Eu Hundeb a'u Brawdgarwch. Amryw Esiamplau ar bob un o'r penau hyn. 210

# DRYCH Y PRIF OESOEDD.

---

## RHAN I.

### PENNOD I.

#### CYFF-GENEDL Y CYMRY, A'U DYFODIAD CYNTAF I'R YNYS HON.

GWAITH mawr, ond gwaith salw a chwith, yw adrodd helynt y Cymry, eu haflwydd a'u trafferthion byd yn mhob oes a gwlad y buont yn preswylio ynddi, er pan gymysgwyd yr iaith yn Nhwr Babel. Canys onid peth galarus a blin yw adrodd mor anniolchgar oeddent i Dduw, mor chwannog i wrthryfela yn ei erbyn, ac mor barod i syrthio i brofedigaeth y byd, y cnawd, a'r cythraul, yr hyn a barodd eu bod mor anffodiog ac aflwyddiannus? Ac o herwydd i'n hen deidiau ninau yfed anwiredd fel dwfr, bu gwir y ddiareb, "Dinystr fydd i weithredwyr anwiredd." (Diar. xxi. 15.) Ac felly nyni (fel amryw genedloedd ereill, o'r diwedd) wedi i ein pechodau addfedu, "a adawyd yn ychydig bobl, lle yr oeddem fel sêr y nefoedd o luosogrwydd: o herwydd na wrandawsom ar lais yr Arglwydd ein Duw." (Deut. xxviii. 62.)

Nid oes yn wir un genedl dan yr haul wedi cadw ei gwlad a'i hiaith o'r hen amser gynt yn gyfan a dilwgr; nao oes un wedi cadw ei braint yn ddigoll a digymysg. Y mae'r Iuddewon er ys talm yn achwyn, "Wele ni heddyw yn weision; ac am y wlad a roddaist i'n tadau ni, i fwyta ei ffrwyth a'i daioni, wele ni yn weision ynddi." (Neh. ix. 36). Canys y mae'r Tyrciaid wedi goresgyn gwlad Judea, ac nid oes gan yr Iuddewon gymaint a lled troed o feddiant ynddi. Y mae'r Groegiaid hwythau, y rhai a fuont yn yr hen amseroedd yn ben ar y byd, wedi gwasgaru, megys yr Iuddewon hwythau, hyd wyneb y gwledydd, a'u tiroedd a'u teyrnasoedd

eang yn meddiant y Twrc. Y mae'r Rhufeiniaid hefyd—y rhai, o gylch amser ein Harglwydd Iesu, oeddent feistriaid ar y rhan fwyaf o'r byd oedd adnabyddus y pryd hwnw—y maent yn awr, meddaf, er ys llawer cant o flynyddoedd, wedi darfod am danynt, hwynt-hwy a'u hiaith hefyd, ond a geir mewn llyfrau; a'u hawdurdod fawr gynt wedi ei llarpio, megys burgyn gan adar ysglyfaeth. Ond yr ydym ni eto, gweddill yr hen Frutaniaid, yn trigo mewn cwr o'r ynys fawr hon, y buom gynt yn feistriaid o'r naill gwr i'r llall o honi, ac yn cadw ein hiaith gyntaf, os nid yn berffaith gwbl, eto yn burach nag un genedl arall yn y byd. "Eu hiaith a gadwant, eu tir a gollant," ebe Taliesin.

Yr oedd yr hen bobl yn yr oesoedd gynt, mor anhysbys am ddechreuad trigolion cyntaf y wlad hon, fel nad oedd ganddynt na medr nac amcan tuag at hyny. Yr wyf yn cofio am un awdwr Seisnig, a eilw'r Cymry Gwilym Bach, yr hwn a ddywed, "gael mewn ogof yn Lloegr, yn amser y brenin Stephan, fachgen ac herlodes o liw gwyrdd dyeithr anferthol, annhebyg i un dyn arall a welwyd erioed yn y byd hwn; ac mai'r opiniwn [tyb] cyffredin oedd, iddynt dreiddio i fynu trwy dwll o eigion neu berfedd y ddaear," fel y mae'r awdwr yn bur ddoeth yn adrodd yn helaeth.*

Er ynfyted yw y fath hen chwedlau gwallgof a'r rhai hyn, eto nid oedd rhai (ac yn cymeryd arnynt eu bod yn wŷr dysgedig hefyd) yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid un tipyn gallach yn eu traws amcan annyben yn nghylch trigolion cyntaf yr ynys hon; canys yr oedd barn rhai o honynt iddynt dyfu allan o'r ddaear megys bwyd llyffant.

Y mae yn wir yn orchwyl dyrys ddigon i chwilio allan ddechreuad ein cenedl ni yn gywir ac yn ddiwyrgam, a'i holrhain o'i haberoedd i lygad y ffynnon; ond mi amcanaf i symud ymaith y niwl oddiar y ffordd, fel y byddo ein taith at y gwirionedd yn eglur.

Wedi i Adda droseddu gorchymyn Duw, a myned o hono ef a'i eppil yn ddarostyngedig i bechod, amlhaodd drygioni dynolryw gymaint, ag y bu "edifar gan yr Arglwydd wneuthur o hono ddyn." Ac yn y flwyddyn er pan greodd Duw y byd 1655, danfonodd yr Hollalluog ddiluw cyffredinol i foddi dyn ac anifail; ond Noah gyfiawn (ac, er ei fwyn ef, ei deulu)

* Gul. Niubrig. Rer. Anglio Lib. I. c. 27.

a gafodd ffafr yn ei olwg, ac a achubwyd rhag gormes y dwfr diluw mewn llong a alwn ni yr Arch.

Wedi achub Noah fel hyn, a dyfod ag ef i genedlaethu tô megys mewn byd arall, cydfwriadodd ei eppil, yn mhen talm o amser (sef yn nghylch can mlynedd ar ol y diluw), i adeiladu "tŵr a'i nen hyd y nefoedd." (Gen. xi. 4.)* Mae rhai yn tybied mai yr achos a'u cymhellodd i ymosod at y fath waith aruthrol a hwn, ydoedd, rhag i ddiluw eu gorddiwes eilwaith, a'u llwyr ddinystrio oddiar wyneb y ddaear; a rhag ofn hyny, iddynt adeiladu y tŵr a dinas i'w cadw yn ddiogel rhag llifeiriant y dyfroedd. "Gwnawn i ni enw," ebe hwy, "rhag ein gwasgaru ar hyd wyneb yr holl ddaear." Er mai barn ereill yw hyn, eu bod hwy yn awr ar eu taith tua Gardd Baradwys; ac oblegid fod y wlad o amgylch mor hyfryd, yn llawn o beraroglau, a llysiau, a ffrwythau, a phob peth arall dymunol, chwennychasant aros yno, hwy a'u heppil dros fyth, ac er hyny iddynt adeiladu y tŵr a'r ddinas rhag eu gwasgaru oddiyno.† Ond pa fodd bynag yw hyny, ni adawodd yr Arglwydd iddynt ddwyn eu gwaith i ben, oblegid efe a gymysgodd eu hiaith, fel na ddeallai'r naill beth a ddywedai y llall; os dywedai un wrth ei gyfaill, "Moes i mi gareg," fe estynid iddo ond odid gaib yn lle careg; os dywedai un arall, "Cadw y rhaff yn dyn," y llall a'i gollyngai hi yn rhydd; fel hyn, yr iaith yn gymysg, ac megys yn estron y naill i'r llall, ni allasent fyth fyned a'u gwaith yn y blaen.

Nid oedd ond un dafodleferydd o'r blaen trwy y byd mawr, sef yr Hebraeg yn ddilys ddigon. Eithr y ddaear, ag oedd cyn hyny o un iaith ac ymadrodd, a glywai ei thrigolion yn awr yn siared ddeuddeg iaith a thriugain;‡ canys i gynifer a hyny y mae hen hanesion yn mynegi ddarfod cymysgu y famiaith, yr Hebraeg. Ac yn y terfysg mawr hwnw, llawen iawn a fyddai gan un gyfarfod a'r sawl a fyddai yn deall eu gilydd; a hwy a dramwyent yma ac acw nes cael un arall, ac felly bob yn un ac un, i ddyfod yn nghyd oll, ac aros gyda'u gilydd yn gynifer pentwr ar wahan, y sawl ag oeddent o'r un dafodiaith: a phwy, dybiwch chwi, oedd yn siared Cymraeg yno y pryd hwnw, ond Gomer, mab hynaf Japheth, ap Noah, ap Lamech, ap Methusalah, ap Enoch, ap Jared, ap Malaleel, ap Cainan, ap Enos, ap Seth, ap Adda, ap Duw?

* Vide Shuckford, vol. 1. p. 106.

† Robins. Annal. Mundi. lib. 2. p. 86. ‡ Orig. Saer. lib. 3. c. 5.

Dyma i chwi waedoliaeth ac âch yr hen Gymry, cyfuwch ag y gall un bonedd daearol fyth, o bosibl, gyrhaedd ato, pe byddem ni, eu heppil, yn well o hyny. Ac y mae yn ddilys ddiammheu genyf nad yw hyn ond y gwir pur loew;* canys, 1. Y mae hanesion yr hen oesoedd yn mynegi hyny; a pha awdurdod ychwaneg am unrhyw beth a ddygwyddodd yn y dyddiau gynt, na bod coflyfrau neu groniclau'r oesoedd yn tystio hyny? 2. Y mae holl ddysgedigion cred, gan mwyaf yn awr, megys o un genau yn maentumio hyny. 3. Y mae'r enw y gelwir ni yn gyffredin arno, sef yw hyny, Cymro, megys lifrai [gosgordd-wisg] yn dangos i bwy y perthyn gwas, yn hysbysu yn eglur o ba le y daethom allan; canys nid oes ond y dim lleiaf rhwng Cymro a Gomero, fel y gall un dyn, ïe, a haner llygad, ganfod ar yr olwg gyntaf.

Heblaw hyn, yr ydym yn darllen (Gen. x. 5.) yn nghylch eppil Japheth, "O'r rhai hyn y rhanwyd ynysoedd y cenedloedd;" lle, wrth ynysoedd y cenedloedd, y meddylir Brydain Fawr a'r Iwerddon, os nid y rhan fwyaf o ardaloedd Ewrop. Ond am Sem a Cham y dywedir yn unig, "Dyma feibion Sem a Cham, yn ol eu teuluoedd, wrth eu hieithoedd, yn eu gwledydd, ac yn eu cenedloedd." Oddiyma, y mae'n hawdd i gasglu, fod cynifer o famieithoedd yn Nhŵr Babel, a chenedlaethau hyd wyneb yr holl ddaear; o famieithoedd, meddaf, y rhai sydd hen, a rhywiog, a boneddig. Nid oes oddieithr deuddeg gwlad o holl ardaloedd Ewrop,† yn siared mamiaeth ddilwgr; nid yw y lleill i gyd ond cymysg, megys y Saesonaeg, Francaeg, Yspaenaeg, &c.

Ar ol i Gomer a'i gyd-dafodogion ddyfod o Asia i Ewrop, y mae'r hen ysgrifenyddion yn helaeth ragorol yn son am eu gwroldeb a'u medr i drin arfau rhyfel; canys dyna agos yr unig gelfyddyd ag oedd yn gosod synwyr yr hen bobloedd ar waith, yn enwedig ar ol eu dyfod i wladychu yn nheyrnas Ffrainc; canys ein hynafiaid ni, yr hen Gymry, oeddent yn ddilys ddiammheu y trigolion cyntaf yn Ffrainc, yn yr amseroedd gynt, sef yn nghylch yr amser yr oedd Iesu Grist ar y ddaear, a chyn hyny, fel y dangosaf rhagllaw. Digon gwir fod y Rhufeiniaid hwythau oddeutu amser ein Hiachawdwr, yn wyr mawrion, wedi goresgyn amryw wledydd wrth rym y cleddyf, ac a llywodraeth fawr iawn ganddynt ar fôr ac ar dir; ond nid

* Vide Pezron Antiq. of Nations, lib. 1. c. 3.
† Vide S. Purch. Pilgr. vol. 1. lib. 1. c. 12.

oeddent ond cynifer o grwydredigion lladronach ar y cyntaf, ac yn ngwasanaeth y Cymry, y rhai oedd feistriaid arnynt; ïe, ar ol eu myned yn gadarn yn y byd, a dechreu hyrddu eu cymydogion gweinion, eto gorfu iddynt ymostwng i gleddyf dau Gymro, a dau frawd hefyd, Beli a Brân, meibion Dynwal Moelmud.* Nid oedd calon yn ngwŷr Rhufain i sefyll yn ngwyneb y brodyr enwog hyn, eithr ciliasant i'w llochesau, fel y gwelwch lu o fechgynos yn ffoi oddiwrth darw gwyllt a fyddai'n cornio.

O hyn y mae fod cymaint o eiriau Cymraeg yn yr iaith Ladin, o herwydd fod y Llandinwyr gymaint o amser dan iau y Cymry; ac y mae'n naturiol i dybied, y bydd y gwanaf yn benthyca gan y trechaf, a bod y gweision yn dynwared iaith y meistriaid. Camsynied erchyll yw tybied i ni fenthyca y fath luaws o eiriau oddiwrth y Rhufeiniaid,† fel y mae Pezron ddysgedig wedi profi tu hwnt i ammheu neb a fyn ymostwng i reswm.‡ Nid ydys yn gwadu na fenthycodd ein hynafiaid amryw eiriau Lladin tra bu y Rhufeiniaid yn rheoli yma yn Mrydain, a hyny oedd agos i bum cant o flynyddoedd, sef o amser Iwl Caisar [Julius Cæsar] hyd y flwyddyn o oed Crist 410; ond nid yw hyny ond ambell air, ac eto heb lwyr golli yr hen air priodol i'r iaith, megys i enwi mewn un neu ddau: "Yspeilio" sydd air Lladin, ond y mae'r hen air fyth yn nghadw, sef yw hwnw, "Anrheithio": gair Lladin yw "Rhôd," ond y mae'r hen air heb fyned ar goll, sef yw hwnw, "Olwyn."§

Ond yma yr wyf yn barod eisoes i goelio, y bydd rhai yn dywedyd, nad yw y rhai hyn ond chwedlau gwneuthur, fod y Cymry unwaith yn byw yn Ffrainc, ac mor enwog yn y byd am eu gwroldeb. Ond er annhebyced y tybir hyny yn awr, nid oes er hyny un peth sydd wirach mewn histori [hanesyddiaeth]. Canys nid i son fod yn mysg y ddwy genedl, sef trigolion Ffrainc a'n hynafiaid ninau o'r ynys hon, yr unrhyw ddefodau ac arferion, yr unrhyw grefydd ac adnabyddiaeth o'r Duwdod, yr unrhyw fath o offeiriaid a Derwyddon; i adael hyn hebio, meddaf (ac eto haerir llawer peth ar waeth rhesymau); y mae Iwl Caisar—yr hwn a ysgrifenodd agos er ys deunaw cant o flynyddau a aethant heibio, a'r hwn a fu dros ddeng mlynedd yn rhyfela yn Ffrainc, ac a fu ryw ychydig yn Mrydain—y mae Iwl Caisar, meddaf, yn

* Galf. Monem. lib. 3. c. 8, 9. † Vide Camd. Britan. Ed. Gibs. & Llwyd, p. 658, 659. ‡ Antiq. of Nations. § Vide Dav. Præf. ad Lexic.

dywedyd ar ei air yn oleu, fod tafodiaith y ddwy deyrnas yn bur debyg i'w gilydd, hyd ddim a allasai efe farnu wrth glywed trigolion y naill deyrnas a'r llall yn siared.* Mae awdwr arall, a ysgrifenodd o gylch haner cant o flynyddau ar ol Iwl Caisar,† ac un arall o gylch deugain mlynedd ar ol hyny,‡ yn tystio eill dau yr un peth, nad oedd ond y dim lleiaf o wahaniaeth rhwng iaith y naill deyrnas a'r llall, sef rhwng iaith trigolion Ffrainc ac iaith ein hynafiaid, y rhai oeddent yn byw y pryd hyny yn Lloegr: fe allasai fod ond odid gymaint o wahaniaeth ag sydd rhwng Gwynedd a Deheudir, neu fe allai ychydig yn ychwaneg. Ond beth er hyny? Diammheu mai'r un bobl oeddent o'r dechreuad. Hefyd, heblaw cysondeb iaith, ystyriwn nesed yw teyrnas Ffrainc i Loegr; nid oes ond cainc o fôr rhyngddynt, lle y gall dyn â llygad craffus ganfod o'r naill lan i'r lan arall, ar ddiwrnod dysclaer. Ynys Brydain, gan hyny, yn ddiammheu a boblogwyd ar y cyntaf allan o'r wlad nesaf ati, megys y poblogwyd yr Iwerddon allan o'r wlad hon.

Ond sylwn yma, nid Ffrainc oedd enw y wlad a elwir felly yn gyffredin yn awr; nage, ond galwyd hi Ffrainc gan y trigolion sydd yn preswylio ynddi, y rhai, a hwy yn farbariaid ysgymun ar y cyntaf, a oresgynasant y wlad, drwy ladd a llosgi yr hen drigolion, o gylch yr un amser ag y darfu i'r Saeson, barbariaid ereill, oresgyn drwy frâd yr ynys hon oddiar yr hen Frutaniaid. Eithr enw y wlad ar y cyntaf oedd y Gelli, oblegid ei bod hi yn wlad hyfryd, a rhagorol, a ffrwythlawn, a choediog; megys y gwelwn amryw leoedd eto yn Nghymru o'r un enw. Yr hen drigolion cyntaf a alwent eu hunain y Gwyddelod,§ weithiau y Gwylliaid,|| ond yr enw cyffredin yn llyfrau hanesion, yw y Cymry.¶

Y mae traddodiad hyd y dydd heddyw yn mysg y werin bobl, er nad ydys yn edrych ar hyny ond megys hen chwedl, fod y Gwyddelod, ryw bryd yn yr amser gynt, yn frodorion Cymru a Lloegr; ond y mae'n ddilys ddigon eu bod hwy, megys nad oeddem ni a hwythau ar y cyntaf ond un genedl. Ac yn wir, prin y gall neb dybied yn amgen nad o'r un dorllwyth y daeth y ddwy genedl allan, sef y Cymry a'r Gwyddelod, pe byddem yn ystyried y lluaws geiriau sydd o'r un ystyr gyda ni a hwythau. A phwy bynag a ddarlleno y

* Cæs. Com. lib. 5. p. 80. † Strabo. Geogr. p. 405.
‡ Tacitus, Vit. Agricob. p. 637. § Celtæ. || Galli. ¶ Cimbri.

Grammadeg Gwyddelaeg, a wel fod tueddiad a natur eu hiaith hwy yn gofyn newid llythyrenau yn nechreu'r geiriau, yn gwbl gyson a'r Gymraeg.

Pwy bynag a ddeil sylw ar lawer o hen enwau afonydd a mynyddoedd drwy y deyrnas hon, ni chaiff le i ammheu nad y Gwyddelod oedd y trigolion pan roddwyd yr enwau hyny arnynt. Fe ŵyr pawb mai enw afon fawr yn Nghymru yw "Wysc," ac nid yw "Conwy, Tywi, Wy," ond gwahan enwau o'r un ystyr; ïe, enw yr afon benaf yn y deyrnas yw "Tafwys,"* hyny yw, cydiad Taf ac Wysc yn nghyd. Ni ŵyr neb gyda ni beth yw ystyr y gair, ond nid oes gan Wyddelod yr Iwerddon un gair arall am ddwfr, ond "Uisge;" ac megys y mae'r geiriau "Coom, Dor, Stour, Tam, Dove, Avon," yn Lloegr, yn cyfaddef nad ydynt amgen na'r geiriau Cymreig, "Cwm, Dwr, Ys dwr, Taf, Dyfi, ac Afon," a thrwy hyny yn dangos mai'r Cymry oedd yr hen frodorion; felly y mae'r geiriau "Wysc, Llough, Cinwy, Ban, Drym, Llechlia," ac amryw ereill, yn dangos fod y Gwyddelod yn preswylio gynt hyd wyneb y wlad hon, canys ystyr y geiriau yn ein hiaith ni, ydyw "Dwfr, Llyn, Prif Afon, Mynydd uchel, Cefn, Maenllwyd." Pwy byth a ŵyr achos am alw Cut defaid yn "Gorlan," oni ŵyr hefyd fod y Gwyddelod yn galw dafad yn eu hiaith hwy yn "Kaor?" neu paham yr ydys yn galw Gwartheg godro yn Wartheg "blithion," oni ŵyr hefyd mai "Blithuin" yw godro yn yr iaith hono?†

Ni all neb ddeall y Gymraeg yn iawn heb ddeall y Wyddelaeg hefyd. Pwy a ddeallai ystyr y gair "Traethsaith," yn Sir Aberteifi, oni ddeall Wyddelaeg? canys ystyr y gair yw "Traeth Bâs." "Eithon" yw enw afon yn Sir Faesyfed; y gair Gwyddelaeg yw "Aaith-afon," h. y., afon redegog wyllt.

Nid llai gwaith na gwneuthur geirlyfr bychan, fyddai gosod i lawr yr holl eiriau o'r un sain ac ystyr yn yr iaith Gymraeg a'r Wyddelaeg: bydded yr ychydig a ganlyn yn esampl:—

| Cymraeg. | Gwyddelaeg. | Cymraeg. | Gwyddelaeg. | Cymraeg. | Gwyddelaeg. |
|---|---|---|---|---|---|
| Afu | Aef | Ardderchog | Oirddeirch | Blwyddyn | Bliawyn |
| Aithin | Attin | Asen | Asna | Bloneg | Blonig |
| Afal | Aful | Bara | Aran | Byddar | Boddar |
| Anadl | Anal | Bastard | Bastardd | Bord | Bordh |
| Amser | Aimsir | Benyw | Bun | Bru | Bru |

* Thamesis. Nid yw "Ask, Esk, Ax, Ex" (enwau bagad o afonydd Lloegr), ond yr un peth. † Vide Luid. Præf. ad Archæol.

| Cymraeg. | Gwyddelaeg. | Cymraeg. | Gwyddelaeg. | Cymraeg. | Gwyddelaeg. |
|---|---|---|---|---|---|
| Bôn coes | Bôn côsh | Glas | Glas | Nef | Nef |
| Brân | Brân | Glyn | Glen | Nerth | Nert |
| Bramu | Brimmo | Glin dost | Gluin dos | Niwl | Neul |
| Byw | Beo | Glynu | Glenu | Neidr | Nathair |
| Bywyd | Biad | Glöyn | Gloin | Dynan ne- wydd eni | Denau nao- idd eni |
| Bwa | Boha | Gogles | Giglif | | |
| Bwth | Both | Gwallt glân | Folt glann | Pwll | Poll |
| Cerig | Carig | Gwêr | Geir | Pobl | Poibliach |
| Ceraint | Caraid | Gwydd | Gedd | Rhann | Rhanan |
| Celyn | Culin | Gweddi | Gwyddif | Rhawn | Roin |
| Cerbyd | Carbod | Isel | Iseal | Rhin | Run |
| Ci hir | Cu hêr | Llaw deheu | Law deha | Rhi | Ri |
| Cenedl | Cinel | Lleder | Lleathir | Rhudd | Ruaidd |
| Cil drws | Culdorus | Llefaru | Llafairt | Sâl | Sal |
| Claf | Claf | Lliain | Llian | Saer | Saor |
| Cleddyf | Cloiddef | Llo | Llo | Sgubor | Sgibol |
| Cogel | Cuigel | Llosgi | Lloisci | Sgubo | Sguabo |
| Cnau | Cnu | Llys | Llis | Sgefain | Sgeafain |
| Crybach | Crabach | Llydan | Llethan | Sgian | Sgian |
| Croen | Croian | Lludw | Lluoth | Sgubell | Sguab |
| Crib | Criban | Llysiau | Llyssan | Sibwl | Siobal |
| Crogi | Crochu | Llong | Llong | Sopen | Soipin |
| Crwth | Crwith | Llygod | Llychod | Spleddach | Spleddach |
| Cwyr | Coir | Llyfr | Leafir | Sgolpen | Sgolb |
| Cwyno | Cwynif | Mawr | Môr | Swch | Soc |
| Cyffion | Cleiffion | Maer | Maor | Stôl | Sdôl |
| Dall | Dall | Mab glân | Mac glan | Sudd | Suf |
| Dalen | Dailen | Mantach | Mantoch | Taradr | Tarar |
| Deri | Dair | Madyn. | Madah | Tasg | Tasga |
| Dlyed | Dlia | Mall | Mall | Tarw | Tarw |
| Dof | Taf | Marw fy nau fab | Marfmodd- ia masca | Tid | Ted |
| Dyn | Duin | | | Tês | Tês |
| Drwg | Droch | Marwnad | Marnah | Tew | Tiw |
| Du | Du | Marchog | Marcach | Toes | Taos |
| Draenog | Graenog | Maidd | Meadd | Torog | Toroch |
| Dwrn | Dorn | Mân | Mên | Ton | Ton |
| Dwfn | Dofuin | Mêl | Mil | Trais | Treis |
| Edn | Ean | Mês | Mês | Trwm | Trom |
| Eiddiorwg | Eiddeau | Memrwn | Memruin | Truan | Truhan |
| Eog | Eo | Melin | Muilen | Troed | Troid |
| Eingion | Inneon | Mollt | Mollt | Tri gwr | Tri wr |
| Esgud | Esgaid | Moch | Moc | Tŷ | Te |
| Ffroen | Ffron | Môr | Muir | Tylau | Tylah |
| Gardd | Garda | Mysg | Mesg | Twlc | Tolch |
| Gafael-dân | Gafal tein | Mud | Muit | Twrch | Torc |
| Garfan | Gair man | Mynydd | Monydd | Waun | Wain |
| Gafar | Gafar | Nain | Nain | Wy | Hwi |

Ond er hyn oll, ni ddeall Cymro un tipyn o'r hyn a siarada

Gwyddel, na'r Gwyddel y Cymro ychwaeth. Y mae amryw achosion am hyn, megys, 1. Yr amser maith y maent yn ddwy genedl wahanol, heb ddim cyfeillach neu fasgnach teuluaidd rhyngddynt. Mae amser, o fesur cam a cham, yn gosod wyneb newydd ar bob peth, ond yn enwedig ar ieithoedd. Nid i son am bobloedd pellenig, dyna'r Cymry, y rhai a aethant i'r rhan hono o deyrnas Ffrainc a elwir Llydaw, gyda Chonan, Arglwydd Meiriadoc, yn y flwyddyn o oedran Crist 383; er mai Cymraeg y maent yn siared hyd y dydd heddyw, eto prin iawn y gall un Cymro o ynys Brydain eu deall hwy yn siared, nes bod enyd fawr o amser yn eu mysg. 2. Y mae gan y Gwyddelod amryw eiriau priodol, y rhai sydd wedi eu colli gyda ni, megys y mae gyda ninau amryw eiriau y rhai sydd wedi eu colli gyda hwythau. Ni a welwn gymaint o wahan eiriau sydd rhwng Gwynedd a Deheudir, ac eto a feiddia neb ddywedyd mai nid Cymraeg a siaredir er hyny yn y ddwy dalaith? Ie, ac yn Neheubarth nid oes ond odid gwmwd na chantref, nad oes ryw ychydig o wahaniaeth yn yr iaith; nid yn unig wrth fod y werin yn rhoddi amryw seiniau i'r un geiriau, ond hefyd wrth alw ac enwi llawer o bethau ar wahan. 3. Achos arall, ïe, achos mawr a hynod, yw hyn: rhai cannoedd o flynyddau cyn geni Crist, yn amser Gwrgant Farfdrwch, brenin Brydain Fawr, y cyfododd llu anferthol o bobl yr Yspaen, wedi eu gyru gan eisiau a newyn allan o'u gwlad, gan hwylio ar hyd y weilgi, os ar antur y caent ryw le i breswylio ynddo, i dori eu chwant bwyd. Ar ol goddef gryn drallodion ar y môr yn eu taith beryglus, y tiriasant o'r diwedd yn Mrydain, lle y gwnaethant eu cwyn a llygaid llawn o ddagrau, ac a chalon llawn ufudd-dod, o byddai gwiw gan fawrhydi y brenin ddangos iddynt ryw gwr gwlad, a chael rhyddid i achub eu heinioes, hwynt-hwy, a'u gwragedd, a'u plant; dywedasant mai pobl heddychol oeddent, mai y newyn a'u gyrodd hwynt allan o'u gwlad, ac os byddai gwiw gan y brenin eu cymeryd dan ei ymgeledd, nad oedd ganddynt hwy ond gadael bendith Duw am hyny, a bod yn ddeiliaid cywir i goron Lloegr. Ar hyn y tosturiodd y brenin wrth eu chwedl, a rhoddodd genad iddynt i fyned i'r Iwerddon, oblegid fod y wlad yn eang ddigon, ac yn lled denau o drigolion y pryd hwnw.*

* Mae'r hanes hon yn wir ddigon, ebe Mr. Edward Llwyd. Vide Galf, lib. 3. c. 12.

Dros hir amser y bu'r Gwyddelod a hwythau yn cadw yn bobl wahanol, y naill genedl yn gystal a'r llall yn dilyn ei harferion a'i hiaith ei hun; ond mhen talm o amser, ymgyfathrachodd y naill bobl a'r lleill, sef y Gwyddelod a'r Skuidiaid (canys felly y gelwid gwyr-dyfod yr Yspaen), ac a aethant megys un bobl, fel y gwelwch ddwy haid o wenyn yn taro yn nghyd yn yr un cwch. O hyny allan y cymysgwyd yr iaith, a lluniwyd un iaith gymysg o'r ddwy, yr hon a siaredir yn yr Iwerddon hyd y dydd heddyw. O hyn y mae fod llawer o eiriau dyeithr wedi eu benthyca oddi gan y Skuidiaid yn iaith y Gwyddelod. Lle y maent yn cytuno a nyni, yno dilys yw mai hen Gymraeg diledryw yw y geiriau hyny; a lle y maent yn annghytuno, naill ai geiriau Cymreig a gollasom ni, yw y rhai hyny, neu eiriau estronaidd a fenthycodd y Gwyddelod oddi gan y Skuidiaid.

Dyma ni wedi gweled estron-genedl, yn gynar iawn, wedi ymgymysgu ag un llwyth o'r hen Gymry, sef a Gwyddelod yr Iwerddon. Dygwyddodd yr un peth i'n hynafiaid ninau yn Mrydain, fel yr wyf yn awr i ddangos.

Ar ol bod yr Ynys hon, o ben bwy gilydd o honi, yn meddiant yr hen Gymry, ni wyddys yn iawn pa faint o amser, y tiriodd yma wr o Gaerdroia [Troy], a elwid Brutus, yr hwn, ac efe yn medru darllen ac ysgrifenu, ac yn gynil ei wybodaeth mewn llawer o bethau cywrain a chelfyddgar, a gafodd yn unfryd ei ddyrchafu yn ben ar yr hen drigolion, y rhai, y pryd hwnw yn anfedrus agos mewn pob peth ond rhyfela, a ddysgodd Brutus mewn moesau dinasol, ac i blanu, i adeiladu, ac i lafurio y ddaear, ond yn enwedig efe a'u haddysgodd mewn dau beth nad oedd ond ambell genedl yn yr amser hyny yn gydnabyddus a hwy, sef yw hyny, darllen ac ysgrifenu, yr hyn ni chollasant byth wedi hyny. Dywedir i Frutus a'i wŷr dirio yn Mrydain yn nghylch mil o flynyddau cyn geni Crist.

Iaith Brutus a'i wŷr oedd y Groeg; ac y mae'n ddilys mai oddiwrtho ef y cawsom yr amryw eiriau Groeg y rhai sydd hyd y dydd heddyw yn gymysg a'r iaith Gymraeg: canys Brutus a'i bobl a ymgymysgodd a'r hen drigolion yr un ffunud ag y darfu i Madoc ap Owen Gwynedd ymgymysgu a phobl America. O herwydd y Madoc hwnw, yn y flwyddyn o oedran Crist 1170, pan oedd ei frodyr yn llofruddio eu gilydd fel bleiddiau ffyrnig, yn nghylch eu treftadaeth yn Nghymru, a gymerth long, ac a hwyliodd tua'r Gorllewin, heibio i'r

Iwerddon, nes dyfod o'r diwedd i'r wlad fawr ac eang hono a elwir yn awr America.* Yna y gadawodd efe rai o'i wŷr i gadw goresgyn a meddiant o'r wlad, ac a fordwyodd adref i Gymru drachefn, lle y traethodd efe wrth ei gydwladwyr am "Ba wlad ffrwythlawn a rhagorol a gafodd efe allan wrth hwylio gyda'r haul i bellder y Gorllewin; dymunodd arnynt i ystyried am ba greigle, mynydd-dir, ac anialwch, yr oeddent hwy yn Nghymru, megys cynifer o gigyddion gwaedlyd, yn llofruddio ac yn darnio eu gilydd; deuant gydag ef, hwy a gaent drigo mewn brasder gwlad, yn yr hon y bwytaent fara heb brinder, ac na byddai eisiau dim arnynt."

Fe fenodd hyn gymaint ar ei gydwladwyr, fel y cyfododd llu mawr o wŷr a gwragedd gydag ef, yn enwedig o'r rhai hyny ag oedd yn caru byw yn llonydd, ac a diriasant yn mhen wyth mis a deng niwrnod yn y porthladd y buasai efe o'r blaen ynddo: tra y parhaodd y tô hwnw, cadwasant gyda'u gilydd, o'r un iaith, o'r un grefydd, a'r un gyfraith. Ond yn mhen talm o amser, ar ol dwy genedlaeth neu dair, ymgyfathrachodd y tô nesaf a thrigolion y wlad, ac a aethant yn un genedl a hwy, fel y gwelech ddwfr a llaeth yn ymgymysgu.

Yn awr, mae genym y sicrwydd mwyaf mai y Cymry oeddent y cyntaf, o holl drigolion Ewrop, a gawsant allan y ffordd i America: oblegid 1. Fod croniclau yr oesoedd yn tystio hyny. 2. Fod amryw eiriau Cymreig gan bobl y parthau hyny hyd y dydd heddyw, lle y gwladychodd y Cymry gyntaf; megys pan y byddont yn siared, dywedant, "Gwrando;" "Pen-gwyn," yw enw aderyn a phen gwyn iddo; "Coch-y-dwr" yw enw aderyn arall; "Corroeso" yw enw y lan gyntaf y tiriasant arni; a "Gwenddwr" y gelwir un o'u hafonydd. Ac heblaw hyn oll, cafwyd beddrod Madoc ap Owen yn y wlad hono, a'r ysgrifen a ganlyn ar gareg ei fedd ef:—†

"Madoc wyf mwydic ‡ ei wedd,
Iawn genau § Owen Gwynedd;
Ni fynwn dir! fy awydd oedd,
Na da mawr, ond y moroedd."

Ond i ddychwelyd at Frutus. Fel y gwelwch ddwy gangen, wrth ymgydio, yn tyfu yn nghyd, a myned yn un pren; felly yr ymgymsgodd Brutus a'i wŷr a'r hen Gymry, ac a aethant

* Powell's Chronicle, p. 227, &c. Herb. Travails, p. 218.
† Hoel Ep. Vol. iv. Ep. 29. p. 474. Ed. 7. ‡ Wedi hir forio. § Eppil.

o hyny allan dan yr enw Brutaniaid, er parchus goffadwriaeth i'r gwr yr hwn a'u haddysgodd mewn amryw gelfyddydau perthynol i fywyd dyn. Ac o herwydd mai Groegwr oedd Brutus (fel y dywedais o'r blaen), o hyn y mae fod yr hen Frutaniaid yn arfer llythyrenau Groeg yn eu hysgrifeniadau, a hyny, ni a wyddom, yn mhell cyn amser cred, os nid er dyfodiad cyntaf Brutus i'r Ynys hon. Canys y mae Iwl Caisar yn adrodd am y Derwyddon,* "Eu bod hwy yn dysgu ar dafodleferydd, lawer o bennillion a chywyddau; a bod rhai yn treulio ugain o flynyddau yn dysgu y pennillion hyny, cyn bod yn ddigon o athrawon. Yr oeddid," eb efe, "yn cyfrif y pennillion hyn mor santaidd, fel na feiddiai neb eu hysgrifenu ar bapur; ond pob materion ereill y maent yn ysgrifenu a llythyrenau Groeg."†

Yn awr, y mae'n eglur oddiyma, 1. Fod yr hen Frutaniaid yn medru darllen ac ysgrifenu cyn dyfod na Rhufeinwr na Sais i Frydain; canys yr oedd yr awdwr dysgedig, yr hwn sydd yn rhoddi yr hanes hon i ni, yn byw yn nghylch haner cant o flynyddau cyn geni Crist. 2. Mai llythyrenau Groeg oedd ganddynt, sef y cyfryw ag a ddysgodd Brutus iddynt: yr un llythyrenau a welir hyd heddyw ar fagad o gerig mewn amryw fanau yn Nghymru. ‡

Heblaw fod yr hen Frutaniaid yn arfer llythyrenau Groeg yn eu hysgrifeniadau, y mae ein iaith ni, hyd y dydd heddyw, yn cydnabod amryw eiriau o dyfiant Groeg, sef yw hyny, amryw eiriau a blannodd Brutus yn ein mysg; yr hen eiriau Cymreig sydd wedi eu colli genym ni, a gedwir eto yn mysg y Gwyddelod: yn awr "Visc" y gelwai yr hen Gymry "Ddwfr," y mae'r gair wedi ei golli genym ni, ond a arferir o hyd gan y Gwyddelod; canys nid yw "Dwfr" ond gair Groeg a gafwyd oddiwrth Frutus. Ac nid i son am ychwaneg, "Grian" y gelwai yr hen Gymry yr "Haul," y mae'r gair wedi ei golli genym ni, ond a arferir o hyd gan y Gwyddelod; canys nid yw "Haul" eto ond gair a gafwyd oddiwrth Brutus.

Yr achos cyntaf a gafwyd i wadu dyfodiad Brutus i'r ynys hon o Frydain, oedd hyn: pan fu farw Jeffrey ap Arthur, Arglwydd Esgob Llanelwy, y daeth Sais, a eilw'r Cymry, Gwilym Bach, am yr hwn y soniais o'r blaen, a deisyfodd ar

* Felly y gelwid gweinidogion crefydd yn Mrydain cyn geni Crist.

† Cæs. de Bell. Gall. lib. 6. p. 106.

‡ De Antiq. Græc. Lit. vide Shuckford, vol. i. p. 265, &c.

Dafydd ap Owen, Tywysog Gwynedd, gael bod yn esgob yn ei le, o gylch y flwyddyn o oedran Crist 1169. Ond gan na fu gwiw gan Dafydd ap Owen ganiatâu iddo ei ddymuniad, aeth y gwr adref yn llawn digofaint, a gosododd ei synwyr ar waith i ddirmygu a rhedeg i lawr, nid yn unig goffadwriaeth yr esgob oedd yn gorwedd yn ei fedd, ond holl genedl y Cymry hefyd: a'r Gwilym Bach hwnw, o'i falais, o waith iddo gael pall am esgobaeth Llanelwy, oedd y cyntaf a feiddiodd wadu dyfodiad Brutus yma.* Nid yw ei holl lyfr ddim amgen, agos, na sothach o gelwyddau erchyll yn erbyn y Cymry.

Dywed Gwilym Bach yn ddigywilydd, na soniodd neb erioed am ddyfodiad Brutus a'i wŷr o Gaerdroia i'r ynys hon, hyd nes i Jeffrey ap Arthur ddychymygu hyny o'i ben ei hun; ond y mae hyn yn achwyniad rhy noeth a safnrwth, heb ddim awdurdod, ac yn erbyn pob awdurdod; canys ni wnaeth Jeffrey ap Arthur ond cyfieithu y cronicl Cymraeg i'r Lladin, fel y gallai y dysgedig o bob gwlad ei ddarllen. Ac yn mhell cyn amser Jeffrey, y mae un o bennillion Taliesin yn dangos barn ei gydwladwyr yn ei amser ef; ac efe a ysgrifenodd o gylch blwyddyn yr Arglwydd 556. Ei eiriau ydynt,

"Mi gefais inau yn fy mryd lyfrau,
Holl gelfyddydau gwlad Ewropa;
Och Dduw mor druan, drwy ddirfawr gwynfan,
Y daw'r ddarogan i lin Droia.

Sarphes gadwynog, falch annrhugarog,
A'i hesgyll yn arfog o Sermania,
Hono a oresgyn holl Loegr a Phrydyn,
O làn môr Llychlyn hyd Sabrina.†

Yna bydd Brython fel carcharorion,
Yn mraint alltudion o Sacsonia;
Eu Nêr a folant, eu hiaith a gadwant,
Eu tir a gollant, ond gwyllt Walia." ‡

TALIESIN BEN-BEIRDD A'I CANT.

Ac heblaw hyn, y mae rhyw beth hefyd i ddysgu oddiwrth draddodiad a hen chwedlau; ac fe ŵyr pawb nad oes un peth mor gyffredin, yn mysg y Cymry, na chred o'u dyfod gyntaf i'r ynys hon o Gaerdroia (ond pa fodd y bu hyny mi ddan-

* Vide Præf. ad. Galf. p. 31. † Hafren. ‡ Cymru.

gosais eisoes); ïe, y mae hyn wedi greddfu mor ddwfn, fel y cewch weled hyd y nod y bugeiliaid ar ben pob twyn a bryn, yn tori llun Caerdroia ar wyneb y glaswellt. Gall dyn o ystyriaeth gasglu rhyw beth oddiwrth hyn; ond pa fodd bynag, dyma fel y maent yn ei darlunio hi, yn llawn o droion, yn wir, yn ol ei henw.*

Nid oes yn awr, hyd y gwn i, ond un peth yn ol, sef paham y galwyd yr ynys hon, Brydain, ar y cyntaf. Tybia Mr. Camden, yr hwn yn ddiau oedd wr dysgedig, ond opiniwnus [tybgar], i wŷr o wledydd ereill ei galw felly gyntaf, am fod yr hen Frutaniaid yn britho eu crwyn; ond nid oes odid gymaint ag un yn ei ganlyn ef yn awr yn ei ddychymyg wan annilys. Mae Mr. Humffrey Llwyd, gwr dysgedig arall o Gymro a ysgrifenodd o flaen Camden, yn tybied mai ystyr y gair "Brydain" yw "Pryd-cain," sef yw hyny, ei galw felly gan yr hen drigolion oblegid tegwch ei phryd. Y mae hyn hefyd yn seinio yn lled annaturiol, os nid yn dyn ac yn drwsgl. Ond dyma'r anffawd, pe byddai un mor ffodiog a tharo wrth y gwir ddeongliad, eto ni all neb fod yn sicr mai hwnw sydd ar y iawn. Mi a dybiwn, os nid Brutus a alwodd y wlad ar ei enw ei hun, mai yr hen enw yw "Pryd-wen;" a gwn fod y gair "Pryd-wen" yn ateb yr ystyr cystal, ac yn fwy rhwydd a naturiol na "Phryd cain," am fro deg brydweddol hyfryd: dyna fel y galwai yr hen Frutaniaid gynt, darian Arthur.

Y mae dadl nid bychan yn mysg amryw wŷr dysgedig, yn nghylch pa wlad a feddylir wrth yr hon y geilw hen awdwr pellenig, wrth y gair "Thule;" ond pe buasent hwy yn deall Cymraeg, ni fuasai dim dadl nac ymryson yn nghylch y peth. Canys wrth ddarllen rhyw hen ysgrifen o waith llaw, y cefais yno, Tylau Iscoed, sef yw hyny, Tylau'r Iwerddon; canys "Scotia," yn Lladin, y geilw yr holl wŷr pellenig, ynys yr Iwerddon† oddiwrth y gair Cymraeg, "Iscoed." A chan fod pawb yn cytuno mai rhyw ynys gerllaw ynys Brydain yw Thule, a'r eithaf tua'r Gorllewin,‡ pa wlad amgen all hi fod, ond Tylau Iscoed, neu ynys yr Iwerddon? Nid oes ond y peth lleiaf rhwng y gair Cymraeg, "Tylau," a'r gair Lladin, "Thule."

* Yr oeddwn i yn cwbl fwriadu, pan ysgrifenais hyn ar y cyntaf, i osod yma lun Caerdroia; ond nid oedd dyn o fewn fy nghydnabod, ag oedd o fedr i wneuthur hyny, nac mewn pren nac mewn efydd.

† Uss. Primord, 725,—734. ‡ Ultima Thule.

Yr oedd yr hen bobl yn siared pethau rhagorol yn nghylch y wlad hon, yn ei galw hi yn baradwys, yn degwch bro, y wlad fendigaid, a hyfrydwch pobl; ac ond odid un achos am ei bod mor anwyl, yw hyn, am na all un creadur gwenwynig fyw yno, na llyffant, na sarph, na gwiber, nac un creadur arall a dim naws gwenwyn ynddo; ac os dygir un creadur gwenwynig i'r wlad hon, fe a drŷ a'i dor i fynu yn y man, ac a drenga ar ei waith yn anadlu awyr bur ynys yr Iwerddon.

---

## PENNOD II.

Y RHYFEL A'R RHUFEINIAID. HWYNT-HWY, YN ANNGHYFIAWN, YN TREISIO Y BRUTANIAID O'U GWIR EIDDO.

Yr oedd ynys Brydain, yn yr hen amser gynt, yn talu teyrnged i Rufain, a hyny dros ychwaneg na phedwar cant o flynyddoedd; a'r pryd hwnw yr oedd bonedd y Cymry yn siared Lladin mor gyffredin ag y maent yn siared Saesonaeg yn awr. Nid wyf fi ddim yn meddwl gwaith Pab Rhufain yn anfon ei swyddogion yma i geinioca bob blwyddyn, megys y byddai yr arfer yn amser pabyddiaeth; ond yr wyf yn meddwl ymheradwyr neu emprwyr Rhufain, y rhai yn mhell cyn dyfodiad y Saeson i'r ynys hon, oeddent wedi goresgyn, drwy nerth arfau, amryw wledyd yn Asia ac Affrica, ond yn enwedigol yn Ewrop, ac yn mysg ereill yr ynys hon o Frydain.

Ond beth oedd gan ymherawdwr na phab Rhufain i wneuthur a'r deyrnas hon o Frydain? Pa hawl oedd gan y naill na'r llall i awdurdodi yma? Cewch glywed: hawl y naill oedd min y cleddyf; canys pa wlad bynag a allai yr ymherawdwr a'i wŷr rhyfel ei hennill drwy nerth arfau, tybid fod hyny yn ddigon o hawl i gymeryd meddiant o honi; ond pa fodd bynag yw hyny, pe byddai ŵr canolig, a phump neu chwech o ddihirwyr wrth ei gynffon, yn beiddio llofruddio a lledrata, estynid eu cegau wrth grogbren am hyny; ac am hawl y pab, y mae hwnw cynddrwg a'r llall, os nid yn waeth, canys nid yw yn ddim amgen na'i drais, yn ymhyrddu ar anwybodaeth dynion, a rhyfygu awdurdod i fod yn ben ar yr eglwys na roddodd Iesu Grist erioed iddo: a phan oedd eglwys Rhufain yn ei phurdeb, heb ei diwyno ag ofergoelion,

megys y mae hi yn awr, nid oedd wahaniaeth yn y byd rhwng Esgob Rhufain, ond yn gydradd ag esgobion ereill.

Y cyntaf o'r Rhufeiniaid a adnabu ynys Brydain oedd Iwl Caisar, a hyny oedd o gylch haner cant o flynyddau cyn geni Crist. Gwr oedd hwn o ysbryd eang, yn rhyfelwr o'i febyd, ac yn chwennych, fel Alecsander fawr, oresgyn yr holl fyd, a myned yn glodfawr.

"Blaenrhed wrth fyned oedd fo,
Ac olaf pan f'ai gilio."

Ond cyn iddo ddyfod ar antur i Frydain, efe a anfonodd lythyr at y brenin a elwid Caswallon, yn y geiriau hyn,* nid amgen :—

"Yn gymaint a bod y cwbl o'r Gorllewin wedi ymroddi i mi fel i frenin goruchaf arnynt, ac i senedd Rhufain,† naill ai drwy gariad neu drwy ryfel; o herwydd hyny yr wyf yn hysbysu i ti, Caswallon, a'th Frutaniaid, sy'n teyrnasu a'r môr yn eich amgylchynu, ac eto fod dan reolaeth Rhufain, y bydd raid i chwi ufuddhau i mi ac i senedd Rhufain, canys dyledus a chyfiawn yw hyny. Er eich rhybuddio, yr ydym ni, senedd Rhufain, yn danfon atoch y llythyr hwn, er traethu ac hysbysu i chwi, yr ymddialwn ni a chwi trwy ryfel o nerth arfau, os chwychwi nid ymroddwch i ni am dri pheth; sef, 1. Talu o honoch i Rufain deyrn-ged bob blwyddyn. 2. Bod bob amser yn barod a chwbl o'ch nerth, i ymladd wrth fy ngorchymyn a'm gelynion, o amser bwy gilydd. 3. Danfon gwystlon i Rufain ar gyflawni hyny. Yr hyn, os chwychwi a'i gwna, eich perygl a fydd lai, a'ch rhyfel ar ddyben; ac onide, edrychwch am ryfel ar frys."

Pan ddarllenodd Caswallon, brenin y Brutaniaid, y llythyr hwn, danfonodd i geisio ei gynghoriaid a'i arglwyddi goruchel ato, fel y gwelent pa ryw dymestl a dinystr oedd yn crogi uwch eu penau; ac er gwaethaf bygythion Caisar, hwy a gydfarnasant, megys o un genau, anfon llythr-ateb iddo yn y wedd hon, nid amgen :—

"Yn y modd yr ysgrifenaist ti, Caisar, ataf fi, mai tydi biau freniniaethau'r Gorllewin, yr un modd boed hysbys i ti, mai myfi a'r Brutaniaid biau ynys Brydain. Ac er i'r duwiau roddi i ti y cwbl o'r gwledydd wrth dy ewyllys dy hun, ni

* Ms. vet. † Senedd Rhufain oedd megys Parliament yn Lloegr.

chei di ddim o'n heiddo ni, canys cenedlaeth rydd ydym ni, ac nid oes arnom deyrn-ged, nerth, na gwystl i ti nac i senedd Rhufain: ac o'r achos hwnw, dewis di ai cilio yn dy eiriau ai rhyfela; ac yr ydym ni yn barotach i ymladd a thydi nag i ddymuno tangnefedd; ac yn foddlon genym i fentro [anturio] ein hoedlau er cadw ein gwlad rhag estron-genedl, heb ofni mo'th fawr eiriau. Gwna a fynech dan dy berygl."

Wedi i Iwl Caisar ddarllen y llythyr hwn, a gweled bwriad diysgog y Brutaniaid i ymladd ag ef, dirfawr lid a gymerth ynddo ei hun, ac a ddywedodd wrth ei uchelswyddogion, "Chwi a welwch mor anfoesel a sarug y'm hatebasant, ond odid ni a wnawn iddynt laesu peth o'r dewrder a'r taiogrwydd hyn." A hwy a atebasant, "A gymeri di, O Caisar, dy lwfrhau gan wag-ymffrost barbariaid? Ni a wyddom yn amgen. Wele ni yn barod i ymladd wrth dy ewyllys tra byddo defnyn o waed yn ein cyrph." Ac ar hyny Caisar a ymwrolodd, ac a gynullodd ei sawdiwyr [filwyr] yn nghyd, sef oedd eu rhifedi, pum mil ar hugain o wŷr traed, a phedair mil a phum cant o wŷr meirch, ac mewn pedwar ugain o ysgraffau, a fordwyodd, efe a'i wŷr, tuag ynys Brydain.

Yr oedd y Brutaniaid hwythau yn gwybod eu bod ar fedr ymweled a hwynt (canys nid amser i fod yn segur ac ysmala oedd hwn); ac am hyny yr oedd spïwyr yn disgwyl yn y prif aberoedd, rhag i'r gelynion dirio yn ddiarwybod, a'u lladd yn eu cwsg. A chyn gynted ag y daeth y llongau i olwg tir, y swyddogion a anfonasant yn ddiaros i fynegi i'r brenin fod y gelynion wedi dyfod. Ac ar hyny y brenin a archodd i'r penrhingyll ganu'r cyrn cychwyn, i gynull ei wŷr rhyfel yn nghyd; a brysio a wnaethant, yn llu mawr arfog, at a porthladd, ar fin môr Caint, ac erbyn hyny yr oedd y gelynion o fewn ergyd saeth. Nid oedd gan y Brutaniaid y pryd hwnw na lluryg, nac astalch, na tharian, na phenffestin, nac un trec na pheiriant i amddiffyn rhag y saethau a'r gwaewffyn; lle yr oedd gan wŷr Rhufain helm o brês ar eu penau, tarian yn eu dwylaw, a lluryg ddur o gylch eu dwyfron. Ond er hyn o anfantais, pobl noeth yn erbyn gwŷr arfog,* eto bernwch chwi, a fu achos gan wŷr Rhufain i ymffrostio mai hwy a gawsant y trechaf yn y diwedd? Canys am y glewion Frutaniaid, rhai a safasant ar benau y creigydd, rhai a ddiscynasant i'r traeth,

* Apud quos [Britannos] nulla loricarum galearumve tegmina. Tacit. Annal. lib. 12. p. 142.

ereill a aethant hyd eu tinbeisiau i'r môr, a phawb yn ergydio eu saethau cyn amled at y gelynion, nes oedd gwaed y lladdedigion yn ffrydio megys pistyll, yma ac acw, dros ystlysau'r llongau i'r môr.

Yr oedd Iwl Caisar yn bwrw cael hawddgarach triniad; ac er gwyched rhyfelwr oedd efe, edrychodd yn awr yn lled ddiflas ar y mater, wrth weled ei wŷr wedi digaloni; rhai yn ei regi ef am eu tynu i'r fath ddinystr, rhai yn haner marw yn ochain ac yn griddfan yn nghrafangau angau, ereill yn gorwedd yn gelaneddau meirw yn ymdrabaeddu yn eu gwaed. Unwaith, yn wir, y meddyliodd gyfodi hwyliau, a myned adref; ond efe a ystyriodd y byddai hyny yn ddifenwad ac yn gywilydd byth iddo yn mysg ei gydwladwyr; ac o achos hyny, efe a ymwrolodd drachefn, ac a dywedodd rhwng bodd ac anfodd, "Gwaradwydd, ïe, gwaradwydd tu hwnt i ddim, i ni ddychwelyd adref wedi dyfod cyn belled a hyn; nage, ni a fynwn dirio, pe byddai'r diawl ei hun ynddynt." Ac yna, fel y gwelwch chwi darw yn taflu ac yn gwylltio ar ol bod dau neu dri o waedgŵn wrtho un haner awr; felly gwŷr Rhufain hwythau a chwerwasant oddimewn, gan ergydio eu saethau cyn amled a chenllysg ar y Brutaniaid; a lladdwyd y fath nifer o bob ochr, nes oedd y môr agos yn wridog gan waed y lladdedigion, a chyrff y meirw a'r clwyfus cyn dewed yn gorwedd ar fin y môr, a defaid mewn corlan. A phe buasai elw i Iwl Caisar osod ei draed ar dir Brydain, hyny a gafodd efe; eto pe na buasai iddo ef a'i wŷr redeg yn gyflym i gael diogelwch yn eu llongau (fel y gwelwch haid o wenyn yn taro i'r cwch o flaen tymestl), hwy a larpiasid yn dameidiau a chleddyfau y Brutaniaid dewrion. Oddeutu deuddeg a deugain o flynyddau cyn geni Crist y bu hyn.

Mi a wn o'r goreu fod Iwl Caisar yn dywedyd ei hun, iddo wneuthur gryn hafog yn Mrydain. Ond pa le mae ei gymydogion i roddi gair o'i blaid? Prin y gellir coelio neb yn seinio allan ei glod ei hun; ond yn enwedig yma, pan yw ei gydwladwyr, y rhai a ysgrifenasant hanes ei fywyd, yn tystio yn eglur na wnaeth efe ond gosod ychydig fraw ar y trigolion;* ond nid dim o'r fath beth a'u meistroli, na dyfod a hwy dan ei lywodraeth: ac y mae un o brydyddion yr oes hono yn canu, am ei weithred yn Mrydain fel hyn:—

* Quanquam prosperâ pugnâ terruerit Incolas, ac littore potitus sit, potest videri ostendisse posteris, non tradidisse. Vit. Agr. p. 638.

"Territa quæsitis ostendit terga Britannis."
LUCAN.

"Caisar, er trydar tramor,— a giliodd
O'r golwg i'r dyfnfor,
Rhag saethau picellau pôr
Llu dien Fryden frodor."

Mawr oedd llawenydd a gorfoledd y Brutaniaid wedi gyru ffo, fel hyn, ar wŷr mor enwog, y rhai oeddent yn galw eu hunain yn Feistri y byd. A Chaswallon y brenin a barodd i'r penrhingyll gyhoeddi diaspad,* i orchymyn pawb i aberthu i'r tadolion dduwiau. Ac yna anfonodd lythyrau at bendefigion, uchelswyddogion, a gwŷr da y wlad, i'w gwahodd hwynt i Lundain i wledda a bod yn llawen : ac fe ddywedir i ladd at y wledd fawr hono ugain mil o wartheg, deng mil a deugain o ddefaid, a dau can mil o wyddau a chaprynod; ac o adar mân, gwylltion a dofion, ddau cymaint a'r a allai neb eu cyfrif neu eu traethu ; † a'r wledd hon oedd un o'r tair gwledd anrhydeddus ynys Brydain.

"Ugain mil o fwystfiledd
Yn feirw a las pan fu'r wledd."
DAFYDD NANMOR A'I CANT.

Ond ni pharhaodd tegwch y llwyddiant hwn yn hir, nes i'r haul drachefn fachludo dan gwmwl gerwindeb. "Nid y boreu y mae canmol diwrnod teg." Mor anwadal ac ansafadwy yw parhad anrhydedd a golud bydol! Ac ni a welwn yn fynych rwygiadau enbyd yn dygwydd, ïe, hafog a distryw gwledydd, oddiwrth bethau bychain a distadl ar yr olwg gyntaf; ond pan unwaith y brydia o lid galon dyn mileinig a chwerw, pwy a ŵyr pa le y diwedda? "Gwr digllon," ebe Selyf ddoeth, "a enyn gynhen ; a'r llidiog fydd aml ei gamwedd ;" megys y tystia yr hanes a ganlyn.

Yn mhen ychydig ar ol y wledd fawr uchod, y dygwyddodd i ddau bendefig ieuainc, o waed breninol, fyned allan i'r gamp i ddifyru ; megys i ymaflyd codwm, neidio, taflu coetan, chwarau palet, chwarau cleddyf deuddwrn, &c. enw y naill oedd Hirglas, ac efe oedd nai i Gaswallon y brenin ; ac enw y llall oedd Cyhelyn, a nai oedd yntau i Afarwy, tywysog Llundain, ewythr y brenin, frawd ei dad. Ond yn niwedd y chwarau,

* Proclamation. ‡ Hanes Brenin. 23. Ms.

yn lle difyru a bod yn llawen, y tyfodd annghydfod ac ymrafael rhyngddynt, a dechreu ymgecru; ac o roddi geiriau cras, myned a wnaethant frig-frig ac ymgyndynu, ar hyny i dynu eu cleddyfau, lle y lladdodd Cyhelyn, nai Afarwy, Hirglas, nai y brenin, er bod Afarwy yn honi mai syrthio ar ei gleddyf ei hun a wnaeth Hirglas. A rhag y gelwid ei nai i gyfrif am y llofruddiaeth, a dyoddef cosp cyfraith (am fod Caswallon yn bygwth hyny), Afarwy a anfonodd lythyr i wahodd Iwl Caisar i ddyfod eto i Frydain, yn y geiriau hyn:—*

"Afarwy ap Lludd, tywysog Llundain, yn anfon annerch i Iwl Caisar, ymherawdwr Rhufain, a chwedi dymuno ei angau gynt, weithian yn dymuno iechyd iddo. Edifar yw genyf ddal i'th erbyn di, pan fu'r ymladd rhyngot ti a Chaswallon ein brenin ninau; canys pe peidiaswn, heb dy ammheu, ti a fuasit yn fuddugol. A chymaint o syberwyd a gymerth yntau wedi cael y fuddugoliaeth hono trwy fy nerth i, fel y mae ef weithian yn fy nigyfoethi inau, ac felly yn talu drwg dros dda i mi. Mi a'i gwneuthym ef yn dreftadawg, ac y mae yntau yn fy nidreftadu inau. A minau a alwaf dystiolaeth nef a daear, hyd na haeddais i ei fâr ef o iawn, ond o herwydd na roddwn fy nai iddo i'w ddïenyddu yn wirion. Ac edryched dy ddoethineb di ddefnydd ei lid ef. Chwareu palet a orug † dau neiaint i ni, a gorfod o'm nai i ar ei nai ef; ac yna llidio a orug nai y brenin, a chyrchu fy nai i a chleddyf; ond efe a syrthiodd ar ei gleddyf ei hun, oni aeth trwyddo. Ac wrth nas rhoddais, y mae efe yn anrheithio fy nghyfoeth inau. Ac wrth hyny, yr wyf yn gweddïo dy drugaredd, ac yn erchi nerth genyt i gynal fy nghyfoeth, hyd pan fo, drwy fy nerth inau, y ceffych di ynys Brydain. Ac nac ammheued dy bryder am yr ymadrodd hwn, canys llawer wedi ffoi unwaith a ymchwelant yn fuddugol."

Ac o ran ei fod ef yn gwybod mai hen gadnaw oedd Iwl Caisar, ac nad oedd ond ofer iddo dybied y rhoddasid coel idd ei eriau heb ryw feichnïaeth, y bradwr Afarwy a anfonodd ei fab, yn nghyda deuddeg ar hugain o farchogion, i ddwyn y llythr at Iwl Caisar, ac hefyd i fod yn wystlon o fod ei amcan yn gywir. Bywiogodd hyn galon Caisar, ac nid allasai un peth ddygwydd yn fwy dymunol ganddo; ond eto o herwydd na chafodd efe ond croesaw cyn hagred, a gorfod arno ffoi a

* Geiriau y Cronicl yw y rhai hyn, air-yn-air. Ms.

† Ystyr y gair "orug" yw, "a wnaeth."

throi ei gefn y waith gyntaf, efe a ddaeth yn awr yn llidiog ac yn hyderus, yr ail waith; canys lle nid oedd ganddo ond pedwar ugain o ysgraffau (neu longau) y tro cyntaf, i fordwyo ei wŷr drosodd i Frydain, yr oedd ganddo yn awr wyth cant; a nifer ei filwyr y tro hwn oedd dair mil ar ddeg ar hugain, a thri chant a deg ar hugain o wŷr traed, a'r un nifer hefyd o wŷr meirch; sef oedd eu rhifedu gyda'u gilydd, chwe' mil a thri-ugain, a chwe' chant a thriugain.*

Agos i gan mil o wŷr arfog, a'r rhai hyny, gan mwyaf, yn rhyfelwyr o'u mebyd, beth a allai sefyll yn erbyn y fath lu mawr a hwnw! ac ni wyddys pa nifer o filoedd oedd gan y bradwr Afarwy i fod yn blaid a hwy! Ac y mae un bradwr cartrefol (a melldith ei fam a gaffo pob cyfryw un byth) yn waeth na chant o elynion pellenig; canys y mae y bradwr cartrefol yn gydnabyddus a phob amddifynfa a lloches, a lle dirgel, lle y mae dim mantais i'w gael. Ond er hyn oll ni fu i Iwl Caisar achos mawr i orfoleddu o'i daith, na chlod chwaith gan ei gydwladwyr yn Rhufain. Canys yr oedd y Brutaniaid wedi pwyo, yn ngwaelod Tems, farau heiyrn erchyll a phigau llymion, y rhai ni allai neb eu canfod ychydig oddiwrthynt, am eu bod droedfedd neu ddwy dan y dwfr; a phan ddaeth llongau Caisar yn ddiarwybod ar draws y rhai hyny, gwae fi! pa waeddi wbwb a therfysg oedd, ar hyny, yn mysg milwyr Rhufain; y pigau dur yn rhwygo yr ysgraffau, a hwythau yn soddi ar fin y lan; a'r Brutaniaid hwythau ar dir sych, yn llawen am weled eu dyfais yn llwyddo cystal. Y mae'n hawdd i ni farnu, pe na byddai ond oddiwrth hyn yn unig, nad oedd yr hen Frutaniaid mor anfedrused pobl ag y mae rhai yn gweled bod yn dda i daeru: "Câs yw'r gwirionedd lle ni charer."

Ond gan nad pa un, Iwl Caisar a diriodd, yn ddilys ddigon, y waith hon, yn Mrydain; ac os oes coel ar y peth a ddywed y pendefig ei hun, efe a diriodd yn ddirwystr, ond a gafodd ei longau, gan y picellau, yn ngwaelod Tems. Yr oedd y trigolion, eb efe, wedi cilio i'r coedydd ac idd eu llochesau, wedi brawychu wrth weled cynifer o longau (wyth cant o rifedi). Ond yn mhen ychydig amser yr ymwelsant ag ef, nid i'w gapio a phlygu glin ger ei fron, ond i ergydio picellau dur at ei galon; canys ar eu gwaith yn bloeddio i'r

* Cum Legionibus V. et pari numero Equitam. Cæs. lib. 5. p. 77.

frwydr, y Brutaniaid a gymerasant arnynt i ffoi; ond nid oedd hyny ond rhith; ac ar waith y Rhufeiniaid yn eu herlid yn fyrbwyll, yr ymchwelodd y Brutaniaid ac ail-ruthro, a gwneuthur galanasdra nid bychan yn mysg y gelynion, er fod Iwl Caisar yn bostio [ymffrostio] mai efe a'i wŷr a gawsant y trechaf yn y diwedd.

Ond boed hyn fel y myno; un peth, yn anad dim, oedd hynod dros ben yn mysg yr hen Frutaniaid, sef eu gwaith yn ymladd o gerbydau a bachau heiyrn oddi tanynt; ac yr oedd gan Gaswallon, y brenin, bum mil yn yr ymladdfa uchod. Dyfais waedlyd oedd hon; canys wrth yru ar bedwar-carn gwyllt, hwy a dorent restrau y gelynion, ac a'u llarpient yn echrydus, wrth fod y bachau dur yn rhwygo eu cnawd, ac yn eu llusgo yn erchyll, fel nas gallai dim fod yn fwy ofnadwy a ffyrnig. Ni welodd y Rhufeiniaid erioed y fath beth o'r blaen, a diammheu mai dychymyg greulon aruthrol oedd hyny; ond wrth ryfela nid ydys yn astudio ar ddim ond dinystr a dystryw. Ond er gwyched rhyfelwyr oedd gwŷr Rhufain, dywedir eu bod yn wyneblasu ac yn delwi ar eu gwaith yn clywed trwst cerbyd, fel y gwelwch gywion yr iâr yn crynu rhag barcut chwiblsur, egr, yn gwibio oddi fry arnynt.

Ni arosodd Iwl Caisar ond amser byr y tro hwn ychwaith, yn Mrydain; ac achos da paham, yr oedd y wlad yn rhy dwym iddo; canys y mae efe ei hun yn addef, nad oedd dim esmwythdra na llonyddwch iddo ef na'i wŷr. Canys pan elai ei wŷr allan i barotöi lluniaeth, neu, mewn geiriau ereill, pan elent i ladrata da a defaid, ac ysbeilio tai gwirioniaid, yna y Brutaniaid a ruthrent arnynt, a'u taro yn eu talcen; a dedwydd a fyddai hwnw, yr hwn o nerth ei draed, a ddygai y chwedl yn ddiangol i glustiau Caisar. Ac atolwg, a oedd bai mawr ar yr hen Frutaniaid yn trin lladron a llofruddion felly? Eu holl ymgais hwy oedd ceisio amddiffyn eu gwir feddiant, a'u heiddo eu hunain; ac oddiyno y tyfodd y ddihareb, "Gwell gwegil câr na gwyneb estron." Caisar, ar hyny, a fwriadodd o ddifrif fyned adref i dir ei wlad; a'r Brutaniaid hwythau a feddiannasant eu gwlad yn heddychol a didaro dros agos i gant o flynyddau wedi hyny (a pheth mawr yw na chai dynion fyw yn llonydd ar eu gwir eiddo eu hunain).

Amcanodd Augustus Caisar (yn amser yr hwn y ganed Crist Iesu) ymdreiglo i'r ynys hon; ac y mae un o benpryd-

yddion yr oes hono yn dymuno llwyddiant iddo ef a'i wŷr, yn y fath bennill a hwn :—

> "Cadwed y duwiau Caisar fawr,
> A'i lu yn awr yn treiddio
> Yn mhell i Frydain, dros y môr;
> A boed hawddammhor iddo." *

Ond ni wnaeth efe ddim ond amcanu a bygwth ar flaen tafod.

O gylch deng mlynedd ar hugain ar ei ol ef, bwriadodd Caio Caisar [Caius Cæsar], yr hwn oedd ddyn pen-dreigl ysgeler, ymweled a'r ynys hon. Efe a gynullodd yn nghyd ei wŷr, efe a daclodd ei arfau, ac a wnaeth bob peth yn barod i'r daith; ac yna, ar ol codi hwyliau, a morio ryw gymaint o olwg tir Ffrainc, llaesodd calondid y gwr; ac yn lle myned yn mlaen i dir Brydain i ennill clod wrth nerth arfau, fe roes orchymyn i'w wŷr ddychwelyd yn eu hol i dir Ffrainc, a myned a chasglu cregin ar lan y môr :† ac yr oedd hyny, ond odid, yn well difyrwch na chael briwio eu hesgyrn wrth ymladd a'r Brutaniaid.

Hyd yn hyn, y cadwodd y Brutaniaid eu hawl a'u rhyddid yn gyfan rhag trais a gormes y Rhufeiniaid; a hwy a allasent wneuthur hyny o hyd, pe buasent yn unfryd a heddychol a'u gilydd. Ond rhaid addef mai dynion diffaith cynhenus drwg oeddent; na fedrent gydfod fel brodyr yn nghyd; arglwydd un cwmwd yn ymgecru a'i gymydog, ac yn myned ben-ben, fel y gwelwch chwi ddau waedgi gwancus yn ymgiprys frig-frig am asgwrn. Odid fyth y-byddai heddwch parhaus drwy y deyrnas; y trechaf yn treisio'r gwanaf; ac ysbryd o ymddïal yn brydio yn ddiorphwys yn mynwesau y gwyr mawr. Ac y mae y Rhufeiniaid, er eu bod yn elynion, yn addef yn ddigon eglur, na allasent hwy fyth orthrechu y Brutaniaid, oni buasai eu hannghydfod, a'r ymraniad yn mysg eu pendefigion hunain.‡ Er mai un brenin oedd ben ar yr holl deyrnas (yr hwn a alwai yr hen Gymry, "Unben coronog"), eto yr oedd amryw dywysogion ac arglwyddi a llywodraeth oruchel yn eu dwylaw; ac odid fyth fod y rhai hyn heb ryfel a ffyrnigrwydd rhyngddynt.

Yr oedd yr ysbryd ymddïal hwn yn fwy anesgusodol eto, o herwydd fod eu doethion a'u gweinidogion crefydd ( y rhai a

* Horat. lib. 1. od. 35.

† Dio. Cass. cit. a. c. p. 43. ‡ Tacit. Annal. lib. 12. p. 243.

enwid y pryd hyny y Derwyddon) yn pregethu o hyd yn mhob cymanfa, ar iddynt ystyried enbyted iddynt eu hunain, ac i les cyffredin y wlad, oedd eu gwaith yn ymrafaelio ac ymgyndynu; ac yn mysg ereill, Cyntwrch, gwr dysgedig o radd y Derwyddon, a areithiodd yn y wedd hon:—"Chwy-chwi bendefigion urddasol o genedl y Brutaniaid, clust-ymwrandêwch a'm chwedl: Rhyw hynafgwr, gynt, ag iddo ddeuddeg mab anhydyn, ac heb wrando ar ei gynghor i fod yn unfryd a heddychol a'u gilydd, a ddygodd gwlwm o ffyn ger eu bron, sef deuddeg o nifer, ac a archodd os gallai un o honynt, o rym braich, dori y cwlwm yn ddau; yr hyn pan brofodd un ac arall yn ol-yn-ol, a atebasant, nad oedd agos ddigon o rym yn neb un o honynt i dori y baich ffyn yn nghyd: yna yr hynafgwr a ddattododd y cwlwm, ac yn hawdd ddigon y torodd y llanciau y ffon, a roddasid i bob un ar neilldu. Ar hyny dywedodd eu tad wrthynt, 'Cydnabyddwch, fy meibion, tra byddoch chwithau yn cyd-ddal yn nghyd mewn cwlwm tangnefedd a chariad brawdol, na all neb eich gwaradwyddo; eithr os ymranu a wnewch, byddwch yn ysglyfaeth i'ch gelynion.' O gydwladwyr, a chwi bendefigion y bobl, dyna ansawdd ein cyflyrau ninau; os nyni a ymgedwn yn un a chytun, ni all holl ymgyrch y Rhufeiniaid wneuthur dim niwed i ni. Nyni a welsom eisoes, wrth yru Iwl Caisar ar ffo; eithr os anrheithio a difrodi cyfoeth y naill y llall a rhyfela a'ch gilydd yw eich dewis, byddwch sicr o fod yn gaethweision i'r Rhufeiniaid."*

Ond yr un peth a fuasai canu pibell yn nghlustiau'r byddar, a cheisio eu perswadio [darbwyllo] hwy i fod yn heddychol; canys dilyn eu hen gamp ysgeler a wnaethant hwy fyth, ymryson a llofruddio eu gilydd, fel adar tô yn ymgiprys am ddyrnaid o yd, heb wybod fod hyny yn eu harwain at y groglath. Ar air, cymaint oedd eu cynddeiriogrwydd a'u malais, fel prin y byddai cydfod parhaus rhwng y naill gantref a'r llall drwy y deyrnas.†

Yn y terfysg a'r cythrwfl yma, dygwyddodd i ryw ŵr mawr a elwid Meuric, gael ei yspeilio o'i gyfoeth a'i awdurdod, llosgi ei dai, anrheithio ei diroedd, llofruddio ei ddeiliaid, a'i yru yntau ar draws gwlad i gael noddfa lle y gallai! Ac yn y wŷn danbaid hon, efe a aeth dros y môr i wahodd

* Ms. Vet.

† Rarus duabus tribusve Civitatibus conventas. Tacit. Annal.

Gloyw Caisar [Claudius Cæsar] i oresgyn ynys Brydain; yr hyn a ddygwyddodd o gylch blwyddyn yr Arglwydd 44, a hyny oedd agos i gan mlynedd ar ol i Iwl Caisar dirio yma cyntaf. Yna Gloyw Caisar, ymherawdwr Rhufain, a alwodd ei ben cynghoriaid yn nghyd, i wybod eu barn, pa un ai rhyfela a'r Brutaniaid ai peidio, fyddai oreu. A hwy a atebasent, "Digon gwir fe gafodd Iwl Caisar ei drin yn hagr a'i faeddu ganddynt; eto ystyried dy fawrhydi di, pa fodd y mae gwlad Brydain wedi ymranu yn awr; nid oes dim ond y gynhen a'r anras yn eu mysg; ac y mae gyda ni un o'u goreuon yn gyfaill calonog i ni, Meuric dan ei enw. Mae ef yn gwirio na fydd ond ychydig daro, hyd oni allwn oresgyn eu holl gwlad. Felly, yr ydym ni yn barnu y dylid, yn anad dim, ryfela yno, pe amgen fe'n cyfrifir fel clêr y dom, ac fel cacwn; ac y mae hyny yn anweddus i barch y Rhufeiniaid." "Gwir ddigon," ebe Gloyw Caisar, "dyma'r oedfa i ni ymddïal arnynt, ac ennill y sarhad a'r golled a gafodd Iwl Caisar, fy hen ewythr, ganddynt."

Ar hyny Gloyw Caisar a ymwrolodd yn ei ysbryd, ac a gymerth galon gwr; ond er hyny yr oedd yn gallach nag anturio ei fywyd yn fyrbwyll ar chwedl Meuric; ac a archodd i'r pen cadben, a elwid Plocyn [Plaucius], os byddai hi yn galed arno, ddanfon hysbysrwydd o hyny ato ef i Rufain, ac y deuai ag ychwaneg o wŷr yn gymhorth iddo.

Wedi i Plocyn a'i wŷr, drwy fawr ludded, deithio cyn belled a môr Ffrainc, a hwy yno megys yn ngolwg Brydain, eto efe a gafodd ei wala o waith eu darbwyllo hwy i hwylio drosodd i Frydain; yr oedd dewrder yr hen Frutaniaid megys drain pigog ar eu hafu fyth. Ond rhwng bodd ac anfodd, morio a wnaethant; ac a hwy yn awr yn ngolwg y tir, y chwythodd tymestl o wynt gwrthwyneb a'u gyrodd hwynt drachefn i ardal Ffrainc. Tybiodd y Brutaniaid i'r llongau ddryllio a soddi gan y dymestl, ac a aethant ar hyny bawb ar wasgar; ond yn y cyfamser y tiriodd Plocyn a'i wŷr agos yn ddiarwybod i lu y Brutaniaid, canys y llongau a achubwyd rhag soddi, er cymaint oedd y dymestl.*

Pan oedd llu y Brutaniaid yn y fath annhrefn a hyn, wedi gwasgaru yma ac acw ar draws y wlad, mae'n ddilys i'r Rhufeiniaid wneuthur galanasdra nid bychan wrth ddyfod a rhuthro

* Dio. Cass. p. 506.

arnynt, a hwy yn anmharod; ond yn anad dim o ran yr annghydfod a'r ymrafael yn eu mysg eu hunain. Eithr yn mhen ychydig, wrth weled cleddyf eu gelynion yn difrodi mor ddiarbed, hwy a ddaethant i well pwyll, ac yn un a chytun a'u gilydd; ac "O, mor ddaionus ac mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd!" (Ps. cxxxiii. 1.) canys tra y parhaodd yr undeb hwn, y cynullasant eu byddinoedd yn nghyd dan eu pen cadpen a'u brenin, a elwid Cynfelyn. A phawb yn awr yn wresog i ymladd dros eu gwlad, buan y dialwyd ar y Rhufeiniaid am y gwaed a dywalltasant; ac er cyfrwysed rhyfelwr oedd Plocyn, a ffyrniced i oresgyn y wlad hon, er cael clod a goruchafiaeth gan ei feistr, eto gorfu arno, o anfodd ei ên, ddanfon i Rhufain am ychwaneg o gymhorth;* ac yna daeth Gloyw Caisar, yr ymherawdwr, a'i holl gadernid i Frydain.

Yr oedd y cenadon a ddanfonodd Plocyn i Rufain i gynull ychwaneg o filwyr, wedi adrodd y fath chwedl am ddewrdder y Brutaniaid, fel na wyddai Gloyw Caisar beth i wneuthur, ac arno chwant i ymddïal a chwant i aros gartref; megys anner dwym-galon yn brefu wrth weled y cigydd yn lladd ei chyntafanedig, ac eto heb galon i gornio y llofruddiwr.† Ar ol bod yn hir yn lled bendrist, daeth i'w gof i'r Rhufeiniad ennill y maes oddiar eu gelynion, unwaith neu ddwy, wrth ymladd oddiar gefn yr elephant, yr hwn sydd fwystfil hagr o faint, ac yn hollol anadnabyddus yn y gwledydd hyn. Ac yn wir nid oedd modd iddo daro ar well dychymyg, canys ar ol iddo dirio yn Mrydain, a gosod ei filwyr bob yn ugain neu ddeg ar hugain ar gefn pob elephant (canys cynifer a hyny all efe ddwyn yn hawdd), gwasgarodd hyny y meirch rhyfel, yn nghyda'u marchogion, fel y bu annhrefn erchyll drwy holl lu y Brutaniaid; a'u gelynion a'u gorchfygasant.

Cynfelyn, brenin y Brutaniaid, ar hyny a ymostyngodd i dalu teyrn-ged i Rufain, sef tasg o aur ac arian bob blwyddyn; ac y mae'r arian a fathwyd y pryd hwnw heb fyned ar goll eto, a'r ysgrifen hon i'w gweled arnynt, "Tasg Cynfelyn." Yn mhen un diwrnod ar bymtheg aeth Gloyw Caisar, tuag adref, a choeliwch fi, nid ychydig oedd ei fost yn Rhufain, o'i waith yn darostwng y Brutaniaid wrth y fath ystranc ddichellgar; ac er coffadwriaeth o hyny, bathwyd arian a llun Gloyw Caisar ar y naill wyneb, ac elephant ar y llall.

* Dio. Cass. Loc. cit. † Vide Levit. xxvii. 26.

Nid oedd yn agos i ddegfed ran o'r ynys wedi ymostwng eto i dalu teyrn-ged i Rufain; dim ond y wlad o amgylch Llundain, lle yr oedd Cynfelyn yn teyrnasu; canys pan amcanodd y Rhufeiniaid eangu eu llywodraeth tua'r Gorllewin, safodd gwr pybyr a nerthol, a elwid Caradoc Freich-fras yn eu herbyn; ac yn ol yr hanes y mae'r Rhufeiniaid (er eu bod yn elynion) yn ei adrodd am dano, gwr oedd hwnw heb ei fath, nid yn unig am ei fedr a'i galondid mewn rhyfel, ond hefyd am ei syberwyd a'i arafwch, heb chwyddo mewn hawddfyd, na llwfrhau mewn adfyd. Efe a ymgyrchodd naw mlynedd a holl gadernid Rhufain, ac a allasai ymdopi naw ereill, oni buasai ei fradychu gan lances ysgeler o'i wlad ei hun, a elwid Curtis-finddu.* Yn yr yspaid hwnw efe a ymladdodd ddeg brwydr ar hugain a'i elynion; ac er nid o hyd a chroen cyfan, eto efe a ddaeth bob tro yn ddiangol o'i fywyd, a llawn anrhydedd. Ei araith i annog ei filwyr, a gosod calon ynddynt, oedd at yr ystyr hyn, "Byddwch bybyr a nerthol, O Frutaniaid; yr ydym yn ymladd yn mhlaid yr achos goreu yn y byd—i amddiffyn ein gwlad, a'n heiddo, a'n rhyddid, rhag carnladron, a chwiwgŵn; adgofiwch wroldeb eich teidiau yn gyru Iwl Caisar ar ffo, Caswallon, Tudur Ben-goch, Gronwy Gethin, Rhydderch Wynebglawr, a Madoc Benfras." †

Ar ol ei fradychu i ddwylaw ei elynion, dygwyd ef yn rhwym i Rufain, lle y bu cymaint orfoledd, a llawenydd, a dawnsio, a difyrwch, o ddal Caradoc yn garcharor, a phe buasid yn gorchfygu gwlad o gewri. Prin y bu dinas Rhufain lawnach erioed o bobl na'r pryd hwnw; nid yn unig y cyffredin bobl, ond pendefigion, uchel gadbeniaid, marchogion, ac arglwyddi, o bell ac agos, oeddent yn cyrchu yn finteioedd i gael golwg ar y gwr a ymladdodd gyhyd o amser a holl gadernid Rhufain. Ac ar ddiwrnod gosodedig, mewn eisteddfod lawn o holl oreuon yr Eidal, a'r ymherawdwr ei hun yn bresenol, efe, a wyneb diysgog, a chalon ddisigl, a wnaeth araith, yn gosod allan helbulon byd, a chyfnewidiadau bywyd dyn, mor deimladwy, fel y menodd hyny gymaint ar bawb, fel prin yr oedd neb yn gallu ymattal rhag wylo, a dywedyd, "Wele yn mhob gwlad y megir glew." Yn nghylch blwyddyn yr Arglwydd 53, y bu hyny.

Er hyn oll, ni laesodd calon y Brutaniaid i sefyll allan yn

* Cartismandua. † Vocabatque nomina Majorum. Tac. p. 242.

erbyn gormes y Rhufeiniaid; ond yr oeddent yn fwy llidiog nag o'r blaen i ddial arnynt am y sarhad o ddwyn Caradoc yn garcharor i Rufain. Eu pen cadben, ar ei ol ef, a elwid Arifog; efe a ymladdodd a hwy lawer brwydrau waedlyd, weithiau yn trechu arnynt, ac weithiau yn colli. Ond beth a allai un genedl wneuthur yn ychwaneg tuag at gynal ei gwlad a'i gwir eiddo rhag treiswyr gormesol, nag a wnaeth y Brutaniaid yma? Calondid, gwroldeb, a medr i drin arfau rhyfel, oedd ganddynt gystal ag un genedl dan haul; ond pan oedd gwŷr o newydd yn ymruthro o hyd arnynt (megys yr oedd y Rhufeiniaid yn cyfodi gwŷr o bob gwlad, a'u danfon i Frydain), pa le yr oddd yn bosibl iddynt ymgadw? Mae genym achos i ryfeddu pa fodd y gallasant sefyll allan cyhyd.

Daliwn sylw yma ar gyfrwysdra y Rhufeiniaid i gadw craff ar y wlad a oresgynent drwy nerth arfau; canys yr oeddent yn arferol o arllwys y wlad hono mor llwyred ag oedd bosibl o'i rhyfelwyr, fel y gallent, drwy nerth eu harfau hwy, ennill gwledydd ereill, ac er cadw y wlad a oresgynid dan law. Nid llai nag ugain mil o Frutaniaid oedd gyda Thitus ap Fespasian yn ymladd yn erbyn Jerusalem;* ac yn eu lle y danfonwyd miloedd o bobl yr Eidal, y rhai a ymwthiasant i bob man hyfryd, megys haid o gilion gwancus yn tyru i badell o ddwfr a mêl, ac yn soddi ynddo; neu megys cenfaint o foch gwylltion yn tori i gae o wenith, ac ar hyny yr hwsmon yn galw ei gŵn i'w llarpio. Ac fel hyn y dygwyddodd i'r Rhufeiniaid disperod yma yn y diwedd, fel y dangosaf isod.

Yr oedd y rhai hyn yn gwneuthur castiau hagr a'r hen drigolion, yn eu gwatwar, a'u galw wrth bob enw cras a allasai digywilydd-dra noeth ei ddychymyg: os byddai tiroedd neu dai wrth fodd y Rhufeiniaid, gorfyddai ar y perchenogion ymadael a hwy; a'r cyffredin bobl hwythau yn gorfod gweithio yn galed o foreu hyd hwyr, ac estroniaid yn cael yr elw. Os beiddiai neb achwyn fod hyny yn dost, fod estroniaid yn meistrioli trwy drais, ae yn gwneuthur y trigolion yn gaethweision yn eu gwlad eu hunain, caent aml ffonodiau am eu cwyn, ac yn fynych eu trywanu a'r cleddyf. Ie, yr oedd y Rhufeiniaid yn awr wedi myned mor ysgeler, fel nad oeddent yn edrych ar oreuon y deyrnas ond megys cŵn a barbariaid, fel y mae genym hanes iddynt wneuthur ag arglwydd mawr a

* Jos. Antiq. abridged by J. Howell, p. 255.

elwid Brasydoc;* canys hwy a yspeiliasant ei balas o bob peth gwerthfawr oedd ganddo; ac a'i arglwyddes† yn ymresymu'n llarïaidd a hwy am eu trais, hi a gurwyd a gwïail nes ei bod yn haner marw, a threisiwyd ei merch o flaen ei llygaid; ac i gwblhau eu creulondeb, dygwyd delw a wnaed ar lun yr ymherawdwr, a phwy bynag nid ymgrymai o'i blaen a'i haddoli, a osodid i farwolaeth.

Yr oedd hyn, yn ddilys, yn fyd tost ac annyoddefol; ac ar hyny cydfwriadodd arglwyddi a phendefigion y deyrnas i ruthro arnynt, a'u tori ymaith yn gwbl, hen ac ieuanc, oddiar wyneb y wlad; megys y gwelwch lafurwr yn son am ddiwreiddio drain, ac ysgall, a mieri, rhag eu bod yn anffrwythloni'r tir: yr oedd hyn yn ddiau yn gydfwriad cethin ac ysgeler, ond dyna oedd eu barn hwy y pryd hwnw.

Yn y cyfamser yr oedd llu y Rhufeiniaid, gan mwyaf, wedi myned i oresgyn ynys Môn. Nid oedd yr ynys hono y pryd hwnw ond trigfa o wŷr crefyddol, a elwid y Druidion [Derwyddon], y rhai, megys cenedloedd ereill,‡ oeddent yn dewis rhodfëydd tywyll dan dderi cauadfrig, i aberthu a galw ar y duwiau, megys yr oedd ynys Môn y pryd hwnw yn llawn o laneirch a llwyni pendewion; a hyny yw meddwl y Bardd:—

"Nos da i'r ynys dywell;
Ni wn oes un ynys well."

LLYWELYN GOCH AP MEURYG.

Nid oedd gwŷr Môn, fel y dywedais, yn rhyfelwyr mawr y pryd hwnw, ond cymanfa o wŷr crefyddol; a hwy a dybiasant y dangosai y Rhufeiniaid barch iddynt ar y cyfrif hwnw. Y Derwyddon (heb ddim arfau rhyfel), a gadwent y blaen, wedi eu gwisgo mewn gynau symudliw, capau côr taleithiog am eu penau, a ffyn hirion parwyn yn eu dwylaw; a'r gwyryfon yn dwyn lampau cŵyr wedi eu henyn, yn dawnsio draw ac yma drwy eu canol, yn edrych yn anferthol a syn o hirbell: gwnaeth yr olwg o hyn, yn wir, ryw ychydig fraw ar y cyntaf yn llu y Rhufeiniaid; ond ar ol ergydio cafod o saethau tuag atynt, buan iawn y gwasgarwyd hwy, a'r gelynion a wnaethant laddfa echrydus yn eu mysg. Y lle y tiriodd y Rhufeiniaid yn Môn a elwir hyd heddyw, Maes-hirgâd; a'r ymladdfa uchod fu ger-

* Prasutagus. † Boadicea, neu Buddug.
‡ Ed. Ezec. vi. 13. Hos. iv. 13.

llaw Porthamel, rhwng Pwll-y-fuwch a Llanidan: mae man gerllaw a elwir eto Pant-yr-ysgraffau.*

Yr oedd y fath alanasdra a hwn ar eu duwinyddion yn chwerwi'r hen Frutaniaid fwy-fwy fyth; canys ymresymu a wnaethant, "Dyma'r Rhufeiniaid—llofruddion a dyhirwyr ag ydynt!—wedi ruthro ar ein hoffeiriaid a thrigolion ynys Môn, y rhai ni wnaethant erioed y niwed lleiaf iddynt; ac wele ninau, ar ol pob anmharch a thrais yn y byd, eto yn ymostwng iddynt fel diadell o ddefaid wedi eu tarfu gan ddau neu dri o gorgŵn. Megys y gwnaethant hwy a nyni, felly gwnawn ninau a hwythau. 'Gwell erlid arglwydd na'i ragod.'" Ac ar hyny, megys cnud o lewod wedi tori allan o ffau, cyfodi a wnaethant dros yr holl wlad, a dangos cyn lleied trugaredd i'r Rhufeiniaid yn awr, ag a ddangosasant hwythau i wŷr ynys Môn. Nid oedd dros wyneb yr holl wlad ond crechwenydd y Brutaniaid yn tywallt gwaed, ac ocheneidiau y Rhufeiniaid. Llosgwyd teml a delw yr ymherawdwr, a lladdwyd yr holl offeiriaid. Llundain, yn nghyda'r trefydd o amgylch, lle'r oedd pobl Rhufain yn byw, a losgwyd yn ulw mân, yn nghyda'u trigolion; ac er nad oedd y Rhufeiniaid mor annghall dynion a gadael eu trefydd heb lu digonol o filwyr i amddiffyn y trigolion (heblaw y rhai a aethai i ynys Môn), eto eu gwŷr arfog a dorwyd ymaith megys un a chryman yn tori penau cawn. Mor llidiog a gwrolwych oeddent! Ar air, ychydig lai na phedwar ugain mil, o bob gradd ac oedran, a gwympasant yn y lladdfa echrydus hon.†

Ar hyn, wele ben cadpen y Rhufeiniaid, a eilw'r Cymry, Sywidw Paulin,‡ yn nghyda'i wŷr arfog, yn dychwelyd o Fôn; ac er eu dyfod, ni bu eu calon erioed, un ac arall gyda'u gilydd, mor farwaidd a diddim a'r pryd hwn; canys prin y gallasent ddal eu harfau yn eu dwylaw, gan y dychryn oedd arnynt. Gweled celaneddau eu cydwladwyr yn gorwedd cyn dewed yma ac acw ar hyd wyneb y meusydd, a hen ddefaid yn trigo o'r pwd ar auaf dyfrllyd! gweled eu dinasoedd a'u caerau yn mygu dros wyneb yr holl wlad! ac yn anad dim, gweled llu cadarn o Frutaniaid, o leiaf, bedwar cymaint a'u llu hwy! Yn ddiammheu ni fu dim rhyngddynt a diffodd; canys "toddodd calonau y bobl" wrth weled y fath ddystryw, "ac aethant fel dwfr;" (Ios. vii. 5.) A dilys yw, na tharawsent ergyd, oni

* Vide Rol. Mon. Antiq. Restor. p. 98.

† Tac. Annal. p. 311. ‡ Suetonius Paulinus.

buasai fod eu pen cadpen yn ŵr call a glew: canys ar ei waith yn eu gweled yn delwi ac ymollwng, efe a wyneb siriol, a'u galwodd yn nghyd ac a areithodd yn y wedd hon:—"Ha wŷr," eb efe, "ai digaloni a wnewch rhag dadwrdd a bloeddiadau y barbariaid acw? Beth yw eu llu, gan mwyaf, ond benywetach ffol, y rhai a fuasai yn well syberwyd iddynt aros gartref wrth eu rhod a'u cribau. Am eu gwrrywaid, beth ydynt ond cynifer lleban difedr i drin arfau rhyfel? Ymwrolwch, gan hyny, chwi Rufeiniaid, dychryn gwledydd, a byddwch nerthol y waith hon, a chwi a welwch y barbariaid hyn yn gelaneddau meirwon dan eich traed yn ebrwydd."

Ar hyny Buddug, gwraig Brasydoc, cadbenwraig llu y Brutaniaid (canys benyw oedd ben y gâd y tro hwn), a areithiodd hithau, gan ddywedyd,* "Adnabyddwch, O Frutaniaid, er fy mod i ol-yn-ol o waed breninol, eto nid yw edifar genyf, er nad wyf ond benyw, i gydfilwrio a chwi dros yr achos cyffredin, sef i amddiffyn ein gwlad, ein hawl, a'n heiddo rhag trais anrheithwyr ysgymun, y Rhufeiniaid ysgeler acw. Dialed Duw arnynt am y cam a'r sarhad a wnaethant hwy, ni ddywedaf i mi fy hun a'm teulu yn unig, ond i holl genedl y Brutaniaid! Am danaf fy hun y dywedaf, na fyddaf fi byth yn gaethwraig dan eu llywodraeth, dewised y sawl a fyno; ac os oes ynoch chwithau galonau gwŷr, ymddygwch fel gwŷr yn awr; myfi a wnaethym, ac a wnaf fy rhan i." Ar hyny ergydio a wnaethant eu saethu cyn amled a chafod o genllysg at a gelynion; ac mor hyderus oeddent i ennill y maes (a hwy y fath lu mawr anferthol o bob rhyw ac oedran), fel yr oedd miloedd lawer (yn gynifer pentwr yma ac acw ar benau'r bencydd, ac ereill mewn meni a cherbydau), wedi dyfod yn nghyd yn unig i weled dyfetha'r Rhufeiniaid. Mor fyrbwyll a nawswyllt oeddent!

Derbyniodd y Rhufeiniaid y gafod gyntaf o saethau yn ddigyffro, heb fyned allan o'u rhes; ond ar ol i'r Brutaniaid oeri ychydig o'u brwd ymgyrch, cydio a wnaethant eu tarianau yn nghyd, i ymachub rhag y saethau, a rhuthro arnynt i ymladd law-law a'u cleddyfau llym dau finiog. Nid oedd y Brutaniaid yn gydnabyddus a'r fath ymgyrch a hwn, law-law frigfrig; ac nid oedd ganddynt hwy ond cleddyfau un-finiog, a blaenau pyl, a'u pigau tuag i fynu; ac o achos hyn o anfantais,

* Tacit. ubi Supra.

ond yn anad dim o herwydd eu bod blith-draphlith, heb eu byddino yn drefnus, brathwyd hwynt gan y gelynion megys crin-goed yn cwympo mewn tymestl. Ychydig lai na phedwar ugain mil a gwympodd y dydd du hwnw, o bob gradd ac oedran; er nid cymaint a hyny o wŷr arfog, ond rhwng gwragedd, a gwyryfon, a phlant, a'r werin wirion; canys yr oedd y Rhufeiniaid mor ffyrnig y tro hwn, fel nad arbedasant na hen nac ieuanc, nac hyd yn oed y benywod yn eu griddfan,* ond trywanu pawb yn ddiwahan, cynifer ag a ddaeth o fewn eu cyrhaedd. Buddug, meddant hwy, a wenwynodd ei hun o chwerwder a gofid calon. O gylch blwyddyn yr Arglwydd 62, y bu hyny.

Ar ol hyn, eangodd llywodraeth y Rhufeiniaid, ond nid heb golli llawer o waed, ac ymladd megys am bob troedfedd, a goresgyn drwy rym y cleddyf. Bu ymladdfa waedlyd drachefn yn Môn; un arall a gwŷr y Deheubarth, y rhai, fel y tystia y Rhufeinwyr, oeddent y dynion dewraf a grymusaf y pryd hwnw o holl wŷr Brydain. Oddeutu dwy flynedd ar bymtheg ar ol hyny, sef blwyddyn yr Arglwydd 84, bu ymladdfa fawr a chreulon eto yn y Gogledd, yn agos i gyffiniau Iscoed Celyddon,† lle y cwympodd o'r Brutaniaid (os gwir a ddywed hanesion Rhufain), ddeng mil o wŷr, dan eu pen cadben a elwid Aneurin Gilgoch; ond nid ychwaneg, meddant hwy, nag yn nghylch pedwar cant o bobl Rhufain, ond bod amryw bendefigion a gwŷr mawr o'r nifer hwnw.

Dyweded y neb a fyno ei ddewis chwedl, ni bu cymaint o daro ar y Rhufeiniaid erioed ag a gawsant yn Mrydain; canys am wledydd ereill, ar ol ymladd ac ennill y maes ddwywaith neu dair, y trigolion a ymostyngent i geisio ammodau heddwch; ond am yr hen fechyn, y Brutaniaid, hwy a ddewisent golli can bywyd, pe byddai hyny bosibl, cyn ymostwng i fod yn gaethweision; ac i ddywedyd y gwir goleu, yr oedd y Rhufeiniaid wedi dygnflino, ac yn edifar ganddynt ddarfod iddynt droedio tir Brydain erioed, gan mor beryglus ac anesmwyth oedd eu bywyd. Wrth adnabod natur a thymmher y trigolion yn well, eu bod yn ddynion na ellid byth eu llusgo drwy foddion hagr, y cynyg nesaf a wnaethant, oedd eu harwain i gaethiwed trwy ddywedyd yn deg, a'u colwyno drwy weniaith, a danteithion, a moethau da, megys heliwr yn

* Tacit. ubi Supra. † Scotland.

elio abwyd i ddal cadnaw mewn magl, yr hwn a fu drech na'i holl filgwn. A choeliwch fi, mai dyfais enbyd a dichellgar oedd hon o eiddo'r Rhufeiniaid; canys y pendefigion a ddechreuasant adeiladu tai gwychion, gwisgo dillad o lawnt a sidan, cadw gwleddoedd, a dilyn pob dyfyrwch a maswedd; dysgasant hefyd y iaith Ladin, a phrin y cydnabyddid neb yn ŵr boneddig ond yr hwn a fedrai siared Lladin. Nid oedd hyn oll ddim ond gwisgo gosgordd-wisg gweision, er hardded y tybid hyny gan y werin annghall.

Ond er y cawsai y Rhufeiniaid yn ddiammheu eu gwynfyd pe buasai pawb trwy'r deyrnas yn dirywio i'r fath fywyd masweddol, eto yr oedd rhai a golwg sur yn edrych ar y fath feddalwch llygredig; ac yn mysg ereill, gwr a elwid Gwrgant Farfdrwch* a areithiodd yn y wedd hon:—"Chwi ddyledogion a goreuwyr y wlad, rhoddwch glust i ddychymyg: Y llew, ar foreu teg o hâf, a ganfu afr yn pori ar ben craig uchel yn Arfon: 'O, fy nghares,' eb efe, 'beth a wnewch chwi yn dihoeni ar wellt mor arw ag sydd yna rhwng y creigydd? Paham, fy anwylyd, na ddeuwch i wared yma i'r dyffryn, i bigo meillion a blodeu gwinwydd?' 'Diolch i chwi, meistr,' ebe'r afr, 'am eich cynyg da; ond ar hyn o dro dewisaf aros lle'r ydwyf.' Gwybyddwch chwithau, O bendefigion, nad yw y teganau y mae y Rhufeiniaid yn eich harddu a hwynt, ddim amgen na'r meillion y mae'r llew gwancus yn gwahodd yr afr atynt. Hi, yn y ddammeg, a atebodd yn gall; mynwn pe buasech chwithau yn adnabod nad yw y coeg-bethau ffiloreg yr ydych yn ymdecâu a hwynt, ddim amgen na gwenwyn a mêl drosto. Hon ydyw'r ymgais olaf a'r enbytaf o eiddo'r Rhufeiniaid i'ch dwyn i gaethiwed; a dywedaf yn hyf wrthych, y fath fywyd masweddol a'ch dyg yn ddilys i ddystryw, oddieithr i chwi adnabod eich hunain mewn pryd, megys y gwnaeth yr afr yn y ddammeg."†

Ond dilyn eu rhodres a fynent hwy, ac ni chafodd Gwrgant Farfdrwch ond chwerthin am ei ben, am ei ewyllys da i'w hachub rhag myned bendramwnwgl i gaethiwed. O hyny allan, dros amryw flynyddoedd, y boneddigion a ymroddasant i ddifyrwch a moethau; y gwŷr ieuainc yn dwyn arfau, a gipiwyd i wledydd pellenig; a'r cyffredin bobl hwythau a osodwyd ar waith i ddyhysbyddu llynoedd, gwneuthur sarnau

* Bu brenin o'r enw 375 o flynyddau cyn geni Crist. † Vet. Mss.

newyddion ar draws y wlad, neu wneuthur priddfeini i adeiladu tai gwychion i'w meistriaid, y Rhufeiniaid. Buont yn lled dangnefeddus dros oddeutu deugain mlynedd, heb ddim terfysg nac ymyraeth, ond yn talu teyrn-ged yn lled ddiddig; ond o gylch y flwyddyn 124, pan oedd gwr a elwid Sefer yn rheoli yma dan yr ymherawdwr Adrian, cydfwriadu a wnaethant, dros yr holl deyrnas, i ysgwyd ymaith awdurdod y Rhufeiniaid, a honi eu hawl o'u rhyddid a'u braint unwaith eto. Eu dirmyg ar foneddig a gwreng a gyffrôdd y trigolion i fwrw ymaith iau eu caethiwed. Dywedir, oni buasai fod Adrian yr ymherawdwr a'i holl lu gerllaw, a hwylio drosodd yn ebrwydd yn gynorthwy cafamserol, y Rhufeiniaid, ar hyn o bryd, a dorasid ymaith yn gyfan-gwbl; ac eto bu yn gyfyng iawn arnynt, er mai hwynt-hwy, digon gwir, a gawsant y trechaf yn y diwedd.*

Ar hyn o bryd, wele ddychymyg arall o eiddo'r Rhufeiniaid i gadw'r hen drigolion dan law; canys gwnaethant glawdd mawr, o dyweirch a pholion, bedwar ugain milldir o hyd, ar draws yr ynys, o fôr i fôr, sef o Abercwnrig, y naill ran o'r ynys tua'r dwyrain, hyd yn Ystrad Clwyd, tua'r gorllewin, sef yn agos i gydiad Lloegr ac Iscoed Celyddon, lle mae'r ynys yn gulaf.† Pwy bynag ni roddai ufudd-dod i lywodraeth y Rhufeiniaid, a yrid allan o gyffiniau Lloegr, y tu arall i'r clawdd; ac yr oedd milwyr yma ac acw, ar hyd y clawdd, yn gwylied, i gadw pawb o'r tu draw.

Dros dalm o amser ar ol hyn bu yn lled heddychol, megys heddwch rhwng boneddigion, oddieithr ambell wth a bonclust yn awr a phryd arall, yma ac acw. Ond megys wrth groni afon redegog, hi a erys, ond odid, yn llonydd a thawel dros enyd, eto, pan ddêl llifeiriant, hi a ffrydia yn rhaiadr gwyllt dros yr ystanc, ac a dreigla ac a chwilfriwa pa beth bynag a saif ar ei ffordd; felly y Brutaniaid hwythau, er eu bod dros amser yn lled esmwyth, eto wrth weled eu trin mor hagr, ac fel estroniaid yn eu gwlad eu hunain, a gymerasant galon o newydd; er bod eu gwŷr dewisol, pigion a blodau ieuenctid y wlad, wedi eu cipio o drais tu draw i'r môr, megys yr oedd y Rhufeiniaid yn arferol o wneuthur; eto yr oedd digon o ysbryd chwerw ymddïal yn brydio yn nghalonau y gwŷr oedd gartref; canys y gwŷr tu draw ni wnaethant fwy cyfrif o'r clawdd, nag a wna march rhyfel i neidio dros gornant; a

* Spartian. ap. c. p. 67. † Edrych y Map.

phreswylwyr Lloegr a Chymru, tu yma i'r clawdd, a godasant yn un a chytun dros wyneb yr holl wlad, nes ei bod hi yn amser gwaedlyd y pryd hwnw yn Mrydain. Cynllwyn am waed, lladd a dyfetha eu gilydd drwy boenau a chreulonder, llosgi tai a gwŷr a gwragedd a phlant o'u mewn; ar air, ymffyrnigo mewn dialedd oedd agos yr unig beth oedd y Rhufeiniaid a'r Brutaniaid yn myfyrio arno dros amryw flynyddau. Digon gwir, ymlonyddent dros ychydig amser i gymeryd eu hanadl, megys dau darw gwyllt yn ymgornio ac yn gadael heibio dros ychydig; ond eu llid a frydia o newydd, a myned i ymdoppi yn ffyrnicach nag o'r blaen.

Syrthiodd peth aneirif o bob gradd ac oedran, yn gystal o'r Rhufeiniaid ac o'r Brutaniaid, yn y terfysg yma, yr hwn a barhaodd dros gymaint o flynyddau. Dywedir i ddeng mil a deugain o filwyr a swyddogion Rhufain, heblaw ereill ar hyd wyneb y deyrnas, gael eu trywanu a chleddyf y Brutaniaid. Y gwirionedd yw, yr oedd y ddwy genedl yn ben-gam eu gwala; ni fynai'r naill ddim plygu ac ymostwng, na'r llall adael heibio wedi dechreu.

Y newyddion nesaf sydd genym am danynt yw o gylch y flwyddyn o oedran Crist 197, pryd y daeth yr ymherawdwr a elwid Sefer [Severus], a llu mawr iawn ganddo drosodd i Frydain, sef agos i gan mil, rhwng gwŷr meirch a gwŷr traed, gan lwyr fwriadau dyfetha cenedl y Brutaniaid oddiar wyneb y ddaear; canys pan diriodd, efe a roddodd orchymyn i'w filwyr mewn pennill allan o hen Brif-fardd:—*

> "Na edwch Fritwn yn y wlad, ond lleddwch oll i gyd;
> Gwrryw a benyw, mawr a bach, difrodwch oll yn nghyd."

Ond er i hyn o fygwth daro braw a'u digaloni, eto cafodd gryn waith i ddarostwng pob man dan ei lywodraeth. Am y rhan fwyaf, digon gwir—a hwy wedi cael gormod o brawf eisoes o ddyhirwch rhyfel, ac yn enwedig wrth ystyried nad oedd yn ddim sarhad na chywilydd i'r Brutaniaid ymostwng i dalu teyrn-ged, pan oedd yr holl fyd (hyny yw, y rhan fwyaf o'r byd adnabyddus y pryd hwnw) dan awdurdod y Rhufeiniaid, ac yn eu cydnabod yn feistriaid—am hyny, meddaf, danfonasant genadwri at yr ymherawdwr, "ar fod yn wiw ganddo alw yn ol a diddymu y gorchymyn gwaedlyd a roddodd efe o'r blaen i'w

Vide Homer, Il. 3.

filwyr, ac y byddent hwythau wedi hyny yn ddeiliaid ffyddlon iddo." A'r ymherawdwr, ar ol cael deuddeg o ben-goreuon y deyrnas yn wystlon ar iddynt gyflawni eu gair, a'u derbyniodd i'w ffafr, a gwnaethpwyd ammodau o heddwch rhwng y ddwy genedl.

Ond er i'r rhan fwyaf o'r deyrnas gymeryd llw o ufudd-dod, eto yr oedd miloedd o rai cyndyn (a Merfyn Frych Wyneb-glawr yn ben cadben arnynt) nad ymostyngent ar un cyfrif i lywodraeth pobl pellenig, er gwaethaf eu holl gadernid a'u bygythion; oblegid hwy a gilient i'r anialwch a'r corsydd, lle ni allai y Rhufeiniaid eu canlyn heb berygl bywyd; a phrin y gellid eu newynu chwaith, oblegid fod ganddynt ryw damaid gymaint a ffäen a gadwent yn eu geneuau, a fwriai ymaith chwant bwyd.* Ond o fesur ychydig ac ychydig, hwy a ddofwyd, ond nid heb golli llawer o waed bob ochr: ac ni ymddiriedodd yr ymherawdwr byth iddynt; canys efe a'u dan-fonodd hwy y tu arall i'r clawdd, yr hwn a adgyweiriodd efe o fôr i fôr, ac a'i gwnaeth yn gadarnach o lawer na'r hen glawdd, er nad oedd ef eto ond o dyweirch a pholion. Enwir y clawdd hyd heddyw, Gwal Sefer; am ba un y cân rhyw hen fardd fel hyn :—

"Gorug Seferus waith cain yn draws dros ynys Frydain,
Rhag gwerin gythrawl, gwawl fain."

Dyn dewr calonog oedd Sefer, ac a gadwodd, tra y bu ef yn teyrnasu, bob beth yn wastad a heddychlon. Bu farw yn y flwyddyn 213, yn Nghaerefrog; a'r geiriau diweddaf a ddy-wedoedd efe ar ei wely angeu, oeddent, "Mi a gefais yr ymher-odraeth yn llawn terfysg a helbul, ond wele bob beth yn awr yn dangnefeddus, ïe, hyd yn oed yn mysg y Brutaniaid eu hunain."

Ni bu dros amryw flynyddoedd wedi hyny ddim rhyfel, oddieithr ambell ergyd chwyrn, ac ambell sen chwimwth draw ac yma. Y Rhufeiniaid oedd yn awr yn feistriaid, ac odid fod gwas lifrai drwy yr holl deyrnas, nad oedd yn deall ac yn siared Lladin yn ddifai. Yn y flwyddyn 228, yn misoedd Tach-wedd a Rhagfyr, gwelwyd seren gynffonog yn estyn ei phelydr allan megys tân llachar, yn ofnadwy ac aruthrol i'w ganfod; a'r hâf, dros dair blynedd ar ol hyny, yr oedd mor wlyb fel na addfedodd nac yd na ffrwythau coed; yr hyn a achosodd ddrudaniaeth, a haint, a newyn. Yr oedd y bara yn afiach,

* Dio. Cass. ap. c. p. 45.

ac y mae hanesyddiaeth yn mynegi mai yn awr oedd y waith gyntaf (er dygwydd yr un farnedigaeth amryw brydiau wedi hyny) o'i alw y bara chwydog; oblegid nad oedd yn dygymod a chorff dyn, ond yn ei chwydu allan drachefn, er fod y werin druain, yn eu gwanc a'u newyn, yn gorfod ei fwyta er saled oedd. Ond y gauaf y drydedd flwyddyn y bu dur-rew parhaus o ganol Tachwedd i ddechreu Chwefror, a hâf rhadlon tymmherus ar ol hyny, yr hyn, drwy fendith Duw, a ddygodd lawndid a digonolrwydd o bob peth i'r trigolion drachefn.*

Y pryd nesaf y mae crybwyll am helynt y Brutaniaid, sydd o gylch y flwyddyn 286, yn mha amser, gwr a elwid Caron, yr hwn oedd o dylwyth gwael,† eto yn filwr gwych a dewr, a anfonwyd o Rufain yn ben ar ddeugain o longau, i gadw ymaith y Ffrancod ‡ a'r Saeson, y rhai oeddent yn diffeithio y wlad a elwir yn awr Ffrainc, ond y pryd hwnw y Gelli: canys pig-ladron a gwibiaid oedd y ddwy genedl hono ar y cyntaf, megys haid o gacwn neu wenyn ormes yn ymwthio i gwch yn llawn o fêl. Caron a ymddygodd yn wrolwych, gan ddarostwng hyd y llawr y crwydredigion ladronach hyny, ac ennill anrhaith fawr iawn oddiarnynt; ond efe a drodd yn benlleidr ei hun, ac yn fradwr i'w feistr, ymherawdwr Rhufain; canys efe a gadwodd yr holl gyfoeth yma yn feddiant iddo ei hun, a rhag y gelwyd ef i gyfrif am hyny, efe a lanwodd ei longau a'r yspail, ac a hwyliodd i Frydain. Trwy ei weniaith efe a ennillodd galonau'r Brutaniaid, gan areithio a dywedyd, "Y caent hwy esmwythach byd dan ei lywodraeth ef na chan y Rufeiniaid, ac y byddai efe yn gyfaill cywir iddynt rhag ymgyrch un gelyn pa bynag." Ond wedi iddo gael y llywodraeth yn ei law, efe a ymddygodd yn ormeswr creulon yn hytrach nag ymgeleddwr, megys llawer boreu teg o haulwen hâf yn diweddu mewn dryghin. Eto am ei fod ef yn cadw llaw dyn ar war y Brutaniaid, ei hen feistr (Dioclesian oedd ei enw) a heddychodd ag ef, ac a gadarnhaodd ei freniniaeth yn Mrydain; am hyny, y mae ar naill wyneb yr arian a fathwyd dan ei lywodraeth ef, ddwy fraich estynedig yn siglo dwylaw; ac y mae y fath hono heb fyneb ar goll eto.§

Lle nid oes hawl dda, y mae yno yn wastad ofn; ac felly Caron i ddiogelu ei hun yn y freninaeth, a adeiladodd saith castell wrth Wal Sefer, yn gynifer amddiffynfa i gadw allan y

* Mss. † Vilissime' natus. Eutrop. Inst. p. 607. ‡ Nid y Ffrancod presennol oedd yn byw yn y pryd hwnw. § Camd. p. 73.

rhai oedd yn edrych arno yn ddim amgen na charn-lleidr mewn awdurdod; ac efe a wnaeth hefyd dŷ mawr crwn o gerig nadd ar lan Caron, i gynal llys ynddo pan y byddai efe yn y parthau hyny.* Ond ar ol saith mlynedd o deyrnasiad gerwin a llym, efe a laddwyd,† yn fradychus, gan ei swyddog ei hun, yn yr hwn yr ymddiriedodd, a elwid Alectus. Hwn hefyd a drawsfeddiannodd y wlad dair blynedd, a lladdwyd ef gan Frân† ap Llyr; a hwn a deyrnasodd chwe mlynedd, ac yntau hefyd a laddwyd† gan Coel Codebog, iarll Caerloew; a'i fab Caradoc a aeth i Wynedd, lle y claddwyd Bronwen, chwaer ei dad, mewn bedd petryael, ar lan Alw yn ynys Mon; a chwedi marw Caradoc, gwnaethpwyd ei fab Eyddaf yn rhaglaw Brydain gan Gystenyn Fawr, ei gefnder, fel y dangosaf rhagllaw.

Dyddiau blin oedd y rhai hyn; pan, pa lymaf y byddai cleddyf gwr, mwyaf i gyd fyddai ei awdurdod a'i feistrolaeth. Ond ar hyny daeth trosodd i Frydain dduc anrhydeddus a elwid Custeint [Constantius), yr hwn a fu yn ymherawdwr yr holl fyd wedi hyny. Efe a ddaeth drosodd ar amser da, canys efe a achubodd y prif ddinas, Llundain, rhag cael ei hanrheithio a'i llosgi gan y Ffrancod, y rhai, yn yr annhrefn a'r afreolaeth uchod (y gwŷr mawr yn ymranu benben), oeddent yn chwilena draw ac yma am ysglyfaeth; megys pan fyddo dau waedgi yn tynu llygaid eu gilydd am olwyth o gig, heb fod yn well oddiwrtho, y mae corgi taiog yn dyfod heibio, yn myned ymaith a'r golwyth, ac yn gadael y ddau golwyn i wneuthur heddwch gan eu pwyll.

Mawr oedd gorfoledd y Brutaniaid a'u diolchgarwch i Gusteint, am eu hachub o grafangau y Ffrancod. Bathwyd arian yn Llundain er anrhydedd iddo, a gosodwyd ar y naill wyneb ei ddelw ef, ac ar wyneb arall teml rhwng dwy eryr, gan arwyddocâu wrth hyny, mae'n debygol, fod eu breintiau eglwysig yn ddiogel dan ei nawdd ef; canys ei fod efe yn hoffi y Cristionogion, ac yn gwneuthur mwy cyfrif o honynt hwy nag o neb arall, sydd eglur ddigon oddiwrth yr hanes nodedig hon o'i fywyd.‡ "Meddyliodd ynddo ei hun gael profiad hollol, pa un ai Cristionogion cywir ai rhagrithwyr oedd swyddogion ei lys, canys Cristionogion oeddent gan mwyaf. Felly efe a'u galwodd hwy oll yn nghyd, ac a ddywedodd wrthynt. Mai ei

* Vide Uss. Primord, p. 586. ‡ Sozom Hist. Eccles. lib. 1. c. 6.

† "Ad generum Cereris sine cæde et sanguine, pauci
Descendunt reges et siccâ morte tyranni."

ewyllys oedd y cawsai y sawl a aberthai i'r duwiau gadw ei fraint ac aros yn y llys; ond y cawsai y sawl nad ymostyngai i hyny, ymado o'i wasanaeth ef. Ar hyny, y Cristionogion cywir, gan blygu eu penau, a aethant allan; ond y rhagrithwyr a arosasant gyda'r ymherawdwr, ac a ddywedasant eu bod hwy yn foddlon i aberthu. Yna yr ymherawdwr a barodd alw i mewn y rhai a aethant allan, ac a'u gwnaeth hwy yn ben cynghoriaid; ond efe a ymlidiodd ymaith y rhagrithwyr, gan farnu na fyddai y cyfryw rai ag oedd fradychus i Dduw, byth yn ddeiliaid ffyddlon iddo ef."

Ni bu un gwr o Rufain erioed mor anwyl gan y Brutaniaid a Chusteint, ac yntau a'u hoffodd hwythau o flaen un genedl arall; a phrin y gellir gwybod pwy oedd yn caru y naill y llall fwyaf, ai hwynt-hwy yn eu parch a'u hufudd-dod iddo ef, ai efe yn ei foesau da a'i diriondeb tuag atynt hwy. Ac fel y sefydlid heddwch parhaus rhwng y ddwy genedl, ac i symud ymaith bob llid, chwerwder, a digofaint, efe a briododd Elen, (y bendefiges lanaf a'r oreu ei rhinwedd dan haul), merch Coel Codebog, brenin Brydain, a'i wraig Stradwen, merch Cadfan ap Conan, tywysog Gwynedd; ac o'r Elen hon y ganwyd i Gusteint fab, a elwid Cystenyn Fawr [Constantine the Great], y gwr enwocaf o'r byd Cristionogol, a'r ymherawdwr cyntaf a fedyddiwyd i ffydd Iesu Grist.

Elen oedd Gristionoges wresog yn y ffydd, a chymaint yn rhagori ar ereill yn ei dyledswydd at Dduw a dyn, ag oedd hi mewn anrhydedd a goruchafiaeth bydol. Hi a aeth i Gaersalem i weled y lle y dyoddefodd Crist Iesu dros bechod y byd, yn ol yr hyn a ddywedodd yr angel wrth y gwragedd, "Deuwch, gwelwch y fan lle y gorweddodd yr Arglwydd." (Mat. xxviii. 6.) Ac yna, drwy lawer o anhawsdra, hi a gafodd y groes y dyoddefodd Crist arni; canys y paganiaid a daflasant yno grug anferthol o gerig (o'u casineb at y Cristionogion), ac yn y gwaelod y cafwyd tair croes; ond oblegid fod yr astell yn cynwys yr ysgrifen wedi tori, ac yn gorwedd o'r neilldu, croes Crist, medd hanesion, a adnabuwyd wrth fod rhinwedd ynddi i iachau clefydon.* Am ba weithred y mae un o'n beirdd ni yn canu, ac yn ei galw hi Diboen:—

"Diboen ferch Coel Codebog
I gred a gafas y grog."

* Sezom Hist. Eccles. lib. 2. c. 1. Edit. Lovan, 1569.

Hi a fu farw yn llawn o ddyddiau, yn bedwar ugain oed, ac a gladdwyd yn Nghaercystenyn [Constantinople]; ond Custeint yr ymherawdwr a fu farw o'i blaen hi, sef yn y flwyddyn 313, ac a gladdwyd yn Nghaerefrog, yn Lloegr. Dywedir gael yn ei feddrod ef, yn amser Iorweth y chweched, lamp a gyneuodd yno yn wastadol er yr amser y claddwyd ef, hyd y pryd hwnw, sef dros ychwaneg na deuddeg cant o flynyddau.* Cafwydd yr un fath lamp yn meddrod Tullia, merch Cicero yr areithydd, yr hon a gyneuodd yn nghylch un mil pum cant a deg a deugain o flynyddau,† ond a ddiffoddodd cyn gynted ag y daeth goleu'r dydd i mewn. Dyfais odiaeth oedd hon o eiddo'r hen bobl i wneuthur lamp fel hyn i gyneu yn wastadol yn y tywyllwch: tybia rhai mai aur wedi gyfnewid i rith arian byw oedd yn pesgi'r lamp, ond pa fodd bynag, mae'r gelfyddyd wedi ei cholli yn awr.

Mor gynted ag y clybu Cystenyn Fawr yn Rhufain fod ei dad yn glâf, er meithed oedd y ffordd, prin y rhoddodd efe hûn i'w amrantau nes ei ddyfod i dir Brydain; ond yr oedd yr hen wr ar dranc marwolaeth. Yr oedd y pryd hwnw derfysg a chythrwfl yn yr Eidal, am hyny ni allodd Cystenyn aros ond ychydig amser yn Mrydain ar ol claddu ei dad; ond cyn ymadael efe a drefnodd bob peth yma er cwdw llonyddwch yn y deyrnas. Eyddaf, ei gefnder, a wnaeth efe yn ben ar Loegr gan mwyaf oll; Cenau ap Coel, ei ewythr brawd ei fam, a osododd efe yn rhaglaw i lywodraethu Cerniw; Cynedda Wledig, ei gefnder, mab Gwawl, ei fodryb, chwaer ei fam, a osododd efe yn dywysog a rheolwr Cymru; ac Einion Urdd, câr arall iddo, a sefydlodd efe a llawn awdurdod yn y Gogledd tua chydiad Lloegr a'r Alban. Ar hyny efe a ymadawodd, a chyfododd llu mawr o Frydain gydag ef, i ymladd yn erbyn y rhai oedd yn ymgeisio am y goron; eithr, ar ol darostwng y gelynion, ni ddychwelodd ond ychydig o'r rhai hyny adref; arosodd rhai yn Rhufain, ac ereill yn y rhan hono o deyrnas Ffrainc a elwir Llydaw; a hon oedd y waith gyntaf i'r Brutaniaid fyned i breswylio yn Llydaw, sef yn y flwyddyn 313. [Gwel tu dal. 43.]

Cyd-dylwyth oedd yn awr yn eistedd ar orseddfeinciau Rhufain a Brydain; am hyny ni cheisiodd Cystenyn Fawr ddim arian teyrn-ged o Frydain, ond rhyw gydnabyddiaeth

* Camd. in Yorkshire. † Salmuth in Pancir, P. I. Tit. 35, p. 124.

yn unig mai efe oedd ben: yr oedd ganddo ddigon tu hwnt i'r môr, yn ymherawdwr Ffrainc, Yspaen, yr Almaen, yr Eidal, yr Aipht, Mesopotamia, Judea, Capadocia, Phrygia, Pontus, ac Asia; ac onid oedd hyn yn ddigon?

Ond i ddychwelyd i Frydain. Eyddaf, wedi heneiddio, ac iddo ond un ferch, a'i henw Elen, a chwennychai, megys gŵr call, sefydlu y goron yn ei fywyd, rhag bod ymgais am dani, a therfysg ar ol ei ddyddiau ef; a chynghor ei arglwyddi oedd, ei rhoddi yn brïod i garwr iddi a elwid Macsen Wledig, yr hwn oedd o ran ei dad yn Gymro, fab Llywelyn, brawd Coel Codebog; ond o ran ei fam yn Rhufeiniad (canys Llywelyn a aethai gyda'i nai, Cystenyn Fawr, i Rufain, ac a brïododd yno), ac a anwyd ac a fagwyd yn y llys yn Rhufain; ac o ran tad a mam o waed breninol: am hyny y barnwyd ef yn brïod gweddus i Elen, etifeddes y goron. Yr oedd Macsen Wledig y pryd hwnw yn Rhufain, ac newydd syrthio allan a'r ddau ymherawdwr, Falentinian a Grasian, am na chai yntau fod yn drydedd. Erioed ni bu lawenach ei galon na phan ddaeth y genadwri ato o Frydain i gynyg Elen, merch Eyddaf, yn wraig iddo, yn nghyda choron Lloegr yn waddol gyda hi.

Ond wedi prïodi Elen, ni bu efe foddlon i wisgo coron Lloegr yn unig (a phe gwnaethai hyny, buasai o goffadwriaeth dedwydd), ond a fynai fod yn ben ymherawdwr y byd. Eto, i ddywedyd y gwir, nid ei ryfyg ei hun, ond cariad y milwyr ato, a'i cymhellodd, o'i anfodd, i wneuthur yr hyn a wnaeth; ac y mae pawb yn tystio, nad oedd wr dan haul yn weddusach i fod yn ymherawdwr, pe buasai ei hawl yn dda; ac er hyny yr oedd yn gâr agos i Elen Lueddawg, mam Cystenyn Fawr.*

Ond pa fodd bynag, cymaint oedd ei barch gyda goreuon y llu, fel y dewiswyd ef yn ymherawdwr, a'i gyhoeddi, nid yn unig yn Mrydain, ond gan y llu tu hwnt i'r môr hefyd; ac yntau, ar hyny, o'i led anfodd, a gymerth ei ddarbwyllo; a rhag bod dim yn rhwystr ar ei ffordd, y fath oedd ei gariad yn mhob gwlad, fel yr haerodd llu aneirif o ddewis filwyr y Brutaniaid, "Eu bod yn llwyr fwriadu sefyll gydag ef, ac na chai dim ond angeu byth eu gwahanu oddiwrtho;" a hwylio wnaethant i Ffrainc.

Y ddau ymherawdwr cyfreithlon (sef Falentinian a Grasian) oeddent agos a gorphwyllo, ac ni wyddent beth i'w

* Maximus, vir strenuus et probus, atque Augusto dignus, nisi contra Sacramenti fidem, &c. Paul Diac. p. 628.

wneuthur; ond tuag at attal eu cyrch yn mhellach tua'r Eidal, gwnaethant gyngrair a barbariaid gwylltion o Sythia, y rhai fu o'r blaen yn anrheithio gwlad Brydain, ac a'u danfonasant drosodd ag arian ac arfau, gan eu hannog i wneuthur pob drygau oedd bosibl, sef i ladd, a llosgi, a dinystrio hyd y gallent, gan hyderu y dychwelai Macsen i Frydain i achub ei deyrnas ei hun; (a phwy a allai ddysgwyl llai?) megys haid o frain yn myned allan o'u nythod i chwilena, ac i gipio'r hâd oddiar wyneb y maes, ac os dygwydda cafod ddisymwth o gesair, hwy a ehedant ar frys i achub eu cywion. Ond yr oedd Macsen yn awr wedi ymgaledi yn ei ddrwg, a'i lygad ar bethau uwch nag achub ei wlad rhag y Ffichtiaid gormesol (canys dyna enw y bobl a ddaethant o Sythia); felly efe a'i wŷr a aethant yn mlaen tu'r Eidal; a phan oedd Grasian, gŵr ieuanc grasol o gylch pump ar hugain oed, yn brysio adref i ymweled a'i brïod newydd-weddog, ac efe yn rhydio afon yn ei gerbyd, efe a syrthiodd i gynllwyn Anarawd Gethin [Andragathius], un o uchel gabeniaid Macsen, ac a laddwyd; a Falentinian ei frawd, rhag y trinid yntau yr un modd, a giliodd yn mhell i Asia, tua'r Dwyrain.*

Wedi bod cyhyd mor llwyddiannus yn ei wrthryfel, y newydd nesaf, allid dybied, fyddai coroni Macsen Wledig yn ymherawdwr, oblegid fod y ffordd yn rhydd yn awr; ond gwiriwyd yr hen ddihareb yma, " Mai drwg y ceidw y diawl ei was;" canys, pa un ai ofni y dychwelai Falentinian a llu cadarn o Asia, ai bod eu cydwybodau yn eu brathu oddimewn, ai beth bynag oedd yr achos, efe a lladdwyd gan ei wŷr ei hun, yn nghydag Owen Finddu, ei fab; ac Anarawd Gethin a syrthiodd ar ei ben i bwll, yn yr un man ag y gosododd gynllwyn am waed gwirion y dyn da hwnw Grasian. Yna holl lu Macsen a wasgarwyd ar hyd wyneb y gwledydd, ond y rhan fwyaf, yn nghyda'u pen cadben Conan, Arglwydd Meiriadoc, a arosasant gyda'u cydwladwyr yn Llydaw; a hon oedd yr ail waith i'r Brutaniaid wladychu yno, sef o gylch y flwyddyn 383. [Gwel tu dal. 40.]

Conan ni fynnai ymgyfathrachu a neb ond a'i genedl ei hun; am hyny efe a anfonodd i Frydain am wragedd, a danfonwyd iddo un fil ar ddeg, rhwng merched gwŷr cyfrifol a rhai iselradd. Fel yr oeddent yn hwylio tua Llydaw, cyfododd

* Paul Diac. Loc. cit. Sozom. lib. 7. c. 13.

tymestl ddirfawr fel y soddodd tair o'r llongau, ond y ddeuddeg ddiangol a yrwyd gan gynddeiriogrwydd y gwynt i barthau Llychlyn, ac a ddaliwyd gan y Ffichtiaid. "Ac yna," ebe'r cronicl, "wedi canfod o'r ysgymun bobl y morwynion, a gweled eu glendid, ceisio a wnaethant i lenwi eu godineb a hwy; a chan na fynodd y morwynion gydsynio a hwynt, y bradwyr a'u lladdasant." Yr ydys yn cadw dydd gŵyl, er coffadwriaeth o'r gwyryfon hyny, Hydref 21, ac a elwir Gŵyl y Santesau. Y mae eglwys yn Ngheredigion a elwir Llan Gwyryfon, a gyfenwid felly ar ei chysegriad er cof am danynt. Dywedir i Frutaniaid Llydaw, ar ol hyny, gymeryd merched y wlad hono yn wragedd iddynt; a phan enid plentyn (os gwir yw'r chwedl) pob un a dorai dafod ei wraig, rhag y buasai hi yn difwyno'r iaith, ac yn dysgu'r plant i siared llediaith.*

Nid oedd o gylch yr amser hyn, yn nhir Brydain, ddim ond yr annhrefn mwyaf: cyhoeddid gwr yn ymherawdwr heddyw, a thorid ei ben ef dranoeth i roddi lle i ryw un arall; a chai hwnw hefyd o fewn ychydig ddyddiau yr un dienyddiad; nid gwiw gosod i lawr eu henwau,† eto un o honynt, yr hwn oedd yn ddilys o waed breninol y Brutaniaid, a haeddai ei goffâu, ac a elwid Cystenyn. Heblaw ei hawl i'r goron, dewiswyd ef hefyd er mwyn ei enw, gan obeithio y byddai cyn enwoced gwr a Chystenyn Fawr, ei gâr. Rhyfelwr enwog oedd y gwr, ac mor llwyddiannus, fel y bu Ffrainc, ac Yspaen, a Brydain dan ei lywodraeth ef dros amryw flynyddau; ac ni bu ond lled troed rhyngddo a bod yn ben ymherawdwr byd, a'i goroni yn yr Eidal. Ond, yn nghanol ei rodres, efe a laddwyd drwy frad a chynllwyn, a'i wŷr a wasgarwyd, ond y rhan fwyaf y arosasant gyda'u cydwladwyr yn Llydaw; a hon oedd y drydedd waith i'r Brutaniaid adael llwyth o'u pobl yno, sef o gylch y flwyddyn 409. [Gwel tu dal. 42.]

Parodd y fath afreolaith a hyn, a hyny yn ddibaid dros amryw flynyddau, i holl ymerodraeth Rhufain siglo ac ymollwng, megys llong fawr yn ymddattod pan fyddo'r tonau a gwynt gwrthwynebus yn ei chipio; neu megys maes llydan o wenith yn cael ei sathru a'i rwygo gan genfaint o foch, oni bydd cae diogel o'i gylch; felly Rhufain a'i holl gadernid a aeth o fesur ychydig ac ychydig, yn chwilfriw mân, o ran yr aml ymbleidiau o'i mewn, ac ymgyrch y barbariaid o amgylch.

* Ms. Vet. † Soz. Hist. Eccles. 1. 9. c. 11—15.

Ac megys na all neuadd fawr eang o amryw ystafelloedd, amgen nag adfeilio, pan y byddo deiliaid gwan yn byw ynddi; felly yr un modd, pan oedd y milwyr mor afreolus, ac yn newid eu meistr mor fynych, hyny yw, yn gosod y sawl a welent hwy fod yn dda yn ymherawdwr, ac ar yr ymryson lleiaf yn ei ddiswyddo eilwaith, nid rhyfedd na allai un penrheolwr yn y fath achos, gadw cynifer o wledydd mewn ufudd-dod. Hyn a barodd i'r ymherawdwr Honorius, o gylch y flwyddyn 410, ymwrthod a'r deyrnas hon, a danfon am ei fyddinoedd adref i'r Eidal, lle'r oedd mwy rhaid wrthynt. Dyma ddechreuad yr aur a'r arian yr ydys yn eu cloddio o'r ddaear mewn amryw fanau; canys ar waith yr ymherawdwr yn galw am danynt adref ar frys, y Rhufeiniaid a guddiasant eu trysorau mewn tyllau ac ogofëydd yn y ddaear, gan obeithio y caent hwy oedfa i'w meddiannu ryw bryd arall, ond hyny ni chawsant byth.*

Yr oedd Brydain Fawr ar hyn o bryd, wedi ei harllwys yn gwbl o'i gwŷr arfog, a hyny a barodd i'r gwibiaid treigl hyny, y Ffichtiaid, fod mor llwyddiannus yn eu lledrad a'u gwaith yn anrheitho'r wlad hon wedi hyny; ond eto arosodd yma filoedd o bobl Rhufain, y rhai oeddent wedi ymgyfathrachu a'r hen drigolion, ac felly wedi myned yn un genedl. Erbyn hyn mae'n amlwg, ein bod ni, gweddill yr hen Frutaniaid, yn bobl gymysg o Wyddelod,† Groegiaid,‡ a Rhufeiniaid.

---

## PENNOD III.

### Y RHYFEL FU RHWNG Y BRUTANIAID A'R BOBL A ELWID Y FFICHTIAID, NEU Y BRITHWYR.

Nid yw'r dysgedig wedi cwbl gyduno oblegid cyff-genedl neu ach y Ffichtiaid, y rhai a elwid felly o'r gair Lladin Picti, am eu bod yn britho eu crwyn ag amryw luniau, yn enwedig a math o liw glas; ond eu henw yn Gymraeg yw Brithwyr, ac felly y galwaf fi hwy yn yr ymadrodd a ganlyn.

Tybia rhai gwŷr diweddar mai Brutaniaid gwylltion anfoesol oeddent, neu yn hytarch y cyfryw rai dewrion, tu hwnt i Wal Sefer yn y Gogledd, nad ymostyngent ar un cyfrif dan iau y

* Vide Uss. Primord, p. 600. † Oblegid mai hwynt-hwy oedd yr hen drigolion. ‡ Oblegid mai gwyr o Asia, a Groegiaid, oedd Brutus a'i bobl.

Rhufeiniaid, a bod yn gaethweison dan eu llywodraeth: * ond yn ol yr hen haneision, pobl grwydredig oeddent o Sythia, y rhai a diriasant i Frydain o gylch y flwyddyn 75, dan Rodri eu pen cadpen, wedi eu gyru o'u gwlad eu hunain gan y newyn. Am y mynai Rhodri a'i wŷr aros yma heb ofyn cenad, heb ddangos cydnabyddiaeth, na thâl, na diolch, Meuric, un o freninoedd y Brutaniaid, a alwodd yn nghyd ei lu i wybod beth a allai nerth arfau wneuthur. Ar yr ymgyrch cyntaf, pan oedd y flaen-fyddin yn ergydio ei saethau, Rhodri a laddwyd yn nghyda haner ei lu; ac er coffadwriaeth o hyny, gorchymynodd Meuric, brenin y Brutaniaid, argraffu ar lech y ddau air hyn, "Buddugoliaeth Meuric." Deisyfodd haner arall y llu ammodau heddwch gan y Brutaniaid; ac ar eu gwaith yn rhoddi eu harfau i lawr ac ymostwng, y caniataodd y brenin eu hoedl iddynt, ac a adawodd iddynt gyfanneddu mewn cwr o Scotland, neu Iscoed Celyddon, yn mhell tua'r gogledd. Yn gymaint nad oedd gwiw gan y Brutaniaid roddi eu merched yn wragedd i'r fath ddynion dreigl a'r rhai hyn, aeth y Brithwyr i'r Iwerddon, ac a gymerasant y Gwyddelesau yn wragedd iddynt; ac o'r cyfathrach hwnw y tyfodd y fath gyfeillgarwch rhwng y Brithwyr a'r Gwyddelod, fel y buont yn wastadol megys elin ac arddwrn byth wedi hyny. Y mae eu heppil hyd y dydd heddyw yn siared Gwyddelaeg, ac yn byw eto o fewn Brydain Fawr, tua chwr eithaf y Gogledd.

Y bobl hyn oeddent yn cynal yr hen ddefod o fritho eu crwyn ag amryw luniau, o adar, seirff, a bwystfilod; dyna oedd eu gwychder hwy; ac o achos hyny a gyfenwyd y Picti, neu y Brithwyr, megys y mae llawer o bobl yr India fyth yn ymdecâu.† Heblaw fod yr hen hanesion,‡ ac amryw hefyd o'r penddysgedigion diweddar,§ yn haeru mai pobl dreigl o bell oedd y Brithwyr, yr wyf fi yn meddwl o hyd mai pobl o wlad bellenig oeddent, wrth y ddefod nodedig oedd yn eu chwareuyddiaeth, mewn amryw fanau o Gymru yn enwedig ar lan Teifi yn Neheubarth. Canys yn y gamp y maent yn ymranau yn ddwy-blaid, dan enw y Brithwyr ac Henwyr, y naill yn erbyn y llall. Yr Henwyr yw yr holl rai o'r pedwar enw cynefin, Ifan, Dafydd, Shon, a Siencyn; a'r Brithwyr yw pawb

* Camd. sub Picti. Baxt. Gloss. Antiq. Brit. p. 195. † Dampier, vol. 1. c. 18. p. 514. ‡ Bed. Hist. Eccles. lib. 1. c. 1. Galf. lib. 4. c. 17. Pont. virumn, lib. 5. p. 30. § Uss. Primord, p. 302. Stillingfleet Orig. Brit. c. 5. p. 246, &c.

yn ddiwahan o unrhyw enw arall pa bynag; ac yn fynychaf y mae'r Henwyr, er ond o bedwar enw, yn ennill y maes. Yn awr, wrth yr Henwyr y meddylir, yn ddilys, yr hen drigolion cyntaf, ac felly y Brithwyr ydynt estroniaid a phobl ddyfod.

Gan hyny, o gylch y flwyddyn 75, y tiriodd y Brithwyr gyntaf i Frydain, y rhai, er iddynt gyfathrachu a'r Gwyddelod, a gadwasant yn bobl wahan dros rai cannoedd o flynyddau; ac ni wyddys eto pa un ai eu lladd a gawsant mewn rhyfel, neu fyned yn un bobl a'r Gwyddelod; canys nid oes son am danynt mewn hanesion er ys wyth cant a haner o flynyddau [1740].

Ar a wyddom ni, gallasai y rhai hyn fod yn bobl brydferth a llonydd ar y cyntaf; canys nid oes hanes am ddim afreolaeth a therfysg a wnaethant dros agos i dri chant o flynyddau ar ol iddynt gael cenad i wladychu yma. Megys aderyn gwyllt pan dorer ei esgyll, a fydd yn dychlamu ac yn selgyngian o gylch y tŷ gydag un dôf; ond pan dyfant drachefn, efe a ddengys ei anian; felly y Brithwyr hwythau, ar ol iddynt gryfhau, ond yn enwedig ar ol iddynt gyfeillachu a'r Saeson a'r Francod (pobl oedd yn byw ar ledrad ac anrhaith y pryd hwnw), rhuthro a wnaethant ar eu hen feistriaid, y Brutaniaid, a'u llarpio mor ddidrugaredd ag y llarpia haid o eryrod ddiadell o ŵyn. Nid oedd hyn ond ar ddamwain, pan y byddai cyfle, a llu y Brutaniaid ar wasgar, neu yn mhell oddiwrthynt; ond cyn gynted ag y clywent drwst y saethyddion, hwy a gilient o nerth traed i'r mynydd-dir a'r diffeithwch, tu hwnt i Wal Sefer; megys corgi yn ymddantu a march rhygyngog, pe dygwydda iddo ond cael cernod, a brysura yn llaes ei gynffon tuag adref.

Clywsoch yn y bennod o'r blaen y modd y cyfododd llu a ieuenctid y Brutaniaid gyda Macsen Wledig, tuag at ei wneuthur yn ben ymherawdwr y byd; ac hefyd fel y darfu i Falentinian a Grasian roddi llongau, arfau, ac arian, i bobl Sythia, a'u danfon i Frydain, a'u hannog i wneuthur pob drygau a allent, gan hyderu y dychwelai Macsen Wledig ar hyny adref; ac er eu bod yn lu cadarn o honynt eu hunain; eto, rhag na buasent ddigon, gwahoddasant y Saeson a'r Ffrancod i fod yn gynorthwy iddynt, fel y gallent, os byddai bosibl, lwyr ddyfetha cenedl y Brutaniaid, a rhanu'r wlad rhyngddynt: dyma'r amser, sef o gylch y flwyddyn 386, ac o hyny allan, y teimlodd ein hynafiaid hyd adref bwys digofaint y Goruchaf am eu hanniolchgarwch yn ei erbyn. Canys dyma bedair cenedl

ysgymun a ffyrnig, y Saeson, y Ffrancod, y Brithwyr, a'r Gwyddelod, wedi cyfrinachu i dywallt gwaed a difrodi, digrifwch y rhai oedd poenydio, rhwygo, a llosgi dynion, a chyn belled o dosturi a theimlad, fel mai'r gerdd felusaf ganddynt fyddai clywed ocheneidiau a griddfanau y lladdedig; "Eu bwäau hefyd a ddrylliodd ein gwŷr ieuainc, wrth ffrwyth bru ni thosturiasant: eu llygaid nid eiriachasant y rhai bach." (Esai. xiii. 18.) Pan oedd pedair cenedl annhrugarog (wedi eu meithrin i dywallt gwaed o'u mebyd), yn ymryson pwy fyddai gïeiddaf i boenydio dynion, megys pedair arthes wancus yn ymgrafangu wrth ddifa carw, pa dafod a all fynegi y galanasdra a wnaethant? ond yn anad dim, pan nad oedd wedi ei adael yn y wlad, ond prin wr i daro ergyd yn eu herbyn? Y dinasoedd caerog, mae'n wir, a ymgadwasant heb nemawr o daro, ond y mân drefydd oeddent megys cynifer goddaith yn fflamio hyd entrych awyr, a'r trigolion druain yn rhostio'n fyw yn eu canol, tra'r oedd y Brithwyr a'u cyfeillion yn agor eu safnau cythreulig o grechwen.

Yn y cyfamser nid oedd Macsen Wledig yn anhysbys o gyflwr gresynol ei wlad; ac er cynddrwg dyn y bernir ef gan rai, eto ar hyn o bryd efe a anfonodd drosodd ddwy leng, sef o gylch pedair mil ar ddeg;* a gallasai hebgor hyny yn hawdd ar hyn o dro; canys yr oedd efe eto yn Ffrainc, a'r holl deyrnas hono a'i chyffiniau wedi ymddarostwng dan ei lywodraeth.† Ni bu llu o wŷr arfog erioed mor gymeradwy na phan diriodd y llu hwn yn gymhorth cyfamserol i'r Brutaniaid. Y gelynion oeddent o leiaf dri chymaint o nifer, ac ar hyn o bryd wedi gwasgaru yn finteioedd o fesur pedwar neu bum cant yn nghyd, dros wyneb y deyrnas; a chyn cael oedfa na chyfle i ddyfod yn nghyd yn gryno, y rhai oedd o gylch Caint, a Llundain, a chanol Lloegr, a gwympwyd bob yn fintai agos i gyd; ond y rhai oedd o gylch Cymru, ac yn agos lan y môr, a ddiangasant yn eu coryglau‡ i'r Iwerddon.

Eisiau rhagweled pethau mewn amser a fu'n dramgwydd i filoedd, ac yn nyddiau dysclaer, esgeuluso parotöi rhag dryghin yw rhan yr ynfyd. Ac felly ar hyn o bryd, ar ol cael y trechaf ar eu gelynion, nid oedd yr hen Frutaniaid ysmala yn pryderu rhag un ymgyrch arall; ond diswyddo eu milwyr a wnaethant, megys pe na buasai dim annghenrhaid am

* Galf. Hist. Brit. lib. 5. c. 16.

† Brower in Venut. Fortun. lib. 3. p. 59. ‡ Carruca, Gild. p. 15.

danynt mwyach. Nid oes un hanes neillduol pa ddrygau a wnaeth y Brithwyr a'u cyfeillion dros rai blynyddau ar ol eu herlid y waith hon, oddieithr eu bod yn lledratta gyr o ddâ a defaid, a llosgi ambell bentref, yn awr a phryd arall, ac yna yn chwipyn ar gerdded; megys barcut ar gip yn dwyn cyw, ac yna myned ymaith cyn gynted ag y gallo. Ond pan wybu y Brithwyr fod y Brutaniaid wedi gadael eu cleddyfau i rydu, a bod math o hurtrwydd wedi eu perchenogi, megys rhai yn dylyfu gên rhwng cysgu a pheidio, yna danfon a wnaethant at eu hen gyfeillion, y Ffrancod a'r Saeson, a'u gwahodd trosodd i wneuthur pen ar bobl ddidoraeth a musgrell, nad oeddent dda i ddim ond i dwymno eu crimpau wrth bentan, ac i ymlenwi.

Y Brutaniaid yn ddiammheu, ar hyn o amser, oeddent wedi dirywio yn hagr oddiwrth eu gwroldeb gynt; canys ar waith y Brithwyr a'u cyfeillion yn rhuthro arnynt, nid oedd calon yn neb i sefyll yn erbyn, mwy nag a all crug o ddail ar ben twyn sefyll yn erbyn gwth o wynt. Er lleied o wŷr arfog oedd y pryd hwnw yn Mrydain, eto pe buasent yn galw ar Dduw am ei gymhorth, ac yn ymwroli, diau na fuasai i fath dreigl ladronach ag oedd eu gelynion eu sathru mor ddidaro, ac heb gyfodi llaw yn eu herbyn; ond hwynt-hwy digaloni a wnaethant, ac yn lle arfogi eu hieuenctid, a'u hannog i hogi eu cleddyfau, a anfonasant lythyr cwynfanus at eu hen feistriaid, y Rhufeiniaid, yn taer ymbil am gymhorth i yru y barbariaid allan o'u gwlad. Prin y gallasent ddysgwyl y fath gymwynas y pryd hwnw, am fod mwy na digon gan y Rhufeiniaid i wneuthur gartref, ac hefyd yn eu côf wrthryfel Macsen Wledig; eto yr ymherawdwr a dosturiodd wrthynt, ac a anfonodd leng o wŷr dewisol, sef, o gylch saith mil, neu medd ereill, chwe mil chwe chant a thriugain a chwech. Pan diriasant, aeth y chwedl allan (a chwedl a gynydda fel caseg eira) fod pum lleng wedi dyfod;* ac ar hyny y Brithwyr y rhai oedd yn anrheithio canol y wlad a ffoisant tu hwnt i Wal Sefer i'r anialwch, ac i'r Iwerddon; ond y rhai oedd o gylch Llundain a glan Tafwysc,† a wanwyd a chleddyfau y Rhufeiniaid: o gylch oedran Crist 418 y bu hyny.

Yna y Rhufeiniaid (fel cynghorwyr da yn hysbysu pethau buddiol er diogelwch y deyrnas) a annogasant y Brutaniaid i

* Ita Mss. Gildas vero' et Beda nonnihil secus. † Thamisis.

adgyweirio bylchau ac adwyau Gwal Sefer, gan hyderu y byddai hyny yn beth rhwystr ar ffordd eu gelynion cïaidd rhag eu merthyru; ac yn ddiammheu buasai yn amddiffynfa gadarn pe ei gwneuthid fel gwal caer, o gerig a chalch: ond nid oedd hon ond gwal bridd,* o fôr i fôr, ac ambell dŵr neu gastell yma ac acw, ac felly ond o ychydig lesâd i'r hen Frutaniaid rhag rhuthr eu gelynion; canys prin oedd y Rhufeiniaid wedi dychwelyd adref i'r Eidal, wele y Brithwyr yn nghyda'r Gwyddelod, yn tirio drachefn o'u coryglau yn aberoedd y gogledd, ac yn difrodi y waith hon yn fwy llidiog nag o'r blaen. Torasant fylchau yn y clawdd, lladdasant y ceidwaid, llosgasant y trefydd, bwytasant yr anifeiliaid, ond odid yn amrwd yn eu gwanc a'u cythlwng; megys cnud o fleiddiaid, wedi eu gyru gan newyn, yn rhuthro i ddiadell o ddefaid, pa alanasdra fydd yn mysg y werin wirion hono! a'r hon fyddo mor ddedwydd a dianc fydd a'i chalon yn ysboncio, ac yn tybied fod blaidd ar ei gwar os bydd dalen yn cyffro mewn perth; felly y Brithwyr hwythau (y rhai, ebe Gildas, oeddent ddynion blewog, cethin, ac ofnadwy, tebyg i Nebucodonosor, wedi ei droi ar lun anifail) oeddent genedlaeth annhrugarog a chreulon. Eu digrifwch oedd lladd a dyfetha, megys y teimlodd y Brutaniaid y waith hon, ac amryw brydiau ereill hyd adref; a'r rhai a ddiangasant i ogofëydd a'r anialwch oeddent o hyd yn eu hofn, rhag i'r Brithwyr ddyfod am ei penau, a'u taro bob mab gwraig yn ei dalcen yn ddisymwth. Ni chrybwyllir fod y Ffrancod a'r Saeson y waith hon gyda'u hen gyfeillion; mae'n debygol mai arnynt hwy y discynodd dyrnod y Rhufeiniaid drymaf, gan eu bod yn cadw tua'r dwyrain, o gylch Caint a glan Tafwysc.

Y fath oedd meddalwch y Brutaniaid o hyd, fel y goddefasant eu herlid i dyllau, a newynu, yn hytarch na chymeryd calon ac ymwroli. Ar hyny, y penaethiaid a ymgyfarfuasant, ac nid oedd dim i wneuthur ond anfon cenadwri eto at eu hen feistriaid i Rufain, i ddeisyf cymhorth, a chynyg y wlad dan eu llywodraeth: enwau y gwŷr a ddanfonwyd oedd Peryf ap Cadifor, a Gronw Ddu ap Einion Lygliw. Prin iawn yn wir y gallasent ddysgwyl gael eu neges y tro hwn yn anad un pryd arall, gan fod y Rhufeiniaid a'u dwylaw yn llawn gartref, a'r ffordd yn faith i ynys Brydain; eto, trwy fawr ymbil, tycio a wnaethant;

* Murus inter duo maria non tam lapidibus quam cespitibus factus. Gild. p. 13.

a chawsant leng o wŷr arfog gyda hwy drachefn i dir eu gwlad: a chwedi cael y fath gefn, y Brutaniaid a ymchwelasant ar eu gelynion, a thrwy borth y Rhufeiniaid a wnaethant laddfa gethin yn eu mysg: ond Dyfodoc, pen y gâd, a ddiangodd, yn nghyda dwy fil a phum cant o wŷr, i'r Iwerddon. O gylch y flwyddyn o oedran Crist 420 y bu hyn.

Mae'n ddilys fod y Brutaniaid, ar hyn o amser, yn weinion iawn, pan y gallasai un lleng fod er cymaint o wasanaeth iddynt; a'r achos o hyny oedd, yn 1. Am fod y Rhufeiniaid, o amser bwygilydd tra fuont yn rheoli yma, yn arllwys y deyrnas o'i gwŷr ieuainc, ac yn eu cipio tu draw i'r môr i ymladd drostynt mewn gwledydd pellenig. 2. Am i'r rhan fwyaf o'r ieuenctid a gwŷr arfog a adawyd yn y wlad, fyned ar ol Macsen Wledig i Ffrainc a'r Eidal, y rhai ni ddychwelasant byth i Frydain; megys yr aeth llu mawr, hefyd, gyda Chystenyn, gan fwriadu ei wneuthur yntau yn ymherawdwr, fel y darllenasoch eisioes. 3. Am fod yr ieuenctid oedd y pryd hwn yn Mrydain heb eu dysgu i ryfela; ac ni wna gwr dewr heb fedr ond milwr trwsgl. Dyma yr achos fod y Brutaniaid mor llesg ar hyn o bryd, y rhai, oddieithr hyny, oeddent mor fedrus i drin arfau rhyfel, ac hefyd mor galonog ag un genedl dan haul. Hynod yw'r enw y mae Harri'r ail, brenin Lloegr, yn adrodd am danynt mewn llythyr at Emanuel, ymherawdwr Caercystenyn. "Y mae," eb efe, "mewn cwr o ynys Brydain, bobl a elwir y Cymry, y rhai sydd mor galonog i amddiffyn eu hawl a braint eu gwlad, fel y beiddient yn hyderus ddigon, ymladd law-law, heb ddim ond y dwrn moel, a gwyr arfog a gwaewffon, tarian, a chleddyf." * Ond i ddychwelyd.

Nid oedd modd i'r Rhufeiniaid gymeryd y fath deithiau peryglus hirfaith, cyn fynyched ag y byddai rhaid wrthynt yn Mrydain; felly, hwy a gynghorasant benaethiaid a chyffredin i fod yn wrol a chalonog i amdiffyn eu gwlad rhag gwibiaid disperod, nad oeddent mewn un modd yn drech na hwy, pe bwrient ymaith eu musgrellni a'u meddalwch; ac yna, heblaw addysgu eu hieuenctid i ryfela, a byddino eu llu yn drefnus, rhoddasant fenthyg eu dwylaw yn gariadus tuag at wneuthur gwal gerig yn lle yr hen wal bridd,† yn ddeuddeg troedfedd o uchder, ac wyth o led, ac a adeiladasant amryw gestyll ychwaneg nag oedd o'r blaen. Yr oedd cymaint o dir o un

* Ut nudi cum armatis congredi non vereantur. Girald. Des. Cam. p. 256.
† Gild. p. 15. Bed. lib 1. c. 12.

castell i un arall, ag y clywid cloch o'r naill i'r llall:* eu hamcan yn hyny oedd, os y gelynion a dirient, i ganu cloch y castell fyddai nesaf at y porthladd, fel y clywai yr un nesaf at hwnw, ac i hwnw ddeffröi un arall, ac felly o'r naill i'r llall fyned y newydd ar unwaith drwy'r holl wlad, i'w rhybuddio i barotöi yn erbyn y gelynion. Ar ol gorphen pob peth, anfonwyd gwys i holl randiroedd Cymru a Lloegr, i wahodd y pendefigion i Lundain rai dyddiau cyn ymadawiad y Rhufeiniaid; a chwedi eu dyfod, Cyhelyn, yr archesgob, a bregethodd yn y wledd hon:—"Arglwyddi," eb efe, "archwyd i mi bregethu i chwi, eithr mwy y'm cymhellir i wylo nag i bregethu, rhag truaned y dynystr a ddamweiniodd i chwi wedi anrheithio o Facsen wledig ynys Brydain o'i marchogion a'i hymladdwyr; ac a ddengys o honoch chwi, pobl annghyfrwys ydych i ymladd, ond eich bod yn arferedig i ddiwyllo daear yn fwy na dysgu ymladd. A phan ddaeth eich gelynion am eich penau, gyrasant chwi ar ffo megys defaid heb fugail arnynt, gan na fynasoch ddysgu ymladd. Pa hyd y ceisiwch i wŷr Rhufain fod yn un a chwi, ac yr ymddiriedwch ynddynt rhag yr estron-genedl nad yw ddewrach na chwi, pe ni adawech i lesgedd eich gorfod? Gwybyddwch fod gwŷr Rhufain yn blino rhagoch, a bod yn edifar ganddynt ymladd gynifer hynt drosoch ar fôr ac ar dir; ac y maent yn dewis maddeu eu teyrn-ged i chwi weithiau, rhag dyoddef y llafur hwnw drosoch bellach. Pe buasech chwi yr amser y bu y marchogion yn ynys Brydain, beth a debygech? A ffodd dynol anian oddiwrthych? Ni thebygaf fi golli o honynt eu dynol anian er hyny. Gwnewch megys y dylai dynion wneuthur; gelwch ar Grist hyd oni roddo efe lewder a rhyddid i chwi oll."† Yna brysio a wnaeth y Rhufeiniaid tuag adref i'r Eidal; a dywedasant wrth y Brutaniaid am ymwroli os mynent, ac onide, arnynt hwy y discynai pwys y gofid; canys ni wrandewid eu cwyn mwyach yn Rhufain.

Bu tawelwch yn y deyrnas dros o gylch tair blynedd ar ol hyn; canys rhwng bod y Brutaniaid yn awr ar eu dysgwylfa a'u llygaid yn effro, a rhag ofn fod gwŷr Rhufain wedi cymeryd y wlad dan eu hymgeledd, y Gwyddel gyflachog, a'r Brithwr blewog, a arosasant yn llonydd yn yr Iwerddon a'r ynysoedd o amgylch. Ond yn mhen ychydig amser, sef yn

* Ford. Scotichron. lib. 3. c. 4. † Dyma eiriau'r cronicl air yn air.

nghylch y flwyddyn 425, tiriasant drachefn yn ynys Môn, a'r Saeson hwythau* (megys cynifer barcutan yn gwibio am ysglyfaeth) a heidiasant yr un pryd oddeutu Caint a'r wlad o amgylch; a rhwng y naill a'r llall, mae'n hawdd i un dyn farnu pa gyflafan a thywallt gwaed oedd agos dros wyneb y deyrnas, ond yn enwedig tua Llundain a Gwynedd. Yr oedd gwaith y barbariaid hyn yn difrodi yn farnedigaeth drom, ond drwg fuchedd yr hen Frutaniaid a haeddai ychwaneg eto. Canys o gylch yr amser hwn, y tramwyodd i Frydain, heresi [geugred] Morgan,† nid ganddo ef ei hun, oblegid yr oedd tua Chaersalem y pryd hyn, ond gan rai o'i ddysgyblion; a hi a bregethwyd yn ddirgel mewn teiau, ac a ddadymchwelodd ffydd beth aneirif o'r werin anwastad, y rhai ni sefydlwyd yn egwyddorion crefydd. Ei athrawiaeth oedd, "Gan i Iesu Grist foddloni cyfiawnder Duw dros bechod dyn, y gallai pob Cristion foddhau Duw, a bod yn gadwedig, heb nerth ei ras ef." Mae'n debygol nad oedd Brutaniaid yr oes hono yn fwy hyddysg yn yr Ysgrythyrau, nag oeddent i drin arfau rhyfel; canys fel y danfonasant o'r blaen i'r Eidal am borth yn erbyn eu gelynion y Brithwyr, felly hefyd yn awr anfonasant at eu cymydogion yn Ffrainc,‡ i geisio cymhorth eu gwyr dysgedig i wrthbrofi heresi Morgan. Ar hyny daeth drosodd ddau esgob rhagorol, sef Garmon a Lupus, y rhai, drwy awdurdod yr Ysgrythyr, tystiolaeth y brif eglwys, a chadarn resymau difynyddiaeth, a amddiffynasant y ffydd gatholic mor wrol, fel y cydnabu pawb fod Duw gyda hwy; er cywilydd a gwarth i'r gwrthwynebwyr, a chysur mawr i'r iawn-ffyddiog.

Y Brithwyr, y Gwyddelod, a'r Saeson, oeddent yn y wlad yn difa a difrodi mewn rhyw gwr yn wastadol. Yr oedd câd ar faes gan y Brutaniaid hwythau, eto yn ofnus a meddal galon, yr hyn pan gydnabu Garmon a Lupus, a ddywedasant, "Na feddalhäed eich calonau, na synwch, ac na ddychrynwch rhag eich gelynion; nyni a fyddwn yn flaenoriaid i chwi, a'n porth sydd yn y Duw byw, Arglwydd y lluoedd." Ac yna, wedi cael hysbysrwydd am gyrch-ymdaith y gelynion, yr esgobion a orchymynasant i'r fyddin orwedd mewn dyffryn coediog, ac na syflent oddiyno hyd oni ddeuai y gelynion heibio; a pha beth bynag a welent hwy hwynt yn ei wneuthur, gwnelent hwythau yr un modd. Yn mhen enyd fechan, wele y Brithwyr,

* Bed. Hist. Eccles. lib. 1. c. 20. † Gwel Rhan 2. Pen. 2.
‡ Ond odid o Lydaw, lle yr oedd eu cydwladwyr.

&c., yn troedio drwy'r dyffryn; a chyfododd y ddau esgob ar eu traed, ac a waeddasant, "Haleluia! haleluia! haleluia!" Ar hyny, cyfododd y milwyr i gyd ar eu traed, gan lefain o nerth pen, "Haleluia! &c.," gyda'r fath floedd, nes oedd y dyffryn yn dadseinio oll: rhoddodd hyn y fath arswyd a braw yn y Brithwyr, fel yr aethant oll ar ffo, a boddodd llawer iawn o honynt wrth frysio drwy Alan, afon ag sydd yn ffrydio drwy'r dyffryn.* Dygwyddodd y frwydr hon ychydig ar ol gŵyl y Pasg o gylch y flwyddyn 427, yn agos i Wyddgrug, yn rhandir Fflint: a'r lle hwnw a elwir Maes Garmon, hyd heddyw.

Ar ol hyn, peidiodd hyfrdra y Brithwyr a'r gwibiaid ysgeler ereill dros enyd. Canys cyhyd ag y bu y Brutaniaid yn ofni Duw ac yn cilio oddiwrth ddrygioni, yr arosodd y gelynion gartref; ond pan ddechreuasant annghofio Duw a'i addoliad, y gelynion a barotoisant i ymweled a hwy drachefn. Er fod y rhan fwyaf o'r Brutaniaid yn Gristionogion, eto nid oedd ond ychydig o honynt heb fod yn rhai drwg fucheddol. Tra y bu Garmon a Lupus gyda hwy, yr oeddent yn ddynion crefyddol, neu o'r hyn lleiaf yn ymddangos felly; ond ar ol ymadawiad y ddau wr duwiol, llaesodd eu sel at grefydd, dechreuasant gellwair a chrechwenu, ac o fesur cam a cham, i ymroddi i bob ofer-gamp a maswedd, nes llwyr annghofio eu gorthrymderau gynt; ac yn mhen talm o amser, syrthiasant, brodor a pheriglor, boneddig a gwreng, i bob math o ysgelder a drygioni, cyfeddach a meddwdod, godineb ac anniweirdeb, cybydd-dod ac ocraeth, cenfigen a chasineb, gyda phob diystyrwch ac anmharch ar orchymynion Duw, ag y mae natur lygredig dyn yn dueddol iddynt. "Feth aruthr ac erchyll a wnaed yn y tir." (Jer. v. 30.) Felly nid yw ryfedd i farnedigaethau'r Goruchaf, sef rhyfel, haint, a newyn, ymweled a hwynt. "Oni ymwelaf am y peth hyn? medd yr Arglwydd; oni ddial fy enaid ar gyfryw genedl a hon?" (Jer. v. 29.) Wele y Brithwyr yn nghyda'r Gwyddelod, yn llu cethin arfog, yn tirio eto, yn lladd a llosgi mor ddidrugaredd a chynifer cethern o waelod uffern. A chan ystyried gyhyd o amser y buont yn gormesu o'r naill gwr i'r llall dros wyneb y deyrnas, prin y gall synwyr dyn amgyffred, na thafod dewin fynegi, pa gyflafan, anrhaith, a dinystr, a wnaethant; canys buont dros ysbaid deng mlynedd yn gwanu y trigolion meddal, heb arbed na phlentyn sugno, na gwraig, nac henaf-

* Vide Uss. Primord, p. 179, ubi hæc fusius.

gwr; ond y rhan fwyaf a ymadawsant o'u dinasoedd a'u tai annedd, a myned ar encil i'r diffeithwch, a hyny yn gystal i geisio nawdd a diogelwch y creigydd, ag i gael rhyw ymborth i dori cythlwng a chwant bwyd. Yn yr anialwch nid oedd i'w gael ond ambell fwystfil ac aderyn, gwraidd coed, a grawn surion yn eu hamser; ond nid oedd ar hyn o bryd ddim gwell ymborth gan y rhan fwyaf o'r Brutaniaid.* Dyma a ddaw o ymddigrifwch mewn pechod, ac ymwrthod a Duw a'i santaidd gyfreithiau.

"Pechod yw gwaelod galar—echrydus
Ac ochain a charchar;
Cafod o boen, gofid bâr,
Dial Duw, diluw daear.

"Hir adwyth, a mwyth, a meithder—o ddig
Ddaw o ysgelerder;
Gwna gaerau'n garneddau gwer,
A bro naid oll yn brinder."

O'r diwedd, wedi goddef hir gystudd, gorthrymder, newyn, ac oerfel, eu cynghor oedd i anfon un genadwri eto at eu hen feistriaid, y Rhufeiniaid, i edrych os trugarhäent wrthynt. Ar hyny, ysgrifenwyd llythyr o gylch y flwyddyn 446, gydag Ednyfed ap Gwalchmai, at Esius, y rhaglaw dan yr ymherawdwr yn Ffrainc, yn y geiriau galarus hyn:—"Griddfan y Brutaniaid at Esius y tair-gwaith uchelfaer. Y barbariaid a'n gwthiant i'r môr, a'r môr yn ein gyru'n ol at y barbariaid; a rhwng y naill a'r llall, nid oes dim cyfrwng ond naill a chael ein lladd neu foddi." Nid yw hyn ond darn o'r llythyr,† ond y cwbl sydd genym wedi ei gadw: ac oddiwrth yr ychydig yma, mae'n hawdd barnu yn mha gyflwr gresynol yr oedd y Brutaniaid ynddo ar hyn o bryd; ond er hyny ni allodd y Rhufeiniaid lai na dymuno yn dda iddynt, a phrin oedd modd iddynt eu cynorthwyo yn ychwaneg, am fod yr ymherodraeth yn llawn terfysg a gwrthryfel yn mhob man; megys hen balas mawr wedi adfeilio, a phob cymal yn siglo, a'r trawstiau oll yn ysboncio ar uchaf awel o wynt rhyferthwy.

Yn y cyfamser, yr oedd newyn tost yn Mrydain; canys heblaw fod y Brithwyr fel llwynogod Samson yn llosgi'r ydau, a phob rhyw luniaeth, oddieithr yr hyn oedd reidiol iddynt eu hunain; heblaw iddynt yru y Brutaniaid ar encil i'r diffeith-

* Tam crebris direptionibus vacuaretur omnis regio totius Cibi baculo, excepto venatorie artis Solatio. Gild. p. 16. 6.

† Et post pauca querentes repellunt barbari, &c. Gild. p. 16. 6.

wch, lle nid oedd nac âr na medi; yr oedd y blynyddoedd yn oer a gwlyb, yn gymaint na addfedodd yr ychydig a hauwyd. Ond er y gorthrymderau hyn oll—y cleddyf a'r newyn—dynion pechadurus gwar-galed oeddent; aeth rhai yn gaeth-weision i'r Brithwyr er cael tamaid o fara yn eu cythlwng; ereill a ddewisasant drengi yn yr ogofëydd a chromlechydd y creigiau cyn ymostwng i'r gelynion; ond ychydig iawn a alwasant ar yr Arglwydd, am iddo eu gwared o'u cyfyngderau; a phe gwnaethent hyny o galon ddifrifol, ni fuasai raid iddynt arswydo rhuthr un gelyn, ac ni welsant estron-genedl yn trawsfeddiannu eu gwlad; oblegid "tŵr cadarn yw enw yr Arglwydd; ato y rhed y cyfiawn, ac y mae'n ddiogel." (Diar. xviii. 10.)

Yn mhen talm o amser (ar ol derbyn y wobr ddyledus am eu pechodau yn y byd hwn) y gwelodd yr Arglwydd yn dda gyffwrdd a'u calonau; a daethant fel y mab afradlon, i bwyll ac ystyriaeth, gan ddychwelyd yn edifeiriol at yr Arglwydd eu Duw. Er nad oeddent y pryd hwnw ond ychydig o druein-iaid methedig, wedi eu curio gan oerfel a newyn, eto cawsant eu nerthu gan Dduw fel na allodd câd y Brithwyr, er lluos-oced oedd, eu gwrthsefyll. Sathrwyd eu byddinoedd, fel dyn yn ysgrythru mân-goed a bilwg: er iddynt gael llawer o gymhorth, o wyr ac arfau, o'r Iwerddon, eto ni thyciodd iddynt ennill un frwydr, canys y Brutaniaid oedd a'u hyder yn yr Arglwydd Dduw. Ar hyny, Cilamwri Mac Dermot O'Hanlon, ac Huw Mac Brian, ac Efer Mac Mahon (pen cad-beniaid y Brithwyr a'r Gwyddelod), a ffoisant, hwynt-hwy a'u gwŷr yn archolledig, tu draw i Wal Sefer, i fynydd-dir Iscoed Celyddon, ac ereill dros y môr i'r Iwerddon.* Hwyr y tybiasai neb y buasai y cyfryw ddynion yn gollwng Duw yn angho f mor ebrwydd: gallesid meddwl y buasent yn ofni Duw "gyda gwylder a pharchedig ofn," gan ystyried eu bod yn gweled (pe gosodasent hyny at eu calonau) y fath arwyddion mawr a hynod; canys gwelsant y dialeddau trym-ion, y dystryw, y newyn, a'r difrod, oedd o hyd yn eu cyd-ganlyn, tra'r oeddent yn ddiareb yn mysg eu cymydogion am eu diraswydd a'u meddalwch; gwelsant hefyd y bendithion haelionus, y dyddanwch, y breswylfod ddiogel, a gawsant tra yr oeddent yn Gristionogion da, ac yn gwneyd cydwybod o'u

* Gwel Deut. xxviii. 7.

dyledswydd at Dduw a dyn: ond er hyn i gyd, dynion drwg anufudd a gwrthryfelgar oeddent. Wedi iddynt yru ymaith y gelynion, a chael byw yn llonydd yn eu gwlad, ymosodasant i lafurio'r ddaear, a chawsant y fath gnwd o ŷd, ar fath amlder o ffrwythau y flwyddyn hon, na welwyd erioed eu cyffelyb.* Yn mhen dwy flynedd neu dair (amser byr!), ar ol iddynt gael preswylfa ddiogel yn eu caerau a'u cestyll, ac hefyd eu llenwi o bob danteithion, ammeuthyn fwydydd, ac ail seigiau, hwy a aethant yn hyfach (pe buasai bosibl) i bechu yn erbyn Duw nag y buont erioed. "Jesurun a aeth yn fras, ac a wingodd." (Deut. xxxii. 15.) Eneinniwyd breninoedd, nid y cyfryw a wnaent gydwybod i rodio gyda Duw, ond y sawl oeddent greulonach a melldigedicach nag ereill; a chyn pen ychydig, lleddid hwy gan y sawl a'u heneinniasant (nid o achos y gwirionedd), a dewisid rhai creulonach eto yn eu lle.† Os byddai rhyw un yn chwennych byw yn brydferth a llonydd, ac yn "symud ei droed oddiwrth ddrygioni," casâid hwnw gan bawb, a phrin y gellid anmharchu digon arno; ond pa fwyaf ysgeler, diriaid, a diras a fyddai un, mwyaf i gyd fyddai parch ac anrhydedd hwnw. Nid gwŷr lleyg yn unig oeddent fel hyn yn ymhyfrydu mewn camwedd, ac yn casâu gwybodaeth o Dduw, eithr y gwŷr llen hefyd, neu'r offeiriaid, "a ymadawsant a llwybrau uniondeb, i rodio mewn ffyrdd tywyllwch." (Diar. ii. 13.) Canys yn lle gofalu dros eu diadellau, eu teml hwy a fyddai cegin tafarnau, ac ymdor-dynu a chanu maswedd;‡ am baham y canodd un o'u prydyddion, gan edliw iddynt:—

> "Y 'ffeiriaid oe'nt euraid cyn oeri—crefydd;
> Cryf oeddent mewn gweddi:
> Yn awr meddwdod sy'n codi;
> 'Nifeiliaid yw'n bugeiliaid ni."

Ar fyr eiriau, ni lysodd un gradd, na boneddig na gwreng, na gwŷr llen, na gwŷr lleyg, a dim ysgelerder, direidi, ac annuwioldeb, ag ydyw natur lygredig dyn yn dueddol iddo. "I'r bobl hyn yr oedd calon wrthnysig ac anufuddgar: hwynt-hwy a giliasant ac a aethant ymaith." (Jer. v. 23.) Yn nghanol y gloddest yma, taenodd newydd yn ddisymwth dros y wlad, fod y Brithwyr a'r Gwyddelod wedi tirio.

* Tantis abundantium copiis insula affluebat, &c. Gild. 9. 19. p. 17.
† Ibid, p. 18. ‡ Vino madidi torpebant resoluti. Gild. p. 18. 6.

Gweithiodd hyn, yn wir, fraw ynddynt, ac a wnaeth i'w calonau ysboncio ychydig, megys y gwelwch ddyn yn cilio yn drachwyllt wrth ganfod neidr yn gwanu ei cholyn, ac yn llamsach mewn perth, ond hyny o fraw a â yn ebrwydd heibio; felly yr un modd y Brutaniaid hwythau, wedi cael hysbysrwydd nad oedd y cwbl ond larwm a chwedl gwlad, a aethant yn ebrwydd ar ol eu hen arferion, i ymlenwi ac ymbleidio. Yna gan na chymerasant addysg, anfonodd yr Arglwydd bla angeuol i'w mysg, a elwid Brad-Cyfarfod, yr hwn a ysgubodd ymaith y fath luaws aneirif o bob gradd ac oedran, fel prin y gallodd y byw gladdu'r marw. "Oni chedwi ar wneuthur holl eiriau y gyfraith hon, yna y gwna'r Arglwydd dy bläau di yn rhyfedd, sef pläau mawrion a pharhaus, a chlefydau drwg a pharhaus." (Deut. xxviii. 58, 59.) A chyn pen nemawr o amser ar ol hyn, sef ar ol i'r pla laesu ychydig, wele y Brithwyr wedi dyfod mewn gwirionedd; rhwng y difrod a wnaeth y pla, a'r gelynion yn llosgi eu trefydd ac yn rhuthro arnynt, a hwy yn weinion ac yn gleifion, y mae'n hawdd i ni farnu pa mor resynol oedd eu cyflyrau. Hyny wnaeth iddynt alw am y Saeson, y rhai a fuont yn waeth eto nag un pla na Brithwr.

---

## PENNOD IV.

Y RHYFEL FU RHWNG Y BRUTANIAID A'R SAESON. BRAD Y CYLLYLL HIRION. HANES UTHR BENDRAGON, ARTHUR, &c. TYWYSOGION CYMRU. YCHYDIG O GYFRAITH HOWEL DDA.

Wedi dangos eisioes i ba amgylchiadau tosturus y dygwyd yr hen Frutaniaid iddynt o herwydd eu lleithder a'u meddalwch, ond yn anad dim o herwydd eu bywyd diras a'u diystyrwch ar Dduw, mi a âf rhagof i ddangos eu hynfydrwydd a'u gwallgofrwydd tu hwnt i ddim, yn deisyf cymhorth y Saeson;* canys yr un peth a fuasai iddynt osod blaidd yn geidwad ar yr ŵyn, i'w hachub rhag y cadnoaid, a gwahodd y Saeson drosodd i ymladd drostynt yn erbyn y Brithwyr. Eto nid oedd hyny ond y peth y mae Duw yn fygwth yn erbyn an-

* O altissimam sensûs caliginem! o desperabilem crudamque mentis hebetudinem. Gild. 23. p. 20.

ufudd-dod, "Oni wrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, yr Arglwydd a'th dery di ag ynfydrwydd, ac a ddallineb, ac a syndod calon." (Deut. xxviii. 15, 28.) Ofnent y Saeson o'r blaen, megys plant y fall ac ellyllon o wlad annwn: eto y fath hurtrwydd a'u perchenogent ar hyn o bryd, fel y danfonasant genadon atynt i'w gwahodd hwy drosodd i Frydain i fod o'u plaid i ymlid ymaith y Brithwyr, y rhai nid oeddent mewn un modd yn wrolach pobl na hwynt-hwy eu hunain, pe nis gadawsent i fusgrellni a lleithder eu gorthrechu, megys y dywedodd y Rhufeiniaid lawer gwaith wrthynt.

Ni wyddys yn iawn am baham y danfonwyd am y Saeson yma gyntaf, y rhai oeddent bobl o Almaen, gerllaw Hanover. Dywed rhai fod amgylchiadau yr hên Frutaniaid y pryd hwnw fel y canlyn:—Discynodd coron y deyrnas o iawn dreftadaeth i wr graslawn a elwid Constans, yr hwn a gafodd ei ddwyn i fynu mewn monachlog, ar fedr iddo fod yn grefyddwr, ac o'r achos hyny oedd anadnabyddus ag arferion y llys a chyfreithiau'r deyrnas. Am hyny efe a osododd ddystain, neu ben-rheolwr, dano, i farnu materion y llys a'r deyrnas. Y dystain hwnw a elwid Gwrtheyrn, a dyn rhyfygus, ystrywgar, a ffals, oedd efe; canys ar ol cael yr awdurdod freninol yn ei law, ei amcan nesaf oedd cael meddiant ei hun, a lladd ei feistr. Felly efe a roddodd wobr i o gylch cant o feibion y fall, am iddynt ruthro ar ystafell y brenin, a'i ladd ef; ar hyny, wedi gwneuthur sen a gogangerdd er anfri i Gonstans, a chaniad o fawl i Wrtheyrn, dysgwyliasant am oedfa i ruthro arno, a lladdasant ef, a dygasant ei ben ger bron y bradwr; yntau a gymerth arno wylo, er na bu erioed lawenach yn ei galon. Ond i fwrw niwlen dros lygaid y bobl, fel y tybid nad oedd ganddo ddim llaw yn y llofruddiaeth, efe a barodd dori penau y can wr hyny a osododd efe ei hun ar waith.* Ac felly, barn rhai yw, i Wrtheyrn wahodd y Saeson i fod yn osgordd ac yn amddiffyn iddo, rhag y difreinnid ef am ei fradwriaeth a'i ysgelerdra. Ond boed hyny fel y myno, hyn sydd ddigon sicr, fod pob peth allan o drefn yn mysg y Brutaniaid ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid oddiyma: prin iawn yr ystyrid pa wir hawl, nac ychwaith pa gynneddfau dda a fyddai gan neb a osodai gais i fod yn ben-rheolwr gwlad; ond yr hwyaf ei gleddyf a'r

* Galf. lib. 6. c. 7, 8, 9.

direitiaf a ymhyrddai i awdurdod, ac a gadwai ei reolaeth hyd oni ddeuai un trech nag ef yw wthio ymaith. Mae Gildas, yr hwn a ysgrifenodd o gylch y flwyddyn 546, yn tystio hyn yn eglur. Felly Gwrtheyrn, rhag y difreinnid ef, megys y gwnaed i laweroedd ereill o'i flaen, a alwodd am gymhorth y Saeson i ddiogelu ei hun ar yr orseddfainc:* a hyn, yn wir, a allasai fod yn un rheswm yn mysg ereill; ond i ymladd a'r Brithwyr y cyflogwyd y Saeson yn benaf dim.

Felly Gwrtheyrn, ar ol ymgynghori a'i benaethiaid, a anfonodd bedwar o wyr anrhydeddus ei lys i wneuthur ammod a'r Saeson, a'u gwahodd hwy drosodd i Frydain, sef oedd enwau y pendefigion, Cadwaladr ap Tudur Rhuddfaog, Rhydderch ap Cadwgan Freich-fras, Meuric ap Treharne, a Gwrgant ap Maelgwn Ynad, heblaw rhai ereill o isradd yn osgordd iddynt. Yna wedi myned i ben eu taith, os gwir a ddywed cronicl y Saeson (canys Sais cynenid sydd yn adrodd hyn o fater,† o herwydd nid oes air yn un cronicl Cymraeg am dano), y cenadon a wnaethant araith ger bron eisteddfod o Saeson‡, yn y geiriau hyn:—"Nyni, y Brutaniaid truain, wedi ein harcholli a'n blin gystuddio gan aml ruthrau ein gelynion, ydym yn deisyf eich porth a'ch nawdd yn y cyfyngder trallodus y'n dygwyd iddo ar hyn o bryd. Ein gwlad sydd eang ddigon, fflwch a diamdlawd o bob peth buddiol at gynaliaeth dyn; cewch feddiant ynddi; digon yw hi i ni a chwithau. Hyd yn hyn y bu y Rhufeiniaid yn ymgeleddwyr tirion i ni; nesaf at ba rai ni adwaenom neb a roddodd brawf mor helaeth o'u grymusdra a chwychwi. Bydded i'ch arfau seinio allan eich gwroldeb yn ynys Brydain; ac ni fydd flin genym wneuthur o'n rhan ninau, un fath o wasanaeth a esyd eich ardderchawgrwydd arnom." Yna atebodd y Saeson hwy wrth fodd eu calonau, gan ddywedyd, "Gellwch hyderu arno, Frutaniaid anrhydeddus, y bydd y Saeson yn geraint cywir i chwi, ac yn barod i'ch cynorthwyo yn yr ing a'r trallod mwyaf." Y gwirionedd yw, nid yw yr araith hon ond chwedl gwneuthur y Sais, nid dim ond ei ddychymyg ei hun; canys nid oedd awdurdod y cenadon a anfonwyd at y Saeson, ddim amgen nag ammodi a hwy er cymaint a chymaint o gyflog,

* Nenn. c. 28. Vide Orig. Brit. c. 5. p. 318, 319. † Witichindus cit. a Camd. p. 123. ‡ Fe ddygwyddodd camsyniad hagr yn yr argraffiad cyntaf, lle y dywedir anfon llythyr at y Saeson. Ni fedrent hwy air ar lyfr, na darllen nac ysgrifenu, yn yr amser hwnw.

megys y gallent hwy gytuno arno.* Nid oedd air o son am gael meddiant o un cwr o'r deyrnas.

Yr oedd ambell un, y rhai oedd a'u synwyrau yn effro, yn darogan y wir chwedl, ac yn ofidus eu calon wrth ragweled y dystryw gerwin oedd ar ddyfod. "Pan gaffo y cacwn," ebe un, "letty yn nghwch y gwenyn, gorfydd ar wir drigolion y cwch roddi lle i'r pryf gormesol. Gwae fi! na fyddo gwahodd y Saeson ddim yn gwirio y ddihareb, 'Gollwng drygwr i ysgubor gwr da;' a llawer gwaith y gwelwyd, 'Mai gelyn i ddyn yw ei dda.'" "Clywais hen chwedl," ebe un arall, "i'r colomenod gynt ammodi a'r barcutanod ar eu cadw rhag rhuthr y brain; y bodaod yn ddilys a erlidiasant y brain ymaith; ond beth er hyny? Nid hwyrach ag y byddai chwant saig felus ar y bodaod, nid dim arall a wasanaethai eu tro ond colomen at giniaw a phrydnawnfwyd: Mi gâf gan Dduw mai nid hyny fydd corff y gainc ar waith ein brenin da ninau yn anfon am y Saeson." Ond nid oedd ond ambell offeiriad tlawd yn dal hyn o sylw ar bethau. Ar ol i'r cenadon ddychwelyd adref, bu llawenydd mawr yn y llys; a byth ni welai y brenin ynfyd ddigon o arlwy ar eu medr, na digon o ddanteithion a moethau'r ynys i'w croesawu. Yn mhen ychydig, yn mis Awst, yn y flwyddyn 449, y tiriasant mewn tair llong, a dau frawd, Hengist a Hors, yn flaenoriaid arnynt. Ar ol gwledda, a bod yn llawen dros rai dyddiau, a llwyr gytuno ar y gyflog yr oedd y Saeson i dderbyn am eu gwasanaeth, fel na byddai dim ymrafael rhagllaw, y Saeson yn wir, a roddasant brofiad helaeth o'u gwroldeb a'u medr i drin arfau rhyfel; canys er na allent fod yn nifer fawr iawn, pan allasai tair llong eu dwyn, eto, a hwy yn awr yn borth i'r llu egwan oedd yn y deyrnas eisioes, y Brithwyr a wasgarwyd, eu byddinoedd a ddrylliwyd, a Niawl Mor Mac Flan a dorodd ei weddf ar ei waith yn ffoi yn frawychus ac yn fyrbwyll.

Ond darfu am onestrwydd y Saeson wrth weled mor ddifraw a musgrell oedd y trigolion (a diammheu mai dynion wedi ymroddi i feddalwch a maswedd oeddent), ond yn anad dim wrth feddwl pa wlad fras odidog oedd ganddynt, gymaint yn rhagori ar y cornel llwm newynog oedd ganddynt hwy gartref. Yna hwy a ddanfonasant yn ddirgel at eu cydwladwyr,† i wahodd y rhai mwyaf gwaedlyd a chieiddaf o honynt drosodd i Frydain,

* Vide Annot, in Camd. p. 123. Orig. Brit. p. 318.

† Beda ipse hoc asserit. Hist. Eccles. lib. 1. c. 15.

tuag at ddwyn eu hamcan drwg i ben; canys er eu bod yn ddigon parod o honynt eu hunain, ond nid oedd eu nifer eto yn ddigon. "Y wlad," ebe hwy "sydd odidog a chnydfawr! gwlad doreithiog a hyfryd! ond y trigolion ydynt lesg, a llaith, a diofal. Os ydych gall, nac aroswch gartref i newynu, ond cymerwch galon gwŷr, a deuwch drosodd gyda ni. 'Ni roddir gwlad i fusgrell.' Ein cydfwriad yw, i ruthro ar y trigolion swrth, fel y byddo'r wlad yn eiddo i ni ein hunain; felly, bydded eich arfau yn awchus ac yn gywrain i ladd."

Nid oedd lawer iawn o achos canlyn arnynt i'w hannog: digon o annogaeth oedd cael anrheithio'r wlad ar ol lladd y trigolion. Felly, yn ebrwydd y cynullodd llu mawr o honynt, bedwar cymaint a'r waith gyntaf, ac yn mhlith ereill, dau fab i Hengist, a merch iddo a elwid Rhonwen. Y Brutaniaid oedd a'u llygaid yn agored, a edrychasant yn chwithig ar y fath lu gormesol o farbariaid arfog yn tirio heb genad; ond y brenin ynfyd, Gwrtheyrn dan ei enw, a'u hymgeleddodd, a thuag at ddystewi man-son y bobl, dywedodd, mai yn gynorthwy yn erbyn y gelynion y daethant, rhag bod y fyddin gyntaf yn annigonol. Yr oedd Hengist erbyn hyn wedi adnabod tymmher y brenin; ac er cymaint o anrhegion, heblaw ei cyflog, oedd efe a'i wyr wedi eu derbyn, eto, mynai gael dinas gaerog dan ei lywodraeth, "Fel y byddwyf," eb efe, "yn anrhydeddus yn mhlith y tywysogion, megys y bu fy hen deidiau yn eu gwlad eu hunain." Ond atebodd Gwrtheyrn, "Ha, wr da! nid yw hyny weddus, canys estron a phagan ydwyt; a phe y'th anrhydeddwn di megys boneddig cynwynol o'm gwlad fy hun, y tywysogion a safent yn erbyn hyny." "Ond, O arglwydd frenin!" ebe Hengist, "caniatâ i'th was gymaint o dir i adeiladu castell, ag yr ymgylchyna carai." "Ti a gei gymaint a hyny yn rhwydd," ebe Gwrtheyrn. Yna y cymerth Hengist groen tarw, ac a'i holltodd yn un garai, ac yn y lle cadarnaf, efe a amgylchynodd gymaint a chae gweddol o dir, ac a adeiladodd yno gaer freinniol, yr hon a elwid gynt gan y Brutaniaid, Caer-y-garai, eithr yn awr gan y Saeson, Doncaster, hyny yw, Thong-chester.*

Yna Hengist a wahoddodd y brenin i ddyfod i weled y gaer newydd, a'r marchogion a ddaethant o'r Almaen; a gwnaethpwyd yno wledd fawr o bob moethau da a danteith fwydydd.

* Galf. lib. 6. c. 12. Camd. in Lincolnshire, p. 471.

Ond yn niwedd y cwt (a Hengist yn gwybod eisioes mai dyn mursenaidd oedd Gwrtheyrn), efe a barodd i'w ferch Rhonwen wisgo'n wych odidog am dani, ac i ddyfod i'r bwrdd i lenwi gwin i'r brenin, a daeth ystryw Hengist i ben wrth fodd ei galon; canys y brenin anllad a hoffodd yr eneth, ac a ddymunodd gael cysgu gyda hi y noson hono, a hithau,

"Yr eneth frau anniwair,
Ni ddydwich, ni ddywed air,"
(OWEN AP LLEWELYN MOEL A'I CANT.)

Ond cydsynio yn ebrwydd ag ef; a phan geryddwyd ef am ei bechod a'i loddest gan Fodin, esgob Llundain, megys y gweddai i wr o'i broffes wneuthur, y brenin yn ei wyn gynddeiriog, a ergydiodd waewffon at ei galon, ac a gymerth Ronwen yn gariadferch iddo. Geiriau'r cronicl ydynt, "A chwedi meddwi o Wrtheyrn, neidio a orug diawl iddo, a pheri iddo gydsynio a'r baganes ysgymun heb fedydd arni."

"Tanbaid ei naid yn ei ol,
Tanbeidiach na'r tân bydol."
TUDUR ALED A'I CANT.

Wedi i hyn ddyfod i ben wrth fodd y Saeson, dysgwyl a wnaethant am amser cyfaddas i ruthro ar eu meistriaid. Yn gyntaf, achwyn a wnaethant nad oedd eu cyflog agos cymaint ag oedd eu gwroldeb yn haeddu, er nad oedd hyn ond cweryl gwneuthur; eto i gau eu safnau cawsant ychwaneg, yr hyn a'u dystawodd dros ychydig; * ond megys y dywed y ddihareb, "Hawdd gan foneddig fin-gamu," felly hefyd hawdd yw digio dig, canys yr un dôn oedd eto yn bytheirio yn eu safnu, "Nad oedd dim cystadledd rhwng eu cyflog a'r gwasanaeth oeddent hwy yn ei wneuthur. A raid i ni," ebe hwy, "anturio ein hoedlau am ffiloreg ac ambell geiniog gwta, i'ch cadw chwi yn ddiogel a difraw i ymlenwi mewn tafarnau, ddynionach musgrell segur ac ydych? Na wnawn ddim, ni fedrwn ranu arnom ein hunain."

Felly yn wir y gwnaethant y ffordd nesaf; canys ar ol i cai miloedd o honynt ddyfod drachefn o'r Almaen, a hwy yn awr yn gweled eu hunain yn ddigon cryfion o nifer, a chwedi heddychu a'r Brithwyr, rhuthro a wnaethant ar y trigolion, megys

* Impetrant sibi annonas dari, quæ multo tempore impertitæ, clauserunt (ut dicitur) canis faucem. Gild. p. 21.

cynifer o gigyddion annrhugarog yn ymbesgi ar waed, heb arbed dyn na dynes, boneddig na gwreng, hen nac ieuainc. Nid oedd o gylch glan Tafwysc, Caint, a Llundain, a'r wlad oddiamgylch hyd at Rydychain (ac ni chyrhaeddodd crafangau plant y felldith* ddim llawer pellach), ddim ond yr wbwb gwyllt, oernad ac ymdrybaeddu mewn gwaed, a drychau tosturus y meirw. Ac ar lan Hafren, o Gaerloew i'r Amwythig, ac oddiyno tua Chaerlleon Gawr, yr oedd y Brithwyr hwythau, a chleddyfau, gwaewffyn, cigweiniau, a bwyeill daufiniog, yn dieneidio a difrodi mor ysgeler a phan y byddo llifeiriant disymwth gan gafod twrwf yn ysgubo gyda'r ffrwd, ac yn gyru bendramwnwgl dai a daear, deri a dâ, a pha beth bynag fyddo ar ei ffordd: felly nid oedd ond drychau marwolaeth a dystryw o'r dwyrain hyd y gorllewin. Y trefydd a'r dinasoedd oeddent yn fflamio hyd entrych awyr, yr eglwysydd a'r monachlogydd a losgwyd hefyd a thân, ac a fwriwyd i lawr yn gandryll. Ac o herwydd mai yno y ciliodd y rhan fwyaf o wyr llen, yr esgobion, yr offeiriaid, a gweinidogion crefydd, megys i gynifer dinas noddfa (ond ni wnai y barbariaid ysgeler ddim gwahaniaeth rhwng lle cysegredig a beudy), yr esgobion, yr offeiriaid, &c., a ferthyrwyd megys ereill, lle y byddai eu haelodau yn gymysg blith-draphlith a thalpau chwilfriw yr adeilad! Y rhai a laddwyd ar wyneb y maes a adawyd yno yn grugiau draw ac yma, naill ai i bryfedu a drewi, neu yn borthiant i'r cwn a'r bleiddiaid, ac adar ysglyfaethus! Ar air, preswylwyr y fro a ferthyrwyd agos drwy bob cantref yn Lloegr, ond y sawl a allodd ddianc, gydag ychydig luniaeth, i'r ogofau a'r anialwch. Ond gwŷr blaenau gwlad a'r mynydd-dir a ymgadwasant heb fawr o daro, ond a gawsant o gyffro.

Wedi i'r ffeilstion digred, plant y fall, o'r diwedd flino lladd a llosgi, y rhan fwyaf o honynt a ddychwelsant adref i'r Almaen.† Tybia rhai mai yr achos iddynt fyned mor ddisymwth i dir eu gwlad, oedd, rhag y buasai sawyr y celaneddau meirw a adawyd yn bentyrau ar wyneb y maes, beri afiechyd, a bod yn bla iddynt; ond barn ereill yw, iddynt lwytho eu cylla cigfreinig yn rhy dyn, ac iddynt ddewis, er mwyn cael eu cynefinol iechyd, fyned adref dros enyd i dir eu gwlad, er cael budd a llesad y fôr-wybr. Y naill neu'r llall oedd yr achos,

* Ferocissimi Saxones Deo hominibusque inirsi. Gild. p. 20.

† Cum recessissent domum crudelissimi Prædones. Gild. Ep. p. 22. Edit. Joss. 1568.

neu ond odid bob un o'r ddau, sef drygsawr y celaneddau, ac ymlenwi nes bod yn dordyn. Ond myned adref a wnaethant; a chyn belled ag y gellir casglu oddiwrth hen hanesion, hwy a arosasant gartref bum mlynedd neu chwech cyn dyfod drachefn i ynys Brydain. Canys yn y flwyddyn o oedran Crist 449, y gwahoddwyd hwynt gyntaf drosodd; o gylch deng mlynedd y buont yn weision cyflog yn ngwasanaeth y Brutaniaid i ymladd drostynt, cyn iddynt yn felldigedig dori eu hammod a rhuthro arnynt; ac nid oes dim son am danynt mwyach hyd y flwyddyn 465. Wedi i weddillion y Brutaniaid ymgynull o'u tyllau ar ol y laddfa echrydus uchod, a galw yn egnïol ar Dduw am ei gymhorth, difreinnio Gwrtheyrn a wnaethant (ac nid oedd efe ond trawsfeddiannwr ar y cyntaf), a gosodasant y goron ar ben câr iddo a elwid Gwrthefyr, yr hwn am ei fod yn wr arafaidd a duwiol, ac eto yn llawn calondid, a gyfenwir Gwrthefyr Fendigaid.

Ar eu gwaith yn bwrw heibio Gwrtheyrn o fod yn frenin, mab iddo a elwid Pascen, o'i lid a'i chwerwder yn gweled gwr arall yn gwisgo coron y deyrnas, a ymadawodd o'r wlad, ac a aeth (Suddas bradychus ag oedd!) yn union at y Saeson, a chymododd a hwy, a myned yn un-gar unesgar; a'r bradwr hwn (a bradwr o hyd a fu dystryw Brydain) a fu, ond odid, yr achos penaf o'u dyfodiad y waith hon i Frydain, i ddial y sarhad o ddifreinnio ei dad. Ond gwell fuasai iddo ef a hwythau fod yn llonydd; canys am y brenin duwiol Gwrthefyr, cymaint oedd yr enw am dano wedi ymdaenu ar led, fel y bu hoff gan galonau holl ieuenctid y deyrnas ddwyn arfau dano; yntau a osododd ar y llu, yn nesaf ato ei hun mewn awdurdod a gallu, wr graslawn a elwid Emrys Benaur, tad yr hwn, yn nghyda'r rhan fwyaf o'i gyfneseifiaid, a laddwyd yn y llofruddiaeth greulon a soniwyd am dani uchod. Gwr rhagorol oedd hwn hefyd; heblaw ei fod yn rhyfelwr enwog, efe "a rodiodd o flaen Duw mewn gwirionedd, cyfiawnder, ac uniondeb calon," eto fel llew i ymladd dros fraint ei wlad a'r eglwys gatholic. Ac a hwy a'u hymddiried yn yr Arglwydd Dduw, ac yn glynu wrtho a'u holl galon a'u henaid, ar waith y ddwy gâd yn bloeddio i'r frwydr, Emrys a weddïodd ar yr Arglwydd a'i holl egni; ac yna, y ddau lu a ergydiasant yn ffyrnig y naill at y llall, a buan y cuddiwyd y maes a chelaneddau y clwyfus a'r meirw. Emrys oedd ar farch rhygyngog yn gyru megys mellten o restr i restr, i osod calon yn ei wŷr,

rhag bod neb o honynt yn llaesu, ac yn troi ei gefn ar y gelynion; a thrwy borth Duw, y Brutaniaid a ennillasant y maes,* a'u gelynion a wasgarwyd; rhai yn ffoi gyda'r Brithwyr i Iscoed Celyddon, ac ereill i dir eu gwlad tu draw i'r môr. O gylch y flwyddyn o oedran Crist 465 y bu hyn.

Er ennill y maes ar y gwŷr arfog, a'u hymlid ymaith, eto chwith fu gan y Brutaniaid ruthro ar y gwragedd a'r plant a adawodd y Saeson ar eu hol, ond eu gadael yn llonydd a wnaethant i fyw yn y wlad. Ond "gwneler cymwynas i ddyn drwg, ac efe a dâl y mawr ddrwg am dano:" ymgeledded dyn sarff yn ei fynwes, ac efe a fydd debyg o gael ei frathu; ac medd hen ddihareb, "Cos din taiog, ac efe a g—ch yn dy ddwrn." Ac felly Rhonwen, y Saesones, merch Hengist, a gordderchwraig Gwrtheyrn, yn lle bod yn ddiolchgar am y tiriondeb a ddangoswyd iddi hi a'i heiddo, a osododd ei synwyr ar waith i wenwyno y brenin da, Gwrthefyr Fendigaid; a thuag at ddwyn ei hamcan uffernol i ben, rhoddodd haner o'r holl drysor a feddai yn y byd, i lanc o ysbryd eofn ac ysgeler a elwid Ebissa; yntau a ymrithiodd megys garddwr, ac ar foreu-gwaith tra'r oedd y brenin yn rhodio yn ei ardd, y bradwr du a'i hanrhegodd a thusw o flodeu briallu, a mwg gwenwyn marwol wedi anadlu arnynt.† Pan gydnabu Gwrthefyr ddarfod ei wenwyno (ond y bradwr a ddiangodd ymaith yn ddystaw at Ronwen), efe a orchymynodd alw ei holl dywysogion ato, a chynghorodd bawb o honynt i amddiffyn eu gwlad a'u gwir ddled rhag estron-genedl. Rhanodd ei gyfoeth rhwng yr holl dywysogion, a gorchymynodd losgi ei gorff, a rhoddi ei ludw mewn delw o efydd ar lun gwr, yn y porthladd, lle y byddai estron-genedl yn ceisio dyfod i dir, gan ddywedyd, "Mai diau na thirient byth tra y gwelent ei lun ef yno." Ond wedi marw Gwrthefyr, ni wnaeth y tywysogion megys yr archasai iddynt, ond claddasant ef yn Nghaerludd. Y fath oedd dewrder calon y brenin godidog hwn, fel megys y bu yn ffrewyll yn ystlysau'r Saeson tra y bu efe byw, felly y chwennychai fod yn ddychryn iddynt hyd yn oed ar ol ei farw. Ond ebe'r bardd:—

"Er heddwch nac er rhyfel,
Gwenynen farw ni chasgl fêl."

* Queis [Sc. Britannis] victoria, Domino annuente, cessit. Gild. p. 23.
† Ms. Hist. vet. membranâ script.

A glybuwyd son erioed am bobl mor wallgofus ac ynfyd ag a fu y Brutaniaid ar hyn o bryd? Canys Gwrtheyrn yr hwn a ddifreinniasant rai blyneddau o'r blaen am ei ddiddarbodiaeth yn bradychu ei wlad i ddwylaw estroniaid, a gafodd y llywodraeth yn ei law eto; ac nid oedd Rhonwen yn ewyllysio ond dyfod hyny i ben. Wedi ei sicrhau ef yn y freniniaeth, hi a anfonodd genadon i'r Almaen, i hysbysu i'w thad iddi wneyd pen ar Wrthefyr, a bod Gwrtheyrn, gwr oedd hoff ganddo genedl y Saeson, wedi ei ddyrchafu i eistedd ar yr orseddfainc. "Ha ha," ebe Hengist wrth ei wŷr, "y mae i ni obaith eto; oes." A hwy a'i hatebasant ef a gwên ddiflas, gan ddywedyd, "Gobaith ansicr iawn ydyw hyny; canys nyni a ddirmygasom ormod ar y Brutaniaid eisioes, a phobl lewion ydynt hwythau wedi llidio." "Ffi! ffi!" ebe Hengist, "na lwfrhäed eich calon, yr ydym ni yn gyfrwysach na hwy; pan ballo nerth, ni a fedrwn gynllwyn." Ac yna, efe a gynullodd yn nghylch pymtheg mil o wŷr arfog, heblaw gwragedd a phlant, ac a hwyliodd drosodd i Frydain mor ebrwydd ag oedd modd; canys efe a wyddai mai "hawdd cymodi lle byddai cariad:" y fath oedd ei hyder ar y brenin hanercall hwnw Gwrtheyrn. Ond pan welodd y Brutaniaid y fath lynges fawr (o gylch deugain o ysgraffau) yn hwylio tuag atynt, sicrhau y porthladd a wnaethant fel na allent dirio. Ar hyny gosododd Hengist arwydd tangnefedd i siomi y Brutaniaid, ac a ddanfonodd genadon i fynegi i'r brenin, "Mai nid er eu haflonyddu yr hwyliodd efe i Frydain y waith hono, a'r fath lu ganddo, ond i gynorthwyo y brenin i ennill ei goron, yr hon a gipiwyd yn annghyfiawn oddiwrtho; canys ni wyddem ni ddim amgen," ebe hwy, "nad oedd Gwrthefyr eto yn fyw, ac yn trawsfeddiannu y goron." "Teg iawn," ebe Gwrtheyrn, ac a ddiolchodd iddynt am eu cariad. "Boed gwiw gan eich mawrhydi," ebe hwy, "i bennodi rhyw ddiwrnod, fel y caffo Hengist ein harglwydd siared wyneb yn wyneb a'ch breninol uchelder." "O ewyllys fy nghalon," ebe Gwrtheyrn. "Ond arglwydd frenin," ebe hwy eto, "fel yr ymddangoso yn eglur i'r byd ein bod ni yn heddychol ac ar feddwl da, deued pawb yn ddiarfog i'r lle gosodedig a welo eich mawrhydi chwi yn dda i benu arno." "Da y dywedwch," ebe Gwrtheyrn, "ac nyni a gyfarfyddwn ddydd Calan Mai nesaf, yn ngwastadedd Caer Caradoc."

Wedi i Hengist fel hyn ymgynhesu a'r brenin didoraeth (a

"hawdd cyneu tân yn hen aelwyd"), yna ei ferch Rhonwen a ddaeth i ymweled ag ef, ac adrodd wrtho mor ddichellgar y bu hi i wenwyno Gwrthefyr. "Da merch i!" ebe Hengist, "wele merch dy dad yn llwyr wyt ti; mi a ddywedaf hyny am danat."

Hengist ar hyny a barodd alw yn nghyd ei farchogion; ac ar ol adrodd mor ystrywgar y darfu i Rhonwen wenwyno Gwrthefyr Fendigaid, efe a ddywedodd wrthynt, "Dydd Calan Mai nesaf yr ydym i gyfarfod a phendefigion y Brutaniaid dan rith i wneyd ammod o heddwch a hwy; ond yn wir ddiau ar fedr eu lladd bob mab gwraig, cystawcewn ag ydynt. Canys wedi i ni ladd y goreuon, rhydd hyny gymaint o fraw yn y werinos daiog, fel na byddo calon yn neb i'n gwrthsefyll. Ond i ddwyn i ben hyn o orchwyl yn gyfrwys, dyged pawb o honoch gyllell awchlem ddaufiniog, megys cyllell cigydd, yn ei lawes, a phan ddywedwyf wrthych, "*Nemet eour saxes*" (hyny yw, "Ymafled pawb yn ei gyllell"), lladded pawb y nesaf ato. Wele gorchymyn a gawsoch; ymddygwch fel gwŷr, ac nac arbeded eich llygaid." Ar y dydd pennodedig, cyfarfod a wnaethant; ac er ychwaneg o argoelion cariad, Hengist a'u hannogodd yn hawdd i eistedd Fritwn a Sais bob yn ail, blith-draphlith o gylch y byrddau; ond wedi ciniawa a dechreu myned yn llawen, y cyfododd Hengist ar ei draed, ac a waeddodd, "*Nemet eour saxes.*" Yn ddiatreg ymaflyd a wnaeth pob un gyda'r gair yn ei gyllell, a thrywanu y nesaf ato, a hyny gyd a chyn lleied o dosturi a phan y byddo cigydd yn gollwng gwaed mochyn. Ychwaneg na thri chant o bendefigion a goreuon y deyrnas a ferthyrwyd yn dra mileinig yn y wledd waedlyd hono ar ddydd Calan Mai. Ond Eidiol, iarll Caerloew, a ddiangodd yn ddidaro, o nerth trosol a gafodd efe dan ei draed, ac a'r trosol hwnw efe a laddodd ddeng wr a thriugain* o blant y fall, y Saeson, canys gwr glew oedd. Er nad oedd ganddo ond trosol, eto ni a welwn wirio hen ddiareb, "Ni ddiffyg arf ar was gwych." Ac medd hen ddiareb arall, "Glew a fydd llew hyd yn llwyd." Yn y flwyddyn o oedran Crist 472 y bu hyny.

Damweiniodd i mi weled un o'r cyllyll hirion hyny, ac un hagr hell oedd hi; y llafn oedd yn nghylch saith modfedd o hyd, ac yn ychwaneg na haner modfedd o led, ac yn ddaufin-

* Gwel yr hanes am gedyrn Dafydd, 2 Sam. xxiii.

iog bum modfedd o'r saith; ei charn oedd elephant [ifori], a manylwaith cywrain arno, a llun benyw noeth a bwl crwn yn y llaw aswy, a'r llaw ddeheu ar ben ei chlun; yr oedd llun gwas ieuanc wrth y tu dehau o honi, a'r haul o amgylch ei ben; ei gwain oedd elephant wedi ei weithio yn gywrain iawn. Ac meddant hwy, yr oedd y gyllell hon yn un o'r rhai fu gan y Saeson yn lladd penaethiaid y Cymry.

"Gwae ddydd annedwydd anwir
Gwae rhag yr hell gyllell hir!

"Cyllell hir cuell a llem,
Callestr-fin holl-drin hylldrem. } IOLO GOCH A'I CANT.

"Dagr garnwen, gethern gythrawl,
Neddai ddu a naddai ddiawl.
Yn ei efail y'th luniwyd
Dart y diawl, a'i hawl ef wyd."

Wedi ymdaenu y newydd galarus o'r llofruddiaeth hon ar led, y werin bobl fu agos ag anmhwyllo gan ofn, megys ysgolhaig ieuanc, newydd fyned i'r ysgol, yn cyffro pob cymal wrth weled meistr gerwin yn ystwytho llanc diwaith na fynai edrych ar ei lyfr. Nid oedd y pryd hwnw gan y Brutaniaid ddim ychwaneg na saith mil o wŷr arfog, y fath ag oeddent; ac ni a allwn ddal sylw mai pobl annghall oeddent o hyd yn hyn o beth, sef yn gadael y milwyr i fyned ar wasgar ar ol iddynt hwy unwaith gael y trechaf ar eu gelynion. Beth oedd saith mil o wŷr mewn teyrnas a chymaint o ergyd gelynion arni? Ar waith y llu egwan hwnw, heb yn awr un uchel gadben o wr profiadol calonog yn flaenor arnynt (canys Emrys Ben-aur a ddiswyddwyd ar ol dyfod Gwrtheyrn i reoli eilwaith); ar eu gwaith, meddaf, yn llaes-wynebu eu gelynion, hwy a sathrwyd gan y Saeson, megys march rhygyngog yn tori crin-gae, neu megys y difa fflam o dan berth o eithin crin. A'r Saeson a oresgynasant y cwbl o gylch Llundain a'r wlad o amgylch, heb feiddio o neb symud ei dafod yn eu herbyn.

Yna Gwrtheyrn, dyn pen-dreigl ag oedd, a aeth ar encil tua Gwynedd; ac megys Saul yn ei gyfyngdra yn ymgynghori a'r ddewines o Endor (1 Sam. xxviii.), felly yntau a ymgynghorodd a'i ddoethion (gwŷr ond odid ddim callach nag yntau), yn nghylch pa beth oedd oreu wneuthur yn y fath adfyd a chaledi; a'u barn hwy oedd yn un a chytun, i adeiladu

castell o fewn Eryri, fel y caent ryw breswylfa ddiogel mewn lle anial allan o olwg y byd. Cymaint a adeiledid o'r castell y dydd (os gwir yw'r chwedl) a syrthiai yn y nos; ac ni ellid mewn modd yn y byd beri i'r gwaith sefyll. A'r brenin a ymofynodd a'r dewiniaid, a'i ddeuddeg prif-fardd, ond ni fedrent ei ateb. "Ond," ebe un o honynt, ac ychydig fwy o synwyr ynddo nag yn y lleill, "dywedwn rywbeth anmhosibl i fod, rhag rhoddi anair i'r dewiniaid." Felly, yn mhen ychydig, megys pe buasent wedi hylldremu ar y planedau, dywedasant, "Pe caid gwaed mab heb dad iddo, a phe cymysgid hwnw a'r dwfr a'r calch, fe saif y gwaith." "Garw yw eich chwedl," ebe Gwrtheyrn; ac yn gall ei wala yn hyn, megys yn mhob peth arall, efe a anfonodd swyddogion i bob man o Gymru (canys yn Nghymru yr oedd ganddo awdurdod eto) i ymofyn pa le y ganesid mab heb dad iddo. Wedi tramwy o honynt y rhan fwyaf o'r holl ardaloedd er cryn ddifyrwch i'r bobl, daeth dau o honynt i dref a elwid Caerfyrddin, ac yn mhorth y ddinas, clywent ddau lanc ieuanc yn ymdaeru; enw'r naill oedd Myrddin, a Dynawt y llall. Ebe Dynawt wrth Myrddin, "Pa achos yr ymrysoni di a myfi? canys dyn tyngedfenol wyt ti heb dad, a minau sydd o lin breninol o ran tad a mam." "Boed wir dy chwedl," ebe'r cenadon wrth eu gilydd, ac a aethant at faer y dref i ddangos eu hawdurdod i ddwyn Myrddin a'i fam at y brenin i Wynedd. Wedi eu dyfod ger bron, Gwrtheyrn a ofynodd mab i bwy oedd y llanc. Ei fam a atebodd, mai hi oedd ei fam, ond nas gwyddai pwy oedd ei dad. "Pa fodd y gall hyny fod?" ebe'r brenin. "Un ferch oeddwn," ebe hi, "i frenin Dyfet; fy nhad am rhoes yn fynaches yn Nghaerfyrddin; ac fel yr oeddwn yn cysgu ryw noswaith rhwng fy nghyfeillesau, mi a dybiwn yn fy hun fod rhyw was ieuanc tecaf yn y byd yn ymgydio a mi, eithr pan ddihunais, nid oedd yno namyn fi a'm cyfeillesau; a'r amser hwnw y beichiogais ac y ganwyd y mab acw: ac i'm cyffes i Dduw, ni bu i mi achos gwr ond hyny." Rhyfeddu a wnaeth y brenin yn fawr i glywed hyny, ac a archodd ddwyn Meugain ddewin ato, ac a ofynodd iddo, a allai hyny fod. "Gall, o frenin," eb efe, ac a draethodd ei resymau, y fath ag oeddent, i brofi hyny.* Y brenin ar hyny a ddy-

* Merlinus ipse natus est in Cambria, non ex incubo demone, sed ex furtivâ venere cujusdam Romani consulis cum virgine vestali. Poweli annot. in Girald. Itiner. Cambriæ. c. 8. p. 207.

wedodd wrth Myrddin, "Y mae'n rhaid i mi gael dy waed." "Pa les a wna fy ngwaed i mwy na gwaed dyn arall?" ebe Myrddin. "Am ddywedyd o'm deuddeg prif-fardd y para dy waed di i'r gwaith sefyll yn dragywydd," ebe'r brenin. Myrddin a ofynodd i'r dewiniaid am yr achos oedd yn rhwystro i'r gwaith sefyll; a phryd nas gallasent roddi ateb iddo, efe a'u galwodd hwy yn dwyllwyr a bradwyr celwyddog. "Yr achos na saif y gwaith," eb efe, "yw, am fod llynclyn dan wadn yr adeilad." A phan, wrth ei arch ef, y cloddiwyd y ddaear odditanodd, cafwyd llynclyn yno, megys yr oedd efe yn barnu. Y brenin a anrhydeddodd Fyrddin, ond a barodd ladd y deuddeg prif-fardd, am eu bod yn dwyllwyr ac yn cymeryd arnynt y peth ni wyddent. Y mae eu beddau i'w gweled hyd heddw, yn adnabyddus wrth enw Beddau'r Dewiniaid.

Gwrtheyrn a symudodd oddiyno i Ddeheubarth, i lan Teifi; ac mewn lle anial yn nghanol creigydd a mynydd-dir yr adeiladodd fath o gastell, yr hwn yn ddiau oedd y pryd hwnw mewn lle annghyfannedd ddigon, yn mhell allan o glybod a golwg y byd; ond nid er dyben crefyddol y dewisodd efe fyned ar encil; oblegid efe, megys Ahab, y gwaethaf o freninoedd Israel, "a ymwerthodd i wneuthur yr hyn oedd ddrwg yn ngholwg yr Arglwydd." (1 Bren. xxi. 20.) Heblaw ei holl ffieidd-dra arall, efe a halogodd ei ferch ei hun,* o'r hon y ganwyd iddo fab. Ond ni adawodd Duw mo'r fath ddireidi ysgeler yn hir, nes ymweled ag ef mewn barn; canys fel y gwlawiodd yr Arglwydd dân a brwmstan ar Sodom a Gomorrah, am eu llosgach a'u haflendid (Gen. xix.), felly yma y discynodd eirias-dân wybrenol, yr hwn a ysodd yr adeilad a phawb o'i fewn yn ulw. Gelwir y fan hyd heddyw, Craig Gwrtheyrn; o gylch haner y ffordd rhwng Llanbedr pont Stephan a Chastell Newydd yn Emlyn, ar lan Teifi, o fewn rhandir Caerfyrddin. Yn y flwyddyn o oedran Crist 480 y bu hyny.

Yn y cyfamser yr oedd y Saeson yn ddygn ormesol yn creuloni yn Nghaint a'r wlad o amgylch: y pendefigion, y cyfoethogion, yr uchelwyr, a ddienyddiwyd bob mab gwraig yn y parthau hyny; ond y cyffredin a arbedwyd i fod yn gaethweision, megys cynifer asyn llwythog, i ddwyn beichiau.

* Vide Spelm. Concil. Britan. p. 49. et Uss. Primord, p. 386.

Yr oedd hyn yn ddilys ddigon yn fyd caled, ac yn fywyd chwerw; eu palasau, gerddi, perllanoedd, a'u gweirgloddiau, yn meddiant barbariaid annrhugarog! Y perchenogion yn gorwedd yn gelaneddau ar wyneb y maes, yn borthiant i eryrod a chigfrain! Y cyffredin yn gaethweision i baganiaid ysgeler, plant y felldith, yn addoli delwau! Ond eto, y mae'n weddus i ni addef mai pobl drwg fucheddol oedd y Brutaniaid hwythau, pobl yn wir wedi ymroddi i aflendid, anwiredd, a thywallt gwaed gwirion: am hyny yr Arglwydd a'u purodd hwy mewn pair cystudd, ac a'u gwerthodd hwy i law eu gelynion. "Os rhodio a wnewch yn y gwrthwyneb i mi," ebe Duw wrth yr Israeliaid gynt, "yna y rhodiaf finau yn y gwrthwyneb i chwithau; a dygaf arnoch gleddyf, yr hwn a ddial fy nghyfammod; a phan ymgasgloch i'ch dinasoedd, yna yr anfonaf haint i'ch mysg, a chwi a roddir yn llaw y gelyn." (Lef. xxvi. 23, 24.) Pechod yr Israeliaid hefyd oedd godineb ac ymlenwi yn nyddiau hawddfyd. "Oeddent fel meirch porthiannus y boreu; gweryrent bob un ar wraig ei gymydog." (Jer. v. 8.) "Ond pan laddai efe hwy," hyny yw, pan ymwelai'r Arglwydd mewn barn a hwynt, "hwy a'i ceisient ef, ac a ddychwelent; cofient hefyd mai Duw oedd eu craig, ac mai y Goruchaf Dduw oedd eu Gwaredydd." (Salm lxxviii. 34.)

Yr un fath bobl oedd y Brutaniaid hwythau; rhai yn ymgeisio a Duw mewn cyfyngdra, ac yn ei wrthod mewn helaethrwydd. Ac felly ar hyn o bryd, pan oedd y Saeson trwy frad a chreulonder wedi traws-feddiannu rhan fawr o Loegr, gweddillion y Brutaniaid a ddychwelasant at yr Arglwydd eu Duw a'u holl galon a'u holl egni.* Emrys Ben-aur† oedd yn awr eu brenin, yr hwn a fu yn ben cadben y llu yn amser Gwrtheyrn Fendigaid, megys y soniwyd o'r blaen; a chymaint oedd ei glod wedi eangu dros yr holl deyrnas, fel prin yr oedd gwr o ugain i haner cant oed, na chwennychai ddwyn arfau dano. Gwŷr Gwynedd a Deheudir a ddaethant ar hyn o bryd yn gymhorth cyfamserol i'w brodyr yn Lloegr; ac, yn wir, achos da paham; canys rhydd pob un fenthyg ei law i ddiffodd tŷ ar dân, a phob un a gyfyd ei arf yn ei law i daro ci cynddeiriog yn ei dalcen. Felly, a hwy yn awr yn lu cadarn, a'u hymddiried yn yr Arglwydd, myned a wnaethant yn union-

* Innumeris onerantes æthera votis. Gild. p. 22. b.

† Y rhan fwyaf a'i galwant ef Emrys Wledig.

gyrch, a danfon gwys at y gelynion i ymadael o Frydain; neu, os oedd calon ynddynt i ymladd, deuent i'r maes, ac ymladdent yn deg, ac nid fel bradwyr yn cynllwyn am waed dan rith cyfeillion. Hengist ar hyny a wrychiodd (canys yr oedd yr hen gadno yn fyw eto, ac yn nghylch saith a thriugain oed); ac ar ol ymgynghori a'i frawd Hors, ac ereill o'i gadbeniaid, efe a atebodd i'r pen-rhingyll a anfonodd Emrys ato, "Fod ganddo ef gystal hawl yn y tir a oresgynasai drwy nerth arfau, a'r goreu o'r Brutaniaid. Seren-bren am eu bygwl."

Yna, ryw bryd yn mis Mai, yn y flwyddyn o oedran Crist 484, bu ymladdfa greulon rhwng y ddwy genedl; y naill yn ymwroli er gyru estron-genedl, bradwyr a llofruddwyr, allan o'u gwlad, a'r llall yn ffyrnigo fel ellyllon, er cadw eu trawsfeddiant annghyfiawn. Ar ol cwympo cannoedd o bob ochr, yn enwedig o blaid y Saeson, dynesu a wnaethant yn dra llidiog i ymladd law-law; a chethin oedd yr olwg i weled rhai wedi eu hollti yn eu canol, rhai a'u hymysgaroedd allan, rhai yn fyr o fraich ac ereill yn fyr o goes. Hors a wanwyd yn ei wddf, a Hengist a ddaliwyd yn garcharor, a'r lleill a ffoisant, ond y rhan fwyaf yn archolledig a saeth yn eu tu ol. Y milwyr a lusgasant Hengist gerfydd ei farf, tua phabell y brenin; a phan oedd dadl yn eu mysg yn nghylch pa beth a wneid o hono. Dyfrig, archesgob Caerlleon-ar-Wysg, a gododd ar ei draed, ac a ddywedodd, "Pettai pob un o honoch chwi yn ei ryddhau ef, myfi, ie myfi, ag wyf esgob, a'i drylliwn ef yn chwilfriw; canys mi a ganlynwn esiampl y proffwyd Samuel, yr hwn, pan oedd Agag, brenin yr Amaleciaid, yn ei law, a ddywedodd, 'Fel y diblantodd dy gleddyf di wragedd, felly y diblentir dy fam dithau yn mysg gwragedd. A Samuel a ddarniodd Agag gerbron yr Arglwydd yn Gilgal.' (1 Sam. xv. 33.) Gwnewch chwithau, anwyl wŷr," eb efe, "yr un ffunud a Hengist, yr hwn sydd, megys ail Agag." Ar hyny, Eidiol, iarll Caerloew, a ruthrodd arno, ac a'i lladdodd. Gyda bod y cleddyf yn ei boten, yna chwi a welwch yr holl lu yn gwasgaru yma ac acw, i geisio bob un ei gareg i daflu arno; a chyn nosi, yr oedd yno gryn garn ar ei ben, megys yr oeddid yn arferol o wneuthur a drwg-weithredwyr, y rhai, oddiwrth hyn, a gyfenwir yn Garn-ladron.*

Emrys Ben-aur oedd yn awr yn eistedd yn ddiogel ar ei

* Hæc narratio decerpta est partim ex Hist. Brit. Galfridi, lib. 8, c. 5, 6, 7. partim ex variis. MSS. N.

orseddfainc; a chyn gwneuthur un peth arall (adgyweirio tŷ na dinas), efe a barodd dalu diolch cyffredinol i Dduw yn mhob Eglwys blwyf a chadeiriol o fewn y deyrnas, am deilyngu o hono adael ei fendith i gydgerdded a'u harfau er darostwng eu gelynion. Ac yn ebrwydd, y gweddillion o'r Saeson a adawyd yn fyw, a ymostyngasant gerbron y brenin, a lludw ar eu penau, a chebystrau am eu gyddfau, yn taer ymbil ar fod yn wiw ganddo ganiatâu iddynt ond eu hoedl yn unig. Yna y brenin a ymgynghorodd a'i benaethiaid; a barn Dyfrig, yr archesgob, oedd hyn: "Y Gibeoniaid," ebe efe, "a geisiasant ammodau heddwch a'r Israeliaid, er nad oedd hyny ond mewn twyll, ac a'i cawsant. Ac a fyddwn ni, Gristionogion, yn greulonach nag Iuddewon, i gau allan y Saeson oddiwrth drugaredd? Y mae'r deyrnas yn eang ddigon; y mae llawer o dir eto, yn annghyfannedd; gadewch iddynt drigo yn y mynydd-dir a'r diffeithwch, fel y byddont yn weision yn dragywydd i ni." Y brenin, ar hyny, a ganiataodd eu hoedl iddynt, ar eu gwaith yn cymeryd llw o ufudd-dod i goron Lloegr, ac na ddygant arfau byth rhagllaw yn erbyn y Brutaniaid.

Chwi a glywsoch eisioes fod i Wrtheyrn fab a elwid Pascen, yr hwn, pan goronwyd Emrys Ben-aur yn Frenin, a aeth eilwaith yn llidiog i Sermania, gwlad y Saeson, i'w cymhell drosodd i Frydain i ennill y deyrnas oddiar Emrys. Ac ar ol iddo, drwy weniaith ac addewidion mawr, gynull ato lu mawr o wŷr arfog, efe a hwyliodd gyda hwynt, mewn pymtheg llong, ac a diriodd yn ddiogel yn Iscoed Celyddon, lle y gadawodd efe y Saeson gyda'u cydwladwyr, y rhai a arbedodd Emrys Ben-aur, ac a ganiataodd eu hoedl iddynt ar ddeisyfiad Dyfrig, archesgob Caerlleon-ar-Wysg. Am dano ei hun, gydag yn nghylch haner cant o wŷr ei wlad, efe a hwyliodd i'r Iwerddon, lle yr oedd efe yn dysgwyl ychwaneg o gymhorth oddiwrth Gilamwri, un o freninoedd yr ynys hono. Cilamwri a'i derbyniodd yn anrhydeddus, ac a adawodd iddo gael saith mil o wŷr dewisol i fordwyo gydag ef i Frydain. Pascen a'i lu a diriasant yn Aberdaugleddyf, yn Mhenfro; ac oddiyno y cerddodd yn mlaen yn llidiog, megys arthes yn ymgynddeiriogi wedi colli ei chenawon, gan ddifa a dinystrio y cwbl, tua Chaerfyrddin, glan Tywi, ac oddiyno i Aberhonddu a glan Wysg, hyd at Fôr Hafren.

Emrys, brenin y Brutaniaid, yn y cyfamser oedd yn glaf

yn Nghaerwent; ac hyfryd iawn oedd y newydd yn nghlustiau Pascen, yr hwn a ddymunasai o eigion ei galon ei fod ef yn rhyw le arall yn hytrach nag yn nhir y rhai byw. Yna neidio wnaeth y diawl i galon Pascen, i ddyfalu ffordd i ladd y brenin; ac fe wyddai eisioes fod ganddo Sais yn ei gyfeillach (Eppa oedd ei enw) o gystal un at y fath orchwyl ag a fu erioed yn ysgol-dŷ Belzebub. Yr oedd efe yn deall yr iaith Gymraeg, yn ychydig o feddyg, ac yn ddyn dewr ystrywgar hefyd. Ac fel y byddai efe yn frawdwr hollol, efe a ymrithiodd megys offeiriad, ac eto yn deall meddyginiaeth. "Wele yn awr," ebe Pascen wrtho, "dos a llwydda; a gwybydd fyned o honot yn ebrwydd at y Saeson, i Iscoed Celyddon, ar ol gwneuthur dy orchwyl, ac anfona air ataf finau." Y Sais, mewn rhith gwr crefyddol, ac yn un yn deall meddyginiaeth, a gafodd fynediad yn hawdd i lys y brenin, ac a roddes iddo ddiod o lysiau a gasglasai efe o'r ardd, yn ngwydd pawb; ond efe yn ddirgel a gymysgodd wenwyn a'r ddiod, ac o fesur cam a cham a ddiflanodd o'r golwg, a phrin y gorphwysodd nes myned a'r newydd at ei gydwladwyr i Iscoed Celyddon, a'u hannog i wisgo eu harfau. Dydd du yn ei wyneb, a phob bradwr câs megys yntau!

Fe ddywedir i seren, a phaladr iddi, anfeidrol o faint, ac yn echrydus yr olwg, ymddangos i Uthr Bendragon, ar y mynyd y bu farw Emrys ei frawd. A phan oedd Uthr, a phawb o'r rhai oedd gydag ef, yn ofni wrth edrych ar y fath weledigaeth, Myrddin a ddywedodd, "O genedl y Brutaniaid! yn awr yr ydych chwi yn weddw o Emrys, y colled ni ellir ei ennill; er hyny nid ydych yn amddifad o frenin; canys tydi a fyddi frenin, Uthr; brysia di, ymladd a'th elynion, canys ti a orfyddi arnynt, ac a fyddi feddiannol o'r ynys hon; a thydi a arwyddocâ y seren a welaist ti."*

Uthr Bendragon a goronwyd ar ffrwst; ac ar y fath amser terfysglyd a hwn, nid oedd cyfle i wneuthur llawer o sermoniau; canys yr oedd Eppa, mab Hengist, wedi perswadio ei gydwladwyr, y Saeson, eu bod yn awr yn rhydd oddiwrth y llw a gymerasant i Emrys Ben-aur. "Beth!" eb efe, "ai gwneuthur cydwybod yr ydych o ffol eiriau ffiloreg? Emrys nid yw mwy; mi a roddais gwpanaid iddo i'ch rhyddhau o'r llw a wnaethoch iddo ef. Gan hyny, gwisgwch am danoch eich arfau;

* Galf. lib. viii. c. 15.

yr ydym ni yma, o honom ein hunain yn lu cadarn; a Phascen sydd a llu o wŷr dewisol tua Charlleon-ar-Wysg. Y mae'r Brutaniaid wedi digaloni; ac wele holl gyfoeth ynys Brydain yn wobr o'n gwroldeb."* Nid oedd dim achos wrth lawer o araith; yr oedd y gwŷr a'u cydwybod yn ystwyth ddigon i lyncu llw a'i chwydu allan, pan fyddai hyny at eu tro. Felly, a hwy yn awr yn lu mawr ac erchyll, wedi ymgaledu mewn drygioni, ac mor chwannog i dywallt gwaed a difrodi, ag yw haid o gigfrain gwancus yn gwibio am ysglyfaeth, cymeryd eu cyrch a wnaethant, gan ladd a dinystrio, i gyfarfod Pascen, yr hwn, erbyn hyny, oedd wedi treiddio Môr Hafren, tua Chaer Bristo. Uthr Bendragon a wnaeth ei ran gystal ag oedd yn bosibl yn y fath amgylchiadau cyfyng; canys efe a ddanfonodd bedwar rhingyll, un i Gerniw, un i'r Gogledd, un tua Rhydychain a Llundain, ac un i Gymru, gyda llythyrau at y gwŷr mawr, i godi gwŷr, bob un yn ei fro a'i ardal, i achub y deyrnas rhag bod yn ysglyfaeth i'r fath elynion a bradwyr annhrugarog. Pa gynorthwy a ddaeth o Loegr, ni wyddys; ond o Gymru y daeth rhyw arglwydd mawr a elwid Nathan Llwyd,† a phum mil o wŷr dewisol gydag ef. Ymgyfarfod oll a wnaethant ar dwyn, gerllaw Caerbaddon [*Bath*], yn ngwlad yr Haf; sef Pascen Fradwr a'i wŷr, y Saeson hwythau dan Eppa a Cherdic, dau ben-cadpen y llu; ac o'r tu arall, Uthr Bendragon a'i luoedd, a Nathan Llwyd a'i wŷr o Gymru.

Wedi byddino o honynt eu gwŷr o bob ochr, dechreuodd yr ymladdfa greulonaf a fu, ond odid, erioed rhwng y Brutaniaid a'r Saeson. Yno y gwelid y saethau yn chwifio o'r naill lu at y llall, megys cawod o gesair yn ymdyru pan fyddo croeswynt yn eu gwthio draw ac yma. Och! pa fath olwg dosturus oedd gweled rhai a'u hymysgaroedd allan, a'r meirch rhyfel yn ymddyrysu yn mherfedd a choluddion ereill; ambell saeth yn nwll y llygad, a'r dyn eto yn fyw, ac yn ymgynddeiriogi gan ei boen! ambell saeth yn y safn, y naill haner y tu hwn, a'r haner arall y tu draw i'r gwddf! ambell saeth yn y talcen, dros yr adfach, a'r ymenydd yn glafoerio allan! ambell saeth yn discyn ar y llurig neu yr astalch pres, ac yn swnio yn rhonc, megys cloch! ac ambell saeth yn union at y galon, ac yn diboeni mewn mynyd; ac yn lle meddygon i drin eu clwyfau, gwelid y meirch rhyfel yn ystrancio draw ac

* MS. vet. † In Chronice. Sax. nominatu Nathanleod; De quo doctus Camd. plane de irat. Brit. p. 114. ed. noviss.

yma dros y clwyfedigion truain, yn briwio esgyrn rhai, yn llethu ereill, yn damsang allan ymenydd rhai, a chalonau ac ymysgaroedd ereill.

Dros chwech awr, nid oedd dim ond y dystryw gwyllt o bob ochr, yn enwedig o du y Saeson, fel y mae Gildas, ein cydwladwr, yr hwn a aned yn y flwyddyn hono, yn sicrhau. Eu lluoedd, y waith hon, er eu hamled, a sathrwyd fel nad oedd cymaint a rhestr gyfan yn ddiglwyf; a'r maes a guddiwyd cyn dewed a chelaneddau y meirw, fel mai nid gwaith ysgafn, dros rai diwrnodau oedd eu claddu. Y frwydr hon a ymladdwyd yn y flwyddyn 495. Arthur, mab y brenin, a ymddygodd yma yn llawn calondid a medr i drin arfau. Am hyny yr oedd beirdd yr oes hono yn canu ei fawl mewn amryw bennillion ac odlau; ac yn mysg ereill, yr hen Daliesin Benbeirdd a ganai fel hyn:—

"Gwae hwynt-hwy yr ynfydion,*
Pan fu waith Faddon;†
Arthur, ben haelion,
(Y llafnau bu gochion)
Gwnaeth ar ei alon ‡
Gwaith gwŷr gewynion."§

Ni bu dim rhyfel ar ol hyn dros amryw flynyddoedd; canys y Saeson a dorwyd i'r llawr y waith hon, ac hyd y gall dyn farnu, ni buasent byth yn abl i godi eu penau drachefn yn Mrydain, oni buasai annghydfod y Brutaniaid yn eu plith eu hunain;|| canys ar ol iddynt gael preswylfa ddiogel, a llonyddwch oddiwrth eu gelynion o amgylch, ymroddi a wnaethant i bob aflendid ac anwiredd, gormodedd a meddwdod, anudon a dywedyd celwydd, megys pe buasent yn beiddio Duw, gan ddywedyd, "Ni fynwn ni ddim o'th gyfraith." Ond yn anad un drwg arall, y gwŷr mawr yn enwedig a ymroisant yn ddigydwybod i bob aflendid a godineb, yr hyn a barodd eu bod yn cynllwyn am waed eu gilydd, ac yn difrodi trwy gydol y deyrnas, yn waeth er y lles cyffredin nag un gelyn amlwg, neu estron pellenig. Ac yn mysg amryw ddrygau ereill, rhai o honynt, mewn gwyn fyrbwyll o gynddaredd a llid, a ollyngasant bennaethiaid y Saeson o'r carchar; y rhai, cyn gynted ag a cawsant eu traed yn rhydd-

* Y Saeson. † Brwydr Caerbaddon. ‡ Ei elynion. § Nerthol.

|| Cessantibus licet externis bellis, sed non civilibus. Gild. p. 23. Vide ibid usque ad p. 30.

ion, brysio a wnaethant i dir eu gwlad, sef i Sermania, ac adrodd wrth eu cydwladwyr fel hyn: "Er i ni, digon gwir, gael y gwaethaf wrth ymladd a'r Brutaniaid lawer tro, megys y mae hynt rhyfel yn ansicr, eto nid oedd hyny ond eisiau ychwaneg o wŷr, ac nid diffyg calondid na chyfrwysdra, wrth fel y gwelwn ni bethau yn dygwydd;" eto, ebe hwy, "nid allwn lai na chredu na bydd ynys Brydain, ryw bryd neu gilydd yn meddiant y Saeson, a hyny ond odid cyn bo hir; canys yn awr nid oes ond yr annhrefn mwyaf dros wyneb yr holl wlad. Gadewch iddynt ladd eu gilydd oni flinont, ac ysgafnach fydd ein gwaith ni y tro nesaf."

Nid neb ond goreuon y Saeson, eu cadbeniaid, a swyddogion eu lluoedd, a ddiangasant y pryd hwnw o'r carchar, a myned i Sermania. Am yr ysgraglach o werin-filwyr, ni charcharwyd mo honynt hwy; eithr hwy (a hwy heb un pen arnynt) a wnaethpwyd yn gaethweision i'r Brutaniaid. Ond er hyny, yr oedd y natur ddrwg yn brydio yn y rhai hyn, megys yn eu gwŷr mawr. Chwennych yr oeddent godi mewn arfau, lladd eu meistriaid, a bwyta brasder y wlad, ond eu bod yn ofni fod y Brutaniaid yn rhy gelyd iddynt. Megys y gwelir pedwar neu bump o gorgwn yn dilyn y sawr at furgyn, ac os dygwydd fod yno waedgi neu ddau yn ciniawa eisioes, y corgwn, er cymaint fyddo eu chwant, a safant o hirbell, heb feiddio peri aflonyddwch i'w goreuon. Ond er bod eu gallu yn wan, eto yr oedd eu hewyllys yn gryf; canys y drwg ydoedd o fewn eu cyrhaedd, hyny a wnaeth y dynionach hyn, sef bwrw gwenwyn yn ddirgel i'r ffynnon, o ba un, er ys rhai dyddiau, yr arferai Uthr Bendragon yfed o honi; canys yr oedd efe ychydig allan o hwyl, a chynghor y meddygon oedd yfed o ddwfr y ffynnon bob bore. Ond efe, wr glew a chalonog-agored, a gollodd ei fywyd trwy frad y Saeson; yn lle ei dynerwch iddynt, yn arbed eu bywyd, hwynt-hwy, blant annwn, a wnaethant iddo ef anrheg o wenwyn marwol.

Y fath a hyn ydoedd y gydnabyddiaeth a ddangosodd y gwŷr bach; ac am y blaenoriaid, y rhai a ddiangasant o garchar i dir eu gwlad, mynegi a wnaethant pa fath wlad odidog a rhagorol oedd teyrnas Lloegr, nad oedd eu gwlad eu hunain ddim mwy i'w chystadlu a hi nag yw ysgall i rosynau cochion. Mynegi hefyd a wnaethant pa fath annhrefu oedd yn mysg y trigolion, ac nad oedd ammheu ganddynt na byddent yn berchenogion ar y wlad, os caent ryddid i godi

digon o wŷr ac arfau tuag at hyny. Ac, megys pan fo carw wedi ei glwyfo, y mae y corgwn, a bytheuaid, a brain, a phiod, a barcutanod, bob un yn llygad-dynu tuag ato, o drachwant am olwyth o gig carw; felly yma, fe ymgynullodd amryw bobl o dylwythau ereill, heblaw y Saeson,* nes eu bod yn lu mawr iawn, o gylch ugain mil o wŷr, i gyd a'u hergyd i gael rhan o ysglyfaeth ynys Brydain, yr hon, yn rhy fynych er ei lles, oedd yn glwyfus gan annghydfod o'i mewn.

Ond erbyn eu dyfod hwy i dir Brydain, yr oedd yma ŵr, y brenin Arthur wrth ei enw, yr hwn ni roddes iddynt ond ychydig hamdden i wledda ac ymdordynu. Ar y cyntaf, yn wir, pan nad oedd neb yn eu gwrthsefyll, gwnaethant hafog echrydus o gylch y lle y tiriasant, ac oddiyno tua Llundain; y fath ddystryw a phan fyddo eirias dân yn difa eithin crin, y fath oedd eu cynddeiriogrwydd a'u creulonder! Yn y cyfamser, y brenin Arthur a gynullodd ei wŷr, ac a ddanfonodd wys (megys yr oedd efe yn ben rheolwr y deyrnas) at Garon, brenin Iscoed Celyddon, Caswallon Law-hir, brenin Gwynedd; Meuric, brenin Deheubarth, a Chattwr, iarll Cerniw, yn gorchymyn i bob un o honynt arfogi eu gwŷr, gan fod y gelynion, a llu cadarn, wedi dyfod i'r wlad, ac yn dystrywio ffordd y cerddent. Pa gymaint o wŷr arfog a ddaeth yn nghyd ar wys Arthur, ni gwyddys yn sicr; ond y mae yn ddiammheu nad oedd yno yn agos ddigon i wynebu y gelynion ar y maes: ambell ysgarmes frwd a fu rhyngddynt; ond y Saeson oedd drechaf, ac yn ymgreuloni yn dra ffyrnig. Y brenin Arthur, ar ol ymgynghori a'i arglwyddi, a ddanfonodd lythyr gydag Owen ap Urien Reged, at Howel, brenin Llydaw,† ei nai fab chwaer, i ddeisyf porth ganddo yn erbyn y gelynion. Dyma i chwi eiriau'r llythyr:—‡

"Arthur, brenin Brydain, at Howel, brenin Llydaw, yn anfon anerch. Y barbariaid anystywallt, y Saeson, sydd fyth yn gormesu yn dra ysgeler yn ein teyrnas. Hwy a gyflogwyd ar y cyntaf, fel y mae yn hysbys ddigon i'ch mawredd, i ymladd drosom; eithr hwy, yn lle bod yn wasanaethddynion i ni, a fynant fod yn feistriaid, yn erbyn pob gwirionedd a chyfiawnder. Ein cais ni, gan hyny, gâr anwyl, ydyw, ar deilyngu o honoch ddanfon yn borth i ni wyth mil o wŷr dewisol; ac y mae fy

* Juti, Angli, Sueci, Saxones, &c.

† Rhan o deyrnas Ffrainc, lle y mae y Brutaniaid yn aros hyd heddyw: y mae eu gwlad o gylch cymaint a Chymru. ‡ MS. vet.

hyder ar Dduw, y bydd yn fy ngallu inau, yn mhen ychydig, wneyd ad-daledigaeth i chwithau. Eich câr diffuant,

ARTHUR, BRENIN BRYDAIN."

Y nai, fel gwir Gristion teimladwy, a wnaeth eto yn fwy nag oedd ei ewythr yn geisio ganddo; canys efe a anfonodd yn garedig ddeng mil o wŷr, a gwŷr glewion a dewr oeddent. Y fath gymhorth a hwn a adfywiodd galon Arthur a'i Frutaniaid, ac yn ebrwydd y bu ymladdfa waedlyd, yr hon a barhaodd, agos yn ddiorphwys, dros dri diwrnod a thair noswaith. Ac er bod Arthur yn rhyfelwr enwog o'i febyd, a'i wŷr yn llawn calondid ac egni i ymladd dros eu gwlad, eto y mae yn rhaid addef y gwir, hi a fu yn galed ddigon arnynt y waith hon. Mor ffyrnig oedd y Saeson i gadw craff ar eu traws-feddiant annghyfiawn, fel y drylliwyd blaen-fyddin y Brutaniaid, y dydd cyntaf, a'r Saeson yn eu herlid yn archolledig, nes lladd cannoedd o honynt; ond Cattwr, iarll Cerniw, a ddychwelodd drachefn, a mil o wŷr meirch, a thair mil o wŷr traed gydag ef. Y rhyfel a drymhaodd yr ail ddydd; ac Arthur, o serch at ei genedl, a ddibrisodd ei einioes gymaint, fel yr aeth efe i ganol y frwydr, yn mysg ei elynion, a'i gleddyf noeth yn ei law, yr hwn a elwid Caledfwlch; ac a'i law ei hun, (heblaw y lladdfa a wnaeth ei farchogion) efe a wanodd dros dri chant o Saeson: ar hyny y lleill a ffoisant, ond nid cyn tywallt llawer iawn o waed o bob ochr. O gylch y flwyddyn 520 y bu hyn.

Erbyn hyn o amser, yr oedd goreuon Sermania (gwlad y Saeson) wedi cael prawf o ddaioni a brasder Lloegr; a chymaint oedd eu trachwant annghyfiawn i feddiannu y wlad odidog hon, fel y gwnaethant lawn fwriad na ddiffygient hwy byth a dyfod a gwŷr i oresgyn Lloegr trwy rym y cleddyf; ïe, pe gorfyddai iddynt arlloesi eu gwlad eu hunain o bob copa wlanog o'i mewn. O hyny allan, ni chafodd y brenin Arthur ond ychydig lonyddwch yn holl amser ei deyrnasiad; canys, o'r dechreu i'r diwedd, efe a ymladdodd ddeuddeg brwydr a'r Saeson. Er hyn i gyd, er maint o ddyhirwŷr a chigyddion gwaedlyd oedd yn ymwthio yma o'r tu draw i'r môr, eto, oni buasai bradwyr gartref, ni roddasai y brenin Arthur bin draen er eu holl ymgyrch; ond "teyrnas wedi ymranu yn ei herbyn ei hun a annghyfanneddir." Felly yma, gan fod rhai yn haeru mai nid mab o brïod oedd Arthur, gwyrodd rhan fawr o'r deyrnas, ac eneinnio câr iddo yn frenin a wnaethant, a elwid Medrod, yr hwn a fu chwerwach i Arthur na holl

ruthrau ei elynion; canys heblaw ei fradwriaeth yn erbyn y goron, a'i waith yn coleddu y Saeson, efe a gymerodd, trwy drais, Gwenhwyfar y frenines, ac a'i cadwodd yn wraig iddo ei hun. Dynion drwg, aflan, a chynhenus oedd yr hen Frutaniaid o hyd, gan mwyaf; a hwn yw un o'r "tri bradwr Brydain;" y ddau arall ydynt Afarwy, fab Lludd, yr hwn a fradychodd y deyrnas i Iwl Caisar, a Gwrtheyrn, yr hwn a wahoddodd y Saeson gyntaf drosodd.

Y mae llawer o hanesion am Arthur, y rhai nid ydynt amgen na hen chwedlau gwneuthur. Dywedir fod ymrafael yn mysg y Brutaniaid yn nghylch dewis brenin ar ol marw Uthr Bendragon, tad Arthur; ac i Fyrddin alw yn nghyd oreuon y deyrnas i Lundain, a gorchymyn i'r offeiriaid weddïo Duw, ar deilyngu o hono hysbysu, drwy ryw arwydd, pwy oedd yn deilwng i fod yn frenin ar ynys Brydain; ac erbyn y bore dranoeth, mewn careg fawr bedair ochrog, cafwyd yn ei chanol, beth cyffelyb i eingion gof, ac yn yr eingion yr oedd cleddyf yn sefyll erbyn ei flaen, a'r geiriau hyn yn ysgrifenedig arno, mewn llythyrenau euraid:—"Pwy bynag a dyno y cleddyf hwn allan o'r eingion, hwnw a fydd yn frenin cyfiawn ynys Brydain." A phan wybu y pendefigion a'r offeiriaid hyny, hwy a roisant y gogoniant i Dduw. Rhai o honynt a brofasant i dynu y cleddyf, ond nis gallent. A dywedodd yr offeiriaid wrthynt nad oedd yno neb yn deilwng i wisgo coron y deyrnas; ond Arthur a ymaflodd yn y cleddyf, ac a'i tynodd allan yn ddirwystr.

Y fath chwedlau a'r rhai hyn, ac amryw o'r cyffelyb, ydynt yn anfoddloni rhai dynion gymaint, fel y beiddiant daeru yn safnrwth na fu erioed y fath frenin ag Arthur. Ond ni ddylid gwadu y gwir, er ei fod wedi ei drwsio a hen chwedlau ofer. Dyn allan o berfedd ei gôf a fyddai hwnw a daerai na chododd yr haul erioed, o herwydd ei bod yn fachlud haul pan yr ynfydai efe hyny. Ac y mae mor ddilys fod y fath frenin ag Arthur, a bod Alecsander, er bod hanes bywyd y naill a'r llall wedi ei gymylu a hen chwedlau. Canys y mae beirdd yr oes hono yn crybwyll am dano yn eu pennillion. Mi a adroddais o'r blaen awdl o waith Taliesin, clywch un arall o waith Llywarch Hen:—

"Yn llongborth llâs i Arthur
Gwŷr dewr, cymunent â dur,
Amherawdr, llywiawdr llafur."

Barn rhai yw mai Llanborth, o fewn plwyf Penbryn, yn Ngheredigion, yw y lle a eilw y bardd Llongborth, yr hyn nid yw annhebyg i fod yn wir. Mae lle yn gyfagos yno a elwir yn gyffredin, Maesglas; ond yr hen enw oedd Maes-y-llâs, neu Maes Galanas; ac yno, yn ol pob tebygoliaeth, y lladdwyd rhai o wŷr Arthur, trwy fradwriaeth Medrod. Y mae man arall yn y gymydogaeth, o fewn plwyf Penbryn, a elwir Perth Gereint, lle y mae'n debygol y claddwyd Gereint, yr hwn oedd uchel gadben llongau Arthur, ac a laddwyd yn Llongborth, fel y cân yr hen fardd godidog, Llywarch Hen :—

"Yn Llongborth y llâs Gereint,
Gwr dewr o goed-tir Dyfneint,
Hwynt-hwy yn lladd, gyd as lleddeint."

Heblaw hyn, fe gafwyd beddrod Arthur yn niwedd teyrnasiad y brenin Harri yr ail, o gylch y flwyddyn 1189, a'r geiriau hyn oeddent yn argraffedig ar groes-blwm, yr hon oedd wedi ei hoelio wrth yr ysgrin, "Yma y gorwedd Arthur, brenin enwog y Brutaniaid, yn ynys Afallon." * Wrth rai o bennillion yr hen feirdd y daeth y goleuni cyntaf yn nghylch y man a'r lle y claddwyd ef. Defnydd ei ysgrin ef oedd derwen gau, ac yn gorwedd mewn naw troedfedd o ddyfnder daear.

Yr oedd gan Arthur amryw lysoedd heblaw ei ben palas yn Llundain. Ambell waith yr oedd yn Nghaer-y-Gamlas, dinas hyfryd gynt yn Ngwlad yr Haf; dro arall mewn lle a elwid Gelli-wyg, yn Ngherniw; ac yn fynych yn Nghaerlleon-ar-Wysg, yr hon oedd gynt y drydedd ddinas o ran tegwch a maintioli drwy yr holl deyrnas, ac yn eisteddfa archesgobaeth.

Yr oedd efe yn wr call i ragachub cynhen yn mysg ei farchogion yn nghylch y lle uchaf wrth y bwrdd; a dywedir mai efe oedd y cyntaf a ddyfeisiodd y ford gron, fel y gallai pawb eistedd blith-draphlith yn ddiwahan, heb ddim ymryson am oruchafiaeth. Y rhai hyn yw y cyneddfau a ofynid gan bob un o farchogion Arthur, y rhai y caniatëid iddynt eistedd wrth fwrdd ei hun :—†

"1. Dylai pob marchog gadw arfau da, a bod yn barod at bob rhyw wasanaeth a osodid arno, ar fôr neu ar dir.

* Hic jacet sepultus inclitus Rex Arturius in insula Arallonia. Vide Camd. p. 65. Ed. noviss. † Vide Camb. Triumph. tom. 2. fol. 195.

"2. Dylai yn wastad wneyd ei oreu er darostwng pawb a fyddo yn gorthrymu y bobl o'u hiawn.

"3. Dylai amddiffyn ac ymgeleddu gwragedd gweddwon rhag magl a niwed maleiswyr; edfryd plant a dreisid o'u heiddo at eu gwir feddiant; a maentumio y grefydd Gristionogol yn wrol.

"4. Dylai, hyd eithaf ei allu, gadw llonyddwch yn y deyrnas, a gyru ymaith y gelynion.

"5. Dylai ychwanegu at bob gweithred glodfawr, tori i lawr bob campau drwg, cynorthwyo y gorthrymedig, dyrchafu braint yr eglwys gatholic, ac ymgeleddu pererinion.

"6. Dylai gladdu y milwyr fyddent yn gorwedd ar wyneb y maes, gwared y carcharorion a gaethiwid ar gam, ac iachau y rhai a glwyfid yn ymladd dros eu gwlad.

"7. Dylai fod yn galonog i anturio ei hoedl mewn pob rhyw wasanaeth anrhydeddus, eto fod yn deg a chyfiawn.

"8. Dylai, wedi gwneuthur unrhyw weithred odidog, ysgrifenu hanes am dani mewn cof-lyfr, er tragywyddol ogoniant i'w enw a'i gyd-farchogion.

"9. Os dyger achwyniad i'r llys am dyngu anudon, neu orthrwm, dylai y marchog hwnw a bennodai y brenin, amddiffyn y gwirion, a dwyn y drwg-weithredwyr i farn cyfraith.

"10. Os dygwyddai ddyfod o un marchog o wlad ddyeithr i'r llys, ac yn chwennych dangos ei wroldeb, yna dylai y marchog a bennodai y brenin ymladd ag ef.

"11. Os rhyw bendefiges, gwraig weddw neu arall, a wna ei chwyn yn y llys ddarfod ei threisio hi, dylai un, neu ychwaneg o farchogion y brenin, os bydd rhaid, amddiffyn ei cham, a dial y sarhad.

"12. Dylai pob marchog ddysgu arglwyddi a phendefigion ieuainc, i drin arfau yn gywrain, nid yn unig i ochelyd seguryd, ond hefyd i ychwanegu anrhydedd at eu swydd a'u gwroldeb."

Ni chafodd y Saeson feddiant, na'r deyrnas ychwaith lonyddwch parhaus, tra y bu Arthur yn teyrnasau, er ei fod ef, yn ddilys ddigon, cyn enwoced brenin a rhyfelwr ag un a fu erioed yn y byd Cristionogol. Ond ar ol ei farwolaeth ef, yr hyn a ddygwyddodd yn y flwyddyn 543, tra yr oedd y fath luaws gwastadol o draw yn heidio arnom, gormes y Saeson a eangodd fwy-fwy; megys cornant gwyllt, ar waith cawod yn

pistyllio i lawr, sy'n rhuthro dros y dibyn, ac yn gorchuddio y dyffryn isod a llaid, a graean, a cherig. Eto ni chawsant gwbl feddiant o holl Loegr hyd amser Cadwaladr, o gylch y flwyddyn 664; yn mha amser y bu marwolaeth fawr yn Lloegr, a elwid "pla y fall felen." O achos y pla hwn yr ymadawodd Cadwaladr a'r rhan fwyaf o'r Brutaniaid tan ei lywodraeth ef, ac a aethant at eu cydwladwyr i Lydaw, yn nheyrnas Ffrainc.

Dyma y pryd y darfu i'r Saeson gael cwbl feddiant yn Lloegr; ond nid yn wobr o'u gwroldeb, ond o achos cynhen ac ymraniad yr hen Frutaniaid; ac am y mynai Duw eu cospi am eu holl ffieidd-dra, a'u diystyrwch o'i santaidd gyfreithiau. Y Brutaniaid yn Nghymru a arosasant yn eu gwlad, a hwynthwy o Loegr (lawer iawn o honynt) a aethant gyda Chadwaladr eu brenin i Lydaw: ond yn mhen amser, sef ar ol attal y pla yn Mrydain, dychwelyd adref a wnaethant,* a phreswylio yn y wlad tu hwnt i Gaerodor, a elwir Cerniw,† lle yr arosasant fyth wedi hyny, ond bod yr iaith wedi darfod yn awr yn llwyr, oddieithr ychydig mewn naw neu ddeg o blwyfau. Ac er gwahanu yr hen Frutaniaid oddiwrth eu gilydd sef i Lydaw, a Cherniw, a Chymru, eto llawer gwaith y gwnaethant ymgais i hyrddu ymaith y gelynion, a bod yn ben drachefn; ond gormod o ymorchest oedd hyny, ac uwch na'u gallu; megys pan fo neidr wedi ei thori yn dair rhan, fe fydd y darnau clwyfus dros enyd yn gwingo, ond eto heb allu byth ymgydio drachefn.

Y sawl a chwennycho hanes cyflawn am helynt tywysogion Cymru, darllened Gronicl Caradoc, o Lancarfan. Ar y cyntaf un tywysog a reolai Gymru oll; ond Rhodri mawr, yr hwn a ddechreuodd ei deyrnasiad yn y flwyddyn 843, a ranodd Gymru yn dair rhan, rhwng ei dri mab. Gosododd un yn Ngwynedd, yr ail yn Mhowys, a'r trydydd yn Neheubarth. Breninllys tywysog Gwynedd, oedd Aberffraw, yn Môn. Palas tywysog Powys, oedd yn Mathrafael. A phencyfeistedd tywysog Deheubarth, ydoedd Castell Dinefwr, ar lan Tywi. Am hyn o beth y cân Dafydd Nanmor, yr hwn a ysgrifenodd o gylch y flwyddyn 1450.

* Powell's Chron. p. 8. † Y mae y wlad hon i'w gweled oddiar amryw dwynau yn Morganwg, ac a elwir Cerniw, oblegid ei bod o'r un ddelw a chern, a'r môr o amgylch iddi.

"Tri mab i Rodri mewn tremyn—eu câd
Cadell, 'Narawd, Merfyn,
Rhanu wnaeth yr hyn oedd un
Rhoddiad, holl Gymru rhy' ddyn'.

"Wyth cant llawn, a'i w'rantu,—pen rhinwedd,
Pan ranwyd holl Gymru;
A saith deg llawn waneg llu,
Eisioes oedd oed yr Iesu.

"Rhanodd a gadodd er gwell,—dawn ufudd,
Dynefwr i Gadell,
Y mab hynaf o'i 'stafell,
Pena' o wyr, pwy un well?

"Anarawd, gwastawd dan go',—yn gyfan
A gafas Aberffro,
A daioni Duw yno,
Fe biau breinniau a bro.

"Gwir, gwir a ddywedir i ddyn,—paun iefanc,
Powys gafas Merfyn:
Llyna'r modd yr adroddyn'
Treiir rhwng y tri wŷr hyn."

Amcan Rhodri Mawr yn hyn o beth oedd diogelwch a chadernid Cymru; fel a hwy yn gyd-dylwyth yn Ngwynedd a Deheubarth, y gallent gydfod fel brodyr, ac, o byddai rhaid, gydymgynull eu lluoedd yn erbyn y Saeson. Ond yn hollol i'r gwrthwyneb y dygwyddodd, canys yn ben-ben yr aethant o hyny allan, fel prin y gwladychodd un tywysog heb ymgecru, a llawer o dywallt gwaed.

Yr enwocaf o holl dywysogion Cymru oedd Hywel Dda, yr hwn a ddechreuodd ei deyrnasiad yn y flwyddyn 940. Efe a drefnodd gyfreithiau da i'w cadw drwy holl Gymru, y rhai a arferid gan fwyaf, hyd yn amser Harri y seithfed, brenin Lloegr, ŵyr i Owen Tudur, o ynys Môn. "Pan welodd Howel," ebe y Cronicl, "gam arfer defodau ei wlad, efe a ddanfonodd am archesgob Tŷ-Ddewi, a'r holl esgobion ereill ag oedd yn Nghymru, a'r holl brif eglwyswyr oedd danynt, y rhai oeddent i gyd yn saith ugain; ac hefyd holl arglwyddi, baryniaid, a phendefigion y wlad. Yna parodd i chwech o'r rhai doethaf o honynt, yn mhob cwmwd, ddyfod ger ei fron ef yn ei lys, yn y Tŷ Gwyn ar Daf, lle y daeth efe ei hunan, ac a arosodd yno gyda'i benefigion, esgobion, eglwyswyr, a'i ddeiliaid, trwy'r Grawys, mewn ympryd a gweddïau am gymhorth yr Ysbryd Glân, modd y gallai adferu ac adgyweirio cyfreithiau a defodau

gwlad Cymru, er anrhydedd i Dduw, ac er llywodraethu y bobl mewn heddwch a chyfiawnder. Ac yn niwedd y Grawys, efe a ddetholodd ddeuddeg o'r rhai doethaf o'r cwbl, gyda Blegwyryd, doctor enwog o'r gyfraith, yr hwn oedd wr doeth a dysgedig iawn; ac a orchymynodd iddynt chwilio yn fanwl holl gyfreithiau a defodau Cymru, a chynull allan y rhai oeddent fuddiol, ac esbonio y rhai oeddent dywyll ac ammhëus, a diddymu y rhai arddigonaidd. Ac felly yr ordeiniodd efe dair math o gyfreithiau. Yn gyntaf, cyfraith yn nghylch llywodraeth y llys, a theulu y tywysog; yr ail yn nghylch y cyfoeth cyffredinol; a'r drydedd yn nghylch y prif ddefodau a'r breinniau neillduol. Yna wedi eu darllen a'u cyhoeddi, efe a barodd ysgrifenu tri llyfr o'r gyfraith: sef, un i'w arfer yn wastadol yn ei lys; yr ail i'w gadw yn ei lys yn Aberffraw; a'r trydydd i'w gadw yn llys Dinefwr; modd y gallai y tair talaeth eu harfer a'u mynychu pan fyddai achosion. Ac i gymhell ufudd-dod iddynt, efe a barodd i'r archesgob gyhoeddi ysgymundod yn erbyn y sawl a'u gwrthladdai. Yma y canlyn rhyw ychydig o honynt:—

"Barnwr a ddylai wrando yn llwyr, dysgu yn graff, dadganu yn wâr, a barnu yn drugarog. Dyma yr oed y dylid gwneuthur dyn yn farnwr, pan fyddo yn bum mlwydd ar hugain oed. Yr achos o hyny yw, na bydd cyflawn o synwyr a dysg hyd pan fyddo barf arno; ac ni bydd gwr neb hyd pan ddel barf arno: ac nid têg gweled mab yn barnu ar hen wr.

"Rheidus a gerddo dair tref, a naw tŷ yn mhob tref, heb gael na chardod na gwestfa, er ei ddal a'i ladrad-ymborth ganddo, ni chrogir.

"A oes dau frawd, y rhai ni ddylent gael mwy na rhan un brawd un-dad un-fam? Oes. O genir dau fab yn un dorllwyth y wraig, ni ddylai y ddau hyny, ond rhan un etifedd.

"O derfydd fod ymryson, pwy a ddylai warchadw etifedd, cyn y dêl i oedran gŵr, ai cenedl ei fam ai cenedl ei dad? Cyfraith a ddywed, mai gŵr o genedl ei fam a ddylai, rhag i neb o genedl ei dad wneuthur brad am y tir, neu ei wenwyno.

"Os ymrwym gwraig wrth ŵr, heb gynghor ei chenedl, y plant a ennillir o honi ni chant ran o dir gan genedl eu mam o gyfraith.

"Tri dyn sy enaid-faddau (hyny yw, yn euog o farwolaeth), ac ni ellir eu prynu: bradwr arglwydd, dyn a laddo arall yn ffyrnig, a lleidr cyfaddef am werth mwy na phedair ceiniog.

"Os gŵr a gwraig a ysgarant cyn pen y saith mlynedd, taler iddi ei hegweddi,* a'i hargyffreu,† a'i chowyll,‡ os yn forwyn y daeth hi. Ond os cyn pen y saith mlynedd yr ymedy hi a'i gŵr, hi a gyll y cwbl ond ei chowyll.

"O derfydd bod dau ddyn yn cerdded drwy goed, ac esgynio gwrysgen ar lygad yr olaf gan y blaenaf, onis rhybuddia, taled iddo am ei lygad, os cyll: ac os rhybuddia, ni thâl ddim. O derfydd bod dau yn cerdded ffordd, a chaffael o'r naill denot; os y blaenaf a'i caiff, rhaned a'r olaf; os yr olaf a'i caiff, nis rhan a'r blaenaf.

"Ni pherthyn dau boen am yr un weithred.

"Y neb a ddyweto air garw neu air hagr wrth y brenin, taled gamlwrw§ i'r brenin.

"Pwy bynag a gwyno rhag arall, ac a fo gwell ganddo dewi na chanlyn, cenad yw iddo dewi, a thaled gamlwrw i'r brenin; ac yn oes y brenin hwnw ni wrandawer.

"Os dyn cynddeiriog a frath ddyn arall a'i ddannedd, a'i farw o'r brath, nis drwg cenedl yr ynfyd; canys o anian yr haint y colles efe ei enaid.

"O derfydd i ddyn brynu anifail gan arall, ac wedi ei brynu bod dannedd iddo yn eisiau, a mynu eu difwyn; cyfraith a ddywed na ddiwygir, canys anaf eithr y croen yw; a pha le bynag na thoro na chig na chroen, anaf eithr y croen yw.

"Sef yw mes gwobr, os caiff gŵr foch yn ei goed, o'r pummed dydd cyn Gwyl Fihangel, hyd y pymthegfed dydd wedi Calan Gauaf, lladded y degfed o honynt."

Cymaint a hyn yn fyr oblegid cyfraith Hywel Dda. Yn y flwyddyn 1108, y soddodd rhan fawr o iseldir Fflanders. Y trigolion, gan fwyaf, a ddiangasant, ac, a hwy heb un gartref, a ddaethant i Loegr, gan ddeisyf ar y brenin Harri y cyntaf ar iddynt gael rhyw gwr o'r ynys i fyw ynddo. Harri oedd hael ddigon o'r hyn nid oedd eiddo ei hun, a roddes genad iddynt fyned i Benfro a Hwlffordd, a'r wlad o amgylch. Yn y cyfamser yr oedd y Cymry yn ben-ben a'u gilydd (dyna oedd eu hanffawd a'u hanras o hyd), a gwŷr Fflanders a gawsant yno breswylfa ddiogel, heb nemawr o daro, lle y maent yn aros hyd heddyw. O gylch can mlynedd ar ol hyny, a hwy yn afreolus, y daeth Llywelyn ap Iorwerth, tywysog Cymru, a llu arnynt. Ond tra yr oedd efe a'i lu yn gorphwys ar Gefn

* Gwaddol. † Dodrefn tŷ. ‡ Dillad priodas. § Dirwy.

Cynwarchan, yr anfonodd Saeson sir Benfro i geisio ammodau heddwch. Llywelyn a wrthododd eu cais, ac a fwriadodd unwaith eu llwyr ddinystro oddiar wyneb gwlad Penfro. Ond ar ddeisyfiad Iorwerth, Esgob Dewi, efe a ganiataodd iddynt eu hoedl, ar eu gwaith, 1. yn talu iddo swm mawr o arian; 2. yn tyngu ufudd-dod iddo ef a'i etifeddion ar ei ol; 3. yn danfon ato ugain o'u pen-bonedd i fod yn wystlon ar iddynt gyflawni eu gair.*

Yn y flwyddyn 1293, y dycpwyd Cymru gyntaf dan lywodraeth brenin Lloegr: trwy frad a ffalsder, digon gwir; ac er hyny yn well, ïe, fil o weithiau yn well er lles cyffredin y wlad, nag yn amser y tywysogion, y rhai oeddent fel bleiddiaid rheibus, mor chwannog i lofruddio eu gilydd. Pan fu farw Llywelyn ap Gruffydd, y tywysog diweddaf yn Nghymru o waed diledryw y Brutaniaid, y danfonodd y brenin Edward y cyntaf at benaethiaid y Cymry, i erchu iddynt ufuddhau i'w lywodraeth ef, a bod yn ddeiliaid i goron Lloegr. Eithr hwy a atebasant, nad ymostyngent hwy i neb, ond i un o'u cenedl eu hunain; ac y byddai yn rhaid i hwnw fod o ymarweddiad da, ac heb air o Saesonaeg ganddo. Yna y brenin, pan ddeallodd na thyciai eu bygylu, a ddychymygodd ffalsder i'w siomi. Yn y cyfamser yr oedd gwraig y brenin yn feichiog, ac efe a'i danfonodd hi i dref Caerynarfon i esgor. A phan anwyd iddi fachgen, Edward a ddanfonodd, yn gyfrwys ddigon, at benaethiaid y Cymry, i ofyn iddynt a oeddent o'r un bwriad ag o'r blaen; a hwy a ddywedasant eu bod. "O'r goreu," ebe Edward, "mi a enwaf i chwi dywysog o'r cyneddfau yr ydych yn ewyllysio. Ganwyd i mi fab yn Nghaerynarfon, a hwnw a gaiff fod yn dywysog i chwi. Un ydyw na ŵyr air o Saesonaeg, ac nid all fod dim bai ar ei fywyd a'i fuchedd. Prin y buont foddlon i dderbyn y baban; eto yn lled ddiflas, fel rhai yn yfed diod wermod, cyduno a wnaethant: ac o hyny allan cyfenwyd mab hynaf brenin Lloegr, "Tywysog Cymru." Llywelyn ap Gruffydd a ryfelodd ar unwaith a holl gadernid Lloegr a'r Iwerddon, ar fôr ac ar dir. Efe a soddod longau y Gwyddelod, ac a yrodd frenin Lloegr, a'i fab, a'i holl lu, ar ffo.† Ond yr hwn na allodd holl gadernid Lloegr a'r Iwerddon ei orthrechu, a gwympodd trwy frad yn ei wlad ei hun. Felly derwen fawr, brenin-bren y tyddyn, a saif yn

* Powel's Chron. p. 277, 278. † Powel's Chron. p. 322.

ddigyffro yn erbyn ystorm, ond diffeithwr gerllaw a'i bwr hi i lawr a'i fwyell. Efe a fradychwyd yn Muallt, ar ddydd Gwener, 11eg o Ragfyr, yn y flwyddyn 1282. Ei ben a osodwyd ar ben pawl haiarn, ar dŵr Llundain, a'i gorff a gladdwyd mewn lle a enwyd wedi hyny, "Cefn y Bedd." Ond yn mha le enwedigol y mae ei feddrod, ni ŵyr neb o'r trigolion presenol.

> "Pob cantref, pob tref yn treiddiaw,
> Pob tylwyth, pob llwyth y sy'n llithraw;
> Pob mab yn ei gryd y sy'n udaw;
> Bychan lles oedd im' am fy nhwyllaw,
> Gadael pen arnaf, heb ben arnaw;
> Pen pan lâs oedd lesach peidiaw;
> Pen milwr, pen moliant rhagllaw;
> Pen dragon, pen draig oedd arnaw;
> Pen Llywelyn dêg, dygna braw
> I'r byd fod pawl haiarn trwyddaw."
>
> GRUFFYDD AP YR YNAD COCH A'I CANT.

Nid yw annghymwys i ddywedyd gair neu ddau yn fyr yn nghylch yr amser a'r modd y dycpwyd yr Iwerddon o dan goron Lloegr. Dermot Mac Murroc, un o bum brenin yr Iwerddon, wedi ei wthio allan o'i freniniaeth gan Rydderch Mac Connar, yr hwn oedd yn chwennych bod yn ben ar yr holl ynys, a wnaeth ei gŵyn wrth Harri yr ail, brenin Lloegr. Dermot a dderbyniwyd yn roesawgar dros ben; canys y gwirionedd yw, yr oedd Harri yn bwriadu er ys talm gael meddiant o'r Iwerddon, ac yn awr yr oedd efe yn barnu fod y drws yn agored iddo. Felly efe a ddanfonodd gyda Dermot lu o wŷr dewisol, y rhai a diriasant yn yr Iwerddon ddydd Calan Mai, yn y flwyddyn 1170. Trwy gymhorth y Saeson, Dermot yn wir a ennillodd drachefn ei randiroedd; ond cyn pen dwy flynedd, y brenin Harri ei hun a hwyliodd drosodd, ac a oresgynodd yr holl deyrnas dan ei lywodraeth.

## PENNOD V.

EILUNOD AMRYW GENEDLOEDD. EILUN-ADDOLIAETH YR HEN FRUTANIAID CYN AMSER CRIST. EU HOFFEIRIAID A ELWID Y "DERWYDDON." EU MOESAU. YN NGHYLCH YR IAITH GYMRAEG.

CYN rhoddi hanes neillduol am goel-grefydd yr hen Frutaniaid, cyn amser Crist, nid yw yn annghymwys i chwilio allan yr amser y dycpwyd eilun-addoliaeth gyntaf i'r byd. Pa mor gynar y gwrthgiliodd natur lygredig dyn oddiwrth y gwir Dduw, nid oes dim mynegiaeth sicr. Ond gwrthddrychau eu haddoliad oedd gwaith y greadigaeth. Hwy a dybiasant mai y tan, neu y gwynt, neu yr awyr buan, neu gylch y sêr, neu ddwfr chwyrn, neu oleuadau y nefoedd, oeddent dduwiau yn llywodraethu y byd. (Doeth. xiii. 2.) Ond yr haul, yn anad un peth, oeddid yn ei gyfrif yn dduw, ar ol myned y wybodaeth o'r gwir Dduw ar goll. Am ddelwau ac eilunod dywedir mai Nimrod, mab Cus, oedd y cyntaf a'u lluniodd gogyfer a'u haddoli. Cymaint oedd ei barch i'w dad, fel y parodd wneuthur delw ar ei lun ef; ac megys yr oedd efe yn frenin, a'r awdurdod oruchel yn ei law, efe a barodd i'w holl ddeiliaid gymaint i barchu y ddelw, ag oeddent yn parchu ei dad tra yr oedd efe byw. Y mae hyn yn gytun a'r hanes a rydd Solomon, "Y rhai ni allai dynion eu hanrhydeddu yn eu gwydd, hwy a gymerasant lun eu gwedd hwynt, ac a wnaethant ddelw brenin, yr hwn a anrhydeddent." (Doeth. xiv. 17.) Nimrod a fu frenin o gylch cant a haner o flynyddoedd ar ol y diluw.

Aneirif oedd y dychymygion o hyny allan i ddewis eu duwiau; "Pob cenedl oedd yn gwneuthur ei duwiau ei hun." (2 Bren. xvii. 29.) Duw yr Amoriaid a elwid Moloch, am yr hwn y mae yr Ysgrythyr yn son yn fynych. Delw fawr o bres oedd hi, a'i phen ar lun tarw, a breichiau ar led megys breichiau dyn.* Y ddelw oedd gau oddifewn, ac ynddi saith o ystafelloedd i dderbyn yr aberthau. Yr ystafell gyntaf a bennodwyd i dderbyn blawd gwenith; yr ail at golomenod; y drydedd at ddafad; y bedwaredd at hwrdd; y bummed at lo; y chweched at ŷch; ac os neb a offrymai fab neu ferch, y seithfed ystafell a agorid. Tybir mai yr un yw y Moloch yma ag Adramelech, Duw y Sepharfiaid (2 Bren. xvii. 31), ac a Baal (Jer. xix. 5).

* Goodwin's Jewish Antiq. lib. 4. p. 137.

Y mae yn yr India deyrnas a elwir Guinea (gwlad y Morus duon), lle y maent hyd y dydd heddyw yn addoli y sarff.* Math o nadroedd melynion yw y rhai hyn y maent yn eu haddoli, a llain frech bob yn ail rhestr, ac heb un colyn brath. Fe ddygwyddodd o gylch deng mlynedd a'r hugain a aeth heibio [1740] i fochyn afreolus drachwantu cig un o'r nadroedd hyn, a'i lladd, a'i bwyta; yr hyn pan wybu y brenin a'r archoffeiriaid, ni all geiriau fynegu y syndod yr oeddent ynddo. Ni wasanaethai dim i ddial eu llid ar y twrch a wnaethai y gyflafan, eithr rhaid oedd dinystrio yr holl genedlaeth. Ac oni buasai fod y brenin yn caru cig moch, ni adawsid llwdn hwch yn fyw drwy yr holl deyrnas.

Gwledydd ereill o'r India a addolent ddant yr ab. Pan gymerodd y Cristionogion y dant oddiarnynt, yn y flwyddyn 1554, hwy a gynygiasant lwyth men o aur, ac anrhegion gwerthfawr ereill, er cael y dant yn ol! Ond y Cristionogion, trwy gynghor eu hesgob, a wrthodasant y trysor, ac a losgasant y dant yn ulw. Mewn amryw wledydd o Affrica, y maent yn addoli cathod a llyffaint; ac mewn rhai manau, pen garlleg.

Y mae rhan fawr o drigolion China, gwlad fawr a hyfryd, tua chodiad haul, hyd y dydd heddyw yn ddygn anwybodus yn nhrefn eu haddoliad; canys pan fyddont wedi blino yn addoli eu delw, hwy a ddechreuant ei difenwi a'i melldithio. "Tydi gorgi cas," ebe hwy, "ai dyma fel y cawn ni ein trin genyt? Nad ystyriet, y lluman, yn mha fath deml wych y dodasom di; mor hardd y gwisgasom di âg aur a meini gwerthfawr; a maint yr aberthau a laddasom i ti! A pha gydnabod sydd genyt ti! yr ysgerbwd brwnt, am hyn oll!" Yna hwy a rwymant y ddelw a rhaffau, ac a'i llusgant ar hyd yr heolydd, i'w chospi, am na wrandawai arnynt. Ond os o ddamwain y dygwyddai iddynt gael yr hyn yr oeddent yn ei ofyn, yna hwy a ddygant yr eilun drachefn idd ei hen le, wedi ei olchi yn lân. Yna hwy a ymgrymant o'i flaen yn ostyngedig iawn, gan ddywedyd, "Gwir iawn ein bod yn ddigon byrbwyll, pan y gwnelem y fath anmharch i ti; ond onid oeddit tithau ar fai i fod mor ben-galed? Oni fuasai yn well i ti fod yn fwyn ar y cyntaf, na dyoddef y fath anfri. †

Mewn talaeth arall o China, cyn myned o gylch unrhyw weithred bwysfawr, yr offeiriad a orwedd ar ei wyneb o flaen

* Bosman's Hist. Guin. 7. p. 185. † Leguat's Adventures, p. 208.

y ddelw, ar y llawr gwastad, gan ymestyn ei draed a'i ddwylaw, ac un arall fydd uwch ei ben yn darllen mewn llyfr, tra byddo y rhai o amgylch yn canu clych, ac yn stwrio. Yn y cyfamser y mae ysbryd yn perchenogi yr hwn sydd yn gorwedd, ac allan o law efe a gyfyd ag edrychiad salw a chethin, ac a rydd ateb, megys dewin, i bob beth a ofynir iddo. "Er ynfyted yw y rhai hyn," ebe gwr dysgedig a duwiol, "fe ellir gweled rhai dan enw Cristionogion mor nawswyllt a direswm a hwythau, y Crynwyr; canys y maent hwythau yn dechreu yn hirllaes ac yn oerllyd, ac a syrthiant ond odid mewn llewyg: ond wedi dadebru hwy a floeddiant fel dynion allan o'u côf, gan ddadwrdd yn erchyll yn erbyn pob trefn a phrydferthwch, a rheol a rheswm."*

Soniwn bellach am ddelw-addoliaeth yr hen Frutaniaid, cyn amser Crist, y rhai nid oeddent well eu hamcan na chenedloedd ereill; canys gwrthddrych eu haddoliad, yn mysg pethau daearol, oedd bryniau uchel, ac afonydd,† heblaw delwau, gwaith eu dwylaw eu hunain. Am baham yr addolent fynyddoedd ac anfonydd, nis gwn i; oddieithr, yn gyntaf, eu bod yn credu fod rhyw ysbryd bywiol yn treiddio trwy y byd gweledig, gan mai trwy ŷd, a ffrwythau y ddaear, a dwfr yr afonydd, y mae ein bywyd yn cael ei gynal, megys y mae Duw wedi eu hordeinio at hyny. Yn ail, barn ereill yw fod yr hen Gymry, a hwy eto yn Asia, ar eu hymdaith o Dŵr Babel, yn canfod mynydd Sinai yn crynu ac yn fflamio hyd entrych awyr, ar waith Duw yn rhoddi y deg gorchymyn i'r Iuddewon; ac o achos hyny, anrhydeddent bob bryn uchel fyth wedi hyny; a'u bod yn cyfrif afonydd yn santaidd, yn ol traws-amcan amryw genedloedd ereill, y rhai oeddent yn barnu fod rhyw anian o'r Duwdod yn gymysgedig a'r dwfr.‡ Am eu gwaith yn addoli delwau, pan yr ystyriom y fath ddynion gwybodus oedd eu hoffeiriaid (fel y dangosaf yn y man), y mae yn beth rhyfedd fod cymaint o ddygn anwybodaeth yn mhlith y bobl cyffredin. Ond fe ellir tybied mai nid ar y ddelw ei hun y gweddient, ond y gau-dduwiau, y rhai yr oedd cynifer delw yn eu harwyddocâu.§ Canys y mae Iwl Caisar,

* Dr. More's Divin. Dial. N. 3. p. 217. † Gild. p. 7. ‡ Camd. p. 555. Ed. noviss. § Deum maxime Mercurium colunt; hujus sunt plurima simulacra. Post hunc Apollinem et Martem et Jovem et Minervam. De his eandem fore quam reliquæ gentes, habent opinionem. Cæs. lib. 6. p. 107.

yr hwn a ysgrifenodd cyn geni Crist, yn dywedyd eu bod yn cydnabod ac yn addoli yr un duwiau, eu bod o'r un farn am eu hamryw awdurdod a'u swyddau, a phobl Rhufain; a chanddynt amryw ddelwau er anrhydedd iddynt, megys hwythau o dir Groeg a'r Eidal.

Yn awr, y gau-dduwiau yr oedd yr hen Frutaniaid, yn gystal a'r rhan fwyaf o genedloedd Ewrop, a rhan o Asia, yn eu haddoli, a elwid Sadwrn, Jupiter, Mars, ac Apollo, yn enwedig Mercher, a bagad ereill. Enwau rhai o'u duwiesau oedd, Rhea, Juno, a Venus. Nid oedd y duwiau hyn ddim amgen na dynion marwol, o'r un anwydau a dynion ereill; ond am ei bod yn wŷr enwog yn eu cenedlaeth, eu hwyrion a'u tras, ar ol eu dyddiau, a berswadient y bobl cyffredin mai duwiau oeddent. Ac yn gymaint a bod y fath gred er mantais i'r gwŷr mawr, eu cyd-dylwyth, tuag at gadw eu hawdurdod, sef fod y cyffredin yn coelio mai duwiau oedd eu hen deidiau; oblegid hyny, meddaf, y gosodwyd cyfraith i amddiffyn y fath tybiau gwyrgam, rhag i neb feiddio dywedyd yn erbyn hyny. Y fath yw llygredigaeth natur dyn rhyfygus! Ac fel y greddfai y dyb gyfeiliornus hwn yn ddyfnach eto yn meddyliau y werin bobl, galwyd y saith planed, ac hefyd dyddiau yr wythnos, ar enwau y rhai enwocaf o honynt; megys dydd Sul,* dydd Llun,† dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau, dydd Gwener, a dydd Sadwrn.

Ac yma, pe y dywedwn mai Cymry oedd y duwiau hyn, y rhai yr oedd Ewrop ac Asia yn eu haddoli, yn amser yr anwybodaeth gynt, mi a wn y bydd rhai yn barod i chwerthin yn eu dwrn, a dywedyd, "Nid yw hyn ddim ond ffiloreg." Ond gan fod genyf awdurdod y gwirionedd i sefyll o'm blaen, mi a ddywedaf yn hyf mae Cymry oeddent. Cymro oedd Sadwrn, Cymro oedd Jupiter, Cymro oedd Mercurius, a Chymry oedd y lleill. Nid wyf fi yn dywedyd mai Cymry o'r wlad hon oeddent; nac wyf, mi a wn well pethau; ond gwŷr oeddent o hiliogaeth Gomer, ac o'r un ach a ninau, ac yn siared yr un iaith. Ac yn wir y mae eu henwau (pe y sylwid ar hyny) yn hysbysu yn eglur o ba genedl yr oeddent; canys nid ŷnt na Lladin na Groeg, ond Cymraeg lân loew. Sadwrn yw gŵr nerthol o fraich i ryfela; ei wir enw yw Sawd-dwrn. Ei wraig a elwid Rhea, ac yn Gymraeg dilediaith, Rhian. Eu mab a

* Apollo, qui et Sol apellatar. † Diana quæ etiam Luna nuncupatur.

elwid Jupiter; ond yn Gymraeg, Iau, neu Iefan, oblegid efe oedd yr ieuangaf o feibion ei dad. Enw ei wraig oedd Juno: hyny yw, Joan, neu Suan. Mars, neu Mavors, oedd y gau-dduw a gyfrifid yn ymgeleddwr y gwŷr arfog yn rhyfela, a'i enw Cymraeg yw Mawr-rwysg. Mercurius oedd dduw eu teithiau, a'i wir enw yw Marchwr. Apollo oedd dduw yn cyfranu doethineb, a'i gywir enw yw Ap y Pwyll; neu, fel y dywedai yr hen bobl, Y Poell. Diana oedd dduwies diweirdeb a gonestrwydd, a'i gwir enw yw Dianaf. Venus oedd dduwies y cariad, a'i henw ar y cyntaf oedd Gwen.* Y neb a dybio mai chwedlau gwneuthur yw y rhai hyn, darllened, atolwg, waith y dysgedig Ddoctor Pezron† (gwr o Lydaw), ac os gall efe ateb ei resymau a'i awdurdod ef (yr hyn nis gallodd neb eto), o'r goreu; os amgen, na farned arnaf fi. Cymaint a hyn am eu duwiau.

Eu hoffeiriaid a elwid gynt, y Druidion, neu y Derwyddon, am eu bod, megys cenedloedd ereill yn nghylch Jerusalem, yn aberthu i'r eilunod, mewn llwyni o goed, yn enwedig dan gysgod deri cauadfrig. (Ezec. vi. 13. Hos. iv. 13.) Gwŷr dysgedig a gwybodus oedd y rhai hyn, ac yn farnwyr mewn achosion dadl ac ymryson, yn gystal ag yn offeiriaid mewn perthynas i grefydd. Felly, a hwy yn farnwyr ac yn offeiriaid, y mae yn hawdd barnu mai hwy oedd pen dysgedigion y deyrnas; a'u barn a gyfrifid mor ddiduedd a chywir, fel nad oedd rydd i'r pendefig mwyaf o fewn y deyrnas lai na sefyll wrthi. Ac os rhyw un cyndyn a beidiai ymostwng, efe a ysgymunid allan o law, a'i gymdeithas a ochelid fel pe byddai y pla arno. Hwy oedd yn ysgrifenu hanesion bywydau eu breninoedd; a pha beth bynag hynod a ddygwyddai ar fôr, ar dir, neu ar y wybr. Ond am y gelfyddyd y dysgent eu dysgyblion ynddi, ni chynygient osod hyny ar bapyr, rhag i'r athrawiaeth fyned yn gyffredin a diystyr. Eu gwŷr ieuainc a ddysgent mewn seryddiaeth, a chwrs y planedau; yn nghylch maintioli y byd; yn nghylch mor gywrain yr oedd pob aelod a chymal wedi eu gosod mewn dyn ac anifail; yn nghylch natur a rhywiogaeth llysiau; ac yn fyr, yn nghylch pob peth a elwir Athronyddiaeth. Yr oeddent yn maentumio arfarwoldeb yr enaid; ond hyn oedd eu camsyniad: eu barn hwy oedd, fod yr enaid, ar ol ei ymadawiad a'r corff, yn myned i ysbrydoli rhyw un arall.‡

* Rol. Mon. Antiq. p. 43. † Hist. Nat. c. 14, 15. ‡ Non interire animas, sed ab aliis post mortem transire ad alios. Cæs. lib. 6. p. 107.

Yr athrawiaeth hon a bregethasant yn ddwys i annog eu gwrandawyr i wroldeb a syberwyd moesau; trwy beri iddynt gredu y byddai eu heneidiau, yn y tô nesaf, mewn arglwyddi a phendefigion. Pa un ai eu bod yn ddewiniaid, nis gwn i; ond y mae yn ddilys fod y cyffredin yn coelio hyny am danynt, megys y tystia hen ddihareb. "Nis gŵyr namyn Duw a dewinion byd, a diwyd Dderwyddon." Y mae yn ddiammheu eu bod yn cymeryd poen dirfawr i ddysgu y gelfyddyd i'w dysgyblion; canys ni chyfrifid neb yn athrawon nes eu bod bymtheg, ie, a rhai ugain, mlynedd yn astudio. Heblaw pethau ereill, hwy a ddysgent, ar dafod-leferydd, filoedd o bennillion ac odlau. Tybia Mr. Edward Llwyd, ac nis gwn i pwy a wyddai well, mai y mesur a elwir "Englyn Milwr," oedd mesur eu pennillion. Mi a ychwanegaf yma rhai o honynt, hen yn ddiammheu, os nad gwir odlau y Derwyddon eu hunain. Ond gwybydder nad yw y ddwy fraich gyntaf ond megys geiriau llanw; yr olaf sydd yn cynwys ystyr y chwedl.

"Marchwïail bedw briglas
A dyn fy nhroed o wanas,
*Nac addef dy rin i was.*

"Marchwïail derw mewn llwyn,
A dyn fy nhroed o gadwyn,
*Nac addef dy rin i forwyn.*

"Marchwïail delw deiliar
A dyn fy nhroed o garchar,
*Nac addef dy rin i lafar.*

"Eiry mynydd pysg yn rhyd,
Cyrchai Carw Cilgrwm Cwmelyd
*Hiraeth am farw ni weryd.*

"Eira mynydd gwynt a'i tawl,
Llydan lloergan glas tafawl,
*Odid dyn diraid di hawl.*"

Dywed rhai mai eiddo y Derwyddon yw y modrwyau gwydr a elwir "Glain y nadroedd," a bod eu dysgyblion yn eu gwerthu i'r bobl cyffredin, i'w gwisgo megys swyn-gyfaredd rhag aflwydd. Nid ychydig o orfoledd a fyddai gan y Derwyddon gael derwen lle y bydd y llysieuyn a elwir "Uchel-wydd"* yn tyfu, am eu bod yn barnu mai ffafr y duwiau oedd cael y

* Viscus quercinus. Missletoe.

fath. Eu defod ar hyny a fyddai: 1. Dyfod at y pren dan ganu, yn mhen chwe diwrnod ar ol newid y lleuad: 2. Yr offeiriad a ddringai ac a dorai y llysieuyn a bilwg aur, tra y byddai ereill obry ar y llawr, yn ei dderbyn mewn arffedog wen: 3. Fe ddygid dau fustach, gwyn i gyd, difau dianaf, ac a'u haberthid ar uchaf cromlech. Y cyfryw aberth a dybid yn swyn-gyfaredd odidog rhag gwenwyn, a haint, ac anffrwythlondeb.*

Ond yr aberth goreu a dybiasant' a ryngai fodd y duwiau oedd drwg-weithredwyr, y rhai oedd cyfraith y tir wedi eu gadael i farw, megys llofruddwyr a lladron. Hwy a gedwid yn garcharorion mewn cistfeini (y rhai sydd i'w gweled mewn amryw fanau eto yn Nghymru) nes cael oedfa i alw yn nghyd yr holl wlad i weled eu haberthu. Yn awr, cistfaen yw gwal, neu loches, a wneir o chwech careg, megys prenfol, neu gist; sef un gareg-waelod, o gylch saith neu wyth troedfedd o hyd, dwy bob ochr, un wrth bob pen, ac un fawr arall yn glawr. Y fath gistfaen a hon yw Ty-Illtyd, ar ben twyn, yn Llan-hamwlch, gerllaw Aberhonddu; Carn-Llechart, o fewn plwyf Llangyfelach, yn Morganwg; Gwal-y-filast, o fewn plwyf Llanboidy, islaw Caerfyrddin; y Gromlech, yn mhlwyf Nyfern, yn rhandir Penfro; Llech-yr-ast, yn mhlwyf Llan-goedmor, gerllaw Aberteifi; Cerig-y-Gwyddel, yn mhlwyf Llangristiolus, yn ynys Môn; Carchar Cynrig Rhwth, yn mhlwyf Cerig-y-Druidon, yn sir Dinbych; ac amryw fanau ereill nas gwn i oddiwrthynt. Yn awr, pan y byddai llawer o ddrwg-weithredwyr wedi eu euogfarnu, y Derwyddon a roddent orchymyn i wneuthur aberth-eilun, i aberthu i'r duwiau. Yr aberth-eilun hwn a wneid ar lun dyn, ond yn aruthrol o faint, o gangau coed, a'i freichiau a'i draed ar led; ac a sicr-hëid megys bwbach mawr, yn y ddaear, gerllaw i ryw garnedd. Yna y carcharorion a ddygid allan o'u cistfeini, ac a'u sicrhëid wrth raffau, yma ac acw, wrth y clofenau; ac yn ddiattreg y cyneuid tân odditan y bwbach, i rostio y drwg-weithredwyr yn fyw. A hwn oedd yr aberth goreu, yn ol eu barn hwy, a ryngai fodd y duwiau.† Ambell waith yn wir, pan na byddai ond un neu ddau, y drwg-weithredwyr a aberthid ar allor, gerllaw y gistfaen; ac odid un gistfaen, onid oes yno garnedd a chromlech, neu allor gerllaw.

Ar nos Galan Mai y cyneuid tân ar ben pob carnedd drwy'r

* Samme's Britan. Antiq. vol. 1. c. 7. p. 104. Plin. lib. 16. c. 44.

† Cæs. de Bell. Gall. lib. 6. p. 107.

ynys, lle y byddai un o'r Derwyddon, yn nghyda'r bobl o'r gymydogaeth hono, yn aberthu i'r tadolion dduwiau, er cael rhad a bendith ar gnwd y ddaear; ac ar nos Galan Gauaf y gwnaed yr un peth, er talu diolch, ar ol cael cnwd y ddaear yn nghyd. Ar y ddau amser hyn yr oedd pawb, o ba radd bynag, yn rhwymedig i ddiffodd y tân yn eu haelwydydd; a than benyd ysgymundod, i'w ailenyn a thewyn oddiwrth y carneddau.

Yn ynys Môn, yn anad un lle arall o fewn y deyrnas, yr oedd eisteddfod benaf yr hen Dderwyddon, megys y mae rhai o weddillion eu crefydd i'w gweled hyd heddyw, er yn rhwygiedig ac yn gandryll; sef amryw garneddau, cistfeini, ac allorau. Ac hefyd amryw o enwau lleoedd, hyd y dydd hwn, sydd yn cadw coffadwriaeth eu hen feistriaid, megys Tre'r Dryw, yn nghwmwd Mene, ac o'i amgylch megys tair troed trybedd, Bod y Druidion, Bodowyr, a Thre'r Beirdd. Yn Nhre'r Dryw yr oedd Pendog y Druidion yn trigo, canys yr oedd un yn ben ar y lleill, megys yn Bab neu Archoffeiriad. Yn y lle a elwir Bod y Druidion yr oedd Dinas y Derwyddon, y nesaf mewn awdurdod ato. Yn Modowyr yr oedd yr Ofyddion, y rhai, yn benaf dim, a astudient physigwriaeth. Ac yn Nhre'r Beirdd yr oedd y Prydyddion yn canu yn gelfyddgar hanesion eu gwŷr enwog. Cymaint a hyn am y Derwyddon.

Taclusrwydd eu cerbydau rhyfel, a'u medr mewn arfau, a soniwyd am dano eisioes. Mi a ychwanegaf air yn nghylch nodau march ryfel; sef yw hyny, "Cadfarch cadarn-dew, cerdded-ddrud, llydan-gefn, bron-eang, gafl-gyfyng, carn-gragen, ymdeith-wastad, hywedd-falch, drythyll, llamsachus, ffroenfoll, a'i lygad yn frithlas dratheryll." Dyna nodau y march rhyfel, o ddewis yr hen Frutaniaid. Hwy a fedrent ddarlen ac ysgrifenu er ys, o leiaf, fil o flynyddoedd cyn geni Crist. Y mae yn debygol fod ganddynt ychwaneg o gelfydd-ydau nag a gred llawer yn awr; ie, ac ambell beth na ŵyr holl gynildeb yr oes bresenol ddim oddiwrtho: canys yr oedd gan yr hen Frutaniaid fath o felinau yn troi heb na gwynt na dwfr. Mewn lle a elwir Bryn y Castell, yn Edeirnion, yn yr oes ddiweddaf, y cafwyd yn y ddaear, baladr melin, o haiarn, wyth ochrog, cyn braffed a morddwyd gŵr, a phen clwm ar y naill ben yddo, megys lle y buasai yr olwyn, a'r pen arall wedi ei ysu gan rwd. Yno y cafwyd maen melin, o gylch llathen o eithaf bwy-gilydd: ac fe ddywedir fod y bedwaredd ran o olwyn y felin hono yn haiarn, a'r relyw o goed. Ac yr oedd maen

tynu (adamant yw hwnw), neu glicied wisgi, neu bob un o'r ddau, y rhai a barai iddi droi o honi ei hun, pan ei gosodid.* Eu bath cyffredin oedd bres, a modrwyau haiarn; ond y mae yn ddilys fod ganddynt hefyd fath arian, a bath aur. Cafwyd yn mhlwyf Penbryn fath aur o eiddo yr hen Frutaniaid, heb ddim llythyrenau, ond lluniau dyeithr, na wyddys beth yw eu hystyr.† Ac y mae bath Caswallon, a ymladdodd a Iwl Caisar, eto i'w gweled. Eu dillad yn y gauaf—ac nid yna ychwaith, ond mewn gauaf chwerw o rew ac eira (eu harfer hwy oedd gan mwyaf fyned yn noethlymyn)—eu dillad, mewn gauaf garw, meddaf, oedd crwyn iyrchod a theirw gwylltion, a bwystfilod ereill; a'u hardd wisgoedd oedd brethyn gwyn pentan, neu fath o frethyn eddi, heb ei banu; canys nid oes dim sicrwydd fod yma banwyr cyn amser cred. Hyn oedd trwsiad y cyffredin; ond y bonedd, a goreuon y deyrnas, a wisgant dabarau symudliw yn cyrhaedd hyd y llawr, a thyrch aur, o waith cynil dros ben, o amgylch eu gyddfau a'u harddyrnau. Yn y modd hwn yr ymdrwsiodd Buddug,‡ y frenines ddewr hono, yr hon a ymladdodd a'r Rhufeiniaid, o gylch y flwyddyn o oedran Crist, 62, ac a laddodd ddeg mil a thriugain o honynt. Yr oedd am dani dabar symudliw, torch aur am ei gwddf, a'i gwallt melyn yn ymdaenu dros ei hysgwyddau hyd ei sodlau. Fe gafwyd un o'r tyrch aur yma wrth gloddio mewn gardd, gerllaw Harlech, yn Meirionydd, yn y flwyddyn 1692.

Y mae yn dra amlwg y deallent waith gof, pan y medrent wneuthur y fath gynilwaith a thyrch aur; ac y mae taclusrwydd eu cerbydau yn dangos y medrent waith saer coed. Eu medrusrwydd mewn gwaith saer maen, eu hamryw bentrefi a'u caerau, ac aml balasau eu pendefigion sydd yn tystio. Ac heblaw hyny, yr oedd yma wyth ar hugain o ddinasoedd caerog yn yr hen amser gynt, ac yn mhob un o honynt y byddai Druid yn farnwr neu ynad. Ni wyddys yn dda pa rai ydynt, ond fod Llundain, Caerwrangon, Rhydychain, Caerloew, Caerlleon ar Wysg, a Chaerfyrddin, yn ddilys o fewn y nifer. Yr wyf yn gwybod fod rhai yn haeru nad oedd gan yr hen Frutaniaid ddim dinasoedd caerog cyn dyfod y Rhufeiniaid i'r wlad hon. Nid oedd gan y cyffredin, mae'n wir, ddim ond bythod, neu bleth o wïail wedi ei adail, a lwfer yn y canol, megys y mae digon o'r fath eto i'w gweled yn Nghymru. A dyna wir

* Dav. Lexic. sub Breuan. † Llwyd's Annot. in Camd. p. 697.
‡ Boadicea, vide Dio. Cass. Hist. Rom. lib. 62.

ystyr y gair adeilad, sef adail o wrysg neu o wïail. Ond nad oedd yma ddim amgen adeiladau yn yr hen amser, sydd beth nad all neb ei brofi allan o hen hanesion. Pe na buasai yn Mrydain ond bythod a pharwydydd gwïail, byth ni ddywedasai Iwl Caisar, yr hwn a ysgrifenodd o gylch haner cant o flynyddoedd cyn geni Crist, "Hominum est infinita multitudo creberrimaque ædificia, fere Gallicis consimilia."*

Hynod oedd eu medrusrwydd i baentio a britho a lliwiau, yn enwedig i baentio ar eu crwyn luniau ehediaid, bwystfilod, pysgod, ac ymlusgiaid. Hyn oedd ran o wychder y gwŷr mawr, sef eu bod, o goryn y pen hyd wadn y troed, yn llawn o luniau creaduriaid byw. Math o liw glas oedd, ac ni wisgid mo hono byth allan, am ei fod wedi ei ollwng i mewn, a phigiad nodwydd, i'r croen. Pa un a oedd rhinwedd ynddo i gadw y corff mewn iechyd nis gwn; ond y mae yn ddilys fod yr hen Frutaniaid yn byw yn aml hyd saith ugain.† Dyna yr achos, yn ol barn Mr. Camden, y Sais, o alw yr ynys hon gyntaf Brithtania, hyny yw, fel y tybiai ef, gwlad y dynion brithion. Yr oedd Mr. Camden, yn ddiau, yn wr dysgedig iawn; ond fe allasai, gyda gwell gweddeidd-dra, adael i'r dychymyg hwn fyned gyda'i freuddwydion. Y gwir yw hyn: efe a fynai hyrddu rhyw beth newydd i olwg y byd; ac o ganlyn llwybr ei drwyn, efe a esgorodd ar y dychymyg eiddil hwn, yn erbyn pob awdurdod a rheswm.

Mewn physygwriaeth, y mae yn debygol eu bod yn gallach na gwŷr diweddar sydd yn bostio mewn ychwaneg o ddysg a gwybodaeth; canys ni arferent hwy ddim ond llysiau, ac yr oeddent yn gwneuthur ychwaneg lesâd a hwynt yn unig, nag y maent yn awr a'u holl gymysg. Yn mysg doctoriaid yr oesoedd canol, Meddygon Myddfai yw y rhai mwyaf hynod; a hwynt-hwy oeddent Riwallon a'i feibion, Cadwgan, Gruffydd, ac Einion: ac yn amser Rhys Grug yr oeddent, yn nghylch y flwyddyn 1230. Y mae llyfr bychan, mewn ysgrifen, o'u gwaith, ac yn diweddu fel hyn: "Pwy bynag na chymero fwyd pan fo ei chwant arno, ei gylla a leinw o afiachwst, yr hyn a bery y gwaew yn y pen."

Crwth a thelyn oedd y gerddoriaeth benaf yn mhlith yr hen bobl. Symlen ben-bys oedd gainc gyffredin iawn. Lledr oedd dros wyneb y cafn; ac o achos hyny a gyfenwid y Delyn

* Cæs. Com. lib. 5. p. 79. † Vide Us. Primord. p. 885.

ledr. Y dysgyblion a ddechreuent ganu a thanau rhawn, ac a dalent bedair ceiniog ar hugain* ar eu gwaith yn myned yn ben cerddwyr; canys fel hyn y dywed y gyfraith, "Y neb a fyno ymadael a thelyn rawn, a bod yn gerddor cyweithas, pedair ar hugain a ddyly." Er hoffed oedd y gerddoriaeth gan yr hen Frutaniaid, nid oedd ei sain yn nghlustiau Dafydd ap Gwilym ond megys asgloden gwern yn mhen y gath; canys efe a ddywed,—

"Ni cherais iawn-gais angerdd,
Na'i chafn botymog na'i cherdd;
Na'i cholydd sain damwain dig,
Na'i rhifant liw na'i rhyfyg.
Drwg yw dan bwyth yr wythfys,
Llun ei chroth llïain ei chrys:
Ni luniwyd ei pharwyden,
Na'i chreglais ond i Sais hên,
Sain gwydd gloff anhoff yn yd;
Sonfawr Wyddeles ynfyd."

Yr hen Frutaniaid a eillient eu cyrff yn llwyr gwbl, ond y pen a'r wefus uchaf. Eu hymborth oedd llaeth a chig; ond ni fwytäent hwy ddim cig ysgyfarnog, ieir, na gwyddau, er fod ganddynt amledd o honynt. Yr oedd bagad o honynt yn dilyn hwsmoniaeth, ac yn achlesu eu tir a marl a thywod y môr, ac yn cael gwenith a haidd eu gwala; yr oeddent yn gwneuthur bara o'r naill a chwrw o'r llall; ac y mae hysbysrwydd goleu y medrent ddarllaw cwrw a bragod gannoedd o flynyddoedd cyn i Iwl Caisar droedio yn Mrydain. Eu defod oedd llosgi cyrff y meirw, a chasglu y lludw a thalpau o'r esgyrn mewn math o ysten bridd, a'u gosod yn nghadw yn rhestrau yn y crugiau, neu'r tomenydd, y rhai sydd i'w gweled eto mewn amryw fanau. Y mae un hynod yn mhlwyf Trelech, yn rhandir Caerfyrddin, a elwir Crug-y-Deyrn. Y mae eu hallorau hefyd i'w gweled hyd y dydd heddyw, ar y rhai yr aberthid dynion ar rai prydiau; sef naill ai drwg-weithredwyr, neu y gelynion a ddelid yn garcharorion wrth ryfela. Y mae un nodedig i'w gweled eto yn mhlwyf Nefern, yn rhandir Penfro, a elwir Llech-y-Drybedd. Y gareg uchaf, neu yr allor, sydd ddeuddeg llath o gylch; ac o du y gogledd iddi y mae mortais, i ddwyn ymaith waed yr aberth. Pa le bynag y gwelir tair o gerig

* Yr oedd hyny yn swm fawr o arian yn yr hen amser, yn enwedig i grwthwr.

mawrion wedi ei sicrhau yn y ddaear, ar ddull trybedd, fe fu yno allor gynt.

Y mae llawer o son am afanc y llyn, a'r ychain banog; ac ni wn i yn dda beth i'w ddywedyd am danynt. Am yr afanc, y dyb gyffredin yw, mai math o ddwfrgi go fawr llost-lydan oedd efe, a elwir y "Beaver," yr hwn sydd greadur ffel dros ben, ac yn trigo yn y llynoedd a'r afonydd. Yr oedd efe yn Nheifi, yn ddiammheu, yn amser Giraldus, archddiacon Brecheiniog, yr hwn a ysgrifenodd hanes Cymru o gylch y flwyddyn 1189. Ond y mae yn beth rhyfedd fod y fath chwedlau yn mysg y cyffredin bobl am dano yn awr, megys pe buasai efe ryw annghenfil o faint; ac er ei faglu a thid haiarn, nid dim ond yr ychain banog a allasai ei lusgo allan o'r llyn. Am hyny mi a dybiwn mai afanc y llyn yw yr "Alligator," neu fath o "Grocodil," yr hwn sydd fwystfil enbyd ac aruthrol ei faintioli, a'r hwn a lyncai ddyn ar un tamaid, megys y dygwyddodd hi amryw brydiau; ac nid oes dim blwyddyn eto er pan lyncodd un o'r diawliaid hyn dri dyn mewn llai na chwarter awr. Yr annghenfil hagr hwn sydd yn gyffredin iawn yn afonydd a llynoedd Affrica ac America; a phwy a ŵyr amgen nad oedd rhai o honynt gynt yn llynoedd Cymru? Yr oedd yma gynt fleiddiaid: nid oes yn awr un o fewn yr ynys; ac eto nid oes gan gyffredin Cymru ddim garwach barn am flaidd na phobl ereill. Os y crocodil yw yr afanc, yna y mae yn debygol mai wrth ddifa rhyw annghenfil mawr dros ben, o gylch wyth neu ddeg llath o hyd, y dodwyd ychain banog, hyny yw, ychain hynod eu grym, i'w lusgo ef allan, er gorfoledd i'r holl wlad. Mi a wn fod hyn yn sawrio mwy o wirionedd nag sydd mewn rhyw hen bapuryn. "Y ddau ych banog oeddent Nyniaf a Pheibiaf, y rhai a rithwys Duw am eu pechodau yn ychain banog."*

Am yr hen iaith Gymraeg, nid oes genyf fi ond ychydig i'w ddywedyd, ond iddi barhau hyd yn ddiweddar heb nemawr o gymysg; yr hyn nis gellir ei ddywedyd ond prin am un arall, oddieithr iaith yr Iuddewon, ac iaith Arabia. Prin y gall neb ddeall yr iaith Gymraeg yn llawn fedrus, ond a ddeallo hefyd o leiaf ryw gymaint o Hebraeg, Lladin, Groeg, a Gwyddelaeg; canys y mae cryn gyfathrach rhwng y pedair hyn a'r Gymraeg. 1. Am yr Hebraeg: y mae amryw eiriau o honi wedi tramwy

* Vide Archæol. Brit. p. 237.

yn gyfan atom ni, er maint oedd y cymysg yn Nhwr Babel; megys yn y geiriau canlynol: Acheu, Anudon, Bwth, Câd, Caer, Ceg, Cefn, Copa, Cyllell, Golwyth, Magwyr, Neuadd, Odyn, Poten, Tal, Tomen, gydag amryw ereill, nad oes ond ychydig neu ddim cyfnewid rhwng yr Hebraeg a'r Gymraeg. 2. Am y Lladin: y mae y fath luaws o eiriau yn ein hiaith ni ac iaith hen bobl yr Eidal, o'r un swn ac ystyr, megys y gall dyn dybied mai o'r un dorllwyth y daeth y ddwy genedl allan. I'n henafiaid ni fenthyca llawer o'u geiriau, tra y buont hwy yn arglwyddiaethu yma, nis gall neb yn ei iawn bwyll ei wadu. Er hyny, y mae yn debygol iddynt hwythau fenthyca gan ein henafiaid ni o'r blaen, pan nad oedd y Lladinwyr ond gwŷr bychain yn y byd, a'r hen Gymry, y tu hwnt i'r môr yn meistroli arnynt. Y mae hyn mor ddilys a bod eu hanesion eu hunain yn tystio y peth. 3. Am y Groegiaid: nid yw yn rhyfedd fod cymaint o gysondeb rhyngddom ni a hwy, canys Groegwr neu wr dyfod oedd Brutus; a'r un llythyrenau oedd gan ein henafiaid ni a hwythau ar y cyntaf, megys y tystia Iwl Caisar, yr hwn a ysgrifenodd ei hanes o gylch haner cant o flynyddoedd cyn geni Crist. 4. Am y Gwyddelod: mi a brofais eisioes mai pobl o'r un dorllwyth oeddem ni a hwythau o'r dechreuad: ac y mae yn anmhosibl gwybod iawn ystyr enwau afonydd, bryniau, gelltydd, cwmydd, &c., heb ddeall Gwyddelaeg.

Y mae yn wir yn yr iaith Gymraeg amryw eiriau o'r un ystyr a'r Saesonaeg, ac y mae llawer beunydd yn llifeirio iddi oddiwrth y Saesonaeg: ond camsyniad er hyny yw tybied mai oddiwrth y Saeson y cawsom ni yr holl eiriau sydd o'r un sain ac ystyr yn ein hiaith ni a'r eiddynt hwythau; canys fe fu y Saeson amryw flynyddoedd yn ngwasanaeth yr hen Frutaniaid, cyn iddynt yn felldigedig droi yn fradwyr yn eu herbyn. Yn yr yspaid hwnw y mae yn naturiol i ni gredu eu bod yn benthyca gan eu meistriaid; a'r geiriau canlynol ydynt ychydig allan o lawer, sef, Annghwrteis, Byclau, Bargen, Cap, Cadpen, Clap, Cost, Crefft, Crwper, Cwcwallt, Ceispwl, Cwpl, Cwpan, Cweryl, Dart, Egr, Ffael, Ffals, Ffair, Ffol, Grân, Gronyn, Hapus, Hap, Het, Hitia, Inc, Lifrai, Llewpard, Malais, Maer, Pert, Plâs, Plwm, Sâd, Sadler, Siwrnai, Siop, Tasc, Tafarn, Twr, Twrn, Tiler, Ystryd.

Y mae y geiriau hyn oll i'w gweled gydag amryw ereill, yn nghywyddau Dafydd ap Gwilym, yr hwn, yn marn Madoc

Benfras, oedd "Benial cerdd ddyfal dafawd." Ac ebe Iolo Goch am dano yn ei farwnad,—

> "Aed lle mae'r eang dangnef
> Ac aed y gerdd gydag ef."

Nid oedd dim hoffder yn ei amser ef, sef o gylch y flwyddyn 1380, mewn boneddig na gwreng i siared Saesonaeg, er eu bod yn deall Lladin, Groeg, ac Hebraeg: ac y mae yn gwestiwn pa un a oedd Dafydd ap Gwilym, neu un offeiriad neu bendefig arall, neu un gwr dysgedig pa un bynag, yn yr oes hono, yn deall Saesonaeg, megys y gellir barnu yn dra naturiol oddiwrth yr hanesyn nodedig a ganlyn: "Yr oedd pendefig urddasol o ynys Môn, a elwid Owen Tudur, wedi priodi y frenines Catherin, yr hon a fuasai gynt yn brïod a Harri, y pummed o'r enw, brenin Lloegr. Ni wyddai y frenines Catherin, gan ei bod yn wraig o Ffrainc, ddim gwahaniaeth rhwng y Cymry a'r Saeson, cyn iddi briodi Owen Tudur, yr hyn a wnaeth iddi chwennych yn fawr, weled rhyw nifer o gydwladwyr ei phrïod, i gael gwybod a oeddent cyn saled dynion ag oedd y Saeson yn eu portreiadu. Ond yn y cyfamser fe ddaliwyd Owen Tudur a'i frenines yn garcharorion, yn Nghaerlleon. Owen Tudur, ar hyn, a anfonodd am ei drâs a'i geraint; ond yn fwyaf neillduol am ddau gâr anwylaf ganddo, a dau bendefig urddasol, Iorwerth ap Meredyth, a Hywel Llewelyn. Fe ymwelodd ag ef i gyd yn nghylch cant o ben bonedd Cymru, y rhai, er eu bod yn wŷr dysgedig ac anrhydeddus, eto ni fedrent air o Saesonaeg; canys pan lefarodd y frenines wrthynt yn Ffrancaeg, ac yn Saesonaeg, ni fedrent roddi gair o ateb iddi; yr hyn a barodd iddi ddywedyd, mai 'y creaduriaid mudion hoewaf oeddent a'r a welsai hi erioed!'" Y mae yn hawdd casglu oddiyma na fedrai na phendefigion na dysgedigion Cymru ddim Saesonaeg yn yr oes hono, o gylch tri chant a deg o flynyddoedd a aethant heibio [1740]. Am hyny y mae yn ddilys mai Cymraeg yw yr ychydig eiriau uchod, a chwiliais i allan o gywyddau Dafydd ap Gwilym; ac yn wir y mae y pen Cymro, Doctor Davies, yn eu cydnabod oll, gydag amryw yn ychwaneg.

Nid yw hyn ddim wrth y lluaws a fenthycodd y Saeson, o amser bwy gilydd, oddiwrth genedloedd ereill, i gyfoethogi eu hiaith, megys y mae hi yn wir yn awr yn iaith lawn a helaeth. Ffrancaeg yw rhan fawr o honi, yn nghydag ambell air bychan

o'i hen iaith ei hun. "Canys," ebe'r cronicl, "yn amser Gwilym y Gorchfygwr, nid oedd swyddog o Sais yn Lloegr; a gwaradwydd mawr oedd galw un yn Sais, neu ymgyfathrachu ag un o'r genedl hono, canys hwy a gasëid yn ddirfawr. Wrth hyny y mae yn amlwg nad oes un pendefig yn Lloegr, nad yw o hiliogaeth naill ai y Normaniaid, neu y Ffrancod, neu y Brutaniaid;" ac yno yr ydoedd yn ddiareb, "Jack would be a gentleman, but he cannot speak French."

Y geiriau priodol i'r gyfraith sydd wedi eu colli gan mwyaf, er pan ddodwyd cyfraith Hywel Dda heibio; a hi a barhaodd mewn grym, gan mwyaf, hyd amser brenin Harri yr wythfed, orwyr i Owen Tudur o Fôn. Ond am bethau cyffredin, y mae yr iaith agos mor ddilwgr eto, ac mor adnabyddus a deallgar ag oedd hi er ys deuddeg cant o flynyddoedd a aethant heibio [1740], megys y tystia y pennillion canlynol:—

"Dychymyg di pwy Greawdr cread cyn diluw
Creadur cadarn, heb gig, heb asgwrn;
Heb wythen, heb waed, heb ben, heb draed;
Ac ef ni aned, ac ef ni weled;
Ef ar fôr, ef ar dir, ni wyl, ni welir,
Ac ef yn annghywir, ni ddaw pan ofynir."

TALIESIN BEN-BEIRDD A'I CANT I'R GWYNT,
O GYLCH Y FLWYDDYN 540.

"Mis Mawrth mawr rhyfyg adar,
Chwerw oerwynt ar ben talar,
Hwy fydd hindda na heiniar,
Hwy pery llid na galar:
Pob edn a edwyn ei gymhar;
Pob beth a ddaw trwy y ddaear
Ond y marw, mawr ei garchar!"

ANEURYN GWAWDRYDD A'I CANT, YN LLYS MAELGWYN GWYNEDD, 510.

"Afallen, bren beraf ei haeron,
A dyf yn argel yn argoed Celyddon."

MYRDDIN WYLLT A'I CANT, 570.

"Y gelain fainwen a oleuir heno
Yn mhlith pridd a thywarch;
Gwae fy llaw lladd mab Cynfarch."

LLYWARCH HEN A'I CANT, 590.

DIWEDD Y RHAN GYNTAF.

# DRYCH Y PRIF OESOEDD.

## RHAN II.

### PENNOD I.

YN NGHYLCH PREGETHIAD YR EFENGYL TRWY YR HOLL FYD, OND YN ENWEDIGOL YN MRYDAIN; GAN BWY, AC YN MHA AMSER.

Ar ol bod y byd o gylch dwy fil o flynyddoedd heb un gyfraith ysgrifenedig, a dwy fil arall dan gyfraith Moses,* y daeth Had y wraig i ysigo pen y sarff, ac y ganwyd ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist. Yr oes hon a elwir yn yr Ysgrythyr, "Diwedd y byd," a'r "Amser diweddaf," yn gymaint ag mai dyna feddwl St. Paul, pan y mae yn dywedyd, "Unwaith yn niwedd y byd," hyny yw, oes yr efengyl, "yr ymddangosodd efe, i ddilëu pechod trwy ei aberthu ei hun." (Heb. ix. 26.) Dyma yr amser y cyflanwyd y brophwydoliaeth hynod hono, a ragddywedodd Jacob am ei fab Juda: "Nid ymedy y deyrnwialen o Juda, na deddfwr oddi rhwng ei draed, hyd oni ddêl Silo." (Gen. xlix. 10.) Ystyr y geiriau yw, "Fe barha y llywodraeth oruchel yn llwyth Juda, hyd oni ddelai Crist yr Arglwydd; ac yna ei deyrnwialen, hyny yw, awdurdod a breniniaeth llwyth Juda, a ddarfyddai byth." Hyn oll a gyflawnwyd yn nyddiau Crist yr Arglwydd: canys yr amser hwnw y darostyngodd Augustus Cæsar wlad yr Iuddewon, ac a osododd Herod dano megys yn frenin arnynt. Yr Herod hwn, rhag gwrthryfela o honynt yn ei erbyn, a laddodd holl benaethiaid yr Iuddewon; ond yn anad neb, y rhai oedd o waed breninol Juda. Y mae rhagluniaeth Duw i'w ganfod yn ychwaneg yn y brophwydoliaeth, yn gymaint ag mai llwyth

* Vide Uss. Chron. Sac. c. 2. p. 44, &c.

Juda yn unig a ddychwelodd adref yn gyfan allan o gaethiwed Babilon.* Y lleill a wasgarwyd yn mysg y cenedloedd, ac a aethant o'r diwedd yn un bobl a hwy.

Yr oedd gan bobl Rhufain deml fawr a elwid Teml y Tangneddyf. Ar eu gwaith yn gosod ei sylfaen, bu iddynt ymgynghori a'r oracl,† pa hyd o amser y safai hi. Yr oracl a atebodd, "Hi a saif hyd oni enir mab o wyryf." Ar hyny gorfoleddu a wnaethant, a dawnsio, gan dybied y parhausai hi byth: ond ar y noson y ganwyd Crist, hi a syrthiodd i lawr yn gandryll; ac er ei hadeiladu drachefn o newydd, hi a losgwyd yn ebrwydd gan dân wybrenol.‡ Ymwrthododd Augustus Cæsar ei alw yn Arglwydd, am fod Arglwydd yr arglwyddi wedi ei eni i'r byd, er na wyddai efe ddim am hyny. Pan ymgynghorodd efe a'r oracl yn nghylch etifedd y deyrnas ar ol ei ddydd ef, dywedir iddo gael yr ateb hwn:—

"Hebræus puer injungit, Divûm Dominator.
Hacce domo fugere, et rursum me inferna Subrie;
Ergo tacens Aris postac discedito nostris."

Sef yw hyny yn Gymraeg,—

Y plentyn bach Hebraeg, Duw mawr y Duwiau oll,
A'm deol oddiyma i war'd i uffern bwll,
Dos ymaith 'ddiwrth f' allorau, a thaw, gad lonydd i'm,
Na chrybwyll wrthyf mwyach, nid allaf wneuthur dim.

Yr oedd y gwyrthiau godidog a wnaethpwyd gan ein Harglwydd wedi eangu cymaint ar led, fel y bu dirfawr son am danynt, nid yn unig yn Jerusalem, ond yn yr holl wledydd o amgylch; a llawer o'r penaethiaid a'r gwŷr mawrion, a fawr ewylliasant ei weled ef ei hun. Felly yr ydym yn darllen i Herod lawenychu yn fawr pan welodd efe yr Iesu; "Canys yr oedd efe yn chwennych er ys talm ei weled ef, oblegid iddo glywed llawer am dano." (Luc xxiii. 8.) Zacheus, hefyd, y pen publican cyfoethog, a ddringodd i sycarmorwydden, fel y gallai weled yr Iesu. Yr oedd ein Harglwydd yn ddiau yn gwneuthur y fath wyrthiau, na chlybuwyd mo'u cyffelyb er dechreuad y byd. A hyny a gymhellodd fagad o ddoethion y cenedloedd i ymofyn yn fanwl am dano; a llawer o honynt a ysgrifenasant at eu cyfeillion o'i blegid. Yn mysg ereill y mae genym hanes i bendefig urddasol ysgrifenu

* Juda sola emersit e captivitate, &c. Spanhem. Dub. Evan. p. 244.
† Math o gysegr-ddelw ac ysbryd dewiniaeth ynddi. ‡ Turs. Hist. p. 202.

llythyr at y ben gymanfa o wŷr mawr yn Rhufain, yn yr ystyr yma:* "Fe ymddangosodd yn y dyddiau hyn wr tra rhinweddol, a elwir Iesu Grist, yr hwn sydd eto yn fyw, ac a gyfrifir gan y bobl yn brophwyd; ond ei ddysgyblion a'i galwant ef yn Fab Duw. Y mae efe yn cyfodi y meirw i fywyd, ac yn iachâu pob math o haint a chlefyd. Y mae efe o gorffolaeth prydweddol a golygus, a lled dal, a'i wynebpryd yn lân odiaeth a hyfryd. Ei wallt sydd oleu-rudd ei liw, ac yn llas hyd ei glustiau, ac oddiyno i waered ychydig yn grych a goleuach ei liw, ac yn ymdaenu o amgylch ei ysgwyddau. Ei wallt sydd yn rhanu ar ei goryn, yn ol defod y Nazareaid. Ei dalcen sydd lyfn, a'i wyneb yn dêg a gwridog, a difrycheulyd. Ei enau a'i drwyn ynt cyn brydferthed, fel nad all dim fod yn harddach. Ei farf sydd o'r un lliw a'i wallt, heb nemawr o hyd ynddi, eithr yn fforchog. Ei lygaid ydynt leision a chraffus, a'i edrychiad yn ysbrydol a dawnus. Y mae efe wrth argyhoeddi yn lew, ac wrth gynghori yn addfwyn a thirion. Ei ymadroddion ydynt hyfryd a dwys. Nid oes neb yn cofio ei weled ef yn chwerthin; eithr llawer a'i gwelsant ef yn wylo. Dyn o ran ei degwch, prydferthwch ei gorff, a chymhwysder pob aelod, yn rhagori ar blant dynion." O gylch y flwyddyn 1719, fe gafwyd, mewn lle a elwir Bryngwyn, yn ynys Môn, yn mysg crug o gerig, fath pres, a llun Crist Iesu ar y naill wyneb, yn gymhwys megys yr adroddir yn hanes y pendefig; ac ar y wyneb arall, yr ysgrifen hon, yn Hebraeg, "Hwn yw Iesu Grist y Cyfryngwr."†

Yn y ddeunawfed flwyddyn o ymherodraeth Tiberius Cæsar, y dyoddefodd Crist Iesu dros bechodau'r byd. Tybir ei fod ef yn nghylch pedair ar ddeg ar hugain oed y pryd hwnw. Yr oedd Pilat yn chwennych ei ollwng ef yn rhydd, ond pan glybu efe yr Iuddewon yn ei fygwth, gan ddywedyd, "Os gollyngi di hwn yn rhydd, nid wyt ti garedig i Cæsar," "yna efe a'i traddodes ef iddynt i'w groeshoelio." Ofnodd Pilat y dygid llywodraeth gwlad Judea oddiarno, os Cæsar a glywai iddo arbed yr Iesu, yr hwn yr achwynid arno ei fod yn bwriadu myned yn frenin ar yr Iuddewon; er nad oedd ein Harglwydd bendigedig yn meddwl am y freniniaeth yn eu hystyr hwy; canys efe a ddywedodd wrthynt, "Fy mreniniaeth i nid yw o'r byd hwn." Ond er cymaint oedd cyfrwys-

* Publii Lent. ad Senatum Epist. † Rol. Mon. Antiq. p. 92.

dra Pilat i sicrhau ei hunan yn ei swydd, efe o gollodd ewyllys da a ffafr ei feistr yn mhen ychydig amser wedi hyny; ac a anfonwyd trwy ei orchymyn ef yn wr deol, i wlad ddyeithr; ac yno, gan dristwch calon, a chnofa cydwybod euog, efe a frathodd ei hun a dagr, ac a aeth megys Suddas yntau "i'w le ei hun."

Gorfu ar yr Iuddewon hwythau yfed cwpanaid llawn o ddigofaint yr Arglwydd; canys yn mhen deugain mlynedd ar ol dyoddefaint Crist, ar ŵyl y Pasc, yr un amser ag y croeshoeliasant hwy Arglwydd y bywyd, pryd yr oedd holl drigolion gwlad Judea, o bell ac agos, yn dyfod i aberthu i'r deml yn Jerusalem, megys yr oeddent yn arferol o ddyfod unwaith bob blwyddyn; yna y daeth ymherawdwr Rhufain, a elwid Titus Fespasian, a llu o wŷr arfog yn erbyn Jerusalem. Yr oedd yn y ddinas y pryd hwnw bobl o bob gradd, ychwaneg nag ugain can mil o werin; lluaws afrifed a fuasent yn abl i wynebu eu holl elynion, pe buasent yn heddychol ac yn unfryd a'u gilydd: ond wele hwy, drwy gyfiawn farn Duw, yn annghytuno a'u gilydd, fel cŵn cynddeiriog, heb ystyried y lles cyffredin: ond un blaid yn erbyn arall (canys yr oedd y ddinas wedi ymranu i amryw bleidiau), yn lladd ac yn llosgi eu gilydd yn ddidrugaredd. Nid oedd gan wŷr Rhufain ddim llawer i'w wneuthur, ond eu cadw hwy o fewn i ddinas Jerusalem. Yr oedd y pleidiau gwrthwynebus i'w gilydd yn llofruddio y naill y llall mewn eithaf ffyrnigrwydd; ïe, cymaint oedd y galanastra, fel nad ellid ond prin dramwy yr heolydd gan gelaneddau y meirw, a'r sawr cyn gryfed a gwenwyn marwol!

Heblaw hyn, yr oedd y newyn mor dost ac mor greulon, fel yr oeddent yn gorfod bwyta hen ledrach esgidiau; ïe, yn gorfod bwyta celaneddau drewllid y meirw; ïe, waeth na hyny, (peth erchyll ac echrydus i'w adrodd!) "dwylaw gwragedd tosturiol a ferwasant eu plant eu hun." (Galar iv. 10.) Y fath oedd eu gwanc a'u newyn! A hyn y mae eu cydwladwr eu hun, Josephus, yn ei dystio,* yr hwn oedd yn byw yn yr amser hwnw, ac yn llygad-dyst o'r hyn y mae efe yn ei adrodd. O achos fod y newyn mor greulon, a'u bod yn bwyta eu gilydd, hyn a barodd fod miloedd o honynt yn dianc yn lledradaidd allan o'r ddinas; ond yr oedd gwŷr

* Jos. de Bell. Jud. lib. 7. c. 8.

Rhufain yn taro llaw arnynt, ac yn eu cadw mewn gafael. Yr oedd pen cadben y Rhufeiniaid yn wr tosturiol a llariaidd yn ei natur; ond er hyny, ar hyn o dro, pryd nad oedd dim ffafr i Iuddew gyda Duw na dyn, y mae efe yn peri croeshoelio yr holl rai a ddiangasant o Jerusalem: ac fe groeshoeliwyd cynifer mil y honynt, o fesur pum cant yn y dydd, dros amryw ddiwrnodau, fel nad oedd lle i osod crogbrenau, nac ychwaith ddigon o goed i wneuthur rhai o newydd. Felly y cafodd y rhai oedd yn llefain mor daer yn erbyn Crist Iesu, "Croeshoelia ef, croeshoelia ef," eu gwala o hyny o'r diwedd eu hunain.

Yr oedd ein Harglwydd yn rhagweled y dyddiau hyn, pan ddywedodd, "Y pryd hyny y bydd gorthrymder mawr, y fath ni bu o ddechreu y byd; ac ni bydd ychwaith." (Mat. xxiv. 21.) Meddylied dyn yn ei galon, a thybied ei fod yn gweled Jerusalem wedi ei hamgylchu a llu aneirif o wŷr arfog! Tybied ei fod yn gweled y trigolion oddifewn yn llofruddio eu gilydd, er hyny, fel ellyllon cynddeirog! Tybied dyn ei fod yn gweled heolydd y ddinas yn llawn o gelaneddau meirw, yn ymdrochi mewn anmhuredd a brynti! Bydded i ddyn dybied ei fod yn arogli y drewdod, y sawr, a'r tawch, yn barod i wenwyno agos bob un a ddeuai allan o'i dŷ! Gadewch i ddyn dybied ei fod yn gweled y trigolion yn difa ac yn llosgi ysguboriau o ŷd, a phob rhyw luniaeth ag ydoedd wedi ei barotöi tuag at eu cynhaliaeth! Tybied dyn ei fod yn gweled y rhai byw yn ymdrabaeddu hyd eu gliniau yn ngwaed a budreddi y celaneddau meirw; ïe, yn gorfod eu bwyta, mor fawr oedd eu gwanc a'u cythlwng! Ar air, gadewch i ddyn dybied ei fod yn clywed y galar, y griddfan, a'r ochain, oedd yn mhob congl o'r ddinas anhapus, heb na Duw na dyn yn tosturio wrthi! Gadewch i ddyn ddybied, meddaf, ei fod yn gweled hyn, gyda llawer ychwaneg, dywedai yn ddiammheu fod y gorthrymder yn fawr, "y fath ni bu o ddechreu y byd hyd y pryd hwnw, ac ni bydd ychwaith y fath."

Yn nghanol yr holl alanastra yma, nid oedd cymaint ag un Cristion yn dyoddef y cystudd lleiaf. Yr oedd y Cristionogion oll wedi cilio i dref gerllaw, ac mor ddiogel eu helynt a Lot yn Soar, pan oedd Sodom a Gomorra yn fflamio o dân, a'r trigolion anraslon yn rhostio yn fyw yn nghanol tân a brwmstan. Felly yma, pan oedd braich yr Arglwydd wedi ei hestyn allan mewn barn yn erbyn yr holl Iuddewon; pan oedd yr

haint, y cleddyf, a'r newyn, yn dost ac yn llidiog, yn difa miloedd o honynt bob dydd, yr oedd y Cristionogion, trwy ffafr a daioni Duw, yn ddibryder ac yn ddiogel.

Pan yr ydym yn darllen yn yr efengyl fod y dysgyblion yn rhyfeddu yn nghylch mor hardd a godidog oedd y deml fawr yn Jerusalem, y mae Crist yn dywedyd wrthynt, "Ni adewir yma gareg ar gareg a'r ni ddattodir." (Mat. xxiv. 2.) Nid oedd un adeilad yn un gongl o'r byd allasai gystadlu a'r deml y pryd y dywedodd ein Hiachawdwr hyn; ond gwir yw y ddiareb, "Ni fyno Duw ni lwydd." Felly yma, wedi i'r Rhufeiniaid oresgyn Jerusalem, er i'r pen cadpen wneuthur ei oreu i achub y deml, eto "ni fyno Duw ni lwydd." Er hardded oedd y cerfiad gwaith a dysgleiried oedd y meini gwerthfawr, fe losgwyd y deml yn ulw mân; a Jerusalem, yr hon oedd ychydig o'r blaen megys arglwyddes yn ben ar holl ddinasoedd y byd, oedd yn awr megys goddaith o dân aruthrol, yn fflamio hyd entrych awyr, a miloedd o'r trigolion anraslon yn llosgi yn ei ganol.

Y mae hanesyddiaeth yn mynegi i ddeg can mil o Iuddewon o bob gradd ac oedran, naill ai trwy dân, newyn, neu y cleddyf golli eu bywydau yn y gwarchae. Fe ddanfonwyd myrddiynau o honynt, yn enwedig y rhai dan ugain oed, i fod yn gaethweision dros bob parth o'r byd. Fe'u harlloeswyd hwy yn llwyr o'u gwlad eu hunain, lle nid allasant fyth wedi hyny gael na meddiant nac awdurdod ynddi. Nid oeddid yn gwneuthur mwy o gyfrif o honynt nag o gŵn. Nyni a ddarllenwn ddarfod gwerthu deg ar hugain o honynt am un geiniog! Mor ddiystyr, mor ddibris, ac mor isel oedd y farchnad ar gig Iuddew! Newid mawr ar ddynion, pan oeddid yn gwerthu deg ar hugain am un geiniog! Ie, megys wâr fethedig, na thalai ond ychydig well na dim, yr oedd gwŷr Rhufain yn eu cymhell ar bob gwlad i fod yn gaethweision: ac felly y gweddill a adawyd yn fyw, a wasgarwyd yma ac acw ar hyd wyneb y gwledydd.

Nid oes genyf ond un peth ychwaneg cyn tynu pen ar hyn o hanes alaethus. O gylch tri chant o flynyddoedd ar ol dyoddefaint Crist y gwnaeth dyn diras a elwid Julian, gynyg ar adferu yr Iuddewon drachefn i'w gwlad eu hunain. Y gwr yma a fuasai unwaith yn Gristion, eithr efe a ymadawodd a'r ffydd, ac a drodd yn bagan; ac am hyny a elwid Julian yr Apostat [Gwrthgiliwr]. Y gwr hwn, meddaf, o falais at y Cristionogion, a roddes bob annogaeth ag oedd bosibl i'r

Iuddewon, i osod i fynu o newydd seremoniau cyfraith Moses, ac i ail-gyweirio y deml yn Jerusalem. Ond yr un peth a fuasai iddo geisio dringo i'r nefoedd o rwysg ei draed, a cheisio cynal yr hyn oedd Duw am ei fwrw i lawr. Ond at y gwaith yr aethant, gan ymosod yn egnïol ac yn lewion arno; ïe, y benywod hefyd yn ol eu gallu, y fath oedd eu sel i gwblhau y gwaith. Ond yno, ar ol cymeryd llawer o boen a lludded, y danfonodd yr Hollalluog ddaeargryn, yr hwn a ddrylliodd y cwbl yn chwilfriw; a'r holl wŷr o gelfyddyd, sef y crefftwyr ag oedd ar y gwaith, a fuont feirw yn ddisymwth, trwy gyfiawn farn Duw am eu rhyfyg.

Fe dybiai dyn y buasai hyn yn rhybudd têg iddynt; ond Iuddewon gwargaled a fyddant yn Iuddewon gwargaled fyth. Nid oeddent hwy ddim yn canfod y llaw a'u tarawodd; ond mewn eithaf dallineb tybiasant nad oedd y cwbl ond damwain; am hyny at y gwaith yr aethant drachefn: yna, fflamiodd tân eirias odditan y sylfaen, ac a deifiodd yr adeilad a'r adeiladwyr yn ulw.* Cymaint a hyn am yr Iuddewon a'u teml.

Yn awr i ddychwelyd at ddyoddefaint ein Harglwydd. Yr ydym yn cael hanes (Luc xxiii. 44.) fod y pryd hwnw "dywyllwch ar yr holl ddaear, o'r chweched awr hyd y nawfed." Nid diffyg naturiol ar yr haul oedd hwn, ond gallu Duw ei hun; canys nid all fod diffyg ar yr haul ond ar flaen lloer; ond y pryd hwnw yr oedd hi yn llawn. A hyny a fenodd gymaint ar laweroedd o Iuddewon a chenedloedd, fel y cyfaddefasant mai y Crist, Mab Duw, oedd yr Iesu o groeshoeliwyd. (Mat. xxvii. 54.) Dywedir i athronydd enwog o Athen ddolefain y pryd hwnw, "Naill ai y mae y byd ar ddiwedd, neu y mae Mab Duw yn dyoddef." Ar hyny efe a barodd wneuthur allor, ac ysgrifenu arni, "I'r Duw ni adwaenir." A hono, trwy bob tebygoliaeth, oedd yr allor y mae St. Paul yn crybwyll am dani wrth ymddadlu a'r Atheniaid. (Act. xvii.) Ar yr un amser, gwr a elwid Bacrach, un o ddewiniaid yr Iwerddon, a fynegodd i'w frenin (o'i waith yn ystyried y tywyllwch) fod Arglwydd y byd yn dyoddef.†

Soniwn yn mhellach am bregethiad yr efengyl, ond yn fwy enwedigol yn yr ynys hon o Frydain. Nid aeth yr apostolion yn ddiatreg, wedi adgyfodiad ein Harglwydd, i bregethu yr

* Sozom. Hist. Eccles. lib. 5. cap. 21. † Llwyd Irish Dict. in voc.

efengyl i'r holl genedloedd; eithr hwy a fuont amryw flynydd-oedd yn cynyg addewidion a chysur yr efengyl i'r Iuddewon yn unig; canys felly y gorchymynwyd iddynt gan ein Harglwydd, "Gan ddechreu yn Jerusalem." (Luc xxiv. 47.) Felly y dywedodd Paul a Barnabas wrthynt, "Rhaid oedd llefaru gair Duw wrthych chwi yn gyntaf." (Act. xiii. 46.) Fel yr oeddent yn y cyflwr mwyaf truenus (er eu bod mewn cyfammod a Duw, megys yr oeddent yn blant Abraham), felly hwy a gawsant gynygiad o drugaredd yn y lle cyntaf; a hyny a gawsant yn ddidor, blwyddyn ar ol blwyddyn, hyd yr erlidigaeth a sonir am dano yn Act. xiii., sef deng mlynedd gyfan ar ol escyniad Crist i'r nef. Ac yna wedi i'r Iuddewon "wrthod gair Duw, a barnu eu hunain yn annheilwng o fywyd tragwyddol," yr apostolion a droisant at y cenedloedd, megys yr oedd yr Yspryd Glân, trwy enau y prophwyd Esaias, wedi rhagddywedyd am Grist, "Mi a'th osodais di yn oleuni i'r cenedloedd, i fod o honot yn iachawdwriaeth hyd eithaf y ddaear." (Esai. xlix. 6.)

Pedr a bregethodd i'r Iuddewon, yn enwedig i'r rhai ar wasgar yn mhlith cenedloedd y dwyrain, ac a ddyoddefodd ei groeshoelio yn Rhufain a'i ben tua'r llawr. Andreas a aeth i Sythia ac Achaia; ac Iago, mab Zebedeus, a laddwyd gan Herod. (Act. xii.) Philip a gymerth ei daith i wledydd y Gorllewin, i deyrnas Ffrainc, ac (medd rhai) i Frydain hefyd. Paul a dramwyodd i amryw o deyrnasoedd Ewrop, ac a fu (yn marn llawer o wŷr dysgedig) yn pregethu yr efengyl i drigolion yr ynys hon. Ioan a gyfeiriodd i wledydd y dwyrain, i Asia ac Ephesus. Bartholomeus a fordwyodd i Armenia a'r gwledydd cyffiniol. Thomas a dramwyodd i Ethiopia a'r India. Iago, mab Alpheus, a gysegrwyd yn esgob Jerusalem, ac a arosodd i fugeilio eglwys Dduw yno.

Fy ngorchwyl i sydd yn unig ag ynys Brydain, sef ymofyn pa mor gynar y pregethwyd yr efengyl yn ein gwlad, a pha gynydd a wnaeth hi yn yr oesoedd cyntaf. Yn awr, y mae yn ddilys ddigon i lewyrch yr efengyl oleuo yma yn gynar iawn; canys y mae ein cydwladwr, hen Gildas, yn mynegi hyny yn oleu. O herwydd ar ol bod o hono yn siared am yr ymladdfa waedlyd hono a fu rhwng Buddug, brenines y Brutaniaid, a gwŷr Rhufain, o gylch y flwyddyn o oedran Crist 61 (megys y mae yr hanes yn y rhan gyntaf), yna eb efe, "Ar ol dur-rew gauaf tra ffyrnig, y cynhesodd Haul Cyfiawn-

der (Crist) ein bro ni a phelydr ei athrawiaeth nefol, er bod pen cynghor, neu senedd, Rhufain yn gwrthwynebu, ac yn ceisio attal cynydd yr efengyl."* Dyma ystyr yr hyn a ddywed Gildas, yr hwn a ysgrifenodd ei hanes o gylch y flwyddyn o oedran Crist 546. Y mae yn amlwg gan hyny, yn ol ei dystiolaeth ef, ddarfod pregethu yr efengyl yn yr ynys hon mor gynar a blwyddyn yr Arglwydd 62, neu o'r man pellaf, y flwyddyn 63. Afraid yw crybwyll am ychwaneg o awdwyr pellenig: Gildas yw yr awdwr hynaf o'r ynys hon sydd a'i waith heb fyned ar goll. Nid yw y lleill ond yn ei gredu ef, ac yn benthyca allan o'i waith; ac am hyny, gan i ni fyned at lygad y ffynnon, yno yn ddiammheu y mae y dwfr loewaf.

Lle y mae Gildas yn dywedyd fod pen cynghor Rhufain yn gwrthwynebu ac yn ceisio attal cynydd yr efengyl, y mae i ni ddeall wrth hyny, gymaint a hyn; sef bod hen ddefod yn mhlith y Rhufeiniaid, pan ddygwyddai unrhyw ryfeddodd neu wyrthiau, pen rheolwr y dalaeth a anfonai hysbysrwydd o hyny at yr ymherawdwr. Felly, pan wybu Pilat yn sicr i Grist Iesu adgyfodi, ac escyn o hono i'r nef, efe a hysbysodd hyny i'r ymherawdwr, yr hwn a elwid Tiberius, canys rhaglaw Judea oedd Pilat yr amser hwnw. Tiberius ar hyn a alwodd ei ben cynghoriaid ato, ac a ddymunodd arnynt i dderbyn Crist o nifer eu duwiau; oblegid yr oedd cyfraith arall gan y Rhufeiniaid, yn gwarafun cyfrif neb o nifer y duwiau, nes i senedd neu ben cynghor Rhufain yn gyntaf sicrhau y peth. Ond y senedd a wrthododd y cynyg, am eu bod yn ddigofus fôd y bobl yn addoli Crist cyn iddynt hwy chwilio allan ei haeddiant, a ydoedd efe yn deilwng i fod yn Dduw ai nid oedd: ond er hyny yr ymherawdwr ei hun a lynodd wrth ei farn, ac a gadwodd yr un dyb dda am Grist, ac a ymddygodd yn dra thirion tuag at y Cristionogion, trwy ganiatâu rhyddid a llonyddwch iddynt, a chospi y rhai a achwynent arnynt ar gam.

Yn awr, er y gallwn ni, gyda sicrwydd, olrhain yr amser, ïe, hyd yn oed y flwyddyn gyntaf o bregethiad yr efengyl yn y deyrnas hon; eto, nid mor hawdd yw gwybod pwy oedd y cenadon a ddygasant y "newyddion da o lawenydd mawr" i'n bro ni. Y dyb gyffredin yw, mai Joseph o Arimathea, yr hwn

* Gild. de Excid. Gent. Britannic. p. 9. Edit. Joss.

a gladdodd Grist, oedd hefyd y cyntaf a'i pregethodd i hen drigolion yr ynys hon. Yr hanes a gawn am ei ddyfodiad yma gyntaf yw hyn: Pan wasgarwyd y Cristionogion, yn yr erlidigaeth hono a sonir am dani yn Act. viii., rhai a aethant i un wlad, ac ereill i wlad arall. Ar hyn o bryd Joseph, Lazarus, Mair Magdalen, Martha, a llawer ereill, a ddaliwyd yn garcharorion gan yr Iuddewon; ac am na fynent eu lladd yn ddisymwth a'u diboeni yn ebrwydd, hwy a osodwyd mewn llong foel, heb na llyw na hwylbren, fel y byddent mewn perygl gwastadol o'u hoedl, naill ai trwy suddo i eigion y dyfnder, neu hwylio ar antur ar hyd y cefnfor a marw o newyn.* Ond Duw, yr hwn sydd noddfa a chymhorth mewn cyfyngder, a fu yn llywydd iddynt, nes tirio o honynt yn iach lawen mewn rhyw gwr o deyrnas Ffrainc.

Yno y cyfarfuasant a Philip yr apostol yn ymresymu a'r Derwyddon, y rhai oeddent yn offeiriaid paganaidd yn Mrydain a Ffrainc cyn amser cred. Ar ol cyfarch eu gilydd, a gorphwys ryw enyd oddiwrth eu lludded, Joseph, a deuddeg gydag ef, wrth annogaeth Philip, a hwyliodd i'r ynys hon. Gan eu bod yn hyddysg mewn amryw ieithoedd, yr oeddent yn deall iaith pob cenedl dan haul: felly hwy a bregethasant i'r trigolion, mewn pur Gymraeg loew, ofered yw delwau ac eilunod; "er fod genau ganddynt, eto ni leisiant; llygaid ganddynt, ni welant; er fod clustiau ganddynt, eto ni chlywant; ac nad oedd ychwaith anadl yn eu genau." (Ps. cxv. 5, 6, 7.) Dangosasant iddynt natur y gwir Dduw, Creawdwr nef a daear, mai Ysbryd anfeidrol o ddoethineb a gallu oedd y Duw mawr tragywyddol. Dangosasant iddynt, mewn Cymraeg lân loew, pa fodd y cwympodd dyn o'r ystad fendigaid a diniwed y crewyd ef ynddi ar y cyntaf, ac mor llygredig a thueddol i ddrwg yw natur dyn fyth wedi hyny. Yna dangosasant yr angenrheidrwydd o ddyfodiad Iachawdwr i wneuthur iawn i gyfiawnder Duw dros bechaduriaid y byd; ac hefyd yr angenrheidrwydd o gael dawn yr Ysbryd Glân i santeiddio eu calonau celyd, a'u gosod mewn undeb a Christ Iesu.

Fe fenodd eu pregethiad gymaint ar Feuric ap Gwawdrydd, brenin coronog Brydain oll, a Choel ei fab, ac Arifog, pen tywysog y llu, fel ar Agrippa (Act. xxvi.), megys i'w hennill o fewn ychydig i fod yn Gristionogion. Ond rhag gwneuthur

* Vide Uss. Britan. Eccles. Antiquit. cap. 2. p. 7, 8, &c. Ed. Lond. 1687.

terfysg yn y deyrnas, (y fath yw syniad y cnawd), glynu a wnaeth y gwŷr mawr hyn wrth grefydd y wlad. Ond y cyffredin bobl, a rhai o'r penaethiaid hefyd, a droisant, amryw filoedd at yr Arglwydd, wrth weled y gwyrthiau ag oedd y cenadon yn wneuthur yn ei enw ef, ac a fedyddiwyd yn wŷr ac yn wragedd. Ac ni bu y brenin, na gwŷr mawr ei lys, yn anfoddlon iddynt; canys heblaw eu gwaith yn caniatâu iddynt ryddid i bregethu yr efengyl yn ddirwystr, y brenin a anrhegodd St. Joseph ag Ynys Afallon, yn nghwr Gwlad yr Hâf; ac i'r lleill y rhoddodd efe dyddyn o dir at eu cynaliaeth, sef cymaint a ardd un aradr mewn blwyddyn.

Joseph ar hyny, wedi llawenychu yn yr Ysbryd wrth weled y fath lwyddiant ar ddechreuad ei weinidogaeth, a adeiladodd eglwys yn y rhandir hwnw a ddygwyddod idd ei ran ef, sef Ynys Afallon, yr hon (od oes coel ar hen draddodiad) a gysegrodd Crist Iesu, er anrhydedd i Fair Forwyn, ei fam. Ac, medd yr hanes yn mhellach, pan oedd Dewi, yr archesgob, ar fedr cysegru yr eglwys hono, rai cannoed o flynyddoedd wedi hyny, fe ymddangosodd Crist Iesu iddo mewn breuddwyd, gan warafun iddo, a'i hysbysu ddarfod iddo ef ei hun ei chysegru hi a'r fynwent. Ond nid yw hon ond chwedl gwneuthur y pabyddion, megys y mae esgob diweddar Caerwrangon wedi ei wneuthur yn amlwg tu hwnt i ammheu neb a fyn ymostwng i reswm ac awdurdod hen ysgrifeniadau.*

Er bod yn yr hanes hon (yn enwedig yn y dechreu a'r diwedd) rai pethau annhebygol, eto nid oes dim achos i wrthod y cwbl; canys felly, nyni a wrthodem y rhan fwyaf o hen hanesion, am fod rhai chwedlau anhygoel yn gymysgedig a hwy. Barn y rhan fwyaf yw, i Joseph o Arimathea ddyfod a phregethu yr efengyl yn yr ynys hon, er bod yr hanes yn gymysgedig a rhai pethau sydd yn sawru yn gryf o goelgrefydd. Ond y mae yn ddilys ddigon i ryw un o'r apostolion, neu un o'r 70 dysgyblion dramwy yma; canys y mae Gildas, fel y nodais o'r blaen, yn tystio yn eglur am yr amser: ac y mae Eos, yr hwn a ysgrifenodd hanes yr eglwys Gristionogol o gylch y flwyddyn 329, yn maentumio yr un peth, er nad yw efe ychwaith yn enwi pwy.† Fe fyn rhai o'r pen dysgedigion fod St. Paul yma hefyd, os nid yn yr un amser, eto ychydig ar ol dyfodiad Joseph. Fe fu St. Paul yn ddi-

* Stillingfleet. Orig. Britanic. c. 1. p. 11, &c.

† Euseb. Demon. Evang. lib. 3. c. 7. p. 113.

ammheu yn yr Yspaen (Rhuf. xv. 24); ac oddiyno y tramwyodd, medd hen athraw,* o un wlad i'r llall, gan ddynwared gyrfa haul y ffurfafen, am ba un y dywedir, "O eithaf y nefoedd y mae ei fynediad allan, a'i amgylchedd hyd eu heithafoedd hwynt." (Psalm xix. 6.) A Chlement a ddywed yn eglurach eto, sef iddo fyned o'r Yspaen i eithafoedd y Gorllewin,† wrth ba eiriau yr ydys yn barnu yn ddiau ei fod ef yn meddwl yr ynys hon. A rhag i neb betruso mewn perthynas i ba wlad a feddylir wrth "eithafoedd y Gorllewin," dywed hen athraw arall, mewn cynifer o eiriau llawn, i St. Paul bregethu yn Mrydain.‡ Dywedir i St. Paul gysegru Aristobulus yn esgob yma, am ba un y mae efe yn crybwyll. (Rhuf. xvi. 10.)§

Heblaw hyn, yr wyf yn myned i adrodd chwedl fawr (ond eto chwedl wir), na chyhoeddwyd eto yn ein hiaith ni: Yr oedd Cymraes, a anwyd ac a fagwyd yn y wlad hon, a llaw yn y gwaith o ddanfon St. Paul yma. Y mae efe yn son am dani yn ei ail epistol at Timotheus (iv. 21), wrth yr enw Claudia, ond ei henw yn nhir ei gwlad oedd Gwladys Ruffydd. Y bendefiges hon a ddycpwyd i Rufain gyda Charadoc Freichfras, y tywysog glew hwnw a ymladdodd gyhyd o amser a gwŷr Rhufain, fel y tystia yr hanes am dano yn y rhan gyntaf. Gwladys Ruffydd a briododd a phendefig urddasol o Rufain, a elwid Pudens, yr hwn oedd un o'r seintiau "o deulu Cesar" (Phil. iv. 22), neu un o lys yr ymherawdwr; ac y mae St. Paul yn son am dano wrth ei enw, pan y mae yn dywedyd, "Y mae Pudens, a Linus, a Chlaudia, yn dy anerch." (2 Tim. iv. 21.) Eu mab hwy oedd Linus, ac efe oedd esgob, ïe, yr esgob cyntaf yn Rhufain,|| neu y pab cyntaf a fu erioed yno, er nad oeddid yn ei enwi felly yn y brif eglwys. Yn awr, gan fod St. Paul mor adnabyddus a hwy, megys mai efe oedd yr hwn a'u hennillodd i fod yn Gristionogion, nid allai Claudia, neu Gwladys Ruffydd, fod yn esmwyth oni chai ei chydwladwyr, y Brutaniaid, wybodaeth o'r grefydd Gristionogol. Ac ar ei thaer ddeisyfiad hi, Paul a gymerth ei berswadio i dramwy o'r Yspaen hyd atynt hwy i Frydain. Felly dyma un bendefiges o Gymru a'i henw wedi ei groniclo yn y Testament Newydd, yr hon oedd a'i sel mor wresog dros

* Hieronym. † Clem. Rom. Epist. ad Corinth. p. 8. ‡ Theod. Tom. 4. Serm. 9. p. 610. § Vide Uss. Brit. Eccles. Antiq. c. 1. p. 5. || Vide Uss. Brit. Eccles. Antiq. c. 1. p. 5.

ogoniant Duw, fel na fyddai yn esmwyth fod o nifer y seintiau, hi a'i theulu yn unig, oni chai ei chydwladwyr, yr hen Frutaniaid, gynyg ar yr un cyflwr dedwydd a hithau.

Gwladys Ruffydd oedd bendefiges o'r fath lendid corff, moesau da, a syberwyd buchedd, fel yr oedd hi yn destyn prydyddion yr oes hono i ganu mawl iddi; ac yn mysg ereill, y mae bardd enwog o'r oes hono yn canu y pennillion hyn:*—

> "Claudia Cæruleis cum fit Ruffina Britannis
> Edita, cur Latiæ pectora plebis habes?
> Quale decus formæ? Romanam credere matres
> Italides possunt, Atthides esse suam."

Yr ystyr yn Gymraeg yw,

> Mae Gwladys Ruffydd gywrain,
> A ddaeth o ynys Brydain,
> Mewn glendid, dygiad, dysg, a dawn,
> Mor llawn a neb o Rufain.
>
> Mor lân ac odiaeth fanol
> Yw ei hwynebpryd grasol!
> Ni wn i fod mewn cwr o'r byd
> Wynebpryd mor rhagorol.
>
> Boed y genfigen wammal,
> Rhwng gwragedd Groeg a'r Eidal,
> Gwladys hi yw eu pen a'u dawn;
> Pa le y cawn ei chystal?

Tybiais nad oedd hyn yn annghymhwys i'w goffâu, am fod tystiolaeth am dani yn yr Ysgrythyr lân, a hithau yn Gymraes o'n gwlad ein hunain.

---

## PENNOD II.

LLES AP COEL Y BRENIN CYNTAF O'R BYD MAWR A DDERBYNIODD Y FFYDD GRISTIONOGOL. ERLIDIGAETH FAWR O ACHOS Y FFYDD YN MRYDAIN. MERTHYRDOD ALBAN. HERESI ARIUS. HERESI MORGAN. DYFODIAD GARMON A LUPAS YMA O FFRAINC. Y FFURF O WEDDI AG OEDD YN Y BRIF EGLWYS YN MRYDAIN.

GAN i'r fath apostol mawr a galluog a St. Paul bregethu yr efengyl yn mysg yr hen Frutaniaid, a'u bod hwythau wedi eu sefydlu mewn egwyddorion crefydd, nid rhyfedd i'r ffydd

* Martial. lib 2. epigram 54.

Gristionogol ymdaenu ar led; ïe, cymaint yr eangodd gair y bywyd, fel nad oedd prin na goror na bro trwy gorff yr ynys, a'r na seinodd hyfrydlais yr efengyl yn mhen ychydig flynyddoedd ynddynt. O gylch y flwyddyn 197, y mae Tertulian, hen athraw dwys o Affrica, yn clodfori ffydd y Brutaniaid, wrth y cynydd rhagorol a wnaeth yr efengyl yn eu mysg. "Y mae y ffydd Gristionogol," eb efe, "wedi treiddio i bob goror o'u gwlad; ïe, y parthau hyny o'r deyrnas nad allai cleddyf y Rhufeiniaid fyth eu darostwng, eto y mae efengyl Crist wedi cyrhaedd yno."* Digon gwir fod Tertulian yn byw mewn gwlad bell iawn o ynys Brydain, ac felly yn dywedyd hyn ar air rhai ereill; eto mae yn rhaid fod yr efengyl wedi ymdaenu yn ddirfawr ar led, cyn bod son am hyny mewn gwlad mor bell ag Affrica. "Mor gadarn y cynyddodd gair yr Arglwydd ac y cryfhaodd!" (Act. xix. 20.)

Yr hanes nesaf ydym yn gael yn nghylch y brif eglwys yn Mrydain yw gwaith Lles ap Coel (a gyfenwir Llefer mawr), brenin ar ran fawr o Loegr, yn troi yn Gristion, o gylch y flwyddyn 160. Dyma y wlad, o holl wledydd y byd, lle y cyflawnwyd gyntaf yr addewid a wnaeth Duw i'r eglwys Gristionogol: "Breninoedd hefyd fydd dy dadmaethod, a breninesau dy fammaethod; crymant i ti a'u hwynebau tua'r llawr, a llyfant lwch dy draed, a chai wybod mai myfi yw yr Arglwydd." (Esai xlix. 23.) Hyn, meddaf, a gyflawnwyd yn Mrydain o flaen un deyrnas yn y byd; canys yma y derbyniodd y brenin cyntaf o holl ardaloedd cred fedydd, a Lles ap Coel oedd hwnw.

Er bod y grefydd Gristionogol, fel y dywedais eisioes, wedi cael meddiant yma a thraw yn mhob congl o'r deyrnas, eto y rhan fwyaf o'r gwŷr mawr oeddent yn glynu o hyd wrth grefydd y wlad, ac athrawiaeth y Derwyddon: ac un achos o hyn oedd, fod y Rhufeiniaid y pryd hwnw a chryn awdurdod ganddynt yn y deyrnas, y rhai oeddent gan mwyaf yn elynion parod i'r grefydd Gristionogol. Ond ar hyn o bryd fe welodd yr Arglwydd yn dda wneuthur arwydd a'r y seiniodd yn groch drwy holl ardaloedd Ewrop; canys pan oedd ymherawdwr Rhufain, a elwid Marc Aurelian, yn rhyfela gyda phobl gelyd a dewrion tua gogledd y byd, y bu hi yn gyfyng ar y Rhufeiniaid o eisiau dwfr, a phrin na threngasant o

* Tertul. advers. Judæos, c. 7.

syched. Yr oedd mwy na haner y llu yn Gristionogion, ac yn wŷr bucheddol a defosiynol: ac felly, y hwy yn llawn o ffydd, a gobaith hyderus ar Dduw, tywallt a wnaethant eu gweddi yn egnïol, ar deilyngu o hono o'i drugaredd yn Nghrist yr Anwylyd, eu gwared hwy allan o'r farwolaeth hono. A gwelodd yr Hollalluog yn dda i ateb eu gweddïau trwy beri i'r cymylau wlawio dwfr, yn discyn i lawer yn bistylloedd, i ddisychedu gwŷr Rhufain, eithr mellt a thân ysol ar eu gelynion.* "Pan geisio y trueiniaid a'r tlodion ddwfr, ac nis cânt; pan pallo eu tafod o syched, myfi yr Arglwydd a'u gwrandawaf hwynt, myfi Duw Israel nis gadawaf hwynt." (Esai xli. 17.) Effeithiodd hyn gymaint ar yr ymherawdwr, Marc Aurelian, fel yr ymddygodd o hyny allan yn dra thirion a hynaws tuag at y Cristionogion; ond ni throes efe ddim yn Gristion ei hun; ond Lles ap Coel, brenin Brydain, ar ol cael gwybodaeth sicr o hyn, ac amryw wyrthiau rhagorol ereill, y rhai oedd Duw yn weled bod yn dda eu gwneuthur er tystiolaeth i wirionedd yr efengyl, a lwyr fwriadodd a chalon ddiysgog, i fwrw ymaith eilunod; a thrwy drugaredd Duw efe a drodd yn wir Gristion.

Er bod Cristionogion ddigon yn ei wlad ei hun, eto efe a fynai gyfarwyddyd oddiwrth esgob Rhufain, yr hon oedd mamddinas Ewrop y pryd hwnw. Ac hefyd, oblegid fod y Rhufeiniaid yn ei amser ef a llaw gref ganddynt yn Mrydain, a bod y fath fasgnach a chymdeithas wastadol rhwng y ddwy genedl, efe a ddewisodd, o ran parch i brif ddinas Ewrop, ddanfon i Rufain. Ond y mae i ni wybod fod athrawiaeth eglwys Rhufain y pryd hwnw, ac yn hir wedi hyny, yn bur, a dilwgr, ac iachus. Nid oedd dim o'r fath beth a phabyddiaeth eto yn un o ardaloedd cred. A ganlyn sydd adysgrif o'i lythyr:—†

"Lles ap Coel, brenin Brydain, at y gwir barchedig dad yn Nuw, Eleutherius, esgob Rhufain, yn anfon anerch:—Mi a oddefais er ys talm flinder ysbryd a chaethiwed meddwl; o herwydd petrus oeddwn pa grefydd a fyddai oreu i mi a'm deiliaid lynu wrthi: eithr yn awr yr ydwyf yn dechreu adnabod truenus gyflwr fy anwybodaeth, fy mod heb wybodaeth o Dduw na'i grefydd. Mi a wn nad all eilunod wneuthur dim; a diammheu yw mai ynfydion yw y rhai sydd yn ym-

* Euseb. Hist. Eccles. lib. 5. c. 5. † Vide Uss. Antiq. Britan. c. p. 27.

ddiried ynddynt. Am hyny, yr wyf yn atolwg arnoch, wir barchedig dad, i ddanfon trosodd i Frydain rai o'ch gwŷr duwiol i'm hyfforddi yn y ffydd a'r grefydd Gristionogol. Byddwch wych."

Enwau y cenadon, y rhai a aethant a'r llythyr hwn at esgob Rhufain, oedd Elwy a Moudhwy, y rhai, os nad oeddent yn Gristionogion cyn myned o'u gwlad eu hunain, y mae yn ddilys iddynt gael eu cadarnhau yn y ffydd wrth ymddyddan a chydfucheddu ryw dalm o amser yn mysg duwiolion Rhufain. Eu croesaw a fu barchedig yno, yn enwedig wrth osod bara y bywyd o'u blaen. Er cymaint oedd o bethau manwl a godidog yno, er cymaint o gywreinwaith a thaclusrwydd celfyddyd, ac er cymaint o ryfeddodau oedd i'w gweled yn y ddinas fawr hono, eto eu difyrwch mwyaf hwy oedd siared ac ymbyncio beunydd a gwŷr dysgedig a duwiol, a darllen hanesion y ffydd. Moudhwy a urddwyd yn ddysgawdwr, ac Elwy a gysegrwyd yn esgob; ac y mae eglwysi yn Nghymru wedi eu cysegru ar ei enw ef, megys Llanelwy, wrth Lanfair yn Muellt, ac y mae tref yn rhandir Caerynarfon a elwir Dinas-mowddwy; ond pa un a gafodd y lle ei enwi oddiwrth y Moudhwy yr wyf yn awr yn son am dano, sydd beth nad allaf ei sicrhau.

Fe ddanfonodd yr esgob gyda hwy i Frydain, ddau wr rhagorol, o'i esgobaeth ei hun, sef Dyfan a Phagan.† A thra yr arosasant yn Rhufain, gwnaethant gydnabyddiaeth a Thimothi, mab arall i Wladys Ruffydd, am yr hon y soniais yn y bennod o'r blaen. Cristion gwresog oedd Timothi, cadarn yn yr Ysgrythyr, ac yn llawn o sel dros ogoniant Duw. Efe a ymwrthododd o'i wir fodd a'i holl ddyrchafiad yn Rhufain; a dderbyniodd urddau, ac a fordwyodd gyda'r lleill i bregethu yr efengyl yn mysg cenedl ei fam; ac oddiar ei law ef y dewisodd y brenin dderbyn bedydd.

Ar waith yr athrawon doniol hyn yn pregethu yr efengyl yn Mrydain, yr holl deyrnas agos a gofleidiodd y ffydd Gristionogol; canys nid yn unig y cyffredin bobl, ond y brenin a gwŷr mawr ei lys, yr arglwyddi ac uchel swyddogion y deyrnas, a dderbyniasant fedydd; a'r tywyllwch a giliodd ymaith, megys niwl yn diflanu o flaen yr haul pan yn llewyrchu yn ei gyflawn rym. Y mae amryw eglwysi yn

* Vide Uss. Brit. Eccles. Antiq. c. 4. 25, &c.

Nghymru wedi eu cysegru i goffadwriaeth Dyfan a Phagan, megys Llandyfan, Llan St. Ffagan.

Yn mhen talm o amser wedi hyny, danfonodd y brenin Lles drachefn genadwri at esgob Rhufain, i ddeisyf cael adysgrif o gyfraith y Rhufeiniaid, modd y llywodraethai efe ei wlad ei hun wrthi; a hyn ydyw yr ateb a dderbyniodd efe gan yr esgob:—

"Deisyfasoch arnaf ddanfon atoch gyfreithiau Rhufain, modd y llywodraethech eich teyrnas o Frydain. Y mae genym le ac achos yn fynych i ganfod beiau yn nghyfreithiau Rhufain, ond nid oes nac amryfusedd na bai yn nghyfraith Duw. Chwi a dderbyniasoch yn ddiweddar, gan rad Duw, gyfraith a ffydd Iesu Grist yn eich teyrnas. Gwneled eich mawrhydi gan hyny, yn nghyd a'ch cynghoriaid, gyfreithiau allan o honynt hwy, fel y gallech, trwy borth Duw, iawn lywodraethu eich teyrnas. Rhaglaw Duw ydych yn eich teyrnas, megys y dywed y prophwyd breninol, 'Eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder, y byd, ac a breswylia ynddo.' (Psalm xxiv. 1.) A thrachefn y dywed yr un prophwyd, 'O Dduw, dod i'r brenin dy farnedigaethau, ac i fab y brenin dy gyfiawnder.' (Psalm lxxii. 1.) Nid yw efe yn dywedyd, 'Barnedigaethau a chyfiawnder ymherawdwr Rhufain.' Meibion y brenin ydynt y bobl Gristionogol, a'ch deiliaid chwi, y rhai a drigent mewn tangnefedd dan eich nawdd a'ch llywodraeth. Megys y 'casgl yr iar ei chywion dan ei hadenydd,' felly y gwna y brenin a'i ddeiliaid. Trigolion Brydain ydynt eich pobl a'ch deiliaid chwi; y rhai os ymranant, eich dyled yw eu heddychu, eu hymgeleddu a'u tywys i'r iawn, a'u hamddiffyn rhag eu caseion. Eich dyledswydd hefyd yw gwneuthur pob peth ag sydd bosibl er iddynt dderbyn ffydd Iesu Grist, a'u meithrin a'u hachlesu yn yr unrhyw.

"'Gwae di y wlad sydd a bachgen yn frenin i ti, a'th dywysogion yn bwyta yn fore.' (Preg. x. 16.) Nid ydys i feddwl, bachgen o ran oedran, eithr o ran ffolineb, drygioni, ac ynfydrwydd; megys y dywed y brenin Dafydd, 'Gwŷr gwaedlyd a thwyllodrus ni fyddant fyw haner eu dyddiau.' (Ps. lv. 23.) Wrth fwyta y deallir y geg; ac wrth y geg, gormodedd; ac wrth ormodedd, y deallir pa beth bynag sydd aflan, gwrthnysig, ac ysgeler; megys y dywed Solomon, 'Nid â doethineb i enaid drygionus, ac ni chyfannedda mewn corff caeth i bechod.' (Doeth. i. 4.)

"Y mae y gair teyrn (hyny yw, brenin) yn hanfod oddiwrth y gair teyrnasu, ac nid oddiwrth y gair teyrnas. Teyrn a fyddwch yn wir, tra y teyrnasoch yn dda; yr hyn oni wnelych, nid ydych gymhwys i'ch galw yn deyrn mwy; yr hyn ni adawo Duw fod. Cynorthwyed yr Hollalluog Dduw chwi i lywodraethu eich teyrnas yn y cyfryw fodd, fel y caffoch deyrnasu gyda Duw yn oes oesoedd."*

Yr oedd yn Mrydain yr amser hwn (ac yn mhell cyn hyny) wyth ar hugain o brif ddinasoedd, megys y mae yr hanes yn y bennod olaf o'r rhan gyntaf; o ba rai Llundain a Chaer-efrog a gyfrifid yn famddinasoedd Lloegr, a Chaerlleon ar Wysg yn famddinas Cymru oll. Yn y tair hyn yr eisteddai, tuag at lywodraethu bob un ei dalaeth, dri pen Derwydd, neu fath o dri archoffeiriad; ac yn y dinasoedd ereill Dderwyddon is eu gradd a'u hawdurdod na'r tri penaf. Wedi i Les ap Coel droi yn Gristion, efe a ddiswyddodd y rhai hyn oll. Yn y tair famddinas, yn lle y Derwyddon digred, efe a osododd archesgobion; ac yn y dinasoedd ereill efe a osododd esgobion. Ond yma y mae yn rhaid addef fod y pen dysgedigion yn barnu nad oes gwirionedd hollol yn yr hanes; † a hyny oblegid nad oedd Lles ap Coel yn frenin ond ar ryw gyfran o'r deyrnas; canys yr oedd y Rhufeiniaid wedi goresgyn trwy nerth arfau, a thrawsfeddiannu rhan fawr, ac nid oedd gan Les ap Coel awdurdod yno. Fod yma esgobion goruwch gweinidogion cyffredin sydd sicr, megys yr oedd y drefn yn wir yn mhob gwlad o gred er amser yr apostolion. Yr oedd yn Nghymru gynt, pan oedd ei therfynau yn helaethach nag yn awr, saith o esgobion; sef esgobion Henffordd, Caerwrangon, Bangor, Llanelwy, Caergybi, Llandaf, a Llanbadarn-fawr, y rhai oeddent oll dan lywodraeth archesgob Caerlleon ar Wysg; canys yno yr oedd archesgobaeth Cymru gynt, ac nid yn Nhyddewi. Esgob Dewi, ewythr y brenin Arthur, oedd yr hwn a symudodd yr archesgobaeth o Gaerlleon ar Wysg, i'r lle a elwid wedi hyny ar ei enw ef, Tyddewi, o gylch y flwyddyn 521. Fe fu Llanbadarn-fawr, yn sir Aberteifi, yn esgobaeth dros rai cannoedd o flynyddoedd, sef hyd o gylch y flwyddyn 999, pryd y rhuthrodd gwŷr y fall yn erbyn eu hesgob, ac a dwylaw anwir a'i lladdasant. Tybir ei fod yn gorwedd yn Llanddewi-brefi, a'r ysgrifen hon ar gareg ei fedd, "Hic jacet

* Uss. Brit. Eccles. Antiq. p. 54. † Goodwin de Convers. Brit. p. 34. Uss. Brit. Eccles. Antiq. p. 55. Stillingfleet's Orig. Brit. p. 78.

Idnert filius——, qui occisus fuit propter pietatem et Sanctitatem." Sef yw hyny, "Yma y gorwedd Idnerth mab—— yr hwn a laddwyd am ei fod yn wr duwiol a santaidd." Tyddewi a fu yn archesgobaeth hyd y flwyddyn o oedran Crist, 1100; yna, trwy drais a cham, hi a gollodd y titl, megys y mae trais yn fynych yn cael y trechaf ar yr iawn.

Ond i ddychwelyd. Ar ol marw Lles ap Coel, y Brutaniaid a gollasant y llywodraeth freninol; oddieithr bod amryw dywysogion ac arglwyddi ag awdurdod yn y cyfryw leoedd nad allai arfau gwŷr Rhufain gyrhaedd atynt. Ond i adael hyny heibio. Nid oes genym ni ddim hanes o hyny allan a dâl ei adrodd am y brif eglwys yn Mrydain, nes yn nghylch pedwar ugain mlynedd ar ol marwolaeth y brenin Lles,* pryd y cyfododd gorthrymwr anhywaeth, a elwid Dioclesian, erlidigaeth dra ffyrnig a chreulon yn erbyn y Cristionogion. Hon oedd yr erlidigaeth gyffredinol ddiweddaf (fe fu naw ereill o flaen hyn) a chyn ffyrniced y merthyrwyd y Cristionogion y waith hon, a phe buasai holl lu daearol ac uffernol yn tywallt ac yn bytheirio eu cynddaredd hyd yr eithaf; canys y gormesdeyrn hwnw, Dioclesian, megys pe buasai wedi ei berchenogi gan leng o gythreuliaid uffern, a fwriadodd ladd pob Cristion byw ar wyneb y ddaear. Ac fel pe buasai wedi gorphen y gwaith, efe a barodd adeiladu colofn uchel, ac argraffu ar y mur, a llythyrenau mawrion, yr ysgrifen gableddus hon:— "Coel-grefydd Crist wedi ei llwyr ddilëu, ac addoliad y duwiau wedi eangu trwy'r byd."†

Yna, rhag bod un cwr o'r byd yn noddfa i'r Cristionogion, efe a anfonodd ei awdurdodol orchymyn, wedi ei argraffu ar bres, at ei swyddogion yn Mrydain, yn erchu iddynt yn gaeth i lwyr ddyfetha a llosgi llanoedd a llyfrau y Cristionogion, ac na adewid papyryn heb ei losgi ag oedd yn cynwys athrawiaeth Iesu Grist, ac yn rhoddi hanes o fywyd y prif Gristionogion. A dyma y pryd cyntaf (gwae ni!) y dyfethwyd ysgrifeniadau yr hen Frutaniaid, gwerthfawrocach nag aur coeth; a hyny oedd o gylch y flwyddyn o oedran Crist 285. Am y Cristionogion y gorchymyn oedd, os hwy a ymwrthodent a'r ffydd yn Nghrist, ac aberthu i'r duwiau, i'w derbyn yn anrhydeddus, a dangos parch a ffafr iddynt; ond os hwy a fyddent gyndyn a gwrthnysig (yn dal yn eu proffes), i'w poeni a'u harteithio,

* Spel. Concil. Brit. p. 37. † Gruter's Inscrip. p. 280.

a'u gosod i farwolaeth, yn y modd creulonaf a fedrent ddychymyg. Ac yn wir ni bu y swyddogion yn ol llaw i gyflawni gorchymyn gwaedlyd eu meistr; canys cyn belled y buont o ddangos trugaredd na ffafr i'r Cristionogion (er nad oedd na bai nac achos yn eu herbyn ond eu crefydd), megys mae eu difyrwch oedd eu trywanu, a'u crogi, a'u llosgi, a'u dadgymalu, a hyny dros yspaid blwyddyn, yn mhob bro ac ardal o'r deyrnas.* Ond fel y mae y tân yn profi y mettel, felly y mae erlidigaeth yn profi y Cristion; oblegid trwy hyny y gwybyddir pa un ai cywir a sefydlog yn y ffydd yw efe, a'i rhith-Gristion ofnus, a dim ond enw a phroffes oddiallan yn unig. A diammheu i ambell newyddian yn y ffydd, y rhagrithwyr, yr anwadal, y rhai llygredig eu buchedd, ymwrthod a'u proffes, er mwyn achub eu heinioes yn y byd hwn, a chael goruchafiaeth yma isod; ond y rhan fwyaf a wrthodasant bob peth—y byd a'i bleserau, ïe, a'u bywydau eu hunain, cyn yr ymostyngent i aberthu i eilunod. Ac o flaen neb arall, St. Alban, dinesydd o Ferolam, blaenor ac arweinydd y lleill sydd yn haeddu y penaf eisteddle yn nghofrestr y merthyron, oblegid efe a ddyoddefodd gyntaf o blaid y ffydd yn Mrydain.

Pan oedd hi yn gyfyng ar y Cristionogion, a'r erlidigaeth eto yn cryfhau beunydd ffyrnicach ffyrnicach, y llettyodd gweinidog duwiol yn nhŷ Alban, yr hwn oedd eto yn Bagan, neu o'r hyn lleiaf, heb fod yn gwbl Gristion. Ond wrth ddal sylw ar ymddygiad santaidd y gwr duwiol, ac wrth glywed ei resymau, efe a ddeallodd yn ebrwydd nad all "y Duwdod fod yn debyg i aur neu arian, neu faen o gerfiad celfyddyd a dychymyg dyn;" ac ar hyny, gan rad Duw, efe a droes yn Gristion. Pan wybu y swyddogion fod y gweinidog hwnw yn dirgellettya yn nhŷ Alban, myned a wnaethant i'w ddal, fel y gallent ei gospi. Ac fel yr oeddent yn myned i chwilio y tŷ, Alban a gymerth y wisg ag oedd yn perthyn i'r gweinidog,† ac wedi ymwisgo a hono, efe a ddywed, "Myfi yw y gwr a geisiwch; wele fi yn barod, dygwch fi at y barnwr." Ond pan welodd y barnwr ddarfod ei siomi, efe a enynwyd o lidiogrwydd: a chan falu ewyn a ffromi, dywedodd wrth Alban, "Yn gymaint ag i ti adael i'r twyllwr hwnw ddianc, a dyfod dy hun yn ei le, wele acw y poenau a gawsai ddyoddef pe cawsid gafael arno; ac oni ymgrymi dithau yn ddiatreg, ac aberthu i'r duwiau, ni bydd

* Vide Pont. Virumn. lib. 5. p. 34. † Gild. Ep. p. 11.

mwy o ffafr i ti nag iddo yntau." Atebai Alban yn wrolwych, "Gwybydd, o farnwr, nad ymgrymaf fi ddim o flaen dy eilunod; canys Cristion ydwyf fi, yn gwasanaethu y Duw byw, Creawdwr nef a daear." Yna y barnwr anhydyn a yrwyd yn saith gynddeiriocach nag o'r blaen, wrth weled bryd diysgog Alban i lynu wrth ei broffes; ac efe a barodd ei fflangellu a mân reffynau, gan dybied y llaesau ei galondid wrth deimlo poen y ffrewyll: ond y gwr duwiol a ddyoddefodd y poen a'r gwaradwydd gyda gwynebpryd siriol, "yn llawen am ei gyfrif yn deilwng i ddyoddef anmharch er mwyn enw Crist." Ar hyny, mewn eithaf llidiogrwydd, gorchymynodd y barnwr dori ei ben.*

Yr oedd rhwng palas y barnwr, a'r lle yr oeddid yn arferol o ddienyddu, afon fawr yn rhedeg a elwid Tafwys: eithr y bont, dros yr hon yr oedd yn rhaid iddynt fyned, ydoedd cyn guled, fel nad elai haner y lluaws drosodd o'r bore hyd yr hwyr; canys tyrfa fawr o bobl, o wŷr a gwragedd, meibion a merched, yn nghylch mil o rifedi, a ganlynasant y gwr duwiol i'r bryn dyoddef, y rhai gan mwyaf oeddent Baganiaid, a chymysg o Frutaniaid a Rhufeiniaid. Ar ol iddynt hwy aros rhyw enyd ar lan yr afon, Alban, ac efe yn hiraethu am y goron o ferthyrdod, a bod gyda Duw, a ddyrchafodd ei olygon tua'r nef, ac a weddïodd a'i holl egni, ac yn ebrwydd y dyfroedd y rhai oedd yn discyn oddiuchod, a safasant yn bentwr, (megys ffrwd yr Iorddonen ar waith Joshua a'r Israeliaid yn myned trwodd) yn gymaint ag iddynt fyned drosodd oll ar dir sych.†

Ar hyn y dienyddwr, wrth weled y fath ryfeddod tra rhagorol, yn mhell tu hwnt i allu dyn, oni bai fod Duw gydag ef, a drodd o fod yn flaidd yn oen llariaidd; ac a daflodd oddiwrtho ei gleddyf gwaedlyd, yr hwn oedd efe yn ddwyn yn noeth yn ei law, ar fedr tori pen Alban, ac a ddyoddefodd ferthyrdod gydag ef: "Yr hwn," ebe'r hen athrawon, "er na chafodd ei fedyddio a dwfr, eto a fedyddiwyd yn ei waed ei hun." Ac am y lleill, sef y gwŷr a'r gwragedd, &c., yn nghylch mil o rifedi, hwy a arteithiwyd a'r fath ddygn boenau yn eu haelodau, fel pe buasid yn eu pigo a'u gwanu a nodwyddau dur, yn gymaint ag iddynt gael eu dwysbigo hefyd yn ei cydwybodau, a throi yn Gristionogion. Ni ddychwelasant

* Bed. Hist. Eccles. lib. 1. c. 7. † Sicco ingrediens pede. Gild. p. 11.

hwy ddim i Ferolam yn eu hol, gan fod y ddinas yn llawn o'r rhai digred gwaedlyd; eithr rhai o honynt a grwydrasant i leoedd anial, ereill a dramwyasant i Gymru, yn enwedig i wlad Fynwy, tua Caerlleon ar Wysg, fel y caffent eu haddysgu yn well mewn egwyddorion crefydd. Ond yno hefyd, yn yr anialwch ac yn Nghymru, y canlynodd eu caseion hwynt, yr erlidwyr gwaedlyd, a'r rhan fwyaf o honynt a ferthyrwyd. Y fath oedd sicrwydd eu gobaith, megys nad allai nac angeu, ïe, yn y dull ffyrnicaf, na holl chwerwder digasog eu herlidwyr, na holl "bicellau tanllyd y fall," ddadymchwel eu ffydd, neu beri iddynt wadu eu crefydd. Dywedir eu bod, yn nghanol y poenau creulonaf a fedrai malais eu gelynion ddychymyg, yn gorchymyn eu heneidiau i Dduw mewn hymnau o fawl, ac mewn odlau o ddiolchgarwch i Grist am eu barnu yn deilwng i ddyoddef drosto.*

Ond i ddychwelyd at St. Alban, blaenor ac arweinydd y lleill. Wedi ei ddyfod ef, a'r lluaws oedd yn ei ganlyn, i'r bryn dyoddef, y dienyddwr, fel y dywedais o'r blaen, wrth weled y gwyrthiau, a drodd yn Gristion; ac ni fynai, er ennill yr holl fyd, dori pen y gwr duwiol. Ac yn wir, oni buasai rhag ofn y barnwr annhrugarog, prin y cawsid un mor ddideimlad a gwneuthur y peth. Ar eu gwaith yn ymddadlu a'u gilydd, Alban a rodiodd yn ddigyffro, a gwyneb siriol, yn nghyda'r dyrfa ag oedd yn ei ganlyn, i ben twyn araul gerllaw, yn llawn o arogl peraidd llysiau a choedydd; ac megys y sychodd yr afon ar ei waith yn gweddïo, ryw ychydig oriau o'r blaen, felly yma y tarddodd ffynnon o ddwfr, pur loew a rhedegog, ar ei waith yn gweddïo eilwaith i ddisychedu ei ganlynwyr. Ar ol aros yno awr neu ddwy, dienyddwr arall, mab y fall, er mwyn haeddu ffafr y barnwr gwaedlyd, a gymerth y gwaith mewn llaw; ond ni bu iddo ond gwobr tlawd o'i ryfyg; canys ar ei waith yn tori pen y gwr santaidd, y neidiodd ei ddau lygad o'i ben yntau yn yr un mynyd.† Fe ddywedir i golofn o oleuni dysclaer ymddangos y noson hono, a bod angylion rhai yn discyn i waered, ereill yn escyn i fynu, ac yn canu hymnau a mawl i Dduw; ac yn mysg pethau ereill, yn dywedyd, "Alban, gwr godidog, merthyr clodfawr enwog." Efe a ddyoddefodd ar yr ugeinfed dydd o fis Mehefin, yn y flwyddyn o oedran Crist 285. Fe fu gynt eglwys fawr

* Uss. Brit. Eccles. Antiq. p. 84. † Bed. Hist. Eccles. lib. 1. c. 7.

odidog, ac o adeilad rhagorol (megys mai efe oedd cynferthyr Brydain) wedi ei chysegru ar ei enw ef yn nhref Ferolam, lle ei enedigaeth. Y mae yn awr yn sefyll dref o'r enw St. Alban, tu hwnt i Lundain.

Nid oes genym ni enwau ond tri neu bedwar ychwaneg heb fyned ar goll, sef Julius, Aaron, ac Amphibal, y rhai oeddent ddinasyddion Caerlleon ar Wysg, lle y bu dwy eglwys gynt wedi eu cysegru i goffadwriaeth y ddau gyntaf; ac Augulius, esgob Llundain, yr hwn hefyd a ddyoddefodd ferthyrdod y pryd hwn. Ond y mae yn ddiammheu i filoedd a miloedd o bob gradd ac oedran ddyoddef; canys heblaw y mil a soniwyd am danynt eisioes, y mae Gildas yn mynegi i lawer iawn o wrrywaid a benywaid, ddyoddef mewn amryw barthau o'r deyrnas, a hyny a chalondid a weddai i filwyr Crist, er na wyddom ni ddim o'u henwau. Ac felly mi a derfynaf y testyn gwaedlyd hwn yn ngeiriau gwr duwiol, yr hwn a ddywed yn y wedd hon: "Yr olaf a fu y greulonaf o'r erlidigaethau oll, yr hon a barhaodd yspaid deng mlynedd (nid yn Mrydain, ond mewn gwledydd ereill), yn llarpio cyrff pobl Dduw. Yn mha dymhestl yr holl fyd ydoedd wridog gan waed y merthyron santaidd a dywalltwyd. Yno y gwelsid torfeydd gogoneddus yn brysio mewn gorfoledd i'w merthyru. Ie, yr oeddent y pryd hwnw yn fwy awyddus, pe byddai bosibl, i dderbyn coron o ferthyrdod, nag y maent yn awr yn ceisio esgobaethau a goruchafiaeth yn yr eglwys. Ni laddwyd mewn rhyfel erioed gymaint o filwyr ag a ferthyrwyd o seintiau Duw yn yr erlidigaeth hon; ac ni bu ychwaith gymaint o achos gorfoledd i ninau na phan ddygasom angerdd eu cynddeiriogrwydd uffernol dros ddeng mlynedd; ac er hyny, nid yn unig heb ein gorchfygu, eithr yn cynyddu ac yn llwyddo fwy-fwy."*

Wedi i'r gormesdeyrn annhrugarog, a'i swyddogion cïaidd, o'r diwedd flino lladd a llosgi, a dienyddu Cristionogion, neu yn hytrach o herwydd fod yr ymherawdwr chwerw ac atgas yn gweled na thyciai ei waith i ddilëu Cristionogaeth, a chael ei hun ei addoli a'i gydnabod yn Dduw (megys mai hyny oedd ei fwriad a'i amcan ar y cyntaf),† efe a ddiddymodd y gorchymyn gwaedlyd, ac a roddes ryddid i'r Cristionogion wasanaethu Duw, megys yr arferent, yn ddirwystr. Ac yna,

* Sulp. Sever. Hist. Sac. lib. 4. p. 302. † Vide Stillingfl. Orig. Brit. p. 70.

fel na byddo ganddo awdurdod mwyach i'w cospi, efe a ymwrthododd o'i wirfodd a'i awdurdod oruchel, ac a aeth ar encil megys o olwg y byd, i ryw gwr neu gilfach ddirgel, lle y treuliodd efe y rhan ddiweddaf o'i fywyd yn bendrist ac yn synfeddylgar, mewn gerddi a pherllanau (lle rhy dda iddo). Ond ar ol dirdynu bywyd anesmwyth, gyda cholyn cydwybod euog, dros naw mlynedd, y dygwyddodd i rai o uchel swyddogion Rhufain sori wrtho; ac yntau, rhag cael marwolaeth gywilyddus gyhoedd, a gymerth gwpanaid o wenwyn marwol: ac a aeth, gyda Suddas, "i'w le ei hun."* Ar ei ol ef, y daeth yn ei le ŵr rhadlon, tirion, a hynaws, a elwid Custeint, yr hwn a briododd y dywysoges Elen, merch Coel Codebog, o Frydain; ac o honi hi y ganwyd Cystenyn Fawr, yr hwn oedd y cyntaf o holl ymherawdwyr Rhufain a dderbyniodd ffydd Crist. Yr oedd ei dad hefyd yn ffafrio y Cristionogion, ac eto heb fod yn gwbl Gristion. Efe a wnaeth bob peth ag oedd yn ei allu i attal yr erlidigaeth, ond y gorthrymwr anhywaeth, yr ymherawdwr Dioclesian, a fynai gael ufudd-dod dinag i'r hyn oedd efe yn ei orchymyn. Ond er hyny, trwy ei awdurdod ef yn Mrydain (canys rhaglaw dan yr ymherawdwr oedd efe ar y cyntaf), ni pharhaodd yr erlidigaeth ond yn nghylch blwyddyn neu flwyddyn a haner yn Mrydain, er iddi barhau yn ddiarbed ddeg o flynyddoedd mewn gwledydd ereill.

Cyn myned rhagof i ddangos y damweiniau a ddygwyddasant mewn perthynas i grefydd, wedi yr erlidigaeth hon, ni allaf amgen na dywedyd ychydig yn nghylch enllib rhai dynion a daerent yn erbyn y gwirionedd goleu, i Gristionogaeth lwyr ddarfod yn Mrydain, nes i'r pab Gregori anfon Awstin Fonach i bregethu yr efengyl yn mysg y Saeson. Eithr y gwirionedd yw hyn: math o sel gau dywell, a chariad disail at bab Rhufain a phabyddiaeth, yw gwreiddyn hyn o chwedl. Canys a ddileuid Cristionogaeth mewn cyn byred amser megys a phigiad draen, yn Mrydain, pan nad allai y poenau creulonaf, dros gyhyd o amser, mewn gwledydd ereill, roddi codwm iddi? Y mae yn hysbys i bawb fod deg o erlidigaethau gwaedlyd a diarbed, mewn amryw wledydd, yn y tair oes gyntaf; ac eto fe ddywedir fod y Cristionogion yn cynyddu yn hytrach nag yn lleihau. Yr oedd gwaed y

* Sext. Aur. vict. p. 459.

merthyron yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed, ac megys yn adgynydd i'r eglwys.* Ond yn Mrydain ni bu ond un erlidigaeth, a hyny dros nid ychwaneg o amser na blwyddyn a haner. Atolwg, a fuasai yr un hono yn dilëu a llwyr ddiwreiddio y grefydd Gristionogol allan o Frydain, pan fethodd y deg mewn gwledydd ereill? A oedd yr hen Frutaniaid cyn lesged a hyny ac mor barod i gilio ymaith? Nac oeddent ddim; canys,

1. Yr ydym yn cael hanes fod esgobion Brydain mewn amryw gymanfeydd a gynaliwyd o amser bwy gilydd ar achosion, cyn dyfodiad Awstin Fonach i Frydain, i bregethu i'r Saeson. Bu tri o'n harchesgobion ni yn y gymanfa fawr a gynaliwyd yn y flwyddyn o oedran Crist 314, yn Ffrainc; sef Ifor, archesgob Caerefrog; Rhystyd, archesgob Llundain; a Brawdol, archesgob Caerlleon ar Wysg, yr hon ddinas oedd yn yr amser gynt yn un o'r rhai penaf yn y deyrnas o ran gwychder, taclusrwydd, a maint ei hadeilad.† Ei sylfeini cyntaf a osodwyd yn amser Beli ap Dynwal Moelmud, yr hwn a ddechreuodd ei deyrnasiad o gylch pedwar cant o flynyddoedd cyn geni Crist. Llundain hefyd oedd archesgobaeth yn yr amser gynt, ac a barhaodd felly nes i Awstin Fonach symud yr archesgobaeth i Gaergaint, lle y mae hi eto yn aros.

Yr oedd saith esgob dan archesgob Caerefrog; saith dan archesgob Caerlleon ar Wysg; a phedwar ar ddeg dan archesgob Llundain, oblegid fod hono ddau cymaint ag un o'r ddwy ereill. Felly yn gymaint a bod yma y fath nifer o esgobion ac archesgobion, gyda pha wyneb y gall neb daeru i'r grefydd Gristionogol ddarfod am dani yn Mrydain, ar ol yr erlidigaeth uchod nes dyfod Awstin Fonach at y Saeson? Ond nid gwaeth gan y rhai hyny beth a ddywedont, lle mae gormod o sel frwd a disail at y pab a phabyddiaeth.

Yn gymaint a bod canonau y gymanfa hono yn egluro ryw ychydig yn nghylch y drefn eglwysig yn Mrydain, mi a ychwanegaf yma rai o honynt. Gorchymynwyd yno, "1. Na ddylai un esgob drin y pethau a berthyn i esgobaeth un arall. 2. Na ddylai archesgob gysegru esgob arall, heb gymeryd saith o esgobion gydag ef, os byddai cynifer a hyny o fewn ei dalaeth ef; os amgen, tri a wasanaethai. 3. Y dylai

* Martyrum Sanguis, Semen Ecclesiæ. † Girald. Niner. Cambr. lib. 1. c. 5. p. 107.

yr offeiriad hwnw gael ei esgymuno yr hwn a fyddai yn euog o ocraeth ac usuriaeth. 4. Na ddylai diaconiaid gysegru y bara a'r gwin yn y cymun. 5. Y dylid attal rhag y cymun, dros ryw encyd, y gwragedd ieuainc a briodent rai digred. 6. Y dylid attal y sawl a ddygent gamdystiolaeth yn erbyn eu cymydog, rhag dyfod at fwrdd yr Arglwydd. 7. Na chai y neb a esgymunid mewn un lle ei ollwng yn rhydd mewn lle arall. 8. Na chai un gwrthgiliwr ei dderbyn i gymundeb ar ei glaf wely; ond y dylid oedi yr amser, i gael gwybod a oes ynddo wir edifeirwch a gwellhad bywyd. 9. Na ddylid ail-fedyddio y sawl a fedyddiwyd o'r blaen yn enw y Drindod fendigedig."*

Ac nid yn y gymanfa uchod yn unig, ond yn mhob cymanfa agos a gynaliwyd yn ngwledydd y gorllewin, sef yn yr Eidal, yr Yspaen, a Ffrainc, y bu ein hesgobion ni o Frydain yn eistedd ac yn rhoddi eu barn. Mewn cymanfa fawr a gynaliwyd yn y flwyddyn 359, yn yr Eidal,† bu ein hesgobion ni cyn enwoced, o ran dysg a dawn, a neb a ddaeth o un wlad arall pa bynag. Pan ewyllysiodd yr ymherawdwr eu cadw hwy yno ar ei draul ei hun, gan fod amryw o honynt wedi dyfod o wledydd pell, ein hesgobion ni o Frydain, gyda pharch dyledus i'r ymherawdwr am ei gynyg da, a wrthodasant ei rodd; ond tri o honynt, y rhai oeddent yn lled ysgafn o gynysgaeth, a dderbyniasant y cynyg, rhag bod yn gormesu ar ereill.‡ Digon gwir fe wnaethpwyd rhai canonau yn y gymanfa uchod ag sydd yn arogli yn gryf o heresi Arius, yr hwn oedd yn gwadu Duwdod Crist Iesu; ac yr oedd yr ymherawdwr ei hun (sef Custeint mab Cystenyn Fawr), wedi ei lygru yn anfad a'r dyb gyfeiliornus hono; eto nid oedd yr holl esgobion agos wedi eu llygru. Ac yn mysg ereill, gellir barnu fod ein hesgobion ni yn iachus o ran y ffydd, oblegid fod hen athrawon yn tystio fod eglwys Brydain, o gylch yr amser hwnw yn iawn-ffyddiog, fel yr wyf yn awr ar ddangos.

2. O gylch y flwyddyn 380, yr ysgrifenodd Chrysostom, neu Ioan Aurenau; ac efe a ddywed fel hyn:—"Tafodiaith y Brutaniaid sydd yn drwsgl erchyll; ond y maent yn seinio yn hyfryd yn eu barn yn nghylch crefydd; yno y maent yn beraidd ac yn gywir. Eu hiaith yn wir sydd wrthun hagr arw, ond eu moesau sydd lariaidd a santaidd."§ Yr oedd efe yn barnu fod eu hiaith yn drwsgl ac yn annghywir, am nad

* Sismond. Concil. p. 9, 10, 11. † Concilium Arimmense.
‡ Sulp. Sev. Hist. Sac. lib. 2 § Chrys. Op. t. 8. p. 111.

oedd efe yn ei deall; ac felly yr oedd y Groegiaid yn barnu am bob iaith annghydnabyddus; ond er hyny y mae efe yn dwyn tystiolaeth eu bod hwy yn gywir ac union-gred yn y ffydd yn Nghrist. A chyn ei amser ef y mae y tad duwiol hwnw, St. Athanasius, yn crybwyll am ffydd y Brutaniaid, mewn llythyr a ysgrifenodd efe o gylch y flwyddyn 363, at yr ymherawdwr a elwid Jofian, yn y geiriau hyn :—"Gwybydd, gan hyny, yr ymherawdwr caredicaf gan Dduw, ddarfod pregethu y ffydd hon yn mhob gwlad, a thalaeth, a theyrnas, er pan ddyrchafwyd Crist i'r nef, yr hon a sefydlodd y teidiau, yn nghymanfa Nicæa, yn y flwyddyn 325. Y mae yr holl eglwys gatholic yn ei derbyn yn yr Yspaen, yn MRYDAIN, yn Ffrainc, yn yr Eidal, &c."* Y dystiolaeth hon sydd brofiad diammheuol o gysondeb y ffydd yn Mrydain, megys y sefydlwyd egwyddorion crefydd gan holl esgobion cred yn Nicæa, ac a faentumir hyd heddyw gan holl eglwysi Crist, ac yn mysg ereill gan eglwys Loegr, megys y gellir gweled yn ngwasanaeth y cymun.

Fe gyfarfu o bob gwlad a theyrnas, wrth arch yr ymherawdwr Cystenyn Fawr, ychwaneg na thri chant o esgobion i'r gymanfa fawr ac enwog hono a gynaliwyd yn y flwyddyn 325, yn Nicæa, dinas yn Asia Leiaf. Ond y mae y gofrestr o enwau yr esgobion hyny wedi myned ar goll;† ac felly nid oes dim goleu-fynag hysbys pa un a oedd yno esgobion o Frydain ai nad oedd. Hyn a wyddom yn sicr, sef i'r ymherawdwr ddanfon at bob gwlad a thalaeth dan ei lywodraeth, i'w gwahodd hwy a holl esgobion cred i ddyfod yn nghyd i sefydlu egwyddorion crefydd yn erbyn rhuthr geugred Arius, yr hyn oedd newydd dori allan. Ac wrth ystyried mai gwr o Frydain oedd Cystenyn ei hun, ei eni a'i fagu yma, a'i fod ef yn eu galw yn nghyd o bob talaeth o fewn ei lywodraeth, prin, ïe, prin iawn yr ydoedd yn bosibl ei fod ef yn annghofio gwŷr ei wlad ei hun. Ac erbyn hyny, ni a allwn sicrhau fod esgobion o Frydain yn mysg ereill yn gwneuthur Credo Nicæa.‡

Nid yw angen na gwastraffu geiriau i brofi fod y Brutaniaid yn Gristionogion, neu ran fawr o honynt o'r hyn lleiaf, ar ol yr erledigaeth a soniwyd am dani, a chyn dyfodiad Awstin Fonach i bregethu i'r Saeson. Canys y mae Gildas, yr hynaf o'r wlad hon a ysgrifenodd yr hanes, yn adrodd fel y canlyn,

* Theodor. Hist. Eccles. lib. 3. c. 3. p. 640. † Socrat. Hist. Eccles. lib. 1. c. 9. ‡ Vide Stillingfl. Orig. Brit. p. 89, &c.

nid amgen:—"Ar ol i'r ystorm echrydus barhau yn agos i ddeng mlynedd, yna, wedi darfod am yr ymherawdwr a'i swyddogion, y darfu hefyd am ei orchymyn gwaedlyd i ferthyru y Cristionogion. Ar hyn, y rhai oedd wedi ymguddio yn yr anialwch, mewn ogofau, ac yn nghilfachau y creigydd, a ddangosasant eu penau drachefn ar gyhoedd; ac megys wedi hirfaith auaf-nos a fwynhasant a golygon siriol y wawr gysurus, a'r goleuni hyfryd yn tywynu arnynt. Yna (y dymhestl yn awr wedi tawelu) yr adgyweiriant y llanoedd a fwriasid i lawr, adeiladant o newydd eglwysi i goffadwriaeth ac enwau y merthyron a ddyoddefasant yn amser yr erledigaeth, a chwi a'u gwelwch yn awr, megys yn taenu ar led eu banerau, yn arwydd o oruchafiaeth. Y dyddiau gwylion a gadwant, a'u gweddïau a offrymant i Dduw o galonau a geneuau didwyll. A phob aelod i Grist sydd yn cyrch-neidio o lawenydd, yn gymaint a'i fod yn awr yn gynhes yn arffed yr eglwys, megys yn arffed ei fam."*

Deallwn wrth eiriau Gildas nad yw cysegru llanoedd er coffadwriaeth i'r merthyron ddim yn ddychymyg ofergoelus, nac yn y mesur lleiaf yn ddarn o babyddiaeth; canys nid oedd dim o'r fath beth a chyfeiliorni pabyddiaeth y pryd hwnw yn un cwr o'r byd Cristionogiol, nac amser da ychwaith ar ol bod Gildas yn dywedyd fod Cristionogion Brydain yn cysegru llanoedd er anrhydedd i'r merthyron; nac offeren, na phurdan, nac addoliad y seintiau, nac un peth ofergoelus arall. Ac am hyny y mae genym bob rheswm i farnu fod yr arfer ganmoladwy o gysegru llanoedd yn meddiant y brif eglwys er amser yr apostolion. Yr ydys yn barnu mae Gwyl y Merthyron, neu yr wyl oedd y prif Gristionogion yn gadw er coffadwriaeth i'r seintiau a ferthyrwyd, neu fel y dywedwn ni yn gyffredin, Gwyl Mabsant,† y mae Gildas yn feddwl pan yn dywedyd fod yr hen Frutaniaid yn cadw dyddiau gwylion wedi cael seibiant ac esmwythder ar ol yr erledigaeth. Canys, fel yr oeddid yn cysegru llanoedd ar eu henwau, felly hefyd y pennodwyd y dydd y merthyrwyd hwy arno yn ddydd gwyl bob blwyddyn, er annog y rhai byw i'w canlyn yn eu aidd a'u cariad diysgog at yr Arglwydd. Yr wyl hon a gedwid yn ddifrifol yn y brif eglwys, a bod yn absenol o'r llan y dwthwn hwnw, a gyfrifid yn egeulusdra tra mawr, a dibrisdod

* Gild. Ep. p. 11, 12. † "Mybr y sant" (Memoria martyrum), medd Mr. Rowland, yn ei Hanes o Ynys Môn. Mon. Antiq. p. 190.

ar grefydd. "Yr ydym ni," ebe un o'r hen deidiau, "yn cadw dydd coffadwriaeth i'r seintiau a ferthyrwyd o achos y ffydd, gan orfoleddu yn y gorphwysdra nefol a gawsant gyda Duw, er eu cystuddio yma isod. Nid ydym ni yn cadw gwyl y dydd y ganwyd hwy, gan mai hwnw oedd dechreuad eu trallod a'u profedigaethau; ond dydd eu marwolaeth, gan mai hwnw oedd yn gosod terfyn ar eu blinderau, ac yn eu trosglwyddo i lawenydd dibaid."* Y mae holl hen athrawon y brif eglwys yn crybwyll yn nghylch yr wyl hon, ac yn sicrhau fod yr holl Gristionogion union-gred yn ei chadw yn eu hamser hwy, ac er dyddiau yr apostolion.

Wedi gweled na ddarfu am Gristionogion yn Mrydain, a bod yn ddilys fod y naill ran o'r Brutaniaid yn Gristionogion (canys ni allwn sicrhau eu bod hwy agos eu gyd), a gweled hefyd eu bod yn iawn-ffyddiog, ni a awn rhagom i weled eu gwrthgwymp oddiwrth yr hen ffydd union-gred. Mater garw yn wir yw hwn, a chethin; a gwaith

"Anhyfryd yw trin efrach,
Wedi'r hyfryd bur-yd bach."

Ond gan i'r fath beth ddygwydd, ac i'r gelyn hau y fath hadau gwenwynig yn ein bro, cyflëus yw chwilio allan eu hanain. Ac fel hyn y bu y mater:—

Gwr a elwid Arius, offeiriad o Alecsandria, dinas fawr o'r Aipht, a chwennychai ymddyrchafu a myned yn esgob: ond gan nad allai ddwyn ei amcan i ben, y gwr a sorodd, a ddigiodd, ac a chwerwodd; ac efe yn rhy lawn o hunan, a lwyr fwriadodd fod yn enwog ryw ffordd arall, ïe, a phe byddai hono yn arwain i ddystryw. Dyn oedd efe o ymadrodd ffraeth, yn rhugl ei dafod, mewu rhith yn ymddangos yn frwd ac yn wresog dros grefydd, ac eto yn eofn ac yn haerllug. Ar y cyntaf nid oedd efe ond manson yn ddirgel wrth ei ddilynwyr; yna, yn lled ofnus, ar gyhoedd; ond o'r diwedd, efe a daerodd yn ngwydd y byd, "Nad oedd Crist Iesu yn unig ond gwr o brophwyd a ddaeth oddiwrth Dduw; nad oedd efe ddim yn Dduw a dyn; nad oedd efe ddim yn Dduw o sylwedd y Tad, wedi ei genedlu cyn yr oesoedd; ac y gallasai ef o hono ei hun fod yn feius, a phechu gystal a gwneuthur da."† Fe

* Expos. in Job. tom. 2. lib. 3. p. 39. Vide Eus. Hist. Eccl. lib. 4. c. 15. Tertull. de Coron. Milit. p. 102. c. 3. † Suo lebero arbitrio vitii et virtutis capax. Sozom. Hist. Eccles. lib. 1. c. 14. p. 18.

wnaeth hyn derfysg ac ymyraeth greulon yn holl ardaloedd cred; canys er nad oedd dim pryder o ddadymchwel ffydd y sawl ag oedd wedi ei hiawn addysgu mewn egwyddorion crefydd, eto yr oedd digon o rai cecrus, digon o rai doethion yn eu bryd eu hunain, digon o rai ag oedd yn chwennych myned yn athrawon newydd; ac yn mysg y rhai hyn yr oedd hi yn athrawiaeth felus. A hyn a fu yr achos a wnaeth i Gystenyn Fawr, yr ymherawdwr clodfawrusaf yn y byd, alw yn nghyd yr esgobion o bob talaeth i gyfarfod yn Nicæa, dinas o Bithania, yn Asia, lle yr ymgynullodd tri chant ac ugain; ac yn mysg ereill, esgobion Brydain, i sefydlu gwirionedd crefydd yn erbyn gau athrawiaeth Arius.

Tra y bu ein cydwladwr tra galluog, Cystenyn Fawr, yn nhir y byw, ni feiddiodd yr heresi ysgeler nofio o du draw i'r môr yma i Frydain; nac yn amser ei fab ychwaith, er iddo ef ei hun, digon gwir, wneuthur llongddrylliad o'i ffydd, a throi yn heretic; oblegid mai dyn meddal, llaith, penchwiban, ac anwadal oedd efe, er ei fod yn ŵr mawr. Ond o gylch y flwyddyn 380, Grasian a goronwyd yn ymherawdwr Rhufain, gwr esmwyth a thawel; ac o'i wiriondeb efe a gymerth ei ddarbwyllo i gyhoeddi gostegion drwy bob goror, gwlad, a thalaeth, "fod gan bob un ryddid i ddilyn yr opiniwn a fynai mewn materion crefydd."* Ni wnaeth hyn ond agoryd drws i bob amryfusedd, a chabl, a rhyfyg. Yn awr yn ddilys y daeth i ben, y rhan hono o'r Ysgrythyr, "Bydd o hyn allan pump yn yr un tŷ wedi ymranu, tri yn erbyn dau, a dau yn erbyn tri. Y tad a ymrana yn erbyn y mab, a'r mab yn erbyn y tad; y fam yn erbyn y ferch, a'r ferch yn erbyn y fam; y chwegr yn erbyn ei gwaudd, a'r waudd yn erbyn ei chwegr." (Luc xii. 52, 53.) Yn awr, dyma yr amser y tramwyodd heresi Arius gyntaf i Frydain, sef o gylch y flwyddyn 381, pan oedd rydd i bob drel, a phob llencyn coegfalch i fytheirio allan y cabl a fynai, a hyny yn ddigerydd ac yn ddigosp. Fe all dyn dybied mai prin y gallasai y fath athrawiaeth ddygymod a chylla Cristion a ŵyr ddim am natur yr iachawdwriaeth a bwrcasodd Crist; eto, hoffed yw natur lygredig dyn i bethau newydd, fel nad oedd ond prin na bro nac ardal o fewn i gred, oni wenwynwyd rhai eneidiau anwadol ganddi. Y mae yn beth rhyfedd hefyd, na buasai ystyried y dyben echrydus y daeth Arius iddo,

* Socr. Hist. lib. 5. c. 2. Sozom. lib. 7. c. 1.

ddim yn effeithio ac yn cyffröi rhywfaint ar feddyliau dynion; canys, ac efe yn myned i esmwythâu ei gorff, y torodd yn ei ganol, a'i holl ymysgaroedd a dywalltwyd allan yn gyfan-gwbl, megys y daeth i Suddas Fradwr, ei frawd-ffydd o'r blaen.* Ond er hyn oll, yr athrawiaeth wyrgam a dinystriol a dderbyniwyd i mewn ac a roesawyd yn mhalasau breninoedd ac ymherawdwyr, a chan ormodedd o wŷr eglwysig o bob gradd (mwyaf oedd eu hanras), y rhai oedd yn dysgwyl codiad oddiwrthynt, a'u golwg yn unig ar ogoniant y byd. Ie, fe ddywedir i esgob Rhufain (Liberius oedd ei enw) ymlygru, a dodi ei law wrth ysgrifen, ei fod efe yn cyduno ag athrawiaeth Arius:† er na fyn y pabyddion arddel hyny; yr hyn sydd ddangosiad eglur (yn mysg cant o bethau ereill) ei fod ef mor dueddol i gamsyniadau a neb arall.

Y gau egwyddorion hyn a wnaethant fwy o niwed o lawer na'r erledigaeth greulonaf. Canys y mae heresi, hyny yw, gwadu neu gyfeiliorni mewn un egwyddor reidiol i iachawdwriaeth, yn arwain yn bendramwnwgl i golledigaeth a dystryw, a'r ffordd fawr i uffern. Ac oblegid hyn y mae Paul yn rhybuddio Titus, gan ddywedyd, "Gochel y dyn a fyddo heretic, wedi un ac ail rybudd, gan wybod fod y cyfryw wedi ei wyrdroi, ac yn pechu, gan ei fod yn ei ddamnio ei hunan." (Tit. iii. 10, 11.) Ond merthyrdod (er ei fod yn chwerw i gig a gwaed, ac yn brofiad tanllyd) sydd yn trosglwyddo y Cristion o drueni y bywyd hwn i'r gogoniant tragwyddol uwchben. "Y neb sydd yn cael ei einioes, a'i cyll; a'r neb a gollo ei einioes o'm plegid i a'i caiff hi," ebe ein Hiachawdwr. (Mat. x. 39.) Ac o herwydd i'r hen Frutaniaid gyffröi yr Hollalluog, a'i ddigio, ar eu gwaith yn anmharchu ac yn dianrhydeddu yr ail Berson o'r Drindod fendigedig, "Duw a'u rhoddes hwynt i fynu i feddwl annghymeradwy, i wneuthur y pethau nid oedd weddaidd: wedi eu llenwi a phob annghyfiawnder, godineb, anwiredd, cybydd-dod, drygioni; yn llawn cynfigen, llofruddiaeth, cynhen, twyll, drwg anwydau." (Rhufeiniaid i. 28, 29.) "Crist a farna y cyfryw rai a wnant heresiau a rhwygiadau yn yr eglwys," ebe Irenæus, hen athraw godidog, "y rhai ydynt ddynion creulon, heb ddim cariad at Dduw, eithr yn parchu elw, a'u budd eu hunain o flaen undeb yr eglwys. Y rhai hyn, am bob achosion bychain a distadl, a rwygant ac a

* Sozom. Hist. Eccles. lib. 2. c. 28.

† Vide Crakanth. Advers. Archiep. Spalat. c. 4. p. 19.

wahanant gorff gogoneddus Iesu Grist (sef yr eglwys gatholic), a phe byddai yn eu gallu, a'i dinystrient. Y rhai hyn a ddywedant eiriau heddwch, a siaredant yn dêg, ond eu hamcan a'u bwriad yw gwneuthur ymrafael a therfysg."* "Y diawl," medd hen athraw arall, "yw awdwr heresiau a rhwygiadau yn yr eglwys, modd y gallo trwy hyny, ddadymchwel y ffydd, llygru y gwirionedd, a thori undeb eglwys Crist,"† Dyna farn yr hen athrawon yn nghylch heresi, cytûn a geiriau bywiol yr efengyl.

Nid oes i ni feddwl er hyny i agos yr holl Gristionogion yn Mrydain ymlygru a diwyno glendid eu ffydd yn yr amser peryglus hwnw. Fe ddywedir i lawer o honynt syrthio ymaith (pe ond un i fil, yr oedd hyny yn ormod), a bod y rhai hyny, megys mai dynion anesmwyth a rhodresgar oeddent, yn dygnflino y ffyddloniaid, y rhai oeddent "wedi eu cyfan gysylltu yn yr un meddwl ac yn yr un farn." Yr oedd hyn yn ddiau yn dristwch a gofid calon i'r Cristionogion uniongred, a gwir aelodau yr eglwys, i weled y gau athrawon yn camarwain y werin bobl anneallus i'r heresi dinystriol hono ag oedd "yn gwadu yr Arglwydd yr hwn a'u prynodd hwy." Ond beth a allent hwy wneuthur yn y fath oes enbyd, pan oedd yr holl fyd Cristionogol agos wedi myned ar gyfeiliorn? Ni thyciai ymbyncio a hwy mewn prydferthwch a gweddeidd-dra ddim; oblegid dynion cecrus oeddent, ac yn cablu y pethau na wyddent; a'u holl gadernid oedd dichell ymadrodd, a thaeru yr hyn a ddywedent yn hyf ac ac yn eofn, er ei fod y cabledd mwyaf yn y byd. A pha gabledd yn fwy niweidiol na gwadu Duwdod yr ail Berson o'r Drindod? "Canys yr iawn ffydd yw credu a chyffesu o honom fod ein Harglwydd ni, Iesu Grist, Fab Duw, yn Dduw ac yn ddyn."

Fe gynaliwyd yma amryw gymanfaoedd, neu eisteddfodau o esgobion a gwŷr eglwysig ereill, lle y gwnaethpwyd amryw ganonau i amddiffyn gwirionedd y ffydd gatholic, y rhai a gyhoeddwyd trwy bob esgobaeth o'r deyrnas, cyn llwyr attal rhwysg yr heresi. Ni wyddys pa nifer o ganonau a wnaethpwyd, ond eu bod yn gyffredinol yn cadarnhau egwyddorion y ffydd a sefydlwyd yn Nicæa. Yr oedd yn drueni mawr golli yr Hanes Eglwysig a ysgrifenodd Twrog, yn amser Cadfan frenin, o gylch y flwyddyn 600, yr hwn oedd fab Iago ap

* Iren. lib. 4. c. 62. p. 292. † Cypr. de Unit. Eccles. 2. p. 296.

Beli, a brenin Gwynedd. Y llyfr hwn oedd yn nghadw yn eglwys Gelynog, yn Arfon, a maen du arno yn lle cloriau. Efe a ddiangodd pan losgodd yr eglwys, ac o'r achos hwnw, a gyfenwyd Diboeth.* Y mae Dr. Thomas Williams, meddyg tra dysgedig yn ei amser, yn dywedyd iddo ef weled y llyfr hwn o waith Twrog, yn y flwyddyn 1594; ond y mae yn awr er ys talm wedi myned ar goll. Fe ysgrifenodd Tyssilio hefyd Hanes y Brif Eglwys, yr hwn oedd o waed breninol, yn fab i Brochfael Ysgythrog, yr hwn a ymladdodd a'r Saeson yn y flwyddyn o oedran Crist 602. Y mae ambell ddarn o waith Tyssilio i'w weled eto, os gellir iawn farnu yn nghylch ysgrifen mor hen. Fe ddywedir yno, "I ryw dywysog, a elwid Ifor Darian-lydan, yn nghyda dau esgob, Iorwerth ap Beuno, a Chadwaladr ap Rhun (ond nid oes dim hysbysrwydd pa le yr oedd eu hesgobaethau), yn nghyda phymtheg o dduwiolion ereill ymgynull yn Nghaerloew, lle y gwnaethant y gyffes hon: 'Yr ydym yn ymwrthod a gau grefydd a heresi Arius; o ethryb ein barn yw, bod ei Athrawiaeth yn anurddas i dduwdod Crist yr Arglwydd. Ac yr ydym yn glynu wrth y ffydd gatholic a sefydlwyd yn Nicæa, yn gyson a'r gwirionedd.' Felly y ffydd yn Nghrist a gedwid yn ddilwgr, er bod llawer o baganiaid eto yn y deyrnas." Y mae hon yn dystiolaeth hynod yn nghylch diwygiad ffydd yr hen Frutaniaid, a'u gwaith yn ymwrthod a heresi Arius, pe gellid gwybod yn sicr mai Tyssilio a ysgrifenodd yr hanes.

Ond cyn gynted ag y dechreuasant ymelïo ac ymiachâu o'r naill bla, hwy a lygrwyd drachefn ag un arall o dyfiant Brydain. Digon gwir, hwy a fuont dros rai blynyddoedd ar ol cynal y gymanfa uchod, yn lled iachus yn y ffydd, heb nemawr o ymryson nac ymyraeth yn nghylch heresi Arius, hwynt-hwy, yn ddiammheu, ag oedd wedi eu sylfaenu yn egwyddorion crefydd, ac yn dilyn athrawiaeth yr eglwys. Yr oedd ystyried marwolaeth echrydus Arius yn rhybudd i rai, a'i egwyddorion atgas yn dychrynu ereill. Ond megys dyn, newydd ymiachâu o'r clefyd melyn, a fydd fyw yn afradlon ac a syrth i'r dyfrglwyf; felly yr hen Frutaniaid: ar ol iddynt ymddihatru ag un heresi ddinystriol, a ddiwynwyd ag un beryglus arall, tra enbyd i grefydd a bywyd Cristion.

Yr heresi yr wyf yn awr i son am dani a fu yn hir yn ym-

* Vide Dav. Lex. sub voc.

ddyddan dirgel rhwng cyfeillion, heb un bwriad drwg i aflonyddu cred. Yr oeddent yn ystyried fod rhai yn eu hamser hwy yn cyfrif y cwbl o droedigaeth Cristion a'i fywyd o ras yn unig i Ysbryd Duw yn gweithio ar ei galon, heb ddim o ran y dyn, ïe, nid cymaint a gweddïo am gymhorth: yn erbyn hyn, eu barn hwy oedd, y dylai y Cristion hefyd gydweithio, i ymostwng ger bron Duw mewn gweddi, megys y mae yn ysgrifenedig, "Gofynwch, a rhoddir i chwi, ceisiwch a chwi a gewch." Yr oeddent hefyd yn barnu fod bagad yn rhy fyrbwyll ac yn annheg wrth faentumio fod Duw yn gwrthod rhai, ac yn eu cau allan o olwg ei drugaredd yn Nghrist: yn erbyn y rhai hyn eu barn hwy oedd, fod Duw yn Nghrist, yn cynyg iachawdwriaeth i bawb; a bod gan bob dyn ryddid barn ac ewyllys, naill ai bod yn druenus byth trwy annghrediniaeth a bywyd aflan, yr hyn yw ei fai ei hun; neu ynte fod yn ddedwydd byth, trwy fod yn ufudd i ammodau yr efengyl: ond er hyny, bod yn rhaid gweddïo am ras Duw a'i nerth, i sefyll gyda'n bwriad ni. Fel hyn y siaredent ar y cyntaf, yn ddiniwed ac yn gydwybodol; ond ni fedrent ymattal yma.

Penaeth y gymdeithas hon oedd Gymro, genedigol o Wynedd, a elwid, tra yr arosodd yn ei wlad ei hun, Morgan, am ei eni ar lan y môr; ond ar ol myned i'r Eidal, i fysg y Lladinwyr, efe a newidiodd ei enw i Pelagius, gair o'r un ystyr yn Lladin ag yw Morgan yn Gymraeg. O ran pryd ac agwedd corff, nid oedd efe ond gwr lled afluniaid; canys fe ddywedir ei fod yn glamp o ddyn tew, gwdd-ffraisg, ysgwydd-gam, ac unllygeidiog. Ond am gyneddfau naturiol ei enaid, yr oedd ynddo synwyr maith;* yn ŵr dysgedig dros ben, yn gydnabyddus a holl ddysgeidiaeth ddynol a duwinyddiaeth, ac hefyd yn ŵr o fuchedd ac ymarweddiad glân, syber, a diargyhoedd, cyn belled ag y gallai dyn farnu. Efe a ymadawodd yn lled ieuanc a'i wlad ei hun, ac a dramwyodd yn gyntaf at ei gyd-dylwyth, i Lydaw; oddiyno i'r Eidal ac i Gaersalem, ac amryw o wledydd pellenig y dwyrain, a hyny yn unig er mwyn cyfeillach gwŷr dysgedig a duwiol; canys ei arfer oedd tramwy o fan i fan, ac o'r naill fonachlog i'r llall, er cael siared ac ymgynghori a'r gwŷr enwocaf mewn dysg a dawn. Yr oedd yn wir o hyd rhyw ddrwg-dyb am dano, ei fod yn maentumio opiniynau cyfeiliornus, ond yn anad un peth ei fod yn

* Erat in homine et alacritas et vigor ingenii plane incredibilis, Leland. Comment. vol. 1. p. 34.

dal y gallai dyn fod yn gadwedig heb ras Duw. Ond naill yr oeddid yn camachwyn arno, neu yr oedd efe yn dygn ragrithio, yn dywedyd un peth ac yn meddwl peth arall; canys efe a dystiodd fel hyn ar gyhoedd: "Od oes neb yn synied neu yn pregethu nad yw gras Duw yn Nghrist yn annghenrheidiol i iachawdwriaeth dynion, bydded yn Anathema."* A phan ddycpwyd ef i ateb drosto ei hun o flaen y gymanfa hono a gynaliwyd yn Lyda, tref o Judea, lle yr oedd pedwar esgob ar ddeg wedi ymgynull, nid ellid cael achlysur i feio arno. Nid yw yn wiw gosod yma enwau yr esgobion hyny; fe fydd yn fwy perthynasol hysbysu yn mha byncian y buont yn ei holi ef, yn nghyd a'i atebion yntau.

I. "'Nid all neb fod heb bechod ond y sawl sydd ganddo wybodaeth o'r gyfraith.' A wyt ti yn maentumio hyn, O Forgan?" "Y maent yn camddeall fy meddwl i," eb efe: "ni ddywedais i ddim y gall dyn fod yn ddibechod, yr hwn sydd ganddo wybodaeth o'r gyfraith, ond y gall dyn gael cyfarwyddyd oddiwrth y gyfraith i ochelyd pechod; megys y mae yn ysgrifenedig, 'At y gyfraith ac at y dystiolaeth.'" (Es. viii. 20.) "Nid yw hyn yn annghyson ag athrawiaeth yr eglwys," ebe'r gymanfa.

II. "'Y mae gan bob dyn ryddid ewyllys i ddewis y da a gochelyd y drwg.' Ai dyna yw dy farn di, O Forgan?" Eb efe, "Mi a ddywedais hyny, am fod Duw yn gynorthwy i'r neb a fo yn dewis yr hyn sydd dda; ond ar waith neb yn pechu, arno ei hun y mae y bai yn gorwedd." "Nid yw hyn ychwaith," ebe'r gymanfa, "yn annghyson a barn yr eglwys."

III. "'Ni chaiff yr annuwiolion eu harbed ar ddydd y farn, ond eu taflu i boenau tragywyddol o dân a brwmstan.' A ddywedaist ti felly, O Forgan?" "Do, yn wir," eb efe, "megys y mae yr efengyl yn warant i mi, 'A'r rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragywyddol.'" (Mat. xxv. 46.) "Y mae hyn hefyd," ebe'r gymanfa, "yn gyson ag athrawiaeth yr eglwys."

IV. "'Nid all dim drwg fyned i mewn i feddwl dyn.' A ddywedaist ti felly, O Forgan?" "Naddo," eb efe, "ond yr hyn a ddywedais i oedd hyn: 'Y dylai Cristion ymogelyd rhag meddwl dim drwg.'" "Y mae hyn hefyd yn iachus," ebe'r gymanfa.

* Vide August. de Gratia Christio. c. 2.

V. "'Y mae addewid o deyrnas nefoedd yn yr Hen Destament.' A ddywedaist ti hyny, O Forgan?" "Do yn wir," eb efe, "ac nid oes neb ond heretic a all ei wadu; canys y mae yn ysgrifenedig yn llyfr Daniel, 'Saint yr Goruchaf a dderbyniant y freniniaeth, ac a feddianant y freniniaeth hyd byth, ac hyd byth bythoedd,'" (Dan. vii. 18.) "Nid yw hyn yn annghyson ag athrawiaeth yr eglwys," ebe'r gymanfa.

VI. "'Fe all dyn, os myn, ymgadw rhag pechu.' A ddywedaist ti felly, O Forgan?" "Mi a ddywedais, yn wir," eb efe, "y gall dyn ymgadw rhag pechu a chadw gorchymynion Duw, os efe a ddeisyf gymhorth Duw a'i ras; canys felly, Duw sydd yn rhoddi y gallu iddo. Ond ni ddywedais i y bu erioed y fath ddyn, yr hwn a ymgadwodd o'i febyd i ddydd ei farwolaeth heb bechu." "Y mae Morgan yn ateb yn uniawn," ebe esgobion y gymanfa, "fod yn bosibl i Gristion, trwy gymhorth Duw a'i ras, ymgadw rhag pechu a bod yn ddiargyhoedd ei fuchedd." "Yr wyf fi," ebe Morgan, "yn addoli un Duw yn Drindod, a'r Drindod yn Undod; ac yn credu dim amgen yn y cwbl ond y mae yr eglwys gatholic yn ei gredu." "Yr ydym ni gan hyny," ebe'r esgobion, "yn dy gydnabod yn aelod o'r eglwys gatholic."* Y gymanfa hon a gynaliwyd yn mis Rhagfyr, yn y flwyddyn 415.

Ond er hyn o gyffes o flaen y gymanfa, rhag cael ei esgymuno, ei farn ef yn fyr oedd hyn: "Gan i Iesu Grist roddi ei einioes yn bridwerth dros bechaduriaid, a rhoddi iawn i gyfiawnder Duw dros bechod y byd, y mae yn bosibl i Gristion, trwy iawn adferyd ei reswm a'i ddealltwriaeth, ymgadw rhag pechu trwy ei nerth ei hun, heb ras Duw." Dyna fel y mae ei wrthwynebwr yn adrodd: ond naill ai y mae efe yn dywedyd un peth ac yn meddwl peth arall, neu yr oeddid yn camachwyn arno; canys y mae efe yn tystio o hyd ar gyhoedd, mai ei farn ef oedd, "Y gall Cristion, trwy gymhorth Duw a'i ras, ymgadw rhag pechu, megys y mae yn ysgrifenedig, 'Pob un a aned o Dduw, nid yw yn gwneuthur pechod; oblegid y mae ei had ef yn aros ynddo ef, ac ni all efe bechu, am ei eni ef o Dduw.'" (1 Ioan iii. 9.) Efe a gafodd ei ddwyn i fynu yn y fonachlog fawr a godidog, mammaeth pob dysgeidiaeth, Bangor-is-y-Coed. Nid Bangor sydd hyd heddyw yn ngwlad Caerynarfon, a mam eglwys yr esgobaeth

* Vide Uss. Eccl. Britann. Antiq. c. 9. p. 129, &c.

o'r enw, ond Bangor arall, neu fonachlog fawr dros ben ag oedd yn yr hen amser mewn lle a elwir Maelor Saesonaeg, yn sir Flint, ar lan Dyfi, o gylch deuddeg milltir oddiwrth Gaerlleon Gawr ar Ddyfrdwy. Yr oedd yno gynt (heblaw ysgolheigion yn dysgu y celfyddydau) ddwy fil a phedwar cant o wŷr crefyddol, y rhai a ddarllenent y gwasanaeth yn eu cylch, sef yw hyny, cant ar y tro bob awr o'r pedair awr ar hugain, megys ag y cynelid addoliad Duw yn wastadol ddydd a nos yn ddiorphwys.*

Ond canlynwyr Morgan a'i ddysgyblion a aethant yn mhell tu hwnt i gamrau eu meistr. Od oedd efe yn sibrwd ac yn sisial rhai tybiau cyfeiliornus, hwy a'u cyhoeddasant, megys a sain udgorn, i glyw holl gred. Yr oedd Morgan ar brydiau yn siared yn wrolwych ac yn gadarn o blaid gras Duw. "Bydded hwnw," eb efe, "yn Anathema, yr hwn a feddwl yn ei galon, neu a ddywed, nad yw gras Duw yn Nghrist yn annhgenrheidol, nid yn unig bob awr a mynyd o'n bywyd, ond hefyd at bob math o weithred gymeradwy; a'r neb a wado hyn, y mae yn haeddu poenau tragywyddol."† Yr oedd hon yn iaith gwir Gristion, wedi ei iawn addysgu yn y ffydd, pe buasai efe o hyd o'r un farn. Ond nid oes dim mynegiaeth mewn hanes fod ei ganlynwyr yn siared agos mor brydferth ac mor barchedig am gymhorth gras. A hwynt-hwy (er eu tadogi ar Forgan) a fuont awdwyr yr egwyddorion geugred a ganlyn: 1. Ddarfod creu Adda yn ŵr marwol, i ddychwelyd i'r llwch, pa un ai pechu ai peidio a wnaethai. 2. Nad oes mewn dyn bechod gwreiddiol; oblegid na niweidiodd pechod Adda ond ei hun yn unig, ac nid neb o'i eppil. 3. Fod iachawdwriaeth oddiwrth y gyfraith yn gystal ag oddiwrth yr efengyl. 4. Fod rhai dynion, cyn dyfodiad Crist yn y cnawd, yn ddibechod. 5. Fod plant newydd-eni yn yr un cyflwr diniwed ag oedd Adda cyn iddo bechu. 6. Mai nid o herwydd i Adda bechu yw yr achos fod marwolaeth yn nglyn a dynolryw; nac ychwaith o herwydd i Grist adgyfodi, y mae i ninau adgyfodiad ar ddydd y farn. 7. Fod yn bosibl i ddyn ymgadw rhag pechod; ac y gall yn hawdd, os na bydd y bai arno ei hun, gadw gorchymynion Duw, heb gymhorth ei ras.‡

* MS. Hen-gwrt. † Anathemo qui vel sentit vel dicit gratiam Dei—non solum per singulas horas, aut per singula momenta, sed etiam per singulos actus nostros non esse necessariam, &c. Vide Uss. Antiq. c. 9. p. 156. ‡ Vide Uss. Brit. Eccles. Antiq. c. 9. p. 117, 118.

Y rhai hyn oedd y gau egwyddorion a daenwyd yn mysg yr hen Frutaniaid, ar ol marwolaeth Morgan, megys yr ydys yn barnu (ond y mae yn ddilys na ddychwelodd efe ddim ei hun i Frydain): ac y mae eu hergyd yn uniawn ar wneuthur dynion yn ffromffol, yn hunanol, yn rhyfygus, ac i ymddiried gormod yn eu nerth a'u gwroldeb eu hunain. Canys er y gall dyn fwriadu yn dda, eto, heb gymhorth gras i santeiddio ei galon galed, y mae natur yn frau, yn llygredig, ac yn rhy barod i syrthio. Er bod yr yspryd yn barod, eto y mae y cnawd yn wan, megys y gwelwn ni esiampl yn Pedr yn gwadu ei Feistr, er dywedyd o hono ychydig o'r blaen mor wrol, "Pe gorfyddai i mi farw gyda thi, ni'th wadaf ddim."

Agricola oedd enw y gwr a ddygodd yr athrawiaeth enbyd hon gyntaf i Frydain, a hyny o gylch y flwyddyn 425. Yr oedd efe yn fab i esgob, yn ŵr o dafod hyloew, a chanddo odidog ddawn ymadrodd. Ond er dywedyd o hono ddim ar a fedrai synwyr ddychymyg o blaid ei egwyddorion, a thaeru hefyd (ond efe a ddywed gelwydd yn hyny) mai athrawiaeth bur a dilwgr eu cydwladwr Morgan oedd efe yn bregethu iddynt, yr hwn oedd cyn enwoced o ran dysg a duwioldeb trwy holl ardaloedd cred; er hyn oll, meddaf, er fod cannoedd yn cyrchu ato, megys ei fod efe yn bregethwr hynod, eto nid oedd ond ychydig yn glynu wrth ei athrawiaeth, megys y mae Beda, y Sais, ei hun yn tystio,* yr hwn, er hyny, ni ddywed ond y lleiaf byth a allo er clod i'r Brutaniaid. Yr oedd gan y cadno hwn, Agricola, lawer hefyd o gynghorwyr dano; dynion eofn, haerllug, a'u serch arnynt eu hunain; heb na dysg, dawn, nac awdurdod, ond eu digywylydd-dra; y rhai a ymlusgent i deios, "yn dysgu bob amser, ac heb allu dyfod un amser i wybodaeth y gwirionedd." (2 Tim. iii. 7.) Y rhai hyn yn wir, a chanddynt rith duwioldeb, a hudent ambell rai o'r werin anwastad, "y rhai, megys plantos yn bwhwman, a gylcharweinid a phob awel dysgeidiaeth drwy hoced dynion." (Eph. xiv. 1.)

Ond yn hyn yr oedd anffawd y Brutaniaid gyda'u gilydd y pryd hwnw: nid oeddent ond Cristionogion llesg a gweinion heb eu selio a'u sicrhau mewn egwyddorion crefydd. Yr oedd yr amryw derfysgau yn y deyrnas, sef ymgyrch gwastadol y Brithwyr, y Gwyddelod, y Ffrancod, a'r Saeson hefyd (er nad

* Bed. Hist. Eccles. lib. 1. c. 17.

oeddent wedi eu gwahodd eto), megys tymhestl ddisymwth o daranau a mellt echryslawn, wedi taro dychryn a syndod trwy y deyrnas, megys dyn yn delwi o oergryd, wrth frath cleddyf at ei galon. A hyn a barodd fod Cristionogaeth yma, ar hyny o bryd, mewn cyflwr gwan ac isel. Ar waith Agricola a'i gynghorwyr gwibiog yn pregethu iachawdwriaeth trwy Grist, yr oedd hyny yn flasus, megys yr athrawiaeth yr addysgwyd hwy ynddi allan o'r efengyl; canys yr oedd y gau athrawon yn gyfrwys, yn dechreu yn dirion ac yn deg. Ond pan aethant i daeru y gallai dyn fod yn gadwedig trwy ei nerth a'i wroldeb ei hun, heb gymhorth gras, yr oedd hyny yn edrych yn ymadrodd cethin a garw; ond pa fodd i wrthbrofi y fath athrawiaeth wyrgam ni wyddent. Am hyny hwy a wnaethant yn gall, gan nad oedd ond gwendid gwybodaeth gartref, i ddanfon at eu cymydogion yn Ffrainc, i ddeisyf arnynt anfon drosodd i Frydain rai o'u duwiolion dysgedig, i siared a'r dynion cecrus, y rhai, trwy araeth ganaid a ffug santeiddrwydd, megys trwy hud a lledrith, a geisient ddadymchwel eu ffydd.

Y cenadon a dderbyniwyd gan eglwys Ffrainc gydag addfwynder a pharch; ac er dangos mor foddlon oeddent, ac mor barod i gynorthwyo eu brodyr, fe gynaliwyd yno gymanfa, fel y chwilid allan wŷr da eu gair, yn llawn o'r Ysbryd Glân a doethineb, i'w danfon at eglwys Brydain at hyn o orchwyl. Yna y dewiswyd dau esgob, Garmon, esgob Alet-y-Sodor,* a Lupus, esgob Trecastell,† gwŷr bucheddol, gwybodus, a nerthol yn y ffydd. Ar ol dringo i long, a hwy yn awr ar y cefnfor, tua chanol y ffordd, fe ddywedir i Satan gyfodi tymhestl aruthrol o wynt gwrthwyneb i'w taith, yr hwn a gipiodd y llong draw ac yma, nes ei bod ar soddi. Yn y cyfamser yr oedd Garmon yn huno ar obenydd; ond hwy a'i deffroisant ef ar frys, gan ddywedyd, megys y disgyblion, "Athraw, ai difater genyt ein colli ni?" Y gwr duwiol a gyfododd yn ei eistedd, ac a barodd iddynt oll ymostwng gerbron Duw. Ar ol iddynt orphen eu gweddi, Garmon, ac efe yn llawn o ffydd, a'i obaith yn hyderus ar ragluniaeth, a gymerth lonaid ei law o ddwfr, ac a'i tywalltodd i'r môr, gan ddywedyd, "Gostega, dystawa, yn enw y Drindod fendigedig, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân." Ac allan o law y gwynt a ostegodd, a hi a aeth yn hyfryd ac yn dawel, megys ag y tiriasant mewn amser

* Altisodorensis. † Trecassensis.

byr wedi hyny yn y porthladd a ddymunent.* Ar ol tirio yn Mrydain, y ddau esgob ni fuont segur: eithr hwy a bregethasant wirioneddau yr efengyl yn ddiwyd ac yn wresog, i'r werin uniaith yn Gymraeg (canys nid oedd ond ychydig wahaniaeth rhwng iaith preswylwyr Ffrainc ac iaith hen drigolion yr ynys hon yn yr oes hono), ac i'r goreuon dysgedig yn Lladin; canys fe siaredid Lladin yn sathredig yn Ffrainc a Brydain yn yr amser hwnw, megys y mae Saesonaeg yn awr yn Nghymru. Yr oedd ganddynt yn ddilys waith mawr mewn llaw, y fath a fuasai tu hwnt i allu dyn, oni buasai eu hymddiried ar gynorthwy Duw. Canys heblaw yr egwyddorion llygredig a hauodd y gau athrawon yn mysg y rhai ag oedd yn arddel Cristionogaeth, yr oedd eilunaddoliaeth hefyd y pryd hwn wedi cael meddiant yn y deyrnas. Ond pa fwyaf y rhwystr, mwyaf i gyd oedd calondid y ddau esgob, a'u hyder ar Dduw. Eu harfer oedd tramwy o fan bwygilydd, a phregethu yr annghenrheidrwydd o ras Duw i sefyll gyda gwendid natur, er gwneuthur o Grist Iesu gyflawn daliad i gyfiawnder Duw dros bechodau y byd; a dangos yr hunan, y rhyfyg, a'r drwg effaith ag oedd yn gorwedd mewn bwriad da yn unig, heb gynorthwy oddi uchod. A'r Arglwydd Dduw a roddes ei Yspryd i gydweithio a'u llafur a'u diwydrwydd yn pregethu y Gair. "Paul a blanodd ac Apolos a ddwfrhaodd, ond Duw a roddes y cynydd." Felly yma, trwy fendith Duw, yr hwn oedd yn dwyn tystioliaeth i air ei ras, ac yn caniatâu gwneuthur arwyddion a rhyfeddodau trwy ddwylaw y ddau esgob, y rhai digred a ennillwyd i dderbyn y ffydd, y rhai union-gred a gadarnhawyd yn y ffydd, y gweiniaid a gryfhawyd, a'r rhai o'r blaen a ddiystyrasant ras Duw, erbyn hyn a welsant eu camsyniad, ac a ddygwyd yn awr i arafwch Saint Paul, yr hwn, er ei fod yn apostol mawr ei ddoniau, eto sydd yn addef, "Nid myfi, ond gras Duw yr hwn oedd gyda mi." (1 Cor. xv. 10.)

Ar hyn, y gau athrawon, yn nghyda'r cynghorwyr a aethant ar encil, megys cynifer dylluan yn cilio i'r ceubrenau, wrth ganfod y goleuni ar godiad y wawr. Ond ni buont yn llechu yn hir, nes cymeryd calon o newydd, a danfon cenad at y ddau esgob, eu bod hwy yn chwennych ymddyddan a hwy yn nghylch y cyfryw destunau ag oedd ymryson a dadl o'u plegid. Ar y diwrnod pennodedig, ymgyfarfod a wnaethant yn Llun-

* Bed. Hist. Eccles. lib. 1. c. 17.

dain, y gau athrawon mewn dillad gwychion dros ben,* yn dyscleirio mewn lawnt a sidan; ond gwisg yr esgobion oedd pais wineuddu, a mantell gwta o borphor symudliw dros eu hysgwyddau, yn ol defod yr amser. Yna y gau athrawon, gan mai hwy oedd amlaf o rifedi, a ddechreuasant eu haraeth gyntaf, ac a barhausant o gylch awr, yn mawrygu gallu cyneddfau enaid dyn; a pha faint o bethau haeddiannol a allai dyn wneuthur, pe byddai efe yn dilyn rheswm, ac yn iawn ymgynghori a'i farn: ac nid dim ond ei ddiofalwch a'i leithder yw yr achos o'i fod yn troseddu. Ar hyny Garmon a eglurodd, mewn trefn, y cyfnewidiad erchyll a wnaed yn nghyneddfau enaid Adda ar ol iddo droseddu; yn lle uniondeb calon, yr oedd ynddo yn awr dueddiad i dori allan yn afreolus; ac yn lle y tawelwch, y cysur, a'r diddigrwydd ag oedd megys gwledd wastadol idd ei enaid o'r blaen, nid oedd o'i fewn yn awr ond cydwybod euog, gwyniau afreolus, cythrwfl meddwl, cur, a chnofa cydwybod. "Yn awr," eb efe, "dyma yr hyn a feddylir yn yr Ysgrythyr wrth yr 'hen ddyn,' sef y gwyniau llygredig, y trachwant, a'r tueddiad at ddrwg sydd ynom, a gawsom oddiwrth ein hen dad Adda; canys fel y mae y canghenau o'r un natur a'r cyff y maent yn tyfu oddiwrtho, felly yr ydym ninau, bawb o eppil Adda, yn gyfranog o'r un natur ddrwg lygredig ac yntau, ar ol iddo bechu. Felly y mae yn amlwg mai y rhan gyntaf o adenedigaeth Cristion yw bwrw ymaith y nwydau a'r gwyniau afreolus sydd gymaint yn awr yn ei feistrioli ac yn awdurdodi arnom; ond nid i fyned yn nghylch y fath waith pwysfawr trwy ei rym a'i wroldeb ei hun yn unig: canys y mae natur, Duw a ŵyr (Gen. viii. 21), yn frau, yn llygredig, a bryd calon dyn yn ddrwg o'i ieuenctid; ond i ddeisyf nerth gras Duw i sefyll gyda'n bwriadau da ni; megys y mae yn ysgrifenedig, 'Digon i ti fy ngras i: canys fy nerth a berffeithir mewn gwendid.'" (2 Cor. xii. 9.) Wrth ddywedyd hyn, a llawer ychwaneg, yr holl bobl a gysurwyd yn ddirfawr; a chyn ddiced oedd rhai wrth y gau athrawon a'r cynghorwyr, yn gymaint a'u bod yn chwennych eu dyfetha; ond Garmon a Lupus a'u gostegodd.

Y ddau esgob a dramwyasant oddiyno tua Chymru. Y mae hysbysiad goleu eu bod hwy tua Chroesoswallt; canys r waith rhyw garl tybgar, yr hwn oedd yn cymeryd byd da

* Veste fulgentes. Constant. Vit. Garm. lib. 1. c. 23.

yn helaethwych beunydd, yn cablu athrawiaeth gras, ac yn difenwi yr esgobion, mewn byr amser wedi hyny, y ddaear a lithrodd odditan ac o amgylch ei balas, ac a soddodd yn llyn o ddwfr.* A'r llyn a elwir hyd heddyw Llynclys.

Y lle nesaf y mae hanes am yr esgobion yw y Wyddgrug, yn sir Fflint. Yr oedd y pryd hwn, sef y flwyddyn 427, y Brithwyr, yr Ellmyn, a'r Saeson, yn difa, yn anrheithio, yn lladd, ac yn llosgi trwy gydol y deyrnas. Yr oedd gan y Brutaniaid erbyn hyn gâd luosog o wŷr calonog yn barod i ymladd a'r gelynion ; ond cyn myned i faes y rhyfel, y rhan fwyaf o'r milwyr a ddeisyfasant gael bedydd, a llawer iawn o gyffredin bobl y wlad a fedyddiwyd beunydd ar waith Garmon a Lupus yn pregethu iddynt.†

Yma y gall un fwrw ammheuaeth i mewn a gofyn, Os oeddid yn bedyddio plant bychain yn yr oes hono, yn Mrydain, pa beth oedd yr achos na fedyddiwyd y milwyr hyny yn eu mebyd? canys yr holl gâd, gan mwyaf, a fedyddiwyd gan Garmon a Lupus.

Ateb. 1. Y mae hyn yn wir yn dangos fod rhan fawr o'r deyrnas eto heb droi yn Gristionogion, megys y gwelsom o'r blaen dystiolaeth y gymanfa a gynaliwyd yn Nghaerloew, yn nghylch heresi Arius, lle y dywedir fod llawer o baganiad eto yn y deyrnas. Ac nid yw yn rhyfedd fod cymaint o anwybodaeth y pryd hwnw yn y deyrnas, ped ystyrid ymgyrch gwastadol y Brithwyr, y Saeson, a barbariaid ereill, y rhai, a hwy yn elynion i'r grefydd Gristionogol, a ferthyrasant, yn anad neb, yr esgobion a'r gwŷr eglwysig. A'r werin bobl, wedi colli eu hathrawon, a'u brawychu gan y poenau o ddyoddef, a droisant yn baganiaid, i achub eu hoedl yn y bywyd hwn. Ie, a chymaint o wŷr eglwysig ag a adawyd yn fyw oeddent yn llesg ddigon ac yn drwsgl, fel y bu yn rhaid iddynt ddanfon i Ffrainc am gynorthwy yn erbyn geugred Morgan, yr hon oedd mor niweidiol i fywyd gwir Gristion.

2. Yr ydym yn darllen fod Morgan, ein cydwladwr, mewn cymanfa yn yr Eidal, lle y galwyd ef i roddi cyfrif am ei egwyddorion ; ac yn gymaint a bod drwgdyb am dano, ei fod yn gwadu pechod gwreiddiol, fe dybiwyd y gallasai wadu bedydd plant hefyd. Hyn, meddaf, a ofynwyd i Forgan, mewn cymanfa gyhoedd, i glywed ei farn ar hyn o beth. Yna

* Humph. Llwyd's Brev. of Brit. p. 69. † Bed. Hist. Eccles. lib. 1. c. 20.

Morgan a atebodd, "Yn wir myfi a fyddwn yn heretic heb ei fath, pe y gwadwn fedydd plant; canys os eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd, pa mor ysgeler yw hwnw a gais eu cau allan rhag bod yn aelodau o eglwys Crist ar y ddaear? Pa mor ysgeler yw hwnw a fyn fod yn wrthwyneb i arfer yr eglwys gatholic er amser yr apostolion hyd y dydd heddyw? Am danaf fi, ni ammheuais i erioed yn nghylch bedydd plant; ac yn wir ni chlywais i erioed fod un amser mwy na'i gilydd, na dadl nac ymyraeth yn erbyn bedyddio plant y ffyddloniaid."* Dyma Morgan yn tystiolaethu na wyddai efe fod dadl yn un rhan o gred yn nghylch derbyn plant y ffyddloniaid i fedydd; ond pe buasai barn ac arfer eglwys Brydain yn erbyn bedyddio plant, fe gawsai weled hyny yn ei wlad ei hun.

3. Y mae yr hen deidiau yn cyd-dystiolaethu fod yr hen Frutaniaid yn union-gred, ac yn credu yn ol cysondeb y ffydd; oddieithr eu llygru gan heresi Arius, yr hwn oedd eto yn caniatâu bedydd plant. Ac y mae teidiau y brif eglwys oll yn tystio fod arfer eglwys Crist yn bedyddio plant yn draddodiad, neu athrawiaeth a dderbyniodd hi oddiwrth yr apostolion. Clywch beth a ddywed hen athraw dwys a elwir Origen, yr hwn a ysgrifenodd o gylch y flwyddyn 230, yn ei esponiad ar Psalm li. 5. "Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf." "O ethryb hyn," eb efe, "sef y pechod gwreiddiol yma, yr eglwys a dderbyniodd draddodiad oddiwrth yr apostolion i fedyddio plant bychain." A'r traddodiad hwnw oedd, yn ddilys, yn un o'r rhai y mae yr apostol yn gorchymyn i'r Thessaloniaid lynu wrthynt, pan y mae yn dywedyd, "Am hyny, frodyr, sefwch a deliwch y traddodiadau a ddysgasoch, pa un bynag ai trwy ymadrodd, ai trwy ein hepistol ni." (2 Thes. ii. 15.) Digon yw hyn i brofi fod bedydd plant mewn ymarferiad yn mysg yr hen Frutaniaid, megys yn mysg pawb ereill o holl ardaloedd cred.

Yn awr i ddychwelyd at Garmon a Lupus, am ba rai y crybwyll hen gronicl yn y geiriau hyn; "Pa beth bynac a ddywetynt ar eu tafawd, wyntwy ac cedernheynt trwy peinyddawl wyrthiau a wnai Duw erddynt." Fe ddywedir eu bod yn iachâu y cleifion, yn rhoddi llygaid i'r deillion, ac yn diffodd tân, wrth ddywedyd gair. Ond nid i son ychwaneg am hyny,

* Vide Uss. Antiq. Eccles. Brit. Antiq. c. 10. p. 147, &c.

y mae dau wasanaeth hynod a wnaeth y ddau esgob dros yr hen Frutaniaid, heblaw eu sefydlu mewn egwyddorion crefydd, a haeddent gael eu coffâu; sef, 1. Trefnu ysgoldai er cynydd a dyrchafiad dysgeidiaeth; 2. Eu gwaith yn rhoddi iddynt ffurf o weddi gyffredin, yr hon a ddygasant ganddynt o Ffrainc.

1. Yr oedd gwŷr eglwysig Brydain yn annysgedig ac yn anwastad y pryd hwnw. Nid oeddent ond bechgyn mewn deall; yn annoethion ac yn drwsgl, heb fod yn gydnabyddus yn yr Ysgrythyrau a gwir dduwinyddiaeth; yr hyn oedd yr achos na feiddient siared gyda dim hyder, rhag gorfoleddu o'u gwrthwynebwyr. Felly Garmon a Lupus, trwy gynorthwy amryw dywysogion ac arglwyddi, y rhai oeddent ewyllyswyr da i grefydd, a drefnasant amryw ysgoldai, trwy Gymru a Lloegr, lle y gosodwyd gwŷr bucheddol a dysgedig yn feistriaid, tuag at gymhwyso gwŷr ieuainc at swydd y weinidogaeth. Y ddau wr hynotaf a osodwyd ar hyn o orchwyl, oedd Dyfrig ac Illtud, ill dau yn wŷr doniol, o synwyr maith, ac yn brydio o sel ac awyddfryd duwiol i wneuthur daioni yn eu cenedlaeth. Dyfrig a agorodd ei ysgol gyntaf yn Nghaerlleon ar Wysg, dinas fawr ac enwog yn yr hen amser, lle y daeth i wrando arno, ac i'w dysgu ganddo, nid yn unig feibion gwŷr cyffredin, ond meibion arglwyddi hefyd, i ddysgu y celfyddydau, megys sywedyddiaeth, dilechdid, ac athronyddiaeth. Fe fyddai ambell waith yn dysgu yn Henllan, ar lan Gwy; ac ambell waith yn Mochros. Fe ddywedir fod ganddo, ar brydiau, yn nghylch mil o ysgolheigion. Ei ysgolhaig ef oedd Teilo Fawr (yr ail esgob yn Llandaf), yr hwn a fu mor egnïol yn amddiffyn gras Duw mewn cymanfa a gynaliwyd yn y flwyddyn 492, yn Llanddewi-brefi. Ei ysgolhaig ef oedd Cadoc, mab Cynlas, Arglwydd Morganwg, a Gwladys ei wraig; ac efe oedd yr abad cyntaf yn Llancarfan, gyda channoedd o wŷr enwog ereill na wyddys mo'u henwau. Ac yna Dyfrig, ar ol gweled y fath gynyrch o had dysgeidiaeth a blanodd efe, a roddes ei alwad i ereill, ac a gysegrwyd gyntaf yn esgob Llandaf, ac oddiyno a ddyrchafwyd yn archesgob Caerlleon ar Wysg.*

Gwnaeth Illtud hefyd ei ran yn odiaeth yn Morganwg, i adferu dysgeidiaeth a moesau da. Ei ysgolhaig ef oedd Samson, gwr o wybodaeth fawr, er gwneuthur o hono niwed a cholled o'r mwyaf i'w wlad ei hun; canys efe a ddygodd

* Leland. de Script. Britan. vol. 1. p. 50.

gydag ef i Lydaw (lle y gwnaed ef yn archesgob) yr holl lyfrau Cymraeg a allasai mewn modd yn y byd gael gafael arnynt. Ei ysgolhaig ef oedd Gildas, yr hwn a ysgrifenodd ryw ychydig o hanes y Brutaniaid. Ei ysgolhaig ef oedd Dewi, yr archesgob. Ac, heblaw cannoedd ereill, ei ysgolhaig ef oedd Pawlin, yr hwn a gladdwyd gerllaw Llansawel, a'r ysgrifen hon ar gareg ei fedd: "Servator fidei, patriæ semper amator, hic Paulinus jacit, cultor pientissimus æqui." Hyny yw, "Yma y gorwedd Pawlin, achleswr y ffydd, cywir yn wastad i'w wlad, ac ymgeleddwr cydwybodol o'r hyn oedd iawn a chymhwys."

Bangor-is-y-Coed hefyd, yn Ngwynedd, a dderbyniodd ei rhan o ymgeledd a thirion ofal Garmon; canys yno efe a osodes Aidan yn olygwr ac yn feistr, i addysgu ereill, yr hwn oedd fab i Gwrnyw, a gorwyr i Urien Reged, tywysog Gwynedd. Ar air, Bangor-is-y-Coed, a Chaerlleon ar Wysg, oedd y ddwy brif ysgol yr amser hwnw; ac yn wir yn rhagori ar ereill yn Lloegr yn yr hen amser gynt; oblegid fod mwy o ymgyrch gelynion, mwy o gythrwfl, a mwy o derfysg a thywallt gwaed yn Lloegr nag yn Nghymru.

2. Yr ail wasanaeth, er budd a lles i'r eglwys, a wnaeth Garmon a Lupus, oedd cyfranu ffurf o weddi dra rhagorol ag oedd eglwys Ffrainc yn arferu er amser yr apostolion. Y mae hanes enwedigol am drefn y gwasanaeth ar ddyddiau gwylion; ni wyddys ddim cystal am drefn y gwasanaeth ar ddydd yr Arglwydd. Ar y dyddiau gwylion, y gyffes oedd yn dechreu, ac yna y colect pennodedig i'r diwrnod. Ar ol hyny, cofféid enw y merthyr a ddyoddefodd ar gyfer y diwrnod hwnw, yn nghyda gweddi wresog am ras a chymhorth Duw i ganlyn bywyd y sant cyn belled ag y canlynodd yntau esiampl Iesu Grist. Yna y canlynai y bregeth, neu ymadrodd yn gosod allan y grasusau mwyaf hynod, defosiwn, sel, ac amynedd y sant hwnw; ac mor anhebgor yw ffrwyth yr Ysbryd i fywyd gwir Gristion. Ar ol hyny y canlynai colect i ddeisyf gras Duw i'w cadw mewn undeb rhag heresi a scism. Yna colect i gysegru y bara a'r gwin yn y cymun, ac ar ol cymuno, colect arall i ddeisyf bendith oddiwrtho; yna gweddi yr Arglwydd, ac ar hyny y fendith. Nid oedd un peth ofergoelus yn y gweddïau hyn; na gweddi dros y marw, nac at sant na santes. Bywyd y sant yn unig a gofféid ar y bregeth, yn nghyda dwys annogaeth ar i'r byw ei ganlyn, yn ol yr hyn a ddywed St.

Paul, "Am hyny yr wyf yn atolwg i chwi byddwch ddilynwyr i mi." (1 Cor. iv. 16.) Ac yn wir y mae hen deidiau yr eglwys yn tystio, megys o un genau, mai rhai o'r apostolion, neu wŷr doniol yr oes hono, a gyfansoddodd y ffurf hono gyntaf, er y gallai esgobion union-gred ar ol eu dyddiau hwy ychwanegu rhai pethau ati, perthynol i gyflwr yr eglwys. Ac o'r ffurf hon, yn benaf dim, y casglwyd llyfr gwasanaeth eglwys Lloegr, ac nid oddiwrth offeren y pabyddion, megys y mae yr ymneillduwyr yn gwag ddychymyg, o eisiau gwybod gwell.*

Ar ol i Garmon a Lupus drefnu pethau mor llwyddiannus, megys ag y tebygid fod pob peth mewn cyflwr diogel, dychwelasant adref i Ffrainc. Ar hyny y gau athrawon a ddechreuasant ar eu cwnbib eilwaith; ond cystal a fuasai iddynt adael eu crwth yn y cwd; canys nid oedd eu sain ond traws gynghanedd cyfan afrywiog; y fath ag a ddywed y prydydd,

"Llef ar grwth fel llafar gro,
Mwy na llafar maen llifo."

Yn fyr, fe ddanfonwyd cenad i ddeisyf ar Garmon ddyfod drosodd eilwaith, am fod y gau athrawon, trwy eu hoced a'u hymadroddion dichellgar, yn ceisio drachefn ddadymchwel eu ffydd; canys gwyddent i'r Arglwydd roddi iddo "enau a doethineb, yr hon nis gallai ei holl wrthwynebwyr na dywedyd yn ei herbyn na'i gwrthsefyll." (Luc xxi. 15.) Garmon, er rhoddi ychwaneg o dystiolaeth o'i barodrwydd i'w cynorthwyo, a hwyliodd yn ddiatreg i Frydain, ac a gymerth gydag ef y waith hon wr eglwysig a elwid Sefer, gwr ymadroddus a chadarn yn yr Ysgrythyrau. Y ddau esgob (canys yr oedd Sefer yn esgob, sef esgob Tre-hir, yn Ffrainc) a ymosodasant yn egnïol at y gwaith y danfonwyd hwy o'i blegid; ac yna, wedi cwbl ddystewi eu gwrthwynebwyr, ar daer ddeisyfiad yr holl bobl, y rhai oedd yn moliannu Duw am y cysur a'r dyddanwch a dderbyniasant oddiwrth athrawiaeth iachus yr esgobion, y gau athrawon a yrwyd allan o'r deyrnas, er cadw, os byddai bosibl, lonyddwch yn eglwys Brydain rhagllaw. "Da yw dwyn mawr serch mewn peth da yn wastadol." (Gal. iv. 18.)

* Stillingfl. Orig. Britan. Ch. 4. pp. 232—237.

## PENNOD III.

HERESI MORGAN YN ATTYFU ETO. Y GYMANFA YN LLANDDEWI-BREFI. AM DDEWI A GILDAS. PLA Y FALL FELEN. AWSTIN FONACH YN PREGETHU I'R SAESON. LLYGREDIGAETH EGLWYS RHUFAIN Y PRYD HWNW. ESGOBION BRYDAIN YN SIARED AG AWSTIN FONACH. MERTHYRDOD Y MONACHOD O FANGOR IS-Y-COED.

NYNI a adawsom eglwys Brydain yn dangnefeddus ac yn dawel, wedi ei glân buro oddiwrth ei sothach, ac yn cadw undeb ffydd; ac yn y cyfamser yr oedd heddwch a llwyddiant hefyd yn y deyrnas, megys y mae yn ysgrifenedig, "Heddwch mawr fydd i'r rhai a garant dy gyfraith, ac nid oes dramgwydd iddynt." (Psalm cxix. 165.) Ac yr ydys yn dal sylw am yr hen Frutaniaid, na thycai na brad, na chynllwyn, nac ymgyrch un gelyn yn eu herbyn, tra yr oeddent yn cadw gyda Duw, ac yn "addoli yr Arglwydd mewn prydferthwch santeiddrwydd;" ond pob rhyw grwydredigion lladronach, megys y Brithwyr, y Ffrancod, &c., a fyddai yn drech na hwy, pan y byddent yn "rhodio yn ol cildynrwydd eu calon ddrygionus;" megys y mae yn ysgrifenedig, "Os gwrthodant fy neddfau a'm gorchymynion, yna mi a'u diwreiddiaf hwynt o'r wlad a roddais iddynt." (2 Cron. vii. 19.)

Ni bu dim hynod mewn perthynas i grefydd wedi ymadawiad olaf St. Garmon, nes dyfodiad y Saeson i'r ynys hon, a'u gwahodd hwy trosodd gan y brenin Gwrtheyrn, y rhai a fuont megys fflangell lem-dost yn llaw yr Arglwydd i gospi drygioni y wlad. Y mae Gildas, y Cymro, yn dywedyd mai ynfydrwydd a gwallgof y brenin a'i gynghoriaid a fu yr achos o'u gwahodd hwy trosodd. Dywed Beda, y Sais, fod rhagluniaeth Duw yn hyny, megys ag y gwnaeth Duw hwy yn offerynau i gospi trigolion cynenid y deyrnas, sef yr hen Frutaniaid ysgeler. Y mae yn ddilys fod y Sais a'r Cymro, er o wahanol feddwl ac o wahanol dueddiad, eto ill dau wedi taro y nod: canys oni buasai fod barn gyfiawn Duw o herwydd eu pechodau gwaeddfawr, wedi hurtio y Brutaniaid, prin amgen y gallasent fod mor dywyll ac mor ddisynwyr a byrbwyll ag y buont y waith hon; ond "barn sydd barod i'r gwatwarwyr, a chleisiau i gefn ffyliaid." (Diar. xix. 29.) Yr un peth a fuasai iddynt ollwng drygwr i ysgubor gwr da, neu osod blaidd yn geidwad ar ddefaid, a galw y Saeson trosodd i fod

yn geidwaid arnynt hwy rhag ymgyrch eu gelynion. Ac ni bu nepell nes cael o honynt brofiad gresynol o'u hynfydrwydd; canys y Saeson, yn lle ymladd a'r gelynion, yn ol y cytundeb, a wnaethant heddwch a'r gelynion; ac yn gynifer bradwr melldigedig, a droisant eu harfau yn erbyn eu meistriaid a'u cyflogodd. Yr oedd y Brutaniaid hwy yn anmharod, ac wrth bob iawn yn dysgwyl cynorthwy yn hytrach na bradwriaeth oddiwrth y Saeson, yn gymaint a'u bod yn weision cyflog danynt. Felly, pan nad oedd neb i godi llaw yn eu herbyn, hwynt-hwy a'r Brithwyr (ebrwydd y cytun y blaidd a'r cadno!) rhuthro a wnaethant ar y trigolion diarfog, a'u gwânu a'u cyllyll hirion a'u cleddyfau, heb arbed hen nac ieuanc, gwrryw na benyw, ond y sawl a allodd ddianc am ei einioes i'r ogofeydd a'r anialwch. Llawer a ffoisant i'r trefydd, a'r eglwysi, a'r monachlogydd; ond y trefydd, a'r eglwysi, a'r monachlogydd, a losgwyd hyd lawr, megys a'u bod yn gynifer goddaith draw ac yma, yn fflamio hyd entrych awyr; a'r trueiniaid o'u mewn yn awr yn cyfrif y rhai hyny yn ddedwydd a drywenid a'r cleddyf. Ar air, y fath oedd y lladdfa echrydus trwy gydol y deyrnas, yn enwedig yn Lloegr, yn gymaint ag mai nid dim ond gwyrthiau Duw na wnaethid pen yn gwbl y pryd hwn ar genedl y Brutaniaid; canys y Saeson, ar ol lladd a llosgi nes iddynt flino, yn ddisymwth a ddychwelasant adref i Sermania, megys y mae'r hanes yn y rhan gyntaf. "O cleddyf yr Arglwydd pa hyd ni lonyddi? dychwel i'th wain, gorphwys, a bydd ddystaw." (Jer. xlvii. 6.)

Yn awr, er cynifer mil a miloedd, o bob gradd ac oedran, a laddwyd yn y gyflafan fradychus hon, eto gweddill a adawyd, y rhai a ddiangasant i'r mynydd-dir, i'r anialwch, i'r ogofeydd, ac i gromlechydd y creigiau. Dyrnod marwol y gyflafan a syrthiodd tua Chaint, a'r wlad oddiamgylch, ar lan Tafwysc; oddiyno i Lundain a Rhydychain, a'r oror o amgylch yno. Ni wyddai cyrau pellenig y deyrnas ddim am y gyflafan ond oeddid yn glywed o ben i ben a chwedl gwlad. Rhwng y gweddill a adawyd, a gwŷr Cymru a Cherniw, a gwŷr gogledd Lloegr, yr oedd yma ganddynt, yn mhen ychydig amser, gâd luosog o ugain mil o wŷr arfog, ac ychwaneg; a phan ail ymchwelodd y Saeson, fe orfu iddynt gilio gyda cholled a chywilydd. Ond ar ol iddynt ddechreu ail adeiladu eu heglwysi, eu tai, a'u dinasoedd, a chael llonyddwch oddiam-

gylch, yna (megys mai dyna oedd eu hanffawd yn wastad) frig-frig, ben-ben, yr aethant, yn eu mysg eu hunain; ac athrawiaeth Morgan a ddaeth i gymeriad drachefn, yr hon a debygid oedd wedi darfod am dani, a'i chladdu yn nhir anghof.

Ond yma yr efrau a ddiwreiddiwyd mewn pryd da, cyn y tyfasant ormod i dagu'r gwenith. Canys Dyfrig, archesgob Caerlleon ar Wysg, a barodd wysio esgobion a gwŷr eglwysig Cymru (canys yno yr attyfodd yr heresi, yn y Deheudir), i gynal eisteddfod, modd y gellid amddiffyn y ffydd gatholic, a sefydlu egwyddorion crefydd. Ar hyny yr esgobion, a gwŷr eglwysig mawr eu doniau, a ddaethant yn nghyd; ac yn mysg ereill, Teilo Fawr, a Phadarn, a Phawlin, a Chadoc, a Dewi, i gyd yn wŷr dysgedig, ac yn enwog mewn santaidd ymarweddiad a duwioldeb. Ond dwys ymadroddion Dewi, yn anad neb, a'i gadarn araith efengylaidd (megys pelydr yr haul ar ol dryghin), a gynhesodd galonau pawb i fawrygu gras Duw; canys efe a ddangosodd yr hunan, y rhyfyg, a'r gwagedd o ymddiried ar fwriad da yn unig, heb gynorthwy gras, mor eglur, yn gymaint ag i bawb dderbyn cysur ac adeiladaeth oddiwrtho. Ar air, ei ymadrodd a barodd "ras i'r gwrandawyr." (Eph. iv. 29.) Y gymanfa hon a gynaliwyd yn y flwyddyn 492, mewn lle a elwid wedi hyny, Llanddewibrefi, yn Ngheredigion.

Ond rhag y bernir i mi wneuthur cam a'r awdwr, mi a osodaf yma yr hanes yn llawn, megys y mae efe ei hun yn ei hadrodd:—"Yr oedd heresi Morgan," eb efe, "wedi attyfu yn ddirfawr wedi ymadawiad Garmon o'r ynys. A hyny a roddodd achlysur i gynal cymanfa yn Llanddewi-brefi, lle yr ymgyfarfu, nid yn unig esgobion a gwŷr eglwysig, ond llawer o bendefigion ac arglwyddi. Ac yno y bu yr esgobion uniongred yn dra diwyd yn pregethu i'r bobl, gan geisio eu dychwelyd i'r iawn oddiwrth eu cyfeiliornad, ond ni allent dycio mewn modd yn y byd; canys yr oedd y gau athrawon wedi ennill proselytiaid lawer, y rhai oeddent oll yn glynu yn ddigyffro wrth yr heresi. Ar hyn esgob Pawlin a ddanfonodd genad at Ddewi i ddeisyf arno ddyfod i'r gymanfa; canys hysbys i bawb oedd mai gwr nerthol i ddadlu dros y gwirionedd oedd Dewi. Ond er hyny nid allodd efe, ar hyn o bryd, ddyfod yn ol eu dymuniad, er danfon dwy genadwri ato; canys yr oedd y gwr santaidd wedi cwbl ymroddi at fyfyrdodau duwiol: ond o'r diwedd, Dyfrig, yr archesgob, a Daniel, esgob

Bangor, a welsant fod yn dda fyned eu hunain ato; ac yntau a wybu yn yr ysbryd eu bod hwy yn brysio ar y ffordd tuag ato, a bod yr achos yn gofyn ei bresenoldeb; ac am hyny efe a aeth yn ddinag, heb ammheu dim, gyda hwy. Fel yr oeddent hwy weithian wedi agos gorphen eu taith, cyfarfuasant, gerllaw Llanddewi-brefi, a gwraig weddw, yn wylo yn chwerw-dost o herwydd ei mab a fuasai farw, a'i gelain yn myned y pryd hwnw i'w dodi yn y bedd. Pan welodd y wraig fod Dewi yn myned y ffordd hono, hi a redodd yn gyflym ato, ac a daer ymbiliodd ag ef ar iddo wneuthur ei weddi at Dduw, ar deilyngu o'i Fawredd nefol adgyfodi ei mab i fywyd. Ar hyny Dewi a frysiodd at yr elor, ac a ddyfrhaodd wyneb y marw a'i ddagrau; a chan alw ar enw Crist, a fywhaodd y llanc yn eu gwydd hwynt oll, fel y rhyfeddodd pawb, ac a'i traddodes yn holl-iach ac yn ddiasgen i'w fam.* Yna y llanc, ar hyn o dro, a ommeddodd fyned adref gyda'i fam, ac nid dim ganddo oni chaffai ddyfod gyda Dewi i'r gymanfa; a'r gwr santaidd a ganiataodd ei ddymuniad, ac a roddes ei Feibl (heb yr hwn nid aeth efe i fan yn y byd) i'r llanc i'w ddwyn; ac efe a'i gosododd ar ei ysgwydd, ac a'i dygodd i'r gymanfa. Yna Dewi (er dirfawr gysur i bawb o'r ffyddloniaid) a bregethodd air Duw i'r bobl, a'r ddaear yn y cyfamser oedd yn tyfu dan ei draed ef: ac ar gribyn y bryn hwnw yr adeiladwyd yr eglwys wedi hyny, yr hon a gysegrwyd er anrhydedd i Ddewi, ac a elwir hyd heddyw, Llanddewi-brefi."

Pa un a yw y gwyrthiau hyn, a llawer ereill, yn wirioneddau dilys, sydd yn beth mwy nag a allaf ei ddywedyd; ond y mae yn ddiammheu fod Dewi yn dduwinydd enwog, yn ysgolhaig mawr ei ddoniau, ac yn wr a'i ymarweddiad yn y nefoedd, ac efe eto yn byw ar y ddaear. Ei ardderchogrwydd ef a ragfynegwyd, ac efe eto yn nghroth ei fam, megys yr ymddengys wrth yr hanesyn nodedig a ganlyn:—Pan oedd Gildas yn pregethu mewn eglwys a elwid Llan-y-morfa, fe ddygwyddodd i Non raslawn, yr hon oedd yn feichiog ar Dewi y pryd hwnw, ddyfod i mewn ar haner y bregeth; ac yn ddiatreg fe aeth Gildas yn fud, ac ni allai bregethu gair mwyach. Synu a wnaeth pawb yn ddirfawr wrth weled y pregethwr yn fud mor ddisymwth, a gofynwyd iddo beth oedd yr achos nad

* Girald. Vit. S. David. apud Wharton. Anglia Sacra. p. 659.

elai rhagddo yn ei ymadrodd. "Yn wir," ebe Gildas, "mi a allaf siared a chwi mewn ymadrodd cyffredin, ond ni allaf bregethu mewn modd yn y byd; ni wn i beth sydd yn ei beri.* Eithr atolwg ewch oll allan dros ennyd, i brofi beth a allaf ei wneuthur wrthyf fy hunan." Ac yna, wedi myned o'r gynulleidfa allan, y ceisiodd Gildas bregethu drachefn; ond nis gallasai mewn modd yn y byd, er gwneuthur o hono amryw gynygion. Ac er hyny, mewn braw a syndod meddwl, efe a waeddodd allan, "Yr wyf yn dy dyngedu trwy y Duw byw, od oes yma neb yn ymguddio, ar ddyfod o hono i'r amlwg." Ar hyny Non, yr hon oedd yn eistedd mewn rhyw gilfach ddirgel, yn myfyrio ar y bregeth, a ddaeth i'r goleu, a chan ymgrymu yn ostyngedig a atebodd, "Nid oes yma neb ond myfi, Arglwydd, yr hon a eisteddais acw yn myfyrio ar yr hyn ag oeddech chwi, trwy fawr wybodaeth, yn llefaru." Yna y gwybu Gildas y byddai y plentyn a enid o honi yn ardderchocach nag ef; felly efe a atolygodd arni fyned allan, ac yn ebrwydd wedi hyny efe a bregethodd yn ddirwystr.

Ar ol cynal y gymanfa rag-grybwylledig, yn Llanddewi-brefi, Dyfrig, yr archesgob, ac efe yn awr wedi myned yn hen ac yn eiddil, a ddymunodd gael ei ysgafnhau o'i swydd, am fod gofal archesgobaeth yn rhy drwm i ysgwyddau y fath henafgwr ag oedd ef. Ar hyny Dewi ap Sanct, arglwydd Aberteifi, ac ewythr y brenin Arthur, a gysegrwyd yn archesgob yn ei le ef. Ond am fod Caerlleon ar Wysg yn lle llawn o drwst, ac yn gyrchfa dyeithriaid a phen bonedd y deyrnas (canys yno y cynelid llys y brenin ar brydiau), Dewi, er mwyn ychwaneg o lonyddwch a dystawrwydd, a symudodd yr archesgobaeth oddiyno i Benfro, i'r lle a elwir yn awr Tyddewi; ac yno y bu pump ar hugain o archesgobion ar ol Dewi, yn cadw eu braint yn gyfan ac yn gwbl. Yn nghylch y flwyddyn o oedran Crist 1100, y collodd Tyddewi y fraint o fod yn eisteddfa archesgob, nid trwy iawn yn y byd, ond trwy ormes a thrawsfeddiant arall nad oedd ganddo ddim hawl. Dewi, yr archesgob cyntaf yno, a fu farw yn llawn o ddyddiau, wedi cyrhaedd cant a saith a deugain o flynyddoedd.†

Y deyrnas a fu dalm mawr o amser ar ol hyn yn lled dangnefeddus; eneinniwyd breninoedd trwy Gymru a Lloegr, y rhai oedd yn llwyddo, am eu bod yn dilyn daioni. "Trugaredd

* Ego quidem communi loquela vos alloqui possum, prædicare vera, nullatenus possum. Girald. p. 630. † Leland. de Scriptor. Brit. vol. 1. p. 61.

a ffyddlondeb a gadwant y brenin, a'i orseddfa a gadarnheir trwy drugaredd." (Diar. xx. 28.) Gosodwyd barnwyr cyfiawn yn yr amryw lysoedd, i iawn farnu dadleuon, ac ordeiniwyd gweinidogion duwiol i fugeilio eglwys Dduw. Ond wedi i genedlaeth arall gyfodi, a'u llygaid yn unig ar yr hawddfyd presenol, ac heb deimlo pwys y trallodau a ddyoddefodd eu teidiau, pob peth a syrthiodd allan o drefn, megys hen adeilad yn adfeilio; canys y breninoedd, megys cynifer gormesdeyrn creulon, a orthrymasant eu deiliaid yn dost, yn llawn "cenfigen, llofruddiaeth, cynhen, twyll, a drwg anwydau." (Rhuf. i. 29.) Y barnwyr a werthasant farn am arian, "gan ganlyn ffordd Balaam, mab Bosor, yr hwn a garodd wobr annghyfiawnder." Yr offeiriaid oeddent megys "yr eilun bugail," yn Zech. xi. 17, yn gadael y praidd, yn porthi eu hunain, ac yn gwasgaru y defaid; a'r brodorion hwythau a ganlynasant yn gwbl esiampl eu hathrawon, "wedi eu llenwi a phob annghyfiawnder, godineb, anwiredd, cybydddod a drygioni." (Rhuf. i. 29.) Mewn gair, fe ellir cymhwyso atynt eiriau y bardd, "In facinus jurasse putes;" sef yw hyny, Yr oeddent megys wedi cymeryd y mawr-lw i ganlyn pob ysgelerder a drygioni. Ac felly nid yw ryfedd i farnedigaeth yr Arglwydd eu gorddiwes yn y diwedd. "Hwyra' dial, dial Duw: sicra' dial, dial Duw." "Oni ymwelaf am y peth hyn, medd yr Arglwydd? oni ddial fy enaid ar y gyfryw genedl a hon?" (Jer. v. 9.) Felly yma: wedi i'w pechodau addfedu i ddystryw, yr Arglwydd a ymwelodd a'u hanwiredd: a bu farw nifer mawr o bla dinystriol a elwid y Fall Felen, neu fath o glefyd melyn;* ond yn fwy enwedigol y pla a ysgubodd yn llwyr agos yn y parthau hyny dan lywodraeth Maelgwn Gwynedd, mab Caswallon Law-hir, mab Einion Urdd, sef y rhan fwyaf o Gymru; er i luaws afrifed farw yn Lloegr hefyd. Gwr rhadlawn a hynaws oedd Maelgwn ar y cyntaf, er yn llawn calondid i ymladd o blaid yr eglwys a braint gyffredin y deyrnas: ond yn ei amser diweddaf, y mae yn debygol iddo fyned ar ei ogwydd, a gwyro oddiwrth y ffordd uniawn y bu efe gynt yn iawn droedio ynddi; a hyny o'i ormod serch at Rhun, ei fab; trwy ei fod, megys yr hen Eli yntau, yn gadael iddo wneuthur pa beth bynag a fynai, yn ddigerydd ac yn ddigosp: ac o achos hyny y mae Gildas yn ergydio geiriau

* Vide Uss. Eccles. Brit. Antiq. c. 14. p. 290.

chwerwon ato.* Ac y mae Taliesin yn ei fellditbio yn gras, pan yn dywedyd,

"Na bo rhad na gwedd ar Faelgwn Gwynedd,
Trwy na ddialer ar Run ei etifedd;
Boed byr fo ei fuchedd, boed diffaeth fo ei diroedd,
Boed hir ddifroedd ar Faelgwn Gwynedd."

Un o feibion Maelgwn Gwynedd a elwid Ceredig; ac oddiwrtho ef (gan mai efe oedd yn arglwydd yno) y cafodd y rhandir hono o Ddeheudir Cymru yr enw Ceredigion, a elwir yn gyffredin, Sir Aberteifi.

Ond i ddychwelyd. Wedi i'r Arglwydd daro y bobl a'r fath bla mawr, a marw cynifer o filoedd o honynt, yna y Saeson a oresgynasant y wlad yn hawdd, gan nad oedd y gweddill a adawyd ond llesg ac anaml. Amryw filoedd hefyd a ddewisasant y pryd hwnw fordwyo dros y môr, at eu cydwladwyr, i Lydaw, yn nheyrnas Ffrainc, i ymgadw rhag ansawdd yr awyr afiach yn Mrydain. Felly, yn gymaint ag i gynifer o filoedd o honynt farw o'r pla, ac i gynifer o filoedd ddianc am eu heinioes i deyrnas Ffrainc, nid allasai fod yma gartref ond nifer eiddil a gwan i wrthsefyll rhuthrau y Saeson. Wrth hyn y mae yn amlwg mai nid trwy nerth arfau, na chyfrwysdra ychwaith (er maint oedd eu bradwriaeth, a llymed oedd awch y cyllyll hirion), y darfu i'r Saeson oresgyn Lloegr; ond mai barnedigaeth Duw oedd hyny yn danfon pla angeuol yn gosp ar y trigolion am eu pechodau gwaeddfawr, a'u calon-galedwch.† "Am na chofiasant luosogrwydd ei drugareddau, hwy a gwympasant yn nydd dial." Felly y Brutaniaid a gollasant goron Lloegr, yr hon a fu yn eu meddiant dros un mil, wyth cant, a saith ar hugain o flynyddoedd.‡

Yn awr, ar ol i'r Saeson drawsfeddiannu coron Lloegr, a chael preswylfod ddiogel (er mai annghyfiawn) yn y deyrnas, y danfonodd y pab a elwid Gregori, yn nghylch y flwyddyn 596, ac o gylch cant a haner o flynyddoedd ar ol dyfodiad cyntaf y Saeson i Frydain, y danfonodd y pab, meddaf, wr a elwid Awstin Fonach i bregethu yr efengyl iddynt; canys dynion llwyr annysgedig oeddent hwy eto, heb fedru gair ar lyfr, ac heb ddim adnabyddiaeth o'r gwir Dduw, nac o efengyl Iesu Grist.

* Gild. de Excid. Britann. p. 29. † Vide Nenn. de Reb. Gest. Brit. c. 45. ‡ History of Wales, p. 9. Lond. 1697.

Nid yr Awstin hwn oedd St. Awstin, esgob Hippo, dinas o Affrica; un o hen deidiau yr eglwys oedd hwnw, gwr duwiol, dysgedig, ac iawn-gred. Ond am yr Awstin hwn a ddaeth i Loegr, fe ddywedir mai climach hir, main, a theneu, oedd efe, o ran agwedd corff; ac am ei gyneddfau fel un o'r hen Phariseaid, yn wr stadus, balch, trahaus, gwaedlyd, a chenfigenus, megys y tystia ei ymddygiad yn Mrydain yn rhy amlwg, fel y dangosir isod. Ar ei waith yn tirio gyntaf yn yr ynys, yr oedd gwr o'i flaen yn dwyn croes fawr, wedi ei gwneuthur o arian, ac un arall yn dwyn llun Crist, wedi ei baentio ar astell.* Nid oedd hyn ddim ond rhodres a seremoni, i edrych yn fwy ei fawredd a'i rialltwch.

Yn wir yr oedd eglwys Rhufain, o gylch yr amser hwnw, nid yn unig wedi ymdrwsio ac ymharddu oddiallan ag amryw weigion seremonïau ac ofergoelion, er niwed i rym crefydd; eithr hefyd wedi ymlygru yn gethin yn ei hathrawiaeth; canys, 1. Heblaw at Iesu Grist, yr unig Gyfryngwr rhwng Duw a dyn, yr oeddid yn gweddïo hefyd at y saint, a'r santesau. 2. Heblaw nef ac uffern, fe ddychymygwyd yn ystrywgar ddigon drydydd lle, a elwir y purdan. 3. Yr oeddid yn gwahardd i offeiriaid briodi, er nad oedd hyny wedi ei osod yn gyffredinol eto. 4. Yr oedd esgob Rhufain yn honi awdurdod goruwch holl esgobion cred; ond fe ddywedir ei fod ef eto heb gwbl ymddyrchafu, ond ei fod megys gwr ag un troed yn y warthol. 5. Yr oeddid yn cymysgu halen swynedig a'r dwfr yn y bedydd. 6. Gosodwyd delwau yn anad dim yn y llanoedd, er nad oeddid yn ymgrymu iddynt eto. 7. Yr oeddid yn credu fod rhinwedd yn mhob tân-bren a maen, a wneid ar ddull y groes, i wneuthur gwyrthiau. A hyn oll y mae hen gronicl Cymreig yn adrodd yn y geiriau hyn:—"Y Cristionogion a ddyg Awstin i'r Saeson a lithrasai beth oddiwrth burdeb yr efengyl, a therfynau yr hen eglwys; ac yr ydoedd yn gymysgedig a llawer o arddigonedd, gosodedigaethau dynion, a sermonïau mudion, anhghytûn a natur teyrnas Crist; nid amgen croesau a delwau; crïo ar y saint meirw; pendefigaeth esgob Rhufain; dwfr a halen swynedig; a chyfryw oferedd annhebyg i ysbrydoldeb efyngyl Crist a gymysgasai Awstin a'r Gristionogaeth a osodasai efe yn mhlith y Saeson." Y dystiolaeth hynod hon a grybwyllir gan y gwir barchedig dad,

* Bed. Hist. Eccles. lib. 1. c. 25.

Rhisiart Dafies, D. D., esgob Dewi, yn ei ragymadrodd i'r Testament Newydd, a argraffwyd gyntaf yn Gymraeg, yn y flwyddyn 1567.

Pa lwyddiant a gafodd Awstin yn pregethu i'r Saeson, sydd hanes tu draw i amcan y traethawd hwn; ond ar ol iddo blanu y fath Gristionogaeth anmhur yn eu plith, bu gwiw gan y pab ei feistr ei wobrwyo ef ag archesgobaeth holl Brydain am ei boen. Hon oedd y waith gyntaf i'r pab ormesu yn y deyrnas hon. Ac yna Awstin, wedi ei ddyrchafu i'r fath awdurdod oruchel a hon, a ddanfonodd am esgobion y Brutaniaid, i edrych os ar antur a allai efe eu perswadio i gydnabod pab Rhufain yn ben bugail yr eglwys gatholic, a'i gydnabod yntau yn archesgob holl Brydain, megys yr oedd ei awdurdod oddiwrth y pab i fod felly. A Dynawt, abad Bangor-is-y-Coed, gyda llawer o wŷr eglwysig ereill, a ddaethant i'r lle gosodedig, i gael siared ag ef ar hyn o fatter, na chlybuwyd son am dano cyn hyny yn eglwys Brydain. Ar hyny Awstin a wnaeth araeth i osod allan hawl y pab, a'i awdurdod goruchel dros holl eglwysi cred. A Dynawt (gwr profedig gan Dduw, ac yn iawn gyfranu gair y gwirionedd) a'i hatebodd ef yn y geiriau dwys a ganlyn: "Bydded hysbys a diogel i chwi ein bod ni oll, un ac arall, yn ufudd ac yn ostyngedig i eglwys Dduw, ac i'r pab o Rufain, ac i bob cywir Gristion duwiol, i garu pawb yn ei radd, mewn cariad perffaith, ac i helpio pawb o honynt ar air a gweithred, i fod yn blant i Dduw. Ac amgenech ufudd-dod na hwn, nid adwaen i fod i'r neb yr ydych chwi yn ei enwi yn bab, neu yn dad o dad, i'w honi nac i'w ofyn. A'r ufudd-dod hwn yr ydym ni yn barod i'w roddi iddo ef ac i bob Cristion yn dragywyddol. Hefyd, yr ydym ni dan lywodraeth esgob Caerlleon ar Wysg, yr hwn sydd olygwr dan Dduw arnom ni, i wneuthur i ni gadw y ffordd ysbrydol."* Y mae hon yn dystiolaeth odidog yn erbyn pabyddiaeth; canys y mae Dynawt yn ateb yn enw y lleill, ei frodyr, eu bod hwy yn barod i helpio ac i garu y sawl ag oedd Awstin yn alw yn bab Rhufain, os oedd efe yn gywir Gristion, megys y maent hwy, mewn cariad, yn gobeithio ei fod. Ond amgenach ufudd-dod na hwnw ni wyddent hwy ddim oddiwrtho. "Yr ydym ni," ebe hwy, "dan lywodraeth esgob Caerlleon ar Wysg, yr hwn sydd olygwr dan Dduw arnom."

* Spelm. Concil. Brit. p. 108, ex Antiq. MS.

Yn awr pan glybu Awstin yr ymadrodd hwn, efe a wybu eisioes na chydnabyddid ef na'i feistr, y pab, yn ben bugail yr eglwys gatholic, nac yntau ychwaith yn archesgob, gan eglwys Brydain. Ar hyny y gwr a ffromodd yn aruthr,

> " Hysbys y dengys y dyn,
> O ba radd y bo'i wreiddyn,"

ac a ddywed yn ddigllon, " Yn gymaint a'ch bod yn gommedd cydnabod pab Rhufain yn ben bugail yr eglwys gatholic, ac yn glynu wrth eich arferion neillduol, amlygwch, atolwg, wirionedd eich egwyddorion, drwy wneuthur gwyrthiau." Ac allan o law fe ddycpwyd atynt ryw hen Sais dall i brofi a allent edfryd ei olwg iddo: a phan nas gallasent, Awstin a gymerth y gwaith mewn llaw, ac a weddïodd, ac yn ebrwydd y dall a welodd.* Fe debygai dyn y buasai yn rheitiach iddo wrth ddawn amrywiol dafodau, na'i ffrost fawr yn gwneuthur gwyrthiau. Ond efe ni fedrai ar air o iaith y Saeson, ond fel yr oedd cyfieithydd rhyngddynt; ond er hyny y mae efe yn rhyfygu gwneuthur rhyfeddodau a gwyrthiau. Efe a wnaeth yn gall ddewis Sais; pe buasai efe yn Gymro, ond odid na fuasai y gwaith yn ormod o dasg iddo.

Yn wir y mae y papistiaid, a'r paganiaid hefyd, yn dwrddio nid ychydig yn nghylch eu dawn i wneyd gwyrthiau. Dywed y papistiaid am St. Tomos (un o'r seintiau) i'r groes lefaru wrtho, "Da yr ysgrifenaist am danaf fi, O Domos."† Dywed y paganiaid hefyd, i deml y dduwies Dyngedfen lefaru wrth y gwragedd oedd yn gweini yno, "Da, da, y gwnaethoch."‡ Dywed y papistiaid fod St. Fransis yn pregethu i adar, a physgod, a gwylltfilod; ac i'w bregeth weithio y fath gyfnewidiad mewn blaidd rheibus, megys ag y daeth at St. Fransis, ac a dyngodd yn hoew brysur wrtho, na wnai efe niweid i ddyn nac anifail byth ar ol hyny.§ Dywed y paganiaid hefyd amryw chwedlau at yr un ystyr. Dywed y papistiaid hefyd i ryw ddyn dori ymaith ei fraich ddeheu, a'i chrogi wrth bost, yn ngwydd lluaws o bobl; ond ar ol iddo ymostwng yn ddefosionol o flaen delw y Fair Forwyn, neidiodd y fraich a grogasid wrth y post yn ddiatreg at ei gorff, a hi a asiwyd mor gynil ac mor gelfyddgar, fel nad allai neb ganfod ol y cydiad.||

* Bed. Hist. Eccles. lib. 2. c. 2. † Brev. Rom. in Fest. S. Thom. 7 Mart. ‡ Val. Max. lib. 1. c. 8. § Gest. S. Francisc. N. 7 & 16. || Baron. ad Ann. 728. N. 5, 6, 7.

Dywed y paganiaid hefyd fod rhyw wraig yn cael ei dygn flino o achos rhyw lyngyren fawr yn ei bol; a phan aeth hi at y dewin i'w hiachâu, ysywaeth yr oedd efe wedi myned oddicartref. Eithr ei weision a ddodasant y wraig yn y lle yr oedd eu meistr yn arfer iachâu y cleifion, ac a dorasant ei phen, fel y gallent, yn fwy dirwystr, dynu y llyngyren allan o'i bol; ond cyn iddynt hwy asio y pen wrth y corff, dyma y meistr ei hun yn dychwelyd, yr hwn a geryddodd ei weision am ei bod yn anturio gormod; ond efe a drugarhaodd wrth y wraig, ac a'i gwnaeth hi yn holliach yn ddiatreg.* Gwaith hawdd a fyddai ychwanegu lluaws o'r gwyrthiau y mae y naill a'r llall yn bostio o'u plegid. Fe all pob dyn, ïe, a haner llygad, ganfod pa wirioneddau sydd ynddynt wrth yr ychydig a grybwyllwyd; ond y gall gau athrawon wneuthur rhyw fath o wyrthau sydd ddiddadl; canys ebe ein Hiachawdwr, "Gau Gristiau a gau brophwydi a gyfodant, ac a ddangosant arwyddion a rhyfeddodau, i hudo ymaith, pe byddai bosibl, ïe, yr etholedigion." (Marc xiii. 22.) Ac felly, yn gymaint a bod Awstin Fonach yn ceisio hyrddu athrawiaeth wyrgam, megys pendefigaeth esgob Rhufain, crïo ar y saint, &c., yr hen Frutaniaid a wnaethant yn dda ei wrthsefyll ef, a glynu wrth gynghor eu Hiachawdwr, "Eithr ymogelwch chwi; wele rhagddywedais i chwi pob peth." (Marc. xiii. 23.) Da y dywed gwr o'n heglwys yn y cyffelyb achos: "Hyn a ddywedaf," eb efe, "i ddangos i'n gwrthwynebwyr, y papistiaid, sef na fyddant ddigofus pe holid eu gwyrthiau wrth reol yr Ysgrythyr; canys os cadarnhant un athrawiaeth arall nag a gynwysir yno, nyni a'u gwrthodwn megys gwyrthiau celwyddog, neu weithrediad Satan."†

Mae yn ddilys fod hen Frutaniaid yr oes hono yn edrych ar Awstin ddim gwell na gau athraw; canys y mae y cronicl yn tystio nad oedd deilwng ganddynt gyfarch gwell i neb o'r Saeson, ar ol i Awstin osod y fath Gristionogaeth anmhur yn eu plith, er eu bod, tra y buont yn baganiaid yn cydbrynu a gwerthu, ac yn cydhelyntio a hwy.‡ Ac nid heb awdurdod yr Ysgrythyr lân y gwnai y Brutaniaid hyny; canys St. Paul a ddywed, "Os bydd neb a enwir yn frawd yn odinebwr, neu yn gybydd, neu yn eilunaddolwr, neu yn ddifenwr, neu yn feddw, neu yn gribddeiliwr, gyda'r cyfryw un na chydfwyta ychwaith." (1 Cor. v. 11.) Ac yn wir yn y fath achos a hwn,

* Vide Ælian. de Animal. lib. 9. c. 33. † White's Way to the Church. 42. p. 300. ‡ Vide Dr. Ric. Davis, Ep. Menev. Præf. ad N. T.

sef mewn egwyddorion crefydd, ni wnai yr hen Frutaniaid union-gred ddim oll heb awdurdod yr efengyl; canys un o'u diarebion oedd, "A gair Duw yn uchaf."

Y mae Taliesin, pen beirdd yr oes hono, yn cyhoeddi gwae i'r offeiriad, yr hwn ni chadwai ei ddiadell yn ofalus rhag surdoes Awstin, ac ereill o'r offeiriaid pabaidd, y rhai a eilw efe "Bleiddiau Rhufain." Mi a ychwanegaf yma ryw gyfran o'r awdl hono, yr hon a haeddai yn dda ei chadw mewn coffadwriaeth, yn gystal o ran ei heneidd-dra, ac hefyd y testunau duwiol a gynwysir ynddi:—

"Gwae a gymerth fedydd,
A chred a chrefydd, onis tystia;
Gwae hwy benaethiau,
A'u diriaid dafodau, sy'n llawn traha.

"Gwae offeiriad mud,
Ni enghreifftia gwud,* ac ni phregetha;
Gwae ni cheidw ei gael,
Ac efe yn fugail, ac nis areilia.

"Gwae ni cheidw ei ddefaid,
*Rhag bleiddiau Rhufeiniaid, a'u ffon-gnwpa;*
Gwae ddigasog saint,
Ni cheidw ei fraint, ac ni addola.

"Gwae eilun angau,
A wnel bechodau, ac nis cyffesa;
Gwae a yso fwyd,
Trwy segur fywyd, ac ni lafuria.

"Gwae a gasglo olud,
Tra fo yn y byd, o drais a thraha;
Gwae erbyn dydd-brawd,†
Ni chospo ei gnawd, ac nis gweddïa.

"Gwae a fo ben-gwlad,
Ac a fo geidwad, ac a wnel draha;
Gwae ni chred i'r Drindawd,
Gwae ni rydd gardawd, ac ni thrugarha.

"Gwae a ddygo dreftad
Y weddw a'r amddifad, onis cyfiawnha;
Gwae a orchfygo'r gwan,
Ac a ddygo ei ran, onis cyflawna.

"Gwae a ddygo fâr,
Yn ei galon at ei gâr, ac a'i casâ;
Gwae berchen cyfoeth,
Ac a welo lednoeth, oni thosturia.

* Ni cherydda odineb. † Dydd y farn.

"Gwae hwy y gethern,
A wladychant uffern, ar ol byd yma,
Man y mae crïo,
Man y mae udo, byth heb esmwythdra."

Ni bu gwaith Awstin, a gwŷr llen Brydain, yn ymgyfarfod y tro cyntaf ond profiad o dymmher ddigllon y gwr. Nid oedd y waith gyntaf ond ymgiprys chwarian: yr oedd natur y blaidd eto yn guddiedig odditan groen yr oen. Nid oedd eto ond llais dystaw main; y mae y rhyferthwy, a'r dymmhestl ddinystriol yn canlyn. Cyn ymadael o honynt y waith gyntaf, cytuno a wnaeth y ddwy blaid i ymgyfarfod drachefn, tua chydiad y ddwy sir, Caerwrangon a Henffordd, mewn lle a elwid wedi hyny, "Derwen Awstin;" oblegid y gymanfa a gynaliwyd dan dderwen gauad-frig yn y maes. Yno y daeth, o du y Brutaniaid nifer fawr iawn yn nghyd; canys heblaw saith o esgobion Cymru, nid amgen, esgob Caerwrangon,* esgob Henffordd,* esgob Llandaf, esgob Llanbadarn-fawr, esgob Bangor, esgob Llanelwy, ac esgob Caergybi, yn Môn; heblaw y saith esgob hyn, meddaf, y daeth yn nghyd hefyd, o Ddeheubarth Cymru, ysgolheigion mawr eu doniau o brif ysgol Caerlleon ar Wysg, lle agos mor hynod y pryd hwnw ag yw Rhydychain yn awr: ac o Wynedd y daeth amryw gannoedd o athrawion dysgedig o'r fonachlog fawr, a mammaeth pob dysgeidiaeth yn yr oes hono, Bangor-is-y-Coed; canys y fath oedd y trwst a'r twrdd a gododd Awstin yn nghylch yr awdurdod, a'r hawl ag oedd y pab yn ei honi, megys a'u bod yn myned yn finteioedd i weled y gwr o Rufain ag oedd genad drosto. Ond cyn eu myned i ben eu taith, cyfarfu rhai o honynt ag henafgwr crefyddol, yr hwn a ofynodd iddynt i ba le yr oeddent yn myned. "Nyni a awn," ebe hwy, "i gyfarfod Awstin Fonach, yr hwn a ddanfonwyd gan y sawl a eilw efe yn bab Rhufain, i bregethu yr efengyl i'r Saeson. Y mae efe yn ceisio genym ninau ufuddhau iddo, ac hefyd i dderbyn yr unrhyw seremonïau ac erthyglau crefyddol, y fath ag y mae eglwys Rhufain yn gynal. Atolwg, beth yw eich barn chwi ar hyn o fater? a ufuddhawn ni iddo, ai ni wnawn?" Atebai yr henafgwr, "Os ydyw wedi ei anfon o Dduw, ufuddhewch iddo." "Ond pa fodd y cawn ni wybod," ebe hwy, "ai o Dduw y mae, ai nad yw?" "Wrth hyn," ebe'r henafgwr,

* * Y ddwy esgobaeth hyn a gyfrifid yn rhan o Gymru yn yr oes hono.

"ystyriwch fel y dywed ein Hiachawdwr, 'Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf, canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon.' (Mat. xi. 29.) Felly, os yw yr Awstin hwnw yn wr gostyngedig, addfwyn, ac yn dlawd o ysbryd, yna gwrandêwch arno; os amgen, peidiwch: na fydded i chwi ymwneuthur ag ef." "Ond pa fodd y cawn ni wybod," ebe hwy drachefn, "ai balch ai gostyngedig ydyw?" "Yn hawdd ddigon," ebe'r henafgwr: "ewch chwi gan bwyll, ac yn araf, fel y caffo Awstin y blaen arnoch, ac yr eisteddo yn ei gadair. Yn awr," eb efe, "nid yw efe ond un; y mae, ar a glywaf, o'n tu ni, saith o esgobion, heblaw amryw wŷr dysgedig ereill; ac am hyny, oni chyfyd Awstin o'i gadair, a chyfarch gwell i chwi, yna bernwch yn uniawn mai gwr balch yw efe; na roddwch ufudd-dod iddo." Cynghor yr henafgwr a gyfrifid gan bawb megys rhybudd caredig oddiwrth angel Duw; a phawb yn un a chytûn a lwyr fwriadasant wneuthur yn ol ei gynghor. Ar ol canu yn iach i'r henafgwr, myned a wnaethant yn enw Duw yn mlaen; ac wedi dyfod i wydd Awstin, ni bu gwiw gan y gwr ysgog o'i gadair, mwy na phe buasai wedi ei hoelio wrthi.

Ar ol edrych o hono, yn dyn ac yn dal ei ffriw dros enyd, yna bu gwiw ganddo siared, a dywedyd, "Er eich bod, frodyr anwyl, yn dal llawer o bethau yn wrthwyneb i'n harfer ni, eto ni a fyddwn ymarhous yn y lleill, ac a gyd-ddygwn a chwi, os chwychwi, ar hyn o amser, a gytunwch a ni mewn tri pheth: sef, yn 1. Cadw gwyl y Pasg, yn ol arfer a threfn eglwys Rhufain. 2. Cyflawni gweinidogaeth bedydd, yn ol defod ac arfer yr unrhyw eglwys Rhufain. 3. Pregethu yr efengyl, gyda ni, i'r Saeson. Os chwychwi a wnewch hyn," eb efe, "nyni a gyd-ddygwn a chwi dros amser, oblegid pethau ereill sydd mewn dadl rhyngom." Ar hyny, esgobion Cymru a atebasant, na chytunent hwy ag ef mewn un o'r pethau hyny, ac na fynent mo'i swydd ef ychwaith i fod yn archesgob arnynt hwy. "Canys," ebe hwy wrth eu gilydd, "os bu chwith ganddo gwnu o'i gadair a'n cyfarch yn awr, pa faint mwy y diystyrai efe ni, ped ymostyngem unwaith dan ei lywodraeth?"* "Ai, ïe," ebe Awstin, yn ddigofus yn awr o'i galon, a'i waed yn berwi o'i fewn, "ai dyna yw eich chwedl? Nid hwyrach, ar antur, na bydd yn edifar genych rhagllaw. Os nid gwiw genych bregethu gair y bywyd gyda ni i'r Saeson, mi a ddy-

* Si mode nobis assurgere noluit, quanto magis si ei subdi cæperimus, jam nos pro nihilo contemnet. Bed. lib. 2. c. 2.

wedaf hyn wrthych, fe ddaw amser, ond odid, ïe, ac ar fyr hefyd, pryd y dyoddefwch angeu ar eu dwylaw."

Yn wir fe fu y gwr cystal a'i air, er nad oedd efe ddim mwy prophwyd na Simon Magus, yr hudol. Canys efe o gyffrôdd ac a annogodd un o freninoedd y Saeson, a elwid Ethelbert, brenin Caint, i gynull gwŷr ac arfau i ddial ar y Brutaniaid, am y sarhad a roddwyd iddo, yn ei wrthod ef o fod yn arch-esgob yn y gymanfa uchod. Ethelbert a dyciodd gyda brenin arall, a elwid Elffred: a'r ddau frenin yma, ar arch Awstin, a gynullasant lu mawr iawn o wŷr arfog, dynion cethin oll, yn sychedu am dywallt gwaed, ac a aethant yn union-gyrch tua Chaerlleon Gawr, ar Ddyfrdwy. Yno, o fewn milltir neu ddwy i'r ddinas, yr ymgyfarfu a hwy Brochfael Ysgythrog, ŵyr Brychan Brycheiniog, o ferch, yn nghyda'i wŷr arfog yntau; ond nid oedd ganddo ef ond megys llonaid llaw—nid un am ddeg ag oedd yn llu y gelynion: ac am hyny efe a amcanodd wneuthur yn gall, sef achub einioes ei wŷr trwy ddeisyf ammodau heddwch. Canys, "pa frenin yn myned i ryfel yn erbyn brenin arall, nid eistedd yn gyntaf, ac ymgynghori, a all efe a deng mil gyfarfod a'r hwn sydd yn dyfod i'w erbyn ef ag ugain mil? Ac os amgen, tra fyddo efe yn mhell oddiwrtho, efe a enfyn genadwri, ac a ddeisyf ammodau heddwch." (Luc xiv. 31.) Felly Brochfael, meddaf, llywiawdwr Caerlleon Gawr, wrth ystyried anamled oedd nifer ei lu, a anfonodd wŷr, yn eu crysbeisiau (er ychwanegu fyth yr argoel o ufudd-dod), i ddeisyf ammodau heddwch ar ddwylaw y ddau frenin; ond hyny ni chawsant; canys, ar arch Awstin ddigllon, hwy a drywanwyd a'r cleddyf.* Yna Brochfael, a'i ychydig nifer ofnus, a giliodd tua Bangor-is-y-Coed, lle ag oedd yn yr oes hono yn fonachlog fawr odidog, ac ynddi ychwaneg na dwy fil o fonachod, gwŷr duwiol a bucheddol, yn gwasanaethu Duw mewn purdeb. Nid oedd y rhai hyn ddim megys monachod eglwys Rhufain, yn loddestwyr, yn segurllyd, ac yn caru melus chwant. Rhai oedd yn astudio duwinyddiaeth; rhai physygwriaeth; rhai y celfyddydau; rhai ieithoedd; ïe, a rhai yn byw ar lafur eu dwylaw, yn gosod gerddi, yn planu coed, y rhai hefyd wedi dysgu crefft. Ar waith dau frenin y Saeson, a'u llu mawr arfog, yn nesâu tuag atynt, y monachod hyn, ar ol tridiau o ympryd, a aethant allan o'u monachlog i

* Vide Goodwin's Catalogue, c. 4. p. 45.

gyfarfod a Brochfael Ysgythrog, i weddïo am rwydd-deb a ffyniant iddo, a'i annog ef i ymgryfhau ac ymwroli, er lleied oedd nifer ei wŷr; canys hwy a wyddent eisioes nad oedd dim fafr i'w ddysgwyl oddiwrth Awstin. Pan ganfu un o freninoedd y Saeson hwy yn bentwr o'r neilldu, efe a ofynodd pa rai oedd y rhai hyny; a phan fynegwyd iddo mai offeiriaid y Duw goruchaf oeddent, y rhai a ddaethant yno i weddïo o blaid eu cydwladwyr, efe a ffromodd yn erchyll; ac yn ei wyn danbaid o gynddeiriogrwydd, efe a barodd ruthro arnynt hwy yn gyntaf; a merthyrwyd o weinidogion Crist ddeuddeg cant mewn gwaed oer, a hwy yn ddiarfog; ac Awstin Fonach, yn y cyfamser, yn sefyll gerllaw, ac yn cydsynio i'w lladd hwy. Gwaedlyd oedd y papistiaid ar y cyntaf, a gwaedlyd eto fyth. Ni ddiangodd ond deg a deugain yn unig.* Yn y flwyddyn o oedran Crist 601 y bu hyn.

Nid yw y papistiaid haner boddlon i glywed y fath drwm achwyn ar Awstin Fonach. Ni fynant hwy addef fod gan Awstin ddim llaw oll yn merthyrdod y monachod hyn; a cheisio dywedyd y maent fod Awstin wedi marw cyn hyny.† Ond y maent yn "ymguddio ar gefn y gist," canys y mae yn eglur iddo fyw rai blynyddoedd wedi hyny; am fod ei law wrth weithredoedd rai blynyddau wedi merthyru y duwiolion yn Mangor-is-y-Coed.‡ Dyma yr amser y dywedir i lawer iawn o dduwiolion Brydain fyned dros y mor, i ynys Enlli, i ymgadw rhag creulonder y Saeson, megys y mae yr Arglwydd yn caniatâu: "Pan y'ch erlidiant yn y ddinas hon, ffowch i un arall." (Mat. x. 23.) Mae yn debygol ddigon mai y deg monach a deugain, y rhai a ddiangasant o'r lladdfa echrydus hono, oedd y rhai a berswadiodd ereill; y rhai, yn ol yr hen draddodiad, oeddent ddim llai nag ugain mil, megys y tystia diareb "yr ugain mil saint." Yna y claddwyd Daniel, esgob Bangor, yr hwn a soniwyd am dano uchod.§

Ond buan y cyrhaeddodd llaw yr Arglwydd y brenin annhrugarog, yn nghyda'i llofruddwyr gwaedlyd, y rhai a olchasant eu dwylaw anwir yn ngwaed dysgyblion yr Arglwydd; canys yr oedd galanas lladdedigion Bangor yn gwaeddi yn groch

* Vide Spelm. Concil. Britan. p. 110. † Hanc Parenthesin in Bed. lib. 2. c. 2. (quamvis ipso Augustino jam multo ante tempore ad cælestia regna sublato) pontificii inextuerunt contra omnium MS. Saxonicorum librorum fidem. Spel. Concil. p. 110. ‡ Jewel's Defence, P. 5. c. 1. p. 438. § Powel. Annot. ad. Girald. lib. 2. c. 6. p. 192.

am ddial. Nid oedd neb, hyd y cyrhaeddodd y chwedl alarus, nad oedd ei natur yn gerwino ac yn cyffröi wrth glywed son am weithred mor gïaidd, mor echrydus, ac mor felldigedig. Felly, er i Frochfael Ysgythrog, o waith anamled nifer ei filwyr, ffoi o flaen ei elynion y tro cyntaf, eto, buan y daeth o'i blaid gymhorth cyfamserol, sef Cadfan, tywysog Gwynedd, a Morgan, tywysog Deheubarth, ill dau a llu dewisol yn eu canlyn, i gyd yn wŷr nerthol, calonog, ac yn llawn o egni i ymladd dros fraint eu gwlad. Yr oedd dau frenin y Saeson yn eu gorfoledd a'u crechwen yn dychwelyd adref; ond goddiweddwyd hwy gan y Brutaniaid, pan oeddent leiaf yn dysgwyl am y fath gyfarchiad; ac ar eu gwaith yn bloeddio i'r frwydr, daeth Bledric, tywysog Cerniw, o ystlys Gwlad yr Hâf, yn gynorthwy ychwanegol i'r Cymry. Erbyn hyny yr oedd y Saeson mewn cyfyngdra mawr, wedi eu hamgylchu o bob tu. Eu cydwybod a ddeffrôdd yn drachwyllt, gan ddwyn ar gof y gwaed gwirion a dywalltasant. Braw a syndod a'u cymerodd, ac nid oedd ergydion eu saethau ond llesg a methedig, megys y gwelwch chwi bysgod ar dir sych yn rhoi ambell naid egwan, ac yna yn dyhead o eisiau anadl. Ond o'r tu arall, y Brutaniaid, ar hyn o bryd, yn ddiammheu, oeddent yn llawn calondid a gwroldeb, yn ergydio eu saethau megys cewri o rym: ac nid oedd na saeth na phicell a daflwyd, nad oedd cynifer Sais yn cwympo yn gelain farw, neu yn glwyfus. Un yn troi ei gefn, a saeth yn ei wegil; un arall, yn well ei ysbryd, a saeth yn ei galon; un a'i ymysgaroedd allan, un arall a'i ymenydd; un yn ochain ac yn ynfydu gan ei boen, arall yn cael ei larpio yn chwilfriw gan y meirch rhyfel yn ystrancio; un a'i waed yn ffrydio fel pistyll, arall a'i esgyrn yn ysgyrioni; un wedi ei dori yn ei haner, arall yn fyr o'i ben, arall o'i freichiau, arall o'i esgeiriau. Ar air, nid oedd ond yr wbwb wyllt, a'r oernad, a drychau marwolaeth trwy holl fyddin y Saeson. Fe gwympodd, y dwthwn hwnw, ddeng mil a thriugain o wŷr y Saeson yn galaneddau meirwon, yn nghydag Ethelbert, brenin Caint, heblaw yr archolledig, a'r rhai a ddaliwyd yn garcharorion.

Cadfan, tywysog neu frenin Gwynedd, yr hwn y sonir am dano uchod, a gladdwyd yn Llan-gadwaladr, yn Môn, a'r ysgrifen hon uwchben drws, gyferbyn a'i feddrod, "Catamanus rex sapientissimus opimatissimus omnium regum;"* hyny

* Mona Antiq. Rest. p. 156, 157.

yw, "Cadfan, y doethaf a'r cyfoethocaf o'r holl freninoedd." Ei ŵyr ef oedd Cadwaladr Fendigaid, yr hwn a adeiladodd yr eglwys.

Ond i ddychwelyd at Awstin Fonach unwaith eto. Mewn tri pheth, fel y clywsoch eisioes, y mynai efe i esgobion Cymru gydnabod ei awdurdod. 1. Cadw y Pasg yn ol trefn eglwys Rhufain. 2. Derbyn yr un defodau yn y bedydd. 3. Pregethu yr efengyl i'r Saeson. Yn awr eu gwahanol farn yn y tri pheth yma ydoedd hyn: 1. Eglwys Rhufain a gadwai y Pasg y Sul cyntaf ar ol y pedwarydd dydd ar ddeg o oed y lleuad hyd at yr unfed dydd ar hugain, ar ol dyfod yr haul i linyn cyhydedd y gwanwyn, neu arwydd yr Hwrdd. Ac os dygwyddai mai dydd Sul a fyddai y pedwarydd dydd ar ddeg, yna y Pasg a fyddai y Sul nesaf. Ond y Brutaniaid, yn dilyn trefn eglwysi Asia, a gadwent y Pasg o'r pedwarydd dydd ar ddeg hyd yr ugeinfed dydd yn unig; ac os dygwyddai fod y pedwarydd dydd ar ddeg ar ddydd Sul, hwnw oedd y Pasg; yn gymaint a bod y Brutaniaid ar brydiau yn cynal y Pasg wythnos gyfan o flaen eglwys Rhufain; neu ei fod yn ddydd Pasg yn mysg y Brutaniaid, ac yn ddydd Sul y Blodau yn ol cyfrif y Rhufeiniaid. Y mae yn wir fod ychydig o annghytundeb yn mhlith awdwyr yn nghylch hyn o beth: ond dyna fel y mae Caradoc, abad Llancarfan, yn adrodd y mater. 2. Yr ail beth a fynai Awstin oedd, gweini bedydd yn ol defod eglwys Rhufain; a hyny oedd, ar iddynt gymysgu halen swynedig a'r dwfr. Math o seremoni ofergoelus oedd hon, a ddychymygwyd rai blynyddau cyn hyny, pan nad oedd bosibl i'n hesgobion ni wybod dim oddiwrthi; canys ni bu un genadwri nac un fasgnach rhwng y wlad hon a Rhufain, er ys agos i gan mlynedd cyn dyfodiad Awstin i Frydain.* A hyn y mae y cronicl a raggrybwyllwyd yn ei dystio, gan ddywedwyd, "Y Gristionogaeth a ddug Awstin i'r Saeson ydoedd gymysgedig a llawer o arddigonedd a gwagddefodau mudion, annghytûn a natur teyrnas Crist, nid amgen croesau a delwau, crïo ar y saint meirw, pendefigaeth esgob Rhufain, a dwfr a halen swynedig yn y bedydd." 3. Y trydydd peth a fynai Awstin oedd, pregethu yr efengyl i'r Saeson. Ond ni wnai esgobion Cymru ddim o hyn; o herwydd bod y Saeson, yn erbyn pob iawn cyfraith a gonestrwydd, wedi trawsfeddiannu eu gwlad. Yr oeddent yn

* Bp. Lloyd's Ch. Gov. of Britain. p. 64.

barnu nad allai fod dim rhinwedd mewn edifeirwch, heb wneuthur iawn am gam.* A chan fod y Saeson wedi eu hyspeilio hwy o'u hiawn eiddo, o'u tai, eu tiroedd, a'u teyrnas, eu barn hwy oedd, y dylasai y pab rybuddio Awstin i gynghori y Saeson, ar iddynt roddi yn ol eu gwir eiddo iddynt drachefn. Heblaw hyn, pe cytunasent hwy i bregethu i'r Saeson, fe fuasai yn rhaid iddynt dderbyn holl lygredigaethau Awstin. Canys, er nad oedd yma ond dau beth mewn perthynas i grefydd, y mae yn amlwg wrth ragymadrodd Awstin fod llawer o bynciau ereill mewn annghydfod rhyngddynt†—"Er eich bod, frodyr anwyl, yn dal *llawer* peth yn wrthwyneb i ni." Yr oedd Awstin yn gyfrwys: canys efe a wybu na fyddai gwiw geisio ganddynt ddygymod a'r cwbl ar unwaith. Ond ped ufuddhäent hwy i'r tri pheth cyntaf, efe a wnaethai gynyg, mewn amser cyfaddas, i hyrddu tri pheth arall. Ac felly yr esgobion a wnaethant yn gall yn gwrthsefyll y rhuthr cyntaf. Fe ellir tybied eu bod yn bwrw golwg ar eiriau yr apostol, "Chwychwi gan hyny, anwylyd, a chwi yn gwybod y pethau hyn o'r blaen, ymgedwch rhag eich arwain ymaith trwy amryfusedd yr annuwiol, a chwympo o honoch oddiwrth eich sicrwydd eich hun." (2 Pedr iii. 17.)

Y Brutaniaid a safasant o leiaf gant a haner o flynyddoedd ar ol hyn, yn wrolwych o blaid y wir ffydd, heb ymlygru a sorod pabyddiaeth. Canys pan ddarfu i fonach a elwid Eugubinus gyhoeddi i Fair Forwyn ymddangos iddo mewn breuddwyd, ac erchi iddo osod ei delw hi yn yr eglwysi, ac ymgrymu iddi megys i ddelw Crist ei hun—ac ar ol i'r pab, hefyd, truan wr, alw cymanfa i gadarnhau breuddwyd yr offeiriedyn, esgobion Cymru ni dderbynient ei awdurdod, gan ddywedyd, "Cadwed ei freuddwyd iddo ei hun." A hyny a barodd i Sais a elwid Adelm, esgob Caersallog, ysgrifenu llyfr yn eu herbyn, lle y mae efe yn achwyn bod eu hoffeiriaid yn priodi, a'u bod yn sefyll yn erbyn awdurdod y pab, a defodau eglwys Rhufain.‡

Hyd yn hyn ni a welwn fod y Brutaniaid yn glynu yn

* Debuerat [Gregorius] medius fidius admonuisse Saxones, gentem perfidam, ut si sincere Christianismum vellent admittere, Britanniæ imperium (quod contra sacramentum militiæ per tyrannidem occupaverant) justis dominis et possessoribus quam primum restituerant. Lel. v. 1. p. 71. † In *multis* nostræ consuetudini—contraria queritis. Bed. lib. 2. c. 2. ‡ Vide Lel. de Script. Brit. p. 99.

ddisigl, ac yn ymdrechu o blaid y ffydd, yr hon a roddwyd unwaith i'r saint. Ond pabyddiaeth a ennillodd arnynt o fesur cam a cham, megys y gwelwch chwi ddiffyg at yr haul yn cynyddu ac yn ymgryfhau o fesur ychydig ac ychydig. Hwy a berswadiwyd i dderbyn rhyw gyfran yn awr ac eilwaith, ac o'r diwedd i "lyncu y llyffant yn lân." Hyn a ddygwyddodd yn y flwyddyn 763, pryd y gwthiodd y pab, trwy drais, wr a elwid Elbod, i fod megys patriarch ar Gymru; ac efe, trwy ei weniaeth hudol, a'u gwyrdrôdd oddiwrth burdeb yr efengyl.* Ond y mae yn ddiddadl i'r Cymry ymroddi yn gwbl i babyddiaeth tua'r ddegfed ganrif o oedran Crist. Canys yr ydym yn darllen i Hywel Dda, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn y flwyddyn 940, gymeryd gydag ef archesgob Tyddewi, esgob Bangor, esgob Llanelwy, a thri ar ddeg o wŷr dysgedig ereill, i fyned i Rufain, er cael gan y pab gadarnhau y gyfraith a wnaethai efe a'i gynghoriaid i reoli Cymru wrthi.† Ac y mae yn ddilys nad aethai efe i Rufain, efe a'i gynghoriaid, oni buasai ei fod wedi derbyn crefydd Rhufain, ac ymostwng i'r pab.

---

## PENNOD IV.

PABYDDIAETH YN YMDAENU TRWY GYMRU. PREGETH ST. ANTWN I'R PYSGOD. AMRYW HEN HANESION OFERGOELUS, ALLAN O GIRALDUS, ARCHDDIACON TYDDEWI, YR HWN A YSGRIFENODD EI HANES YN Y FLWYDDYN 1188.

HEBLAW pendefigaeth y pab, ei awdurdod ormesol, y purdan, gweddïo dros y marw, yr offeren Ladin, gwerthu maddeuant, attal y cwpan rhag y gwŷr lleyg yn y cymun, halen swynedig yn y bedydd, ac amryw wagddefodau mudion, annhebyg i ysbrydoldeb efengyl Crist—heblaw y pethau hyn, meddaf (er eu bod oll yn atgas, ac yn llwyr annghyson a rheol y ffydd), y mae dau beth tu hwnt i ereill, pe byddai le, ag y mae y papistiaid yn faentumio yn gwbl annghyson, direswm, a gwrthun; sef, 1. Gweddïo ar y seintiau. 2. Eu cred gyfeiliornus fod y bara a'r gwin, ar ol eu cysegru yn y cymun, yn newid, ac yn yn troi i wir gorff a gwaed Iesu Grist, yr hwn gyfnewid

* H Llwyd's Brev. of Britain. p. 67. † Powel's Chronicle, p. 54. Ed. Lon. 1584. & p. 51. Ed. Lond. 1697.

y maent yn ei alw wrth y gair "transubstanstiatio" [traws-sylweddiad].

1. Y mae gweddïo ar y seintiau yn llwyr wrthwyneb i ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, ac yn ganlynol i hyny, yn llwyr wyrthwyneb i bob rheswm. "Ti, Arglwydd, yw ein Tad ni, er nad edwyn Abraham ni, ac na'n cydnebydd Israel." (Es. lviii. 16.) Wrth hyn y mae yn eglur na ŵyr y seintiau ddim mwy am danom ni, nag a wyddom ni am danynt hwy. Ond pa un a ydynt yn gwybod oddiwrthym ai nid ydynt, nid oes mynegiaeth yn ngair Duw bod yn eu gallu i wneuthur un math o gymhorth i ni. Y mae yr arfer lygredig hon yn wrthwyneb hefyd i bob rheswm; canys pe caniatëid bod sant yn clywed gweddi a wneir ato mewn un man o Ewrop, a ddichon efe wrando ar bapist arall yn Asia, un arall yn Affrica, ac un arall eto yn America? Eu gwrando oll, meddaf, yn mhedair congl y byd, filoedd o filltiroedd oddiwrth eu gilydd, a hyny ar yr un mynyd! Nage; priodoliaeth y Duwdod yw bod yn anfeidrol, yn hollwybodol, ac yn hollbresenol. Erbyn hyn fe all pob dyn farnu nad all fod ond "un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu." (1 Tim. ii. 5.)

2. Ni wyddys a fu erioed y fath annghenfil yn y byd mawr a thyb eglwys Rhufain, fod y bara a'r gwin, ar ol eu cysegru yn y cymun, yn troi yn wir gorff a gwaed ein Harglwydd Iesu Grist. Y mae yn ddigon o dystiolaeth i un dyn yn ei iawn bwyll mai bara o hyd ydyw; o herwydd ni a allwn ei deimlo, ei arogli, a'i archwaethu; ac os gadewir ef yn hir, efe a lwyda, a fâg bryfed, ac a bydra. Yn awr, pan fo dynion, yn erbyn tystiolaeth eu pump synwyr, yn credu y fath amryfusedd a hyn, nid yw ryfedd eu bod yn ymroddi i ofergoelion, megys y mae y papistiaid yn credu fod St. Antwn yn pregethu i adar a physgod. Fe gyfrifir hwnw yn heretic, yr hwn ni chred yr hanesyn a galyn:—

Pan oedd yr hereticiaid yn troi eu cefnau ar St. Antwn, efe a drodd at lan y môr, lle y galwodd efe y pysgod yn nghyd, yn enw Duw, fel y gwrandawent air y bywyd. Y pysgod ar hyny a ddaethant yn nghyd yn y fath luaws, megys eu bod yn toi y dyfroedd, yn heigiau o bysgod bychain a mawrion. Yna y cymerth pob un ei le, yn ol ei ryw, gan gadw trefn, mal pe buasai rheswm a gwybodaeth ganddo. St. Antwn ar hyny, yn dra boddlon-gar ynddo ei hun wrth weled y fath ufudddod yn y pysgod, a bregethodd iddynt yn y geiriau hyn:—

"Er bod anfeidrol ddoethineb Duw, fy anwyl gariadus bysgod, yn amlwg yn mhob dim o'i waith, eto y mae ei ddaioni yn ymddangos i chwi mewn gradd rhagorach nag i neb o'r creaduriaid ereill: canys er eich bod yn cael eich galw yn ymlusgiaid, yn cael eich syfrdanu gan y tonau, a'ch haflonyddu gan y llifeiriant, a'ch terfysgu gan y tymmhestloedd, yn aflafar ac yn fudion; eto y mae mawredd Duw i'w ganfod tuag atoch chwi mewn modd enwedigol. Ai heb ystyr dirgel ynddo, debygwch chwi, O bysgod, mai chwi yn unig o'r holl greaduriaid, a adawyd heibio at aberthau yn amser cyfraith Moses? A ellwch chwi dybied, O bysgod, nad oedd gan Grist amcan neillduol i ymborthi arnoch chwi, nesaf at oen y Pasg? A ellwch chwi farnu mai o ddamwain y cymerodd Crist arian o enau pysgodyn i dalu teyrn-ged i Cæsar? Y pethau hyn oll sydd ag ystyr ddirgel ynddynt, ac yn eich rhwymo chwi o ddifrif i ddadgan allan glod a gogoniant y Creawdwr mawr.

"Oddiwrth Dduw, fy anwyl gariadus bysgod, y derbyniasoch eich bod, eich bywyd, a'ch synwyrau. Nid all oerfel y gauaf, na gwres yr hâf wneuthur yr annghymwynas leiaf i chwi. 'ydded yr wybr yn deg neu yn gymylog, yr un peth yw i vi. Bydded llawnder o ffrwythau y ddaear, neu bydded ıder, yr un peth yw hyny i chwi. Yr ydych chwi yn ogel mewn llifeiriant a daeargrynfäau, mellt a tharanau. mha nerth a threfn odiaeth y gwnaeth Duw rhagoriaeth rngoch chwi a'r creaduriaid ereill! Pan oedd y lleill yn ngu yn y dwfr diluw, yr oeddech chwi yn ddiangol!

"Hyn oll, a llawer ychwaneg, a ddylai eich llenwi o iolchgarwch i Dduw, a'ch cymhell i glodfori ei enw mawr ıdigedig ef, am y doniau rhagorol hyn tuag atoch, tu hwnt i eaduriaid ereill. Ond er nad ellwch chwi seinio allan ogoniant ıw a'ch tafodau, a dangos eich diolchgarwch mewn geiriau, newch ryw arwydd o hyny, gogwyddwch eich penau a dangos-h eich parch yn y ffordd oreu a fedroch." Yna, ar ol i St. ıtwn orphen ei bregeth, wele wyrthiau yn wir: yr holl haig bysgod a ogwyddasant eu penau, a chan nofio yma a thraw ı heinif, yn llawen, ac yn llygadlon, a ddangosasant pa mor oddlon oeddent i wiw bregeth St. Antwn.*

Yn awr y canlyn hanes ofergoelion pabyddion yn ein gwlad ein hunain. Yr awdwr Giraldus, gwr o wlad Penfro, a gwr

* Addison's Travels into Italy, p. 26.

dysgedig yn ei amser, ond efe a ysgrifenodd mewn oes dywell, sef o gylch y flwyddyn 1200, pryd yr oedd y byd i gyd agos wedi ymroddi i chwedlau celwyddog ac ofergoelion—mi a gesglais yr hanesion a ganlyn allan o'i waith ef yn unig, er mwyn dangos mor goelgrefyddol oedd pobl Cymru yn yr oes hono. Yr awdwr a fu yn esgob Dewi, ond nid uwch ei radd nag archddiacon, pan ysgrifenodd efe hanes Cymru, a chanddo dŷ yn Aberhonddu, yn Mrycheiniog.

Sir Frycheiniog a elwir felly oddwrth Frychan, mab Haelaf, brenin o'r Iwerddon, a Marchell, merch Tudric, arglwydd y wlad a elwir yn awr, Brycheiniog. Tydfael eu merch, a fu yn wraig i Gynghan; a'u mab hwy oedd Brochfael Ysgythrog, yr hwn a soniwyd am dano lawer gwaith o'r blaen. Morganwg, neu wlad Morgan, sydd yn cyffinio a Brycheiniog, ac a gafodd ei henw oddiwrth Morgan Mwynfawr, yr hwn, ac efe yn arglwydd y wlad a elwir yn awr ar ei enw, a ymladdodd lawer brwydr waedlyd a'r Saeson. Fe ddywedir ei fod ef o'r fath barch ac urddas yn ei wlad, a chymaint ei gariad yn mysg ei genedl, fel ar ei waith yn myned i ryfel, ni fynai gwr aros gartref, yr hwn oedd o nerth ac oedran i ddwyn arfau. Ac o hyn y daeth y ddiareb, "Mwynder Morganwg." Yn awr i ddychwelyd at chwedlau Giraldus; ond am eu gwirionedd barned pawb fel y mynont.

"Yr oedd gwr a elwid Elidur Offeiriad," eb efe, "yr hwn oedd yn tystio ddygwydd iddo yn ei ieuenctid fel y canlyn :—Pan oedd yn ddeuddeg mlwydd oed, ac yn blino yn dysgu ei lyfr, rhag ofn ei feistr, efe a giliodd dan geulan afon, lle y bu ddau ddiwrnod heb archwaethu tamaid. Ar hyny yr ymddangosodd iddo ddau ddynyn bach, prin cufydd o hyd, ac yn dywedyd wrtho, 'Os ti á ddeui gyda ni, ti a gei ddigon o bob difyrwch wrth fodd dy galon.' 'Deuaf,' ebe Elidur, ac a'u canlynodd trwy dwll, nes o'r diwedd iddynt dreiddio i eigion daear, lle yr oedd gwlad hyfryd, yn llawn o afonydd, a meusydd, a choedydd; ond ei bod yn lled dywyll. Y trigolion, yn gynifer coryn penfelyn bach, oeddent yn ddewr eu gwala, yn marchogaeth ar geffylau o faint ysgyfarnogod. Ni fwytant na chig na physgod, ond byw yr oeddent ar laeth a gwraidd. Nid oedd na llw na rheg yn eu mysg, ac nid oedd dim mor gas ganddynt a chelwydd. Ar ol dychwelyd oddiar wyneb y ddaear yr ym ni yn byw arni (canys yr oeddent yn myned ac yn dyfod pryd y mynent), och! fel yr oedd ein

hysgelerdra ni yn clwyfo ac yn blino eu calon! Yr oedd Elidur erbyn hyn wedi byw ryw dalm o amser gyda'r trigolion hyn yn mherfedd y ddaear, ïe, wedi cael y ffafr o fod yn gydymaith i fab y brenin, ac yn taflu bwl aur yn nghyd i ddifyru eu hunain. Ond er cystal oedd ei le, yr oedd efe, yn mysg ereill, ar brydiau, yn dringo i fynu i'r byd uchod hwn, ac yn myned yn ddirgel at ei fam, ac yn adrodd wrthi pa amledd o aur a thrysorau gwerthfawr oedd gyda hwy yn y byd isod. Yr hen lances a roddes glust i'r chwedl, ac a geisiodd ganddo ddwyn bwl aur gydag ef y tro nesaf yr ymwelai efe a hi. Y llencyn a wnaeth yn ol ei harch; ac fel yr oedd efe yn brysio, a'r bwl yn ei law, tua thŷ ei fam, ac efe yn awr ar y trothwy, dyma ddau ddynyn bach o'r byd isod yn ei orddiwes, ac yn achub y bwl oddiarno, ac yn dychwelyd. Llawer gwaith wedi hyny y bu efe yn ymofyn am yr hen dwll i fyned at y trigolion isod, ond byth nid allodd ei gael drachefn. Hyn a barodd ei fod yn syn feddylgar, ac yn drist; ond mewn amser efe a ymattaliodd, a rhoddes ei fryd ar ei lyfrau, ac o'r diwedd a urddwyd yn offeiriad. Yr ystori hon a gefais," medd fy awdwr, "gan Dafydd, esgob Dewi, yr hwn a fu lawer gwaith yn siared ag Elidur ei hun oblegid y mater."*

Arglwydd Maesyfed, o gylch y flwyddyn 1110, yn myned i wlad Fuellt i hela, a lettyodd ei gŵn, dros nos, yn eglwys Llanafan-fawr; ac erbyn y boreu dranoeth, yr oeddent oll yn gynddeiriog wyllt, a'u meistr hefyd yn ddall o'i ddau lygad.†

O gylch yr un amser yr oedd cloch hynod, a elwid Bangaw, yn eglwys Glascwm, gerllaw Maesyfed, yr hon a fuasai gynt yn meddiant Dewi, yr archesgob. Yr oedd gwraig o'r parthau hyny wedi cael cenad i ddwyn y gloch (canys cloch law oedd hi) i gastell Rhaiadr Gwy, lle yr oedd ei phriod yn garcharor, am ei bod yn gobeithio y cai efe ei ryddid, ar waith gwŷr y castell yn clywed pereiddlais y gloch Bangaw. Ond hwynthwy a gymerasant y peth yn ddiystyr, gan wthio y wraig allan, a chymeryd y gloch oddiarni, a'i chrogi wrth hoel yn y neuadd. Ond erbyn y boreu, tref Rhaiadr, a'r castell, newydd ei adeiladu gan Rhys ap Gruffydd ap Rhys ap Tewdwr, oedd yn fflamio hyd entrych awyr, a'r cwbl a losgwyd yn ulw mân, ond yr hoel y crogasid y gloch arni, lle yr oedd y gloch heb fenu.‡

Eglwys Llywel, yn Mrycheiniog, yn nghyda'r pentref, a

* Girald. Itiner. Cambr. lib. 1. p. 129. † Ibid, p. 66. ‡ Ibid, p. 68.

losgwyd a thân o gylch yr un amser, sef yn y flwyddyn 1100. Ni arbedodd y tân ddim o fewn y llan na'r pentref, ond y blwch ag oedd yn cynwys y bara cysegredig, yr hwn nid aeth cymaint a sawyr y tân arno.*

Yn eglwys St. Harmon, gerllaw Rhaiadr Gwy, yr oedd ffon faglog St. Cyric, ar lofft y grog, wedi ei goreuro a'i harddu a pherlau a meini gwerthfawr. Yr oedd rhinwedd yn hon i iachâu dafadenau, y chwaren, y manwynon, a phob rhyw chwydd yn y gwddf a'r ceseiliau. Y clwyfus a gwympai i lawr ar ei liniau yn barchedig o flaen y ffon, ac a offrymai ryw ddryll o arian dros ei lanhad; ac heb wneuthur hyny, nid oedd dim lle i ddysgwyl gwelliant. "Si nihil attuleris, ibis Homere foras."†

Fe ddygwyddodd, o gylch yr un amser, i lanc fyned yn lledradaidd i Eglwys Dewi, yn Aberhonddu, a dringo at nyth colomen, ar fedr yspeilio ei chywion. Ar ei waith yn estyn y naill law tuag at y nyth, ac yn gorphwys ei law arall ar faen, y llaw hono a lynodd mor ddiysgog wrth y gareg, megys nad allodd mewn modd yn y byd ymadaw a disgraffu, nes bod dridiau a theirnos mewn ympryd a gweddi, ac yna fe gafodd ymwared.‡ Dywed yr awdwr i buteinwraig eistedd ar feddrod santes a elwid Osana; a phan wnaeth hi gynyg ar ymgodi, yr oedd hi mor ddiysgog a phe buasai wedi ei rhwymo a rhaff men. Ac er i amryw ddynion nerthol ymaflyd yn ei dwylaw, eto er hyny, ei phoeni a allent, ei symud ymaith nid allent. Ond, yn mhen tro, ar ol cyfaddef ei drygioni, hi a gafodd ei rhyddid.§

Y mae Capel, gerllaw Aberhonddu (y fagwyr eto [1740] yn sefyll), a elwir Capel Elnyfed (un o ferched Brychan), wrth Lwch Crug y Gorsedd,|| lle y cynelid gwyl mabsant, ar y dydd cyntaf o fis Awst. Ar y dydd hwnw, ar ol darllen yr Offeren, y byddai rhai o fewn y capel, a rhai yn y fynwent, yn syrthio mewn llewyg; ac ar ol ychydig, yn neidio yn drachwyllt ar eu traed, megys rhai wedi gwallgofi a cholli arnynt eu hunain, ac yn dangos a'u dwylaw a'u traed, pa beth bynag a wnaethant yn annghyfreithlawn ar un o wyliau y saint. Rhai yn gwneuthur arwydd eu bod yn dyrnu, ereill yn medi, rhai yn gosod troedfainc, rhai yn plethu, rhai yn nyddu, rhai yn cribo,

* Girald. Itiner. Cambr. lib. 1. p. 68. † Ibid, p. 67. ‡ Ibid, p. 73. § Ibid, p. 74. || Yn awr [1740] yn meddiant y parchedig Henry Thomas, person Llandyfeilog.

a rhai yn gweu hosan. Ond yn mhen enyd, ar ol cael eu gosod o flaen yr allor, ac offrymu, hwy a ddychwelent i'w hiawn bwyll, megys o'r blaen.*

Y mae'r hanes a ganlyn yn sawri o beth gwirionedd. Yn amser Harri y cyntaf, brenin Lloegr, yr hwn a ddechreuodd ei deyrnasiad yn y flwyddyn 1100, Gruffydd ap Rhys ap Tewdwr, tywysog Deheudir, yn nghyda dau Sais, o uchel bendefigion y deyrnas, a farchogent wrth Lyn Safaddan (neu Sawdd Afon). Y ddau Sais (a hwy wedi treisio Gruffydd ap Rhys o'r rhan oreu o'i etifeddiaeth) a ddywedent wrtho, mewn gwawd, "Y mae chwedl, O dywysog, os daw gwir etifedd Deheudir heibio i Lyn Safaddan, a gorchymyn i'r adar sydd yn nofio acw ganu, hwy a ganant ar arch y cyfryw un." "Wele," ebe'r tywysog, "chwychwi yn awr, bendefigion, sydd yn meistrioli yma, gorchymynwch chwi gan hyny iddynt." Y ddau Sais, yn rhy lawn o ryfyg, a lefasant o nerth pen, "Cenwch, O adar!" Ond nid oedd aderyn yn agoryd ei big. Ar hyny Gruffydd ap Rhys a ddiscynodd oddiar ei geffyl, ac a weddïodd yn egnïol trwy ffydd, ar deilyngu o Dduw wneuthur y gwirionedd yn amlwg. A chwedi codi oddiar ei liniau, efe a ddywedodd, "Yn enw y Duw goruchaf, yr wyf yn erchi i chwi ganu, O adar." A chyda'r gair, dyma bob aderyn, bach a mawr, yn ymgodi oddiar wyneb y dwfr, ac yn ymbyncio mor hyfryd, megys pe buasent yn egnïol yn ymryson a'u gilydd pwy a fyddai oreu ei gerdd. Y gwirionedd o hyn a dyngodd y ddau Sais o flaen y brenin, ar ol eu dychwelyd adref i Lundain. Dywed yr awdwr fod Llyn Safaddan, yn ei amser ef o gylch y flwyddyn 1188, wedi ei amgylchu a phalasau pendefigion a phentrefydd, fod yno berllanau a gerddi rhagorol; ond y peth gwaethaf oedd, fod yr anras yn mysg y trigolion, yn cynllwyn i dywallt gwaed, ac yn llofruddio eu gilydd yn annhrugarog.*

O gylch yr un amser, neu ychydig cyn hyny, y dywed yr awdwr fod gwr o Gaerlleon ar Wysg, a elwid Maelor, yr hwn oedd ddyn hysbys, ac a roddai ateb cywir i bob cwestiwn a ofynid iddo. Ei fedr i wybod pethau i ddyfod, a'i hysbysrwydd i ganfod pethau cuddiedig, a ddaeth iddo fel hyn: Ar noswaith, fel yr oedd efe yn dysgwyl am lances, mewn coedwig, yn lle yr eneth gu, ymddangosodd iddo ddrychiolaeth gadenog, hell, hagr, a blewog, yr hyn a wnaeth iddo golli arno ei hun

* Girald. Itiner. Cambr. lib. 1. p. 81. † Ibid, p. 82.

ac anmhwyllo. Fe barhaodd yn y cyflwr hwn dros amryw flynyddoedd, ond wrth weddïo ar y seintiau, yn eglwys Tyddewi, efe a ddychwelodd i'w iawn bwyll drachefn. O hyny allan, fe fu cryn gyfeillach rhyngddo ag ysbrydion aflan; canys yr oedd yn eu gweled, yn ymddyddan a hwy, yn eu hadnabod, ac yn eu galw wrth eu henwau. Yr oeddent yn wastad yn ymrithio megys gwŷr traed, a chorn hely dros eu hysgwyddau. Pa bryd bynag y canfyddai y gwr hwn ddyn ffals, bradychus, efe a'i hadnabyddai yn y man, oblegid ei fod yn gweled y diawl yn neidio ac yn dychlamu ar draws gweflau y cyfryw un. Pan y gwelai lyfr yn cynwys un math o beth annghywir, er na fedrai air ar lyfr, eto efe a droai mewn mynyd, ac a ddangosai y man a'i fys. A phan ofynid iddo pa fodd y gallai efe wybod hyn oll, ei ateb oedd, fod y diawl yn ei gyfarwyddo.*

Pan oedd yr awdwr Giraldus ac archesgob Caergaint yn pregethu, gerllaw Aberdaugleddau, ac yn annog y bobl i fyned yn filwyr, i achub Caersalem o ddwylaw y Tyrciaid (canys dyna oedd ystyr y bregeth), gwraig o'r parthau hyny, yr hon a fuasai dair blynedd yn ddall, a anfonodd ei mab i gyrchu pe buasai ddim ond edefyn o wisg yr archesgob, Y llanc nid allasai nesâu at yr esgob gan y dorf; ond ar ol gorphen o hono ei araeth, efe a ddygodd adref at ei fam dywarchen o'r man y bu yr archesgob yn sefyll; a phan ddododd yr hen wreigen y dywarchen wrth ei llygaid, hi a gafodd ei golwg ynddiatreg.†

Yr oedd yn ynys Môn, gareg a elwid Maen-morddwyd, o herwydd ei bod o'r un dull a gosgedd a morddwyd gwr. Pa le bynag y symudid y gareg hon, hi a ddychwelai o honi ei hun yn y nos i'r lle y buasai hi o'r blaen. Pan glybu Huw, Iarll Caerlleon, yn amser Harri y cyntaf o'r enw, brenin Lloegr, am y fath rinwedd a gallu yn y gareg, efe a barodd ei chadwyno a thid haiarn wrth faen mawr, a'i thaflu i'r môr; ond er hyny, Maen-morddwyd a ddaeth, erbyn y bore dranoeth, i'r hen le drachefn. A phan ryfygodd rhyw daiog o'r wlad, rai blynyddoedd wedi hyny, ei chlymu a chareiau wrth ei forddwyd, ei forddwyd a bydrodd, a'r gareg a symudodd, o honi ei hun, i'r hen le.‡

Dyma y fath chwedlau ofergoelus, gyda channoedd ychwaneg o'u cyffelyb, a gredid yn amser pabyddiaeth yn Nghymru, heb

† Girald. Itiner. Cambr. lib. 1. p. 109. † Ibid. p. 142. ‡ Ibid, p. 194.

roddi clust i eiriau grasusol yr efengyl. Yr hen Frutaniaid unwaith a gawsant glod yn rhagor na Christionogion ereill, am lynu wrth wirioneddau yr Ysgrythyr lan, ac un o'u diarebion mwyaf cyffredin oedd, "A gair Duw yn uchaf." Ond ar ol iddynt ymroddi i babyddiaeth, yr efrau a dagasant gynydd y gwenith—coelgrefydd a orthrechodd burdeb yr efengyl. Prin, yn y fagddu yma o dywyllwch, y clywid gair o efengyl Crist Iesu; prin, ïe, prin iawn y byddai na gweddi, nac arch, na chais at Dduw, trwy haeddedigaethau Crist; ond nid oedd na rhif na mesur ar eu gweddïau at y saint a'r santesau; ac yn fwy enwedigol at y Forwyn Fair, Gwenfrewi, a Santffraid. Wrth ffynnon Gwenfrewi yr oeddid yn gwerthu pardynau y pab i'r pererinion. Yr hwn a ymadawai a darn o arian i brynu papuryn, a berswadid ei fod yn rhydd o'i bechod; ac os byddai yn wr hael yn agoryd ei bwrs, efe a allai brynu maddeuant am unrhyw bechodau a wnelai dros amryw flynyddoedd i ddyfod. Yr hen chwedl yw, mai merch Temic ap Elwedd oedd Gwenfrewi. Ac ar ryw ddiwrnod, a hi ei hunan gartref, a'i thad a'i mam yn yr eglwys, yn gwrando St. Beuno, o gylch y flwyddyn 630, y daeth Caradoc, arglwydd y lle hwnw, heibio, a cheisio ei threisio. Y forwyn yn ddiwair, a ddiangodd o'i ddwylaw, ac a redodd tua'r eglwys: ond Caradoc a'i gorddiwesodd, ac yn ei wyn danbaid a dorodd ymaith ei phen; ond Beuno a'i hasiodd drachefn wrth ei chorff, ac a'i gwnaeth yn holl-iach: ac yn y lle hwnw y ffrydiodd ei gwaed y tarddodd ffynnon, a elwid wedi hyny, Ffynnon Gwenfrewi.* Yn awr, nid oes gair o wirionedd yn hyn, dim ond chwedl wneuthur, a dychymyg y monachod, er mwyn elw. Nid oedd gair o son am rinwedd Ffynnon Gwenfrewi, mwy na ffynnon arall, pan oedd Giraldus, yr archddiacon, yn tramwy Cymru, sef yn y flwyddyn 1188. Ond yn mhen cant a haner o flynyddoedd ar ol hyny, y monachod a'i gwnaethant hi yn gymeradwy wrth y chwedl uchod; ac yn y flwyddyn 1420, yr agorwyd y farchnad i werthu pardynau y pab.† Am wyrthiau Santffraid, clywch Iorwerth Fynglwyd yn seinio allan ei chlod, fel y canlyn:—

"Y lleian‡ hardd yw llun hon,
Lle'r urddwyd oll y Werddon;
Y dydd y ceisiodd dy dad
Wr da it' i roi atad,

* Buchedd St. Beuno. MS. † Powel. Annot. in Gir. p. 216. ‡ Monaches.

y maent yn ei alw wrth y gair "transubstanstiatio" [trawssylweddiad].

1. Y mae gweddïo ar y seintiau yn llwyr wrthwyneb i ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, ac yn ganlynol i hyny, yn llwyr wyrthwyneb i bob rheswm. "Ti, Arglwydd, yw ein Tad ni, er nad edwyn Abraham ni, ac na'n cydnebydd Israel." (Es. lviii. 16.) Wrth hyn y mae yn eglur na ŵyr y seintiau ddim mwy am danom ni, nag a wyddom ni am danynt hwy. Ond pa un a ydynt yn gwybod oddiwrthym ai nid ydynt, nid oes mynegiaeth yn ngair Duw bod yn eu gallu i wneuthur un math o gymhorth i ni. Y mae yr arfer lygredig hon yn wrthwyneb hefyd i bob rheswm; canys pe caniatëid bod sant yn clywed gweddi a wneir ato mewn un man o Ewrop, a ddichon efe wrando ar bapist arall yn Asia, un arall yn Affrica, ac un arall eto yn America? Eu gwrando oll, meddaf, yn mhedair congl y byd, filoedd o filltiroedd oddiwrth eu gilydd, a hyny ar yr un mynyd! Nage; priodoliaeth y Duwdod yw bod yn anfeidrol, yn hollwybodol, ac yn hollbresenol. Erbyn hyn fe all pob dyn farnu nad all fod ond "un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu." (1 Tim. ii. 5.)

2. Ni wyddys a fu erioed y fath annghenfil yn y byd mawr a thyb eglwys Rhufain, fod y bara a'r gwin, ar ol eu cysegru yn y cymun, yn troi yn wir gorff a gwaed ein Harglwydd Iesu Grist. Y mae yn ddigon o dystiolaeth i un dyn yn ei iawn bwyll mai bara o hyd ydyw; o herwydd ni a allwn ei deimlo, ei arogli, a'i archwaethu; ac os gadewir ef yn hir, efe a lwyda, a fâg bryfed, ac a bydra. Yn awr, pan fo dynion, yn erbyn tystiolaeth eu pump synwyr, yn credu y fath amryfusedd a hyn, nid yw ryfedd eu bod yn ymroddi i ofergoelion, megys y mae y papistiaid yn credu fod St. Antwn yn pregethu i adar a physgod. Fe gyfrifir hwnw yn heretic, yr hwn ni chred yr hanesyn a galyn:—

Pan oedd yr hereticiaid yn troi eu cefnau ar St. Antwn, efe a drodd at lan y môr, lle y galwodd efe y pysgod yn nghyd, yn enw Duw, fel y gwrandawent air y bywyd. Y pysgod ar hyny a ddaethant yn nghyd yn y fath luaws, megys eu bod yn toi y dyfroedd, yn heigiau o bysgod bychain a mawrion. Yna y cymerth pob un ei le, yn ol ei ryw, gan gadw trefn, mal pe buasai rheswm a gwybodaeth ganddo. St. Antwn ar hyny, yn dra boddlon-gar ynddo ei hun wrth weled y fath ufudddod yn y pysgod, a bregethodd iddynt yn y geiriau hyn:—

"Er bod anfeidrol ddoethineb Duw, fy anwyl gariadus bysgod, yn amlwg yn mhob dim o'i waith, eto y mae ei ddaioni yn ymddangos i chwi mewn gradd rhagorach nag i neb o'r creaduriaid ereill: canys er eich bod yn cael eich galw yn ymlusgiaid, yn cael eich syfrdanu gan y tonau, a'ch haflonyddu gan y llifeiriant, a'ch terfysgu gan y tymmhestloedd, yn aflafar ac yn fudion; eto y mae mawredd Duw i'w ganfod tuag atoch chwi mewn modd enwedigol. Ai heb ystyr dirgel ynddo, debygwch chwi, O bysgod, mai chwi yn unig o'r holl greaduriaid, a adawyd heibio at aberthau yn amser cyfraith Moses? A ellwch chwi dybied, O bysgod, nad oedd gan Grist amcan neillduol i ymborthi arnoch chwi, nesaf at oen y Pasg? A ellwch chwi farnu mai o ddamwain y cymerodd Crist arian o enau pysgodyn i dalu teyrn-ged i Cæsar? Y pethau hyn oll sydd ag ystyr ddirgel ynddynt, ac yn eich rhwymo chwi o ddifrif i ddadgan allan glod a gogoniant y Creawdwr mawr.

"Oddiwrth Dduw, fy anwyl gariadus bysgod, y derbyniasoch eich bod, eich bywyd, a'ch synwyrau. Nid all oerfel y gauaf, na gwres yr hâf wneuthur yr annghymwynas leiaf i chwi. Bydded yr wybr yn deg neu yn gymylog, yr un peth yw i chwi. Bydded llawnder o ffrwythau y ddaear, neu bydded prinder, yr un peth yw hyny i chwi. Yr ydych chwi yn ddiogel mewn llifeiriant a daeargrynfäau, mellt a tharanau. Yn mha nerth a threfn odiaeth y gwnaeth Duw rhagoriaeth rhyngoch chwi a'r creaduriaid ereill! Pan oedd y lleill yn trengu yn y dwfr diluw, yr oeddech chwi yn ddiangol!

"Hyn oll, a llawer ychwaneg, a ddylai eich llenwi o ddiolchgarwch i Dduw, a'ch cymhell i glodfori ei enw mawr bendigedig ef, am y doniau rhagorol hyn tuag atoch, tu hwnt i greaduriaid ereill. Ond er nad ellwch chwi seinio allan ogoniant Duw a'ch tafodau, a dangos eich diolchgarwch mewn geiriau, gwnewch ryw arwydd o hyny, gogwyddwch eich penau a dangoswch eich parch yn y ffordd oreu a fedroch." Yna, ar ol i St. Antwn orphen ei bregeth, wele wyrthiau yn wir: yr holl haig o bysgod a ogwyddasant eu penau, a chan nofio yma a thraw yn heinif, yn llawen, ac yn llygadlon, a ddangosasant pa mor foddlon oeddent i wiw bregeth St. Antwn.*

Yn awr y canlyn hanes ofergoelion pabyddion yn ein gwlad ein hunain. Yr awdwr Giraldus, gwr o wlad Penfro, a gwr

* Addison's Travels into Italy, p. 26.

dysgedig yn ei amser, ond efe a ysgrifenodd mewn oes dywell, sef o gylch y flwyddyn 1200, pryd yr oedd y byd i gyd agos wedi ymroddi i chwedlau celwyddog ac ofergoelion—mi a gesglais yr hanesion a ganlyn allan o'i waith ef yn unig, er mwyn dangos mor goelgrefyddol oedd pobl Cymru yn yr oes hono. Yr awdwr a fu yn esgob Dewi, ond nid uwch ei radd nag archddiacon, pan ysgrifenodd efe hanes Cymru, a chanddo dŷ yn Aberhonddu, yn Mrycheiniog.

Sir Frycheiniog a elwir felly oddwrth Frychan, mab Haelaf, brenin o'r Iwerddon, a Marchell, merch Tudric, arglwydd y wlad a elwir yn awr, Brycheiniog. Tydfael eu merch, a fu yn wraig i Gynghan; a'u mab hwy oedd Brochfael Ysgythrog, yr hwn a soniwyd am dano lawer gwaith o'r blaen. Morganwg, neu wlad Morgan, sydd yn cyffinio a Brycheiniog, ac a gafodd ei henw oddiwrth Morgan Mwynfawr, yr hwn, ac efe yn arglwydd y wlad a elwir yn awr ar ei enw, a ymladdodd lawer brwydr waedlyd a'r Saeson. Fe ddywedir ei fod ef o'r fath barch ac urddas yn ei wlad, a chymaint ei gariad yn mysg ei genedl, fel ar ei waith yn myned i ryfel, ni fynai gwr aros gartref, yr hwn oedd o nerth ac oedran i ddwyn arfau. Ac o hyn y daeth y ddiareb, "Mwynder Morganwg." Yn awr i ddychwelyd at chwedlau Giraldus; ond am eu gwirionedd barned pawb fel y mynont.

"Yr oedd gwr a elwid Elidur Offeiriad," eb efe, "yr hwn oedd yn tystio ddygwydd iddo yn ei ieuenctid fel y canlyn:—Pan oedd yn ddeuddeg mlwydd oed, ac yn blino yn dysgu ei lyfr, rhag ofn ei feistr, efe a giliodd dan geulan afon, lle y bu ddau ddiwrnod heb archwaethu tamaid. Ar hyny yr ymddangosodd iddo ddau ddynyn bach, prin cufydd o hyd, ac yn dywedyd wrtho, 'Os ti á ddeui gyda ni, ti a gei ddigon o bob difyrwch wrth fodd dy galon.' 'Deuaf,' ebe Elidur, ac a'u canlynodd trwy dwll, nes o'r diwedd iddynt dreiddio i eigion daear, lle yr oedd gwlad hyfryd, yn llawn o afonydd, a meusydd, a choedydd; ond ei bod yn lled dywyll. Y trigolion, yn gynifer coryn penfelyn bach, oeddent yn ddewr eu gwala, yn marchogaeth ar geffylau o faint ysgyfarnogod. Ni fwytant na chig na physgod, ond byw yr oeddent ar laeth a gwraidd. Nid oedd na llw na rheg yn eu mysg, ac nid oedd dim mor gas ganddynt a chelwydd. Ar ol dychwelyd oddiar wyneb y ddaear yr ym ni yn byw arni (canys yr oeddent yn myned ac yn dyfod pryd y mynent), och! fel yr oedd ein

hysgelerdra ni yn clwyfo ac yn blino eu calon! Yr oedd Elidur erbyn hyn wedi byw ryw dalm o amser gyda'r trigolion hyn yn mherfedd y ddaear, ïe, wedi cael y ffafr o fod yn gydymaith i fab y brenin, ac yn taflu bwl aur yn nghyd i ddifyru eu hunain. Ond er cystal oedd ei le, yr oedd efe, yn mysg ereill, ar brydiau, yn dringo i fynu i'r byd uchod hwn, ac yn myned yn ddirgel at ei fam, ac yn adrodd wrthi pa amledd o aur a thrysorau gwerthfawr oedd gyda hwy yn y byd isod. Yr hen lances a roddes glust i'r chwedl, ac a geisiodd ganddo ddwyn bwl aur gydag ef y tro nesaf yr ymwelai efe a hi. Y llencyn a wnaeth yn ol ei harch; ac fel yr oedd efe yn brysio, a'r bwl yn ei law, tua thŷ ei fam, ac efe yn awr ar y trothwy, dyma ddau ddynyn bach o'r byd isod yn ei orddiwes, ac yn achub y bwl oddiarno, ac yn dychwelyd. Llawer gwaith wedi hyny y bu efe yn ymofyn am yr hen dwll i fyned at y trigolion isod, ond byth nid allodd ei gael drachefn. Hyn a barodd ei fod yn syn feddylgar, ac yn drist; ond mewn amser efe a ymattaliodd, a rhoddes ei fryd ar ei lyfrau, ac o'r diwedd a urddwyd yn offeiriad. Yr ystori hon a gefais," medd fy awdwr, "gan Dafydd, esgob Dewi, yr hwn a fu lawer gwaith yn siared ag Elidur ei hun oblegid y mater."*

Arglwydd Maesyfed, o gylch y flwyddyn 1110, yn myned i wlad Fuellt i hela, a lettyodd ei gŵn, dros nos, yn eglwys Llanafan-fawr; ac erbyn y boreu dranoeth, yr oeddent oll yn gynddeiriog wyllt, a'u meistr hefyd yn ddall o'i ddau lygad.†

O gylch yr un amser yr oedd cloch hynod, a elwid Bangaw, yn eglwys Glascwm, gerllaw Maesyfed, yr hon a fuasai gynt yn meddiant Dewi, yr archesgob. Yr oedd gwraig o'r parthau hyny wedi cael cenad i ddwyn y gloch (canys cloch law oedd hi) i gastell Rhaiadr Gwy, lle yr oedd ei phriod yn garcharor, am ei bod yn gobeithio y cai efe ei ryddid, ar waith gwŷr y castell yn clywed pereiddlais y gloch Bangaw. Ond hwynthwy a gymerasant y peth yn ddiystyr, gan wthio y wraig allan, a chymeryd y gloch oddiarni, a'i chrogi wrth hoel yn y neuadd. Ond erbyn y boreu, tref Rhaiadr, a'r castell, newydd ei adeiladu gan Rhys ap Gruffydd ap Rhys ap Tewdwr, oedd yn fflamio hyd entrych awyr, a'r cwbl a losgwyd yn ulw mân, ond yr hoel y crogasid y gloch arni, lle yr oedd y gloch heb fenu.‡

Eglwys Llywel, yn Mrycheiniog, yn nghyda'r pentref, a

* Girald. Itiner. Cambr. lib. 1. p. 129. † Ibid, p. 66. ‡ Ibid, p. 68.

losgwyd a thân o gylch yr un amser, sef yn y flwyddyn 1100. Ni arbedodd y tân ddim o fewn y llan na'r pentref, ond y blwch ag oedd yn cynwys y bara cysegredig, yr hwn nid aeth cymaint a sawyr y tân arno.*

Yn eglwys St. Harmon, gerllaw Rhaiadr Gwy, yr oedd ffon faglog St. Cyric, ar lofft y grog, wedi ei goreuro a'i harddu a pherlau a meini gwerthfawr. Yr oedd rhinwedd yn hon i iachâu dafadenau, y chwaren, y manwynon, a phob rhyw chwydd yn y gwddf a'r ceseiliau. Y clwyfus a gwympai i lawr ar ei liniau yn barchedig o flaen y ffon, ac a offrymai ryw ddryll o arian dros ei lanhad; ac heb wneuthur hyny, nid oedd dim lle i ddysgwyl gwelliant. "Si nihil attuleris, ibis Homere foras."†

Fe ddygwyddodd, o gylch yr un amser, i lanc fyned yn lledradaidd i Eglwys Dewi, yn Aberhonddu, a dringo at nyth colomen, ar fedr yspeilio ei chywion. Ar ei waith yn estyn y naill law tuag at y nyth, ac yn gorphwys ei law arall ar faen, y llaw hono a lynodd mor ddiysgog wrth y gareg, megys nad allodd mewn modd yn y byd ymadaw a disgraffu, nes bod dridiau a theirnos mewn ympryd a gweddi, ac yna fe gafodd ymwared.‡ Dywed yr awdwr i buteinwraig eistedd ar feddrod santes a elwid Osana; a phan wnaeth hi gynyg ar ymgodi, yr oedd hi mor ddiysgog a phe buasai wedi ei rhwymo a rhaff men. Ac er i amryw ddynion nerthol ymaflyd yn ei dwylaw, eto er hyny, ei phoeni a allent, ei symud ymaith nid allent. Ond, yn mhen tro, ar ol cyfaddef ei drygioni, hi a gafodd ei rhyddid.§

Y mae Capel, gerllaw Aberhonddu (y fagwyr eto [1740] yn sefyll), a elwir Capel Elnyfed (un o ferched Brychan), wrth Lwch Crug y Gorsedd,|| lle y cynelid gwyl mabsant, ar y dydd cyntaf o fis Awst. Ar y dydd hwnw, ar ol darllen yr Offeren, y byddai rhai o fewn y capel, a rhai yn y fynwent, yn syrthio mewn llewyg; ac ar ol ychydig, yn neidio yn drachwyllt ar eu traed, megys rhai wedi gwallgofi a cholli arnynt eu hunain, ac yn dangos a'u dwylaw a'u traed, pa beth bynag a wnaethant yn annghyfreithlawn ar un o wyliau y saint. Rhai yn gwneuthur arwydd eu bod yn dyrnu, ereill yn medi, rhai yn gosod troedfainc, rhai yn plethu, rhai yn nyddu, rhai yn cribo,

* Girald. Itiner. Cambr. lib. 1. p. 68. † Ibid, p. 67. ‡ Ibid, p. 73.
§ Ibid, p. 74. || Yn awr [1740] yn meddiant y parchedig Henry Thomas, person Llandyfeilog.

a rhai yn gweu hosan. Ond yn mhen enyd, ar ol cael eu gosod o flaen yr allor, ac offrymu, hwy a ddychwelent i'w hiawn bwyll, megys o'r blaen.*

Y mae'r hanes a ganlyn yn sawri o beth gwirionedd. Yn amser Harri y cyntaf, brenin Lloegr, yr hwn a ddechreuodd ei deyrnasiad yn y flwyddyn 1100, Gruffydd ap Rhys ap Tewdwr, tywysog Deheudir, yn nghyda dau Sais, o uchel bendefigion y deyrnas, a farchogent wrth Lyn Safaddan (neu Sawdd Afon). Y ddau Sais (a hwy wedi treisio Gruffydd ap Rhys o'r rhan oreu o'i etifeddiaeth) a ddywedent wrtho, mewn gwawd, "Y mae chwedl, O dywysog, os daw gwir etifedd Deheudir heibio i Lyn Safaddan, a gorchymyn i'r adar sydd yn nofio acw ganu, hwy a ganant ar arch y cyfryw un." "Wele," ebe'r tywysog, "chwychwi yn awr, bendefigion, sydd yn meistrioli yma, gorchymynwch chwi gan hyny iddynt." Y ddau Sais, yn rhy lawn o ryfyg, a lefasant o nerth pen, "Cenwch, O adar!" Ond nid oedd aderyn yn agoryd ei big. Ar hyny Gruffydd ap Rhys a ddiscynodd oddiar ei geffyl, ac a weddïodd yn egnïol trwy ffydd, ar deilyngu o Dduw wneuthur y gwirionedd yn amlwg. A chwedi codi oddiar ei liniau, efe a ddywedodd, "Yn enw y Duw goruchaf, yr wyf yn erchi i chwi ganu, O adar." A chyda'r gair, dyma bob aderyn, bach a mawr, yn ymgodi oddiar wyneb y dwfr, ac yn ymbyncio mor hyfryd, megys pe buasent yn egnïol yn ymryson a'u gilydd pwy a fyddai oreu ei gerdd. Y gwirionedd o hyn a dyngodd y ddau Sais o flaen y brenin, ar ol eu dychwelyd adref i Lundain. Dywed yr awdwr fod Llyn Safaddan, yn ei amser ef o gylch y flwyddyn 1188, wedi ei amgylchu a phalasau pendefigion a phentrefydd, fod yno berllanau a gerddi rhagorol; ond y peth gwaethaf oedd, fod yr anras yn mysg y trigolion, yn cynllwyn i dywallt gwaed, ac yn llofruddio eu gilydd yn annhrugarog.*

O gylch yr un amser, neu ychydig cyn hyny, y dywed yr awdwr fod gwr o Gaerlleon ar Wysg, a elwid Maelor, yr hwn oedd ddyn hysbys, ac a roddai ateb cywir i bob cwestiwn a ofynid iddo. Ei fedr i wybod pethau i ddyfod, a'i hysbysrwydd i ganfod pethau cuddiedig, a ddaeth iddo fel hyn: Ar noswaith, fel yr oedd efe yn dysgwyl am lances, mewn coedwig, yn lle yr eneth gu, ymddangosodd iddo ddrychiolaeth gadenog, hell, hagr, a blewog, yr hyn a wnaeth iddo golli arno ei hun

* Girald. Itiner. Cambr. lib. 1. p. 81. † Ibid, p. 82.

ac anmhwyllo. Fe barhaodd yn y cyflwr hwn dros amryw flynyddoedd, ond wrth weddïo ar y seintiau, yn eglwys Ty-ddewi, efe a ddychwelodd i'w iawn bwyll drachefn. O hyny allan, fe fu cryn gyfeillach rhyngddo ag ysbrydion aflan; canys yr oedd yn eu gweled, yn ymddyddan a hwy, yn eu hadnabod, ac yn eu galw wrth eu henwau. Yr oeddent yn wastad yn ymrithio megys gwŷr traed, a chorn hely dros eu hysgwyddau. Pa bryd bynag y canfyddai y gwr hwn ddyn ffals, bradychus, efe a'i hadnabyddai yn y man, oblegid ei fod yn gweled y diawl yn neidio ac yn dychlamu ar draws gweflau y cyfryw un. Pan y gwelai lyfr yn cynwys un math o beth annghywir, er na fedrai air ar lyfr, eto efe a droai mewn mynyd, ac a ddangosai y man a'i fys. A phan ofynid iddo pa fodd y gallai efe wybod hyn oll, ei ateb oedd, fod y diawl yn ei gyfarwyddo.*

Pan oedd yr awdwr Giraldus ac archesgob Caergaint yn pregethu, gerllaw Aberdaugleddau, ac yn annog y bobl i fyned yn filwyr, i achub Caersalem o ddwylaw y Tyrciaid (canys dyna oedd ystyr y bregeth), gwraig o'r parthau hyny, yr hon a fuasai dair blynedd yn ddall, a anfonodd ei mab i gyrchu pe buasai ddim ond edefyn o wisg yr archesgob. Y llanc nid allasai nesâu at yr esgob gan y dorf; ond ar ol gorphen o hono ei araeth, efe a ddygodd adref at ei fam dywarchen o'r man y bu yr archesgob yn sefyll; a phan ddododd yr hen wreigen y dywarchen wrth ei llygaid, hi a gafodd ei golwg ynddiatreg.†

Yr oedd yn ynys Môn, gareg a elwid Maen-morddwyd, o herwydd ei bod o'r un dull a gosgedd a morddwyd gwr. Pa le bynag y symudid y gareg hon, hi a ddychwelai o honi ei hun yn y nos i'r lle y buasai hi o'r blaen. Pan glybu Huw, Iarll Caerlleon, yn amser Harri y cyntaf o'r enw, brenin Lloegr, am y fath rinwedd a gallu yn y gareg, efe a barodd ei chadwyno a thid haiarn wrth faen mawr, a'i thaflu i'r môr; ond er hyny, Maen-morddwyd a ddaeth, erbyn y bore dranoeth, i'r hen le drachefn. A phan ryfygodd rhyw daiog o'r wlad, rai blynyddoedd wedi hyny, ei chlymu a chareiau wrth ei forddwyd, ei forddwyd a bydrodd, a'r gareg a symudodd, o honi ei hun, i'r hen le.‡

Dyma y fath chwedlau ofergoelus, gyda channoedd ychwaneg o'u cyffelyb, a gredid yn amser pabyddiaeth yn Nghymru, heb

† Girald. Itiner. Cambr. lib. 1. p. 109. † Ibid. p. 142. ‡ Ibid, p. 194.

roddi clust i eiriau grasusol yr efengyl. Yr hen Frutaniaid unwaith a gawsant glod yn rhagor na Christionogion ereill, am lynu wrth wirioneddau yr Ysgrythyr lan, ac un o'u diarebion mwyaf cyffredin oedd, "A gair Duw yn uchaf." Ond ar ol iddynt ymroddi i babyddiaeth, yr efrau a dagasant gynydd y gwenith—coelgrefydd a orthrechodd burdeb yr efengyl. Prin, yn y fagddu yma o dywyllwch, y clywid gair o efengyl Crist Iesu; prin, ïe, prin iawn y byddai na gweddi, nac arch, na chais at Dduw, trwy haeddedigaethau Crist; ond nid oedd na rhif na mesur ar eu gweddïau at y saint a'r santesau; ac yn fwy enwedigol at y Forwyn Fair, Gwenfrewi, a Santffraid. Wrth ffynnon Gwenfrewi yr oeddid yn gwerthu pardynau y pab i'r pererinion. Yr hwn a ymadawai a darn o arian i brynu papuryn, a berswadid ei fod yn rhydd o'i bechod; ac os byddai yn wr hael yn agoryd ei bwrs, efe a allai brynu maddeuant am unrhyw bechodau a wnelai dros amryw flynyddoedd i ddyfod. Yr hen chwedl yw, mai merch Temic ap Elwedd oedd Gwenfrewi. Ac ar ryw ddiwrnod, a hi ei hunan gartref, a'i thad a'i mam yn yr eglwys, yn gwrando St. Beuno, o gylch y flwyddyn 630, y daeth Caradoc, arglwydd y lle hwnw, heibio, a cheisio ei threisio. Y forwyn yn ddiwair, a ddiangodd o'i ddwylaw, ac a redodd tua'r eglwys: ond Caradoc a'i gorddiwesodd, ac yn ei wyn danbaid a dorodd ymaith ei phen; ond Beuno a'i hasiodd drachefn wrth ei chorff, ac a'i gwnaeth yn holl-iach: ac yn y lle hwnw y ffrydiodd ei gwaed y tarddodd ffynnon, a elwid wedi hyny, Ffynnon Gwenfrewi.* Yn awr, nid oes gair o wirionedd yn hyn, dim ond chwedl wneuthur, a dychymyg y monachod, er mwyn elw. Nid oedd gair o son am rinwedd Ffynnon Gwenfrewi, mwy na ffynnon arall, pan oedd Giraldus, yr archddiacon, yn tramwy Cymru, sef yn y flwyddyn 1188. Ond yn mhen cant a haner o flynyddoedd ar ol hyny, y monachod a'i gwnaethant hi yn gymeradwy wrth y chwedl uchod; ac yn y flwyddyn 1420, yr agorwyd y farchnad i werthu pardynau y pab.† Am wyrthiau Santffraid, clywch Iorwerth Fynglwyd yn seinio allan ei chlod, fel y canlyn:—

"Y lleian‡ hardd yw llun hon,
Lle'r urddwyd oll y Werddon;
Y dydd y ceisiodd dy dad
Wr da it' i roi atad,

* Buchedd St. Beuno. MS. † Powel. Annot. in Gir. p. 216. ‡ Monaches.

"Un o'th lygaid a neidiawdd
O'th ben, hyn a'th boenai'n hawdd;
A thranoeth aeth yr wyneb
Oll yn iach, ni bu well neb.
Da y nofiaist hyd yn Nyfi,
Dull Duw* ar dy fantell di;
Ar lif y daethost i'r lan.
Sain ffrwd loew Santffred leian:
Ni cheisiast lestri echwyn
Dros fôr o'th oror i'th ddwyn,
Ond dy arch oedd dywarchen,
Urddo'r rhos o'r ddaear hen,
A'th forwynion, iaith freinniol,
Llawn dawn yn lliwio'n d'ol,
Gwnaethost o'r brwyn yn Ngwynedd
Bysgod glân basc gyda gwledd;
Byw'n iach-dêg buan i'ch dwrn,
Byw'n esgud,† heb un asgwrn.
Llawer a wnaeth Duw erod,
Lle bych, och! am allu bod;
A'th wyl osodes Iesu,
Noswyl Fair uwch na Sul fu."

Megys y mae tir ffrwythlawn yn dwyn drain, mieri, ac ysgall, os na hauir had da ynddo, felly y mae dynion call a gwybodus, pan y dygir gair Duw oddiarnynt, yn ymroddi i chwedlau ofergoelus, a phob amryfusedd. Da y dywed y bardd,

"Ffei greiriau seintiau, ffei serth—addoliad
I ddelwau mud anferth!
Ffei o'r pab, a'i wael aberth,
Burdan gwan, a'i bardwn gwerth!

"Ffydd Rhufain filain i foli—y pab,
Ffydd mam pob drygioni;
Ffydd waedlyd hefyd yw hi,
Ffydd ddol hen, ffei ddiawl honi!"

Ond megys mai yr ynys hon o Frydain oedd un o'r cyntaf o holl deyrnasoedd cred a dderbyniodd y grefydd Gristionogol i'w bro, felly yr ynys hon hefyd oedd un o'r gyntaf a ymlanhaodd oddiwrth fudreddi pabyddiaeth, yn amser y brenin duwiol Iorwerth Tudur y chweched, yr hwn a ddechreuodd ei deyrniasiad yn y flwyddyn 1547. Digon gwir fod rhai, un yma a thraw, dros holl ardaloeddd cred, yn mhob oes, yn canfod amryfusedd a llygredigaethau pabyddiaeth, ac yn chwennych

* Llun y groes. † Heinif.

ymwrthod a hwy; ond yn gyffredin, serch at y byd hwn, ac ofn erledigaeth, a ddiffoddai eu sel; megys pan fo dyn a'r hunllef arno, y mae efe yn deimladwy o'i flinder, ac yn chwennych tisio ac ymgyfodi; ond anfynych yr ymwrola efe gymaint, am ei fod, rhwng hun a chwsg, yn ymddiogi, a gwasgfa ar ei galon.

Ond yn yr amser a rag-grybwyllwyd, Duw a ymwelodd a'r deyrnas hon yn drugarog, trwy adferu purdeb yr efengyl drachefn, megys yn yr amser gynt, ar ol dyddiau yr apostolion. Yna, y gwŷr duwiol hyny, yr esgobion ac ereill, y rhai, trwy awdurdod cyfreithlawn, a gymerasant y gwaith mewn llaw o ddiwygio crefydd, a fwriasant ymaith bob peth llygredig ac ofergoelus, ac ni chadwasant ddim ond yr hyn oedd dda a dilwgr, ac yn meddiant y brif eglwys cyn bod son erioed am babyddiaeth yn y byd. Yn y flwyddyn 1567, yr argraffwyd y Testament Newydd yn Gymraeg, yr hwn a gyfieithwyd gan y Gwir Barchedig Risiart Dafies, esgob Dewi, a Gwilym Salisbury, gwr boneddig urddasol. Yn mhen pedair blynedd ar bymtheg ar ol hyny, yr argraffwyd yr Hen Destament yn Gymraeg, yr hwn a gyfieithwyd gan yr ysgolhaig mawr hwnw, Dr. Morgan, ficer Llanrhaiadr yn Mochnant; ond a ddiwygiwyd wedi hyny, gan y pen Cymro dysgedig Dr. Davies, o Fallwyd. Nid oes yn awr [1740] ddim yn eisiau ond iawn ac iachus esponiad Cymraeg. Pe byddai hyny ond ar bethau anhawdd i'w deall, yn y Testament Newydd yn unig; rhag bod y gau athrawon sydd yn ymglusgo i deiau, dan rith cynghori a hir weddïo, a'r "annysgedig a'r anwastad eu gwyrdröi, megys yr ysgrythyrau ereill, i'w dinystr eu hunain." (2 Pedr iii. 16.)

---

## PENNOD V.

### GWEINIDOGION Y BRIF EGLWYS. SWYDD ESGOB, OFFEIRIAD, A DIACON. EU MAWR BARCH YN YR AMSER GYNT.

Y MAE yn beth llwyr anmhosibl gael hanes pennodol am drefn a dysgyblaeth y brif eglwys yn Mrydain, oblegid fod y rhan fwyaf o lyfrau yr hen Frutaniaid wedi myned ar goll. Y dinystr cyntaf a wnaethpwyd oedd yn y flwyddyn 284, pryd y dyoddefodd Cristionogion Brydain erledigaeth drom a chreu-

lon, megys y crybwyllwyd o'r blaen. Yn amser Awstin Fonach hefyd, llyfrau Bangor-is-y-Coed, gwerthfawrocach nag aur coeth, a losgwyd gan mwyaf, oddieithr ambell un a achubwyd o ganol y tân. Ac o'r rhai a ddiangasant, ac o'r rhai hefyd a ysgrifenwyd wedi hyny, nid oes genym ni ond ambell ddarn. Canys pan ddarostyngwyd Cymru dan goron Lloegr, y pendefigion a gyrchid, o amser bwygilydd, yn garcharorion i Lundain; a hwy a ddygent eu llyfrau gyda hwy, i ddifyru eu hunain yn y carchar. Ond dyn diras, a elwid Scolan, yn cenfigenu fod y pendefigion yn cael cymaint a hyny o ddyddanwch, a'u taflodd yn grugiau i'r tân; ac am hyny y canodd y bardd,

"Ysgeler oedd i Scolan
Fwrw'r twr llyfrau i'r tân."

Y mae bagad o hen lyfrau, o waith llaw ysgrifen, eto mewn manau o Gymru, ond y maent yn anaml, ac odid un yn llawn am drefn a dysgyblaeth y brif eglwys. Yn awr, yr unig ffordd i gyflawni y diffyg hwn, yw gosod yma hanes am ddysgyblaeth yr eglwys gatholic, oblegid hyny a ddengys hefyd ddysgyblaeth y brif eglwys yn Mrydain, yn gystal ag mewn gwledydd ereill. Canys, 1. Y mae llawer o hen deidiau'r eglwys yn clodfori ffydd y Brutaniaid, ac yn tystio eu bod yn union-gred. 2. Fe fu amryw o esgobion y deyrnas hon yn eistedd mewn amrywiol gymanfaoedd a gynaliwyd mewn gwledydd dros y môr.* Ac y mae yn ddilys fod y canonau a wnaethpwyd yn y rhai hyny wedi eu derbyn yn Mrydain, cystal ag yn y gweledydd y gwnaethpwyd hwynt. Beth bynag gan hyny a ddywedir yma rhagllaw oedd arfer eglwys Crist yn mhob gwlad o gred, yn yr oesoedd cyntaf, ar ol dyddiau yr apostolion, cyn amser pabyddiaeth.

Yma dechreuaf ar y gwŷr llen, gan mai hwy yw y blaenoriaid, a'r cenadon dros Grist. Nid oes dim mwy amlwg mewn hanesyddiaeth na bod tri math o swyddogion eglwysig; sef, esgob, offeiriad, a diacon, yn mhob gwlad o gred, er dyddiau yr apostolion. O'r dwyrain i'r gorllewin, o'r deheu i'r gogledd, yn mhob teyrnas, gwlad, ac ardal lle yr oedd Cristionogion, yr oedd yno hefyd y tair gradd hyn o swyddogion eglwysig. Clwych beth a ddywed St. Ignatius, dysgybl St. Pedr yr

* Concil. Nicæ. A.D. 325. Concil. Arelatense 1. A.D. 326. Concil. Sardic. A.D. 347. Concil. Ariminense. A.D. 369.

apostol, "Y neb sydd yn aros yn nghymundeb yr eglwys, sydd lân; eithr yr hwn a wna ddim yn erbyn yr esgob, yr henuriad, a'r diacon, sydd aflan."* Y mae hyn yn brofiad diammheuol fod y tair gradd o swyddau eglwysig er dyddiau yr apostolion; sef trwy gydol y tair oes gyntaf, pan oedd crefydd yn ei phurdeb, a phan nad oedd nac elw nac anrhydedd o'r byd hwn o fod yn esgob; dim ond erledigaeth yma, a choron o ferthyrdod; ac eto nid ellir enwi un cwr o gred, dan haul y ffurfafen, lle nad oedd ond gweinidogion cydradd, heb fod esgob yn olygwr ar ryw nifer o honynt. Ie, nid allodd Blondel, gwr a roddes ei fryd i chwilio holl hanesion cred, eto benderfynu ar un wlad lle yr oedd gweinidogion cydradd ond Iscoed Celyddon [Scotland] yn unig. Ond am hyn o hen chwedl ddiffrwyth, y mae ein cydwladwr dysgedig o Wynedd, y Gwir Barchedig William Llwyd, diweddar esgob Henffordd, wedi gwneuthur y fath gadarn ateb, megys y gall pob dyn, a fyn agor ei lygaid, ganfod y twyll a'r gwendid sydd yn ei goeg resymau disail.†

Swydd yr esgob oedd pregethu y gair, ordeinio gweinidogion, ac edrych ar iddynt wasanaethu eu swydd yn ffyddlawn; esgymuno troseddwyr allan o gynulleidfa y ffyddloniaid, a'u derbyn i gymundeb drachefn ar eu hedifeirwch. Ar air, swydd yr esgob oedd bugeilio a llywodraethu eglwys Dduw, ac edrych yn ddyfal ar fod pob peth mewn trefn a gweddeidd-dra. A hyny, medd rhai, oedd yr achos fod eisteddle yr esgob mewn lle uchel yn y fam eglwys o'r esgobaeth, gan arwyddocâu wrth hyny ei ddyledswydd i oruchwylio, a dyfal fwrw golwg dros y gwŷr llen a lleyg oedd dan ei ofal.‡

Esgob duwiol a gyfrifid gynt yn un o'r bendithion mwyaf ar y ddaear; cynghor yr hwn a ddilynid, mewn pethau ysbrydol yn nesaf i'r Ysgrythyr lan. Y mae St. Paul yn tystio am y Galatiaid, ei fod ef mor anwyl ganddynt, yn gymaint ag y tynasent eu llygaid, ac a'u rhoisent iddo ef, pe hyny a fuasai er llesâd a daioni iddo. (Galat. iv. 15.) Ac y mae St. Clement yn tystio am y Corinthiaid, eu bod yn rhodio yn neddfau y Goruchaf, yn ymddarostwng i'r rhai oedd yn llywodraethu arnynt, ac yn parchu eu gweinidogion megys y gweddai iddynt.§ Ni wnai yr hen Gristionogion un weithred o bwys, heb gynghor yr esgob yn gyntaf; oblegid

* Ignat. Epis. ad Trall. p. 50. † Bp. Lloyd's Historical Account of Church Government, p. 133, &c. ‡ Dr. Cave's Prim. Christianity, P. 1. c. 8. p. 222. § Epist. ad Corin. p. 2.

efe a gyfrifid ganddynt (megys y mae efe yn wir ddiau) yn dad ysbrydol, wedi ei awdurdodi gan Grist, i fugeilio y rhan hono o'r eglwys gatholic, o fewn terfynau ei esgobaeth. Yn mysg yr amryw gymwynasau ag oedd Cystenyn Fawr, ein cydwladwr enwog, a'r ymherawdwr cyntaf a droes yn Gristion, yn eu dangos i'r esgobion a gwŷr llen parchedig ereill, fe ddywedir fod nifer mawr o honynt o fewn ei deulu; eu bod yn eistedd gydag ef i fwyta ar ei fwrdd ei hun: fod ganddo fwy o hoffder yn eu gwrando, nag yn nghyfeillach yr arglwyddi cyfoethocaf o fewn yr ymherodraeth; a'i fod ef yn cymeryd rhai o honynt gydag ef i ba daith bynag yr elai; a hyny am iddo gael profiad grasusol fod Duw yn ei fendithio fwy-fwy beunydd, ar eu gwaith yn gweddïo drosto; canys "llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn."* (Iago v. 16.)

Pan oedd Basil, esgob Cæsarea, yn gorwedd ar ei wely angeu, y mae ysgrifenydd ei fywyd yn mynegi, i holl drigolion y ddinas hono ddyfod yn nghyd, a'u bod yn gweddïo, megys pe buasent yn myned i ddal gafael ar ei enaid, a'i gadw, trwy drais, yn hwy o fewn ei gorff. "Prin nad oeddent," eb efe, "wedi anmhwyllo wrth feddwl am y colled a ddygwyddai iddynt. Ac nid oedd yno un nad ymadawai yn ewyllysgar a rhan o'i fywyd ei hun, pe rhoddasai hyny fywyd o newydd iddo ef.† A phan ddeolwyd ac y gyrwyd allan o'r wlad y tad duwiol hwnw, Ioan Aur-enau [Chrysostom] esgob Caercystenyn, trwy arch yr ymherodres ben-gam, a elwid Eudocsia, fe ddywedir fod holl bobl y dalaeth agos wedi gwallgofi, ac yn delwi wrth ei weled yn myned ymaith, gan waeddi yn alaethus, "Gwell a fuasai i'r haul beidio a llewyrchu, nag i Ioan Aur-enau beidio pregethu."‡

Nid mewn pethau ysbrydol yn unig y byddai yr hen esgobion gynt yn rhoddi eu barn, ond mewn pethau tymmorol hefyd. Canys pwy bynag a welai yn dda, a allai symud ei gwyn a'i hawl o'r llys tymmorol i lys yr esgob. A pha fodd bynag y bernid yr achos yno, fe fyddai cystal a phe buasai yr ymherawdwr a'i gynghoriaid wedi sefydlu y mater; a'r holl swyddogion gwledig oeddent yn rhwymedig i ollwng yr hawl yn ol barn yr esgob a'r gwŷr llen. Cymaint oedd y parch yn yr hen amseroedd gynt i genadon yr Arglwydd, am eu gonestrwydd, uniondeb, a glendid eu barn.

* Eus. de Vit. Const. lib. 1. c. 35. † Nazian. in Land. Bas. Orat. 20. p. 371. ‡ Chrys. Epist. 125. p. 763.

Y swyddog eglwysig nesaf mewn gradd ac urddau oedd yr henuriad, neu yr offeiriad; swydd yr hwn oedd pregethu i'r gynulleidfa neillduol a bennodid dan ei ofal, gweinyddu bedydd, cysegru y bara a'r gwin yn y cymun, ymweled a'r cleifion, priodi, claddu y meirw, a chynorthwyo yr esgob, nid yn unig yn mherthynasau yr eglwys, ond yn nghylch materion gwledig hefyd. Ac ar brydiau, hwynt-hwy yn unig a farnent mewn achosion gwledig; sef pan welai yr esgob yn dda eu pennodi, canys ni feiddient hwy wneuthur dim heb ymgynghori ag ef. Ac y mae Ignatius, dysgybl St. Pedr yr apostol, yn dywedyd, "Fod pwy bynag sydd yn gwrthwynebu yr esgob, yn gwasanaethu y diawl ei hun."*

Os offeiriad, ar antur, a droseddai y gyfraith, nid oedd gan y barnwyr gwledig ddim i'w wneuthur ag ef, ond fel y barnai cymanfa o esgobion; a phwy bynag a ddifenwai ac a ddirmygai esgob neu offeiriad (a hwy yn cael cam), a ysgymunid, ac megys dyn y fall, a ochelid ei gymdeithas, hyd nes tystiai ei wir edifeirwch, a rhoddi gwrtheiriadau ar gyhoedd yn ei euogfarnu ei hun, ac yn rhyddhau y gwirion diniwed. A phwy bynag, mewn gwyn danbaid o lid a malais, a darawai esgob neu offeiriad, a osodid i farwolaeth.† Cymaint oedd eu gofal i gadw cenadon yr Arglwydd rhag tafod yr enllibus, a rhag dwylaw yr ysgeler.

Da odiaeth y dywed yr hen athraw, St. Ignatius, "Megys na wnaeth Crist ddim heb y Tad, felly fy anwylyd, na wnewch chwithau ddim heb yr esgob a'i henuriaid; eithr ymgynullwch i'r un lle, fel y byddo genych un weddi, un erfyniad, un meddwl, ac un gobaith."‡ Dyna ddyledswydd y gwŷr lleyg: clywch ddyledswydd y gwŷr llen hwythau, yn ngeiriau hen athraw arall, a elwid Polycarp, yr hwn a ysgrifenodd o gylch y flwyddyn 130: "Bydded i'r offeiriaid," eb efe, "fod yn dirion ac addfwyn; yn drugarogion wrth bawb; yn ymchwelyd y rhai a aethant ar gyfeiliorn; yn ymweled a'r cleifion, yr ymddifad, a'r gweddwon; yn darbod drostynt eû hunain yr hyn sydd onest yn ngolwg Duw a dynion; ac yn ymgadw rhag cenfigen a rhag derbyn wyneb."§

Y gweinidog isaf ei radd yn yr eglwys yw y diacon: swydd

* Ignat. Ep. ad Smyrn. p. 7. † Vide Cave's Prim. Christian. c. 8. p. 258. ‡ Ignat. Ep. ad Magnes. p. 33. § Vide Dr. Cave's Lives of the Fathers, p. 127.

yr hwn yn benaf, ar y cyntaf, oedd "gwasanaethu byrddau;" hyny yw, edrych at, a chyfranu yr elusenau a gesglid i'r aelodau tlodion, a rhoddi y bara a'r gwin i'r cymunwyr; ac hefyd, trwy genad yr esgob, i bregethu, i fedyddio, &c. Ond nid oedd yn rhydd i un diacon gysegru y bara a'r gwin, nac i bregethu ychwaith, heb genad yr esgob. Yr archddiacon a fyddai ryw wr eglwysig doniol ac arafaidd, a bennodid gan yr esgob, i edrych ar i bob peth fod yn weddus yn mysg y diaconiaid, rhag eu bod yn rhyfygus, ac yn cymeryd arnynt wneuthur y peth ni ddylent. Ac am hyny y gelwir yr archddiacon, yn ysgrifeniadau hen deidiau yr eglwys, llygad yr esgob; oblegid efe, yn absenoldeb yr esgob, oedd yn bwrw golwg, ac yn goruchwylio.

Yr oedd ganddynt hefyd ddiaconesau yn y brif eglwys, a hyny yn amser yr apostolion. "Onid oes i ni awdurdod," ebe St. Paul, "i arwain o amgylch wraig a fyddai chwaer, megys y mae i'r apostolion ereill?" (1 Cor. ix. 5.) Diaconesau oedd Mair, Persis, a Phœbe. Eu swydd oedd gweini i'r benywod cleifion, eu diosg cyn eu bedyddio, &c. Ond rhag i'r llancesau tafodrydd hyny, yn mysg y Crynwyr, gymeryd achlysur oddiyma i amddiffyn eu budr ffiloreg, a'u bragawthan, yr ateb yn fyr yw, na ryfygodd yr hen ddiaconesau bregethu erioed, ond eu holl waith oedd yn nghylch y fath oruchwylion bychain a grybwyllwyd. "Tawed eich gwragedd yn yr eglwysi, canys ni chaniatawyd iddynt lefaru, ond bod yn ddarostyngedig, megys y mae y gyfraith yn dywedyd." (1 Cor. xiv. 34.)

I'r swyddau hyn y neillduid gweinidogion trwy "arddodiad dwylaw;" yr hyn beth a arferwyd gan yr apostolion, megys y gwelwn ni St. Paul yn rhybuddio Timothy (yr esgob cyntaf a ddewiswyd ar eglwys yr Ephesiaid), "Na ddod ddwylaw yn ebrwydd ar neb." (1 Tim. v. 22.) Yr arfer hwn o arddodiad dwylaw, a gynaliwyd o oes bwygilydd yn yr eglwys, ac ni chlybuwyd son yn yr hen amser am neb a feiddiodd neu a ryfygodd athrawiaethu heb ei ddanfon fel hyn at y gwaith. Y gwirionedd yw, nid oedd dim o'r fath afreolaeth, annhrefn, rhyfyg, a digywilydd-dra, yn oesoedd cyntaf yr efengyl, ag a welir yn y dyddiau hyn. Canys nid pob un a fedrai ddarllen—nid pob tafodrydd a ddywedai yn rhyfygus fod dawn yr Ysbryd ganddo—nid pob taiog hunanol, a rhyw ferw-ymadrodd, a ganiatëid i athrawiaethu yn y brif eglwys efengylaidd; ond y

sawl a ddanfonid i fugeilio defaid y gorlan yn ddyladwy ac yn gyfreithlawn, trwy arddodiad dwylaw yr esgob.*

Yr oedd yn rhaid i'r neb a chwennychai gael ei ordeinio fod yn gyfarwydd yn yr Ysgrythyrau, ac yn fedrus mewn dysgeidiaeth ddynol, yn fwy enwedigol mewn ieithoedd, athronyddiaeth, hanesyddiaeth, ac mewn rhesymeg. Ac yna, wedi cael tystiolaeth am fywyd ac ymarweddiad y gwr, ac ar ol cael hysbysrwydd a phrofiad o'i fedr a'i wybodaeth, efe a neillduid ac a urddid at y gwaith, trwy arddodiad dwylaw yr esgob. Un esgob a fyddai yn ddigon i ordeinio offeiriad a diacon; ond holl esgobion y dalaeth a ymgyfarfyddent, os na byddai rhwystr, i gysegru offeiriad yn esgob.† Y mae un esiampl, a dim ond un, am wr a ordeiniwyd yn offeiriad gan offeiriad arall; ond cyn gynted ag y daeth y gwaith rhyfygus i'r amlwg, yr offeiriedyn a alwyd gerbron y fainc, ac a ddiswyddwyd o'i weinidogaeth eiddil a gwan, gan gymanfa o wŷr eglwysig; oblegid ni chlybuwyd am y fath beth rhyfygus erioed o'r blaen yn eglwys Crist.‡

Soniwn ryw ychydig bellach am gynaliaeth gwŷr llen y brif eglwys; canys, "ordeiniodd yr Arglwydd i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl." (1 Cor. ix. 14.) Eu cynaliaeth ar y cyntaf oedd gasgliad oddiwrth bob aelod o'r gynulleidfa, bob un yn ol ei allu; yr hyn, yn oesoedd cyntaf yr efengyl, pan oedd eu sel yn wresog, oedd gynaliaeth ddigonol. Ac heblaw hyny, y plwyfolion, neu y sawl ag oedd yn ymgynull i'r un llan, a brynent dyddyn eang o dir, fel y byddai hyny yn rhan safadwy. A rhwng y ddau hyn, sef y casgliad a'r tyddyn, yr oedd ganddynt helaethrwydd o foddion byd; ïe, gymaint a bod rhai yn llidiog, yn manson, ac yn dechreu dangos eu dannedd. Hyny a barodd i Ioan Aur-enau, yr hwn a ysgrifenodd o gylch y flwyddyn 400, wneuthur traethawd pennodol i amddiffyn cynaliaeth y gwŷr llen yn erbyn y tuchanwyr crintach, y rhai oedd yn cenfigenu ac yn grwgnach wrth eu llwyddiant.§

* Vide Cypr. Epist. 75. p. 236. † Cyp. Ep. 68. p. 202. ‡ Ischyras, qui a Colytho præsbytero, ordinatus fuit. Vide Athan. Apol. tom. 1. p. 570. § Chrysost. tom. 6. p. 896.

## PENNOD VI.

### GWEINIDOGAETH Y DDAU SACRAMENT, BEDYDD A SWPER YR ARGLWYDD, YN Y BRIF EGLWYS.

ER na cheir y fath air a "sacrament" yn yr holl Destament Newydd, eto fe'i cymhwysir, mewn ystyr berthynasol, i arwyddocâu y ddwy ordinhad santaidd, bedydd a swper yr Arglwydd. Canys y gair "sacrament" a gymerwyd gan y Rhufeiniaid yn y tair ystyr a ganlyn: 1. Gwystl a roddai gwr a achwynid arno mewn cyfraith, i'w rwymo ef i ateb, dan berygl o golli y gwystl. 2. Llw a gymerai y milwyr, ar fod yn gywir a ffyddlon i'r cadben. 3. Baner a lifrai gwahanol, fel yr adnabyddid milwyr pob cadben wrth eu baner a'u gwahanol lifrai. Barn rhai yw, y gellir yn ddigon cymhwys alw bedydd a swper yr Arglwydd yn sacramentau yn y tair ystyr uchod; canys, 1. Y mae Duw, pan y byddom yn gwneuthur hawl yn ei addewidion grasusol, yn sicrhau i ni trwy arwyddion gweledig oddiallan, megys trwy wystlon santaidd am ei ras a'i ffafr. 2. Ninau a gymerwn lw (ein hadduned-fedydd) ar fod yn filwyr cywir dan Grist ein cadben a'n tywysog. Ac, 3. Nyni a wahenir wrth y nodau hyn oddiwrth bawb ereill, y rhai nid ydynt yn cydnabod efengyl Crist Iesu.*

Pe ymostyngai dynion i wneyd diwedd i un ymryson crefyddol wrth reol yr Ysgrythyr, neu arfer y brif eglwys (cyn i neb llygredigaethau ymlusgo i mewn), fe fyddai y ddadl ddiweddar yn nghylch deiliaid bedydd yn ddystaw; sef yw hyny, na ddylai neb betruso (ar y sydd yn dirnad yr Ysgrythyr, ac yn darllen am ddysgyblaeth y brif eglwys) pa un a ddylid bedyddio plant bychain, onid ydynt yn chwennych myned yn gysegr-ladron, a gwrthwynebu ordinhad Duw ei hun. Canys y cyfammod a wnaeth Duw ag Abraham, oedd yn gyfammod tragywyddol, nid terfynedig wrth had Abraham yn unig yn ol y cnawd, ond y cenedloedd hefyd a impiwyd o'i fewn, wedi i'n Harglwydd ddattod "canol-fur y gwahaniaeth" rhwng Iuddewon a chenedloedd. (Eph. ii. 14.) Canys, ebe'r apostol, "Gwybyddwch felly mai y rhai hyny sydd o ffydd, y rhai hyny yw plant Abraham." (Gal. iii. 7.) Felly, gan fod plant bychain

* L'Estrange Alliance of Divine Offices, c. 8. p. 230.

y cenedloedd crediniol o fewn y cyfammod, ac yn blant i Abraham trwy ffydd, onid oes ganddynt wrth bob iawn, hawl hefyd i sel y cyfammod? Oni ddylid eu bedyddio hwy yn awr dan yr efengyl, megys ag yr enwaedwyd hwy yn amser cyfraith Moses? Canys y mae bedydd yn canlyn enwaediad, megys y profir yn helaeth gan amryw o hen athrawon yr eglwys.

"Ond," ebe un, "nid oes dim crybwyll am fedydd plant yn y Testament Newydd." Pe rhown nad oes: nid oedd yn yr amser hwnw ddim ammheuaeth yn nghylch derbyn plant bychain yn aelodau o'r eglwys, nid yn unig trwy enwaediad, ond hefyd trwy fedydd; canys eto yn amser cyfraith Moses, yr oeddid yn derbyn y cenedloedd, hwynt-hwy a'u plant o fewn yr eglwys, yn gystal trwy fedydd a thrwy enwaediad.* Ond y mae mynegiaeth eglur am fedydd plant yn y Testament Newydd, canys, medd St. Paul, "Y gwr digred a santeiddir trwy y wraig, a'r wraig ddigred a santeiddir trwy y gwr. Pe amgen, aflan yn ddiau fyddai eich plant; eithr yn awr SANTAIDD ydynt." (1 Cor. vii. 14.) Yr ystyr yw hyn:—"Gwr annghrediniol wedi priodi gwraig yn credu, a dry yn fynych yn Gristion wrth wrando ar resymau ei wraig; ac felly hefyd, gwraig annghrediniol wedi priodi gwr yn credu, a dry hithau yn fynych yn Gristionoges wrth wrando ar resymau ei gwr. Ac heblaw hyny, ebe St. Paul, pa un ai y gwr ai y wraig a fydd yn credu, y mae eu plant yn santaidd, neu a hawl ganddynt i fedydd, neu yn Gristionogion; canys felly, gyda phob gwir berthynas ac iawn ystyr, y gallesid cymreigio y gair 'santaidd.' Ac y mae yn hysbys, nad elwid neb yn yr amser hwnw yn Gristion, cyn ei fedyddio. A thyna hysbysrwydd eglur am fedydd plant yn y Testament Newydd."†

Yn gyfatebol i hyn, y mae gwaith yr hen deidiau yn dangos yn eglur, fod bedydd plant yn arfer yr eglwys gatholic er dyddiau yr apostolion. Gwaith anorphen a fyddai adysgrifenu eu geiriau o oes bwygilydd, ond y mae St. Awstin, esgob Hippo yn Affrica, yn pen-glymu y mater yn y geiriau dwys a ganlyn: "Quod universa tenet ecclesia, nec consiliis institutum sed SEMPER retentum, non nisi apostolicâ auctoritate certissime creditum;"‡ hyny yw, "Y cyfryw beth y mae yr eglwys gatholic yn mhob ardal o gred yn ei ddal; yr

* Vide Hammond in Mat. iii. 1. † Vide Hammond in Loc.
‡ Aug. de Bapt. lib. 4. c. 24.

hyn beth ni ordeiniwyd mewn un eisteddfod, ond a gynaliwyd o hyd o oes bwygilydd yn wastad; y cyfryw beth a hyny, nid all amgen na dyfod oddiwrth awdurdod yr apostolion." Yn awr y mae St. Awstin yn dangos fod bedydd plant yn arfer eglwys Crist yn mhob gwlad dan haul y ffurfafen, lle y pregethwyd yr efengyl; yn beth nad ordeiniwyd erioed mewn un gymanfa neu eisteddfod; yn beth na bu erioed ddim ammheuaeth na dadl yn ei gylch; ond a gynaliwyd o hyd er dyddiau yr apostolion, hyd ei amser ef, sef dros bedwar cant o flynyddoedd, yn mhob ardal o gred. A chan ei fod yn sefyll ar y fath sail gadarn a hyn, nid dim ond pen-gamrwydd, neu ddygn anwybodaeth a all beri i neb ymwrthod a bedydd plant a gwawdio.

Yn amser St. Cyprian y bu yn wir ddadl, nid yn nghylch a ddylid bedyddio plant bychain, canys yr oedd hyny yn ddiddadl, ond yn nghylch yr amser y dylid eu bedyddio. Canys yr oedd rhyw esgob a'i enw Ffidus, yn ammheu pa un a ellid yn gyfreithlawn fedyddio plant bychain cyn yr wythfed dydd. Yn awr, rhag bod hyny yn achos amrafael yn yr eglwys, St. Cyprian, archesgob Caer yn Affrica, a wysiodd yr esgobion yn nghyd, ac fe ymgynullodd triugain a chwech i ymgynghori yn nghylch y mater. A'u barn hwy oll, un ac arall, ydoedd, na ddylid cadw plant bychain cyhyd a'r wythfed dydd rhag bedydd. Nid yw annghymhwys i ychwanegu yma ryw gyfran o'r llythyr a anfonasant at y Ffidus hwnw oblegid hyn o fater.

"Am yr hyn a ddywedaist mewn perthynas i blant, na ddylid eu bedyddio ar yr ail neu y trydydd dydd ar ol eu genedigaeth, ond ar yr wythfed dydd, megys yn amser cyfraith Moses, ein cymanfa ni a farnodd yn llwyr wrthwyneb. Ac ni chytunodd un o honom a thydi yn hyn o beth, ond barnasom oll, un ac arall, nad oes annghenrhaid i gadw plant cyhyd oddiwrth ffafr a daioni Duw. Canys yn gymaint ag i'n Harglwydd ddywedyd, 'Na ddaeth efe i ddystrywio eneidiau dynion, ond i'w cadw;' felly y mae yn gorwedd arnom i edrych atom ein hunain, rhag bod un enaid yn golledig trwy ein gwall a'n hesgeulusdra ni. Beth a all fod yn ddiffygiol yn y sawl a luniwyd yn berffaith trwy allu Duw yn y groth? Er fod cynydd y corff yn gwneuthur gwahaniaeth mewn perthynas i ddynion, ond nid yw hyny ddim mewn perthynas i Dduw. Yr Ysbryd Glân a roddir yn ddiwahan i bawb, nid yn ol maintioli dynion, ond yn ol ewyllys da ein Tad nefol.

Canys, megys nad yw Duw yn dderbyniwr wyneb, felly nid yw efe ychwaith yn dderbyniwr oedran. O herwydd paham, ein hanwyl frawd, ein barn ni ydyw, na ddylid lluddias un dyn a fyddo yn addas rhag cael bedydd. Ond yn anad neb, bydded i ni ofalu dros blant bychain newydd eni, y rhai sydd megys yn ymbil arnom, wrth eu gwaith yn wylo ac yn gwaeddi, ar i ni dosturio wrthynt."*

Y llythyr hwn a ysgrifenwyd yn y flwyddyn o oedran Crist 254, ac fe osododd triugain esgob a chwech eu dwylaw wrtho. Yr achos nad oes yma ddim brofiadau allan o'r efengyl i amddiffyn bedydd plant yw hyn, nad oedd y pryd hwnw nac o'r blaen hyd amser yr apostolion, ddim ammheuaeth yn nghylch hyny. Petrusder Ffidus oedd yn nghylch amser, nid yn nghylch deiliaid bedydd; ac i hyny yn unig y maent hwythau yn ateb.

Fod tadau a mamau bedydd, eu meichiau drostynt i eglwys Crist, yn ateb ac yn ymrwymo yn enw y plant bychain, a ymddengys wrth dystiolaeth hen Dertulian, yr hwn a ysgrifenodd o gylch y flwyddyn o oedran Crist 180. "Pa raid," eb efe, "i dadau bedydd ymdaflu i berygl y rhai allant farw cyn cyflawni yr addewidion a wnaethant; neu fe all y rhai y maent yn addaw drostynt fyned yn ddynion ysgeler, gwneler a fynir iddynt."†

Gwir iawn, y mae efe yn ysgrifenu yn erbyn tadau bedydd, a hyny am ddau achos, megys y mae yn eglur wrth ei eiriau. Eto, fe ymddengys yn oleu, fod tadau bedydd yn ateb dros blant yn yr amser hwnw, sef o fewn un can blwyddyn ar ol dyddiau yr apostolion, pan oedd pob peth yn iawn ac yn drefnus. Y gwirionedd yw, fe wyrodd yr hen athraw godidog hwn tua diwedd ei oes ryw ychydig oddiwrth y ffydd apostolaidd;‡ ac am hyny, efe a ddyrchafa ei dyb neillduol a'i farn ei hun o flaen trefn a dysgyblaeth yr eglwys. Felly y gwnaeth efe yn nghylch bedydd plant hefyd; canys efe a ddywed, "Paham y mae yr oes ddiniwed yn prysuro dderbyn maddeuant pechodau? Deuent i'w bedyddio wedi iddynt gyrhaedd i oedran."§ Gwreiddyn y cyfeiliornad, mae yn debygol, oedd ei farn nad oedd dim o'r fath beth a phechod gwreiddiol; canys efe a eilw plant bychain yr oes ddiniwed, ac felly nid oedd raid iddynt wrth fedydd yn ei dyb ef. Eto y mae hyn yn brofiad

* Cyprian. Epist. 59. p. 164. † Tertull. de Bapt. p. 603. ‡ Ad. Heresim Montanorum. § Tertull. ibid. lib. 2. c. 18.

hollol a diammheu, fod tadau bedydd, a bedydd plant yn ddefod gynefin y brif eglwys yn ei amser ef, a chyn hyny er dyddiau yr apostolion.

Wedi i'r tadau bedydd, y meichiau dros y plentyn ddyfod yn nghyd i'r un lle, yr offeiriad a'u rhybuddiai i feddwl am gyflawni yr addewid yr oeddent yn myned i'w gwneuthur yn enw y plentyn; sef ei addysgu ef yn holl egwyddorion y grefydd Gristionogol, a gwneuthur eu goreu ar iddo arwain bywyd crefyddol mewn ofn Duw. Ac yno, wedi gweddïo am fendith y Goruchaf ar ei ordinhad, y gweinidog, a gymerai y plentyn yn ei freichiau, ac (ar ol cael ei enw gan y tadau bedydd) efe a'i trochai dair gwaith yn y dwfr, yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân; ond os byddai y plentyn yn wan, fe a daenellid dwfr dair gwaith ar ei dalcen yn enw y Drindod. Ar hyny y gweinidog a'i harddelwai ef yn aelod o'r eglwys, ac a wnai lun y groes ar ei dalcen, gan arwyddocâu wrth hyny, ei fod ef yn awr yn filwr i Grist, ac yn dwyn ei nôd ef arno. Y mae yr arfer o wneuthur arwydd y grog cyn hened a dechreuad Cristionogaeth: ïe, y mae Tertulian eu hun yn canmol yr arfer hono, er ei fod mewn rhai pethau ereill yn gwyro.* Ac o hyny y gwnaethpwyd y ddiareb hon. "Talcen wedi nodi ag arwydd y grog;" hyny yw, "Cristion wedi derbyn cred a bedydd."†

Er fod yr hen Gristionogion yn wir ddiau, gan mwyaf yn trochi yr holl gorff dan y dwfr, eto ni chyfrifid un trochiad (yn ol eu barn hwy) ddim yn fedydd cyflawn, megys yr ymddengys wrth eiriau Sozomen, yr hwn a ysgrifenodd hanes yr eglwys o gylch y flwyddyn 440. Canys efe a ddywed mewn cynifer o eiriau llawn, "Fod y sawl a drochwyd ond unwaith, yn ei farn ef, mewn cymaint o enbydrwydd a'r sawl na fedyddiwyd erioed."‡ Ond taenelliad dair gwaith a gyfrifid cystal a thri throchiad; canys St. Cyprian, y merthyr santaidd hwnw, a ddywed yn eglur, "nad allai efe ddirnad fod y dawn nefol yn cael ei attal ddim llai trwy daenelliad, nag yn y ffordd arall trwy drochiad, os byddai ffydd i'w dderbyn. Canys ein pechodau ni yn y bedydd," eb efe, "a olchir mewn modd arall na budreddi ein cyrff mewn afon. Ac na ryfedded neb, ein bod yn bedyddio y rhai gweinion wrth daenellu dwfr arnynt, gan fod

* Caro signatur ut et anima muniatur. Tertull. de Resurrect. p. 31.
† Frons cum signo. Cypr. de Laps. p. 301. ‡ Soz. Hist. Eccles. lib. 1. c. 26. p. 150. Ed. Lon. 1569.

yr Ysbryd Glân yn dywedyd, 'Ac a daenellaf arnoch ddwfr glân, fel y byddoch lân.' (Ezec. xxxvi. 25. Num. viii. 7.) Ac fel hyn y gwnei iddynt i'w glanhau, taenella ddwfr puredigaeth. Wrth hyn, y mae yn amlwg," eb efe, "fod taenelliad cystal a throchiad."*

Pa un ai yn faban ai mewn oedran, trwy daenelliad neu trwy drochiad, y bedyddid neb, ni ail-fedyddid mo hwnw drachefn; canys yr holl hen Gristionogion yn yr oesoedd cyntaf a lynasant yn ddisigl wrth reol yr apostol, "Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd." (Eph. iv. 5.) Y mae hanes nodedig yn nghylch St. Athanasius, ac efe eto yn llanc, fel y canlyn:—Alecsander, esgob Alecsandria yn yr Aipht, a gadwai ddydd gwyl St. Pedr yn ol arfer yr eglwys; ac yn y prydnawn, efe a rodiodd allan i'r meusydd, lle y gwelai efe nifer o lenciau yn ymddifyru ac yn chwareu; yno efe a ganfyddai un (megys y mae ieuenctid yn nwyfus) yn tywys y lleill at afon, ac yn eu bedyddio. Alecsander, ar ei waith yn dychwelyd adref, a fynegodd y mater wrth wŷr eglwysig y ddinas, y rhai nid allent amgen na rhyfeddu wrth glywed y fath awenydd o chwareu yn y bechgyn. Ond wedi dwys ystyried y peth, fe ddanfonwyd am danynt, i glywed y cwbl o'u geneuau eu hunain; a hwy a ddywedasant, mai y llanc Athanasius a gymerth arno ddynwared swydd offeiriad, ac a fu un eu bedyddio. A barn yr esgob a'i holl henuriaid oedd, fod y bedydd yn safadwy, ac na ddylid ail-fedyddio mo honynt, gan fod y ffurf yn enw y Drindod yn uniawn."†

Ond nid ellir gwadu, nad oedd rhai yn ail-fedyddio yn yr hen amseroedd; ond dynion cyfeiliornus oeddent—cynifer heretic oeddent, wedi ymadael a llwybr y bywyd, ac a iawn ddysgyblaeth yr eglwys gatholic. Blaenor ac arweinydd y sect hon, a elwid Eunomius, yr hwn a ddychymygodd ffurf arall yn ei fedydd ef nag a orchymynodd Crist; canys efe a daerodd na ddylid bedyddio neb yn enw y Drindod, ond y ffurf a ddylai fod, "Yr wyf yn dy fedyddio di i farwolaeth Crist."‡ A pha ddysgyblion bynag a allai yr heretic hwn eu hudo ato trwy ei goegion resymau ffraeth (canys yr oedd efe yn dafodrydd ei wala), efe a'u hail-fedyddiai hwy, er eu bod wedi eu bedyddio o'r blaen yn enw y Drindod. Efe hefyd

* Cypr. Ep. 76. p. 249. † Sozom. Hist. Eccles. lib. 2. c. 17. ‡ Non in Trinitatem, sed in Christi mortem baptizandos esse asserens. Sozom. ibid. lib. 7. c. 26.

oedd yr hwn a newidiodd yr hen arfer o drochi dair gwaith, canys efe a daerodd fod un waith yn ddigonol.

Yn yr oesoedd cyntaf y neb a gredai yn Nghrist, ac a droai yn Gristion, a fedyddid allan o law, megys y gwnaeth Philip a'r eunuch; (Act. viii.) ac a gwnaeth Paul a Silas a cheidwad y carchar a'i deulu. (Act. xvi.) Ac felly y dywed Justin y Merthyr, yr hwn a ysgrifenodd o gylch y flwyddyn 155. "Pwy bynag," eb efe, "wedi yr addysgir iddynt egwyddorion y ffydd Gristionogol, ag sydd hefyd yn foddlon i fyw a bucheddu yn ol rheol yr efengyl, a gynghorir genym i ymprydio a gweddïo er cael maddeuant o bechodau eu hannghrediniaeth gynt: ac nyni a ymprydiwn ac a weddïwn gyda hwy; ac yno ni a'u dygwn lle byddo dwfr; ac fel yr adgenedlwyd ni, felly yr adgenedlir hwythau."* Ond tua'r drydedd oes, neu ychydig cyn hyny, y pennodwyd i weinyddu bedydd ar ddau amser o'r flwyddyn yn unig, sef y Pasg a'r Sulgwyn; ac eto os byddai dim enbydrwydd angeu, hwnw a fedyddid allan o law; ac os byddai ei glefyd yn drwm, yn ei wely. Ar dydd Sulgwyn y gwisgid y rhai newydd fedyddio a gwisg wen; ac o'r achos hwnw, y galwyd y Sul hwnw Sulgwyn, oblegid y byddai y rhai newydd fedyddio yn myned yn finteioedd i'r eglwysi yn eu peisiau gwynion y dydd hwnw: a hyn yw meddwl y bardd, pan yw yn canu:†—

"Iôr nef a daear, gwel y rhai hygar
A fu'n ddiweddar dan yr elfen;
Gwel y frwydr-lân sy'n myned allan
O'r Aipht i Ganaan mewn gwisg bur-wen.

"Mae peisiau gwynion y glân ddyniadon
Yn rhoi argoelion meddwl dien;
Hyn sydd lawenydd a chysur hylwydd
I'r bugail iawn-ffydd, dorf ddysglaer-wen!"

Fe debygai dyn annghyfarwydd, fod Justin y Merthyr a grybwyllwyd uchod yn adrodd, fel pe ni fuasent yn bedyddio neb plant bychain yn ei amser ef: ond nid yw efe ddim; canys, 1. Y rhai digred a droisant yn Gristionogion, y mae efe yn feddwl. 2. Y mae efe yn son ei hun mewn man arall o'i ysgrifeniadau am fedydd plant, megys defod arferedig yn ei amser ef yn mhob gwlad.‡ Ac felly ni ddylid gwyrdröi y

* Just. Mart. Apol. 2. p. 97. † Lactant. Poem. de Resurrect. p. 765.
‡ Just. Mart. Resp. ad Quest. 53.

fath ymadroddion a'r rhai hyn i amddiffyn pen-gamrwydd a chyfeiliornad. Ond, ysywaeth! "y mae yr annysgedig a'r anwastad yn gwyrdröi yr Ysgrythyrau" (chwaethach ysgrifeniadau dynol) "i'w dinystr eu hunain." (2 Pedr iii. 16.)

Soniwn bellach yn nghylch y sacrament arall, sef swper yr Arglwydd. Ac yma canlynaf y drefn hon: 1. Yr amser y derbynid. 2. Y sawl a fernid yn gymhwys i'w dderbyn. 3. Y modd yr oeddid yn ei dderbyn.

I. Yr amser mwyaf cyffredin ac arferol ydoedd wedi gorphen y gwasanaeth yn y llan ar ddydd yr Arglwydd; canys Justin y Merthyr a ddywed, "mai yr amser yr arferent i fwyta o'r cymun oedd wedi iddynt ddarllen, canu mawl, pregethu, a gweddïo." * Am yr amser pennodol o'r dydd, y mae yn eglur i Grist ordeinio gyntaf y sacrament hwn, o goffadwriaeth am ei angeu drosom, yn y prydnawn neu yn yr hwyr, os nid yn y cyfnos: ond nid oes dim mynegiaeth oll fod yr apostolion yn canlyn yr un oriau. Eto y mae yn ddilys fod eu harfer yn yr oesoedd cyntaf, nid yn gyffredinol, ond mewn ambell fan gymuno liw nos. Ond yr ydys yn barnu mai annghenrhaid a'u cymhellodd i wneuthur hyny ar y cyntaf mewn amser erledigaeth, pryd byddai yn beryglus am eu hoedl ymgynull liw dydd. Canys y mae yr hen athrawon, o gylch dau cant o flynyddoedd ar ol dyddiau Crist, yn sicrhau mae yn y boreu y derbynient y cymun.† Ac felly y drefn a barhaodd o hyny allan oddieithr mewn ambell fan o'r Aipht, lle yr arferent i gymuno yn yr hwyr, wedi iddynt fwyta ac yfed eu llonaid:‡ y mae yn debygol fod y "cariad-wleddoedd" yn parhau yma eto, a sonir am danynt gan St. Jude (ad. 12). Yn awr y gariad-wledd hon oedd lawndid o fwyd a diod, a ddygai yr holl gymunwyr (bob un yn ol eu allu) i'r un lle; pryd y byddai pawb yn ddiwahan, tlawd a chyfoethog, yn gwledda yn nghyd cyn derbyn y sacrament; a gwaith rhai yn ymlenwi, ac ereill yn llygadrythu o yma draw heb gael un tamaid, yw yr hyn y mae St. Paul yn ei feio yn y Corinthiaid. (1 Cor. xi. 21.) Ac o achos fod y cyfryw afreolaeth o hyd yn cydganlyn y fath wleddoedd, fe warafunwyd eu cadw yn mhellach mewn cymanfa a gynaliwyd yn Laodicea, yn y flwyddyn 365.

Ond i ddychwelyd. Mewn dinasoedd a threfi yn yr oesoedd cyntaf, a'u calonau hwy eto yn brydio o sel a diolch-

* Apol. 2. p. 27. † Cypr. ad Cæcil. Ep. 63. p. 104. ‡ Vide Socrat. Hist. Eccles. lib. 5. c. 22. p. 287.

13

garwch at yr Arglwydd, y mae yn debygol, fod yno gymun bob dydd mewn rhyw lan neu gilydd. Ie, mewn rhai manau, y gwŷr eglwysig o leiaf (ac ereill hefyd a fyddai odfa a chyfle ganddynt) a dderbynient y cymun bob dydd trwy gydol y flwyddyn. Canys, ebe St. Cyprian, "Yr ydym yn derbyn y cymun bob dydd, megys yr ymborth sydd yn ein meithrin i iechydwriaeth."* Y drefn ganmoladwy hon a barhaodd dros ychwaneg na phedwar cant o flynyddoedd (yn enwedig mewn rhai manau yn mysg y gwŷr llen), canys, cymaint a ellir gasglu oddiwrth rai lleoedd yn ysgrifenadau St. Awstin, esgob Hippo, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 430. Ond yn yr oesoedd canlynol, wedi eu cariad a'u sel laesu (ac ni a wyddom i'r Israeliaid ddiflasu ar y manna), fe gwtogwyd yr amser i wythnos, pymthegnos, ac i bob mis: ac o'r diwedd i dair gwaith y flwyddyn, sef y tair gwyl arbenig, y Nadolig, y Pasg, a'r Sulgwyn.

II. Yr ail beth i ymofyn yw: Y sawl a farnwyd yn gymhwys i dderbyn y cymun. Nid pob un a fyddai ag enw Cristion arno, a dderbynid i fwrdd yr Arglwydd yn y brif eglwys; canys medd un o'r hen deidiau, "Ni pherthyn i bawb fwyta o'r bara hwn, ac yfed o'r cwpan hwn;"† wrth hyn y canlyn, na dderbynid pechaduriaid ysgeler yn yr hen amseroedd, mwy nag y mae eglwys Lloegr eto yn caniatâu eu derbyn: canys, "lle byddo neb yn ddrwg-fucheddol cyhoedd, neu a wnaeth gam i'w gymydog ar air neu ar weithred, y curad wrth gael gwybodaeth o hyny, a'i geilw ef, ac a'i cynghora, na ryfygo efe er dim, ddyfod i fwrdd yr Arglwydd, hyd oni ddadgano efe yn gyhoeddus ei fod yn wir edifeiriol, a darfod iddo wellâu ei ddrwg fuchedd o'r blaen."‡ Yn y brif eglwys, ni dderbynid i fwrdd yr Arglwydd ond hwynthwy, y rhai, 1. A fedyddiwyd yn enw y Drindod. 2. Yn credu holl egwyddorion y grefydd Gristionogol. 3. O fywyd a buchedd ddiargyhoedd. 4. Yn caru eu cyd-Gristionogion. 5. O gymundeb yr eglwys. 6. Wedi derbyn conffirmasiwn, neu fedydd esgob. Ni chyfrifid neb yn llawn Gristion perffaith yn yr hen amser gynt, nes cael conffirmasiwn, trwy osodiad dwylaw yr esgob; megys y gwelwn ni yr apostolion yn danfon Pedr ac Ioan i gonffirmio pobl Samaria, ar ol eu bedyddio gan Phylip; nid oedd gan Phylip mo hono ef

* Cypr. de Orat. Dom. p. 102. † Orig. in Joh. v. 2. p. 345.
‡ Y rubric o flaen y cymun.

ddim awdurdod i wneuthur hyny, oblegid nad oedd efe ond diacon. (Act. viii.)

Os byddai neb o'r ffyddloniaid yn gleifion, neu os byddai rhyw fethiant neu ddamwain yn eu hattal rhag dyfod i'r llan, fe ddanfonid diacon a thamaid o'r bara cysegredig, wedi ei wylchu yn y gwin atynt hwy adref; canys felly y dywed Justin y Merthyr, "Y diaconiaid a roddant y bara a'r gwin i'r rhai presenol, ac a'u dygant adref i'r rhai absenol." Ond nid pawb o'r rhai absenol a gaffent y fath ffafr; canys gorchymynwyd mewn eisteddfod a gynaliwyd blwyddyn yr Arglwydd 314, yn nheyrnas Ffrainc, "Na chai un gwrthgiliwr (neu yr hwn a wadodd y ffydd unwaith) ei dderbyn i gymundeb ar ei glafwely, ond y dylid edrych a fyddai gwellâd bywyd ynddo;" ac yn yr un gymanfa yr ordeiniwyd, "Y dylid attal y neb a ddygai gamdystiolaeth yn erbyn ei gymydog, tra fyddai byw, rhag y cymun."

III. Yn nghylch y modd y derbynid y cymun. Yn gyntaf, y diacon (megys yr oedd hen seremoni ganddynt gynt) a ddygai phiolaid o ddwfr i'r esgob a'i henuriaid, y rhai a safent o bob tu i fwrdd y cymun, i olchi eu dwylaw; i arwyddocâu trwy hyny, y purdeb, a'r glendid calon a ddylai fod yn y rhai hyny sydd yn dynesu at Dduw, megys y dywed y Salmydd, "Golchaf fy nwylaw mewn diniweidrwydd, a'th allor, O Arglwydd, a amgylchynaf."* (Ps. xxvi. 6.) Ar hyny y diacon a waeddai yn grôch, "Cusenwch eich gilydd." Yr arfer hwn o gusanu eu gilydd wrth fwrdd yr Arglwydd, a ddechreuodd yn gynar iawn, sef yn nyddiau yr apostolion. (Rhuf. xvi. 16.) A hyn a wnaethant er tystiolaeth o'u cariad brawdol, megys y dengys ein Hiachawdwr, "Os dygi dy rodd i'r allor, ac yno dyfod i'th gof fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn, gad yno dy rodd ger bron yr allor, a dos ymaith; yn gyntaf, cymoder di (hyny yw, gwna heddwch) a'th frawd, ac yna tyred, ac offrwm dy rodd." (Mat. v. 23, 24.)

Yna y canlynai y weddi gyffredin am dangnefedd ac undeb cyffredinol yn yr eglwys; am lonyddwch a heddwch yn y deyrnas; am ffyniant yr oes hono; am hin dymmherus ac amserau ffrwythlawn; dros bob math o ddynion, ymherawdwyr, breninoedd, a phawb mewn awdurdod a gallu goruchel; dros y llu a'r milwyr; dros y rhai crediniol a'r

* Vide Cave's Prim. Christian. part 1. c. 11. p. 346.

annghrediniol; dros gyfeillion a chydymdeithion; dros y cleifion a'r blinderus; ar air, dros bawb mewn diffyg ac eisiau cymhorth. Y gweddïau cyffredin hyn oeddent yn ran safadwy o addoliad Duw; ac yn ffurf barod o weddi, yr hon sydd i'w chael eto yn ngwaith hen deidiau yr eglwys, ond yn rhy hir ei hadrodd yma.*

Ar ol hyn, yn ngwasanaeth y cymun, y canlynai y cyfarchiad rhwng y gweinidog a'r gynulleidfa. Yr offeiriad a ddywedai, "Yr Arglwydd a fyddo gyda chwi;" a'r bobl a atebai, "A chyda'th ysbryd dithau." Yr offeiriad a ddywedai drachefn, "Dyrchefwch eich calonau;" y bobl a atebai, "Yr ydym yn eu dyrchafael i'r Arglwydd." Yr offeiriad a ddywedai y drydedd waith, "Diolchwn i'n Harglwydd Dduw;" ac atebid ef gan y gynulleidfa, "Y mae yn addas ac yn gyfiawn gwneuthur hyny."† Ac yna, wedi i'r offeiriad gysegru y bara a'r gwin, y dosparthid ef, i'r cymunwyr; y rhai a'i derbynient yn yr un agwedd corff ag y byddent yn gweddïo, naill neu yn eu sefyll, neu ar eu deulin. Ond ni chlybuwyd erioed fod neb o'r hen Gristionogion yn eistedd wrth dderbyn; yr oedd ganddynt fwy o barch at yr Arglwydd nag y deuent i goffâu ei farwolaeth yn y fath agwedd anfoesol. Ond pab Rhufain yn wir, ac hefyd yr Ariaid, y rhai ydynt yn gwadu Duwdod Crist,‡ sydd y naill a'r llall yn rhyfygus yn eistedd.

Rhag i neb wrthddadleu fod ein Hiachawdwr yn eistedd pan ordeiniodd efe y sacrament ar y cyntaf; yr ateb yn fyr yw, mai camsyniad mawr yw hyny. Ein Hiachawdwr a ganlynodd arfer yr Iuddewon yn bwyta'r pasg, y rhai a orweddent ar welyau; byddai tri ar bob gwely yn pwyso ar eu gilydd, megys yr oedd Ioan yn pwyso ar fynwes yr Iesu. (Ioan xiii. 23.) A thri gwely gan mwyaf a fyddai o amgylch y bwrdd.§ Ond gan na roddes ein Hiachawdwr un gorchymyn pennodol yn nghylch hyny, y prif Gristionogion a farnasant yn uniawn mai yr agwedd ostyngeiddiaf a fyddai yr agwedd gymeradwyaf. Ac y mae hanesyddiaeth yn tystio yn eglur eu bod yn derbyn y cymun yn wastadol yn yr un agwedd corff ag y byddent yn gweddïo.

* Apost. Const. lib. 8. c. 10. p. 1011. † Dr. Cave's Prim. Christianity, part 1. c. 11. p. 347. ‡ Heyl. Hist. Presbyt. lib. 6. p. 206. § Goodw. J. Antiq. p. 115.

## PENNOD VII.

### ADDOLIAD DUW AR GYHOEDD YN YR EGLWYSI, A'R DREFN O ADDOLIAD DUW YN EU TEULU GARTREF YN Y BRIF EGLWYS.

NID yw annghymhwys yn y lle cyntaf i siared ychydig am ddyfalwch y prif Gristionogion yn cyrchu i'r addoliad cyhoedd. "Ar y diwrnod hwnw a elwir 'Dydd Sul,'" ebe Justin y Merthyr, "y mae pawb o honom yn y wlad a'r dref yn ymgyfarfod i'r un lle." Nid meithder y ffordd, gerwindeb y tywydd, nac un coeg esgus a'u hattaliai hwy rhag dyfod i addoliad Duw yn yr amser gynt; canys ni chyfrifid mo hono yn ddigon i ddarllen, a gweddïo, a chanu mawl gartref, ac esgeuluso cydymgynull yn nhŷ gweddi; a phan attelid hwy gan glefyd, neu pan ddygwyddai rhyw ddamwain annysgwyliadwy eu cadw gartref, fe fyddai cymaint agos o dristwch a gofid calon am hyny, a phe buasid yn eu deol allan o'r wlad. Os rhyw un claiar a esgeulusai, ac a fyddai ddiofal, efe a ddwys-geryddid, oni fyddai ganddo well rheswm i roddi na bod ei ddillad yn hen, a'r ceffyl yn wan. Fe orchymynwyd mewn cymanfa a gynaliwyd yn y flwyddyn 305, yn yr Yspaen, i attal dros ryw enyd oddiwrth y cymun y sawl a fyddai absenol o'r eglwys dri Sul.*

Yr oedd eglwys Crist o hyd yn cadw dydd yr Arglwydd yn barchedig ac yn grefyddol. "Bydded i bob un," ebe St. Ignatius, "sydd yn caru Iesu Crist, gadw dydd yr Arglwydd yn wyl; yr hwn sydd megys brenin-y diwrnodau ereill. Ar y dydd hwn yr adgyfododd ein Harglwydd, y perffeithiwyd ein hiechydwriaeth, y darostyngwyd angeu, ac a lyncwyd mewn buddugoliaeth." "Dydd yr Arglwydd" y gelwid ef yn wastad gan hen deidiau yr eglwys, ac ambell waith, i gydsynio ag iaith y cyffredin bobl, "Dydd Sul;" yn ddiweddar y tyfodd yr arfer o'i alw y "Dydd Sabboth:" pa le bynag y ceir y gair "Sabboth" yn y Testament Newydd, y mae i ni ddeall wrth hyny yr hen Sabboth Iuddewig, neu ddydd Sadwrn.

Ar ol ymgynull i'r un lle, eu gwaith cyntaf oedd gweddïo, a diweddu eu holl weddïau a gweddi'r Arglwydd. Arfer oedd hon a gynaliwyd o oes bwygilydd yn eglwys Crist, fel yr

* Concil. Illiber. Can. 21.

ymddengys (yn mysg ereill) wrth eiriau St. Cyprian, esgob Caer yn Affrica, yr hwn a ddywed yn y wedd hon: "Crist a roddodd i ni ffurf o weddi, efe a'n rhybuddiodd ac a'n haddysgodd pa fodd i weddïo. Yr hwn a roddodd fywyd i ni, a roddodd hefyd weddi i ni megys y gwrandewid ein gweddïau yn fwy ebrwydd gan y Tad nefol, pan weddïom yn y geiriau a ddysgodd y Mab i ni. Canys pa weddi a all fod yn fwy ysbrydol, na'r hon a gawsom gan Iesu Grist, yr hwn hefyd a roddodd yr Ysbryd Glân i ni? A pha weddi a all dycio mor effeithiol gyda Duw a gweddi ei Fab, y Gwirionedd, yr hon a ddysgodd efe i ni a'i wefusau santaidd ei hun? Bydded i ni gan hyny, frodyr anwyl, weddïo megys yr addysgwyd ni gan ein Prynwr. Duw a gydnebydd eiriau ei Fab; ac yn gymaint a bod genym Gyfryngwr gyda'r Tad i eiriol drosom, arferwn eiriau ein Cyfryngwr. Ac yn gymaint a'i fod ef yn sicrhau, 'mai pa beth bynag a ofynom gan y Tad yn ei enw ef, y rhydd efe i ni;' pa fwy effeithiol y bydd i ni dycio, os nyni a weddïwn yn ei eiriau ei hun."*

Digon yw hyn i brofi fod yr hen Gristionogion yn uniawn ar ol dyddiau yr apostolion yn arfer gweddi'r Arglwydd; a chyn amlyced yw, mai ffurf osodedig oedd eu gweddïau ereill yn addoliad Duw ar gyhoedd; er ei bod yn myned dan amryw enwau yn ngwaith y teidiau; canys gan Ignatius, dysgybl St. Pedr yr apostol, ac esgob Antioch, hi a elwir "yr unrhyw weddi wastadol;"† gan Justin y Merthyr, y "weddi gyffredin;"‡ gan St. Cyprian, y "gweddïau cyhoedd." Ac nid all fod dim sicrach onid ffurf osodedig, neu weddi o lyfr y maent hwy yn feddwl, oblegid fod hysbysiad goleu i'r gymanfa hono a gynaliwyd blwyddyn yr Arglwydd 365 yn Laodicea,§ orchymyn arfer yr unrhyw weddïau yn y boreuol a'r prydnawnol wasanaeth. Gan fod yr eglwys Iuddewig yn nhrefn ei gwasanaeth yn arferyd ffurf o weddi, a bod Crist Iesu ei hun yn cyrchu i'r addoliad cyhoedd, heb yngan erioed air yn erbyn ffurf o weddi, ond yn hytrach o lawer yn dra boddlon-gar i hyny; y prif Gristionogion a farnasant yn uniawn, fod ffurf osodedig yn addoliad Duw ar gyhoedd yn gymeradwy, rhag eu bod yn rhyfygu gwneuthur yn gallach na Christ Iesu ei hun. Ac erbyn hyny, nid yw gweddi hir ddifyfyr yn y gynulleidfa ddim amgen na rhyfyg a dychymyg dyn.

* Cypr. de Orat. Dom. 1, 2. p. 309. † Ignat. Ep. ad Magnes. p. 33. ‡ Apol. 2. § Can. 7.

Ar ol gweddïo y darllenid rhyw gyfran o'r Hen Destament a'r Newydd:* ond pa gymaint a ddarllenid bob tro, sydd gwbl ansicr; oblegid y paganiaid a ruthrent yn fynych am eu penau, yn eu haflonyddu, ac yn gwneuthur iddynt ddystewi yn gynt na phryd. Ond pan welodd Duw fod yn dda i ddyfod a'r rhai mewn awdurdod i droi yn Gristionogion, yna y pennodwyd pa gymaint a fyddai weddus i ddarllen bob pryd; sef dau lith; un o'r Hen, ac arall o'r Testament Newydd.† Ac nid yr Ysgrythyr lân yn unig, ond homiliau a gyfansoddid gan wŷr duwiol, a ddarllenid yn fynych ar gyhoedd hefyd; megys yr epistol a ysgrifenodd St. Clement at y Corinthiaid; ac amryw lyfrau da ereill, y rhai a farnwyd er budd a lles cyffredin i'r gwrandawyr.

Yna y cenid mawl i Dduw, yr hyn a arferid o hyd yn gydwybodol gan y prif Gristionogion yn eu dyledswyddau teuluaidd a chyhoedd er dyddiau yr apostolion. A'r salmau a genid, oeddent naill ai Salmau Dafydd, neu ynte rhyw gyfran o'r Ysgrythyr wedi ei gyfansoddi ar fesur cerdd gan wŷr duwiol a chelfyddgar mewn cerdd-dafod. A'r rhyddid hwnw a ganiatawyd yn aml gynt, nes i'r gymanfa hono a gynaliwyd yn y flwyddyn 365, yn Laodicea, attal y fath ryddid; canys gorchymynwyd yno, "Na fyddai rydd ganu gwaith neb rhyw ŵr prifat ar gyhoedd yn yr Eglwysi."

Yr hyn a ganlynai nesaf oedd y bregeth: ac y mae y rhan fwyaf o'r dysgedigion yn barnu, nad oedd y bregeth ddim ond esponiad ar ryw ran o'r Ysgrythyr a ddarllenasid eisioes; yn nghyd ag annogaethau dwys i wneuthur yn ol y dyledswyddau a orchymynid, ac ymgadw rhag y pechodau a waherddid yno; ac hefyd eglurhad ar ryw egwyddor ffydd a gynwysid yn yr Ysgrythyrau hyny. Ac o hyn y mae, y gelwir y pregethwyr mewn hen ysgrifeniadau, "y traethwyr;" oblegid eu bod yn traethu ar y lleoedd hyny o'r Ysgrythyr a ddarllenasid ychydig o'r blaen.

Wedi gorphen y bregeth, y diacon a rybuddiai bawb fyned i weddïo. Y weddi hon a elwid, "Gweddi ddirgel y gynulleidfa;" canys, pob un o'r neilldu a weddiai wrtho ei hun yn ddystaw ac yn ddisoniarus. Ac o'r diwedd, wedi i bawb o'r gynulleidfa orphen, yr offeiriad a weddïai ar gyhoedd ac yn soniarus; ac a fyddai megys yn crynhöi eu holl erfyniadau

* Just. Mart. Apol. 2. p. 98. † Con. Apost. lib. 2. c. 57. p. 875.

mewn un weddi. A hyn yw dechreuol ystyr y gair hwnw "Colect," neu yn Gymraeg, "Crynhoad;" am fod y gweinidog yn crynhöi holl sylwedd gweddi ddystaw pob un o'r gynulleidfa mewn un colect.*

Gwaith hawdd i brofi yw, nad oedd yr hen Gristionogion yn gweddïo dim at seintiau ac angylion. Mi a osodaf yma farn eglwys Smyrna yn nghylch hyn o beth. "Yr ydym yn addoli Crist megys Mab Duw, ac y mae genym barch i goffadwriaeth y merthyron, megys dysgyblion ein Harglwydd, ac megys rhai a ddangosasant gariad anorfod tuag ato. Ac yn hyny yr ydym yn ewyllysio bod yn ganlynwyr iddynt."† Ac hen Irenæus yr hwn a ysgrifenodd o gylch y flwyddyn 180, a ddywed, "Y mae yn chwith gan eglwys Dduw weddïo at angylion a gwneuthur deunydd o swynion, na dim cywreinrwydd drwg arall; ond mewn modd pur, dilwgr, a didramgwydd, hi a wna ei herfyniad at y Creawdwr mawr yn enw'r Arglwydd Iesu Grist."‡ Ymadroddion yw y rhai hyn, cytûn a'r Ysgrythyr; ac mor nerthol yn erbyn pabyddiaeth, fel nad yw bosibl rhoddi dim ateb iddynt. "Un Duw sydd, ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu."

Dywedir fod yr hen bobl cyn y diluw yn troi eu hwynebau tua'r dwyrain wrth weddïo; a pharhau o'r ddefod hon o oes bwygilydd nes iddynt o'r diwedd ymlygru, ac addoli'r haul yn codi yn y dwyrain. Fel hyn y buont yn edrych tua'r dwyrain hyd yn amser Solomon, pryd y gosodwyd yr arch yn ystlys orllewinol y deml; ac o hyny allan yr Iuddewon a olygent tua'r gorllewin wrth weddïo. Ond y Cristionogion, i gadw cyn belled ag oedd bosibl oddiwrth ddefodau yr Iuddewon, a droisant eu hwynebau tua'r dwyrain.§ Ond boed hyny fel y myno, arfer gyffredin gan yr hen Gristionogion wrth weddïo, oedd edrych tua'r dwyrain; megys y mae yn amlwg oddiwrth dystiolaethau Justin y Merthyr, St. Clement o Alecsandria, a St. Basil, gwŷr enwog oll, ac yn byw yn gynar iawn yn mebyd yr eglwys Gristionogol.

Arfer gyffredinol arall oedd sefyll wrth ddarllen yr efengyl; a hyny a arferwyd yn wastadol gan y prif Gristionogion yn mhob parth o gred er amser yr apostolion. Pan yw Sozomen yn crybwyll am y defodau a gynelid mewn amryw eglwysi, y mae efe yn synu ac yn rhyfeddu yn nghylch digywilydd-dra

* Vide Orig. Brit. c. 4. p. 224. † Euseb. Hist. Eccles. lib. 4. c. 15.
‡ Gren. lib. 2. c. 57. § Warren's Impart. Churchman. c. 8. p. 165.

esgob Alecsandria, yr hwn a ryfygai eistedd wrth ddarllen yr efengyl. "Yn wir," ebe'r hanesydd, "ni welais i y fath beth erioed o'r blaen, ac ni chlywais i chwaith am un arall a ryfygodd fod mor anfoesol."* Ac y mae hen ysgrifenydd arall yn adrodd am Theophilus, esgob o India, iddo (yn mysg pethau gŵyrgeimion ereill a ddiwygiodd efe yno) adferu yr hen ddysgyblaeth ganmoladwy, i sefyll wrth ddarllen yr efengyl.†

Soniwn weithian ryw ychydig yn nghylch eu trefn yn cwblhau dyledswyddau teuluaidd yn y brif eglwys. Cyn gynted ag y codent o'u gwelyau yn y boreu, meistr y tŷ a alwai bawb o'i deulu i fyned i weddi, yr hyn a gwblhëid gan y pen-teulu ei hun, oddieithr fod yno wr eglwysig yn bresenol. Ac y mae yn debygol eu bod yn adrodd y gredo, neu gyffes o'u ffydd y pryd hwnw, modd y gwnaent broffes eu bod yn Gristionogion iawn-gred; ac megys y llwyr-addysgent eu plant a'u gweision yn holl brif bynciau crefydd. Ac y mae yn ddilys eu bod yn darllen rhyw gyfran o'r Ysgrythyr hefyd, megys y cynghora yr apostol, "Preswylied gair Crist ynoch yn helaeth yn mhob doethineb." (Col. iii. 16.)

Yn nghylch haner dydd, cyn myned i giniaw, darllenid rhyw gyfran o'r Ysgrythyr, neu ran o homili; ac wedi gosod y bwyd ar y bwrdd, erfynid bendith arno, gan mwyaf, yn y geiriau hyn: "Tydi yr hwn wyt yn rhoddi ymborth i bob creadur, caniatâ i ni dderbyn yr ymborth presenol gyda'th fendith di. Ti Arglwydd a ddywedaist, 'Os yfwn ddim marwol, ni wna i ni ddim niwed,' os gan gredu, y credwn ynot ti; bwrw di ymaith gan hyny, yr hwn wyt Arglwydd y gallu a'r gogoniant, bob anian ac ansawdd afiach a dinystriol oddiwrth ein hymborth, a pha ddylanwad niweidiol bynag a all weithio ynom."‡ Wrth fwyta, cymerent ryw ychydig seibiant i ganu hymnau ac odlau o fawl a diolchgarwch; yr hyn y mae Ioan Aur-enau yn ei ganmol yn fawr; ac yn annog y gwŷr i ddysgu pennillion duwiol i'w tylwyth, gogyfer a'u canu wrth eu gorchwylion cyffredin, ond yn anad un pryd wrth fwyta, gan fod y cyfryw ganiadau yn gyfaredd hynod rhag profedigaeth a chynllwyn diafol: "Canys," eb efe, "megys nad yw Satan un amser yn barotach i'n dal yn ei fagl na phan y byddom yn bwyta, naill ai trwy annghymedroldeb, neu trwy ofer ymsiared; felly ni a ddylem arfogi yn ei erbyn, trwy ganu a phyncio

* Hist. Eccles. lib. 7. c. 19. † Philostorg. Hist. Eccles. lib. 3. p. 29. ‡ Orig. in Joh, lib. 2. p. 36.

yn ein calonau i'r Arglwydd."* Gwelwn mor ofalus oedd yr hen Gristionogion rhag newynu yr enaid, tra fyddent yn pesgi'r corff.

Yn yr hwyr gelwid yr holl deulu y drydedd waith i weddi, cyn myned i orphwys. Ac ar haner nos, yr offeiriaid a'r gwŷr llen a gyfodent eto i ganu mawl i Dduw.† Y mae yn debygol mai yn amser erledigaeth y cynaliwyd y drefn hon gyntaf, pan na byddai ddiberygl bywyd wneyd hyny ar gyhoedd liw dydd. Ac yno, megys na fernid fod eu sel wedi oeri, yr oedd bagad yn cynal yr un drefn, ar ol i'r eglwys gael llonyddwch oddiwrth erlidwyr.

"Gan ein bod," ebe'r apostol, "yn derbyn teyrnas ddisigl, bydded genym ras, trwy yr hwn y gwasaethom Dduw wrth ei fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn." (Heb. xii. 28.) A'r rheol hon, trwy ras, a ddilynodd yr hen Gristionogion gyda'r fath ddyfalwch, megys nad oeddent ond pererinon yn wir ddiau yn y byd hwn, ond eu serch oedd ar bethau uchod, a'u hymarweddiad yn y nef. Eu tai gartref gan grefftwyr, a'r meusydd allan gan yr hwsmyn, a fyddent yn dadseinio gan bennillion, ac odlau, a chaniadau duwiol.‡ Fe ddywedir am Iago, a gyfenwir y Cyfiawn, ei fod ef cyn fynyched yn gweddïo, yn gymaint a chaledu ei ddeulin megys careg. Custenyn Fawr yntef, er ei fod yn ben ymherawdwr byd, a chymaint o ofal teyrnasoedd yn gorwedd arno, eto bob dydd yn ei amser arferedig, a ei ar encil i'r ystafell i weddïo, bydded pa faterion bynag yn y llys: ac i ddangos i'r byd pa faint o hyfrydwch oedd ganddo yn cyflawni y ddyledswydd santaidd hono, efe a barodd osod ei ddelw ar ei fath o aur ac arian, mewn dull ac agwedd gwr ar ei ddeulin, a'i freichiau ar led, a'i olygon tua'r nef.§ Nid archwaethai Theodosius, ymherawdwr da arall, gymaint a ffigysen nes rhoddi diolch i Dduw.|| Dywedir hefyd am dano, ei fod ef yn codi bob boreu, gyda'r wawrddydd, i ganu salmau yn nghyd a'i chwiorydd; a'i fod ef mor fedrus a chyfarwydd yn yr Ysgrythyr ag un esgob o fewn ei deyrnas. Dyma fel yr oedd calonau yr hen Gristionogion gynt, boneddig a gwreng, yn brydio o sel at wasanaeth Duw, gan wybod mai gan yr Arglwydd y derbynient "daledigaeth yr etifeddiaeth." (Col. iii. 24.)

* Chrys. in Ps. 41. p. 147. † Clem. Alex. Pædag. lib. 2. c. 9. p. 185. ‡ Cave's Prim. Christianity, part. 1. c. 9. § Euseb. Vit. Constant. lib. 4. c. 22. || Socr. Hist. Eccles. lib. 1. p. 2. & lib. 7. c. 22.

## PENNOD VIII.

PA GYFRYW LANOEDD, NEU EGLWYSI, OEDD GAN Y PRIF GRISTIONOGION. Y GORUWCH-YSTAFELLOEDD. AMRYW YSTYR Y GAIR "EGLWYS" YN Y TESTAMENT NEWYDD. Y TRI DOSBARTH YN YR EGLWYSI GYNT. SCISM I BREGETHU ALLAN O'R EGLWYSI. YN NGHYLCH CLYCH.

MEGYS nad yw bosibl i gyflawni un math o weithred heb ryw le gosodedig, perthynasol a chymhwys i'r gwaith, modd y gallo pob peth fod yn iawn ac yn drefnus: felly y mae lle gosodedig yn gwbl annghenreidiol i gynal gwasanaeth Duw ynddo, modd y gallo Cristionogion ymgynull i addoli mawrhydi anfeidrol Arglwydd nef a daear. Ac yn wir, lle i'r dyben gogoneddus hwn, sef i gynal addoliad y Duw mawr ynddo, a weddai'n ddilys ddigon fod mor dlws ag a fedro synwyr dyn amgyffred. Pan oedd y brenin Dafydd yn dysgu ei fab Solomon yn nghylch y modd yr adeiladai efe y deml, y mae efe yn gorchymyn ar ei bod "mewn mawredd, mewn rhagoriaeth, mewn enw, ac mewn gogoniant, trwy yr holl wledydd." (1 Cron. xxii. 5.) A'r rheswm y mae efe yn roddi am hyny, sydd dra rhagorol yn gystal a chyfiawn ; canys eb efe, "nid i ddyn y mae'r llys, ond i'r Arglwydd Dduw."

Dyma'r lle y dangosodd Crist Iesu ei sel gymaint drosto, megys ag iddo ef, yr hwn ydoedd addfwynder ei hun, eto yma, " wneuthur fflangell o fân reffynau i yru'r prynwyr a'r gwerthwyr allan." (Ioan ii. 15.) Dyma'r lle na "adawai efe neb i ddwyn llestr trwyddo." (Marc xi. 16.) A dyma'r lle y dechreuodd yr apostolion ar ol adgyfodiad Crist ymgyfarfod ynddo, canys "yr oeddent yn wastadol yn y deml yn moli ac yn bendithio Duw." (Luc xxiv. 53.) Pan yw St. Luc yn dywedyd i'r apostolion, ar ol esgyniad Crist i'r nef, fyned i oruwch-ystafell (Act. i. 13), y mae i ni ddeall wrth hyny, un o oruwch-ystafelloedd y deml:* canys yr oedd yno amryw ystafelloedd, un oddiar y llall. (1 Bren. vi. 6.) A phryd na chaffent odfa a chyfle i fyned odditanodd, lle y byddai yr Iuddewon yn cynal gwasanaeth Duw, yna hwy a esgynent i un o'r goruwch-ystafelloedd, a fyddai o hyd (liw dydd, o leiaf) yn agored. A phan yw St. Luc mewn man arall yn dywedyd, "A hwy beunydd yn parhau yn gytûn yn y deml, ac yn tori

* Vide Hammond in loc.

bara o dŷ i dŷ" (Act. ii. 46), y gwir ystyr priodol yw hyn, wedi darfod o'r apostolion gyflawni eu defosiynau arferol yn y deml, hwy a ddychwelent i dderbyn y sacrament gartref (megys y mae yr esponiad ar frig y ddalen), hyny yw, i un o oruchel-ystafelloedd y deml.

Dyma fel y gwnai'r apostolion tra y buont yn efengylu yn Jerusalem, a hyny oedd o gylch deng mlynedd: ac yma, cyn myned yn y blaen i ddangos pa gyfryw lanoedd oedd ganddynt yn yr oesoedd canlynol, nid yw annghymhwys i siared ychydig yn nghylch yr amryw a'r gwahanol ystyriaethau y gymerir y gair "Eglwys" yn y Testament Newydd. 1. *Eglwys* a gymerir am ryw nifer o ddynion, ai da, ai drwg, credadwy, ai annghredadwy fyddont. Felly Act. xix. 41. Ofer ddynion Ephesus, y rhai a wnaethant derfysg yn y ddinas, y crefftwyr a'r gwneuthurwyr delwau a elwir "yr eglwys." Yn ol ein cyfieithiad ni y mae fel hyn, "Efe a ollyngodd y gynulleidfa ymaith;" ond pe buasid yn Cymreigio y gair Groeg,* y cyfieithiad a fuasai, "Efe a ollyngodd yr *eglwys* ymaith." A'r eglwys hono oedd ddihirwyr Ephesus. 2. *Eglwys* a gymerir am Gristionogion yn proffesu ffydd yn Nghrist. Felly Col. iv. 15, "Nymphas a'r *eglwys* sydd yn ei dŷ ef;" a Rhuf. xvi. 5, "Anerchwch yr *eglwys* sydd yn eu tŷ hwy:" a'r ystyr yw, y teulu yn proffesu ffydd yn Nghrist. 3. *Eglwys* a gymerir hefyd am y lle y byddai'r Cristionogion yn cyfarfod ynddo; megys 1 Cor. xi. 22, "Onid oes genych dai i fwyta ac i yfed? ai dirmygu yr ydych chwi *eglwys* Dduw?" Y mae yr apostol yma yn gosod gwahaniaeth rhwng yr eglwys, neu y lle y cynelid gwasanaeth Duw ynddo a'u tai annedd. Os cynal gwleddoedd annghymedrol a wnaent, ac ymlenwi yn eu cariadwleddoedd, yr oedd ganddynt dai gartref; lle ag oedd lawer gweddeiddiach nag yn yr Eglwys a gysegrwyd at wasanaeth Duw.

Yn yr un ystyr y cymerir y gair "Eglwys" yn fynych yn ysgrifeniadau hen athrawon. Y mae Clement o Alecsandria yn cynghori "gwragedd i fyned i mewn i'r eglwys gyda phob lledneisrwydd a gostyngeiddrwydd calon ag oedd bosibl." Ac offeiriaid Rhufain yn ysgrifenu at St. Cyprian yn nghylch y drefn i dderbyn i gymundeb y rhai a syrthiasant oddiwrth y ffydd mewn amser erledigaeth, sydd yn dywedyd (yn mysg

* Ἀπέλυσεν τὴν ἐκκλησίαν.

pethau ereill) "ar iddynt ddyfod i borth yr *eglwys*, ac nid dim pellach."*

Yn amser erledigaeth yn wir pan oeddid yn llarpio, yn llosgi, ac yn dinystrio eu cyrff, a'u llyfrau, a'u llanoedd, (megys y dygwyddodd y fath amserau gwaedlyd lawer pryd yn mhob parth o gred yn y tair oes gyntaf) yna ymgyfarfod a wnaethant lle y gallent; mewn ogofau, mewn cilfachau, ac mewn pob rhyw le dirgel allan o olwg eu gelynion. Ond pa bryd bynag y byddai y llywodraeth yn llariaidd, ac yn eu ffafrio ryw ychydig, ac yn gadael rhyddid iddynt, yna eu heglwysi oeddent dlws ac hardd-deg, a chwedi eu neillduo yn wastad oddiwrth bob gwasanaeth cyffredin; ac yn nesaf at gadw calon lân oddimewn, eu gofal a fyddai cadw eu llanoedd yn lân, yn weddaidd, ac yn ddillyn. Nid oeddid yn claddu neb yn yr eglwysi yn yr hen amseroedd; hyny a gyfrifid yn yn ffieidd-dra gynt. Yr oedd hi mor diweddar ag wyth cant o flynyddoedd o oedran Crist cyn iddynt ddechreu claddu eu meirw mewn un rhan neu gongl o drefi neu ddinasoedd.† Ac yn mhell ar ol hyny y dechreuodd yr arfer gas o gladdu yn yr eglwysi.

Fel hyn y mae'n eglur fod gan y Cristionogion eglwysi wedi eu neillduo a'u cysegru at gynal gwasanaeth Duw er yr amser y galwyd hwy gyntaf ar yr enw hwnw. Y peth nesaf i ystyried yw, pa fath rai oeddent. Ar ol bod y llywodraeth oruchel wedi derbyn y grefydd Gristionogol, y llanoedd a adeiladid gan mwyaf ar fryn go uchel, neu le amlwg o'r hyn lleiaf; i arwyddocâu (y mae yn debygol wrth hyny) yr egwyddor nefol yn dyrchafu eu calonau goruwch y byd hwn. Fe adeiladid eu llanoedd fel y byddai'r naill dalcen gyfeirio yn union-gyrch at y dwyrain, yr hyn a wnaethpwyd yn gynar iawn, fel yr ymddengys wrth dystiolaeth Tertulian, yr hwn a ysgrifenodd o gylch y flwyddyn 190, "Y mae tŷ ein crefydd diniwed," eb efe, "wedi ei adeiladu ar dwyn, ac yn ngwydd pawb; ac a gyfeirir at y goleuni megys dull yr Ysbryd Glan; ac at y dwyrain megys y lle sy'n arwyddocâu Crist."‡

Yn yr eglwysi gynt yr oedd tri dosparth, y rhai a bennodid at amryw fath o wrandawyr: y dosparth cyntaf oedd y rhan flaenaf o'r eglwys wrth fyned i mewn iddi; lle y byddai y tu isaf, islaw y drws, y cateceiswyr, neu blant rhieni annghred-

* Adeant ad limen ecclesiæ, ap Cypr. Ep. 31. p. 7. † Spelm. Concil. Brit. p. 11. ‡ Tertul. advers. Valentin. p. 251.

iniol, y rhai a addysgid yn mhrif bynciau y grefydd Gristionogol, modd y baent yn gymhwys i'w bedyddio; yma hefyd yr oedd y bedydd-faen; yn yr un dosparth ychydig uwch i fyny y byddai math o wrandawyr a fernid yn annghymhwys i dderbyn y cymun, ond eto heb fod mor ddrwg fucheddol, ag yr haeddent eu hesgymuno. Yr ail dosparth oedd canol yr eglwys, ac yno yr oedd y ffyddloniaid yn eistedd; y gwrrywiaid o'r naill du, a'r benywaid o'r tu arall, canys ni chaniatawyd iddynt yn yr hen amseroedd gynt eistedd yn nghyd blith-draphlith: ac yn y rhan yma o'r eglwys yr oedd y gadair-ymadrodd, neu y pulput. Y trydydd dosparth oedd y ganghell, lle nid oedd rydd i neb ddyfod ond y gwŷr llen, ac ymherawdwr Groeg unwaith yn y flwyddyn, mae'n debygol ar ddydd Pasg. Y tu uchaf i fwrdd y cymun, neu'r allor, y byddai trwn, neu orsedd yr esgob; ac is lawr yn ddwy restr, eisteddleodd yr henuriaid, ond nid oedd rydd i un diacon eistedd yno.*

Yn yr amser dedwydd gynt, pryd oedd iawn a dyledus drefn mewn llys a llan, ni chaniatawyd i neb ymneillduo o'r eglwys, a chynal cyfarfodydd gwahanol, ac i bregethu mewn teios. Ac os rhyw un tybgar a ryfygai droseddu, efe a gondemnid allan o law, megys y barnai cymanfa o esgobion yn gymhwys. Felly y mae y bummed ganon, a wnaeth y gymanfa hono yn Antioch yn y flwyddyn 341, yn orchymyn fel y canlyn: "Os offeiriad, o ddiystyr ar yr esgob, a ymneilldua, ac a gynal gyfarfodydd gwahanol, gan osod i fyny allor yn erbyn allor" (yr ystyr yw, cynal cyfarfodydd annghyfreithlawn ar neilldu), "bydded iddo gael ei ddiswyddo o'i weinidogaeth, megys gwr chwannog i swydd-ymgais a rhyfyg; ac esgymuner ei ganlynwyr, gan eu bod yn derfysgus, ac yn euog o scism neu ymraniad. Ond na wneler hyny, hyd oni rybuddir hwy dair gwaith."†

Rhag i neb dybied nad oedd hyn ond bygythiad yn unig, mi a ychwanegaf yma esiampl yn nghylch y modd y triniwyd gwr a droseddodd y rheol hon. Dygwyddodd i wr a elwid Eustathius, esgob Sebastia (o gylch yr un amser ag y cynaliwyd y gymanfa uchod) droseddu dysgyblaeth yr eglwys trwy ei waith gyntaf yn cynal cyfarfodydd gwahanol mewn teios; yna trwy feio a diystyru yr offeiriaid a fyddent yn wŷr priod;

* Vide Cave's Prim. Christian. part 1. c. 6. p. 138. † Const. Apost. Can. 3. and Concil. Antioch. Can. 5.

trwy daeru, na chai un gwr goludog feddiannu teyrnas nef, mai dydd yr Arglwydd oedd y diwrnod cymhwysaf i ymprydio; gyda llawer o bethau ereill, llwyr wrthwyneb i farn yr eglwys gatholic. Ond cyn gynted ag y daeth y chwedl o'r fath annhrefn i glustiau'r esgobion union-gred, ymgyfarfod a wnaethant yn mhrif ddinas Paphalagonia a elwid Gangra, lle yr esgymunwyd Eustathius a'i ganlynwyr; a'r ddau ganon a ganlyn a wnaethpwyd yn eu herbyn, er cadw'r eglwys mewn tangnefedd ac undeb rhagllaw. "1. Pwy bynag a ddywedo yn ddirmygus am dŷ Dduw, bydded yn anathema. 2. Pwy bynag a ryfygo bregethu allan o'r eglwysi yn ddirgel mewn teios; a chan ddiystyru'r eglwys, a wna yno y cyfryw bethau a ddylid eu gwneuthur yn yr eglwys yn unig, bydded yn anathema." Y mae yn eglur oddiyma, fod yr hen Gristionogion yn glynu yn ddiysgog wrth y rheol a esyd yr apostol, "Na'ch arweinier oddiamgylch ag athrawiaethau amryw a dyeithr." (Heb. xiii. 9.)

Y gorchwyl hawsaf yn y byd yw profi nad oedd yr hen Gristionogion yn rhoddi dim parch chwaethach un math o addoliad crefyddol i ddelwau. Yr oedd ganddynt hwy y fath wrthwynebrwydd atynt fel na chaniatëid eu gosod er harddwch yn y llanoedd, megys yr ymddengys oddiwrth hanes nodedig y mae gwr eglwysig a elwid Epiphanius yn adrodd fel y canlyn: "Pan ddaethum," eb efe, "ar fy ymdaith i bentref a elwid Anablatha, yn Mhalestina, mi a droais i mewn i'r eglwys yno i weddio. Ar hyny, mi a welwn liain wedi ei grogi uwch ben y drws a llun Crist, neu ryw sant, wedi ei baentio arno. Yr hyn pan ystyriais, fod y cyfryw ffieidd-dra yn llwyr wrthwyneb i'r Ysgrythyr lân, myfi a ymeflais ynddo, ac a'i rhwygais; ac a gynghorais y gwŷr eglwysig yno ar ei roddi ef yn hytrach i wneuthur amdo i ryw ddyn tlawd, na'i osod a lluniau arno yn yr eglwysi."* Hyn a ysgrifenwyd yn nghylch y flwyddyn o oedran Crist 390, at y gwir barchedig Ioan, esgob Caersalem, yn esgobaeth yr hwn y gwnaethpwyd y peth. Ac nid barn unigol rhyw wr neillduol oedd hwn; ond gwarharddwyd gosod delwau yn yr eglwysi yn y pedair oes gyntaf yn mhob man o gred; megys y dengys barn y gymanfa hono a gynaliwyd yn y flwyddyn 305, yn yr Yspaen, lle y "gwarafunwyd osod delwau yn yr eglwysi, ac i baentio

* Hieron. tom. 2. p. 161.

gwrthrych eu haddoliad ar y mur."* Geiriau mor ddwys yn erbyn parchu delwau, fel nad all un papist ystrywgar roddi ateb iddynt!

A oedd clych yn yr eglwysi yn yr oesoedd cyntaf, sydd fater yn gorwedd yn y tywyll. Ond pa bryd bynag y gosodwyd, y maent yn dra pherthynasol i'r dyben; ac nid yw ddim llai na chysegr-ledrad yn neb i fyned a hwy ymaith, megys y tystia yr hanes gwirioneddol a ganlyn:—Dr. Arthur Bulkley a gysegrwyd yn esgob Bangor yr ugeinfed dydd o Ragfyr, 1541. Y gwr hwn a drachwantodd i werthu pum cloch o'i eglwys gaderiawl Bangor, ac a aeth yn heinif i lan y môr i weled eu gosod yn y llong i fyned a hwy trosodd. Ond prin yr aeth efe dri cham ar ei ffordd adref, ond ei lygaid a ddallodd yn ddisymwth, ac ni welodd efe olwg mwyach tra fu efe byw.†

Y mae y cronicl hefyd yn mynegi, pan oedd Edgar brenin y Saeson yn y flwyddyn 975, yn ymladd a gwŷr Morganwg, iddo, yn mysg ei holl gyflafan a'i gysegr-ledrad, yspeilio cloch Llanilltud, a'i dwyn hi ymaith, yn mysg ereill o'i ledrad a'i ysglyfaeth. Y diwrnod nesaf, megys yr oedd y brenin yn gorphwys ar ei wely, fe a dybiai fod rhyw un yn ei wanu a gwaewffon; yna, wedi brawychu a deffro ei gydwybod, efe a barodd ddanfon yn ol y gloch, a phob cysegr-ledrad arall; ond er hyny efe a fu farw mewn modd echrydus yn mhen naw diwrnod.‡

I ddiweddu hyn o hanes yn nghylch eglwysi; er cynted ag y darfu i freninoedd ac ymherawdwyr arddel y grefydd Gristionogol, a bod yn ol y brophwydoliaeth, yn dadmaethdod ac yn ymgeleddwyr tirion iddi (Esay xlix. 23), ni thybiasant unrhyw draul yn ormod tuag at harddu yr eglwysi mal y byddai pob peth yn dlws, yn lan, ac yn syber o'u mewn. Y mae genym hanes rhyfeddol yn nghylch pa fodd y goddiweddodd barn Duw ddau bendefig rhyfygus a elwid Julian a Felix ar eu gwaith yn halogi, ac ar fedr yspeilio hefyd yr eglwys fawr a godidog yn Antioch yn y flwyddyn 362.§ Julian a aeth yn uniawn at yr allor, ac o'i ddirmyg a bisodd yn ei herbyn, gan ddywedyd, nad oedd Duw yn sylwi ar y fath ddirmyg bach a hwnw. Felix o honaw yntau, ei gydymaith, wrth edrych ar y llestri aur ac arian a gwisgoedd yr offeiriad, "Wele,"

* Concil. Illib. Can. 36. † Goodwin's Catalogue of Bishops, p. 540.
‡ Spelman's History of Sacrilege, p. 110. § Ibid. p. 85.

eb efe, "gymaint o rialltwch sy'n attendo ar Fab Mair." Ond ystyried pawb yn bwyllig fel y goddiweddodd barnedigaeth Duw hwy am eu cabl a'u cysegr-ledrad. Pydrodd ymysgaroedd Julian o'i fewn; ac, a'i dom a'i drwnc yn cerdded allan trwy ei safn, efe a fu farw yn ebrwydd, yn druenus ac yn ofnadwy. Felix yntau a oddefodd yn y man bwys y llaw ag oedd efe yn ei chablu; canys yr oedd ei waed yn ffrydio yn bistyll trwy ei safn a'i ffroenau, a hyny yn ddiorphwys, nes iddo drengu. Dwy esiampl hynod (ac yn rhybudd i ereill) o farn Duw ar yspeilwyr eglwysi a chablwyr.

---

## PENNOD IX.

RHINWEDDAU Y PRIF GRISTIONOGION YN GYFFREDINOL, SEF YW HYNY, EU GOSTYNGEIDDRWYDD, EU DIWEIRDEB, A'U HAMYNEDD YN DYODDEF. YR AMRYW FODD YR OEDDID YN EU RHODDI I FARWOLAETH. EU HUFUDD-DOD I'R AWDURDODAU GORUCHEL.

Y RHINWEDDAU a ganlynant ynt y tlysau godidog a wnaethant fuchedd y prif Gristionogion yn hardd ac yn ddysclaer, megys "afalau aur mewn gwaith arian cerfiedig." (Diar. xxv. 11.) Ac yma dechreuaf ar y gras nefol hwnw, eu gostyngeiddrwydd; canys y mae ein Harglwydd ei hun yn dechreu ei bregeth a'r gras anhebgor hwn, ac yn ei osod megys y cam cyntaf o fywyd crefyddol; "Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd, canys eiddynt yw teyrnas nefoedd." (Mat. v. 3.) A thrachefn, "Dysgwch genyf, canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon, a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau." (Mat. xi. 29.)

Dau nod arbenig i adnabod yr hen Gristionogion wrtho, oedd, 1. Eu hymarweddiad sobr ac arafaidd. 2. Gweddeidddra yn eu trwsiad. A phe chwilid eu llyfrau, y maent yn siared yn erbyn balchder a dillad gwychion fel y canlyn: "I ba beth y cyffelybaf," ebe Clement o Alecsandria, "wr coegfalch, neu ddyn a fyddai'n gwisgo dillad gwychion o lawnt, a sidan, a phorphor, ac eto heb ras yn ei galon? Nid allaf ei gyffelybu ef i ddim cymhwysach nag i demlau'r Aipht. Os edrych un ar eu gwedd oddiallan, efe a'u gwel hwy yn gynifer adeiliad harddwych; ond eled i mewn, ac ymofyned i ba ddy-

ben yr adeiladwyd y deml hon ar y cyntaf?—I ba ddyben y mae'r holl feini gwerthfawr sy'n llewyrchu megys cynifer seren?—I ba ddyben y mae'r holl golofnau uchel, y pyst wedi eu goreuro, a'r gwychder hyn oll?—Fe ddywedir, I gynwys gwrthddrych eu haddoliad; a pha beth yw hyny, ond cath, neu sarff, neu lyffant; felly yr holl adeilad godidog hwn a wnaethpwyd i gynwys rhyw ymlusgiad, neu fwystfil hagr; canys y cyfryw rai oedd duwiau'r Aiphtiaid. Yr un ffunud," eb efe, "os edrychi ar wr coeg-falch; y mae oddiallan wedi ei harddu yn dra godidog, yn dysgleirio mewn gwychder dillad, rhidens aur, a meini gwerthfawr; ond bwrw olwg oddifewn iddo, ac yno ti a weli galon ddrwg bechadurus, ac anwydau afreolus, yn nghyd a phob aflendid a brynti."*

Y mae Theodoret yn adrodd hanes nodedig at hyn o berwyl, fel y canlyn:—"Fy mam," eb efe, "a flinwyd yn ei hieuenctyd a llygaid tostion; a phan nad allai hi gael dim llesâd gan y meddygon, hi aeth at wr duwiol a elwid Pedr, i ddeisyf ei weddi at Dduw drosti. Ond, megys y byddai (mal y tybiodd) yn fwy cymeradwy yn ngwydd y gwr duwiol, hi a irodd ei hwyneb ag olew, a gosododd dlysau aur wrth ei chlystiau, ac a ymdrwsiodd yn binc ac yn hoew dros ben: ond er cynted y canfu Pedr hi mor fflawnt, cafodd wybod yn ebrwydd yn nghylch gwagedd ei gwisgiad. 'Ha ferch,' eb efe, 'tybia i ryw grefftwr cywrain wneuthur delw yn gelfyddgar dros ben, ac yna i ryw fwngler trwsgl ddyfod heibio a rhyfygu gwellâu gwaith y crefftwr cynil. A fyddai efe foddlon i'w waith gael y cyfryw driniad gan fwngler? Na fyddai ddim. Yr un ffunud,' eb efe, 'oni fydd yr Hollalluog yn anfoddlon wrth y sawl a ryfygo wellâu ar ei waith ef? A pheth amgen, yw dy waith di, yr eneth, yn plethu dy wallt, yn lliwio dy wyneb, ac yn ymbincio mor syw, ond rhyfygu gwellâu ar waith Duw! Ond gwybydd, yr eneth, y geilw Duw di i farn am hyn oll.' Ac yna y bendefiges a gydnabu ei ffolineb, ac a dystiodd ei hedifeirwch am hyny; yna Pedr a weddïodd, a hi a gafodd ymwared o'i gwendid."†

Y dymmher nefol hon, sef ysbryd gostyngedig ac addfwyn, a wnaeth i'r prif Gristionogion ddiystyru rhialltwch, a gwagedd y byd, a phethau afreidiol. "A dyr cyllell ddim," medd hen athraw, "oni fydd manyl-waith ar y carn? A gynal

* Clem. Alex. Pædag. lib. 3. c. 2. † Theod. in Vit. Petri. c. 6. p. 343.

bwrdd ddim o'n hymborth, oni bydd lliain main plygedig arno? A oleu canwyll ddim, oni bydd y canwyllbren wedi oreuro? Ein Harglwydd a fwytaodd o ddysgl gyffredin, ac a wnaeth i'r dorf eistedd ar y glaswellt, ac a olchodd draed y dysgyblion, heb alw am gawg aur o'r nefoedd. Efe a gymerth ddwfr gan y wraig o Samaria mewn dwfr-lestr pridd, heb ymofyn am un o aur."*

"Nyni," ebe'r paganiaid wrth y Cristionogion, "ydym yn cymeryd byd da yn helaethwych beunydd; yr ydym yn llawen ac yn ddifyr, megys y gweddai i ddynion fod; ond chwychwi, y Cristionogion, ydych bobl feddylgar, ac yn ymgadw oddiwrth ein chwareuon cyhoedd, a'n gwleddoedd anrhydeddus." Ond y Cristionogion sy'n ateb, "Gwir iawn nad ydym ni ddim yn dyfod i'ch chwareuon, canys ni a ddysgasom well pethau. Pa beth yw eich chwareuon, ond ysgol y cythraul, ac hudolawl gelfyddyd i annog i bob aflendid a brynti? Yr ydym ni yn meddwl am ein hadduned-fedydd, pa bryd yr ymwrthodasom a gweithredoedd y diawl, a rhodres a gorwagedd y byd anwir, a phechadurus chwantau y cnawd. Pa le y dywedwch ein bod yn syn-feddylgar ac yn athrist; eich camsynied yw hyny. Y mae genym lawenydd dibaid yn ein calonau, er nad ydym yn llamsach ac yn crechwenu, megys chwi. Nyni a ddysgasom gan ein Harglwydd a'n Duw, fod o isel ac ufudd galon, ac o ysbryd addfwyn a gostyngedig. Ac am hyny, nid oes genym ddim hoffder yn eich gwleddoedd a'ch chwareuon; lle nid allwn edrych ar ddim ond rhwysg a rhyfyg, gloddest a meddwdod, y drychau nid ydynt weddus."†

Yn y lle nesaf ni a gawn ystyried eu diweirdeb. Mor ofalus oeddent i fyw yn onest a dihalog, fel nad edrychent ar ddim a fyddai yn anweddus ac anhardd. "Ein hymadroddion ni," ebe un o honynt, "ydynt yn sobr ac yn ddiwair, ac felly y mae ein hymarweddiad. A llawer o honom, er nad ydym yn ymffrostio ar hyny, a gadwant wyryfdod dibaid. A chyn belled ydynt oddiwrth serch at y fudrog anniwair, megys eu bod yn ymwrthod a'r cofleidiau diweiriaf."‡

Yr oedd Cristionoges dduwiol a elwid Sophronia, yr hon oedd cyn odidoced mewn rhinweddau da, ag mewn glendid a phrydferthwch corff; a rhwng y ddau, hi a gyfrifwyd yn wyrthiau'r oes; ond yn yr amser hwnw, dau beth peryglus i

* Clem. Alex. Pædag. lib. 2. p. 3. Ed. Par. 1522.
† Minut. Fel. p. 10.
‡ Ibid. p. 26.

fywyd llonydd yn y bywyd hwn, oblegid fod gorthrymwr anhywaith ac anllad yn erlid y Cristionogion, ac yn eu baeddu yn ddiarbed. Felly, wedi i'r gormesdeyrn hwnw (Macsen oedd ei enw) glywed gymaint o glod am lendid Sophronia, efe a anfonodd ddau neu dri ceisbwl i'w chyrchu hi ato ef; y rhai a ddywedasant wrthi, "Os hi a ddeuai o wirfodd calon at yr ymherawdwr, a bod yn gariad-ferch iddo, hi a ddyrchefid i bob anrhydedd a'r a allai byth ddymuno." Sophronia a wybu, nad oedd bosibl iddi ddianc o'u crafangau, felly hi a gymerth arni, ei bod yn foddlon; ac a ddymunodd arnynt bwyllo ychydig, nes y gwisgai hi ei hardd-drwsiad; ond yn lle ymdecâu mewn lawnt a sidan, hi a gymerth gyllell, ac i gadw ei diweirdeb a llaw ddigyfro a roddes ddyrnod farwol iddi ei hun.*

Godineb a gospid yn ddwys yn y brif eglwys. Barn y teidiau a ymgyfarfuont yn y flwyddyn 315 oedd hyn:—"Os syrthia neb i odineb bid iddo ddwyn penyd saith mlynedd, cyn y derbynier ef i gymundeb." Ac ni dderbynient ef y pryd hwnw chwaith, oni cheffid ynddo argoelion eglur ei fod yn casâu, ac yn ymwrthod a'i bechod.†

Soniwn bellach am ufudd-dod y prif Gristionogion i'r llywodraeth. Dros dri chant o flynyddoedd ar ol dyfodiad Crist yn y cnawd, paganiaid creulon a gwaedlyd (oddieithr rhyw ychydig) oedd y rhan fwyaf o ymherawdwyr Rhufain: ac yn yr yspaid hwnw bu deg o erledigaethau creulon yn erbyn y Cristionogion; yn mha amserau, y goddefasant y trallodau, y cystudd, yr ing, a'r poenau ffyrnicaf a allai holl lu uffern ddychymygu; ac eto nid oes dim hanes oll, i'r Cristionogion godi gwrthryfel, neu y terfysg lleiaf. Nid o herwydd fod arnynt ddiffyg gallu a chadernid, y buont yn dyoddef cyn hynawsed, ond yn unig o herwydd cydwybod. Canys dywed un o honynt, "Pe hyny a fyddai ein bwriad, buan y cynullem y fath lu arfog (yn Gristionogion i gyd) ag a fyddai alluog i ddarostwng yn hawdd ein holl wrthwynebwyr; ond o herwydd cydwybod yr ydym yn ufuddhau; oblegid fod ein Harglwydd wedi dywedyd wrthym, 'Telwch yr eiddo Cæsar i Cæsar, a'r eiddo Duw i Dduw.'"‡ Mewn un peth yn wir y gwrthodasant dalu teyrn-ged, sef y tâl a gesglid at wneuthur delwau, ac hefyd gogyfer a chynal temlau eilunod. "Er ein bod," ebe hen athraw dwys, "yn nacâu talu teyrn-ged i ddyrchafu

* Euseb. Hist. Eccles. lib. 8. c. 16. † Concil. Ancyr. Can. 20.
‡ Tertull. Apol. c. 37.

gwasanaeth y diafol, eto ystyriwch ein parodrwydd at bob gwasanaeth arall. Ie, yr ydym yn gwneyd iawn am hyny, trwy ein gwaith yn talu mwy nag sydd ddyledus o drethi ereill."*

Pan oedd y paganiaid yn edliw, nad oedd y Cristionogion yn gwneuthur ond ychydig o wasanaeth i'r ymherawdwyr; y maent yn ateb, " Mai camsynied oedd hyny. Canys yr ydym ni," ebe hwy, " yn wir gynorthwyo y llywodraeth, os nid ag arfau dynol, eto a rhai nefol. A pha enwocaf a fyddo un o honom mewn duwioldeb, fe wna hwnw, trwy ei weddïau, fwy o wasanaeth i'r deyrnas, na brwydrau llawer o filwyr arfog."† " Yr ydym ni," ebe hen athraw dwys arall, " yn gweddïo Duw dros yr ymherawdwyr, ar deilyngu o hono ganiatâu iddynt hir hoedl, llywodraeth heddychol, llys diogel, milwyr calonog, dadleu-dŷ cywir, a deiliaid onest ac ufudd."‡ Gellid yn hawdd ychwanegu yma at yr un ystyr, ond wrth yr ychydig a grybwyllwyd, y mae'n eglur fod yr hen Gristionogion yn sefyll yn ddigyffro wrth reol yr apostol, " Ymddarostynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel." (Rhuf. xiii. 1.)

Heblaw y rhinweddau uchod, ni a gawn ystyried yn mhellach eu bwriad diysgog yn glynu wrth eu proffes, a'u hamynedd raslawn yn dyoddef y poenau creulonaf er mwyn eu Prynwr, "canys edrych yr oeddent ar daledigaeth y gobrwy." (Heb. xi. 26.) Ac wrth ystyried hyn, y mae hyny, yn mysg ereill, yn un rheswm cadarn i brofi gwirionedd y grefydd Gristionogol. Canys, oni buasent wedi eu nerthu gan Ysbryd Duw, fyth ni allasent fod cyn baroted yn dyoddef, cyn gysured yn y peryglon mwyaf, a chyn ddiysgoced yn eu proffes. " Wrth ystyried hyn," medd un o honynt, " y mae genym brofiad diammheuol o dduwdod y grefydd Gristionogol.§ Edrychwch," eb efe wrth y paganiaid, " pa fodd y mae'r holl fyd mewn cyn fyred amser wedi ymddarostwng i dderbyn ein crefydd. Gwelwch yr athronyddion yn ymadael a'u mympwyion anwylaf; y gwŷr mawrion yn ymwrthod a'u swyddymgais a'u traha; y beilchion yn bwrw ymaith eu rhodres a'u rhwysg; y meddwon yn ymgadw oddiwrth ormodedd a'u hafreolaeth; y trythyll yn ffieiddio ei aflendid a'i anniweirdeb; y cybydd yn bwrw heibio ei serch at arian a'i drachwant; ïe, a phob pechadur gynt, yn awr yn gwellâu;

* Ibid. c. 42. † Origen. lib. 8. p. 462. ‡ Tertull. Apol. c. 30.
§ Arnob. advers. Gent. lib. 2. p. 21.

wrth ystyried y cyfnewidiadau hyn, y mae yn rhaid fod dawn oddiuchod yn gweithio ynom. Pa rai o'ch gwŷr dysgedig chwi a ddygent y fath drallodau, blinderau, a gorthrymder er mwyn amddiffyn eu hathrawiaeth, ag ydym ni yn ddwyn er mwyn Crist? Ie, pan gydnabu y gwr dysgedicaf o honoch, Aristotl wrth ei enw, fod yr Atheniaid yn amcanu ei alw ef i gyfrif am rai opiniynau ag oedd ef yn faentumio, efe a ffôdd ymaith fel llwfr digalon gan ofn. A wnaethai Cristion y cyfryw beth gwaradwyddus? Efe a ymadawai a chant bywyd, pe bai efe berchenog arnynt, cyn yr ymadawai efe a'i broffes. Pan ymgynghorodd Porphyri, eich athronydd enwog, a'r oracl* yn nghylch ei wraig a droes yn Gristionoges, efe a gafodd yr ateb hwn, 'Y gallasai efe cyn hawsed ysgrifenu ar y dwfr, neu ehedeg megys aderyn yn yr awyr, a throi ei wraig oddiwrth Gristionogaeth.'† Ie, chwi a wyddoch, fod diareb genych, 'Mor ddiysgog a Christion.'"

Nid oeddent yn ymwroli fel hyn ar eiriau yn unig, ond mewn gweithred hefyd. Pan ddaeth y swyddogion i ddal Polycarp dduwiol, efe a wrthododd fyned ar encil, er iddo gael rhybudd cyfamserol i ddianc; eithr efe a ddywedodd wrth ei gyfeillion, "Ewyllys yr Arglwydd a wneler." Pan ddygwyd ef i lys y barnwr, y gwnaethpwyd araeth wenieithgar hudol i'w ddenu ef i wadu Crist, ac aberthu i eilunod, Polycarp ar hyny a atebodd, "Er ys chwech a phedwar ugain mlynedd, y bum i yn was i Grist; ac yn yr holl amser hwnw, mi a'i cefais ef yn Feistr tirion ac haelionus; ac a wadaf fi yn awr y cyfryw Feistr ac Iachawdwr? Na wnaf ddim." Yna dywedodd y barnwr wrtho, oni newidiai efe ei farn, y teflid ef i'w larpio gan fwystfilod ysglyfaeth. "Gwna hyny," ebe Polycarp, "os myni; canys nid wyf fi yn meddwl dychwelyd o well i waeth." "Ynte, mi a fynaf dân i'th ddofi," ebe y barnwr. "Yr ydwyt ti," ebe Polycarp, "yn son am dân a barha gyneu dros awr, ac yna a ddiffydd: ond gwybydd fod tân yn uffern a boena'r annghyfiawn a phoenau tragywydd." Ar hyny y barnwr annhrugarog a ffromodd yn aruthr, ac a barodd yn ddiatreg ei losgi. Ar eu gwaith yn myned i'w rwymo ef wrth yr ystanc, Polycarp a ddywedodd, "Nad oedd hyny ond afreidiol; y byddai'r Duw hwnw a roddodd iddo galondid hyd yn hyn, roddi iddo amynedd hefyd i ddyoddef

* Math o ddelw a diawl yn rhoi hysbysrwydd. † Orig. contra Cels. p. 51.

angerdd y tân heb syflyd." Ar ol cyneu y tân, y fflam a wasgarodd draw ac yma gylch ac o gylch iddo; a'r fath sawyr hoffaidd yn llenwi ffroenau pawb, megys perarogl llysiau: ond er hyn o wyrthiau nefol, y barnwr anhydyn a barodd ei wanu a gwaewffyn a phicellau, nes bod ei waed yn pistyllio allan ac yn diffodd y tân.*

Ac yn wir, cyn wresoced oedd eu sel at eu Harglwydd, fel y byddai megys eiddigedd ar un weled arall yn myned i ddyoddef, a bod yntau yn cael ei arbed. Pan welodd diacon a elwid Lawrens arwain yr esgob i'w ferthyru, efe a wylodd, oblegid nad oedd yntau i fyned gydag ef. Ar hyny efe a waeddodd, "Pa le, O fy nhad, yr aethost heb dy fab? Paham yr aethost, O esgob santaidd, heb dy ddiacon? Ni fuost erioed yn trin pethau santaidd, onid oeddwn inau yn gweini i ti? A gefaist ti fi yn llwfr ac yn ofnus? Prawf fi, fel y gwypech o ba ysbryd ydwyf." Bywiogodd hyn galon yr esgob, ac efe a'i hatebodd, "Na thybia, fy mab, fy mod i yn dy wrthod. Myfi yn wir, henafgwr gwan fel yr wyf, sydd yn myned gyntaf: ond i ti, yr hwn wyt gryf a chalonog, y darperir ychwaneg o ymdrech: sych dy ddagrau, a chymer gysur; canys yn mhen tri diwrnod y'm canlyni."† Gwelwn pa ymgais wresog oedd rhwng y ddau, pa un a ddyoddefai gyntaf.

Cyn belled oedd y prif Gristionogion oddiwrth anwadalwch yn eu proffes; cyn leied braw oedd arnynt rhag goddef angeu, fel na chiliasant ar encil yn yr erledigaeth greulonaf. "Y mae'r dynionach hyn," megys y mae pendefig o bagan yn eu galw, "yn gwenieithio eu hunain, y cânt fyned ar ol y bywyd hwn, i lawenydd didranc. Ac am hyny y maent yn dibrisio angeu, a llawer o honynt a ddeuant o'u gwirfodd at y swyddogion i'w dienyddu."‡ Ysgrifenodd rhaglaw Palestina at yr ymherawdwr Trajan o gylch y flwyddyn 104, lythyr at yr ystyr hyn:—"Yr wyf yn blino cospi a dienyddu y Galileaid" (felly trwy wawd y galwasant y Cristionogion) "yn ol eich gorchymyn; ac eto ni pheidiant ymroddi i gosp cyfraith; er i mi gymeryd llawer o drafferth arnaf i'w perswadio na chyffesent eu bod yn Gristionogion, eto ni allai dim dycio."§

Blin yn ddiau oedd gan satan, y gelyn ysbrydol, weled dysgyblion yr Arglwydd y fath filwyr calonog, ac yn dibrisio

* Euseb. Hist. Eccles. lib. 4. c. 15. † Ambros. Offic. lib. 1. c. 42.
‡ Plin. Epist. § Prim. Christ. part. 2. c. 7. p. 181.

eu bywyd yn mhlaid y ffydd sydd yn Nghrist. Felly, efe a roddes yn nghalonau yr ymherawdwyr i ddychymyg poenau newyddion, gan hyderu y llaesai eu gwrolfryd ar hyny. Ond cyn hawsed fuasai iddo ef fyned i'r nef ei hun, a rhwystro un o etholedigion Duw. Pan gondemniodd Lifinus (yr ymherawdwr nesaf o flaen Cystenyn Fawr) ddeugain o dduwiolion i lyn o ddwfr yn noethion ar noswaith rewlyd, y maent yn ymgysuro a'r ymadroddion hyn :*—"A ydyw'r hin yn oer ac yn awch-lem?—Eto Paradwys, y lle yr ydym ni yn prysuro myned, sydd hyfryd a dyddanus. A ydyw'r rhew yn oer a chwerw?—Y gorphwysdra sydd i ddyfod fydd gysurus a melus. Byddwn amyneddgar dros enyd fechan, a mynwes Abraham a'n hymgeledda. Yn lle'r ychydig gystudd yma, ni a gawn fywyd tragywyddol yn y nef. Marweiddied ein traed gan y wyn-rew, fel y caffont orfoleddu yn oestadol gydag angylion; a dirymed ein dwylaw, fel y caffont ryddid i ddyrchafu tua'r nef. Pa gymmaint o'n cyd-filwyr a gollasant eu hoedlau er cadw'n ddiysgog gyda'u brenin daearol! Ac a fyddwn ni yn anffyddlon i Frenin y gogoniant? Pa gymaint a uniawn-gospwyd am eu hysgelerder a'u drygioni! Ac a beidiwn ni ddyoddef yn amyneddgar dros achos cyfiawnder a chrefydd? Nid dim ond y cnawd sy'n dyoddef, paham yr arbedwn ef? Yn gymaint a bod yn rhaid i ni farw, byddwn farw fel y byddom fyw byth." Gwelwn mor wrolwych y dyoddefasant, ac mor sicr obeithiol oeddent. Eu cariad at eu Creawdwr a ddofodd annhymmhoreiddrwydd yr elfen; a'u serch at y nefoedd a wresogodd eu calonau, fel na theimlasant chwerw-loes angeu.

Fel y galloch ddirnad eto yn eglurach pa mor resynol yr oeddid yn caethiwo y Cristionogion, mi a osodaf yma esiampl o orchymyn a roddwyd allan yn y flwyddyn 253. Y geiriau ydynt y rhai hyn :†—"Yn gymaint ag i ni dderbyn doniau a bendithion haelionus oddiwrth y duwiau, trwy y rhai yr ydym yn cael buddugoliaeth ar ein gelynion, ac hefyd hin dymmherus, ac amldra o ffrwythau'r ddaear; yn gymaint ag i ni brofi eu bod yn haelionus a thrugarogion wrthym, a'u bod yn oestadol yn ein digoni a phob beth annghenrheidiol; am hyny yr ydym o unfryd yn gorchymyn ar i bob gradd o ddynion, plant yn gystal a gweision, milwyr yn gystal a rhai diswyddi,

* Prim. Christ. part 2. c. 7. p. 193. † Ibid. p. 154.

aberthu i'r duwiau, eu hanrhydeddu, a'u haddoli. Ac os neb a ryfyga droseddu ein gorchymyn hwn, a gytunasom yn unfryd arno, yr ydym yn erchi ei daflu yn ddiatreg i'r carchar, a'i arteithio a llawer o boenydiau. Os yna y try oddiwrth ei gyndynrwydd, fe all ddysgwyl mawr anrhydedd genym. Eithr os efe a barha yn wrthnysig, wedi ei ddygn-arteithio, torfynygler ef, neu tafler ef bendramwngl i'r mor, neu bwrier ef allan i'w fwyta gan gŵn ac adar ysglyfaeth. Yn enwedig os ceffir neb o grefydd y Cristionogion; eithr y sawl a fyddant ufudd i'n gorchymyn, a dderbyniant fawr anrhydedd ac anrhegion genym. Byddwch wych."

Dyma ystyr erledigaeth gyffredinol, sef yw hyny pan ddelai gorchymyn fel hyn oddiwrth yr ymherawdwr i ferthyru y Cristionogion. Ac yn ysbaid tri chant o flynyddoedd y bu deg o erledigaethau mawrion. Gwaith anorphenol fyddai gosod hanes neillduol o ddyoddefaint pob Cristion yn un o honynt chwaethach yn y deg; felly mi a ychwanegaf yma y modd yr oeddid gan mwyaf yn eu poeni:—

I. Y groes a haeddai i'w hystyried gyntaf, nid yn unig o herwydd ei bod yr henaf o offerynau dienyddol, ond hefyd o herwydd mai ar y groes y gosodwyd ein Hiachawdwr ei hun i farwolaeth. Ac nid yw ryfedd i boeni y Cristionogion cyn fynyched y ffordd hon, canys os fel hyny y gwnaethant "a pherchen y tŷ, pa faint mwy a'i dylwyth ef?" Dau beth a gyfrifid yn echryslawn trwy osod i farwolaeth yn y modd hwn. Y poen a'r gwaradwydd. 1. Poen; oblegid y neb a ddyoddefai, a hoelid trwy ei draed a'i ddwylaw, y rhai ydyw'r rhanau lle mae'r gwthi yn terfynu, felly yn fwy teimladwy o boen nag un rhan arall. Ac heblaw hyny, y traed a'r dwylaw ydynt y rhanau pellaf oddiwrth y galon, ffynnonell y bywyd anianol; felly y neb a osodid i farwolaeth a fyddai'n hir cyn marw. 2. Yr ydoedd hi yn farwolaeth waradwyddus, yr hon a osodid yn unig cyn amser Cristionogaeth ar fradwyr a chaethweision. Ond wedi i Gystenyn Fawr, y Britwn ardderchog hwnw, fyned yn ymherawdwr, efe a waharddodd ddienyddu un drwgweithredwr y ffordd hono.* Nid oedd efe foddlon ei adael yn offeryn i gospi drwgweithredwyr, ar ba un y dyoddefodd Mab Duw ei hun.

II. Y march pren a elwir yn Lladin *Equuleus*, ydoedd

* Soz. Hist. Eccles. lib. 1. c. 8. p. 11. edit. Lov. 1569.

offeryn tra niweidiol i gorff y prif Gristionogion. Y mae'n debygol wrth ei enw, mai estyllod wedi eu cydgysylltu ar lun ceffyl ydoedd y peiriant hwn. Rhwymid y merthyr a rhaffden ar ei gefn ef; un pen y rhaff a glwmid wrth gymalau'r dyn, a'r pen arall wrth droell-hoelion a fyddai yn y peiriant. Felly holl gorff y Cristion a ddirdynid ac a ddadgymalid ar unwaith gyda phoen dirfawr.

III. Y droell. Tu uchaf yr olwyn oedd lawn o bigau haiarn, ar ba un y clymid y merthyr, fel y byddai ei gorff yn gylch o amgylch yr olwyn. Ac yna hi a droid yn chwyrn, fel y dienyddid y Cristion trwy loesau annhraethadwy. Weithiau byddai pigau haiarn llymion odditan yr olwyn neu'r droell, i larpio o fesur ychydig ac ychydig gnawd y dyn. Llawer mil a ferthyrwyd yn y ffordd hon.

IV. Llosgi. Ambell waith hwy a rostid wrth dân araf, i wneuthur eu poen yn hwy a thrymach. Weithiau hwy a grogid gerfydd un llaw neu droed, a chyneuid tân odditanynt i'w llosgi. Weithiau hwy a osodid mewn cadair haiarn, a chyneuid tân odditani. Weithiau hefyd hwy a fwrid i lestr o olew berwedig.

V. Taflu i'r bwystfilod. Bol y bwystfilod a fu yn fedd i filoedd o Gristionogion. Ni chondemniwyd neb gan y Rhufeiniaid i'r farwolaeth echryslawn hon, ond y dynion salaf, a'r drwgweithredwyr tlotaf; dan ba enwau y cyfrifid y Cristionogion ganddynt hwy; ac am hyny hwy a'u taflasant yn dorfëydd yn ymborth i'r bwystfilod gwylltion. Yr ydoedd hyn mor gyffredinol yn eu mysg, fel yr aeth hi yn ddiareb, "Ymaith a'r Cristionogion i'r llewod."

VI. Cloddio at y mwyn.* Gwaith ydoedd hwn a wneid gan y caethweision, a'r dynion distadlaf, a'r Cristionogion a farnwyd yn fynych ato. Ond nid oeddent hwy yn cael yr un parch ag ereill; canys curid hwy a ffonodiau lawer,† a rhwymid hwy a llyffetheiriau, a gorfyddai arnynt orwedd fel hyny bob nos yn nghanol anmhuredd a brynti. Heblaw hyny, tynid allan eu llygad deheu, a thorid gwthi eu troed aswy; dodid nod haiarn ar eu talcenau, ac eillid haner eu penau i'w gwneuthur hwy ar ddull caethweision. Dyma rai o'r cospedigaethau a osodwyd ar y gwirioniaid gynt. Llai o orchwyl fyddai cyfrif ser y nefoedd, nag adrodd yn berffaith-

* "Ad effodienda metalla." Soz. p. 10. † Cypr. Epist. 77. p. 155.

gwbl eu holl orthrymderau gan y paganiaid cythreulig. Weithiau plygid canghen megys bwa, a'r Cristion a rwymid wrth ddau pen y golfen, ac yna hi a ollyngid i unioni'n ddisymwth, nes tori'r merthyr yn ddau haner. Weithiau eneinnid y Cristion a mêl, a dodid ef ar ben canghen o bren ar ddiwrnod mwrn, fel y gallai'r gwybaid a'r cilion ei ladd. Ond hwy a nerthwyd gan Dduw, yr hwn oeddent yn ei wasanaethu mewn ysbryd a gwirionedd, fel y dyoddefasant pob peth er mwyn Crist yn amyneddgar. Ac yn ddiau yr oeddent y pryd hwnw yn fwy astud yn eu defosiynau, yn fynychach yn eu gweddïau, yn gywirach yn yr ordinhadau, nag yn amser hawddfyd a diogelwch. Canys yn mhen talm o amser wedi iddynt gael diogelwch ddynol, dododd y gwŷr llen eu synwyr ar waith i ddychymygu rhialltwch a phethau newyddion; a'r gwŷr lleyg a hoffasant bethau daearol yn fwy na gogoniant Duw.

---

## PENNOD X.

GONESTRWYDD Y PRIF GRISTIONOGION YN EU MASGNACH. EU CASINEB AT ANNGHYFIAWNDER A CHELWYDD. BARNEDIGAETH DUW AR GELWYDDWYR. EU GOFAL DROS Y TLODION. EU PARODRWYDD I YMWELED A'R CLEIFION. EU HAELIONI AT Y BRODYR. EU HUNDEB A'U BRAWDGARWCH. AMRYW ESIAMPLAU AR BOB UN O'R PENAU HYN.

Wrth ystyried y rhinweddau a grybwyllwyd uchod, y rhai oeddent megys cynifer tlws gwerthfawr yn harddu buchedd y prif Gristionogion, ni allwn sicr-wybod eu bod yn gyfiawn a gonest yn eu masgnach, pe na bai genym un dystiolaeth i brofi hyny. Canys pwy bynag sy'n gwir wasanaethu'r Arglwydd Dduw, yr hyn a ofynir yn y llech gyntaf, y mae efe yn ddiddadl yn gydwybodol i gadw'r ail, sy'n gorchymyn i ni ymddwyn yn onest a chywir tuag at ein cymydog. Ac yn hyn y bu y Cristionogion gynt cyn odidoced, fel na allai y paganiaid eu hunain lai na chyfaddef eu bod hwy yn onest heb dwyll yn eu geiriau, na hoced yn eu gweithredoedd. Canys y mae Plini, pendefig a anfonwyd gan yr ymherawdwr Trajan i ymofyn yn nghylch moesau'r Cristionogion, yn rhoddi'r hanes hwn am danynt: "Nad allai efe gael dim

beiau ynddynt mewn perthynas i'w hymarweddiad, ond eu bod yn cadw cyfarfodydd plygeiniol i addoli Crist. Ac yno y maent," eb efe, "yn ymrwymo trwy lw, rhag gwneuthur o honynt ddim ysgelerder a drygioni; ac fel y byddont tan rwymedigaeth addunedol rhag lladrata, godinebu, a dywedyd celwydd, neu wadu dim a roddid iddynt, pan y gofynid ef yn ol."*

Er bod y pendefig hwn yn bagan, eto y gwirionedd a'i cymhellodd ef i gyffesu eu bod hwy o ymarweddiad da. Ac yn ddiau ni roddes efe ddim gau dystiolaeth. Canys nid oeddent yn unig yn delio yn onest a dihoced yn eu masgnach, eithr hwy a ymgadwent hefyd oddiwrth "bob rhith drygioni." Mae St. Awstin, esgob Hippo, yn dywedyd ei fod yn adnabod gwr yr hwn, felly y damweiniodd, a welodd lyfr gan un ar werth. A phan ofynodd ei bris, efe a adnabu na wyddai y gwerthwr pa beth a dalai, oblegid iddo ofyn ychydig iawn am dano.† Efe a gymerth y llyfr, eto efe a roddes ei gyflawn werth am dano, ysgatfydd y ddau cymaint ag a geisiodd y gwerthwr anhyddysg. Od oedd chwith ganddynt fanteisio trwy anwybodaeth dynion ereill, y rhai ni wyddent union-bris a gwerth eu marsiandaeth, mae yn sicr na sioment hwy neb eu hunain trwy roddi sothach a sal bethau, yn lle pethau cywrain didwyll. Pwy bynag a siomai arall trwy dwyll a hoced, neu a bentyrai olud trwy ffalsder ac annghyfiawnder, a gyfrifid yn aelod anaddas o gymdeithas y ffyddloniaid, ac a fwrid allan o'r eglwys. Cymaint oedd sel y Cristionogion da gynt i gadw cymdeithas bur ddihalog, fel na chai neb a droseddai yn ysgeler, fod yn ddigerydd o'i blegid.

Nid llai canmoladwy oeddent yn eu hymadroddion, y rhai oeddent ddwys, eto arafaidd a synwyrol. Ac yn wastadol y gwirionedd syml a draethid heb druth neu weniaith i neb, boed ef bendefig neu gardotyn. Canys hwy a gyfrifent gelwydd megys hedyn a hauwyd gan ddiafol yn nghalonau dynion, o ba un y tyf, onis diwreiddi'r ar frys, ganghenau gwenwynig a anurddant holl serchiadau'r enaid. Pan oedd y paganiaid yn eu gwatwar, ac yn eu galw yn ddynion lloerig anneallgar, o herwydd eu bod cyn baroted yn dyoddef, pryd y gallasai ychydig eiriau teg eu harbed; ac os oeddent yn gydwybodol, gallasent ddywedyd un peth, a meddwl peth arall.

* Plin. Nat. Hist. lib. 10. Epist. 97. † August. de Trinit. lib. 13. c. 3.

Y Cristionogion a atebasant, mai cynghor cythreulig ydoedd hwnw. "Oblegid," ebe hwy, "nid yw celwydd mewn meddwl ddim llai o bechod na chelwydd ar eiriau.* A chymerwch ef yn mhob un o'r ddau, gwreichionen uffern sy'n ei enyn, ac uffern a berchenoga y cyfryw, oni chaiff ras o edifeirwch. 'Y rhai celwyddog a gânt eu rhan yn y pwll sydd yn llosgi a than a brwmstan, yr hwn yw'r ail farwolaeth.'" (Dat. xxi. 8.) "Pan yr holir ni," ebe un arall, "yn y modd manylaf, nid ydym yn gwadu ein hunain, oblegid yr ydym yn ei gyfrif yn beth ysgeler i ragrithio mewn unrhyw achos. Ac er y gallasem," ebe hwy, "lawer gwaith siomi yr ymherawdwr a chelwydd, i achub ein hoedlau, eto chwith oedd genym fyw ar y cyfryw ammodau ag sy'n ymddibynu ar gelwydd."†

Rhai o'r teidiau'n ddiau a ysgrifenant, fel pe na bai gyfreithlawn i Gristion gymeryd llw mewn achos yn y byd. Ond y rhan fwyaf sy'n ei ganiatâu, eto y dylid ei gymeryd gydag ystyriaeth a phwyll mewn achosion annghenrheidiol, ac o flaen swyddogion cyfreithlawn.‡ Y milwyr Cristionogol, y rhai a ddygasant arfau tan yr ymherawdwyr, a hwy eto yn baganiaid, a gymerasant lw i fod yn ffyddlon a chywir.§ Ac y mae'n debygol mai'r achos a wnaeth i rai o'r teidiau ysgrifenu yn erbyn llw, ydoedd camddeall rhyw fanau o'r Ysgrythyr, neu fel na ddelent tan bosibilrwydd i dyngu anudon. Canys yn ddiau hwy a wrthwynebasant gelwydd megys diafol ei hun. Mi a osodaf yma esiampl o farnedigaeth y Goruchaf ar dri o gelwyddwyr ffuantus. Yr oedd Narcissus dduwiol, esgob Caersalem, yn ofni Duw gyda gwylder a pharchedig ofn. Mor ddiduedd yn ceryddu ereill ydoedd, fel y bu llawer yn llidog wrtho. Ond tri checryn yn anad neb a sorasant yn dra chynddeiriog wrtho; ac yn y wyn hono o chwerwfustledd tuag ato, hwy a aethant at y swyddogion, ac a achwynasant ar yr esgob ei fod yn euog o bethau tra ysgeler. Ac i gadarnhau yr achwyniad, "Dioer," ebe'r cyntaf, "os wyf yn dywedyd celwydd, llosgi a wnelwyf." Ebe'r ail, "Os nad yw fy nhystiolaeth i yn wir, y pla a'm hanurddo i." A'r trydydd a ddywedodd, "Os ydwyf yn camachwyn arno, dallu a wnelo fy llygaid." Ac yna'r esgob, er ei fod yn wirion a dieuog o'r weithred a achwynasid arno, a aeth ar encil i'r diffeithwch. Ond buan y cyrhaeddodd llaw yr Arglwydd yr anudonwyr

* Tert. Apol. c. 27. p. 26. † Vide Just. Mart. Apolog. p. 43.
‡ Athanas. Apol. ad Const. tom. 1. § Veget. de Re Militari. p. 33.

melldigedig. Canys y cyntaf, trwy wreichionen o dân a syrthiodd ar nen y tŷ, a losgwyd ef a'i deulu i ulw; yr ail a anurddwyd o wadnau ei draed hyd ei goryn a rhyw glefyd ffiaidd, ac a fu farw; a phan welodd y trydydd y farnedigaeth gyfiawn a oddiweddodd ei gyfeillion, efe a gyfaddefodd y cwbl, ac a dystiolaethodd ei edifeirwch gyda chymaint o dristwch, nes i liaws ei ddagrau beri iddo golli ei olygon.*

Yn y lle nesaf ni a gawn ystyried cariad yr hen Gristionogion at eu gilydd. Yr egwyddor hon a ddyrchafodd eu calonau cyn belled oddiwrth genfigen a malais, fel nad allai y dyn melldigedicaf ddywedyd fod cymaint ag ymyraeth, chwaethach casineb rhyngddynt. Mor gariadus a serchog oeddent, fel prin y gallai un ymado oddiwrthynt, wedi gweled mor drugarogion oeddent, ac mor barod i gynorthwyo eu gilydd. Os anrhydeddid un, a fyddai arall yn eiddigus wrtho? Yr wyf yn tybied amgen. Os caffai un ryw aflwydd neu berygl, a orfoleddai un arall o'i blegid? Na wnai dim. Os syrthiai un i lwmder a thlodi, a fyddai'r lleill yn estroniaid wrtho? Yn ddiau hwy a drengent eu hunain cyn y peidient weini iddo. Ie, mor haelionus a thrugarogion oeddent, cyn baroted i gynorthwyo eu gilydd, ac mor gariadus y naill wrth y llall, fel y bu hi'n ddiareb yn mysg y cenhedloedd, "Gwelwch fel y mae'r Cristionogion yn caru eu gilydd."† Hwy a fuont oll megys brodyr. "Canys," ebe hwy, "yr un Duw yw ein Tad ni oll, nyni a gawsom yr un Ysbryd santeiddrwydd, nyni a ddygwyd allan o'r un bru tywyllwch ac anwybodaeth, i'r un goleuni a gwirionedd; yr ydym yn gyfranogion o'r un ffydd, a chydetifeddion o'r un gobaith."‡ Ie, y mae'r paganiaid yn dywedyd am danynt, mai un o'r egwyddorion penaf a ddysgodd eu meistr iddynt oedd, ar iddynt garu eu gilydd a bod yn heddychlon. Os gorthrymid un, byddai'r lleill megys yn gyfranogion o'i orthrymder; ac os anrhydeddid un, byddai pawb yn cyd-orfoleddu. Wrth y dymmher gyd-deimladwy hon, hwy a ddangosasant yn amlwg eu bod hwy yn wir ddysgyblion i Grist. "Wrth hyn y gwybydd pawb mai dysgyblion i mi ydych, os bydd genych gariad i'ch gilydd." (Ioan xiii. 35.)

A hyn a ymddengys eto yn eglurach wrth ystyried eu gofal astud, a'r diwydrwydd mawr a ymddygasant er ennill pech-

* Euseb. Hist. Eccles. lib. 6. c. 9. † Tertul. Apol. c. 39. p. 31.
‡ Vide Min. Fel. p. 26.

aduriaid at Grist, naill ai trwy droi paganiaid i gredu, neu trwy ddychwelyd y rhai a aethant ar gyfeiliorn at y wir ffydd apostolaidd. Pan wnaeth Arius y terfysg mawr hwnw yn yr eglwys, trwy wadu duwdod Crist, &c., O! mor galon-ofidus a fu'r peth i'r esgobion union-gred, ac i Gystenyn Fawr yr ymherawdwr.* A phan ryfygodd y dygn heretic hwnw a elwid Eunomius (am yr hwn y crybwyllwyd o'r blaen) i ailfedyddio, ac i droseddu dysgyblaeth yr eglwys,† O! gymaint oedd gofal yr esgobion iawnffyddiog ar iddo fwrw ymaith ei gyfeiliornad, ac i ddychwelyd at y wir ffydd iachusol. A phan ryfygodd heretic arall a elwid Eustathius sefyll yn erbyn priodas yr offeiriaid, i fwrw ymaith ddysgyblaeth yr eglwys trwy bregethu allan o'r eglwysi mewn teios, yr ydym yn darllen i'r iawnffyddiog gyfarfod yn ddiatreg, cyn gynted ag y clywsant o'i blegid, i'w esgymuno ef.‡

Megys y mae'r enaid yn rhagori ar y corff, felly hwythau a gymerasant fwy o boen i droi pechaduriaid at yr Arglwydd, nag a gymerasant eto i gyfranu at annghenoctyd y tlodion, er nad oeddent ddiffygiol yn y gradd lleiaf yn hyny chwaith. Medd Justin y Merthyr (duwinydd enwog ag oedd yn byw yn nghylch canol yr ail ganrif) wrth yr Iuddewon, "Yr ydym yn gweddïo trosoch a phawb ereill ag sydd yn gaseion i ni, ar i Dduw weled bod yn dda roddi gras i chwi i edifarhau am eich cabledd yn erbyn Crist Iachawdwr y byd, fel na ddyfether chwi dros fyth, os gwel Duw yn dda. Yr ydym yn gweddïo trosoch ar i Iesu Grist ein Harglwydd drugarhau wrthych, canys efe a orchymynodd i ni weddïo dros ein gelynion, ac i faddeu pa gamwedd bynag a wnaethant i'n herbyn. Er eich bod yn tywallt eich llid a'ch chwerwfustledd yn oestadol arnom—er eich bod yn ein difenwi, a'n gwatwar—er eich bod yn ein fflangellu a'n poeni—eto yr ydym yn maddeu i chwi, ac yn gweddïo Duw o ddifrif, ar fod gwiw ganddo roddi i chwi ras o edifeirwch ac adnewydd-deb buchedd, fel y deloch i adnabod y gwirionedd."§ Dyma dymmher nefol y Cristionogion gynt. Gwelwn pa fath sel oedd ganddynt i ddyrchafu teyrnas Crist, pa gariad at eneidiau, a pha mor ewyllysgar oeddent i faddeu pob dirmyg ac anmharch.

Ie, llawer o honynt a aethant o'u gwirfodd yn gaethweison, er mwyn cael gwell cyfaddasrwydd i bregethu iechydwriaeth

* Gregor. M. Dialog. lib. 3. c. 1. † Soz. Hist. Eccles. lib. 7. c. 26. p. 151. ‡ Ibid. lib. 3. c. 13. p. 65. § Dialogum Tryph. p. 254.

i'w meistriaid.* Yr oeddent yn meddwl na allasent fyth wneuthur digon o wasanaeth i'w Harglwydd a'u Duw. Pe buasai iddynt gael eu dewis, pa un a ewyllysient ai golud a gogoniant y byd, ai achub enaid y cardotyn salaf, y mae'n hawdd i farnu pa un a ddewisent.

Y mae hanes nodedig am Ioan yr apostol, yr hwn sydd fel hyn:—Pan oedd efe ar ei ymdaith tuag Ephesus, efe a gyfarfu a llanc ieuanc glân, ac o synwyr naturiol da. A'r apostol a gymerth hoffder yn y llanc, ac a'i dug ef ganddo at esgob eglwysi Ephesus, ac a roddes orchymyn o'i blegid i'r esgob, gan ddywedyd wrtho, "Yr wyf yn gorchymyn y llanc hwn i ti, ar i ti edrych ato yn ofalus a diwyd, a hyny yn mhresenoldeb Crist a'i eglwys." A'r esgob a gymerth y gofal arno, ac a'i haddysgodd yn egwyddorion y ffydd, ac a'i bedyddiodd. Yna tybiodd yr esgob iddo gyflawni ei ddyledswydd yn berffaith-gwbl, ac am hyny efe a roddes ryddid i'r llanc i fyned i ba le y mynai. Eithr y gwr ieuanc a wnaeth ddefnydd drwg o'i amser; canys efe a gyfrinachodd a dynion gwammal, gyda'r rhai y treuliodd ei amser mewn cyfeddach a meddwdod, a phob ysgelerder. Ac o'r diwedd hwy a aethant i ladrata ac yspeilio ar gyhoedd. A'r gwr ieuanc oedd benaf yn eu mysg, ac a wnaethpwyd yn gadpen ar y lladron ereill. Yn mhen yspaid gwedi hyny dychwelodd yr apostol Ioan at yr esgob, ac ymofynodd iddo am y gwystl a adawsai gydag ef. "Pa wystl?" ebe'r esgob. "Fy meddwl ydyw," ebe'r apostol, "y gwr ieuanc a adawais gyda thi." Yna y tristaodd yr esgob, ac a ddywedodd wrtho, ei fod wedi marw. "O ba farwolaeth?" ebe'r apostol. "Fy meddwl ydyw," ebe'r esgob, "y mae'n farw mewn pechod: canys ysywaeth efe a aeth ymaith oddiwrthyf fi, ac y mae yn awr yn lladrata ac yn yspeilio ar y mynyddoedd." Calon ofidus iawn a fu'r chwedl hon i'r apostol, ac yn ddiatreg efe a gymerth ei geffyl, ac a farchogodd tua'r mynydd y dywedasid wrtho fod y lladron. Ond pan welodd y llanc yr apostol yn dyfod tuag ato, efe y ddechreuodd wyneb-gochi a chywilyddio, ac a ffôdd ymaith. A'r apostol a farchogodd ar ei ol i'w orddiwes, a phan nas gallai, efe a waeddodd ar ei ol, gan ddywedyd wrtho, "Pa ham, O fy mab, yr ydwyt yn ffoi oddiwrth un diarfog? Nac ofna, y mae eto drugaredd i ti. Aros i mi gael siared a thi, Crist a'm danfonodd atat." Yna y

* Vide Pallad. in Vit. Serap. p. 182.

gwr ieuanc a arosodd, ac a wylodd yn chwerwdost. Ond yr apostol a'i cysurodd, gan ddywedyd, nad oedd Duw yn gwrthod neb a droai yn edifeiriol ato. A hwy a ddaethant ill dau i Ephesus drachefn. Yr hanes hwn a ychwanegais i ddangos mor ofalus a diwyd oedd y prif Gristionogion gynt yn nghylch eneidiau dynion, ac i ddangos hefyd pa gymaint o ddylanwad sydd gan wr duwiol yn mysg y dynion gwaethaf.*

Wedi gweled y gofal arbenig a gymerasant am yr enaid (er y gellid gosod yma lawer ychwaneg) ni a gawn ystyried yn nesaf eu haelioni at y corff, a hyny a amlygir, ped ystyriwn, 1. Eu gofal dros y tlodion. 2. Eu parodrwydd i ymweled a'r cleifion. 3. Eu haelioni at y brodyr mewn caethiwed. Dywedaf ychydig am bob un yn wahanredol.

1. Mawr oedd eu gofal i gyfranu at annghenion y brodyr tlodion. Ni fwytäent y danteithion mwyaf gyda'r hyfrydwch lleiaf, os gwypid fod un o'r brodyr mewn diffyg. "A allwn ni fod yn llawen," ebe hwy, "a'n brawd mewn galar? A allwn ni fod yn esmwyth ein calonau, a'n brawd mewn gofid a thrallod? A fwytäwn ac a yfwn ni, a'n brawd mewn diffyg ac eisiau? A foddlona'r Arglwydd i ni ddelio fel hyn a'n cydfilwr, yr hwn sydd o'r un ffydd a ninau? A gaiff efe drengu gan newyn, a ninau yn byw mewn pob digonolrwydd? Moliant i ti, Arglwydd Iesu, ti a'n dysgaist well pethau."

Yn ddiau cymaint oedd eu gofal i gyfranu at annghenoctyd y tlodion, fel y gwerthodd llawer o honynt eu holl feddiannau i'w rhoddi i'r tlodion. Ewyllys Sesarius, physygwr duwiol, ar ei wely angeu, ydoedd hyn yn unig, "Yr wyf yn ewyllysio rhoddi fy holl feddiant i'r tlodion."† Ac er bod llawer yn gwerthu eu holl feddiannau i'w cyfranu i'r annghenus a'r tlodion, eto yr oedd Duw yn eu diwallu a phob digonolrwydd, ac yn fynych trwy fodd annysgwyliadwy. Dywedir am wr a elwid Epiphanius (o'r bedwaredd ganrif) ei fod ef mor haelionus i gyfranu i'r gweiniaid a'r brodyr mewn eisiau, fel y rhoddodd iddynt nid yn unig ei holl feddiant a'i ddodrefn ei hun, ond trysor yr eglwys hefyd, yr hyn oedd trwy haelioni dynion defosionol yn aml, ac yn gymhedrol eang y pryd hwnw. Ond pan welodd dystain y trysor hyny, efe a geryddodd yr esgob o herwydd ei fod, yn ei dyb ef, yn rhy hael i'r gweiniaid, ac a'i cynghorodd i fod yn brinach yn ei roddion a'i elusenau rhagllaw; eto ni

* Euseb. Hist. Eccles. lib. 3. c. 23. † Bas. ad Saphron. Epist. 84. p. 156.

pheidiodd yr esgob gyfranu elusenau megys o'r blaen. Ond wedi darfod y cwbl, daeth dyn dyeithr i ystafell y dystain, ac a roddes yn ei law lonaid yscrepan o aur, ond pwy ydoedd y dyeithr hwnw ni wyddid, eithr llawer a dybiasant mai angel ydoedd.*

Ac yn ddiau cymaint oedd haelioni ac anrhegion yr esgob da hwnw i'r tlodion, fel y gosodwyd castiau arno ambell waith gan ryw ddynion gwammal neu grwydriaid ofer; felly mae'r hanesydd yn adrodd yn yr un lle ag a grybwyllwyd eisioes. "Dau gardotyn drygionus," eb efe, "y rhai a wyddent y deuai'r esgob y ffordd hono, a gytunasant a'u gilydd i un gymeryd arno fod yn farw, ac i'r llall sefyll uwch ei ben nes delai'r esgob heibio. Ac yn y man daeth yr esgob y ffordd hono, ac yna y gwr byw a wnaeth ei gwynfan alarus wrtho, gan ddywedyd fod ei anwyl gyfaill wedi marw yn ddisymwth, ac nid oedd yntau o allu i gosti at ei gladdedigaeth. A'r esgob a drugarhaodd wrth y dyn, ac a archodd iddo fod yn amynedd-gar, ac a roddes iddo ddryll o arian tuag at ei gladdedigaeth. Ac yna cyn gynted ag yr aeth yr esgob o'i olwg, rhoddes y gwr byw gernod fechan a'i droed i'w gyfaill oedd yn gorwedd, ac a ddywedodd wrtho, 'Cyfod, y mae genym fodd i fod yn llawen heddyw.' Ond, ysywaeth! y cyfaill nid ysgogodd fodfedd; canys yr oedd ef mewn gwirionedd yn fawr syth. Yr hyn, pan gydnabu ei gydymaith, efe a redodd ar frys ar ol yr esgob, ac a gyfaddefodd yr holl ffalsedd, ac a daer-ddymunodd arno i fywhau eilwaith ei gyfaill. 'Dos, dos,' ebe'r esgob, 'yr hyn a wnaethpwyd ni ellir ei ddadwneu-thur.'"†

Y gwirionedd ydyw, yr oeddid yn edrych ar y tlodion megys trysor a harddwch yr eglwys, trwy ba rai, megys trwy arwaesaf cyfnewid, y gobeithient gael eu meddiannau drachefn mewn byd arall.‡ Pan orchymynodd yr ymherawdwr Desius, yr hwn a deyrnasodd yn mlwyddyn yr Arglwydd 253, i ddiacon eglwys Rhufain, a elwid Lawrens, i ddyfod a holl drysor yr eglwys ato ef, y diacon a addawodd wneuthur hyny yn mhen tri diwrnod. Ac yn yr yspaid hwnw efe a gasglodd yn nghyd y deillion a'r cloffion, yr anafus a'r clwyfus, ac a'u dug hwy i lys yr ymherawdwr. A phan ofynwyd iddo am y trysor, efe a ddangosodd y dynion llymion hyn, ac a ddy-

* Sozom. lib. 7. c. 26. p. 188. † Sozom. ibid. ‡ Prim. Christian. part 3. c. 2. p. 260.

wedodd wrth yr ymherawdwr, "Dyma drysor ein heglwys ni."†

2. Prawf arall o'u cariad brawdol a ddangosasant trwy ymweled a'r cleifion, yn gystal i'w diwallu (os byddai diffyg arnynt) ag i'w nerthu yn y ffydd. Ac y mae yn debygol fod llawer o'r gweinidogion gynt yn feddygon, fel y gallent iachâu clefydau y corff, a rhoddi cynghorion ysprydol i'r enaid. A phwy bynag a iawn ystyria'r amgylchiadau, nid yw yn beth anweddaidd ac anmherthynasol. Canys efe a allai fwrw amcan, os byddai gelfyddgar, pa un ai byw ai marw a wnai y claf: ac os byddai dim argoel bywyd ynddo, efe a roddai ei feddyginiaeth yn gysurus, ac a erfyniai fendith gydag hyfder, oblegid "llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn." Ac os byddai nodau marwolaeth arno, pwy sydd gymhwysach i fod gydag ef i'w barotöi erbyn ei ymddattodiad nag ef? Ac yr wyf yn meddwl fod Paul yn chwareu rhan y meddyg ei hun, pan yw yn dywedyd wrth Timotheus, "Nac ŷf ddwfr yn hwy: eithr ymarfer ychydig win, er mwyn dy gylla, a'th fynych wendid." (1 Tim. v. 23.) Ond i ddychwelyd at y prif Gristionogion yn ymweled a'r cleifion. Cyn addfwyned oedd yspryd y Cristionogion gynt, fel na ddiystyrai yr anrhydeddusaf droi i mewn i fwth y cardotyn, cyn gynted ag i balas y brenin: ïe, y pendefigion mwyaf a ymadawent yn ewyllysgar a rhialltwch y llys, os gwypid fod annghen neu berygl ar y Cristion tlotaf, yn enwedig os byddai gywir ac union-gred yn y ffydd. Plasilla addfwyn, er ei bod yn wraig i'r ymherawdwr Theodosius, eto ni ddiystyrodd y trueiniaid tlodion, ond hi a ymwelodd a hwy beunydd.† Ie, hi a wnai enaint a'i dwylaw ei hun, ac a driniai glwyfau'r dynion tlotaf ei hunan. Hi a ymwelai'n wastadol a'r elusendy, ac a ofynai yn neillduol i bob un o honynt, a ydoedd dim yn ddiffygiol arno. Ar fyr eiriau, hi a driniai fwyd iddynt, ac a wnai beth bynag a fyddai annghenrheidiol iddynt, yn ostyngeiddiach, ysgatfydd, na llawer o'r morwynion.

3. Y trydydd nod o'u cariad diragrith ydoedd eu haeloni at y brodyr mewn caethiwed. Ac yn ddiau ni fuont yn unig yn haelonus, sef danfon elusen ac anrhegion iddynt, eithr llawer o honynt a roddasant eu gyddfau eu hun tan yr iau, fel y rhyddhäent ereill. "Esiamplau digystadl ac annghyfartal!"

* Prim. Christian. part 3. c. 2. p. 260. † Theodoret. Hist. Eccles. lib 5. c. 18.

medd Clement wrth y Corinthiaid, "Ni adnabuom ddynion yn ein plith ni ein hunain, y rhai a draddodasant eu hunain i gaethiwed er mwyn rhyddhau ereill."* A llawer a gyflogasant eu hunain yn weision i'r dyben hwn yn unig, fel y cynalient y rhai mewn eisiau. Mi a ychwanegaf yma yr hanes hynotaf a fu erioed yn y byd Cristionogol. Yn yr erledigaeth Fandalaidd y caethgludwyd y Cristionogion i Affrica, lle y goddefasant gystudd a thrallodau mawrion. Pan wybu esgob a elwid Pawlin hyny, efe a fawr dristaodd yn ei ysbryd, ond efe a fwriadodd na chai dim fod yn ddiffygiol o'i ran ef i'w cynorthwyo. Felly efe a werthodd y cwbl ag a feddai, ac a ddanfonodd y gwerth at y Cristionogion caeth yn Affrica. Yna daeth gweddw dlawd ato, ac a fawr-ymbiliodd ag ef i roddi cymaint iddi ag a ryddhäai ei mab o'r caethiwed hwnw. Yr esgob a ddywedodd wrthi nad oedd geiniog fechan wedi aros ganddo, eithr os ewyllysiai hi gymeryd ei berson ef ei hun, a'i werthu, hi a'i cai'n ewyllysgar.

Pan glybu y weddw druan yr ymadrodd hwnw, hi a dybiodd ei fod yn hytrach yn ei gwatwar, nag yn trugarhau wrthi. Ond efe a sicrhaodd ei fod yn siared o ddifrif, ac y gwnai megys ag y dywedodd. Ac o'r diwedd y wraig a'i coeliodd ef. Felly hwy ill dau a gymerasant long, ac a aethant i Affrica. Ac yn ddiatreg yr esgob a aeth at lywodraethwr y wlad, ac a ddymunodd arno ollwng hwn a hwn ymaith, a'i gymeryd yntau yn ei le. A'i ddymuniad a ganiatawyd iddo. Felly y wraig a gafodd ei mab, a'r esgob a arosodd yn gaethwas yn Affrica, yn mha wasanaeth y bu dalm mawr o amser yn foddlon-gar ddigon i'w gyflwr. Ond (felly y rhyngodd bodd i Dduw) llywodraethwr y wlad a gymerth hoffder yn yr esgob, ac a barodd iddo ofyn pa peth bynag a fynai, ac ni byddai pall iddo. Felly efe a ofynodd rhyddid i'r Cristionogion, y peth oedd fwy yn ei olwg nag anrhydedd y byd oll. A'r llywodraethwr a ganiataodd ei ddymuniad, ac a'u gollyngodd hwy adref yn dangnefeddus.†

Wrth ystyried yr amgylchiadau hyn, nid yw ond gwaith afreidiol i mi ychwanegu dim am eu hundeb, oblegid hysbys ydyw, eu bod o un galon ac o un genau. Fy meddwl ydyw, yr iawnffyddiog: canys cyfododd yn ddiau lawer o ddynion haerllug, ysgeler, eglwysrwygwyr, a geuffyddwyr melldigedig,

* Clem. ad Corinth. p. 70. † Gregor. M. Dialog. lib. 3. c. 1.

y rhai a wnaethant rwyg yn yr eglwys trwy haeru rhyw opiniynau anmrwd, gwrthwyneb i'r Ysgrythyrau santaidd. Ond y gwŷr da hyny ydynt allan o'm tasc presennol i. Felly yr holl ymadroddion uchod ydynt yn cyrchu yn bendant at yr iawnffyddiog. Pan wnaeth Arius y terfysg mawr hwnw yn yr eglwysi trwy wadu duwdod Crist, &c., O! mor galon-ofidus ac ysbryd-flinderawl a fu'r peth i Gystenyn Fawr yr ymherawdwr.* Pa nifer o ddiwrnodau a dreuliodd efe mewn galar a gofid, a pha nifer o nosweithiau heb gwsg i'w amrantau! Y mae efe yn tystio fod yr ymraniad hwnw yn fwy o flinder ac aflonyddwch i'w ysbryd, na phe buasai rhyfel, ïe gwrthryfel gwyllt trwy yr holl ymherodraeth. O! mor daer y mae efe yn erfyn ar y gweinidogion i heddychu a gwellâu y rhwyg. Gwell fuasai ganddo golli'r ymherodraeth, a'r cwbl oedd anwyl iddo, na bod yr ymyraeth a'r terfysg hwnw yn yr eglwys.

Yr un dymmher ysbrydol oedd yn Gregori, esgob Caercystenyn. Pan oedd cymanfa gecrus yn methu a chytuno ar ryw bynciau, efe a gyfododd yn ei eistedd, ac a ddywedodd, "O! mor annghymhwys ydyw i chwi, y rhai ydych yn pregethu tangnefedd, ymgecru fel hyn a'ch gilydd. Mi a erfyniaf arnoch, er mwyn y Drindod fendigedig, ar i chwi fod yn heddychlon a'ch gilydd." Ac yna efe a gloawdd ei ymadrodd yn y geiriau nodedig hyn, "Os myfi yw y Jonah sy'n cyfodi'r dymmhestl hon, bwriwch fi i'r môr fel y byddo tawelwch. Yr wyf yn foddlon i ddyoddef pa peth bynag a fynoch. Ac er fy mod yn wirion a dieuog, eto fel y caffoch chwi heddwch, yr wyf yn foddlon i'm danfon yn wr deol ymaith, ond deued a ddel o honof fi, mi a daer-ymbiliaf arnoch chwi i gadw wrth y gwirionedd; ac i gynal heddwch yn eich plith."†

* Eus. Vit. Con. lib. 2. c. 64. † Vide Gregor. Nazian.

# DANGOSEG.

TU DAL.

Adferu purdeb yr efengyl yn Mrydain .. .. .. 179
Afanc y llyn .. .. .. .. 100
Afarwy ap Lludd yn gwahodd Iwl Caisar i ddyfod i Frydain .. 20
Alban—Ei hanes .. .. .. .. 123
Antwn (St.)—Ei bregeth i'r pysgod .. .. .. 171
Arius—Ei hanes .. .. .. .. 132
„ Ei farwolaeth echrydus .. .. .. 134
Arthur yn frenin ar y Brutaniaid .. .. 78
„ Ei lythyr at Howel, brenin Llydaw .. .. 78
„ Yn lladd tri chant o Saeson a'i law ei hun .. 79
„ Hanesion am dano .. .. .. .. 80
„ Rhai o'i ddeddfau .. .. .. 81
Arwyddocâd enwau dyddiau yr wythnos .. .. 92
Athanasius—Hanes am dano .. .. .. 191
Awstin Fonach yn cael ei ddanfon i Frydain gan Gregori .. 156
„ Yn cwrdd ag esgobion Brydain .. 158, 162
„ Yn symud yr archesgobaeth o Lundain i Gaergaint 128
Bangor-is-y-Coed—Y Saeson yn merthyru deuddeg cant o weinidogion Crist yno .. .. .. .. 165
Barn Duw ar dri chelwyddwr .. .. .. 221
Bedydd Plant .. .. .. .. .. 145
„ Arfer y brif eglwys .. .. .. 186
Brad y cyllyll hirion .. .. .. .. 67
Brasydoc—Yspeilio ei balas .. .. .. 29

TU DAL.

Brochfael Ysgythrog a'i wŷr .. .. .. 164
,, Yn gorchfygu y Saeson .. 166
Brutaniaid—Eu hannghydfod .. .. .. 23
,, Yn myned i breswylio yn Llydaw .. 40, 42, 43
,, Eu drwgfuchedd .. .. .. 55
,, Yn medru darllen ac ysgrifenu er ys mil o flynydd-oedd cyn Crist .. .. .. 96
,, Eu medrusrwydd mewn crefftwriaeth .. 97
,, Eu dillad .. .. .. 97
,, Eu hofferynau cerdd .. .. .. 98
Brutus—Ei ddyfodiad i Frydain .. .. .. 10
Brwydr Caerbaddon .. .. .. .. 75
Brycheiniog—Haniad y gair .. .. .. 172
Brydain—Yr enwau a fu ar Frydain gynt .. .. 14
,, Am bregethiad yr efengyl yno .. .. 110
Buddug yn gwrthsefyll y Rhufeiniaid .. .. .. 31
,, Yn gwenwyno ei hun .. .. .. 32
,, Ei dullwisgiad .. .. .. .. 97
Bulkley, esgob Bangor, yn gwerthu'r clychau .. 208
Caerlleon ar Wysg—Beli ap Dynwal Moelmud, ei sylfeinydd .. 128
Capel Elnyfed—Y gwyrthiau a wnelid yno .. .. 174
Caradoc Freich-fras yn gwrthsefyll y Rhufeiniaid .. .. 27
Caron—Ei hanes .. .. .. .. 37
Caswallon—Ei ateb i Iwl Caisar .. .. .. 16
Cerbydau rhyfel yr hen Frutaniaid .. .. 22
Ceredigion—Haniad y gair .. .. .. 156
Cist-feini, carneddau, a chromlechau .. .. 95
Claudia—Ei hanes .. .. .. .. 115
Cloch hynod .. .. .. .. 173
Coelgrefydd trigolion China .. .. .. 90
Colect—Ystyr y gair .. .. .. .. 200
Constans yn cael ei ladd trwy frad Gwrtheyrn .. .. 58

TU DAL.

Croes Crist .. .. .. .. 39
Curtis-finddu yn bradychu Caradoc .. .. .. 27
Custeint—Ei dyfodiad i Frydain .. .. .. 38
„ Lamp hynod yn ei feddrod .. .. .. 40
Cyffes Ffydd Morgan .. .. .. 138
Cyff-genedl y Cymry .. .. .. .. 1
Cyhelyn a Hirglas .. .. .. .. 19
Cyhelyn, yr archesgob, yn pregethu .. .. .. 51
Cymanfa yn Ffrainc .. .. .. 128
„ Yn yr Eidal .. .. .. .. 129
„ Nicæa .. .. .. .. 130
„ Yn Nghaerloew .. .. .. .. 136
„ Yn Lyda .. .. .. .. 138
„ Yn Llanddewi-brefi .. .. .. 152
Cynfelyn yn talu teyrn-ged i Rufain .. .. 26
Cyntwrch—Ei araith .. .. .. .. 24
Cysegru llanoedd ar enwau y merthyron .. .. 131
Cystenyn Fawr yn dyfod i Frydain .. .. .. 40
Dafydd Nanmor .. .. .. .. 83
Dammeg y cwlwm o ffyn .. .. .. .. 24
„ Y llew a'r afr .. .. .. 33
Dafies, esgob Dewi, a Gwilym Salisbury yn cyfieithu'r Testament Newydd .. .. .. .. 179
Delw-addoliaeth yr hen Frutaniaid .. .. .. 91
Dermot Mac Murroc yn ceisio cymhorth gan Harri yr Ail 88
Derwyddon—Eu hanes .. .. .. .. 93
„ Esiampl o'u pennillion .. .. 94
„ Eu hallorau .. .. .. .. 99
Dewi—Hanes am dano .. .. .. 153
„ Yn symud yr archesgobaeth o Gaerlleon ar Wysg .. 121
Diacon—Ei swydd .. .. .. .. 183
Dioclesian yn erlid y Cristionogion .. .. .. 122

TU DAL.

Doncaster yn cael ei sylfaenu .. .. .. 61
Drudaniaeth, haint, a newyn yn Mrydain .. .. 36
Duwioldeb y prif Gristionogion .. .. .. 202
Dyfan a Phagan yn dyfod i Frydain .. .. 119
Dyfrig—Ei farn yn nghylch Hengist .. .. .. 72
„ Yn gwysio yr esgobion i amddiffyn y ffydd rhag geugred Morgan .. .. .. .. 152
Dyfrig ac Illtud yn athrawon yn Nghymru .. .. 147
Dyfroedd y Tafwys yn sefyll yn bentwr .. .. .. 124
Edward yn anfon ei wraig i Gaerynarfon i esgor .. 87
Eglwys—Amryw ystyr y gair .. .. .. 204
„ Tri dosparth o weinidogion yn yr eglwysi gynt .. 205
Eidiol, iarll Caerloew—Ei ddewrder .. .. .. 67
„ Yn lladd Hengist .. .. 72
Eilunod y cenedloedd .. .. .. .. 89
Elen, merch Coel Codebog .. .. .. 39
Elidur Offeiriad—Ei hanes .. .. .. 172
Emrys Ben-aur yn ymladd a'r Saeson .. .. 64
„ Yn frenin ar y Brutaniaid .. .. 71
„ Yn cael ei wenwyno gan Eppa .. 74
Epiphanius yn rhwygo'r lliain .. .. .. 207
Eppil Japheth .. .. .. .. 4
Esgob—Ei swydd .. .. .. .. 181
Ethelbert, brenin Caint, a deng mil a thriugain o'i wŷr yn cael eu lladd .. .. .. .. 166
Eunomius—Ei ddychymyg yn nghylch bedydd .. .. 191
Eustathius, esgob Sebastia, yn troseddu dysgyblaeth yr eglwys 206
Eyddaf yn rhoddi ei ferch yn brïod i Facsen Wledig .. 41
Felix a Julian—Eu diwedd ofnadwy .. .. 208
Ffynnon Gwenfrewi—Gwerthu pardynau yno .. .. 177
Fynnon yn tarddu wrth weddi Alban .. .. 125
Garmon a Lupus yn gwrthbrofi geugred Morgan .. .. 52

TU DAL.

Garmon a Lupas—Eu mordaith i Frydain .. .. 142
„ Yn trefnu ysgoldai yno .. .. 147
Gau athrawiaethau y pab .. .. .. .. 169
Geugred Arius .. .. .. .. 132
„ Morgan .. .. .. 52, 137, 152
Gloyw Caisar yn Mrydain .. .. .. 26
Gregori yn anfon Awstin Fonach i bregethu yr efengyl yn mysg y Saeson .. .. .. .. .., 156
Gwal Sefer .. .. .. .. 34, 36, 50
Gweinidogion y brif eglwys .. .. 179, 205
Gwilym Bach .. .. .. .. 2, 13
Gwladys Ruffydd .. .. .. 115, 119
Gwledd anrhydeddus .. .. .. .. 19
Gwrgant Farfdrwch .. .. .. .. 33
Gwrthefyr yn derbyn y goron .. .. .. 64
„ Ebissa yn ei wenwyno .. .. .. 65
Gwrtheyrn yn gwahodd y Saeson i Frydain .. .. 59
„ Yn cymeryd Rhonwen yn gariadferch iddo .. 62
„ Yn cael ei ddifreinnio .. .. .. 64
„ Yn adeiladu castell o fewn Eryri .. .. 69
„ Ei farwolaeth ofnadwy .. .. .. 70
Gwyddelaeg—Geiriau o'r un sain ac ystyr yn yr iaith Gymraeg a'r Wyddelaeg .. .. .. .. 7
Gwŷr Flanders yn dyfod i Sir Benfro .. .. .. 86
Hanes am ddau gardotyn drygionus .. .. 226
Hen Destament yn cael ei gyfieithu a'i argraffu yn Gymraeg .. 179
Hengist yn adeiladu caer freinniol .. .. 61
„ Yn cael ei ladd .. .. .. .. 72
Hywel Dda—Rhai o'i gyfreithiau .. .. 85
Illtud a'i ysgolheigion .. .. .. .. 147
Ioan Aur-enau—Ei farn am y Brutaniaid a'u hiaith .. 129
Ioan yr apostol—Hanes nodedig am dano .. .. 224

TU DAL.

Iuddewon—Eu dyoddefiadau yn ngwarchae Jerusalem .. 109
Iwerddon—Rhai o genedl yr Yspaeniaid yn myned yno .. 10
Iwl Caisar—Ei lythyr at Gaswallon .. .. 16
" Yn mordwyo tuag ynys Brydain .. 17
" " Yr ail waith .. .. 20
Jerusalem yn cael ei dinystrio gan Titus .. .. 107
Joseph o Arimathea yn dyfod i Frydain .. .. 112
Julian yn gwneyd cynyg ar adferu teml Jerusalem .. .. 109
Justin y Merthyr .. .. .. .. 197, 223
Llanbadarn-fawr yn esgobaeth .. .. .. 121
Llanoedd yn cael eu hadeiladu a'u talcenau tua'r dwyrain 205
Lles ap Coel yn troi yn Gristion .. .. 118
Llydaw—Y Brutaniaid yn gwladychu yno .. 40, 42, 43
Llyn Safaddan .. .. .. .. 175
Llythyr-ateb esgob Rhufain at Lles ap Coel .. .. 120
Llywarch Hen .. .. .. .. 81, 103
Llywelyn ap Gruffydd, y tywysog diweddaf yn Nghymru .. 87
Macsen Wledig .. .. .. .. 41, 46
Madoc ap Owen Gwynedd yn hwylio i America .. .. 10
Maen-morddwyd .. .. .. .. 176
Merthyron—Lladd deuddeg cant o weinidogion Crist yn Mangor-is-y-Goed .. .. .. .. 165
" Hanes am danynt .. .. .. 213
" Y modd yr oeddid yn eu poeni .. .. 217
Meuric yn cael ei yspeilio .. .. .. .. 24
Moesau yr hen Frutaniaid .. .. .. 89
" Y prif Gristionogion .. .. 209, 225
Morgan (Dr.)—Yn cyfieithu'r Hen Destament .. 179
Morgan—Ei hanes .. .. .. .. 137
" Mewn cymanfa yn yr Eidal .. .. 145
Morganwg—Haniad y gair .. .. .. 172
Myrddin gerbron Gwrtheyrn .. .. .. 69

TU DAL.

Newyn yn Mrydain .. .. .. .. 54
Nodau march rhyfel .. .. .. .. 96
Ofergoelion eglwys Rhufain .. .. 157, 171
Offeiriaid—Ei swydd .. .. .. 183
Pabyddiaeth yn ymdaenu trwy Gymru .. .. 169
Pascen Fradwr .. .. .. .. 64, 73
Paul—Barn y dysgedigion iddo bregethu yma .. 114, 116
Pawlin—Ei gydymdeimlad .. .. .. 228
Pelagius—Ei hanes .. .. .. .. 137
Peryf ap Cadifor a Gronw Ddu ap Einion Lygliw yn cael eu
danfon i Rufain .. .. .. .. 49
Phylip yn ymresymu a'r Derwyddon .. .. .. 113
Pla a elwid Brad-Cyfarfod .. .. .. 57
„ Y Fall Felen .. .. .. .. 155
Plocyn yn dyfod i Frydain .. .. .. 25
Polycarp yn cael ei ferthyru .. .. .. 214
Publius—Ei hanes am berson ein Hiachadwr .. 106
Rhinweddau y prif Gristionogion .. .. 202, 209, 219
Rhodri Mawr yn rhanu Cymru .. .. .. 83
Rhonwen yn gariadferch i Wrtheyrn .. .. .. 62
Rhufeiniaid—Y rhyfel rhyngddynt a'r Brutaniaid .. 15
„ Eu hysgelerder .. .. .. 28
„ Yn goresgyn ynys Môn .. .. 29
„ Yn cuddio eu haur a'u harian .. .. 44
Rhyfel a'r Rhufeiniaid .. .. .. 18, 22
„ A'r Brythwyr .. .. .. .. 48
„ A'r Saeson .. .. .. .. 57, 64
Sabboth—Barn y teidiau .. .. .. 197
Saesonaeg—Amryw eiriau Cymraeg o'r un ystyr a'r Saesonaeg 101
Saeson—Yn cael eu gorchfygu gan Brochfael Ysgythrog .. 166
„ Dan Hengist a Hors yn tirio yn Mrydain .. 60
„ Yn difrodi'r wlad .. .. .. .. 63

TU DAL.

Saeson—Ymladdfa greulon rhyngddynt a'r Brutaniaid .. 64, 75, 79
,, Yn goresgyn y wlad o gylch Llundain .. .. 68
,, Eu creulonder .. .. .. 71
,, Yn cael cwbl feddiant o Loegr .. .. 83
Sefer yn dyfod a llu mawr i Frydain .. .. 35
,, Yn marw yn Nghaerefrog .. .. .. 36
Seren echrydus yn ymddangos i Uthr Bendragon .. 74
Sophronia—Ei diweirdeb .. .. .. .. 211
Sulgwyn—Ystyr y gair .. .. .. 192
Swper yr Arglwydd—Yr amser y'i derbynid .. .. 193
,, Pwy oedd addas i'w dderbyn .. 194
,, Y modd yr oeddid yn ei dderbyn .. 195
Taliesin Ben-beirdd—Ei bennillion .. 13, 76, 80, 161
Testament Newydd—Yn cael ei argraffu yn Gymraeg .. 179
Titus Fespasian yn dyfod a llu mawr yn erbyn Jerusalem .. 107
Trefn y gwasanaeth eglwysig yn yr amser gynt .. 199
Tri bradwr Brydain .. .. .. .. 80
Twrog—Ei hanes eglwysig .. .. .. 135
Tyssylio ap Brochfael Ysgythrog—Ei hanes eglwysig .. 136
Tywysogion Cymru .. .. .. .. 83
Uthr Bendragon yn cael ei goroni .. .. .. 74
,, Y Saeson yn ei wenwyno .. .. 77
Y Ffichtiaid neu y Brithwyr yn lladd y morwynion .. 43
,, Y rhyfel rhyngddynt ar Brutaniaid 44
Ynys Môn—Y Rhufeiniaid yn goresgyn ynys Môn .. 29
Ynys Afallon—Beddrod Arthur .. .. 81
,, Yn anrheg i St. Joseph .. .. .. 114
Yr iaith Gymraeg .. .. .. .. 101

---

ARGRAFFWYD GAN W. SPURRELL, HEOL-Y-BRENIN, CAERFYRDDIN.

BODLEIANA

# LLYFRAU NEWYDD EU CYHOEDDI GAN W. SPURRELL, CAERFYRDDIN.

*s. d.*

## English-Welsh Pronouncing Dictionary.

GEIRIADUR CYNANIAETHOL SAESONAEG A CHYMraeg, yn nghyd â Sylwadau Rhagarweiniol ar Seiniau Egwyddorol yr Iaith Saesonaeg, a Llechres o'i Gwreiddeiriau. GAN WILLIAM SPURRELL. 7s. .. .. .. croen llo hardd 9 0

Yr ydym ni yn ystyried y Geiriadur hwn yn gam mawr yn mlaen mewn llëenyddiaeth Gymreig; ac y mae Mr. Spurrell yn ddiau wedi gwneuthur gwasanaeth mawr i genedl y Cymry.—Mewn gair, y mae hwn yn Eiriadur cyflawn iawn o eiriau, ac yn sicr o gael ei werthfawrogi.—*Yr Haul, Mawrth*, 1851.

## Welsh-English Dictionary and Welsh Grammar.

GEIRIADUR CYMRAEG A SAESONAEG, yn nghyd â Grammadeg o Iaith y Cymry. GAN WILLIAM SPURRELL. 6s. .. .. .. .. .. .. croen llo hardd 8 0

Un o'r fath ag a wna atteb holl ddybenion y werin.—*Haul.*

Mae yn dda genym weled fod yr awdwr yn dilyn yr unig reol gywir yn ei arddygraff; a'i fod yn dangos gwybodaeth helaeth yn egwyddorion ac elfenau cyntefig y Gymraeg.—*Seren Gomer.*

Mae yn llyfr buddiol dros ben i'r Cymro ac i'r Sais. Mae yn hynod lawn o eiriau, a'r gwreiddiau yn cael ei holrhain yn bur dda; a rhoddir terfyniadau lliosog i'r holl eiriau cedyrn trwy y gwaith.—*Y Diwygiwr.*

We are justified in recommending it as a production of no mean merit. The Grammar appears to be a fair and accurate exposition of the principles of the language, written very lucidly and yet concisely, though sufficiently discursive to treat fully on the subject in hand. The Dictionary is well arranged, and in some important particulars is far superior to others of its class.—*Carmarthen Journal.*

The Dictionary, which is copious, is superior to any that we have seen, excepting only the expensive work of Dr. Pughe. The plural terminations of the nouns are indicated, and the definitions are more in accordance with the genius of the English language than in similar works. The Grammar is equalled, as far as utility is concerned, by no other in the language; and is remarkable for the comparisons between the two languages which mark every page.—*Silurian.*

## Grammar of the Welsh Language.

GRAMMADEG O IAITH Y CYMRY. GAN WILLIAM SPURRELL .. .. .. .. .. .. .. 2 0

This is a simpler introduction to the Welsh language than has hitherto appeared in print. It contains the results of observation and reflection during a long course of years.—*The Athenæum.*

*Y Gweithiau uchod mewn Un Gyfrol, croen llo hardd* 16 0

| | s. | d. |
|---|---|---|
| Y MEDDYG RHAD; neu LAW-LYFR IECHYD, yn cynnwys Eglurhad o'r Egwyddorion a reoleiddiant y Cyfansoddiad Dynol; yn nghyd a Chyfarwyddiadau hyrwydd i gadw Iechyd, ac Hyfforddiadau pa fodd i ymddwyn mewn Achosion Dygwyddiadol a Disymmwth .. .. .. .. .. .. | 0 | 8 |
| Y FFERMWR, neu Hyfforddiadau yn Egwyddorion Amaethyddiaeth, yn nghyd a Chyfarwyddiadau er Gwellâu Clefydau Anifeiliaid .. .. .. .. .. .. .. | 1 | 6 |

"Llawer gwirionedd pwysig ynddo."—*Cymro, Medi* 3, 1850.

| | | |
|---|---|---|
| AWYRIAD ANNEDDAU (Ventilation of Dwellings): neu Eglurhad Darluniadol o'r berthynas rhwng Anadlu Awyr Pur a mwynhau Iechyd. Dan Nawdd y Gwir Barchedig Connop Thirlwall, Arglwydd Esgob Tŷ Ddewi. GAN W. SPURRELL. Ail Argraffiad .. .. .. .. .. .. .. | 0 | 2 |

Great good would be effected if a copy were put into the hands of every cottager in the Principality.—*Carmarthen Journal.* Well worthy of prompt purchase and attentive perusal.—*Welshman.* Cynghorem bawb i ddarllen y gwaith yn ystyriol.—*Eglwysydd.* Ceir y llyfr bychan dan sylw yn gymhorth gyda'r goreu a welsom erioed i wneuthur cartref y gweithiwr yn iach a chysurus.—*Cymro.* Teilynga Mr. Spurrell ddiolchgarwch gwresocaf y Cymry am eu hanrhegu a thraethawd mor wir angenrheidiol. —*Amserau.* Cynghorem bawb ag sydd yn cadw tai i brynu y llyfr hwn, a dilyn ei gyfarwyddiadau.—*Seren Gomer.* Teilwng iawn o'r sylw manylaf. —*Diwygiwr.* Pryner a darllener ef yn ddioed.—*Dysgedydd.* Y mae y Cymry dan ddyled i Mr. Spurrell am gyhoeddi llyfryn mor ddefnyddiol, ac am bris mor isel.—*Ymofynydd.*

| | | |
|---|---|---|
| SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF A DONIAU GWYRTHiol. Pregeth gan y Parch. DAVID EVANS, Curad Eglwys Sant Ddewi, Caerfyrddin .. .. .. .. .. .. .. | 0 | 6 |
| THE ADVANTAGES OF LITERARY AND SCIENTIFIC Institutions for all Classes. A Lecture Delivered at the Town Hall, Carmarthen, on December 11th, 1849. By CONNOP THIRLWALL, D.D., Lord Bishop of Saint David's .. .. | 1 | 0 |
| SPURRELL'S ALMANACK FOR 100 YEARS; showing the Day of the Week, on which any Day falls, in any Month, in any Year of the present Century. 3d. Free by Post .. | 0 | 5 |
| ARWEINYDD I ADDYSG, yn nghyd â Chatechism yr Eglwys, neu Gatechism Doctor Watts .. .. .. .. .. | 0 | 6 |
| ARWEINYDD I ADDYSG .. .. .. .. .. | 0 | 3 |
| LLYFR I DDECHREU DYSGU DARLLEN .. .. | 0 | 1 |
| RHODD MAM I'W PHLANT .. .. .. .. | 0 | 1 |
| THE RAIL-ROAD TO LEARNING .. .. .. | 0 | 4 |
| SELECT HYMNS FOR SUNDAY SCHOOLS .. .. | 0 | 1½ |
| THE CHILD'S BOOK TO BEGIN WITH .. .. .. | 0 | 1 |
| THE PARENT'S BEST GIFT .. .. .. .. | 0 | 1 |